

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Golygiad ac astudiaeth destunol o'r llyfr cyfraith yn LIGC, llawysgrif Peniarth 164 (H), ynghyd a'r copiau ohoni yn llawysgrifau Peniarth 278 a Llanstephan 121

Elias, Gwenno Angharad

Award date:
2007

Awarding institution:
University of Wales, Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Golygiad ac Astudiaeth Destunol o'r
Llyfr Cyfraith yn LIGC, Llawysgrif
Peniarth 164 (H), ynghyd â'r copïau
ohoni yn Llawysgrifau Peniarth 278 a
Llanstephan 121

gan

Gwenno Angharad Elias

Traethawd a gyflwynir ar gyfer gradd Ph.D.,
Prifysgol Cymru, Bangor

Gorfennaf 2007

CRYNODEB

Y mae dwy nod i'r traethawd hwn: 1) cyflwyno golygiad o'r fersiwn mwyaf cyflawn o'r testun cyfraith yn llawysgrif Peniarth 164, sef y copi ohono yn llawysgrif Peniarth 278; 2) trafod ffynonellau'r testun trwy ganolbwyntio ar gynghawsedd a thrioedd. Ni thrafodir egwyddorion a phrosesau cyfreithiol.

Disgrifir pob llawysgrif yn unigol, sonnir am rai nodweddion orgraffyddol a ieithyddol, a thrafodir palaeograffeg y tair llawysgrif yn rhan gyntaf y rhagymadrodd. Yn yr ail ran cyflwynir astudiaeth destunol. Rhoddir sylw i ddau *genre* cyfreithiol arbennig. Ymdrinnir â chynghawsedd y testun mewn perthynas â chynghawsedd Llyfr Iorwerth, Llyfr Cynghawsedd a Llyfr IX *Ancient Laws and Institutes of Wales* (1841). Sonnir ychydig am y gynghawsedd sy'n unigryw i'r testun. Eir ymlaen i drafod trioedd: sut y bu awdur y testun yn addasu trioedd o ffynonellau eraill ac yn cyfansoddi trioedd newydd. Yn y drydedd ran trafodir awdur y testun gan grynhoi yr hyn a ddysgwyd am ei gefndir ac am ei ffynonellau. Gosodir ei ddefnydd o drioedd a chynghawsedd mewn cyd-destun cyfreithiol a hanesyddol. Yn olaf mentrir ystyried ble, pryd, gan bwy, a pham y cyfansoddiwyd y testun.

Cyflwynir golygiad o destun Peniarth 278 gyda darlleniadau amrywiol o'r copi cynharach yn llawysgrif Llanstephan 121 yn ogystal ag o'r darnau darllenadwy ym Mheniarth 164.

Prif amcan y nodiadau yw dangos y gyfatebiaeth rhwng y testun a thestunau cyhoeddedig eraill. Dyfynnir y testunau hynny yn helaeth er mwyn hwyluso'r gwaith cymharu. Yn olaf cyflwynir copi o'r darnau darllenadwy o Beniarth 164.

Fel atodiad cynigir tablau yn dangos tudaleniad Peniarth 164 a'r tudalennau cyfatebol yn Llanstephan 121 a Pheniarth 278. Lluniwyd tabl yn dangos y berthynas rhwng y testun a llawysgrif Z. Dengys y conspectws y gyfatebiaeth rhwng y testun a'r testunau cyhoeddedig eraill.

CYDNABOD

Dymunaf ddiolch i Huw Pryce am ei waith caled yn arolygu'r traethawd hwn. Rhaid cydnabod fy nyled i Morfydd Owen, ni fyddai'r traethawd byth wedi'i gychwyn oni bai am ei chymorth a'i hanogaeth.

Diolch i Simon Rodway ac Iwan Wmffre am ateb fy nghwestiynau ar Gymraeg Canol. Diolch hefyd i Daniel Huws a Maredudd ap Huw am eu barn ar y llawysgrifau, ac i Dafydd Jenkins am adael i mi weld conspectws llawysgrif Z. Dylwn hefyd gydnabod fy nyled i Anna Timby a fu'n fodlon i mi weld ei gwaith ar Beniarth 278. Diolch hefyd i Marian Roberts am roi o'i hamser i ddarllen dros y gwaith.

Diolch i mam a Niall am fod yn gefn drwy'r cyfan.

CYNNWYS

Crynodeb		i
Cydnabod		ii
Datganiadau		iii
Cynnwys		iv
Byrfoddau		v
RHAGYMDRODD:		
	Cyflwyniad	1
Y Llawysgrifau	I Peniarth 164	2-15
	II Llanstephan 121	15-20
	III Peniarth 278	21-24
Y Cynnwys	<u>I Cynghawsedd</u>	25-60
	i Cynghawsedd H a chynghawsedd Ior	28-30
	ii Cynghawsedd H a Llyfr Cynghawsedd	31-41
	iii Cynghawsedd <i>AL IX</i>	41-56
	iv Cynghawsedd unigryw	56-60
	<u>II Trioedd</u>	60-85
	i Trioedd o ffynonellau hysbys	61-69
	ii Dyfeisgarwech yr awdur (cyfansoddi trioedd newydd)	70-85
Awdur y testun	I Ei ysgrifen	86-88
	II Cefndir Lladin	88-89
	III Ei ffynonellau	90-99
	IV Natur y testun	99-105
	V <i>Locus, tempus, persona, causa scribendi</i>	106-09
Y TESTUN	Rhestr cynnwys	110-138
	Methodoleg (Dull y golygu)	139
	Golygiad o destun Llawysgrif Peniarth 278	140-368
NODIADAU		369-537
LLYFRYDDIAETH		538-556
ATODIAD 1	Y darnau darllenadwy o Beniarth 164	557-628
ATODIAD 2	Tablau a chonspectws	629-661

BYRFODDAU

A. LLAWYSGRIFAU CYFRAITH HYWEL

Defnyddir y sigla a ddefnyddiwyd gan Aneurin Owen yn *Ancient Laws and Institutes of Wales* gyda rhai ychwanegiadau, fel Mk, Lew a Tim

IORWERTH

A	LIGC Peniarth 29 (Y Llyfr Du)	c. 1250	Arfon
B	B.L. Cotton Titus D.II	s. xiii med	?Llanelwy
C	B.L. Cotton Caligulan A.III	c. 1250	?Valle Crucis
D	LIGC Peniarth 32	c. 1400	?Cwm Tawe, un o lawiau Llyfr Coch Hergest
E	B.L. Additional 14931	s. xiii	Arfon? Llanelwy?
F	LIGC Peniarth 34	s. xv	
G	LIGC Peniarth 35	s. xiv	?Brycheiniog
K	LIGC Peniarth 40	s. xv	?Cefn Llys, llaw Lewis Glyn Cothi
Col	LIGC Peniarth 30	c. 1300	Gogledd Cymru, un o lawiau y Llyfr Du
Lew	LIGC Peniarth 39	s. xv	Llanfynydd, Dyfed

BELGYWRYD

I	LIGC Peniarth 38	c. 1400	Defynnog?
J	Jesus College Oxford 57	c. 1400	Cwm Tawe?, llaw Hywel Fychan
L	B.L. Cotton Titus D IX	s. xiv	Dyffryn Aeron?
M	LIGC Peniarth 33	s. xv	De Cymru
N	LIGC Peniarth 36B	c. 1300	Dinefwr, Gwilym Wasta
O	LIGC Peniarth 36A	c. 1300	Dinefwr, Gwilym Wasta
P	LIGC Peniarth 259A	s. xv	Llaw debyg i'r Greal yn Mostyn 184
Q	LIGC Wynnstay 36	s. xv	Cantref Bychan, Llandeilo Fawr, Yr un llaw â Historia Peniarth 263
R	LIGC Peniarth 31	s. xiv	De-orllewin Cymru?
S	B.L. Add. 22356	s. xv	Cwm Teifi, yr un llaw â Tim
T	B.L. Harley 958	s. xiv	?Dyffryn Teifi, llaw debyg i Peniarth 4
Tr	Caergrawnt, Coleg y Drindod O.vii.I	c. 1300	Dinefwr, Gwilym Wasta
Bost	Boston Cymraeg MS	s.xiv/xv	De Cymru
Tim	LIGC Llanstephan 116	s. xv	Llanwenog, Ceredigion
Llan	LIGC Peniarth 29	s. xv/xvi	
ε	LIGC Peniarth 258	s. xv	

CYFNERTH

U	LIGC Peniarth 37	s. xiv	Yr un llaw â G
---	------------------	--------	----------------

V	B.L. Harleian MS 4353	s. xiv	Yr un llaw â Peniarth 2 a W
W	B.L. Cotton Cleopatra A.XIV	s. xiv	De-ddwyrain Cymru, Caerdydd
X	B.L. Cotton Cleopatra B.V.	s. xiv	?Valle Crucis
Y	LIGC 20143	s. xiv	
Z	LIGC Peniarth 259B	s. xvi	Yn llaw Richard Langford
Mk	Bodorgan MS	s. xiv	

AMRYWIOL

H	LIGC Peniarth 164	s. xiv-xv	?Gogledd-ddwyrain Cymru
'M'	LIGC Peniarth 36C	s. xv a xvi	?Gogledd-ddwyrain Cymru
Ā	LIGC Peniarth 175	s. xv	
Ð	LIGC Peniarth 166	c. 1500	Yn llaw John Dee?

Y TESTUNAU LLADIN

Lladin A	LIGC Peniarth 28	s. xiii med	
Lladin B	B.L. Cotton Vespasian E.XI	s. xiii med	Gwynedd
Lladin C	B.L. Harleian 1796	s. xiii med	
Lladin D	Bodleian Rawlinson C821	c. 1300	
Lladin E	Caergrawnt, Coleg yr Iesu 454	s. xv	Dinbych
E (2)	Rhydychen, Coleg Merton 323	s. xvi	Yn llaw John Dee

B. BYRFODDAU ERAILL

- AL* *Ancient Laws and Institutes of Wales*, gol. Aneurin Owen (2 gyf., London, 1841).
- BBCS* *Bulletin of the Board of Celtic Studies*.
- BL* British Library.
- CBT* *Cyfres Beirdd y Tywysogyon*.
- CHC* *Cylchgrawn Hanes Cymru*.
- CLP* D. Jenkins (gol.), *Celtic Law Papers: Introductory to Welsh Medieval Law and Government* (Brussels, 1973).
- CLIGC* *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*.
- CMCS* *Cambrian Medieval Celtic Studies*.
- Col* *Llyfr Colan*, gol. D. Jenkins (Cardiff, 1963).
- EIWK* T. M. Charles-Edwards, *Early Irish and Welsh Kinship* (Oxford, 1993).
- GMWL* T. Lewis, *Glossary of Mediaeval Welsh Law* (Manchester, 1913).
- GPC* *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950-).
- HW* J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (2 gyf., London, 1911).
- LAL* T. M. Charles-Edwards, M. E. Owen a D. B. Walters (goln.), *Lawyers and Laymen* (Cardiff, 1986).
- LTMW* D. Jenkins, *The Laws of Hywel Dda: Law Texts from Medieval Wales* (Llandysul, 1986).
- LTWL* *The Latin Texts of the Welsh Laws*, gol. H. D. Emanuel (Cardiff, 1967).
- LIB* *Cyfreithiau Hywel Dda yn ô Llyfr Blegywryd (Dull Dyfed)*, goln. Stephen J. Williams a J. Enoch Powell (Caerdydd, 1942).
- LIGC* Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- LII* *Llyfr Iorwerth*, gol. A. Rh. Wiliam (Cardiff, 1960).
- MontCol* *The Montgomeryshire Collections*.
- MWM* D. Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff, 2000).

- NLC* H. Pryce, *Native Law and the Church in Medieval Wales* (Oxford, 1993).
- PKM* *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. I. Williams (2 arg., Caerdydd, 1951).
- RMWL* *Report on Manuscripts in the Welsh Language: Historical Manuscripts Commission*, gol. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898-1910).
- SC* *Studia Celtica*
- THSC* *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*.
- TYP* *Trioedd Ynys Prydein*, gol. R. Bromwich (2 arg., Cardiff, 1978).
- WKC* T. M. Charles-Edwards, Morfydd E. Owen a Paul Russell (goln.), *The Welsh King and His Court* (Cardiff, 2000).
- WLW* D. Jenkins a M. E. Owen (goln.), *The Welsh Law of Women* (Cardiff, 1980).
- WML* *Welsh Medieval Law*, gol. A. W. Wade-Evans (Oxford, 1909).
- WMLT* S. E. Roberts, 'Welsh medieval legal triads' (traethawd D. Phil., Rhydychen, 2002).
- YB* *Ysgrifau Beirniadol*.

Y RHAGYMDRODD

Y mae'r testun a drafodir yn y traethawd hwn, sef testun llawysgrif Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LIGC) Peniarth 164 (H) a'r copïau ohono, yn unigryw o fewn traddodiad llawysgrifol cyfraith frodorol Gymreig y Cyfnod Canol. Ceir yn y testun ddeunydd sy'n wahanol i gynnwys y llawysgrifau cyfraith eraill. Y mae rhannau helaeth o'r llawysgrif yn annarllenadwy oherwydd y staen bustl¹ a roddwyd arni a chollwyd strwythur gwreiddiol y llawysgrif. Yn ffodus erys copi o destun H yn llaw John Jones, Gellilyfdy yn llawysgrif Llanstephan 121, tt. 97-535, sy'n cynnwys testun H ynghyd â darn o destun llawysgrif Peniarth 29 neu Y Llyfr Du o'r Waun. Nid yw adysgrifiad John Jones yn dilyn trefn wreiddiol H. Er hynny, nodir cyfeiriadau at rifau ffolia H ar ymyl y dalennau, e.e. ffolio 52 ar t. 97 a ffolio 53 ar t. 104. Ar ochr chwith ambell ddalen yn H ceir rhifau ffolia hŷn fyth, ond ni chopïwyd y rhain gan John Jones. Copïwyd cynnwys Llanstephan 121 gan Robert Vaughan yn llawysgrif Peniarth 278. Defnyddiwyd copi Robert Vaughan gan Aneurin Owen yn sail i Lyfr XIV ei *Ancient Laws (AL)* lle yr atgynhyrchwyd darnau helaeth o'r testun ond nid y testun cyfan. Ceir copi arall anghyflawn o Lanstephan 121 yn llawysgrif Llanstephan 73, llawysgrif yn llaw Moses Williams.² Ni orffennodd Moses Williams ei adysgrifiad ac ni thrafodir y llawysgrif yn fanwl yn y traethawd hwn.

Amcan y traethawd yw cyflwyno golygiad o'r fersiwn mwyaf cyflawn o'r testun ac ail-greu testun gwreiddiol y llawysgrif. Gan fod H mewn cyflwr truenus ac oherwydd nodweddion orgraffyddol hynod Llanstephan 121 a bod darnau helaeth o'r llawysgrif honno bellach yn annarllenadwy testun llawysgrif Peniarth 278 a gyflwynir yn y traethawd hwn, gydag atodiad o ddarnau darllenadwy H. Nid yw'r cyfan o destun Peniarth 278 wedi ei olygu yn *AL*, XIV ac y mae rhannau o'r testun sydd â chyfatebiaeth iddynt mewn llawysgrifau eraill, neu sy'n ddiffygiol, wedi eu hepgor. Bydd y traethawd hwn yn adeiladu ar yr hyn a wnaeth Aneurin Owen yn *AL*, XIV drwy olygu'r testun cyfan yn drwyadl; a cheisir dangos y berthynas rhwng y testun a gweddill y llawysgrifau cyfraith.

¹ Cf. L. C. Hector, *The Handwriting of English Documents* (2 arg., London, 1966), tt. 19-20 am y defnydd o fustl ('gall') mewn inc: 'The galls are the small spherical swellings, often called oak-apples, produced on the twigs of the oak-tree by the activities of the parasitic gall-fly ...'

Y LLAWYSGRIFAU

I) PENIARTH 164 (H)

Y mae'r llawysgrif hon yn un na chafodd lawer o sylw yn y gorffennol. Yng ngeiriau Aneurin Owen: 'Being, unlike the generality of Welsh manuscripts, written on parchment of an inferior quality, and badly preserved, it is so far decayed as not to admit at present the possibility of any further reference.'³ Ac meddai Gwenogvryn Evans: 'It is fortunate under the circumstances that the text is one of the later numerous compilations which have no apparent value . . .'⁴ Priodolwyd H i'r unfed ganrif ar bymtheg gan Aneurin Owen⁵ ac i ddechrau'r bymthegfed ganrif gan Gwenogvryn Evans.⁶ Bellach, ar sail balaeograffyddol, dyddiwyd H i ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg gan Daniel Huws.⁷

i) Disgrifiad o'r llawysgrif

Ysgrifennwyd y testun ar 81 ffolio, neu 162 tudalen, o femrwn gwael.⁸ Ceir nifer o rwygiadau a mân dyllau yn y memrwn: gwelir y mwyaf o'r rhain ar tt. 81-82,⁹ gyda'r ysgrifen yn llifo bob ochr i'r tyllau. Mae maint y dalennau yn amrywiol gyda'r hyd yn amrywio rhwng 15.2 cm a 17.4 cm tra bo'r lled yn amrywio rhwng 10.6 cm a 13.5 cm. Nid yw dalennau'r llawysgrif wedi eu tocio ac felly fe ymddengys yn flêr. Ceir darn bychan o femrwn ar tt. 57-58 nad ydyw wedi ei rifo yn y ffoliad sy'n mesur 6.3 cm o hyd a 8.3 cm o led.¹⁰ Mae rhai dalennau wedi eu gwneud o ddau ddarn o femrwn wedi

² Gw. *RMWL*, t. 558.

³ *AL*, I, t. xxix.

⁴ *RMWL*, t. 956.

⁵ *AL*, I, t. xxix.

⁶ *RMWL*, t. 956: gw. hefyd Timothy Lewis, 'A bibliography of the laws of Hywel Dda', *Aberystwyth Studies*, 10 (1928), t. 164; *LII*, t. xx.

⁷ *MWM*, tt. 46, 60. Trafodir dyddiad y llawysgrif yn fanylach isod, t. 106.

⁸ Defnyddir y gair tudalen i gyfeirio at un ochr i'r ddalen.

⁹ Achoswyd y tyllau gan bryfed yn bwydo ar yr anifail. Efallai fod defnyddio memrwn o'r ansawdd hwn yn adlewyrchu cyfnod economaidd gwael: cf. Hector, *The Handwriting of English Documents*, t. 16.

¹⁰ Efallai fod hyn yn ategu theori J. E. Powell yn 'Floating sections in the laws of Howell', *BBCS*, 9 (1937-39), 28: 'Both the length of the floating sections themselves and the wide divergences of position show that they were originally added not in the margins of the pages, but on separate leaves of parchment. They would then be worked into the text by the next copier either at random or in the place where he thought them most relevant.' Cf. hefyd *MWM*, tt. 31-32. Dichon fod y darn hwn yn dwyn tebygrwydd i'r arfer o ychwanegu dalennau (a elwir yn *scedula*, llu. *scedulae* – 'schedule(s)') yn

eu pwytho ynghyd, e.e. tt. 21-22, 63-64, 113-114, 147-148, 153-154. Mae'r llawysgrif yn un holograff gyda'r ysgrifen yn llenwi bron pob modfedd o'r dalennau gan adael nemor ddim ymyl iddynt. Ymddengys rhai tudalennau yn llawnach na'i gilydd gyda nifer y llinellau ar bob tudalen yn amrywio rhwng 23 a 45, ac eithrio tt. 57-58 sy'n cynnwys oddeutu 14 llinell. Ceir amrywiaeth yn yr ysgrifen sy'n awgrymu bod gwahanol ddarnau o'r testun wedi eu hysgrifennu ar wahanol adegau. Ar brydiau gall yr ysgrifen fod yn gam gan ddilyn toriad y memrwn, e.e. tt. 3-4. Mae'r ysgrifen yn golofnog ar rai o'r darnau sgrap o femrwn sydd wedi eu pwytho ynghyd, e.e. tt. 113-114. Ni welir unrhyw linellu. Gwelir olion y rhwymiad gwreiddiol ar tt. 17-18. Rywbryd cyn 1619 gwyddom i H gael ei rhwymo gyda PheniARTH 29,¹¹ sy'n llawysgrif o ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg, ac iddi aros felly tan ar ôl 1869.¹² Mae nodyn yn llaw Thomas Wiliems yn y Llyfr Du (t. 52) sy'n darllen: 'Myui Tho: Wiliem physycwr a dharlheueis y lhiuer hwnn ag ai heglureis yn hyllythr, oedran Christ Jesu ynol y enawd .1608.'¹³ Mae llawer o *marginalia* y Llyfr Du yn llaw Thomas Wiliems ond ni cheir *marginalia* ganddo yn H. Efallai fod hyn yn awgrymu mai ar ôl 1608 a chyn 1619 y rhwymwyd H a'r Llyfr Du ynghyd; neu efallai nad oedd gan Thomas Wiliems ddiddordeb yn H.

ii) Daleniad

Mae pedwar daleniad ar y llawysgrif.¹⁴ Lleolir rhifau y daleniad cynharaf yng nghornel uchaf chwith rhai tudalennau *verso* mewn rhifau Rhufeinig.¹⁵ Anwybyddwyd y rhain gan John Jones yn ei adysgrifiad o H. Ceir daleniad diweddarach yng nghornel dde uchaf y tudalennau *recto* sy'n dechrau ar rif 52. Efallai fod y rhif hwn yn llaw John Jones: copïodd John Jones ddarn o'r Llyfr Du (ff. 1-51) cyn dechrau copïo testun H. Yng nghornel chwith isaf y tudalennau recto dechreuir

Saesneg) i femrynau unigol mewn rholiau er mwyn cynnwys deunydd pellach sydd efallai'n ategu'r awgrym mai rhywun oedd yn gyfarwydd â rholiau (llys) oedd ysgrifydd H. Diolch i Huw Pryce am dynnu fy sylw at hyn.

¹¹ Copïodd John Jones ran o'r Llyfr Du a H ym 1619: gw. isod, t. 15-16. Am Beniarth 29 gw. M. E. Harris, *A Bibliography of the Welsh Law Manuscripts: Pamffledi Cyfraith Hywel* (Aberystwyth, 2006), tt. 1-2.

¹² Daniel Huws, gohebiaeth bersonol.

¹³ Gw. *Col*, t. xvii, n. 5; *RMWL*, t. 359.

¹⁴ Gw. tabl 1 ar ddiwedd y traethawd.

¹⁵ Mae hyn yn eithriadol gan fod daleniad mewn llawysgrifau fel rheol i'w gweld ar yr ochr *recto*.

rhifo'r dalennau o'r rhif 1 hyd at 81. Rhifir y tudalennau unigol yng nghanol y tudalennau *recto* (1-162) gyda rhifau sy'n cyfateb i dudaleniad LIGC. Yn ystod y 40au ailrwymwyd y llawysgrif. Torrwyd ei dalennau yn ddalennau unigol fel nad oes modd gweld na'r plygion na'r strwythur gwreiddiol.

iii) Orgraff ac iaith

a) Llafariaid

Orgraff Cymraeg Canol sydd i H: gw. *GMW* §§1-17. Fel rheol cynrychiolir [a] gan *a*. Mewn rhai enghreifftiau dyblir yr *a*, e.e. *rydhaa*, *Abaat*, *sarhaa*. Mewn ambell achos defnyddir *e* am [a], e.e. *echaws*, *egoret*.¹⁶ Cynrychiolir [e] ac [o] gan *e* ac *o*. Defnyddir *i* ac *y* am [i] ac weithiau *j*, e.e. *jeuaf*, *tir*, *nyt*. Cynrychiolir [ü] gan *u*, *v*, a *ö*, e.e. *ön*, *un*, *kystadlö*, *talü*, *ameöo*, *dywedut*. Cynrychiolir [u] gan *w* ac *u*, e.e. *gwr*, *dyweit*, *thaulbwrd*, *braut*. Ni welaf enghraifft o *ö* am *w*. Defnyddir *y* i gynrychioli [ʝ] ac [ə].¹⁷

b) Deuseiniaid

Cynrychiolir [aʝ] gan *ae*, e.e. *kaeth*, *ardyrchuael*, *dystyolaeth* a.y.y.b. Ar adegau defnyddir [e] yn unig, e.e. *gael*. Defnyddir hefyd y ffurf *ay* am [aʝ], e.e. *chayl*, *argay*, *wayt*, *dayar*. Defnyddir *aw* am [au], e.e. *breinyawl*, *kyfreithyawl*. Ar brydiau defnyddir *o* am [au] mewn sillafau terfynol: cf. *keinyawc* a *keinyoc*, *wryoc* a *wryawc*, *veichyawc* a *veichyoc*. Yn y cyfnod ar ôl c. 1300 gwelwyd monoptoneiddio'r ddeusain [au] > *o* pryd nad oedd o dan bwysau'r acen.¹⁸ Serch hynny, prin yw'r enghreifftiau o *o* am

¹⁶ Mewn Cymraeg Modern mae'r defnydd o *e* am [a], yn arbennig mewn sillafau terfynol, yn nodweddiadol o dafodiaith gogledd-ddwyrain Cymru, yn enwedig yr ardal o amgylch tref Dinbych: gw. Beth Thomas, 'Linguistic and non-linguistic boundaries in Clwyd', *Papurau Gwaith Ieithyddol Caerdydd*, 1 (1981), 60-71.

¹⁷ Am y datblygiad hwn gw. T. M. Charles-Edwards a P. Russell, 'The Hendregadredd manuscript and the orthography and phonology of Welsh in the early fourteenth century', *CLIGC*, 28 (1993-94), 431.

¹⁸ Gohebiaeth bersonol gydag Iwan Wmffre. Mae Jackson yn dyddio'r newid hwn i ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg: gw. Kenneth Jackson, *Language and History in Early Britain* (Edinburgh, 1953), tt. 296-99, 699. Cf. Iwan Wmffre, *Languages and Place-names in Wales: The Evidence of Toponymy in Cardiganshire* (Cardiff, 2003), t. 78, n. 1.

[au] mewn sillafau terfynol diacen mewn testunau hyd at 1500.¹⁹ Ceir enghraifft o hyn yn Llyfr Gwyn Rhydderch (c.1300-25): *achos*.²⁰ Mae dau air lle bo'r [au] wedi troi'n *o* yn Llanstephan 4 c. 1400.²¹ Digwydd *agreiffio* yn Llyfr Coch Hergest c. 1400.²² Ymddengys *o* am [au] ddwywaith yn Llanstephan 2, sef llawysgrif sy'n perthyn i ail hanner y bymthegfed ganrif.²³ Ar y llaw arall dangosodd Alexander Falileyev fod llawysgrif Hafod 8 (neu Llyfr Siôn Morfol) sy'n perthyn i'r unfed ganrif ar bymtheg yn defnyddio *o* ac *aw* fel ei gilydd mewn sillafau terfynol, yn debyg i H.²⁴ Defnyddir *eu* am [eü], e.e. *deu, gospeu, deugeint*; ond fe ymddengys enghreifftiau o'r ffurf modern *au* hefyd yn y testun, e.e. *aur, dau*. Cynrychiolir [eu] gan *ew*, e.e. *mewn, dewisso*. Cynrychiolir [ei] gan *ei*, e.e. *wreictra, kyfreithyawl, meibyon*. Datblygodd *ei* yn *ai* mewn Cymraeg Modern a gwelir y ffurf hon hefyd yn H: cf. *braint* a *breint, ceiff* a *gaiff, reit* a *rait, nei* a *nai, anifeil* ac *anifail, kyfreith* a *kyfraith*. Fel rheol mewn testunau Cymraeg Canol defnyddir *ei* am [ei] a phrin yw'r enghreifftiau o *ai* am [ei] mewn Cymraeg Canol diweddar.²⁵ Defnyddir *ai* yn unig yn Hafod 8 (16g).²⁶ Gall hyn awgrymu bod H yn perthyn i'r bymthegfed ganrif.²⁷ Dynodir [ei] gan *ey*, e.e. *mechdeyrn*. Cynrychiolir [oi] gan *oe*, e.e. *troet, poen* a cheir ambell enghraifft o *oy* am [oi], e.e. *troydyoc, voynt*. Defnyddir *oi* am [oi], e.e. *roi, lloi, paratoi*. Dynodir [iu] gan *yw*, e.e. *ryw, dyweit*. Cynrychiolir [ui] gan *wy*, e.e. *gwyd, arglwyd*. O edrych ar y deuseiniaid mae'r defnydd o *o* am [au] ac /ai, au/ (</ei, eu/) yn awgrymu bod y testun yn dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg neu o'r bymthegfed ganrif.

c) Cytseiniaid

Defnyddir *b* ac weithiau *p* am /-b/, e.e. *mab, attep*. Cynrychiolir /k/ gan *c* a *k* fel ei gilydd (heb ddilyn patrwm seinegol), e.e. *keitweit, celein*. Cynrychiolir /χ/ gan *ch*.

¹⁹ Dywedodd John Morris-Jones fod y gogynfeirdd yn dueddol i beidio â mono-toneiddio'r deuseiniaid yn y sillafau diweddol er mwyn yr odl: John Morris-Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913), t. 95.

²⁰ *GMW*, t. 3; *PKM*, 5/27.

²¹ *GMW*, t. 3: *achos* a *gweirglod*. Gw. hefyd Ifor Williams, *Chwedlau Odo* (Wrecsam, 1926), 12/13, 17/16.

²² *GMW*, t. 3; gw. hefyd Henry Lewis, *Chwedleu Seith Doethon Rufein* (Wrecsam, 1925), 71/830.

²³ *GMW*, t. 3: *diwarnot*. Gw. hefyd Stephen J. Williams, *Ffordd y Brawd Odrig* (Caerdydd, 1929), 39/21, 46/27.

²⁴ Gw. Alexander Falileyev (gol.), *Welsh Walter of Henley* (Dublin, 2006), t. lxiii.

²⁵ *GMW*, t. 4: digwydda *kain* yn J. Gwenogvryn Evans, *The Poetry in the Red Book of Hergest* (Llanbedrog, 1911), 1194/8; a *tybassai* yn *Ffordd y Brawd Odrig*, t. 38/13.

²⁶ Falileyev (gol.), *Welsh Walter of Henley*, t. lxxv.

Cynrychiolir /d/ gan *d* a *t*, e.e. *atran*, *gwadu*. Yn debyg i Lyfr Coch Hergest (tua 1400) a Llyfr yr Ancr (1346) defnyddir *t* am /-d/, e.e. *brawt*, *tat*. Gall *f*, *u*, *o* ac weithiau *w* gynrychioli [v], e.e. *kyfyrderw*, *hanuot*, *byd*, *Dinewr*.²⁸ Defnyddir *ff* i gynrychioli [f] a'r treigladd *ph*, e.e. *fferthyn*. Cynrychiolir /g/ gan *g* ar ddechrau geiriau. Defnyddir *c* am /-g/, e.e. *golwc*, *diffyc* fel yn y Llyfr Gwyn (c.1300-25) a'r Llyfr Coch: yr unig eithriad yw *marchog*. Fel rheol defnyddir *ng* am [ŋ]. Cynrychiolir [l], [λ], /m/, /n/, /p/, /r/, /s/, /t/, θ, gan *l*, *ll*, *m*, *n*, *p*, *r*, *s*, *t*, *th*. Weithiau dyblir y llythrennau naill ai yn ôl tarddiad neu/ac ynganiad, e.e. *penn*, *gwyppo*, *charcherrir*, *gossot*, *attep*.

Defnyddir *d* ac *dd* am /ð/. Mae > 300 o enghreifftiau o *dd* am /ð/ yn H. Fe'i defnyddir ar ddechrau, yng nghanol, ac ar ddiwedd geiriau: *dda*, *roddaf*, *gordd*. Ni ddaeth yr arwydd hwn yn gyffredin tan y bymthegfed ganrif²⁹ ac roedd ei ddefnydd yn eithriad yn y bedwaredd ganrif ar ddeg,³⁰ sy'n gwneud H yn anghyffredin yn hyn o beth. Er hynny, gellid olrhain y defnydd o *dd* am /ð/ i gyfnod tipyn cynharach. Gwnaed defnydd o'r arwydd *dd* mewn darnau o farwnad Llywelyn ap Iorwerth gan Dafydd Benfras a gopiwyd ar waelod rhai o ddalenau y Llyfr Du o'r Waun.³¹ Roedd *dd* hefyd yn rhan o orgraff llaw *a* llawysgrif Hendregadredd c. 1300, e.e. *gredlyf ddiletyf ddilesc* (f. 26r),³² ond ni ddefnyddid *dd* ar ddiwedd geiriau. Mae'n debyg i law *a* godi'r arwydd hwn o'i gynseiliau wrth gopïo rhai o gerddi Llygad Gŵr a Bleddyn Fardd.³³ Roedd yr ail haen o lawiau (diweddarach) a fu'n gweithio ar Hendregadredd hefyd yn defnyddio *dd* ond eto nid ar ddiwedd geiriau,³⁴ tra bo nifer fawr o lawiau haen tri, sy'n dyddio o ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn defnyddio *dd* yn fewnol ac ar ddiwedd geiriau.³⁵ Awgrymodd T. M. Charles-Edwards a Paul Russell fod *dd* wedi ei dyfeisio fel arwydd arbennig er mwyn ysgrifennu barddoniaeth:³⁶ pe gellid derbyn yr awgrym hwn, tybed ai datblygiad a oedd yn gysylltiedig ag athrawiaeth farddol ogleddol a drosglwyddwyd drwy waith beirdd fel Llygad Gŵr i

²⁷ Er bod natur y llawysgrifen yn awgrymu'n wahanol.

²⁸ Am y defnydd o *w* fel [v] gw. *GMW*, t. 9.

²⁹ *Ibid.*, t. 22.

³⁰ *GMW*, t. 7.

³¹ Charles-Edwards a Russell, 'The Hendregadredd manuscript', 433.

³² *Ibid.*, 432.

³³ *Ibid.* Roedd y ddau hyn o bosibl yn ddisgyblion barddol i Dafydd Benfras: gw. *CBT*, VII, tt. 215, 522.

³⁴ Charles-Edwards a Russell, 'The Hendregadredd manuscript', 442.

³⁵ *Ibid.*, 446.

³⁶ *Ibid.*, 433.

Ystrad Fflur oedd y defnydd o *dd*?³⁷ Honnai Charles-Edwards a Paul Russell nad oes enghreifftiau o *dd* mewn testunau rhyddiaith o'r drydedd ganrif ar ddeg, nac o'r bedwaredd ganrif ar ddeg.³⁸ Eithr tynn Simon Evans sylw at nifer o enghreifftiau o *dd* yn y copi o *Ystoria Bown de Hamtwn*, sef cyfieithiad o destun Ffrangeg *La Geste de Boun de Hamtoun* a geir yn Llyfr Gwyn Rhydderch.³⁹ Mae orgraff *Ystoria Bown de Hamtwn* yn eithriadol a cheir tua 100 o enghreifftiau o *dd* am /ð/ ar ddechrau ac yng nghanol geiriau yn yr *Ystoria*, ond nid ar ddiwedd geiriau.⁴⁰ Byddai sylwi ar hyn wedi cryfhau eu dadl dros gysylltu datblygiad *dd* ag Ystrad Fflur gan mai cynnyrch Ystrad Fflur oedd Llyfr Gwyn Rhydderch, fel Hendregadredd, eithr yn yr *Ystoria* yn unig y digwydd *dd* ac nid yng ngweddill y Llyfr Gwyn.⁴¹ Awgrymodd Morgan Watkin fod cyfieithydd yr *Ystoria* yn hanfod naill ai o Went neu o Forgannwg.⁴² Mae testun Llyfr Ancr Llanddewibrefi (1346) hefyd yn arddel *dd* am /ð/;⁴³ testun sydd yn yr un llaw â llaw B Llyfr Gwyn Rhydderch (sydd unwaith eto'n awgrymu cysylltiad ag Ystrad Fflur).⁴⁴ Serch hynny, roedd orgraff Cymraeg Canol yn anwadal ac mae'n debyg na ddylid rhoi gormod o bwyslais ar orgraff fel modd i leoli nac i ddyddio testun.⁴⁵ Cymharol brin yw'r enghreifftiau o *dd* am /ð/ yn y testunau uchod tra bo dros 300 o enghreifftiau yn H. Fe'i harferid yn aml ar ddiwedd geiriau yn H yn wahanol i'r testunau uchod. Digwydda *dd* hefyd yn llsgr. S (15g) ar ddechrau, canol, a diwedd geiriau er mai *d* yw'r symbol arferol ym mhob safle.⁴⁶

³⁷ Cf. P. Russell, 'Scribal (in)competence in thirteenth-century north Wales', 170: 'We may instance the use of *dd* for /ð/ which was present in the exemplar of some parts of the Hendregadredd MS and was enthusiastically taken up by scribes of the second stratum; this was probably a local development, perhaps centred on Strata Florida . . .'

³⁸ Charles-Edwards a Russell, 'The Hendregadredd manuscript', 433.

³⁹ *GMW*, t. 7. Am y Llyfr Gwyn gw. J. Gwenogvryn Evans (gol.), *Llyfr Gwyn Rhydderch: Y Chwedlau a'r Rhamantau* (Caerdydd, 1973); Daniel Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', *CMCS*, 21 (1991), 1-38.

⁴⁰ Morgan Watkin (gol.), *Ystoria Bown De Hamtwn* (Caerdydd, 1958), t. cviii.

⁴¹ Mae *dd* yn digwydd mewn englynion a ychwanegwyd at y Llyfr Gwyn mewn cyfnod diweddarach: gw. Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', 35-37.

⁴² Watkin (gol.), *Ystoria Bown De Hamtwn*, t. cxi.

⁴³ J. Morris Jones a John Rhys (goln.), *The Elucidarium and Other Tracts in Welsh from Llyvyr Agkyr Llanddewivrevi AD 1346* (Oxford, 1894), t. xxii.

⁴⁴ Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', 9.

⁴⁵ Mae orgraff Hendregadredd c. 1300 yn wahanol i lawysgrifau cyfraith O a Tr c. 1300 (yn llaw Gwilym Wasta).

⁴⁶ C. James, 'Golygiad o BL Add. 22356 o gyfraith Hywel ynghyd ag astudiaeth gymharol ohono a Llanstephan 116', (Ph.D. thesis, Prifysgol Cymru, 1984), t. clix.

ch) Iaith

Mae modd defnyddio canllawiau eraill i leoli testun, sef canllawiau tafodieithol. Yn dilyn canllawiau Peter Wynn Thomas gellir gweld bod nodweddion ieithyddol ar y testun sy'n awgrymu mai tarddiad gogleddol sydd iddo.⁴⁷ Cyfeiriai P. W. Thomas at dri newidyn ieithyddol sy'n gallu bod yn arwyddocaol wrth geisio lleoli testunau Cymraeg Canol. 1) Cyfeiriai at nifer o enghreifftiau o eiriau yn cynnwys, neu ddim yn cynnwys, *i* gytsain (/j/) e.e. *meychyeu/meicheu*; gyda'r *i* gytsain yn nodweddiadol o destunau'r gogledd a'r enghreifftiau heb *i* gytsain yn nodweddiadol o destunau'r de.⁴⁸ Yn amlach na pheidio mae'r *i* gytsain i'w chael yn H, e.e. *keinyawc*, *keissyaw* a.y.y.b. 2) Newidion eraill sydd â chysylltiadau daearyddol yw'r defnydd o *ryngthaw* a *ryngthunt* fel ffurfiau trydydd personol *rhwng* yn hytrach na *ryngtaw* a *ryngtunt* sy'n ffurfiau deheuol: *ryngthaw* a *rhyngthunt* sy'n digwydd yn H. Fel rheol yn H defnyddir *ganthaw* am un o ffurfiau trydydd personol *gan* yn ogystal â *genthi* a *ganthunt* sydd hefyd yn cael eu cyfri'n nodweddion gogleddol.⁴⁹ 3) Y mae'r newidyn ieithyddol *awδ/w(y)s* yn y trydydd person unigol gorffennol yn fwy anodd ei ddefnyddio fel rhywbeth i leoli testun. Eithr awgryma'r aml ddefnydd o'r terfyniad trydydd personol *-w(y)s* mewn testun gogleddol fod y testun yn perthyn i ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg; cysylltir y defnydd o *-w(y)s* â'r drydedd ganrif ar ddeg a'r defnydd o *-awδ* â'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif.⁵⁰ Mae enghreifftiau o *-awδ* ac *-w(y)s* yn y testun: 59.61% *w(y)s*; 40.38 % *awδ*. Mae'r defnydd aml o *w(y)s* yn awgrymu bod H yn destun gogleddol cynnar ond, yn gamarweiniol, fe ymddengys bod yr ysgrifydd yn codi *w(y)s* o'i gynseiliau, e.e. yn y triawd 'Teir brawt ame6 y syd' (Peniarth 164 t. 63) sydd o bosibl wedi ei godi o Ladin D (testun deheuol cynnar).⁵¹ Cyfyd hyn y cwestiwn pam nad oedd yr ysgrifydd/awdur yn diweddarau morffoleg ac orgraff ei gynseiliau? Mewn Cymraeg Modern cysylltir y defnydd o *-w(y)s* â'r de-ddwyrain, e.e. Morgannwg: 'gwetws'.⁵² Awgrymodd Simon Rodway fod y nifer uchel o

⁴⁷ Peter Wynn Thomas, 'Middle Welsh dialects: problems and perspectives', *BBCS*, 40 (1993), 17-50; idem., 'Cydberthynas y pedair fersiwn ganoloesol' yn Sioned Davies a Peter Wynn Thomas (goln.), *Canhwyll Marchogyon: Cyd-destunoli Peredur* (Caerdydd, 2000), tt. 10-49.

⁴⁸ Thomas, 'Middle Welsh dialects: problems and perspectives', 27.

⁴⁹ Ond ceir dwy enghraifft o *gantaw* yn y testun.

⁵⁰ Thomas, 'Middle Welsh dialects: problems and perspectives', 34.

⁵¹ Gw. *LTWL*, 326 ac isod, t. 91-92.

⁵² Beth Thomas a Peter Wynn Thomas, *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg . . . cyflwyno'r tafodieithoedd* (Caerdydd, 1989), t. 67; Mary Wiliam, *Blas ar Iaith Blaenau'r Cymoedd* (Llanrwst, 1990), t. 11.

enghreiffiau o *-w(y)s* yn Llyfr Coch Hergest c. 1400 yn adlewyrchu tafodiaith y gŵr a gomisiynodd y llyfr: Hopcyn ap Tomos o Ynys Forgan.⁵³ Yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif fodd bynnag defnyddid y terfyniad cyn belled i'r gogledd â chanol sir Faesyfed;⁵⁴ a hwyrach y gellid clywed *-w(y)s* yn uwch i'r gogledd na Maesyfed yn y bymthegfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Dichon fod y ffurf *-w(y)s* yn gyffredin yn nhafodiaith ysgrifydd neu awdur H yn ogystal â'i bod wedi ei chodi o'i gynseiliau.

iv) Sgript

Nodwedd arall sy'n gwneud H yn unigryw yw ei hysgrifen. Dyma'r unig lawysgrif o gyfraith Hywel sydd wedi ei hysgrifennu mewn *Anglicana*. Tarddodd *Anglicana* yn ei ffurf gynharaf, fwy na thebyg, o Ffrainc ond fe'i cysylltir â Lloegr oherwydd y mynych ddefnydd a wneid o'r ysgrifen yn y llysoedd Seisnig. Fe'i defnyddid yn gyffredinol yn Lloegr yn y drydedd ganrif ar ddeg a'r sgript honno a ddefnyddid fynychaf yn y llysoedd yno hyd ganol y bymthegfed ganrif.⁵⁵ Gelwid y sgript, cyn i M. B. Parkes ei dehongli, yn *documentary hand* neu *court hand* sy'n awgrymu cysylltiad dogfennol neu gyfreithiol.⁵⁶ Un o brif nodweddion *Anglicana* yw fod yr esgynyddion a'r disgynyddion yn plygu, gyda'r ysgrifydd yn codi ei ysgrifbin oddi ar y memrwn cyn lleied ag oedd yn bosibl. Datblygodd yr ysgrifen redol hon i ymateb i'r angen am ysgrifennu'n gyflym yn y llysoedd. Gwelir isod wyddor a wnaed o lythrennu H. Wrth gymharu'r rhain â'r rhestr o lythrennau sy'n nodweddiadol o'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn llyfr Eileen A. Gooder gellir gweld bod y llythrennau oll yn y rhestr hon.⁵⁷ Ond o gofio bod y datblygiadau hyn o bosibl wedi cyrraedd Cymru yn ddiweddarach ni ellir dweud dim i sicrwydd ond bod ysgrifen H yn perthyn i gyfnod rhwng canol y bedwaredd ganrif ar ddeg a chanol y bymthegfed ganrif. Os yw'r llawysgrif yn perthyn

⁵³ Simon Rodway, 'The Red Book text of Culhwch ac Olwen: a modernising scribe at work', *Studi Celtici*, 3 (2005).

⁵⁴ Thomas, 'Middle Welsh dialects: problems and perspectives', 39; Gwenllian M. Awbrey *et al.*, 'Slander and defamation: a new source for historical dialectology', *Papurau Gwaith Ieithyddol Cymraeg Caerdydd*, 4 (1985), 1-24.

⁵⁵ M. B. Parkes, *English Cursive Book Hands 1250-1500* (Oxford, 1969); A. G. Petti, *English Literary Hands from Chaucer to Dryden* (London, 1977), t. 14.

⁵⁶ Gweler C. Johnson a C. H. Jenkinson, *English Court Hand 1066-1500*, dwy ran (Oxford, 1915); N. Denholm-Young, *Handwriting in England and Wales* (2 arg., Cardiff, 1964), tt. 31-45.

⁵⁷ Eileen A. Gooder, *Latin for Local History An Introduction* (2 arg., London, 1978), tt. 113-14.

i'r cyfnod cyn 1400, fel yr honnai Daniel Huws, dyma'r unig lawysgrif Gymraeg sydd wedi ei hysgrifennu mewn *Anglicana* cyn 1400: ar wahân i ychwanegiadau at lawysgrifau megis llawysgrif Hendregadredd (casgliad o farddoniaeth llys),⁵⁸ a cheir atodiad i'r prif destun yn llawysgrif cyfraith Peniarth 37 (U) sydd mewn llaw debyg iawn i H, os nad yn yr un llaw.⁵⁹

⁵⁸ *MWM*, t. 46.

⁵⁹ Peniarth 37, ff. 77-78 (tt. 153-56), sy'n tueddu i atgynhyrchu testun H. Cf. [t. 153] O dri mod y telir dirwy dreis . . . O dri modd y kyll dadyl dreis . . . Tri ryw amdiffyn syd . . . Tri ffeth nyt reit attepp . . . Tri ryw diebryt y syd: cf. §394; Tri modd y kae *kyfreith* rwng hawlwr ac amdiffynnwr: cf. §395; Tri ther6yn hawl syd: cf. §396; [t. 154] Teir dadyl a dylyant e6 iacha6: cf. § 397; Tri modd yd holir tir o gamoresgyn: cf. §398; Tri chamoresgyn syd: cf. §399; O dri mod y dospertuir dadyl dadanud: cf. §400; Pwy bynac a gymero tir y dat . . . [t. 155] Tri ryw 6ruint syd: § 143; Tri ffriodolder y syd: cf. § 144; Tri ryw 6rawtwyr syd: cf. § 369; Pob brawdwr swyd a geiff: cf. § 370; Yspeit pob brawdwr: cf. § 371; Os brawtwr o 6reint tir: cf. § 372; [t. 156] annarllenadwy.

Ffurfiâu llythrennau llawysgrif Peniarth 164

	- a
	- b
	- c
	- k
	- d
	- D
	- e
	- f
	- ff
	- g
	- G
	- h
	- i
	- ll
	- m
	- n
	- N

o
a
z
r
k
o
o
c
h
s
b
a
a
n

- o
- O
- p
- r
- s
- s
- S
- t
- T
- u
- u ac f
- w
- y

Mae'r *Anglicana* a ddefnyddir gan ysgrifydd H wedi ei datblygu'n llawn ac nid ydyw'n cynnwys unrhyw nodweddion llawysgrifydd (*secretary hand*) sy'n dangos na all y sgrïpt berthyn i gyfnod diweddarach na chanol y bymthegfed ganrif. Mae'r ffaith bod ysgrifydd H yn defnyddio'r ysgrifen hon mor rhwydd yn awgrymu ei fod wedi ei hyfforddi ar gyfer system weinyddol, un ai o fewn canolfannau gweinyddol y llysoedd cyfraith neu o fewn gweinyddiaeth glerigol yr eglwys. *Anglicana* oedd sgrïpt gweinyddiaeth frenhinol Seisnig o gyfnod Edward I ymlaen. Ceir dogfennau brenhinol Seisnig sy'n dwyn tebygrwydd o ran ysgrifen i'r hyn a geir yn H⁶⁰ yn ogystal â rhannau o lawysgrifau barddoniaeth megis llawysgrif Hendregadredd.⁶¹ Bu tair haen o lawiau yn gweithio ar lawysgrif Hendregadredd ar wahanol adegau. Mae'r drydedd haen yn perthyn i'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac mae nifer o'r llawiau hyn yn rhai rhedol.⁶² Awgrymodd Daniel Huws mai llyfr llys Ieuan Llwyd (c. 1332-1343) oedd llawysgrif Hendregadredd.⁶³ Ar ffolio 91r cofnodwyd awdl i Dduw a gyfansoddwyd gan Ruffudd Gryg⁶⁴ (fl. 1357-70) sydd wedi ei hysgrifennu mewn llaw debycach na'r gweddill i law ysgrifydd H. Dichon fod y gerdd glerwraidd hon gan Ruffudd Gryg yn llaw'r bardd ei hun. Roedd Gruffudd yn rhingyll⁶⁵ ym Malltraeth, Môn ac efallai yr adlewyrchir ei gefndir gweinyddol yn ei ysgrifen anglicanaidd ffurfiol.

Yn gyffredinol ceir system o fyrfoddi eithaf syml mewn dogfennau *Anglicana*.⁶⁶ System a ddatblygwyd ar gyfer Lladin oedd y byrfoddau a gwnaed defnydd helaeth ohonynt yng ngorllewin Ewrop yn yr Oesoedd Canol.⁶⁷ Bu i'r system

⁶⁰ Cf. Hector, *Handwriting of English Documents*, t. 78 plât X (b), t. 80 rhan gyntaf plât XII (b), t. 91 rhan gyntaf plât XXIII.

⁶¹ Daniel Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', *CLIGC*, 22 (1981-82), 1-26; *MWM*, t. 46.

⁶² Gw. llawysgrif LIGC 6680B, ff. 31v, 73v, 76r, 76-77v, 91r, 95v, 115r, 126r, 130r. Ceir ffacsimili o'r llygr. ar wefan ddigidol LIGC: <http://digidol.ligc.org.uk/METS/LLH00001/frames>

⁶³ Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', 11-12. Am Ieuan Llwyd gw. D. Hywel E. Roberts, 'Noddwyr y beirdd yn sir Aberteifi', *Llên Cymru*, 10 (1968-69), 76-109.

⁶⁴ Gw. Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (arg. diwygiedig, Caerdydd, 1992), t. 236; Gw. hefyd D. J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a datblygiad y cywydd', *Llên Cymru*, 8 (1964-65), 9-12; idem., 'Agweddau ar ganu'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed', *Llên Cymru*, 9 (1966-67), 46-73; Ifor Williams a Thomas Roberts (goln.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr* (1914); E. D. Jones, 'Cartre Gruffudd Gryg', *CLIGC*, 10 (1957-58), 230-31.

⁶⁵ Rhingyll oedd swyddog y cwmwd a gasglai'r westfa dros y goron. Gw. *LAL*, t. 351, R. A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: The Structure and Personnel of Government, i. South Wales, 1277-1536* (Cardiff, 1972), tt. 60-69; P. Vinogradoff a F. Morgan (goln.), *The Survey of the Honour of Denbigh* (London, 1914), tt. lxxxii-lxxxiii.

⁶⁶ Johnson a Jenkinson, *English Court Hand 1066-1500*, I, t. xxii-xxxv; Denholm-Young, *Handwriting in England and Wales*, tt. 64-70; Hector, *The Handwriting of English Documents*, tt. 29-39; B. Bischoff, *Latin Palaeography: Antiquity and the Middle Ages*, Cambridge 1990 (arg. yn wreiddiol yn Berlin 1979), tt. 150-168.

⁶⁷ Gw. Adriano Cappelli, *Dizionario di Abbreviature Latine et Italiane* (Milan, 1979).

barhau am dros 1500 o flynyddoedd. Gwelwyd ieithoedd eraill yn benthycu o'r system Ladin ond ni chafodd yr ieithoedd hyn eu byrfoddi gymaint gan na ddatblygwyd sillafu safonol neu gyson ynddynt tan y cyfnod modern. Ychydig yw'r defnydd o fyrfoddi mewn llawysgrifau Cymreig gan nad yw'r iaith Gymraeg yn gweddu i'r system.⁶⁸ Fodd bynnag, gwneir defnydd o'r system hon gan ysgrifydd H sy'n dangos ei ymwybyddiaeth o'r system Ladin.⁶⁹

Defnyddir y byrfoddau hyn yn H:

- a) Crogiant – Lle y gollyngir diwedd gair, e.e. *paha'[m]*, *dynyo'[n]*. Dynodir y gollyngiad gyda chroglinell fer uwchben neu drwy air, neu gydag atalnod llawn. Ar adegau gollyngir popeth ond llythyren gyntaf gair, e.e. *k[y]fraith*, *ô[erfydd]*, *mae ym d.[igawn] a.[e] g.[wyr]*. Defnyddir *.i.* am y Lladin *id est*/ hynny yw, e.e. §56.
- b) Cywasgiad– Gollyngir llythyren o ganol gair, e.e. *hyn'[n]y*, *hwn'[n]w*.
- c) Arwyddion arbennig – Yn gwbl nodweddiadol o'r system Ladin defnyddir *p* i gynrychioli *per*, e.e. yn *p[er]chennog*, *p[er]thyno*.
- ch) Llythrennau uwchysgrifol – yn aml dynodir y gair *tri* gan *t'*. Mae'r *i* ddirchafedig yn dynodi bod y llythyren *r* ar goll.

Awgryma hyn fod ysgrifydd H yn gyfarwydd â systemau ysgrifennu Lladin ac yn cymathu y rheini i'r Gymraeg.

Yn H, yn dilyn y dull anglicanaidd o ysgrifennu, ceir atalnodi eithaf cyson ar ddiwedd brawddegau gyda dechrau cymal newydd yn cael ei briflythrennu.⁷⁰ Un o nodweddion hynod ysgrifydd H yw ei fod yn dueddol o roi prif llythyren ar flaen geiriau sy'n dechrau gyda *g*. Defnyddir atalnodi hefyd yng nghanol brawddegau sy'n gweithredu fel y coma modern. Rhoddir atalnod o flaen ac ar ôl rhifau Rhufeinig. Tanlinellwyd dechrau cymalau neu baragraffau newydd.

Fel sy'n nodweddiadol o lawysgrifau sydd wedi eu cynhyrchu'n wael mae ôl cywiro ar y testun.⁷¹ Ar adegau gellir gweld bod yr ysgrifydd wedi crafu'r memwrn â chylllell finiog i gael gwared â chamgymeriad ac yna'n ysgrifennu drosto neu'n ei adael yn wag.⁷² Dro arall, dilëir geiriau neu gymalau drwy roi llinell neu groes

⁶⁸ Denholm-Young, *Handwriting in England and Wales*, t. 70.

⁶⁹ Mae llawer o dalfyriadau neu fyrfoddau hefyd yn llsgr. S: gw. C. James, 'Golygiad', t. cxxi-cxxii.

⁷⁰ Cf. M. B. Parkes, *Pause and Effect* (Aldershot, 1992); Bischoff, *Latin Palaeography*, tt. 127-35.

⁷¹ Cf. Hector, *The Handwriting of English Documents*, tt. 49-50.

⁷² E. e., f. 83r.

drwyddynt: gwelir yr enghraifft fwyaf o hyn ar t. 32 lle y croesir allan baragraff cyfan.⁷³ Ar t. 33, e.e., ysgrifennwyd cywiriad yn uniongyrchol ar ben y camgymeriad.⁷⁴ Defnyddiai hefyd y dechneg o roddi dot (*punctum delens*) o dan llythren anghywir gyda'r llythren gywir uwchben, e.e. t. 35. Ceir nifer o ychwanegiadau uwchben llinellau yn dilyn saeth neu farc fel hyn ^ a elwir yn farc *caret*, rhai yn yr un lliw inc â'r prif destun ac eraill mewn lliw gwahanol sy'n awgrymu iddynt gael eu hychwanegu yn ddiweddarach. Mae maint a gwedd yr ysgrifen yn gallu amrywio'n sylweddol sy'n awgrymu i adwyr y testun ddychwelyd ato droeon i ychwanegu deunydd newydd. Ymddengys nad oedd yr ysgrifydd yn cymryd gofal mawr wrth gofnodi'r testun. Efallai fod yr holl gamgymeriadau sydd yn y testun, ynghyd â'r darn bychan o femrwn sydd wedi ei ychwanegu ato (tt. 57-58), yn awgrymu nad oedd y llawysgrif yn cynnwys copi terfynol o'r testun. Ar y llaw arall gall fod yn rhyw fath o lyfr sgrap neu gasgliad personol nad oedd i'w ddarllen gan neb arall. Cynnwys y llawysgrif oedd yn bwysig ac nid ei hedrychiad. Nid yw'n llawysgrif ddeniadol o safbwynt caligraffig ac ni chafodd ei haddurno fel llawysgrifau mawr a gopiwyd ar gyfer pwysigion neu lyfrgelloedd, megis Peniarth 28.⁷⁵

II) LLANSTEPHAN 121

Adysgrifwyd darn o Beniarth 29 a Pheniarth 164 c. 1619 gan John Jones, Gellilyfdy (c. 1585-1657/8):⁷⁶ bellach gelwir yr adysgrifiad yn llawysgrif Llanstephan 121. Awgryma hyn fod H a Pheniarth 29 wedi eu rhwymo ynghyd cyn 1619. Rhoddwyd yr enw Y Llyfr Du o'r Waun ar Beniarth 29 gan Robert Vaughan, Hengwrt gan fod y llawysgrif ar un adeg yn eiddo i deulu John Edwards o'r Waun (m. 1625).⁷⁷ Ategir y

⁷³ Croeswyd allan oddeutu 8 llinell ar t. 67 hefyd.

⁷⁴ Ar t. 33 ychwanegwyd y pennawd: 'O chwyn dyn am ariant,' mewn llaw diweddarach i'r prif destun.

⁷⁵ Gw. Daniel Huws, *Peniarth 28, Darluniau o Lyfr Cyfraith Hywel Dda / Illustrations from a Welsh Lawbook* (Aberystwyth, 1988).

⁷⁶ Gw. Nesta Lloyd, 'John Jones, Gellilyfdy', *Flintshire Historical Society Publications*, 24 (1970), 5-18; idem, 'Mr. Jones' and Francis Tate', *THSC* (1968), 99-109; idem, 'Copi ychwanegol o ddechrau Ystoria Bown De Hamtwn', *BBCS*, 23 (1970), 17-25; idem, 'A history of Welsh scholarship in the first half of the seventeenth century, with special reference to the writings of John Jones, Gellilyfdy' (traethawd D. Phil., Prifysgol Rhydychen, 1970); P. Smith a M. Bevan-Evans, 'A few reflections on Gellilyfdy and renaissance in North-Eastern Wales', *Flintshire Historical Society Publications*, 24 (1970), 19-43. Gw. hefyd Samuel Jones, 'The lives and labours of John Jones and Robert Vaughan, scribes of the sixteenth and seventeenth centuries', (traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1926).

⁷⁷ D. Jenkins, 'The Black Book of Chirk: a note', *CLIGC*, 15 (1967-68), 104. Am John Edwards a'i deulu gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd at 1940* (Llundain, 1953), t. 170.

cysylltiad rhwng John Edwards a'r Llyfr Du yn llawysgrif Llanstephan 68, tt. 111-28, a ysgrifennwyd c. 1613: *Exce[r]pta ex libro antiquissimo remanente penes Johannem Edwardes de Chirke*, sy'n dyfynnu'r Llyfr Du.⁷⁸ Os oedd y Llyfr Du ym meddiant teulu'r Waun mae'n bur debyg fod H yn eu meddiant hefyd, o gymryd bod y ddwy llawysgrif wedi eu rhwymo ynghyd cyn cyrraedd John Jones. Enwyd John Edwards gan Thomas Wiliems yn y rhagymadrodd i *Dictionarium Latino-Cambrium* (Peniarth 228) fel un o'r rhai y bu'n bethyca llawysgrifau ganddynt. Mae'r copi o ran o'r Llyfr Du (a H) yn Llanstephan 121 yn awgrymu'n gryf i John Jones yntau gael benthycu llawysgrifau John Edwards.⁷⁹ Mae'n debyg i John Jones weithio fel cyfreithiwr yn Llwydlo yn y cyfnod rhwng c. 1610 a c. 1617,⁸⁰ a dichon iddo fagu cysylltiadau â'r Waun tra bu'n gweithio yno.⁸¹ Roedd tad a thaid John Jones yn gasglwyr a noddwyr beirdd ac adeiladasant gasgliad teuluol o llawysgrifau a gafwyd o ffynonellau yn Nyffryn Clwyd.⁸² Bu John Jones yn ymarfer ei grefft fel ysgrifydd drwy gopiïo casgliad ei deulu a chymdogion ac yn ddiweddarach daeth i adnabod ysgolheigion blaenllaw ei gyfnod a benthycu eu llawysgrifau i'w hadysgrifio. Derbyniodd ei addysg yn ysgol Amwythig. Copïodd Llyfr Llandaf ym 1612 (Peniarth 267). Erbyn 1617 roedd yng ngharchar 'y Fflud' yn Llundain ac mae'n debyg iddo aros yno am dros ddeng mlynedd.⁸³ Copïodd Llanstephan 121 ym 1619 sy'n awgrymu i'r llawysgrif gael ei chopïo ganddo yn y carchar.⁸⁴ Serch hynny, trosglwyddodd rai o'i diroedd ym 1619 er mwyn talu dyledion y teulu sydd efallai'n awgrymu iddo gael ei ryddhau ar fechnïaeth am amser byr yn y cyfnod hwnnw.⁸⁵ Roedd perthynas agos rhwng John Jones a Robert Vaughan, Hengwrt. Bu farw John Jones yn y carchar yn Llundain ac achubwyd nifer o'i llawysgrifau gan Robert Vaughan.⁸⁶

⁷⁸ Jenkins, 'The Black Book of Chirk', 104.

⁷⁹ Lloyd, 'A history of Welsh scholarship', t. 298.

⁸⁰ *Ibid.*, t. 2.

⁸¹ *Ibid.*, t. 292.

⁸² *Cydymaith*, tt. 317-18.

⁸³ *Y Bywgraffiadur*, t. 444; Lloyd, 'A history of Welsh scholarship', t. 3.

⁸⁴ Nid oedd yn amhosibl iddo fod wedi copïo llawysgrifau tra bu yn y carchar: gw. Lloyd, 'A history of Welsh scholarship' t. 4.

⁸⁵ *Y Bywgraffiadur*, t. 444.

⁸⁶ Nodai Jenkins fod slip o femrwm ynghlwm â'r Llyfr Du: 'it conveys an incompletely identified parcel of land whose name seems to include Kellilyfday. The decorative initial and the writing of the body of this fragment are both very much in the style of the transcripts of John Jones of Gellilyfday: should we then conclude that the Black Book passed to John Jones on its way from Chirk to Hengwrt?': Jenkins,

i) Disgrifiad o'r Llawysgrif

Llawysgrif bapur yw hon sy'n cynnwys 552 o dudalennau wedi eu rhwymo mewn lledr.⁸⁷ Copiwyd y llawysgrif ym 1619: cofnodwyd y dyddiad 1619 ar t. 67 ac ymddengys y dyddiad 1619 yn llaw John Jones eto ar t. 535. Mae testun Peniarth 164 yn ymestyn o t. 97 hyd at t. 535 gyda'r llawysgrif yn agor â darn o destun Peniarth 29: sy'n cyfateb i Beniarth 29 ffolio 1-51.⁸⁸ Mae Llanstephan 121 yn mesur $11^{7/8} \times 7^{1/2}$ modfedd (30.2 x 19.05 cm). Egyr y llawysgrif gyda phriflythyren fawr addurniedig (y llythyren H ar ffurf clymau Celtaidd mewn ffrâm ddu). Yn gyffredinol ceir 26 llinell i bob tudalen gyda chipair i ddangos dilyniant rhwng tudalennau. Ni nodir ar t. 97 fod y testun yn newid o destun Peniarth 29 i Beniarth 164. Mae 8 dalen wag rhwng t. 244 a t. 261. Ar t. 471 ceir diagram o eisteddiad y llys nad yw'n bresennol yn nhestun H. Mae'r darnau a ychwanegwyd at destun H gyda marc *caret* wedi eu corffori i destun Llanstephan 121 oddi mewn i fachau petryal. Yn wahanol i H mae Llanstephan 121 yn llawysgrif sydd wedi ei llunio'n ofalus ar gyfer casgliad. Er hynny, mae'r papur yn llawn tyllau lle y cafodd ei fwyta gan yr inc asidaidd a ddefnyddiwyd, yn enwedig lle roedd priflythrennau. Gwnâi John Jones ei inc trwchus ei hun a oedd yn cynnwys rhyw fath o ddeunydd cyrydol.⁸⁹ Golygai hyn fod darnau helaeth o'r testun yn anodd i'w darllen. Ar rai tudalennau ceir esboniadau mewn pensil gan John Jones (e.e. t. 114) a cheir llythyr a gyfeiriwyd at John Jones ar t. 547; defnyddiodd John Jones y llythyr i ysgrifennu drafft o gyfarchiad i'r darllenydd ynghylch ei 'lyfrau geirydd'. Ysgrifennodd Moses Williams (1685-1742)⁹⁰ ar ymyl rhai tudalennau gan lenwi'r bylchau yn y testun lle mae tyllau yn y papur. Nodir y dyddiad 1728 hefyd ar t. 535, ac mae'n debyg mai dyma pryd y bu M. Williams yn darllen a llenwi'r bylchau yn Llanstephan 121 (a oedd yn Hengwrt erbyn hynny). Mae'r darn o'r testun ar t. 376 sy'n wallus wedi ei ysgrifennu'n llawn gan M. Williams ar t. 543. Ar t. 317 llenwodd

'The Black Book of Chirk', 105. Mae'r ffaith fod Llan 121 yn adysgrifiad o ddarn o'r Llyfr Du a H yn awgrymu'n gryf i'r Llyfr Du fod yn Gellilyfdy ar un adeg.

⁸⁷ *RMWL*, t. 609; Lewis, 'A bibliography of the laws of Hywel Dda', 161.

⁸⁸ Sy'n cynnwys cyfraith y llys a darn o gyfraith y wlad. Mae testun Peniarth 29 yn Llan 121 yn gorffen gyda 'O deruit y dyn gunethur cam keiniauc y arnodua, a keuodi haul arnau ef am er . . . '.

Ysgrifennwyd teitlau'r pedwar swyddog ar hugain mewn priflythrenau mawr sydd wedi pydru darnau helaeth o'r papur a marcio'r tudalennau gyferbyn iddynt.

⁸⁹ Nesta Lloyd, 'A history of Welsh scholarship,' t. 313.

⁹⁰ Bu Moses Williams yn cynorthwyo William Wotton i baratoi *Leges Wallicae* (London, 1730). Gw. John Davies, *Bywyd a Gwaith Moses Williams 1685-1742* (Caerdydd, 1937).

y bwllch yn y testun gan gyfeirio at *membr.* sy'n awgrymu bod Peniarth 164 wrth law (neu ei fod yn cymharu Llanstephan 121 â Peniarth 278). Bu i M. Williams wneud adysgrifiad o Lanstephan 121 yn llawysgrif Llanstephan 73. Ni chafodd Llanstephan 73 ei chwblhau. Gwelir parhad o destun Llanstephan 73 wedi ei lynu ar tt. 537-41. Tarddodd rhan fawr o gasgliad Llanstephan LIGC (llsgrau. 1-154) o gasgliad personol Moses Williams drwy gasgliad Shirburn⁹¹ sy'n awgrymu i Lanstephan 121 gael ei throsglwyddo i'w feddiant neu iddo ei gweld. Hefyd ar t. 547 ac ar tt. 129, 211, 215 ysgrifennwyd nodiadau gan William Maurice, Cefn-y-Braich, Llansilin⁹² a welodd y llawysgrif yn Hengwrt.

ii) Tudalennu

Dechreuwa testun H ar dudalen 97 o Lanstephan 121. Lleolir y tudaleniad o fewn border neu ymyl twt sy'n amgylchynu'r testun. Fel y nodwyd eisoes ni ddilynr trefn wreiddiol testun H yn adysgrifiad John Jones. Er hyn bu iddo nodi rhifau ffolia gwreiddiol H ar ymylon rhai dalennau.⁹³ Yn fras gellir dweud bod John Jones yn tueddu i gasglu'r trioedd ynghyd yn nechrau ei destun diwygiedig gyda'r gynghawsedd a'r damweiniau yn dilyn. Mae'n ymddangos bod John Jones yn ceisio rhoi trefn ar y testun. Rhifwyd y trioedd ar ymyl y dalennau. Camrwymwyd tudalennau 169-92 ar ôl t. 264.

iii) Sgript

Ysgrifennwyd Llanstephan 121 mewn llaw *secretary book hand* hyderus.⁹⁴ Tarddodd y math hwn o ysgrifen yn wreiddiol o'r Eidal a daeth yn boblogaidd yn Lloegr o'r bymthegfed ganrif ymlaen. Astudiodd John Jones lyfrau Eidaleg ar lawysgrifen megis *Libro di M. Giovan Battista Platino* (1545): copïodd enghreifftiau o'r llyfr hwnnw ym 1639 sydd ar gadw yn llawysgrif Peniarth 307.⁹⁵ Mae'n debyg iddo gael rhywfaint o hyfforddiant proffesiynol fel ysgrifydd yn gynnar yn ei oes, boed hynny yn Amwythig

⁹¹ *Guide to the Department of Manuscripts and Records: National Library of Wales* (Aberystwyth, 1994), t. 5.

⁹² Gw. Dafydd Jenkins, 'Deddfgrawn William Maurice', *CLIGC*, 2 (1941-42), 33-36.

⁹³ Gw. tabl 1 ar ddiwedd y traethawd.

⁹⁴ Cf. Hector, *The Handwriting of English Documents*, tt. 60-61.

neu yn Llwydlo.⁹⁶ Roedd *secretary*, fel *Anglicana*, yn llaw fusnes yn hytrach na llaw lenyddol ond defnyddiai John Jones yr ysgrifen mewn ffordd ddestlus ac artistig. Yng ngeiriau Nesta Lloyd, llaw John Jones oedd 'probably the most distinctive hand in Welsh palaeography.'⁹⁷ Defnyddiai briflythrennau mawr addurnedig ar ddechrau paragraffau, un o nodweddion amlycaf ei ysgrifen.⁹⁸ Roedd John Jones hefyd yn rhoi priflythren, heb fod yn addurniedig, ar flaen geiriau pwysig mewn brawddeg. Ar t. 69 addurnir y testun gyda blodyn sydd wedi ei amgylchynu â chlymau Celtaidd ond yn anffodus difethwyd hanner y patrwm gan fod yr inc wedi bwyta'r papur. Fel y nododd Nesta Lloyd mae ysgrifen John Jones yn debyg i lawiau proffesiynol ysgrifwyr Saesneg y cyfnod:⁹⁹ gellir gweld enghreifftiau o'r llawiau hyn yn llyfr Hilary Jenkinson.¹⁰⁰

iv) Orgraff

Fel H gwelir rhai nodweddion hynafol yn Llanstephan 121 fel y defnydd o *t* ar ddiwedd gair am /-d/, a *c* ar ddiwedd gair am /-g/; ond yn ogystal â hyn dengys Llanstephan 121 holl nodweddion idiosyncratig John Jones. Ni chredai John Jones yn yr arfer o ddyblu llythrennau. Câl'r arferiad hwn ei gyfrif yn abswrdd gan rai ysgolheigion yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg a dyfeisiwyd system o osod dotiau o dan llythrennau dwbl: e.e. $\overset{1}{\cdot}$ am *ll*, $\overset{d}{\cdot}$ am *dd*, $\overset{c}{\cdot}$ am *ch*, $\overset{r}{\cdot}$ am *rh*, $\overset{t}{\cdot}$ am *th*, ac $\overset{w}{\cdot}$ am *w*. Gwyddom i John Jones gael benthyc nifer o lawysgrifau yn llaw Roger Morris, Coed-y-Talwrn.¹⁰¹ Roedd y defnydd o ddotiau yn rhan nodweddiadol o orgraff Roger Morris. Mae'n debyg i Roger Morris gael ei ddylanwadu'n uniongyrchol gan waith Gruffydd Robert. Defnyddiodd Gruffydd Robert ddotiau yn ei Ramadeg ac yn ei olygiad o'r *Athravaeth Gristnogavl*.¹⁰² Roedd y ddau ŵr hyn yn Gatholigion sydd wedi arwain rhai i awgrymu mai datblygiad

⁹⁵ *Y Bywgraffiadur*, t. 444; E. D. Jones, 'The art of writing', *CLIGC*, 5 (1947-48), 69-70.

⁹⁶ Lloyd, 'A history of Welsh scholarship', tt. 313-17.

⁹⁷ *Ibid.* t. 313.

⁹⁸ *Ibid.*, tt. 320-23; gw. hefyd T. H. Thomas, 'Initial letters and ornaments from the MSS. of John Jones, Gellilyfdy, in the Cardiff Free Library', *Cardiff Public Library Journal* (1903-04), 15-18, 30-32.

⁹⁹ Nesta Lloyd, 'A history of Welsh scholarship', t. 313

¹⁰⁰ *Ibid.* Gw. hefyd C. H. Jenkinson, *Later Court Hands in England* (Cambridge, 1927), wyddor 5-8.

¹⁰¹ *Ibid.*, tt. 264-65.

¹⁰² *Ibid.*, tt. 325-27; gw. hefyd G. J. Williams (gol.), *Gramadeg Cymraeg Gruffydd Robert* (Caerdydd, 1939), tt. xcvi-c.

Catholig oedd y nodwedd hon.¹⁰³ (Roedd dotiau hefyd yn nodwedd gyffredin yng ngwaith Humphrey Llwyd, Wiliam Salesbury a Roger Smith.) Efallai mai dylanwad Roger Morris yn ei dro a fu'n gyfrifol am y newid yn orgraff John Jones.¹⁰⁴ Defnyddiai John Jones y system ddotiog yn ddieithriad yn ei lawysgrifau ar ôl 1618.¹⁰⁵ Yn ogystal â dylanwad Roger Morris awgryma Nesta Lloyd reswm arall am y nodwedd hon yng ngwaith John Jones:

In some medieval manuscripts, no distinction was made between w and v, d and dd and consequently the exact reading is sometimes very difficult to determine. By keeping the same letters as the original text but adding his own reading by means of dots, John Jones was able to give the exact 'lytyr yn lytyr' and his own interpretation at the same time.¹⁰⁶

Ond yn achos H nid yw John Jones yn cadw at y llythrennu gwreiddiol gan newid llythrennau pan nad oedd angen eu dehongli. Gwelir isod y newid orgraff a ddigwyddodd wrth drosglwyddo'r testun.

Am Groes. Mal hyn y mae am groes: difwyn, ne6 diwat, ne6 lw gweilyd, y chymryt yn kyfreithyaul a'e rodi yngwyd tystyon, a dyuot a chreir ganthaw a'(e) rodi y bo heb y neill, a gwadu na dyly y da, ae talu y da; ac ny byd kyfreithyawl hynny heb greir yn y law.¹⁰⁷

Fal hynn y mae am Groes: difwyn, neu diwat, neu lu gweilyd, y cymryt yn gyfreitiaul a'e rodi yngwyd tystyon, a dyvot a creir ganthaw a'e rodi y bo heb y neil, a gwadu na dyly y da, ae talu y da; ac ny byd cyfreityaul hynny heb greir yn y law.¹⁰⁸

Sylwer ar y ffordd y bu i John Jones ysgrifennu'r testun yn ôl ei system orgraffyddol ei hunan. Sylwer hefyd sut y cafodd y pennawd 'Am groes' ei hepgor o'r adysgrifiad. Wrth gymharu Llanstephan 121 gyda H gellir gweld i nifer o benawdau fel hyn gael eu hepgor o destun Llanstephan 121.¹⁰⁹

¹⁰³ Lloyd, 'A history of Welsh scholarship', t. 326.

¹⁰⁴ Ibid., tt. 324-26.

¹⁰⁵ Ibid., t. 330. Digwydda am y tro cyntaf yn llsgr. Peniarth 298 a ysgrifennwyd ym 1618.

¹⁰⁶ Lloyd, 'A history of Welsh scholarship', tt. 327-28.

¹⁰⁷ Llsgr. LIGC Peniarth 164, f. 121r. Mae'r tanlinellu yn cyfateb i'r tanlinellu yn y llsgr.

¹⁰⁸ Llsgr. LIGC Llanstephan 121, t. 417.

¹⁰⁹ Ynghyd â rhai geiriau a chymalau.

III) PENIARTH 278

Copi o Lanstephan 121 ar femrwn yn llaw Robert Vaughan (c. 1592-1667), Hengwrt, Meirionnydd yw Peniarth 278.¹¹⁰ Roedd Robert Vaughan yn gasglwr o fri a lluniodd y casgliad personol pwysicaf o lawysgrifau Cymreig ym mhlas Hengwrt a roes ei enw i'r casgliad.¹¹¹ Casglodd dros hanner y llawysgrifau Canoloesol Cymreig sydd ar gael i ni heddiw. Roedd ei ddiddordeb yn eang a chasglai destunau cyfreithiol, barddonol, crefyddol, hanesyddol, achyddol, ieithyddol, diarhebol, clasurol, rhifyddol, gwleidyddol, meddygol mewn Cymraeg, Saesneg, Lladin, Hebraeg, Almaeneg, Ffrangeg, Sbaeneg, Eidaleg ac Iseldireg ymysg ieithoedd eraill.¹¹² Ar ôl derbyn llyfrau John Jones ym 1658 lluniodd Robert Vaughan gatalog o gynnwys ei lyfrgell yn Hengwrt sydd ar gadw yn llawysgrif LIGC 9095.¹¹³ Roedd H yn rhan o gasgliad Hengwrt a chafodd ei rhifo fel llawysgrif Hengwrt 26^b (gyda PheniARTH 29 fel Hengwrt 26^a). Roedd Lanstephan 121 hefyd yn rhan o'r un casgliad. Yn dilyn marwolaeth Robert Vaughan gwelwyd cwmp graddol teulu uchelwrol Hengwrt, esgeuluswyd y llyfrgell a'i llyfrau prin ac aeth llawer o'r casgliad ar chwâl. Cadwyd y llyfrgell am gyfnod yn Nannau, plasty arall a gysylltid â'i deulu. Trosglwyddwyd yr hyn oedd yn weddill o gasgliad Robert Vaughan i ddwylo William Watkin Edward Wynne, Peniarth¹¹⁴ ym 1859 ac yno y'i cartrefid am hanner can mlynedd lle y'i cyfunid â chasgliadau bychain eraill i greu casgliad Peniarth. Rhifwyd casgliad Peniarth fel un casgliad cyfansawdd gan J. Gwenogvryn Evans.¹¹⁵ Yn ei dro prynwyd y casgliad hwn gan y Llyfrgell Genedlaethol ym 1909.

¹¹⁰ Am Peniarth 278 gw. Lewis, 'A bibliography of the laws of Hywel Dda', 165; *RMWL*, t. 1098.

¹¹¹ *MWM*, tt. 287-303; E. D. Jones, 'Robert Vaughan of Hengwrt', *Journal of the Meirioneth Historical and Record Society*, 1 (1949-51), 21-30; Richard Morgan, 'Robert Vaughan of Hengwrt (1592-1667)', *Journal of the Meirioneth Historical and Record Society*, 8 (1977-80), 397-408; T. E. Parry, 'Llythyrau Robert Vaughan (1592-1667), gyda rhagymadrodd a nodiadau' (traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1961); Nesta Lloyd, 'Meredith Lloyd', *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, XI (1975-76), 133-192; Jones, 'The lives and labours of John Jones and Robert Vaughan'.

¹¹² Jones, 'Robert Vaughan of Hengwrt', 28.

¹¹³ Gw. W. W. E. Wynne yn *Archaeologia Cambrensis* (1869), 209-25 am gatalogau casgliad Hengwrt.

¹¹⁴ Gw. Gildas Tibbot, 'William Watkin Edward Wynne', *Journal of the Meirioneth Historical and Record Society*, 1 (1949-51), 69-76.

¹¹⁵ Gw. *RMWL*.

i) Y llawysgrif a'i thudaleniad

Copiwyd testun Llanstephan 121 yn fanwl, ac eithrio ambell lithriad, ar 126 dalen neu ffolio sydd wedi eu tudalennu o 1 i 252. Mae tudalen 1-37 yn cynnwys y darn o destun Peniarth 29. Gwag yw t. 38 a dechreuwa testun Peniarth 164 ar t. 39 gan ymestyn hyd at 251. Mae'r darn o'r llawysgrif sy'n cynnwys testun Peniarth 164 hefyd wedi ei rifo yn unigol gyda'r tudalennau yn rhedeg o 1 i 209. Nid yw'r tudalennu hyn bob amser yn gyson, e.e. dechreuir rhifo y tudalennau recto yn 1, 3, 5, 7, 9, 11, yna ceir llithriad, 12, 13, 14, 15, 17, 19, 21, 23, cyn cysoni unwaith eto. Mae'r llawysgrif yn mesur 28 x 18 cm ac mewn cyflwr da, ac eithrio tt. 157-163, tt. 192-204 ac mae'r ddwy ddalen olaf yn ddiffygiol.¹¹⁶ Gellir gweld y llinellu'n glir. Fel rheol mae 36 llinell ar bod dalen. Ar ambell ddalen ceir penawdau a chywiriadau mewn pensil, e.e. t. 86, lle bu Robert Vaughan yn cywiro'r testun. Pan fo rhwygiadau yn y memrwn llenwyd y bylchau ar ymyl y dalennau gan Moses Williams.

ii) Sgript

Gelwir y llaw glir hon yn *quasi-textura* gan Daniel Huws.¹¹⁷ Mewn *textura* y cynhyrchwyd y rhan fwyaf o lyfrau ffurfiol o'r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen yng ngorllewin Ewrop; term arall arno yw *book hand*. Dyma'r ysgrifen glasurol a ddefnyddiai ysgrifwyr yn yr Oesoedd Canol. Roedd yr ysgrifen hon yn cael ei chyfrif yn fwy safonol ar gyfer gweithiau llenyddol na sgript fel *Anglicana* neu *secretary hand*. Dewisiodd Robert Vaughan law hynafol a cheidwadol ar gyfer ei adysgrifiad o Lanstephan 121. Mae'r priflythrennau ar ddechrau cymalau mewn pensil ac ar adegau yn amhosibl i'w darllen.¹¹⁸ Efallai y bwriadai Robert Vaughan ddychwelyd at y llawysgrif i'w rhuddellu fel y gwnaeth gyda Peniarth 275, sy'n debyg o ran sgript i Beniarth 278. Ar adegau mae'r sgript yn amrywio o ran maint sydd mwy na thebyg yn dangos bod Robert Vaughan wedi cael saib rhwng y gwahanol rannau, e.e. t. 4. Mae Robert Vaughan hefyd yn gwneud defnydd o dalfyriadau. Rhoddir cipeiriau i ddangos rhediad y testun. Defnyddir [=] i ddynodi bod gair wedi ei rannu rhwng dwy linell. Ar

¹¹⁶ *RMWL*, t. 1098.

¹¹⁷ Gohebiaeth bersonol.

brydiau mae'n defnyddio'r acen grom, e.e. t. 203: 'âr ac eredic'. Llithriadau yw'r rhain gan nad oes enghraifft o hyn yn Llanstephan 121. Ar adegau gwelir llithriadau lle bo Robert Vaughan wedi camddehongli ei gynsail, e.e. 'rheith' yn lle 'rheit' t. 68. Yn aml dilynodd Robert Vaughan briflythrennu hynod Llanstephan 121. Wrth gopïo roedd Robert Vaughan yn cywiro ychydig ar y testun drwy osod dotiau o dan eiriau neu lythrennau amwys, a thanlinellu llythrennau neu eiriau y dylid eu dileu neu eu hanwybyddu.

iii) Orgraff

Er mai copi o adysgrifiad nad oedd yn agos iawn o ran orgraff i'r gwreiddiol yw Peniarth 278 mae nodweddion orgraffyddol hynafol y testun gwreiddiol yn dal yn bresennol. Ar brydiau defnyddir *e* am [a], e.e. *hegen*.¹¹⁹ Mae'r defnydd o *t* ar ddiwedd gair am /-d/ a *c* ar ddiwedd gair am /-g/, e.e. *golwc* yn dal i gael ei arddel. Dwy enghraifft o *k* am /k/ sydd yn y testun, sef *kynn* a *kwyno*. Defnyddir *f* am [v]. Cafodd dotiau testun Llanstephan 121 eu llenwi gan Robert Vaughan ac felly *ch=ch*, *dd=dd*, *ll=ll*, *rh=rh* a *th=th*. Adferwyd y defnydd gwreiddiol o *w* yn lle w . Weithiau defnyddir *6* am [u]: mae'n anodd esbonio hyn gan fod [u] yn cael ei gynrychioli gan u yn Llanstephan 121, a chan *w* ym Mheniarth 164.

Gellir gweld natur trosglwyddiad y testun gwreiddiol yn y copïau ohono drwy osod ochr yn ochr â'i gilydd yr un darn o destun o'r tair llawysgrif.

Am Groes. Mal hyn y mae am groes: difwyn, ne6 diwat, ne6 lw gweilyd, y chymryt yn *kyfreithyaul* a'e rodi yngwyd tystyon, a dyuot a chreir ganthaw a'(e) rodi y bo heb y neill, a gwadu na dyly y da, ae talu y da; ac ny byd kyfreithyawl hynny heb greir yn y law.¹²⁰

Fal hyn y mae am Groes: difwyn, neu diwat, neu lu gweilyd, y cymryt yn gyfreitiaul a'e rodi yngwyd tystyon, a dyvot a creir ganthaw a'e rodi y bo heb y neil, a gwadu na dyly y da, ae talu y da; ac ny byd cyfreityaul hynny heb greir yn y law.¹²¹

¹¹⁸ Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhannau o'r testun sydd mewn pensil i'w gweld yn glir iawn ar y microffilm o'r llawysgrif yn LIGC.

¹¹⁹ Ai arwydd o dafodiaith Robert Vaughan yw hyn neu dafodiaith Fflint?

¹²⁰ Llsg. LIGC Peniarth 164, f. 121r

¹²¹ Llsg. LIGC Llanstephan 121, t. 417.

Fal hynn y bydd am groes: difwyn, neu ddiwat, ne[u] lw gweilydd, y chymryt yn gyfreithiawl a'e rhodd[i] yngwydd tystyon, a dyfot a chreir ganthaw a'e roddi y bo heb y neill, a gwadu na ddyly y da, ae talu y da; ac ny bydd cyfreithyawl hynny heb greir yn y law.¹²²

Dengys y darnau hyn fod y tri thestun yn agos iawn at ei gilydd. Mae'n debyg bod ysgrifydd Peniarth 278 yn copïo Llanstephan 121, yn ôl y dyddiad a roddir ar Lanstephan 121 (1619) a'r hyn a wyddys am drosglwyddiad llawysgrifau John Jones i Hengwrt. Soniwyd eisoes na fydd testun Llanstephan 121 yn cael ei gyflwyno yn y traethawd hwn¹²³ ac felly y testun a gedwid ym Mheniarth 278 yw sylfaen y drafodaeth sy'n dilyn.

gedwid

¹²² Llsg. LIGC Peniarth 278, t. 152: §952 yn y golygiad.

¹²³ Gw. t. 1.

Y CYNNWYS: ASTUDIAETH DESTUNOL

Goroedd rhyw 40 o lawysgrifau cyfraith mewn Cymraeg a Lladin o'r cyfnod c. 1250-c. 1550. Y mae'r llawysgrifau cyfraith yn tarddu o wahanol rannau o Gymru ac y maent yn amrywiol iawn o ran trefn a chynnwys. William Maurice yn ystod hanner olaf yr ail ganrif ar bymtheg oedd y cyntaf i sylweddoli bod modd dosbarthu'r deunydd llawysgrifol.¹²⁴ Ni ddatblygwyd y syniad hwn ymhellach hyd nes y cyhoeddwyd *Ancient Laws* ym 1841. Sylweddolodd Aneurin Owen fod y testunau cyfraith yn rhannu'n dri grŵp neu ddull. Yn enwau ar y tri dull rhoddodd y teitlau *Gwentian*, *Dimetian*, a *Venedotian Codes* neu, yn y Gymraeg, Dull Gwent, Dull Dyfed a Dull Gwynedd. Cynhwysir H ymhlith rhestr Aneurin Owen o lawysgrifau Dull Gwynedd.¹²⁵ Bellach gwyddom nad oes unrhyw gysylltiad rhwng Dull Gwent a Gwent ac awgrymodd A. W. Wade-Evans enwau newydd i'r tri dull yn ôl: 'the names of the 'jurists' preferred in their respective prefaces.'¹²⁶ Rhoes hyn fod i'r teitlau Llyfr Cyfnerth (Cyfn), Llyfr Blegywryd (Bleg) a Llyfr Iorwerth (Ior). Cynrychiolir H yn stema Aled Rhys Wiliam sy'n dangos y berthynas rhwng llawysgrifau Ior a'i gilydd,¹²⁷ tra bo T. M. Charles-Edwards yn rhestru H o dan yr *Anomalous Laws* neu'r cyfreithiau amrywiol.¹²⁸

Yn gyffredinol canfyddir y gyfraith fwyaf cyntefig yn Cyfn. Y mae perthynas agos rhwng y testunau Lladin, Bleg a Chyfn ond ceir naws eglwysig llawer amlycach yn y testunau Lladin, a thrwy hynny yn Bleg.¹²⁹ Eiddo Ior yw'r llawysgrif hynaf ond y mae'n cynnwys y gyfraith fwyaf datblygedig gan adlewyrchu datblygiadau cyfreithiol Gwynedd yn y drydedd ganrif ar ddeg. Y mae cryn dipyn o amrywiadau testunol, o ran hyd, trefn, a chynnwys, rhwng y gwahanol lawysgrifau sy'n perthyn i'r un dull. Serch hynny, dechreu'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau gyda Rhaglith sy'n cysylltu'r gyfraith â Hywel Dda. Yna rhestrir Cyfreithiau'r Llys. Dilynir hynny gan draethodau sy'n trafod gwahanol feysydd cyfreithiol fel y Tair Colofn Cyfraith (sef rheolau yn ymwneud â galanas (llofruddiaeth), llosg, a lladrad); cyfraith y gwagedd; cyfraith tir; a.y.y.b;

¹²⁴ Jenkins, 'Deddfgrawn William Maurice', 33-36.

¹²⁵ *AL*, I, t. xxix, er yr argraffwyd o dan y teitl *Anomalous Law*.

¹²⁶ *WML*, t. xii.

¹²⁷ *LI*, t. xxix.

¹²⁸ T. M. Charles-Edwards, *The Welsh Laws* (Cardiff, 1989), t. 102.

¹²⁹ Mae Bleg gan mwyaf yn gyfieithiad o fersiwn o Ladin D: gw. H. D. Emanuel, 'Llyfr Blegywryd a Llawysgrif Rawlinson 821', *BBCS*, 19 (1960), 23-28.

gelwir hyn yn Gyfraith y Wlad. Y mae llawysgrifau lor yn cynnwys adran ychwanegol a elwir yn 'Llyfr Prawf Ynaid'.¹³⁰ Yn rhai o'r llawysgrifau diweddarach ychwanegwyd deunydd ychwanegol megis trioedd at gynnwys y prif ddulliau. Nid yw rhai o'r llawysgrifau diweddarach yn cynnwys copi o un o'r prif ddulliau ac maent yn cynnwys copïau o fathau newydd o destunau cyfreithiol megis Llyfr y Damweiniau (cyfresi o reolau yn dechrau gydag 'O derfydd'), a Llyfr Cynghawsedd. Yn y drafodaeth sy'n dilyn ceisir lleoli testun H a'r copïau ohono o fewn y traddodiad llawysgrifol hwn. Canolbwyntir ar rai agweddau neu rannau o'r testun yn unig gan dynnu sylw at y modd y datblygwyd rheolau cynghawsedd a throedd yn y testun.

I) Cynghawsedd

Canmolodd Gerallt Gymro ddull y Cymry o gyfreitha:

Yn achosion a gweithredoedd y gyfraith, ac mewn llys barn, nid esgeulusant yr un rhan o rethreg, sy'n hollol naturiol, wrth rwydo, ensynio, dyfeisio, cyfleu, gwrthbrofi, ac ategu.¹³¹

Mae cynghawsedd yn un o'r technegau cyfreithiol sy'n dangos olion rethreg, sef y grefft o areithio yn gyhoeddus.¹³² Roedd cynghawsedd yn cynnig model ar sut i gyflwyno achos mewn llys barn gan egluro'r gwahanol gamau yn ogystal â dyfynnu'r ymadroddion y dylid eu defnyddio yn y llys.¹³³ Er hynny, ni ddylid cymryd yn ganiataol fod cynghawsedd yn rhoi gwir ddarlun o drefn y llysoedd yn yr Oesoedd Canol; yn hytrach dylid eu gweld fel canllaw i ddarpar gyfreithwyr. Gwelir datblygiad tebyg yng nghyfraith Lloegr a gellir tynnu cymhariaeth rhwng cynghawsedd a thestunau fel *Brevia Placitata*, testun byr o ganol y drydedd ganrif ar ddeg sy'n

¹³⁰ Gw. *LII*, t. xxii; Charles-Edwards, *The Welsh Laws*, tt. 27-31.

¹³¹ T. Jones cyf., *Gerallt Gymro* (Caerdydd, 1938), t. 187.

¹³² Am rethreg yn y cyfreithiau gw. M. E. Owen, 'Y cyfreithiau – (2) Ansawdd y rhyddiaith', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol* (Llandysul, 1974), tt. 226-27, 238-29; Robin Chapman Stacey, 'Learning to plead in medieval Welsh law', *SC*, 38 (2004), 120-22.

¹³³ Cynhyrchwyd gwaith pwysig ar gynghawsedd gan T. M. Charles-Edwards yn ei erthygl 'Cynghawsedd: counting and pleading in medieval Welsh law', *BBCS*, 33 (1986), 188-98; idem, *The Welsh Laws*, tt. 53-67. Gw. hefyd Stacey, 'Learning to plead in medieval Welsh law', 107-23; D. Jenkins, 'A second look at Welsh land law', *THSC* (2001), 13-93; J. Beverley Smith, 'Judgement under the law of Wales', *SC*, 39 (2005), 65-68.

mynegi sut y dylid dadlau achosion yn llys y brenin.¹³⁴ Y gwahaniaeth pennaf rhwng *Brevia Placitata* a chynghawsedd yw mai *writiau* oedd sylfaen yr achosion yn *Brevia Placitata*, sef gorchmynion cyfreithiol ysgrifenedig; roedd pob *writ* yn cael ei ddilyn gan araith ffurfiol ac yn dilyn pob araith rhoddid amddiffyniad. Ni ddefnyddid *writiau* ysgrifenedig yng nghyfraith Hywel. Testun arall o Loegr sydd hefyd yn haeddu cymhariaeth yw *La Court de Baron c. 1265*, sef casgliad o ddadleuon ar gyfer llys maenorol. Cychwynnir yr achosion yn y testun hwn gyda chwynion yn hytrach na *writiau*.¹³⁵ Awgryma T. M. Charles-Edwards mai cwynion fel y rhai a argraffwyd yn *AL*, XII oedd yn agor achosion yng Nghymru erbyn y bymthegfed ganrif, yn debyg i'r *counts* Seisnig.¹³⁶ Roedd cynghawsedd, felly, yn naratif oedd yn rhan o gyfundrefn gyfreithiol ehangach ac awgryma Charles-Edwards fod y datblygiad hwn wedi digwydd yn gynt yng Nghymru nac yn Lloegr.¹³⁷

Mae Charles-Edwards wedi trafod datblygiad yr hyn a elwir yn gynghawsedd. Yn lor cyflwynir achos o 'ach ac edryf'¹³⁸ fel enghraifft o sut y dylid cynnal achos cyfreithiol (*LII* §§72-77). Defnyddir y term cynghawsedd yn lor yn benodol am y datganiadau a roddid gan yr hawlwr a'r amddiffynnwr; a'r cynnig o wybyddiaid neu lygaid dystion i brofi gwirionedd eu datganiadau. Yn dilyn hyn cyflwynir naratif yn adrodd sut y dylid datblygu'r achos er mwyn addysgu darpar gyfreithwyr am y camau cyfreithiol oedd i ddilyn, gan fanylu, er enghraifft, ar sut y dylid tyngu ar greiriau, ond nid oedd hyn o anghenraid yn cael ei alw'n gynghawsedd. Yn lor mae'r term cynghawsedd wedi ei gyfyngu i'r traethig ar ddaliadaeth tir; ceir naratif cyfreithiol mewn traethigau ar fechni a lladrad yn lor ond nid yw'r term cynghawsedd yn cael ei ddefnyddio ynddynt (*LII* §58; §113).¹³⁹ Yn annibynnol ar lor ceir testun a elwir yn Llyfr Cynghawsedd sydd â'r copi cynharaf ohono yn llawysgrif B, mae copi ohono hefyd yn llawysgrif G a dyfynnir rhan ohono yn llawysgrif J, un o lawysgrifau'r Llyfr Coch yn perthyn i droad y 14g a'r 15g (dyma sylfaen *AL*, VII). Yn y testun hwnnw defnyddir y term cynghawsedd am y cyfan o'r naratif addysgol yn hytrach nag am y

¹³⁴ G. J. Turner (gol.), *Brevia Placitata* (Selden Society, London, 1951); gw. hefyd Stacey, 'Learning to plead in medieval Welsh law', 109, n. 14.

¹³⁵ F. W. Maitland a W. P. Baildon (goln.), *The Court Baron* (Selden Society, London, 1891); gw. hefyd Charles-Edwards, 'Cynghawsedd: counting and pleading', 188, n. 1.

¹³⁶ Charles-Edwards, 'Cynghawsedd: counting and pleading', 198: 'It is possible, therefore, that the *cywyn* of *AL* XII is precisely this initial plaint, and that *cywyn* and *cynghawsedd* are complementary.'

¹³⁷ *Ibid.*, 188.

¹³⁸ Ffordd i ddyn hawlio tir ei deulu ar ôl bod oddi yno am sawl cenhedlaeth.

¹³⁹ Charles-Edwards, 'Cynghawsedd: counting and pleading', 190.

datganiadau yn unig. Mae Charles-Edwards yn dyddio Llyfr Cynghawsedd i c. 1225-c. 1275, sy'n awgrymu bod y term cynghawsedd yn enw ar *genre* cyfreithiol arbennig erbyn y cyfnod hwnnw.¹⁴⁰ Mae rhai o nodweddion Llyfr Cynghawsedd yn awgrymu bod y testun wedi ei gynhyrchu yng Ngwynedd fel Ior, e.e. y defnydd o 'O dderfydd' yn y damweiniau yn hytrach na 'Or', a'i fod wedi symud i'r de erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg.¹⁴¹

i. Cynghawsedd H/PeniARTH 278 a chynghawsedd Ior a Col

Ar adegau mae Col a Llyfr Cynghawsedd yn anghytuno â'r drefn a ddilynir yn Ior. Wrth gymharu testun H/PeniARTH 278 â Ior a Col ymddengys bod awdur H yn ymwybodol o'r gwahaniaeth barn hwn ac yn defnyddio Ior yn ogystal â Llyfr Cynghawsedd fel ei ffynonellau. Mae'r enghraifft orau o hyn i'w gweld yn §§1049-52 lle defnyddir achos tir fel naratif i gyfleu trefn ddelfrydol y llys. Mae'r darn hwn yn haeddu cymhariaeth â *LII*, §§72-76, *Col*, §§448-480, ac *AL*, VII.i.9.

Gellir cymharu §1050 â *LII*, §73 a *Col*, §§448-453. Yn debyg i Ior nodir y dylai'r hawlwr a'r amddiffynnwr fynd gyda'u cymorth cyfreithiol at y tir ymrysonedig. Yna dylid llunio dwy blaid a dechrau achos cyfreithiol. Eir ymlaen i ddisgrifio ble yn union y dylai'r ddwy blaid eistedd yn y llys. Cyfeirir at yr arglwydd yn hytrach na'r brenin fel sydd yn Ior a Col, sydd efallai'n adlewyrchu datblygiad i gyfundrefn wleidyddol lle nad oedd brenin neu dywysog.¹⁴² O flaen yr arglwydd yr eisteddai'r ynad llys. Fel yn Ior a Col lleolir yr hynafiaid bob ochr i'r brenin ond cyfeirir yn nhestun H/PeniARTH 278 at 'oreugwyr' yn hytrach na 'gwyrda.' Eto'n debyg i Ior a Col lleolir yr ynaid eraill ar y chwith i'r ynad llys gyda'r offeiriaid ar y dde. Yn Ior lleolir y rhingyll y tu ôl i'r canllaw ar ochr yr amddiffynnwr a thu ôl i'r cyngaws ar yr ochr arall, ond yn Col mae'r rhingyll yn sefyll y tu ôl i'r ddau gyngaws. Yn wahanol i unrhyw destun arall lleolir y rhingyll o flaen yr ynad llys yn H/PeniARTH 278 sy'n awgrymu bod y testun yn llygredig. Fel Ior a Col lleolir cyngaws yr hawlwr, yr hawlwr ei hun a'i ganllaw ar y chwith; a chyngaws yr amddiffynnwr, yr amddiffynnwr a'i ganllaw ar y dde. Yn y rhan fwyaf o destunau cyflwynir yr wybodaeth hon ar ffurf

¹⁴⁰ *Ibid.*, 193, 198.

¹⁴¹ *Ibid.*, 191; Stacey, 'Learning to plead in medieval Welsh law', 110.

diagram. Yn llawysgrif S ceir lluniau o ddynion y llys yn eu gwisgoedd cyfreithiol.¹⁴³ Er na chyflwynir yr wybodaeth ar ffurf diagram yn nhestun *Col* cynigir diagram gan D. Jenkins a cheir diagram ganddo yn *LTMW* sy'n cyfateb i'r hyn a ddywedir yn nhestun Ior.¹⁴⁴ Mae trefn yr eisteddleoedd a gyflwynir yn H/PeniARTH 278 fel a ganlyn:¹⁴⁵

Goreugwr	Goreugwr	Hynaif Offeiriad	Arglwydd Ynad llys Rhingyll	Hynaif Ynad Cwmwd	Goreugwr	Goreugwr
Canllaw	Amddiffynwr	Cyngaws		Cyngaws Hawlwr		Canllaw

Ni sonnir am eisteddiad y llys yn Llyfr Cynghawsedd ac yn lle hynny cyfeirir at awdurdod arall (Ior mwy na thebyg): 'Ac yna e mae yaun eysted en kyfreythyaul, mal y dyweyt llyuyr Hywel' (*AL*, VII.i.9).

Yn ôl Ior dylid cymryd meichiau ar ôl i'r llys eistedd a chyn rhoddi 'tyllwedd' ac enwi cyngaws a chanllaw y ddwy blaid; ond ni cheir sôn am hynny yn y fan hon yn H/PeniARTH 278 nac yn *Col*, sy'n adlewyrchu anghytundeb am pryd yn union y dylid cymryd meichiau. Rhoddid dynion o'r ddwy blaid fel meichiau a chaent eu cadw yng ngharchar y brenin tra bo'r achos yn mynd rhagddo, fel sicrwydd y byddai'r ddwy blaid yn mynychu'r llys hyd y diwedd.¹⁴⁶ Mae Llyfr Cynghawsedd yn cytuno â Ior y dylid gofyn am feichiau ar ôl i'r llys eistedd ond y dylai cyngaws yr amddiffynnwr wrthod rhoi meichiau hyd nes y clywid y 'gwyn'. Mae *Col* ar y llaw arall yn dweud y dylid cymryd meichiau ar ôl rhwymo'r ddwy blaid ac yn syth o flaen 'cyngheusaeth' (sef y datganiadau).¹⁴⁷ Wrth edrych ar §1051 gwelir bod perthynas agos rhwng testun H a Llyfr Cynghawsedd, y gwahaniaeth pennaf yw na nodir yn H/PeniARTH 278 y dylid gofyn am feichiau yn syth ar ôl i'r llys eistedd gan anwybyddu dylanwad Ior. Mae

¹⁴² Gw. D. Jenkins, 'Kings, lords and princes: the nomenclature of authority in thirteenth-century Wales', *BBCS*, 26 (1974-6), 451-62 ar y terminoleg yn y 13g.

¹⁴³ Gw. C. James, 'Ysgrifydd anhysbys: proffil personol', *YB*, 23 (1997), 51-54. Mae'r llun wedi ei argraffu yn D. Jenkins (gol.), *The Law of Hywel Dda* (Llandysul, 1986); a chaiff ei ddefnyddio ar y clawr i'r gyfres 'Pamffledi Cyfraith Hywel' (Aberystwyth, 1979-).

¹⁴⁴ *Col*, t. 126; *LTMW*, t. 85.

¹⁴⁵ Diagram a luniais ar sail geiriad y testun. Nid oes diagram yn H.

¹⁴⁶ Charles-Edwards, 'Cynghawsedd: counting and pleading', 191-92; idem, *The Welsh Laws*, 54-67. Am y defnydd o bobl fel mechni yn Iwerddon gw. R. Stacey, *The Road to Judgment: From Custom to Court in Medieval Ireland and Wales* (Philadelphia, 1994), 82-111; D. B. Walters, 'The general features of archaic European suretyship', *LAL*, tt. 92-116.

testun H/PeniARTH 278, felly, wedi mentro ymhellach oddi wrth Ior na Llyfr Cyngawsedd. Yn ôl trefn H/PeniARTH 278 dylid rhoi'r llys i eistedd, yna dylid rhwymo'r ddwy blaid ac enwi eu cyngaws a'u canllaw, yna gofynnid am feichiau (fel trefn *Col*), ond yna dylid gwrthod rhoi meichiau hyd nes clywid 'cwyn' yr hawlwr (fel Llyfr Cyngawsedd). Mae'r hyn a geir yma felly yn gwyro dipyn oddi wrth yr hyn a geir yn wreiddiol yn Ior. Nid yw lluniwr y testun yn ofni mynd yn groes i awdurdod Ior ac anghytuno'n llwyr â Ior ar y pwynt hwn. Dichon fod hyn yn ei dro yn adlewyrchu'r ffaith mai testun cymharol ddiweddar yw H a bod Ior wedi colli peth o'i awdurdod erbyn cyfnod llunio'r testun. Ceir anghytundeb hefyd am bwy a ddylai ofyn am feichiau. Nid enwir neb penodol yn Ior. Yn ôl *Col* cyngaws yr hawlwr a ddylai ofyn ond: 'Ereyll a deweyt pan yv er haulur e hun a dyly galu am uach ac ar y keureyth.'¹⁴⁸ Mae H/PeniARTH 278 a Llyfr Cyngawsedd yn cytuno â *Col* mai un posibilïad yw i gyngaws yr hawlwr ofyn am feichiau, ond yn anghytuno â *Col* ar y posibilïad arall gan ddweud mai'r arglwydd a ddylai ofyn. Mae'r darn hwn yn awgrymu fod awdur H yn parchu awdurdod Ior ond nad oedd arno ofn gwyro oddi wrtho ar bwyntiau pwysig fel meichiau.

Mae §1052 yn dychwelyd at y model a roddir yn Ior. Serch hynny, mae H/PeniARTH 278 yn hepgor y darn yn Ior a *Col* lle y cyflwynir 'cynghusaeth' yr hawlwr a'r amddiffynnwr (*LII*, §75; *Col*, §§464-472) gan neidio i ddarn sy'n cyfateb i *LII*, §76. Nid yw H/PeniARTH 278 ychwaith yn sôn am ddigwyddiadau'r trydydd diwrnod fel *LII*, §77 gan fod hyn yn manylu ar y 'cynghusaeth' a gyflwynwyd yn *LII*, §75 ac a hepgorwyd o H/PeniARTH 278. Mae'r fersiwn cyfatebol i'r darn hwn a geir yn llawysgrif G (f. 32v) hefyd yn hepgor y 'cynghusaeth' ac unrhyw sôn am y trydydd diwrnod. Mae hyn hefyd yn wir am y fersiwn yn Llyfr y Damweiniau (*AL*, VI.iv.11), sy'n awgrymu nad oedd y testunau hynny yn cytuno â dull Ior o gyflwyno a dadlau 'cynghusaeth.' Mae Llyfr Cyngawsedd yn cyflwyno dull manylach a mwy trylwyr o drafod achos, lle bo'r cyngaws yn chwarae rhan flaenllaw, a dichon fod ysgrifwyr G a Llyfr y Damweiniau yn hepgor dull Ior ar sail y gwahaniaeth hwn.¹⁴⁹ Mwy na thebyg mai o dan ddylanwad Llyfr Cyngawsedd yr hepgorwyd 'cynghusaeth' Ior o H/PeniARTH 278 hefyd.

¹⁴⁷ Gw. Charles -Edwards, 'Cyngawsedd: counting and pleading', 191-92.

¹⁴⁸ *Col*, §462.

ii. H/PeniARTH 278 a Llyfr Cynghawsedd (AL, VII)

O edrych ar y conspectws gellir gweld bod perthynas rhwng H/PeniARTH 278 a'r testunau sy'n cael eu cynrychioli yn *AL*, VII (sef Llyfr Cynghawsedd sydd wedi ei seilio ar destun llawysgrif B gydag amrywiadau o lawysgrifau G a J). O ran hwylustod cyfeirir at y testun fel y mae wedi ei argraffu yn *AL*, VII. Trafodir y llawysgrifau unigol sy'n cynnwys Llyfr Cynghawsedd isod.¹⁵⁰

Mae *AL*, VII yn ymwneud yn bennaf ag achosion tir.¹⁵¹ Disgrifir sut i gyflwyno hawl drwy briodolder, ymwrthyn, mamwys a'r gwahanol fathau o ddadannudd. Yna eir ymlaen i drafod swyddogaeth ynadon mewn cynghawsedd. Dychwelir at achosion tir gan drafod hawl terfyn cyn trafod trais, anghyfarch a lladrad cynhyrchol. Yn dilyn hyn manylir ar sut y dylid dadlau hawl cyfran a benthyg. Ymddengys bod y rhan fwyaf o destun *AL*, VII yn cael ei adleisio yn H/PeniARTH 278, ac eithrio *AL*, VII.i.3-4, i.13-20; i.38, i.40; i. 50; i.52-53. Dichon fod awdur H wedi hepgor y testun a geir yn *AL*, VII.3-4 rhag bod yn ailadroddllyd, cf. §1049. Mae *AL*, VII i.13-20 yn gyfres o frawddegau byrion sy'n esbonio ystyr llwon gwahanol dystion, dichon fod awdur H yn gweld y rhan hon o Lyfr Cynghawsedd yn ddiangen gan fod yr ystyron wedi eu hesbonio eisoes yn y testun. Ni cheir cyfatebiaeth ychwaith i destun *AL*, VII.i.52-53, ond dyma'r rhan olaf o Lyfr Cynghawsedd ac efallai fod y darnau olaf hyn ar goll o gysail H.

Yn §1126 mae awdur y testun wedi addasu cynnwys Llyfr Cynghawsedd. Cyflwynir achos lle bo priodor sydd wedi colli, neu adael, ei dir yn ceisio adennill y tir hwnnw oddi wrth aelod o'i deulu. Mae'r deuddeg llinell gyntaf (yn ôl y golygiad) yn unigryw i H/PeniARTH 278 ac wedyn adleisir *AL*, VII. Mae'r llinellau cyntaf yn cyflwyno datganiad yr hawlwr lle mae'n hawlio mai ef yw priodor y tir dan sylw a'i fod yn perthyn i'r amddiffynnwr. Yna manylir ar sut y dylai gyflwyno ei ach 'ach ac edrif' gan nodi'r graddau o berthnasau y dylid eu henwi a sut y dylid enwi'r tir dan sylw: 'y tir hwnn a hwnn, yn y dref a'r dref.' Dichon fod y darn agoriadol yma yn

¹⁴⁹ T. M. Charles-Edwards, 'NLW PeniARTH MS 35 (G) and the textual tradition of Llyfr Iorwerth', erthygl heb ei chyhoeddi, tt. 12-13.

¹⁵⁰ Gw. isod, tt. 35-41.

¹⁵¹ Am gyfraith tir gw. D. Jenkins, 'A lawyer looks at Welsh land law', *THSC*, (1967), 220-48; idem, 'A second look at Welsh land law', *EJWK*, t. 274 *et passim*.

addeisio arddull y cwynion (gw. *AL*, XII). Yn dilyn hyn rhaid iddo gynnig tystiolaeth i gefnogi'r ddau honiad. Yna eir ymlaen i ddweud:

Os gwaglaw fydd, dyweted y fot yn waglaw yn y hawl. Os yr ymddiffynnwr a addef hynny, nyt rheit praw ar addef, yaw[n] yw iddaw caffel messur y hawl. Os gwatta, gatter y braw y'r hawlwr. O seif y braw, cymeret y hawl.

Pe na bai'r tir ym meddiant yr hawlwr yna gallai ei hawl fethu oherwydd hyn: cf. *AL*, IX.xxviii.8, lle mae'r amddiffynnwr yn honni mai ef ddylai gael y tir ymrysonedig gan fod y tir yn ei law ef ac nid yn llaw yr hawlwr: 'kany cheydw gwaclaw.' Yn yr ail a'r trydydd cymal ceir yr un egwyddor ag a geir yn Ior a Llyfr Cyngawsedd: os yw'r amddiffynnwr yn cyfaddef fod yr hawlwr yn dweud y gwir yna byddai'r hawlwr yn ennill, pe bai'r amddiffynnwr yn gwadu datganiad yr hawlwr yna byddai'n rhaid iddo yntau brofi ei hawl drwy arddelw, a phe bai ei arddelw'n sefyll câi gadw ei hawl. Yr arddelwau neu'r dadleuon sy'n cael eu rhoi yn erbyn yr hawlwr yw nad oes ganddo hawl i ddefnyddio ceidwaid a gwybyddiaid am yr un mater a'i fod wedi gadael y tir o'i ewyllys ei hun, ac felly nad oedd ganddo hawl i ddychwelyd at y tir. Mae'r ddeialog o'r pwynt hwn ymlaen yn addeisio *AL*, VII.i.10. Wrth gyflwyno'r dadleuon yn erbyn yr hawlwr mae awdur H yn defnyddio'r fformiwla sydd i'w gael yn Llyfr Cyngawsedd. Y gwahaniaeth pennaf felly rhwng §1126 a *AL*, VII.i.10 yw geiriad y darn agoriadol, neu, a defnyddio term lor, y 'gynghesusae'th' (datganiad), ac fe ymddengys bod agoriad H/PeniARTH 278 yn dueddol o gymhlethu pethau. Rhoddir pwyslais ar briodolder 'gwaglaw' yn H/PeniARTH 278 yn wahanol i Lyfr Cyngawsedd. Ar adegau mae darlleniad Llyfr Cyngawsedd (*AL*, VII) yn gliriach ac yn gywirach na darlleniad H/PeniARTH 278.

Yn dilyn y rhan hon dyfynnir darn o ran arall o Lyfr Cyngawsedd (*AL*, VII.i.21) sy'n trafod priodolder gan neidio dros y rhannau ar geidwaid, gwybyddiaid, a llwon (*AL*, VII.i.11-20), gan nad ydynt yn berthnasol yn y rhan hon o'r testun.¹⁵² Dadl

¹⁵² Gw. Aled Rhys Wiliam, 'Llyfr Cyngawsedd', *BBCS*, 35 (1988), 74. Mae Wiliam yn awgrymu bod y darnau hyn (*AL*, VII.i.11-20) yn ogystal â *AL*, VII.i.30-40, sy'n trafod ynadon, yn perthyn gyda'i gilydd ond eu bod wedi cael eu camleoli yng nghynsail B a G yng nghanol darnau am briodolder a dadannudd. Ymddengys bod awdur H wedi sylweddoli hyn: symudodd *AL*, VII.i.30-37 i adran gyffredinol ar ynadon sy'n cynnwys deunydd o nifer o wahanol ffynonellau (gw. §§1064-73); tra symudodd *AL*, VII.i.11-12 fel eu bod yn dilyn *AL*, VII.i.47 (er nad ydynt yn berthnasol iawn yma ychwaith). Mae'r darnau hyn hefyd wedi eu dyfynnu yn J, 91-92 sy'n awgrymu eu bod yn cylchredeg yn annibynnol i weddill Llyfr Cyngawsedd ar un adeg. Mae adran ar gyfran yn *AL*, VII.i.48-51 sydd

yr amddiffynnwr yn §1127 yw fod yr hawlwr wedi cael ei yrru oddi ar y tir yn gyfreithiol yn y gorffennol ac na ddylid ailagor yr un achos drachefn. Yna mae H/PeniARTH 278 yn dilyn trefn Llyfr Cynghawsedd drwy fynd ymlaen i sôn am hawliau ymwrthyn a mamwys.

Mae darn agoriadol y gynghawsedd ar famwys¹⁵³ yn §1130 hefyd yn wahanol i ddechrau'r darn cyfatebol yn *AL*, VII.i.24. Y cyfan a ddywed *AL*, VII yw y dylai'r sawl sy'n hawlio mamwys ddyfod at y tir ymrysonedig i ddechrau'r achos; cyfeirir at swyddogaeth yr arglwydd yn H/PeniARTH 278. Yn ôl H/PeniARTH 278 rhaid i'r hawlwr fynd at yr arglwydd ac erfyn arno i wrando ar ei 'gwyn'. Yna dylai gyflwyno ei achos gerbron yr arglwydd. Swydd yr arglwydd wedyn fyddai dyfynnu neu wysio y pleidiau perthnasol ar y tir dan sylw er mwyn cychwyn achos cyfreithiol. Dylai'r hawlwr gychwyn yr achos drwy adrodd ei ach ac adleisir y geiriau a geir yn §1126: 'a dwyn y ach hyt y cyff ydd henyw yr amddiffynnwr ohonaw.' Dywedir na ddylid ei ateb os nad oedd o fewn graddau cyfylder, ac na ddylid ei ateb yn y dyddiau pan fo'r gyfraith ar gau. O'r pwynt hwn ymlaen mae H/PeniARTH 278 yn cyfateb i *AL*, VII.

Mae §1132 hefyd yn dilyn geiriad Llyfr Cynghawsedd sydd unwaith eto'n sôn am famwys. Yna ceir cynghawsedd o wahanol ffynonellau sy'n trafod yr un pwnc, gan nad ydy Llyfr Cynghawsedd yn manylu rhagor ar famwys: gw. y conspectws. Ceir darnau perthnasol am y pwnc sy'n annibynnol ar Lyfr Cynghawsedd yn §§1133-35 cyn dychwelyd at gynnwys Llyfr Cynghawsedd yn §1137, lle y dechreuir adran ar ddadannudd. Mae hyn yn dangos bod awdur H wedi casglu ynghyd wahanol ddarnau ar yr un pwnc a'u hychwanegu at gynnwys Llyfr Cynghawsedd yn y manau perthnasol, sy'n cynnig tystiolaeth bwysig am sut aeth yr awdur ati i lunio ei destun.¹⁵⁴ Mae §1147 yn sôn am hawl terfyn ac yn cyfateb yn weddol i *AL*, VII.i.41 ac mae §1154 hefyd yn sôn am derfyn ac i raddau yn dilyn *AL*, VII.i.42. Rhwng y ddau destun hyn mae awdur H wedi ychwanegu manion cyfreithiol o ffynonellau eraill sy'n trafod

wedi ei lleoli yng nghanol adran ar eiddo symudol, ac mae hyn yn awgrymu bod trefn Llyfr Cynghawsedd yn wallus yma hefyd. Mae'r drefn lygredig wedi cael ei diwygio yn llawysgrif G ac mae'r adran wedi cael ei symud i ddilyn yr adran ar derfyn (sef ar ôl *AL*, VII.i.42). Mae'r adran hon hefyd wedi cael ei hail-leoli yn H fel ei bod yn dilyn hawl cyfran: gw. §§ 776-88.

¹⁵³ Mamwys oedd yr enw ar yr hawl i etifeddiaeth drwy'r fam, e.e. hawl mab Cymraes oedd wedi priodi alltud am na châi dir drwy ei dad.

¹⁵⁴ Gw. isod, tt. 103-05.

yr un pwnc, e.e. mae §§1148-53 yn tynnu ar ddull Cyfnerth ac yn debyg o ran geiriad i lawysgrif Z.¹⁵⁵

Y gwahaniaeth pennaf rhwng cynghawsedd H/PeniARTH 278 a Llyfr Cynghawsedd yw'r ffordd yr agorir y gynghawsedd, e.e. gw. §§776, 1130. Mae testun H/PeniARTH 278 yn ategu swyddogaeth yr arglwydd: ato ef y dylid mynd i 'gwyno' ac i gyhuddo. Ni sonnir am hyn yn Llyfr Cynghawsedd. Mae Ior hefyd yn cyfeirio at swyddogaeth yr arglwydd mewn achosion tir: 'O deruyd e haulur mennu holy tyr a daear, deuēt en er amseroed henne ar er argluyd e erchy dyd e wrandau e haul henne ar e tyr' (LII §72/18-20). Dywedir yn *AL*, IX.iv.1 ac *AL*, IX.vi.1 y dylid cyflwyno cwyn gerbron yr arglwydd, byddai yntau wedyn yn pennu dyddiad ar gyfer yr achos.¹⁵⁶ Dichon na chrybwyllir y cam hwn yn Llyfr Cynghawsedd gan ei fod yn un o'r camau a oedd yn rhagflaenu cynghawsedd ac felly nid oedd yn berthnasol i'r testun hwnnw. Mae §513 a §622 yn dangos bod modd 'cwyno' wrth yr arglwydd am faterion ac eithrio achosion tir (e.e. mechni). Ar ôl 'cwyno' wrth yr arglwydd byddai yntau wedyn yn dechrau'r broses gyfreithiol. Ar ôl dechrau'r achos cyfreithiol câi'r hawlwr gyflwyno ei hawl neu ei 'gwyn' i'r ynaid. Yn ôl darlleniad H/PeniARTH 278 dylid dilyn rhyw fath o batrwm wrth wneud hyn:

... messur y hawl, a'e hanfot o'r dref honno, ar o'r cyff hwnn a hwnn (§791)

... a dywedut y fot yn briodawr ar y tir hwnn, a'r ddaear, a'e henwi erbyn y henw, a dwyn y ach hyt y cyff ydd henyw yr amddiffynwr ohonaw, ar y tir hwnn a hwnn, yn y dref a'r dref (§1126).

Yn yr adran am arddelw sonnir am sut i annilysu cwyn neu hawl (§§16-18). Yn ôl §18 gellid annilysu cwyn os: 'na henwyd pa ryw da, neu pa ryw dir, neu pa dref, na pha feint, na wahaner . . . neu na henwer yr amddiffynwr neu hawlwr erbyn y henô

¹⁵⁵ Mae'n bwysig nodi nad ôl golygu John Jones Gellilyfdy sydd yma, gw. Tabl 1 sy'n dangos mai dyma'r drefn yn H hefyd. Wrth gymharu §1154 â *AL*, VII.i.42 gwelir bod y gynghawsedd yn wallus a bod diwedd y gynghawsedd ar goll. Mae gweddill y gynghawsedd i'w gael yn § 761 sy'n adlewyrchu'r ffaith fod dalennau H wedi eu camrwymo. Yn H mae testun §1154 i'w gael ar f. 91v tra bo gweddill y gynghawsedd ar f. 63r. Mae hyn yn awgrymu bod f. 63 wedi ei lleoli ar ôl f. 91 ar un cyfnod. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan y rhifau rhufeinig sydd ar ochr chwith ambell ddalen yn H ac sy'n cynrychioli'r daleniad gwreiddiol: gw. Tabl 1. Ymddengys bod y testun yn ei drefn wreiddiol yn mynd rhagddo i sôn am sut i hawlio tir o gyfran, gyda §776 yn cyfateb i *AL*, VII.i.48.

¹⁵⁶ *AL*, IX.iv.1: 'Kyntaf yw kwyn wrth yr arglwyd kanyz kwyn adyly vot yn y lle y bo agyfraith.' Gw. hefyd Charles-Edwards, 'Cynghawsedd: counting and pleading', 198.

bedydd' a.y.y.b. Yn amlwg felly dilynid confensiwn wrth gyflwyno cwyn neu hawl ac os aed yn erbyn y confensiwn gellid taflu achos allan o'r llys. Rhoddir pwyslais ar ffurf y gwyn ac efallai mai penllanw hyn oedd datblygiad y mathau o gwynion a argraffwyd yn *AL*, XII. Mae'r modd y datblygodd awdur H gynnwys Llyfr Cynghawsedd yn awgrymu iddo addasu ei ffynonellau i ateb sialensiau cyfreithiol y bedwaredd ganrif ar ddeg (neu hyd yn oed y bymthegfed ganrif).¹⁵⁷

Fel y nodwyd eisoes mae Llyfr Cynghawsedd wedi goroesi mewn tair llawysgrif:

Llawysgrif B (BL Cotton Titus D ii)

Llawysgrif sy'n dyddio o ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg.¹⁵⁸ Mae llawer o *marginalia* i'r testun sy'n dyddio o'r bymthegfed ganrif¹⁵⁹ ond rhoddir llofnod ar ddiwedd Llyfr Cynghawsedd sydd efallai'n perthyn i Anian II oedd yn esgob Llanelwy o 1268 i 1293.¹⁶⁰ Rhan gyntaf llawysgrif B yw sylfaen golygiad Aled Rhys Wiliam o *LII*.¹⁶¹ Mae testun Ior yn ymestyn hyd at f. 62r; yna ceir copi o Lyfr Cynghawsedd o f. 62r i f. 73v. Mae'n arwyddocaol bod llawysgrif B yn cynnwys copi o'r ddau lyfr, sy'n awgrymu bod awdurdod Llyfr Cynghawsedd yn cael ei gyfrif cystal ag un Ior, neu fod Llyfr Cynghawsedd yn cael ei gyfrif fel rhyw fath o atodiad i Ior. Arwyddocaol hefyd yw'r ffaith fod y llawysgrif hon yn cael ei defnyddio yn ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg ac o bosibl cyn y goncwest a Statud Rhuddlan. Yn llawysgrif B yn unig y defnyddir y teitl Llyfr Cynghawsedd.

¹⁵⁷ Gw. isod, t. 101 ymlaen.

¹⁵⁸ *MWM*, t. 58; *RMWL*, t. 946; Charles-Edwards, *The Welsh Laws*, t. 100; Harris, *A Bibliography*, t. 2.

¹⁵⁹ Argraffwyd y rhain yn *LII*, t. xxxix.

¹⁶⁰ "*Añ pmissione diuina Assauens ecce minis' hmlis M^OCC^O octo . . .*" (f. 73v; *AL* II, t. 173).

Defnyddiodd Anian ei wybodaeth o gyfraith Hywel fel arf yn erbyn Llywelyn ap Gruffudd: gw. *NLC*, t. 28.

G (LIGC Peniarth 35)

Llawysgrif sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg.¹⁶² Mae'r llawysgrif mewn dwy law. Copiwyd Llyfr Cynghawsedd gan law wahanol i weddill y testun ac ar gydiant newydd sy'n awgrymu ei fod yn llyfr oedd yn cylchredeg yn unigol ar un adeg.¹⁶³ Mae ff. 52-70 (sef Llyfr Cynghawsedd) mewn llaw debyg i Beniarth 4 (Llyfr Gwyn Rhydderch) ac mae'r gweddill yn yr un llaw â llawysgrif U (Peniarth MS 37) a Pheniarth 45 sy'n cynnwys copi o *Historia Regum Britanniae* ymysg deunydd eraill.¹⁶⁴ Mae'r llawysgrif yn cynnwys traethawd ar fechni (ff. 20-25); copi o Lyfr Cynghawsedd (ff. 52-70); darnau o Lyfr Cynog (ff. 1-19 a ff. 73-76); fersiwn o Lyfr Iorwerth (ff. 26-49 a 77-111) a Damweiniau (ff. 112-19).¹⁶⁵ Mae Charles-Edwards yn awgrymu bod y llawysgrif wedi ei hysgrifennu ymhellach i'r de na llawysgrif B ac, erbyn y bymthegfed ganrif ar yr hwyr, fod y testun wedi symud i arglwyddiaeth Pengelli ym Mrycheiniog.¹⁶⁶

Mae llawer o *marginalia* i'r fersiwn o Lyfr Cynghawsedd a geir yn llawysgrif G. Ar f. 58r ceir *marginalia* ar waelod y ddalen sy'n darllen: 'Rys ap ry oternyd'¹⁶⁷ yw yn holi tir a tayar o datanôd ar ac eretic hol[i] ar y tir ar e . . .' Mae'r gŵr hwn wedi ailgopïo rhan o'r prif destun yn ei orgraff ei hun. Mae hyn yn awgrymu bod y testun yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol. Dichon fod y gŵr hwn yn ymarfer ysgrifennu ar ochr y ddalen cyn ailgopïo'r testun yn rhywle arall? Mewn llaw arall ar f. 58v ceir: 'Ph ap rys ap jeuan ap rys a bie y llyvyr hwn'¹⁶⁸ tra ar f. 59r rhoddir: 'Rys vechan ap rys a bie y lly[v]y[r] . . .' Roedd Llyfr Cynghawsedd o bosibl yn llyfr a gedwid yn y

¹⁶¹ Mae Aled Rhys Wiliam o'r farn mai llawysgrif B yw'r fersiwn mwyaf dilys o Ior: gw. *LII*, tt. xxxiii-xxxvi. Am ddisgrifiad manwl o'r llawysgrif gw. *LII*, tt. xxxvii-xlii.

¹⁶² Charles-Edwards, 'NLW Peniarth MS 35 (G)', t. 1; *MWM*, t. 59, sy'n dyddio'r llawysgrif i gyfnod diweddarach na *RMWL*, t. 367. Gw. hefyd Harris, *A Bibliography*, t. 7.

¹⁶³ Charles-Edwards, 'Cynghawsedd: counting and pleading', 191; Charles-Edwards, 'NLW Peniarth MS 35 (G)', t. 4. Mae orgraff Llyfr Cynghawsedd G hefyd yn wahanol i weddill y llawysgrif.

¹⁶⁴ Gw. *RMWL*, tt. 367-69; *MWM*, t. 59. Gw. hefyd Aled Rhys Wiliam, 'Y Deddfgronau Cymraeg', *CLIGC*, 8 (1953-54), 100-03.

¹⁶⁵ Gw. A. Rh. Wiliam, 'Restoration of the book of Cynog', *CLIGC*, 25 (1987-88), 246. Gw. hefyd G. A. Elias, 'Llyfr Cynog of cyfraith Hywel and St Cynog of Brycheiniog', *CHC*, 23: 1 (Mehefin 2006), 27-47.

¹⁶⁶ Charles-Edwards, 'NLW Peniarth MS 35 (G)', tt. 6-7.

¹⁶⁷ Mae'r gair hwn yn hynod o debyg i'r gair Saesneg 'attorney' (Saesneg Canol *aturne*, *atorne*). Roedd y gair 'attorney' yn cael ei ddefnyddio yn Lloegr yn y 15g: gw. *Shorter Oxford English Dictionary*, d.g. *attorney*.

¹⁶⁸ Fel y dangosodd Charles-Edwards mae enw'r gŵr hwn yn digwydd yn gynharach yn y llawysgrif ar f. 2r a 5v lle rhoddir darn o Lyfr Cynog. Mae hyn yn dangos bod Llyfr Cynghawsedd wedi ei rwympo

teulu hwn ar un adeg. Mae nifer o lawiau eraill ar ddalennau'r llyfr. Ar f. 55r mewn llaw debyg i un Rhys ap Rhys, os nad yr un llaw, ceir enghraifft arall lle mae llaw ddiweddarach yn dyfynnu rhan o'r prif destun. Mae'r holl ysgrifennu hyn ar ymyl Llyfr Cynghawsedd yn awgrymu ei fod wedi cael cryn dipyn o ddefnydd ar un adeg.

J (Llawysgrif Coleg yr Iesu, Rhydychen 57)

Llawysgrif yn llaw Hywel Fychan *c.* 1400, sef ysgrifydd rhan helaeth o Lyfr Coch Hergest.¹⁶⁹ Golygwyd y testun gan Melville Richards.¹⁷⁰ Bleg yw prif destun y llawysgrif ac mae J yn un o'r llawysgrifau cynharaf o'r dull hwnnw sy'n cynnwys darn o Lyfr Iorwerth. Y gynghawsedd ar ladrad yn unig sydd wedi ei ddyfynnu yn J, sydd efallai'n awgrymu bod gwahanol rannau o Lyfr Cynghawsedd yn cylchredeg yn unigol ar un adeg (neu fod Ior yn cael ei gyfrif yn fwy o awdurdod ar dir).¹⁷¹ Gwyddom fod Hywel Fychan wedi gweithio i Hopcyn ap Tomas o Ynysforan ger Abertawe, sy'n awgrymu bod darn o Lyfr Cynghawsedd yn cylchredeg o amgylch cwm Tawe yn y bymthegfed ganrif.¹⁷²

Llawysgrif F (LIGC Peniarth 34)

Mae darn o Lyfr Cynghawsedd i'w gael yn llawysgrif F (tt. 112-32) a'r testunau tebyg ym Mheniarth 224 (ff. 351-419) a Pheniarth 163 (tt. 119-202).¹⁷³ Mae llawysgrif F yn deillio o ail hanner y bymthegfed ganrif.¹⁷⁴ Nid yw Aneurin Owen yn cyflenwi darlleniadau amrywiol y testun hwn yn ei olygiad o Lyfr Cynghawsedd yn *AL*, VII. Nodir yn y llawysgrif F: 'Ed. ap Rog. ap John ap Ellis Eotton o blwy Riwabon y

gyda gweddill y testun erbyn iddo gyrraedd dwylo'r gŵr hwn. Charles-Edwards, 'NLW Peniarth MS 35 (G)', t. 5.

¹⁶⁹ *RMWL*, t. 34-35; Charles-Edwards, *The Welsh Laws*, t. 100; gw. hefyd *MWM*, t. 60; Harris, *A Bibliography*, t. 17.

¹⁷⁰ Melville Richards, *Cyfraith Hywel Dda yn ôl Llawysgrif Coleg yr Iesu LVII Rhydychen* (arg. diwygiedig, Caerdydd, 1990).

¹⁷¹ Stacey, 'Learning to plead in medieval Wales', 110.

¹⁷² Charles-Edwards, 'Cynghawsedd: counting and pleading', 191. Am Hywel Fychan gw. Gifford Charles-Edwards, 'The scribes of the Red Book of Hergest', *CLIGC*, 21 (1979-80), 246-56; B. F. Roberts, 'Un o lawysgrifau Hopcyn ap Tomos o Ynys Dawy', *BBCS*, 22 (1967), 223-28; P. Morgan, 'Glamorgan and the Red Book', *Morgannwg*, 22 (1978), 42-60.

¹⁷³ Am berthynas y tri thestun hyn gw. Aled Rhys Wiliam, 'Y Deddfgronau Cymraeg', 97-100.

¹⁷⁴ *RMWL*, t. 367; *MWM*, t. 61.

maylor Gymraec pie y llyuer hwnn' (t. 62).¹⁷⁵ Mae'r testun cyfan wedi ei seilio ar destun Peniarth 30, 32 a 35 ac ar fersiwn o Lyfr Cynghawsedd. Argraffwyd rhannau o'r testun (ond nid Llyfr Cynghawsedd) yn *AL*, I, tt. 218-220, 238-262 ac *AL*, II, tt. 2-66, 70-74, 94-96, 78-92, 112-114, 92-94, 118, 102, 174-188, 130-160.¹⁷⁶ Rhoddir y rhagymadrodd hwn cyn dechrau dyfynnu Llyfr Cynghawsedd: '[O] hyn o ffyrd yd holir tir a dayar: o ach ac etrif, a datanhud, ac o famwys, ac o ymvrthyn, ac o ymteruynnu . . . ' (F, t. 112). Gadawyd bwlech ar gyfer prif lythyren fawr nas llenwyd, ac mae hyn yn agwrymu fod yr ysgrifydd yn ymwybodol ei fod yn dechrau copïo testun gwahanol.

Llawysgrif S (BL Add 22356)

Llawysgrif sy'n dyddio o ganol y bymthegfed ganrif ac sy'n cael ei chysylltu â dyffryn Teifi. Golygwyd y llawysgrif gan Christine James.¹⁷⁷ Mae cynffon o ddeunydd atodol wedi ei ychwanegu at gynnwys Bleg yn S; gydag un adran (sy'n perthyn yn agos i Tim) yn dyfynnu llawlyfr dosbarthwr o'r enw Dafydd Llwyd. Mae llawysgrif S hefyd yn dyfynnu darnau o Lyfr Cynghawsedd (e.e. S, §§1938-47). Ni chyfeirir at S, fel F, yn fersiwn Aneurin Owen o Lyfr Cynghawsedd yn *AL*, VII.

Y berthynas rhwng H/Peniarth 278 â llawysgrifau B a G

Llawysgrifau B a G sydd yn cynnwys yr unig gopiâu cyflawn o Lyfr Cynghawsedd. Er bod Llyfr Cynghawsedd llawysgrifau B a G yn hynod o debyg ceir ychydig o amrywiadau rhwng geiriad a threfn y ddau destun sy'n awgrymu nad ydy G yn gopi o B. Mae hyn yn ei dro yn awgrymu bod G yn gopi annibynnol o gysail B.¹⁷⁸

¹⁷⁵ Lleolwyd Maelor Gymraeg yn yr hyn a adwaenid fel Sir Ddinbych. Gw. M. Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969), t. 11. Arferai fod yn rhan o arglwyddiaeth Brwmffild a Iâl. Rhannwyd y cwmwd yn Faenor Saesneg (sef y gwastatir) a Maenor Gymraeg (yr ucheldir). Roedd Iâl a Maenor Gymraeg yn eiddo i deulu de Warenne, ieirll Surrey. Noder bod Siôn ab Elis Eutun, *partisan actif et dévoué de Henri Tudor*, sef taid Edward, yn noddwr i Gutun Owain, a gafodd diroedd yn ardal Rhiwabon a Wrecsam yn wobwr am ei gefnogaeth i'r Tuduriaid (gw. E. Bachellery, *L' Oeuvre Poétique de Gutun Owain* (Paris, 1950-51) t. 268). Ceir achau teulu Eutun yn llsgr. Peniarth 287, t. 101.

¹⁷⁶ *RMWL*, t. 367.

¹⁷⁷ Gw. James, 'Golygiad'; idem, 'Ysgrifydd anhysbys'.

¹⁷⁸ Gw. stema Aled Rhys Wiliam yn *LII*, t. xxix.

Wrth gymharu §1118 â *AL*, VII.i.7 gwelir nad yw'r cymal olaf yn digwydd yn llawysgrif B ond yn digwydd yn llawysgrifau G a H:

Os tridydyt ken pleydau yd edeu e maes, e divarnu en oes er argluyd pyeifo e maes e dyd hvnn; os guedy pleydau, y divarnu en tragewydaul (G, f. 52v).

Os gwedy pleidyaw y maes, y hedeu, y ddifarnu yn dragwydawl; ac am hynny fyth, ympob dadleu, cadeiryer pleidieu am ddadyl tir a daear o'r pan atteber allan (§1118).

Mae hyn yn awgrymu bod perthynas rhwng H a llawysgrif G neu gynsail G (neu fod ysgrifydd B yn esgeulus wrth gopio?).

Ar adegau ceir darlleniad cywirach a llawnach yn H/PeniARTH 278 sy'n debycach i'r hyn a geir yn G nag yn B, e.e. yn y darn am ymwrthyn (§1128). Yn H/PeniARTH 278 ceir 'mae ymddigawn a gatwo hynny' sy'n debyg i 'digaun a gat6o henne' yn G tra rhoddir 'ae gwyr' yn B. Yn H/PeniARTH 278 defnyddir 'hawl' fel G yn lle 'arddelw' llawysgrif B. Cyfeirir at yr arglwydd ar ddechrau'r adran yn H/PeniARTH 278 yn wahanol i BG, a cheir rhai darnau yn G nad ydynt yn B na H/PeniARTH 278.

Mae §1129 yn adleisio *AL*, VII.i.23. Mae rhai o'r ychwanegiadau sydd yn nhestun G ond nid yn B yn digwydd yn H/PeniARTH 278 hefyd.¹⁷⁹ Ond mae'r cymal 'y rhot ti a'th hawl a thlyet' yn gyfuniad o'r hyn a geir yn B 'y ryghot ty a'th dilyet' a G 'y ryghot ty a'th haul,' tra ceir rhai geiriau sy'n digwydd yn H/PeniARTH 278 a B ond nid yn G. Mae §1137 i'w weld yn nes at eiriad B na G; gw. hefyd y cymal cyntaf yn §1132. Mae hyn yn awgrymu bod H yn defnyddio B a G neu fersiynau ohonynt.

Mae §1071 yn rheol sy'n digwydd yn nhestun G a H/PeniARTH 278 yn unig; nid yw'n ymddangos yn B. Er hynny, ceir ychydig o amrywiad rhwng geiriad y ddau destun sy'n awgrymu nad ydy cynghawsedd H/PeniARTH 278 yn gopi uniongyrchol o gynghawsedd G (na'r ffordd arall).

Yn ddifyr, mewn dau wahanol le, mae Aneurin Owen yn ei *AL*, VII yn ychwanegu cymalau at y prif destun, sef testun llawysgrif B, sydd yn ôl yr amrywiadau testunol yn tarddu o destun llawysgrif G. Ond mewn gwirionedd nid ydynt yn digwydd yn llawysgrif G ac maent wedi eu codi o destun PeniARTH 278: gw. §788 a §1051. Mae hyn yn awgrymu'n gryf fod Aneurin Owen yn meddwl fod

¹⁷⁹ Gw. y geiriau mewn bachau petryal yn y dyfyniad perthnasol o *AL* yn y nodiadau testunol ar §1129.

cynghawsedd H/Peniarth 278 a G yn rhannu'r un gysail, neu hyd yn oed eu bod yn gopïau o'i gilydd.

Cynghawsedd F, J ac S

Ni ddyfynnir y cyfan o Lyfr Cynghawsedd yn F. Ni cheir cyfatebiaeth i *AL*, VII.i.1, i.20, i.23-4, i.29-32, i.34-5, i.40-5, i.50-1. Mae F yn dilyn trefn B a G drwy (gam)leoli'r testun am lysianau a llwon yng nghanol cyfraith ar briodolder.¹⁸⁰

Ceir rhai ychwanegiadau at y gynghawsedd yn F fel yn G, nad ydynt yn digwydd yn B, e.e.:

Ac ossit a amheuo y ry yrru yn agyfreith, bot idav digavn a'e gvyppo (F, t. 112)

Ac ossyt a'y amhevo e reyrhu en angkyfreithaul, bot ydau digaun a'y guypno (G, f. 53v).


Er hyn, ceir gwahaniaethau rhwng F a G sy'n awgrymu nad ydyw F yn gopi uniongyrchol o G, er bod perthynas agos rhyngddynt. Weithiau mae geiriad H/Peniarth 278 yn nes at F. Yn §1128 sonnir am 'ormes anyledoc' a chyfeirir at 'yn ormes ac yn anlyedave' yn F (t. 115) ond nid yw hyn yn bresennol yn BG. Serch hynny, gan fod enghreifftiau yn brin, anodd yw dod i gasgliad am berthynas F â H/Peniarth 278.

Y gynghawsedd am dystion a lladrad (*AL*, VII.i.38-51) yn unig a ddyfynnir yn J. Unwaith eto gwelir o'r amrywiadau testunol fod geiriad cynghawsedd J yn nes at eiriad G na B ar adegau, ond nid yw'n ddigon agos i fod yn gopi ohono. Darn byr o'r gynghawsedd sy'n trafod hawliau tir a ddyfynnir yn S ac unwaith eto mae'r geiriad i'w weld yn agosach at G.

Mae hyn oll yn creu darlun sydd braidd yn gymhleth. Er hynny, gellir dod i'r casgliad fod geiriad cynghawsedd y testunau diweddarach (sef H, G, J, a F) yn nes at ei gilydd nag at eiriad B. Efallai y gellid cynnig y stema hwn i ddangos perthynas

¹⁸⁰ Gw. uchod, n. 152.

trosglwyddiad Llyfr Cynghawseidd. (Rhannau o Lyfr Cynghawseidd yn unig sydd yn y llawysgrifau mewn cromfachau):



iii. Cynghawseidd *AL*, IX

Mae Llyfr Cynghawseidd (*AL*, VII) yn cynrychioli cyfraith Wyndodaidd cyn y goncwest. Mae'r llyfr cyfraith sy'n cael ei gynrychioli yn *AL*, IX ar y llaw arall yn cynrychioli'r gynghawseidd a ddatblygodd ar ôl y goncwest. Mae *AL*, IX yn cynnwys dau gasgliad o gynghawseidd: IX.i-xvi sy'n trafod lladrad a IX.xxvi-xxxvii sy'n trafod hawliau tir, sef dau bwnc cyfreithiol tra phwysig.¹⁸¹ Yn nhestun *AL*, IX, a'r copïau llawysgrifol sydd y tu cefn iddo,¹⁸² cawn gipolwg pwysig ar ddatblygiad y gyfraith yn yr Oesoedd Canol diweddar. Ymddengys bod H yn cynnwys y darnau cynharaf o'r testun hwn. O ran hwylustod cyfeirir at y testun fel y mae wedi ei argraffu yn *AL*, IX. Trafodir y llawysgrifau unigol sy'n cynnwys y testun isod.¹⁸³

a) Cynghawseidd I: Lladrad

Mae *AL*, IX yn agor drwy restru'r gwahanol ffyrdd y gall dyn golli ei eiddo ac yn mynd ymlaen i drafod sut y dylid erlyn achos o ladrad. Rhoddai'r testun bwyslais ar eiddo symudol yn hytrach na thir, yn wahanol i Lyfr Cynghawseidd. Mae dechrau *AL*, IX (IX.i.1-2), sy'n sôn am y ddau wahanol fathau o ladrad, yn cyfateb i §§1013-14. Ni cheir cyfatebiaeth i *AL*, IX.i.3-17 yn *H/Peniarth* 278 gan fod y rhan honno o'r testun

¹⁸¹ Gw. isod, t. 101 ymlaen.

¹⁸² Mae testun llyfr IX wedi ei seilio ar lawysgrif \bar{A} (15g) gydag amrywiadau testunol o Isgrau. 'M' (15g) a Z (16g).

yn cyflwyno eisteddiad a threfn y llys drwy ddefnyddio achos o ladrad fel esiampl. Rhoddir eisteddiad a threfn y llys yn §1049-52 ond gan ddilyn dull Ior a Llyfr Cynghawsedd sy'n defnyddio achos tir fel esiampl.¹⁸⁴

Mae §661 yn cyfateb i *AL*, IX.i.18-19 lle y cynigir model ar sut i ddatblygu dadl o eni a meithrin. Roedd geni a meithrin yn un o'r tri arddelw posibl mewn achos lle bo anifail wedi ei ddwyn.¹⁸⁵ Gallai'r amddiffynnwr wadu y cyhuddiad o ladrad yn ei erbyn drwy honni mai ef a fagodd yr anifail dan sylw. Mae testun H/PeniARTH 278 a *AL*, IX yn datblygu'r hyn a ddywed Ior am y pwnc:

Os o eny a meythryn e keys y ardelu, gunaet ual hyn: dodet em pen keytweyt bot en eydau y uam a'e eny a'e ueythryn ganthau, ac nat aeth y ar e perchennogaeth a'e warchadu hyt hedyu. As ysef y ryu keytweyt a dele bot ydau, kemedauc uuch llau ac arall ys llau (ac ysef y ryu wyr yu e rey henne, gur uuch e ureynt a gur ys e ureynt noc ef), ac os keyff dogyn yu ydau (*LII*, §114/3-9).

Mae H/PeniARTH 278 ac *AL*, IX yn fwy technegol. Rhoddir geiriau'r ynad: 'Pwy dy geitweit ti a pha le y maynt?' (§661). Rhaid oedd i'r sawl oedd yn hawlio geni a meithrin gael mwy nag un ceidwad (sef math arbennig o dyst) i gefnogi'r hyn a ddywedai. Rhaid oedd iddo enwi'r ceidwaid a ble y gellid dod o hyd iddynt, a chât amser i'w cyrchu i'r llys. Pe bai'r ceidwaid hynny'n methu gallai gynnig ceidwaid newydd, ond ni fyddai'n cael amser i'w cyrchu i'r llys. Rhaid oedd iddo dyngu mai ef a fagodd yr anifail dan sylw: 'gwelet y feithrin a gwybot y eni' (§661). Yna tystied y ceidwaid i'r un perwyl. Manylir ar y gwŷr nad oedd yn addas fel ceidwaid. Ymddengys bod awdur H yn ymwybodol o'r berthynas rhwng y darn hwn o gynghawsedd a thestun Ior gan fod §664 yn dyfynnu Ior ar yr ail arddelw, sef cadw cyn coll.

Mae gweddill y gynghawsedd (*AL*, IX.i.20-32) wedi ei symud i adran benodol ar geidwaid yn §§833-47.¹⁸⁶ Agorir yr adran honno yn H/PeniARTH 278 drwy nodi teithi ceidwaid (sef eu nodweddion). Yna dilynir yr un patrwm â'r llyfr a gynrychiolir yn *AL*, IX. Swyddogaeth y ceidwad yn y cyd-destun hwn oedd tystio i sefyllfa'r

¹⁸³ tt. 48-53.

¹⁸⁴ Gw. uchod, t. 28 ymlaen.

¹⁸⁵ Y ddau arall oedd 'cadw cyn coll' ac 'arwaesaf': gw. *LII* §114/1-2.

¹⁸⁶ Dyma'r drefn yn y llawysgrif wreiddiol hefyd. Mae'r testun sy'n cychwyn â theithi ceidwaid (sef §§833-49) wedi ei leoli gyda'i gilydd ym MheniARTH 164 (tt. 131-34): gw. Tabl 1 am y gyfatebiaeth.

amddiffynnwr. Sonnir am sut i gwestiynu dilysrwydd y ceidwad sy'n cael ei gyhuddo o fod yn alltud, gan na châi alltud roi tystiolaeth yn erbyn Cymro. Rhaid i'r ceidwad ateb y cyhuddiad drwy ddadlau ei fraint, drwy wadu ei fod yn alltud, neu drwy ofyn i'r hawlwr enwi'r hwn sy'n ei alw'n alltud yn ogystal â gwadu'r cyhuddiad yn ei erbyn. Pa un bynnag o'r dadleuon hynny a ddewisai'r ceidwad fel amddiffyniad rhaid oedd iddo gyflwyno tystion neu wybyddiaid i'w gefnogi, a rhaid i'r hawlwr hefyd gynnig gwybyddiaid i'w gefnogi yntau. Manylir ar sut i ddatblygu'r tair dadl. Gellid gwrthwynebu'r gwybyddiaid a gâi eu galw, a phe bai gwybyddiaid un yn methu byddai'r llall yn ennill. Dewis arall yw i'r hawlwr wrthwynebu'r ceidwad drwy honni ei fod yn un o'r tri gŵr na ddylid dibynnu ar eu gair; sef dyn llwfr, dyn crefyddol a dorro ei broffes, a dyn oedd wedi rhoi camdystiolaeth yn y gorffennol. Rhaid i'r hawlwr gynhyrchu gwybyddiaid oedd wedi gweld y ceidwad yn cyflawni un o'r gweithredoedd hyn. Mae'r gyfatebiaeth i *AL*, IX yn peidio ar ôl §847 gyda §848 yn cynnig dimensiwn gwahanol i'r gynghawsedd. Yn §848 mae'r cyngaws, sef llefarwr ar ran yr amddiffynnwr, yn cwestiynu dilysrwydd y gwybyddiad sy'n honni na ddylid credu gair y ceidwad. Mae'r cyngaws yn honni nad yw'r gwybyddiad wedi cyflawni teithi gwybyddiaid. Mae'r cyngaws hefyd yn gwrthwynebu'r gwybyddiad ar sail un ai galanas, tirdra neu gwreictra (sef un o'r 'tri llyssyant cyfreithyawl') a fyddai'n golygu bod gelyniaeth rhwng teulu'r gwybyddiad a'r ceidwad. Mae'r darn hwn (§§833-47) yn dangos nad oedd ar awdur H ofn golygu ei gynsail a lleoli darnau o'r testun mewn manau oedd yn berthnasol iddo ef, nac ychwaith yn ofni ychwanegu ato.

Mae ail bennod *AL*, IX yn trafod sut i erlyn lladrad ac yn manylu ar niferoedd y rhaith yr oedd ei angen i wadu cyhuddiad o ladrad. Mae *AL*, XI.ii.2-4 yn adleisio §§925-30, ac mae'r rhan hon o destun H/PeniARTH 278 ac *AL*, IX yn perthyn i'r adran ar ladrad yn *LII*, §111/17-32. Mae §§932-33 hefyd yn cyfateb yn weddol o ran cynnwys ond nid o ran geiriad i *AL*, IX.ii.5 a *AL*, IX.ii.7. Mae §§934-42 yn gofyn nifer o gwestiynau; gelwir y math hwnnw o destun yn holiadon. Dichon mai swyddogaeth yr holiadon oedd cynnig cwestiynau y gellid eu gofyn i ddarpar ynadon, yn aml roeddent wedi eu seilio ar gynnwys y Tair Colofn Cyfraith. Defnyddiwyd techneg debyg yn llenyddiaeth gyfreithiol Lloegr yn yr Oesoedd Canol.¹⁸⁷ Mae'r cwestiynau a

¹⁸⁷ Am enghreifftiau gw. Robin Chapman Stacey, 'Instructional riddles in Welsh law', yn Leslie Jones a Joseph Falaky Nagy (goln.), *Heroic Poets and Poetic Heroes: A Festschrift for Patrick K. Ford* (Dublin, 2004), t. 341.

ofynnir yn §935 a §937 yn adleisio *AL*, IX.xxi.3 a *AL*, IX.xxi.4 tra bo §938 yn cyfateb i *AL*, IX.xxi.2.

Mae nifer o fân adrannau eraill ar ladrad yn H/Peniarth 278 (§§298-313 a §§647-93) ac mae'r rhain ar adegau yn adleisio *AL*, IX.iii.¹⁸⁸ Mae hyn yn awgrymu'n gryf fod gan awdur H fersiwn o'r testun sy'n cael ei gynrychioli yn *AL*, IX at ei ddefnydd pan oedd yn llunio ei adrannau ar ladrad. Yn wahanol i ddefnydd yr awdur o Llyfr Cynghawsedd nid yw trefn testun H/Peniarth 278 ac *AL*, IX yn debyg a cheir mwy o amrywiadau geiriol rhwng y ddau destun (sydd efallai'n dangos nad oedd i'r testun gymaint o awdurdod â Llyfr Cynghawsedd). Mae *AL*, IX.ii-iii yn cynnwys casgliad o reolau byrion ar ladrad. Dichon fod yr arddull hon yn ei gwneud hi'n haws i awdur H addasu ei gysail, a lleoli'r gwahanol reolau lle mynnai yn ei destun.

Mae testun *AL*, IX yn mynd ymlaen i drafod yn unigol y gwahanol fathau o ladrad a restrir ar ddechrau'r llyfr. Nid yw awdur H yn gwneud defnydd o'r drafodaeth fer a geir am ladrad drwy drais,¹⁸⁹ yn hytrach mae'n dilyn Llyfr Cynghawsedd ar y pwnc.¹⁹⁰ Nid yw *AL*, IX yn trafod y math hwn o ladrad yn fanwl iawn ond yn hytrach cynigir amlinelliad o'r prif gamau y dylid eu cymryd; dywedir y dylid cyflwyno cwyn gerbron yr arglwydd a'i le yntau wedyn oedd rhoi'r gyfraith ar waith, yna dylai'r amddiffynnwr ddewis arddelw a rhoddir tair enghraifft o arddelwau posibl, ar ôl hyn gallai'r hawlwr gwestiynu ei geidwaid. Hwyrach nad ydyw testun *AL*, IX yn cynnwys deialog gan fod Llyfr Cynghawsedd yn cynnig esiampl o hyn. Mae un cymal o'r adran ar drais absen, sy'n datgan nad oes gwir drais ond trais gwraig, yn cyfateb i ran o destun H/Peniarth 278 (ond mae wedi ei leoli yng nghanol adran ar dreisio merched yn hytrach nag mewn adran ar ladrad fel yn *AL*, IX).¹⁹¹

Mae *AL*, IX.vi.1-2, sy'n sôn am anghyfarch, hefyd yn ategu mai wrth yr arglwydd y dylid cwyno am drosedd: 'Kwyn yn gyntaf ac gwedy roddo [yr] arglwyth gyfraith yr howlor . . .' Ceir cyfatebiaeth i'r adran hon yn §1040: cf. 'Am angcyfarch fal hynn y mae y holi: achwyn wrth arglwyddiaeth, ac yn ol y cwyn peri y ddyfynnu dyn a ddyly yr arglwydd . . .' Eir ymlaen i gynnig tri math o arddelw fel amddiffyniad posibl a'r canlyniadau pe bai'r arddelw yn methu neu'n ffynnu. Mae awdur H yn defnyddio'r darn hwn fel dechrau i'w adran yntau ar anghyfarch. Yn dilyn ceir darn

¹⁸⁸ Gw. y conspectws am y cyfatebiaethau.

¹⁸⁹ *AL*, IX.iv.1-3.

¹⁹⁰ Gw. §1027/*AL*, VII.1.43.

sy'n unigryw i H/PeniARTH 278 sy'n cyfeirio at wahaniaeth barn am ystyr anghyfarch: 'rhei o'r yneit a ddyweit nat oes angcyfarch o cyfreith, canys o dygir da dyn yn y absen, lledrat yw; o dygir yn y wydd, treis yw: cygheussaeth dda yw honno' (§1041).¹⁹² Yna dyfynnir trafodaeth Llyfr Cynghawsedd ar anghyfarch (§§1043-46/*AL*, VII.i.44-47). Mae hyn eto'n dangos yr awdur wrth ei waith yn golygu ei ffynonellau gan gasglu ynghyd wahanol ddarnau o gyfraith oedd yn trafod yr un pwnc.

Yn *AL*, IX.vii-xiv eir ymlaen i drafod yn fras echwyn, adnau, benthyg, llog, cyfnewid, llesgedd, gwarchae a chychwyn anghyfreithiol. Ni cheir cyfatebiaeth i hyn yn H/PeniARTH 278. Serch hynny, mae §1075 yn cyfateb i *AL*, IX.xv.1 a §1076 i *AL*, IX.xvi.1-2 lle sonnir am yr amser a roddid i amddiffynnwr ateb y 'gwyn' oedd yn ei erbyn. Mae *AL*, IX.xvi yn cynnig model arall ar sut i gynnal achos llys. Nid yw awdur H yn dilyn y model hwn gan ei fod yn glynu at awdurdod Ior. Er hyn, mae rhai o'r cymalau epigramatig â chyfatebiaeth iddynt yn H/PeniARTH 278, e.e. §1110 (cf. *AL*, IX.xvi.25), lle symudodd awdur H ddeunydd cyffredinol am y cyngaws i adran benodol yn ei destun sy'n trafod y cyngaws.

b) Cynghawsedd II: Tir

Mae'r ail gasgliad o gynghawsedd yn digwydd yn niwedd y llyfr (*AL*, IX.xxvi-xxxvii) ac yn canolbwyntio ar gyfraith y tir. Mae *AL*, IX.xxvi yn rhestru'r gwahanol dulliau o hawlio tir: sef ach ac edryf, dadannudd, ymwrthyn, mamwys ac ymderfynu. Mae gweddill y testun yn trafod y dulliau hyn yn unigol.

Yn *AL*, IX.xxvii rhoddir model ar sut i ddatblygu dadl o ach ac edryf. Ni cheir cyfatebiaeth i'r rhan hon o'r testun yn H/PeniARTH 278 gan fod H/PeniARTH 278 yn dilyn trefn Ior a Llyfr Cynghawsedd ar y mater.¹⁹³ Ni cheir cyfatebiaeth ychwaith rhwng yr adran ar ddadannudd ac ymwrthyn yn *AL*, IX a thestun H/PeniARTH 278; unwaith eto dewisodd awdur H ddilyn Llyfr Cynghawsedd. Mae testun §1133-34 yn adleisio rhan o gyfraith mamwys a geir yn *AL*, IX.xxx.13-17. Ond mae hyn fel rhyw fath o ddilyniant i gyfraith mamwys Llyfr Cynghawsedd sy'n cael ei ddyfynnu yn §1130 a

¹⁹¹ §1031/*AL*, IX.v.5

¹⁹² Mae hyn yn awgrymu bod ystod eang o gynghawsedd ar gael ar un adeg, ac mai canran fechan yn unig sydd wedi goroesi hyd heddiw.

¹⁹³ Gw. uchod, t. 28 ymlaen.

§1132. Mae hyn yn awgrymu mai Llyfr Cynghawsedd oedd y prif awdurdod ar faterion yn ymwneud â thir.

Mae rhan o destun H/PeniARTH 278 yn cyfateb i'r adran ar gyfran yn *AL*, IX.xxxi (gw. §§786-87). Er hynny, ni sonnir llawer am gyfran yn y rhan honno a chaiff ei defnyddio fel rhyw fath o ragymadrodd i'r adran ar gyfran yn Llyfr Cynghawsedd (*AL*, VII.i.51) sy'n digwydd yn §788. Mae'r rhan o'r testun sy'n sôn am hawl gyhyd (*AL*, IX.xxxii) hefyd yn cael ei adleisio yn H/PeniARTH 278 ond eto nid yw'r geiriad yn cyfateb yn union. Fe'i lleolir yng nghanol testun arall ar yr un pwnc sydd yn amlwg yn perthyn i *DwCol* a *Tim* (gw. §§792-800 a'r conspectws). Mae paragraff agoriadol yr adran hon ar gyhyd yn unigryw i H/PeniARTH 278 (§791) ac mae ei eiriad yn adleisio rhannau eraill o'r testun sy'n sôn am sut i ddechrau achos cyfreithiol: 'Dyfot ar arglwydd a manegi i hanfot ef o'r dref honn a honn, ac erchi yr Duw, iddaw beri yawnder iddaw o'e ddlyet . . .' Ymddengys bod hyn yn rhyw fath o fformiwla ar sut i agor cynghawsedd.

Mae'r adran ar rannu tir yn H/PeniARTH 278 yn glytwaith o wahanol destunau. Mae §§776-77 yn dilyn Llyfr Cynghawsedd ar gyfran,¹⁹⁴ yna ceir pwt sy'n debyg i lor yn §778¹⁹⁵ tra bo §779 yn cyfateb i *AL*, IX.xxxiii.2-9. Rhoddir pennawd gwahanol i'r testun yn H/PeniARTH 278 o'i gymharu â *AL*, IX: 'Atran neu gyfran tir fal hynn y may y holi' yw'r teitl yn H/PeniARTH 278 tra yn *AL*, IX. ceir: 'Val hyn ydyleir am orffen rann.' 'Atran' oedd y tir a oedd dros ben ar ôl rhannu etifeddiaeth.¹⁹⁶ Nid yw dechrau'r adran hon fel ag y mae yn *AL*, IX yn digwydd yn H/PeniARTH 278: 'Pwybynnac a gao dechrev ran ef adyly kael rann o gwbl kany ddryllia kyffraith [i] ddylyet a neb onyt amot ay gwna' (*AL*, IX.xxxiii.1). Ond o'r pwynt hwn ymlaen mae'r ddau destun yn cyfateb i'w gilydd. Ar ôl i'r ddwy blaid eistedd câi'r hawlwr fynegi ei hawl drwy ddweud ei fod un ai yn frawd, cefnder, neu gyfylder i'r amddiffynnwr ac felly fod ganddo hawl i ran o'r tir teuluol oedd ym meddiant yr amddiffynnwr. Cafodd ei gynnwys yn y rhaniad cyntaf o'r tir a gall gynnig tystion i brofi hyn; ac felly roedd ganddo hawl i ran arall pan rennid y tir yn derfynol (e.e., pan ad-drefnid y tir ar ôl marwolaeth un o'r priodorion). Rhaid i'r amddiffynnwr ateb yr hawlwr drwy un ai gyfaddef hynny, gwadu hynny, neu drwy arddelw cyfreithiol. Fel arddelw gallai'r amddiffynnwr

¹⁹⁴ Cf. *AL*, VII.i.48-49

¹⁹⁵ Cf. *LII*, 78/22-27.

¹⁹⁶ Gw. *LIB*, xxxiii-xxxv.

gytuno â'r hawlwr iddo rannu'r tir gydag ef yn wreiddiol ond na ddylai ailrannu ag ef. Pe bai'r hawlwr yn cytuno â hynny rhaid iddo fodloni ar yr hyn a gafodd eisoes. Pe bai'n gwadu gellid defnyddio gwybyddiaid yr amddiffynnwr. Dewis arall yw i'r hawlwr gytuno iddo gael rhan o'r tir gyda'r amddiffynnwr ond na rennid y cyfan o'r tir a bod ganddo hawl i'r tir hynny oedd yn weddill. Dadleuid dros bwy y byddai'n cael cyflwyno ei wybyddiaid gyntaf. Byddai canlyniad yr achos yn dibynnu ar eiriau a braint y gwybyddiaid.

Yn dilyn hyn yn H/Peniarth 278 dywedir: 'Ny ddyly neb gofyn atrann ar dir, onyt y nep ny chafas dewys gynt' (§780). Mae hyn yn adleisio *LIB*, 75/5-7: 'Ny dily neb gofyn atran onyt y neb ny chafas ran dewis; odynd y diaereb yssyd, "nyt oes warthal gan dewis." ' Nodir hyn hefyd yn *WML*, 50/14-5 a 53/6-8. Mae'r ddihareb hon yn awgrymu nad oedd gan neb hawl i'r 'atran' (neu'r tir dros ben) os y caent ddewis eu rhan pan rennid y tir.¹⁹⁷ Fel rheol y brawd hynaf a gâi ddewis ei ran a'r mab ieuaf yn rhannu, felly eiddo'r mab ieuaf fyddai'r 'atran'.¹⁹⁸ Mae rheol arall yn Bleg yn awgrymu y câi cyd-etifeddion y cyfle i ennill tir o 'atran': 'pan del y hamser,' ac mai trwy'r dull hwnnw yn unig y gallent hawlio rhan arall o dir y teulu.¹⁹⁹ Mae hyn yn awgrymu y gellid ailagor y mater ar ôl i frodyr farw ac y gellid rhannu'r tir o'r newydd rhwng cefndryd. Mae'r darn hwn o H/Peniarth 278 yn creu darlun cymhleth ac yn adlewyrchu'r ffaith fod dryswch cyffredinol yn y llyfrau cyfraith ynghylch rhannu tir.

Ni cheir cyfatebiaeth yn H/Peniarth 278 i weddill cynghawsedd *AL*, IX (sef *AL*, IX.xxxiv-IX.xxxix) ac eithrio dau driawd, e.e. mae 'Tri gwystyl a ellir y mwynhau cyn y digwyddaw' (§415) yn cyfateb i *AL*, xxxviii.13: 'Tri gwystyl nyt anghyfraith ev mwynhav kyn digwyddaw.' Mae'r triawd o'r enw 'Tri chynghwarchadw cyfreithiawl' (§385) yn adleisio cymal yn *AL*, IX.xxxiv.1: 'sef yw kygwarchadw ar diffaith ty ac odynd ac ysgvbor.'

Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu bod awdur H yn defnyddio fersiwn o'r llyfr cyfraith sy'n cael ei gynrychioli yn *AL*, IX wrth lunio ei destun. Defnyddiodd awdur H y gynghawsedd hon ochr yn ochr â Llyfr Cynghawsedd. Er hynny, ymddengys mai Llyfr Cynghawsedd oedd yn cael ei gyfrif fel yr awdurdod pennaf ar gyfraith tir tra bo cynseiliau *AL*, IX yn canolbwyntio mwy ar gyfraith lladrad.

¹⁹⁷ Gw. *LIB*, tt. xxxiii-xxxv.

¹⁹⁸ *Ibid.*, t. xxxiv.

¹⁹⁹ *Ibid.*, 77/11-14.

c) Gweddill *AL*, IX

Nid yw *AL*, IX.xvii-xxv yn gynghawsedd fel y cyfryw; ond mae'r rhan honno o'r llyfr hefyd yn haeddu rhywfaint o sylw. Mae'r rhan honno o'r testun yn cynnwys darnau amrywiol o gyfraith. Ar adegau gwelir bod perthynas rhwng yr adran ar groesau yn H/Peniarth 278 a'r adrannau ar groesau yn *AL*, IX.xvii ac *AL*, IX.xxv.2-3 (gw. y conspectws am y cyfatebiaethau). Mae H/Peniarth 278 yn cynnwys yr adran hwyaf ar groesau yn y llyfrau cyfraith (§§952-987). Roedd rhoi croes ar dir yn ffordd o arwyddo bod achos cyfreithiol arfaethedig yn ei gylch. Yn aml defnyddid croes i ddynodi ffiniau a dichon ei fod yn arferiad a ddechreuodd ar dir eglwysig.²⁰⁰ Ceir fersiwn o'r Naw Tafodiog yn *AL*, IX.xviii sy'n debyg i §§1010-11. Mae'r adrannau am alanas (*AL*, IX.xx, xxiv) a lladrad (*AL*, IX.xx) hefyd â pheth cyfatebiaeth iddynt yn H/Peniarth 278 (gw. y conspectws). Eto mae hyn yn awgrymu'n gryf fod awdur H wedi gweld fersiwn o un o'r testunau sy'n sail i *AL*, IX.

Fel y nodwyd eisoes, ffynhonnell testun *AL*, IX yw llawysgrif *Ā* gyda darlleniadau amrywiol o 'M' a Z. Yn awr dylid troi at y llawysgrifau a ddefnyddiodd Aneurin Owen wrth lunio ei *AL*, IX.

Ā (Peniarth 175)

Llawysgrif sy'n dyddio o ail hanner y bymthegfed ganrif yw hon.²⁰¹ Ar y clawr ysgrifennodd Thomas Wiliems o Drefriw: "D Guilielmi Morgani ex dono Tho: Guilielmi."²⁰² Cyfeirio y mae at William Morgan, cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg. Cafodd William Morgan ei gysegru yn esgob Llandaf ym 1595 ac yn esgob Llanelwy ym 1601.²⁰³ Mae hyn yn awgrymu bod y llawysgrif yn cylchredeg o amgylch y gogledd-ddwyrain ar un cyfnod. Bu'r llawysgrif hefyd trwy ddwylo Robert Vaughan, Hengwrt. Dyma sylfaen *AL*, IX (*AL*, IX.i.-IX.xxxviii). Mae tt. 1-87 yn cyfateb i lawysgrif Peniarth 36c ('M'), tt. 1-57. Ceir pwt bach o destun yn tt. 87-88 sy'n

²⁰⁰ Sara Elin Roberts, 'Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog', *SC*, 35 (2001), 312.

²⁰¹ *MWM*, t. 62.

²⁰² *RMWL*, t. 970.

annibynnol ar Peniarth 36c. (*AL*, IX.xxxviii.13-16). Cloir y llawysgrif mewn llaw ddiweddarach sy'n nodi ach Hywel Dda: 'Aldvdd verch ywain ap edwyn ap Gronw ap eingion ap ywain ap hywel ap kadell ap Rodri mawr ap Rodri molwnoc o essayld verch kynan dindaethwy,' ymysg deunydd eraill sydd bellach yn annarllenadwy.

'M' (Peniarth 36c)

Dyddia'r llawysgrif o'r bymthegfed a'r unfed ganrif ar bymtheg.²⁰⁴ Nodir ar y clawr: 'Frag yw arwydd y llyfran hwn yn neddgrawn W.M.' Mae tt.1-57 yn cyfateb i \bar{A} , tt. 1-87 (*AL*, IX.i.1-IX.xxxviii.12) ac yna ceir testun sy'n wahanol i \bar{A} sy'n cychwyn gyda 'Llyma kyffrayth llys . . .'. Argraffwyd tt. 57-58 yn *AL*, IX.xxxix.1-2. Ymddengys bod darn o destun wedi mynd ar goll rhwng tt. 58 a 59. Mae t. 59 yn cychwyn ar ganol triawd sydd hefyd i'w gael yn H, Tim, S a Q: 'kenedyl: melyn, a corret, a perllan, ac ny renyr namen ev frwyth.' Mae tt. 59-60 yn debyg i Ior. Mae tt. 61-88 mewn llaw wahanol ac yn cynnwys darnau amrywiol o gyfraith gan gynnwys darn o Lyfr Cynog. Mae'r llaw hon yn cael ei dyddio i'r unfed ganrif ar bymtheg.²⁰⁵

Yn y gynffon i 'M' dywedir:

Meichie a vo dros arall ar [hed]wch a thori o'r dyn yr hedwch nid atep y meichie o chair dall y dyn a'i tores. Onid rraid ir meichie tallv dros doriat yr heddwch oni all y dyn y dalv. A hono y sy varn Tudur ap Jeuan goch anno regni Henrici sexti septimo in curia de Issalet (Peniarth 36c, f. 74).

Roedd Harri'r VI yn naw mis oed pan fu farw ei dad Harri'r V ym mis Awst 1422, ac yn dechnegol daeth yn frenin Lloegr a Ffrainc bryd hynny (gan fod Charles VI, ei daid o ochr ei fam, brenin Ffrainc, hefyd wedi marw ym 1422) ond ni chafodd ei goroni fel brenin Lloegr tan 1429 ac yntau ond prin yn wyth oed.²⁰⁶ Er na chafodd ei goroni'n swyddogol tan 1429 dechreuwyd cyfrif ei deyrnasiad o 1 Medi 1422. Roedd ei

²⁰³ Am William Morgan gw. R. G. Gruffydd, 'Y Beibl a Droes i'w Bobl Draw': *William Morgan yn 1588* (London, 1988); idem, 'William Morgan', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith (Darlithiau Rhydychen)* (Llandysul, 1970), 149-74.

²⁰⁴ *MWM*, t. 63; hefyd gw. Charles-Edwards, *The Welsh Laws*, t. 102; *RMWL*, t. 370.

²⁰⁵ *Ibid.*

²⁰⁶ Gw. C. T. Allmand a Dorothy Styles, 'The coronation of Henry VI', *History Today*, 32 (May 1982), 28-33; R. A. Griffiths, *The Reign of King Henry VI* (London, 1981).

seithfed flwyddyn fel brenin yn disgyn rhwng 1 Medi 1428 ac Awst 31 1429.²⁰⁷ Mae'n debyg mai cyfeirio at farn a roddwyd yn y gorffennol a wneir yma o gofio dyddiad y llawysgrifen. Nid yw'r un Tudur ab Ieuan Goch a enwir yn Bartrum's *Welsh Genealogies 1400-1500* yn cyfateb o ran dyddiad i'r hyn a roddir yn y testun. Serch hynny, ceir cyfeiriad byr at Dudur mewn cofnod ariannol lle nodir bod Tudur yn cael cyflog blynyddol o £5 am ei swydd fel ynad arglwyddiaeth Dinbych.²⁰⁸

Copiwyd barn Tudur ddwywaith (mae'n digwydd hefyd ar f. 73) a dichon fod hyn yn awgrymu ei fod wedi ei godi o ffynhonnell ysgrifenedig lle gwnaeth y copïydd y camgymeriad o gopïo'r un peth ddwywaith. Cofnodwyd yr un nodyn mewn Lladin ar dudalennau olaf llawysgrif Coleg yr Iesu, Caergrawnt 454 (sef Lladin E).²⁰⁹ Cofnodwyd nifer o nodiadau cyfreithiol eraill ar ddiwedd Lladin E, e.e. cofnod o achos yn llys cwmwd 'Iscub' (Isdulas?) ond nid yw'r rhain i'w cael yn 'M'.²¹⁰ Nid yw'r nodyn yn Lladin E yn yr un llaw â 'M' a chan nad oes cysylltiad amlyg arall rhwng testun y ddwy llawysgrif mae'n bosibl nad Lladin E oedd ffynhonnell y nodyn yn 'M'. Efallai iddo gael ei godi allan o frawdlyfr rhywun yn ardal Isaled. Ond beth bynnag oedd ffynhonnell y nodyn hwn yn 'M' mae'n awgrymu i'r llawysgrif gael ei defnyddio (os nad ei chyfansoddi) yn arglwyddiaeth Dinbych.

Ar t. 61 o 'M' rhestrir nifer o enwau gyda swm o arian wrth ochr pob enw, fel darn o gyfrifon. Dichon eu bod yn rhyw fath o daliadau cyfreithiol neu daliadau rhent. Mae hyn yn awgrymu bod y llawysgrif wedi bod ym meddiant rhywun oedd yn gweithio ym myd y gyfraith ac yn cael ei defnyddio mewn modd ymarferol. Ceir fersiwn llygredig o Saith Esgobdy Dyfed ar t. 65 sy'n cyfateb i'r fersiwn a gedwir yn llawysgrif Z.²¹¹ Mae'r fersiwn hwn yn wahanol i'r fersiynau eraill o'r testun: mae'n cael ei enwi fel dechrau Llyfr Cynog, enwir 6 eglwys yn lle 7, a defnyddir y ffurf 'Kyledawc' yn 'M' a Z am eglwys a elwir yn Llan Teulydawc mewn testunau eraill:

²⁰⁷ C. R. Cheney (gol.), *A Handbook of Dates for Students of British History* (arg. newydd gan M. Jones, 2000), t. 36.

²⁰⁸ R. R. Davies, 'The twilight of Welsh law 1284-1536', *History*, 51 (1966), 163: 'Tudur was paid an annual fee of £5 (SC 6/1305/8); whilst his colleague in Ruthin lordship claimed the right to the tenth penny recovered in cases of contract, as provided in Welsh law' (SC 2/219/7 m. 20v.). Gw. hefyd R. R. Davies, 'The administration of law in medieval Wales: the role of the *Ynad Cwmwd* (*Judex Patrie*)', *LAL*, tt. 265, 268.

²⁰⁹ *LTWL*, t. 409.

²¹⁰ Ar sail y nodiadau hyn awgrymodd Emanuel mai yn arglwyddiaeth Dinbych y copiwyd Lladin E: gw. *LTWL*, tt. 81, 410.

²¹¹ Mae fersiwn Z wedi ei argraffu gan A. Rh. Wiliam 'The Welsh texts of the Welsh laws', yn *WHR Special No: The Welsh Laws* (1963), 23. Cf. *LIB*, 84/11-25.

. . . dechyre llestyr Kynawc. Saith ysgobawt ysydd dan Dewi, nit amgen: Myniw, Llan Deillaw, Llan Yssmael, Kyledawc, Llannsilmael,²¹² Degyman. Cosodedic yw bot Abadav yn y rai hynny o ysgolheigion [ac] vrddolion ar y llanav hynny a ddylant vot yn rrydd o bob argylwyddiaeth vyd, onyt fordd a gerder trwyddvnt. Pwy bynac a [w]nel gowaet ar arall²¹³ yn yr vn o rai hynny yn herwydd *kyfreith*²¹⁴ sarhaet, talet y'r egylwys vj phvnt a'i sarhet i'r dyn herwydd i vrait. Golchvres o'i gendyl a dal i'r egylwys e gwaraddwydd o genedyl val na wnel arall.

Mae t. 66 hefyd yn dilyn testun llawysgrif Z ond mae'r gyfatebiaeth yn peidio ar ôl hynny. Dichon fod y fersiwn hwn o Lyfr Cynog yn cylchredeg o amgylch y gogledd-ddwyrain (neu hyd yn oed bod Z wedi dylanwadu ar 'M' neu'r ffordd arall?).

Z (Peniarth 259b)

Llawysgrif bapur o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg yn llaw Richard Longford o Drefalun a'i gynorthwywr yw hon.²¹⁵ Mae'n gopi o lawysgrif hŷn. Ar sail nodyn yn y testun 'Ponf' yw'r enw a roddid ar y llawysgrif yn *Neddfgrawn* William Maurice:

Hyn ydoed wydi i scrivenv yn y llyfr y copied hwn ohono. Y llyfr hwinn a gavos Einiawn ap Adda pan vv yngharchar ymhwmfred gan y cwnstabyl a'r kwnstabyl a'i kavas gan brior y vynachloc a hanoed o Ddehevbarth; ac ni[d] oes athrondyt ar gyfraith namyn y sydd yn y llyfr hwn kysdal a hwn (f. 72r-v)

Rhifwyd y tudalennau gan William Maurice. Richard Longford a gopiodd ff.1-46v ac yna ceir darnau bychan yn ei law ar ff. 55, 70, 72r-v, 91v a 95v. Mae'r testun yn fylchog gyda nifer o dudalennau gwag. Mae rhan gyntaf y llawysgrif yn debyg i Lyfr Cyfnerth a cheir glosau i'r rhan honno o'r testun (a godwyd mae'n debyg o'r gynsail) ond mae'r glosau'n peidio ar ôl f. 46v. Yn dilyn Dull Cyfnerth ceir cynffon o ddeunydd atodol sydd wedi ei godi o wahanol ffynonellau. Ar f. 42r nodir: 'Llyma dervyn llyfr praw' ac eir ymlaen i gofnodi Llyfr Cynog (42r-57v) a agorir gyda'r adran ar Saith Esgobdy Dyfed. Er hyn ni ddylid rhoi gormod o goel ar y gosodiad 'Llyfr

²¹² llan usil Z.

²¹³ ar ar arall llsg.

²¹⁴ - Z.

Kynawc,' gan nad dyma ddechrau'r llyfr mewn fersiynau eraill ohono ac eithrio 'M'.²¹⁶ Nodir ar f. 57v: 'Yma y tervyna llyfyr Kynawc.' Eir ymlaen i adrodd hanes Hywel yn mynd i Rufain at y Pab ar ff. 57v-58r; mae testun cyfatebol i'w gael yn llawysgrif S ac mae'r rhaglith estynedig hon yn awgrymu diweddarwch y rhan honno o'r testun.²¹⁷ Ar ôl y Rhaglith eir ymlaen i roi dyddiad marwolaeth Hywel Dda: 'ix c xlvijj' (948) (f.58r). Ar f. 58v rhoddid dyddiadau marwolaeth Owain Gwynedd ('m a c lxx': 1170); Llywelyn ap Iorwerth ('m a cc xl': 1240); a Llywelyn ap Gruffydd ap Iorwerth ('m a cc lxxxij': 1282); sydd efallai'n awgrymu tarddiad gogleddol i'r rhan hon o'r testun.²¹⁸ Hefyd ar f. 58v cofnodwyd darn o destun compiwtyddol: 'O ddyna hyd ar Grist y bv iij m^l a v c. lxxij. O ddechre byd hyd yni ddoeth Krist yn ghnawd y bv vj m^l a v c a L o vlynyddoedd herwydd y kyfrif'.²¹⁹

Mae ff. 50r-60v yn wag. Mae ff. 61r-69v yn cyfateb i *AL*, IX.xvi.3-*AL*, IX.xxv.3. Weithiau mae'r drefn yn wahanol yn *Z* i drefn *Ā* ac 'M'.²²⁰ Darlunnir eisteddiad y llys ar f. 70r;²²¹ hefyd rhestrir misoedd y gaeaf, y gwanwyn, yr haf, a'r cynhaeaf. Mae ff. 70v-71v yn cyfateb i *AL*, IX.xxxv.1-*AL*, IX.xxxvii.4 ac mae ff. 71v-72r yn cyfateb i *AL*, IX.xxv.4-12.

Ar f. 72r-v sonnir sut y daeth cysail *Z* i feddiant gŵr o'r enw Einion ab Adda a'i cafodd gan brior o Ddeheubarth tra oedd wedi ei garcharu ym Mhwmffred. Defnyddid castell Pwmffred fel carchar oddeutu 1322 a dichon fod gwŷr o

²¹⁵ *RMWL*, tt. 1074-75; Charles-Edwards, *The Welsh Laws*, t. 102. Ceir disgrifiad byr o'r llawysgrif yn Daniel Huws, 'Yr hen Risiart Langfford', yn Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (gol.), *Beirdd a Thywysogion* (Caerdydd, 1996), 308-09. Pentref rhwng Wrecsam a Chaer yw Trefalun.

²¹⁶ Gw. *Llyfr Cynog*, t. x a T. M. Charles-Edwards, 'The seven bishop houses of Dyfed', *BBCS*, 24 (1970-72), 247-62. Nid yw'r hyn a elwir yn *Llyfr Cynog* yn *Z* yn cyfateb i'r fersiwn o *Llyfr Cynog* a geir yn llawysgrif G ac a olygwyd gan A. Rhys Wiliam: '... we find instead various rules of case-law, with occasional references to ecclesiastical privileges interspersed among them, giving room for the suspicion that the original text had been used as a vehicle for some special pleading' (*Llyfr Cynog*, t. x).

²¹⁷ Am raglith estynedig *Z* gw. Christine James, 'Ban wedy i dynny: medieval Welsh law and early protestant propaganda', *CMCS*, 27 (1994), 61-86. Gw. hefyd M. E. Owen, 'Royal propaganda: stories from the law-texts', *WKC*, tt. 226-29, 246-49.

²¹⁸ Mae'r dyddiadau hyn ac eithrio dyddiad m. Hywel Dda yn cyfateb i ddyddiadau'r *Brut*: gw. T. Jones (gol.), *Brut y Tywysogyon; or, The Chronicle of the Princes: Red Book of Hergest version* (Cardiff, 1955), tt. 12, 151, 237. Mae dyddiad m. Hywel yn anghywir yn *Z* gan mai 950 yw'r dyddiad cywir: gw. D. E. Thornton, 'The death of Hywel Dda: a note', *CHC*, 20: 4 (2001), 743-49.

²¹⁹ Meddai Aneurin Owen am *Z* yn y rhagymadrodd i *AL*, t. xxxii: 'This transcript was apparently made in the year 1480, from a date occurring incidentally in the matter.' Dichon mai dyma ffynhonnell dyddiad Aneurin Owen. Hwyrach mai cyfeiriad at ddyddiad y gysail yw hwn. Bu farw Richard Longford tua 1586: Huws, 'Yr hen Risiart Langfford', t. 319. Felly mae'n bur annhebygol mai dyddiad ei adysgrifad ef fyddai hwn.

²²⁰ E.e., cf. f. 67r gyda *AL*, II, t. 262.

²²¹ Ceir copi hefyd yn y gynffon yn 'M' ond oherwydd cyflwr gwael y rhan honno o'r llawysgrif mae'n anodd gwybod a ydynt yn cyfateb.

arglwyddiaethu Cymreig Lancaster wedi eu carcharu yno.²²² Byddai hyn yn awgrymu fod cynsail Z yn deillio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae'r nodyn hefyd yn awgrymu fod cynsail Z yn tarddu o Ddeheubarth (neu o leiaf fod perchennog y llawysgrif yn hanu o Ddeheubarth); ond mae'n bosibl nad oedd hynny'n wir am yr holl destun. Nodyn yn llaw Richard Longford yw hwn a dichon iddo'i gofnodi ar hap ar un o ddalennau'r llawysgrif. Dichon fod y fersiwn o Lyfr Cyfnerth yn destun cynnar oedd efallai'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg (mae'n debyg i destun llawysgrif X sy'n dyddio o ganol y bedwaredd ganrif ar ddeg);²²³ ond yna ceir y rhaglith estynedig a'r gynghawsedd sy'n ymddangos fel testunau diweddarach. Mae hyn yn awgrymu bod testunau o wahanol gyfnodau ac efallai wahanol ardaloedd wedi eu cyfuno yn y llawysgrif.²²⁴ Mae'r glosau yn peidio ar ôl y darn sy'n cynnwys Llyfr Cyfnerth sydd efallai'n awgrymu bod y testun hwnnw'n cylchredeg ar wahân ar un adeg (neu fod Richard Longford yn copïo'r glosau a'i gynorthwywr ddim?). Mae'r testun sy'n agor llawysgrifau *Ā* ac '*M*' i'w gael ar f. 73r: 'Llyma gyniver ffordd y gwahan dyn a'i dda . . .' Mae ff. 73r-84v yn cyfateb i *AL*, IX.i.1- *AL*, IX.xiv.2; dilynir hyn gan driodd sy'n unigryw i *H* a *Z*;²²⁵ mae ff. 87v-92v yn cyfateb i *AL*, IX.xxvi.1-*AL*, IX.xxviii.13; tra bo 92v-98r yn cyfateb i *AL*, IX.xxix.1-*AL*, IX.xxxiv.8.

Llawysgrif S

Mae dalennau olaf llawysgrif S (ff. 143v-45v) hefyd yn dyfynnu darnau o'r testun a gynrychiolir yn Llyfr IX Aneurin Owen. Mae S, §2525 yn cyfateb i *AL*, IX.i; S, 2531 yn cyfateb i *AL*, IX.xxxv.1; S, §2532 yn cyfateb i *AL*, IX.xxxv.1-7; S, §§2533-45 yn cyfateb i *AL*, IX.xxxi.1-xxxii.2; ac S, §2546 yn cyfateb i *AL*, IX.xxiii.1. Nid yw'r darnau hyn yn digwydd yn *H*/*Peniarth* 278 ac eithrio S, §2525. Llawysgrifau S a Z yn unig sy'n cynnwys copïau o'r rhaglith estynedig sy'n sôn am Hywel Dda yn mynd i *Rufain*; hwyrach i'r ddwy lawysgrif hyn ddylanwadu ar ei gilydd neu eu bod tynnu ar gynsail cyffredin oedd yn cynnwys fersiwn o'r rhaglith a chopi o Lyfr IX.

²²² Huws, 'Yr hen Risiart Langfford', t. 321, n. 38.

²²³ Am drafodaeth ar X a Z gw. M. E. Owen, 'The laws of court from Cyfnerth', *WKC*, tt. 426-32.

²²⁴ Gw. James, 'Ban wedi i dynny', 79, n. 60.

Casgliadau am AL, IX

Roedd Thomas Wiliems, un o gyn-berchnogion llawysgrif *Ā*, yn hanu o Drefriw; mae'n ymddangos bod cysylltiad rhwng 'M' ac Isaled yn Ninbych; gŵr o Drefalun oedd Richard Longford, copïydd Z. Gellir awgrymu felly fod y llawysgrifau hyn yn deillio o ardal Dyffryn Clwyd a Dinbych, neu o leiaf eu bod wedi eu lleoli yno ar un adeg. Roedd Isaled ac Uwchaled yn gymydau yng nghantref Rhufoniog ac roedd cantrefi Rhufoniog, Rhos, a Dyffryn Clwyd yn ffurfio'r hen Wynedd Is Conwy. Yn dilyn concwest 1282 aeth Rhos a Rhufoniog yn rhan o arglwyddiaeth Dinbych gyda Dyffryn Clwyd yn ffurfio rhan o arglwyddiaeth Rhuthun. O ganlyniad i Ddeddf Uno 1536 unwyd arglwyddiaeth Dinbych a Rhuthun â dwy arglwyddiaeth arall i greu Sir Ddinbych.²²⁶

Bu llawer o weithgarwch llenyddol yn Nyffryn Clwyd a'r ardal gyfagos rhwng dechrau'r bymthegfed ganrif a chanol yr ail ganrif ar bymtheg. Roedd Gruffudd Hiraethog, Guto'r Glyn, Iolo Goch, Simwnt Fychan, Tudur Aled, Dafydd ab Edmwnd a Gutun Owain yn feirdd lleol.²²⁷ Astudiwyd hanes Cymru a'r iaith Gymraeg gan bobl fel Humphrey Llwyd, William Salesbury, Wiliam Middleton, Thomas Prys, Dr John Davies, John Jones a William Morgan (heb anghofio Thomas Wiliems a Richard Longford).²²⁸ Roedd y gwŷr hyn hefyd yn gasglwyr llawysgrifau: roedd y bardd Siôn Tudur o Lanelwy yn berchen ar Lyfr Du Caerfyrddin am gyfnod, a bu Llawysgrif Hendregadredd ym meddiant Rhys Cain.²²⁹ Mae tystiolaeth i lawysgrif C cyfraith Hywel fod ym meddiant Richard Longford, dichon i William Salesbury weld cynsail Z,²³⁰ ac roedd John Jones yn gasglwr a chopïwr o fri.²³¹ Mae tystiolaeth yn awgrymu mai de Cymru oedd gwlad y llawysgrifau yn yr Oesoedd Canol ond erbyn yr unfed

²²⁵ Gw. isod, tt. 64-66.

²²⁶ Gw. Frank Price Jones, *Crwydro Gorllewin Dinbych* (Dinbych, 1969); John Glanmor Williams, *The Records of Denbigh and its Lordship* (Wrexham, 1860); idem, *Ancient and Modern Denbigh* (Denbigh, 1856); R. R. Davies, *Lordship and Society in the March of Wales 1282-1400* (Oxford, 1978), t. 50 *et passim*.

²²⁷ Am Gutun Owain gw. J. E. C. Williams, 'Gutun Owain', yn A. O. H. Jarman a G. Rh. Hughes (goln.), *A Guide to Welsh Literature II* (arg. newydd, Cardiff, 1997), 263-77; M. E. Owen, 'Prolegomena i astudiaeth lawn o Isgr. NLW 3026, Mostyn 88 a'i harwyddocâd', yn Iestyn Daniel *et al.* (gol.), *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003), 349-84.

²²⁸ Gw. G. J. Williams, 'Traddodiad llenyddol Dyffryn Clwyd a'r cyffiniau', *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, 1 (1952), 20-32.

²²⁹ *Ibid.*, 26.

²³⁰ Gw. James, 'Ban wedi i dynny', 79.

ganrif ar bymtheg roedd rhan helaeth o'r llawysgrifau wedi symud i'r gogledd-ddwyrain ac i ddwylo'r casglwyr.²³² Wrth drafod tarddiad y llawysgrifau dichon na ddylid rhoi gormod o bwyslais ar y ffaith i Æ fod ym meddiant Thomas Wiliems ac mai Richard Longford gopïodd Z gan fod y gwŷr hyn yn casglu llawysgrifau o bob cwr o Gymru. Mae llawysgrif 'M' yn wahanol. Nid copïydd proffesiynol a ysgrifennodd y gynffon i 'M' ac roedd yr ysgrifydd yn gwybod am farn a roddwyd gan ynad arglwyddiaeth Dinbych yn llys cwmwd Isaled ym 1428/9. Mae hyn yn awgrymu bod llawysgrif 'M', o leiaf, â chysylltiadau ag arglwyddiaeth Dinbych oedd ddim o anghenraid yn gysylltiedig â gweithgarwch y casglwyr.

Roedd arglwyddiaethau'r Mers yn rhydd o gyfraith y goron ac roedd pob arglwydd yn dilyn ei gyfraith ei hun.²³³ Câl cyfraith Hywel ei chydabod i raddau gan arglwyddi'r Mers, pan fyddai hynny o fantais ariannol iddynt. Roedd cyfraith y Mers yn gyfuniad o gyfraith Seisnig a chyfraith Hywel gan adlewyrchu'r boblogaeth gymysg oedd yn byw yno. Mae'r ynad proffesiynol (neu'r *iudex*) fyddai'n gwranddo ar yr achosion Cymreig yn ymddangos yng nghofnodion arglwyddiaeth Dinbych hyd at ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg; daeth ei swyddogaeth i ben tua 1506.²³⁴ Mae hyn yn dangos bod cyfraith Hywel yn fyw yn arglwyddiaeth Dinbych, a'r arglwyddiaethau cyfagos, yng nghyfnod cofnodi prif destun 'M' a phan ychwanegwyd y gynffon ato yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Mae arferion cyfreithiol rhai rhannau o Gymru yn yr Oesoedd Canol diweddar wedi cael sylw, e.e. Dyffryn Clwyd;²³⁵ arglwyddiaeth Brycheiniog;²³⁶ cantref Selyf (Brycheiniog);²³⁷ Caer a Dinmael.²³⁸ Dichon fod llawysgrif 'M' (neu'r gynffon o leiaf) yn cynnig tystiolaeth i arferion cyfreithiol

²³¹ Huws, 'Yr hen Risiart Langford', t. 312.

²³² Williams, 'Traddodiad llenyddol Dyffryn Clwyd a'r cyffiniau', 25.

²³³ R. R. Davies 'The law of the march', *CHC*, 5 (1970), 1-30. Ar y Mers gw. ymhellach R. R. Davies, *Lordship and Society* (Oxford, 1978); K. Mann, 'The March of Wales: a question of terminology', *CHC*, 18 (1996-97), 1-13; W. Rees, *South Wales and the March 1284-1415* (Oxford, 1924).

²³⁴ David Huw Owen, 'The lordship of Denbigh 1282-1425' (traethawd Ph.D., Prifysgol Cymru, 1967), t. 111; J. B. Smith, 'Crown and community in the principality of north Wales in the reign of Henry Tudor', *CHC*, 3 (1966), 170.

²³⁵ Davies, 'The law of the march', 9-10 *et passim*; gw. hefyd am arglwyddiaeth Clun (sef Sir Amwythig heddiw) idem, 'The survival of the bloodfeud in medieval Wales', *History*, 54 (1969), 344-45 *et passim*.

²³⁶ Roberts, 'Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog'.

²³⁷ J. Beverley Smith, 'Marcher regality: *quo warranto* proceedings relating to Cantrefsellyf in the Lordship of Brecon, 1349', *BBCS*, 28 (1978-80), 267-88.

²³⁸ Am yr achos yn Caer gw. T. Jones Pierce, 'The law of Wales – the last phase', yn J. B. Smith (gol.) *Medieval Welsh Society: Selected Essays by T. Jones Pierce* (Cardiff, 1972), tt. 370, 381, 387; ac am Dinmael gw. E. D. Jones, 'Rhannu tir Rhys ab Elise', *CLIGC*, 3 (1943-4), 23-28.

arglwyddiaeth Dinbych a chwmd Isaled. Mae testun *AL*, XII hefyd yn cynnig tystiolaeth am arferion cyfreithiol yr ardal honno yng nghyfnod Harri'r VI. Yn *AL*, XII.xii-xvii argraffwyd cwynion allan o 'Lyfr Tref Alun' oedd yn llaw Gutun Owain, ond mae'r llyfr hwn bellach wedi diflannu. Cofnodwyd ynddo gwyn amobr, tor croes, cam groes, anghyfarch, ach ac edryd a chwyn sarhaed. Lleolir y troseddau y cwynwyd amdanynt yn 'nhrev Reiviad,' ym mhlwyf Henllan yn Ninbych ac 'o vewn trev Vacheurig yn nghymwd Llanerch yn arglwyddiaeth Syr Edmwnd Gray,' sef yn Nyffryn Clwyd. Mae'r cwynion o dor croes a cham groes²³⁹ yn dangos bod y defnydd o groesau wedi parhau yn arglwyddiaethau'r Mers tan yr Oesoedd Canol diweddar (a chofier bod yr adran hwyaf ar groesau i'w chael yn H).²⁴⁰

O gofio bod perthynas rhwng testun 'M', Z, a H efallai y gellid awgrymu bod y testunau hyn, neu rannau ohonynt, yn deillio o'r un ardal, sef gogledd-ddwyrain Cymru. Mae'n edrych yn debyg fod rhan o destun llawysgrif G ac F hefyd yn perthyn i H. Erbyn y bymthegfed ganrif o leiaf roedd llawysgrif G wedi ei lleoli yn arglwyddiaeth Pengelli ym Mrycheiniog; ac roedd F wedi ei lleoli ym Maelor yn arglwyddiaeth Brwmffild. Un posibiliad felly (ar sail y gynghawsedd) yw mai testun dwyreiniol oedd H; a'i fod yn glytwaith o wahanol destunau oedd yn cylchredeg o amgylch y gororau ac arglwyddiaethau'r Mers.²⁴¹

iv. Cynghawsedd unigryw

Mae ambell ddarn o gynghawsedd yn H sy'n annibynnol ar Lyfr Cynghawsedd ac *AL*, IX:

Cwyn Trais

Amlinellir y camau y dylid eu cymryd pe bai morwyn neu wraig yn dymuno dod ag achos o drais yn erbyn dyn yn §§1032-36; mae arddull y darn yn unigryw i H/PeniARTH 278. Gwelir bod cysylltiad pendant rhwng cwyn a chynghawsedd. Pe bai merch yn cael ei threisio rhaid oedd iddi fynd at y llys i gwyno yn y modd hwn:

²³⁹ *AL*, XII.xiii ac *AL*, XII.xiv.

²⁴⁰ Roberts, 'Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog', 318.

²⁴¹ Trafodir y posibiliad hwn ymhellach isod, t. 106 ymlaen.

. . . a'e dillat am y phen, neu yn y llaw, dan waedd a chwyn . . . a dangos arwydd y dreis os morwyn fydd; sef yw hynny, gwaet am y morddwydydd a'e dillat; a henwi y neb a'e treissyawdd, a pha dref, a pha ddydd . . . (§1032).

Yna dylai'r arglwydd ddod o hyd i'r dyn oedd yn cael ei gyhuddo o drais a'i gyrchu i'r llys. Rhoddir y camau y dylid eu dilyn ar ôl 'ymrwymaw yng cyfreith,' sef ar ôl i'r achos ffurfiol gychwyn. Rhaid i gyngaws y ferch, sef siaradydd ar ei rhan, ailgyflwyno ei chwyn o flaen y llys gan ddatgan ei bod hi'n sefyll wrth ei chwyn wreiddiol. Defnyddir y geiriau hyn: 'messur cwyn honn rhac hwnn, sydd yn sefyll yn gynhyrchawl rhaccwn.' Mae hyn yn adleisio brawddegau agoriadol y cwynion yn 'Llyfr Tref Alun': cf. 'Mesur cwyn Ieuan ab Iankyn ab Madawg yr hwn sy gynnyrchiol ar y bar . . .' (*AL*, XII.xvii).²⁴² Eto dilynir rhyw fath o fformiwla wrth fanlyu ar y gwyn: 'llygru y morwyndawt, a'e dorri y dydd a'r dydd, yn y lle a'r lle, a'r dref a'r dref, yn y cwmwt a'r cwmwt' (§1032).²⁴³ Yn dilyn hyn ceir cyfraith hynafol ynghylch sut y dylai merch dyngu mewn achos o'r fath, sef gyda phidyn y dyn yn ei llaw chwith tra'n rhoi ei llaw dde ar y crair.²⁴⁴ Rhoddir geiriau ei chyingaws pe bai'r amddiffynnwr yn ceisio gwadu'r cyhuddiad: 'ny elli di wadu hynn yn y erbyn y geir hi; canys un yw o'r naw nyn a gredir y tystiolaeth yw morwyn am y morwyndawt.' Roedd gan y ferch hawl i ofyn am iawndal ac os na allai'r dyn dalu byddai'n cael ei ysbaddu.

Adleisir yr hyn a ddywed testun H/PeniARTH 278 yn yr adran am y Naw Tafodiog yn *AL*, IX:

Morwyn ar y morwyndot o dygyr trais arny hebrwg ychwyn yn gyffreithiol y llys ay dillat oll am y fen a hyny dan weidi ac a rwyd y drais arnay val y gwelo pawb. Pwy bynac y dweto hi arno gwnevthvr y drays [o] hono arno gan [i] dygv o honay arno nychaif [hwnw] wadv dym o hyny (*AL*, IX.xviii.6).

Mae'r testun hefyd yn cael ei adleisio yn yr adran ar gyfraith y gwraedd yn llawysgrif D, sef Peniarth 32 (y Llyfr Teg) c. 1400 sy'n cynnwys fersiwn diweddar o Ior:

²⁴² Gw. hefyd *AL*, XII.xii-xv. Mae'r cwynion yn llsgrau. Q, E, D yn agor gyda geiriad gwahanol, e.e. Defnydd ac achafs vnygh6yn y6 . . . (*AL*, XII.ii).

²⁴³ Cf. gyda geiriad a strwythyr cwyn amobyr yn *AL*, XII.xii: 'Or achaws ar devnydd y dylav gwneuthur o honi hi gwliogaeth gyhoeddawg ag un John Mytwn dyw Llun yn yr wythnos gyntav o vis Gorphenav o vewn tymhor hav o vewn y vlywyddyn hon yn nbrev Reiviad yn nghymwd [Is Aled] o vewn cyvoeth Edward vrenin Lloegyr . . .'

²⁴⁴ Sonnir am hyn hefyd yn *LIB*, 63/23-29; *WML*, 92/13-18; *LII*, §50/3-8. Am ragor o gyfeiriadau, gw. *NLC*, t. 42, n. 27.

Or dyweit mor6yn ar 6r d6yn treis arnei a'r g6r yn g6adu; rei a dyweit na eill ef y wadu, o hebr6g hi y ch6yn yn gyfreitha6l heb ost6g y dillat is lla6 y g6erdyr ac yn waetlet, a hynny dan leucin a diaspedein tr6y y kyuanhedeu nessaf idi, a thystu udunt a dangos y threissa6: a'e yrru yn gyfreitha6l yn y dadleu a'e lla6 ass6 ar galy y g6r, a'r lla6 deheu ar y creireu, a thygu ohonei hitheu y'r creireu hynny, ac y Du6 yn y blaen y vot ef genthi hi a'r galy honno y dreis y arnei, a'e g6neuthur o vor6yn yn wreic; a g6neuthur meuyl a sarhaet a chewilyd idi ac o'e hargl6yd ac o'e chenedyl: yna y dweit rei bot yn eir y geir yna ar y g6yrda6t, ac na ellir g6adu yn erbyn hynny: ereill adyweit nat oes vn treis ny aller y wadu; ac y dyly ynteu wadu y treis h6nn6 o l6 degwyr a deugeint heb alltudyon: ot adef ynteu treissa6 mor6yn, talet dir6y y argl6yd y wlat; a'e hamobyr o'e hargl6yd hitheu e hun; ac idi hitheu y chowyll a'e sarhaet a'e hagwedi a'e dilysr6yd (tt. 48-49).

Mae'r cyfatebiaethau hyn²⁴⁵ yn awgrymu bod rhyw fath o fodel eisoes yn bodoli ynghylch sut i gyflwyno cwyn o drais gerbron yr awdurdodau. Mae testun H/PeniARTH 278 yn ehangu ar hyn drwy roi fformiwla i'r gwyn a chyflwyno deialog ar gyfer y canllaw. Ymddengys bod awdur H yn creu ei gynghawsedd ei hun allan o ddeunyddiau oedd eisoes yn bodoli.

Mae §1036 yn trafod cwyn gwraig yn hytrach na morwyn. Yn yr achos hwnnw hefyd rhaid oedd i'r wraig fynd at y llys i gwyno am ei cham: 'dan waedd, a llef, a chwyn, os geill.' Rhaid i'w chyingaws ailgyflwyno ei chwyn: '. . . a'e hamerchi y dydd a'r dydd, yn y lle a'r lle . . .' Tystied hithau yn y modd arferol. Mae'r gynghawsedd sy'n dilyn wedi cael ei ddatblygu yn llawnach nag yn achos y forwyn (§1032). Yn yr achos hwn gall y dyn wadu y cyhuddiad yn ei erbyn gan nad yw gair gwraig mor awdurdodol â gair morwyn, h.y. nid yw'r wraig yn cael ei chyfrif yn un o'r Naw Tafodiog mewn achos o'r fath. Pe bai'r gŵr yn gwadu'r cyhuddiad rhaid fyddai iddo gael hanner cant o ddynion i dyngu ei fod yn dweud y gwir, heb gaeth nac alltud yn eu plith. Yr un nifer o gefnogwyr a ddisgwyliid yn y llyfrau cyfraith eraill pan fyddai dyn yn gwadu treisio gwraig.²⁴⁶ (Mae'n edrych yn debyg fod awdur y darn a ddyfynnir uchod o lawysgrif D wedi drysu rhwng achos o dreisio morwyn a threisio gwraig wrth ddweud y gellir gwadu trais morwyn yn yr un modd.) Pe bai'r dyn yn cyfaddef ei

²⁴⁵ Benthycir hefyd o'r rheolau ar sarhaed y brenin a geir yng nghyfreithiau'r llys: gw. y nodiadau testunol.

²⁴⁶ *AL*, VC.II.i.35; *LII*, §50/1-3; *AL*, Dim.II.xviii.19; *LII*, 63/29-31; *AL*, GC. II.xxix.25; *WML*, 92/18-20: 'heb gaeth heb alltud' sydd yn llsgrau. W ac X; 'heb alltud a gwyr nod' sydd yn Ior, ni fanylir ar hyn yn Bleg.

threisio rhaid iddo dalu dirwy i'r arglwydd, a'i hamobr a'i sarhaed iddi hithau. Ni nodir y swm yn Bleg a Cyfn tra yn ôl Ior: 'talet deudec muv en dyrue e'r brenhyn' (LII, §50/9-10). O'r pwynt hwn ymlaen cyflwynir deialog. Mae'r amddiffynnwr yn gwadu ei threisio gan honni mai rhywun arall oedd ar fai. Mae cyngaws y wraig yn ymateb drwy ddweud: 'rhagot ti y cwyneis i, ac ydd wyf yn sefyll y'm cwyn . . .' ac mae'n mynnu bod rhaid i'r amddiffynnwr un ai wadu, cyfaddef, neu gyflwyno arddelw cyfreithiol. Fel ymateb mae'r amddiffynnwr yn dweud, hyd yn oed pe bai'r wraig yn dweud y gwir, na ddylai yntau dalu iawndal iddi: 'sef echos yw, y dyd ydd wyt ti yn haeru arnaf ddwyn treis arnat ydd oedd gyt a thi wreic arall . . .' Mae'r testun sy'n dilyn yn wallus ond o ymateb y wraig i gyhuddiad y gŵr gellir gweld bod y gynghawsedd yn adleisio darn o ddamweiniau a geir yn llawysgrifau O (fersiwn o Bleg yn llaw Gwilym Wasta c. 1300) a K (fersiwn diweddar o Ior yn llaw Lewys Glyn Cothi, 15g):

Or byd d6y 6raged yn kerdet, ac na bo neb gyd ac 6y, adyuot deu 6r yn eu herbyn a d6yn treis arnunt ny di6ygir vduent. Or byd vndyn gyt ac 6y yr y vychanet, onyt beich keuyn; nychollant dim oy euhia6n (AL, VI.i.1).

Unwaith eto ymddengys bod awdur H wedi creu cynghawsedd drwy gyfuno gwahanol ddarnau cyfreithiol.

Mae §713; §727;²⁴⁷ §759; a §1016 (sy'n sôn am ddamdwng a lladrad) yn ddarnau eraill sydd wedi eu hysgrifennu mewn arddull cynghawsedd. Mae §1055 a §1084 sy'n trafod ynadon hefyd yn perthyn i'r un traddodiad. Mae'n anodd gwybod i sicrwydd ai awdur H a luniodd y darnau hyn neu a oedd yntau yn eu codi o ffynonellau eraill sydd bellach wedi mynd ar goll.

Crynodeb

Beth bynnag fo ffynonellau cynghawsedd H mae'r addasiadau a wnaethpwyd i'r gynghawsedd yn awgrymu'n gryf bod perthynas rhwng cwyn a chynghawsedd. Ymddengys mai'r cwyn oedd y cam cyntaf mewn achos cyfreithiol a bod ffordd

²⁴⁷ Mae §727 yn ategu'r cysylltiad rhwng cwyn a chynghawsedd: 'Llyma mal y may hwnnw: cwynaw os atelir canys cwyn a berthyn lle bo angcyfreith . . .' Eto defnyddir fformiwla wrth gyflwyno'r hawl: 'yn lledrat o'r lle a'r lle, y dydd a'r dydd, y nos a'r nos, a'r wythnos . . .'

arbennig o gyflwyno cwyn o flaen yr arglwydd ac yn y llys. Mae testun *AL*, IX, a rhannau o destun H/PeniARTH 278, yn cynnig tystiolaeth werthfawr i ddatblygiad cynghawsedd ar ôl y goncwest, ac efallai i'r defnydd o gynghawsedd yn arglwyddiaethau'r Mers yn yr Oesoedd Canol diweddar. Ymdrinnir â goblygiadau'r addasiadau i'r gynghawsedd yn llawnach wrth drafod awduraeth a dull cyfansoddi H isod: gw. t. 101 ymlaen.

II) Trioedd

Un o nodweddion y llyfrau cyfraith yw cyflwyno rheolau ar ffurf trioedd, ffurf a fabwysiadwyd, mae'n debyg, er mwyn gwneud y rheolau'n fwy cofiadwy.²⁴⁸ Lluniwyd trioedd ar bob agwedd o'r gyfraith: o gyfraith y wlad i gyfraith y gwraedd. Golygwyd y trioedd hyn ac eithrio trioedd Ior gan y Dr Sara Elin Roberts.²⁴⁹ Mae Cyfnerth, Bleg a'r dulliau Lladin oll yn cynnwys nifer o drioedd ond casgliad byr o un triawd ar ddeg yn unig a geir yn llawysgrifau Ior fel y cyfryw.²⁵⁰ Yr unig eithriad yw llawysgrif K, un o lawysgrifau Ior sy'n ddyledus i ddylanwad Bleg, lle ceir casgliad hir o drioedd, ac y mae'r un casgliad o drioedd i'w gael yn nhestunau diweddar Blegywryd: S, Tim, a Q.²⁵¹ Mae'r casgliadau mwyaf o drioedd i'w cael yn llawysgrifau Bleg gyda nifer y trioedd yn cynyddu wrth i'r canrifoedd fynd rhagddynt. Cedwir y casgliad hwyaf 'Cyfnerthaidd' yn llawysgrif Mk sy'n perthyn i hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn y llawysgrifau lle mae nifer o drioedd wedi eu casglu ynghyd gellir gweld y tu mewn i'r casgliadau gyfresi o drioedd a glymir at ei gilydd naill ai drwy thema, megis y gyfres ar ladrad: 'Tri lleidyr camlyryus yssyd, Tri lleidr dirwyus yssyd, Tri lleidr gwerth yssyd, Tri lleidyr crogadwy yssyd, Tri lleidyr a dieinc o letrat kyfadef'²⁵² neu ddyfeisiau arddull, megis pennawd yn dechrau gydag amrywiad ar yr un ymadrodd allweddol: 'Tri gwahan yssyd rwg gwybydyeit a thyston, Teir fford y mae kadarnach gwybydyeit no thyston.'²⁵³ Ceidw'r cyfresi hyn yr un rhediad o lawysgrif i lawysgrif yn arbennig yn llawysgrifau traddodiad Blegywryd, er y gallasai fod rhywfaint o amrywiaeth trefn y tu mewn i'r rhediad.

²⁴⁸ Ceir ymdriniaeth fwy cyffredinol ar natur trioedd isod, t. 99 ymlaen.

²⁴⁹ Yn 'Welsh medieval legal triads' (traethawd D. Phil., Prifysgol Rhydychen, 2002) [*WMLT*].

²⁵⁰ *LII*, §42.

²⁵¹ Gw. *WMLT*, tt. 42-45.

²⁵² Gw. *LII*, 122/8-32.

Yn gam neu'n gymwys dosbarthwyd H fel un o lawysgrifau Ior gan Aneurin Owen ac Aled Rhys Wiliam.²⁵⁴ Yn wahanol i destunau eraill lle mae'r trioedd wedi eu lleoli ar ddiwedd testun cyfreithiol neu yng nghanol y testun mewn manau perthnasol dechreu testun H gyda chyfres o drïoedd.²⁵⁵ Mae H yn cynnwys > 450 o drïoedd gyda chanran uchel o'r trioedd hynny yn annibynnol ar y trioedd sydd i'w cael yn Blegywryd a Chyfnert. Creodd E. Powell ei driawd ei hun wrth geisio diffinio trosglwyddiad y trioedd cyfraith: 'Gellir cynnwys triawd mewn llsgr. mewn tri modd: (a) drwy ei godi o llsgr. arall lle y cynhwyswyd ef eisoes, neu (b) drwy ddyfais neu gof y copiwr, neu (c) drwy ei ddyfynnu o gasgliad annibynnol o drïoedd'.²⁵⁶ Ymddengys bod casgliad trioedd H wedi elwa ar y tri modd hwn.

i Trioedd sydd wedi eu codi o lawysgrifau eraill (ffynonellau)

Manteisiais yn arbennig ar *WMLT* ar gyfer lleoli'r trioedd yn y gwahanol destunau cyfraith a hoffwn gydnabod fy nyled i waith y Dr Sara Elin Roberts. Gan fod cynnwys trioedd Bleg wedi eu trafod yn *WMLT* ni thrafodir hwy yma. Canolbwyntir yn hytrach ar gyfansoddiad H a'r goleuni a rydd y trioedd ar ffynonellau'r awdur.

a) Blegywryd

Mae'r testun yn agor gyda chyfres o drïoedd sydd â chyfatebiaeth iddynt mewn testunau eraill (§§1-12),²⁵⁷ sef yng nghasgliad Blegywryd o drïoedd, a cheir nifer o enghreifftiau tebyg lle mae awdur H yn gwneud defnydd o drïoedd sydd i'w canfod yn llawysgrifau Bleg. Wrth gymharu trioedd H/Peniarth 278 â thrioedd Bleg gellir gweld bod geiriad trioedd H/Peniarth 278 yn amrywio tipyn ac nid yw testun H/Peniarth 278 fel y cyfryw yn dilyn yn ffyddlon rediad na threfn casgliad Bleg. Ymddengys bod awdur H yn dyfynnu casgliad Bleg lle bo hynny yn berthnasol i thema neu bwnc y testun.

²⁵³ *LIB*, 121/14-122/3.

²⁵⁴ *AL*, I, t. xxix; *LII*, t. xxix.

²⁵⁵ Ond mae'n bwysig peidio â rhoi gormod o bwylais ar y ffaith fod y rhan fwyaf o'r trioedd wedi eu lleoli yn hanner cyntaf y testun fel ag y mae ym Mheniarth 278 gan fod llawer o hynny yn ddyledus i waith golygyddol John Jones, Gellilyfdy.

²⁵⁶ *LIB*, t. xliii.

Mae'r adran ar wybyddiaid a thystion yn §§44-52 yn enghraifft dda o waith golygyddol awdur H. Egyr yr adran â phâr o drioedd sydd hefyd yn digwydd yn llawysgrifau Bleg (ac eithrio Tr ac R) ac yn llawysgrif Y a Lladin D. Canolbwyntia'r ddau driawd ar nodweddion gwybyddiaid a thystion. Mae §§46-50 yn dyfynnu gwahanol rannau o destun Bleg sydd hefyd yn trafod gwahanol fathau o dystion. Ymddengys bod awdur H wedi casglu ynghyd ddarnau o gyfraith sy'n trafod yr un pwnc ond a oedd wedi eu lleoli ar wasgar yn nhestun Bleg. Gorffenna'r adran gyda phâr arall o drioedd sy'n canolbwyntio ar dystiolaeth a chof y llys. Mae'r ddau driawd hwn yn dilyn ei gilydd yn llawysgrifau Bleg (ac eithrio Tr ac R) ac yn llawysgrif Y a Lladin D ac maent yn rhagflaenu'r pâr a ddyfynnir yn §§44-45 yn y testunau hynny. Dengys yr adran fer hon fod awdur H wedi defnyddio'r casgliad trioedd mewn modd hyblyg ac nad oedd yn gweld yr angen i ddilyn trefn y casgliad na'i gopïo'n llafuraidd.

Enghraifft arall o ddyfynnu casgliad Bleg yn y testun yw §§342-45. Yma mae'r awdur wedi dyfynnu pedwar triawd ar ddefod a chyfraith sy'n ffurfio rhan o'r un casgliad yn llawysgrifau Q, Y, J, L a Tim ond nid yn yr un drefn. Yng ngweddill llawysgrifau Bleg digwydd triawd §342: sef '[T]eir gossodedigaeth y sydd herwydd Hywel Dda,' yn ddiweddarach yn y casgliad trioedd. Yn dilyn y pedwar triawd hynny dyfynnir testun Bleg, sydd eto'n manylu ar yr un pwnc. Serch hynny, nid yw'r darn hwn o destun yn dilyn y trioedd hyn yn llawysgrifau O, Tr, ac L ac felly nid yw yn yr argraffiad o *LIB*. Dilyna §§349-57, sy'n gymysgedd o drioedd a thestun anrhiawdol, yr un drefn â *LIB*, 102/28-105/17.

Mae trioedd §§393-97, sy'n canolbwyntio ar gyfreitha, yn enghraifft arall o gyfres o drioedd sydd i'w cael yn llawysgrifau Bleg (ac eithrio O ac R), a hefyd yn llawysgrif Y a Lladin D. Mae'r trioedd hyn yn dilyn yr un drefn ym mhob llawysgrif sy'n eu cynnwys. Nid yw geiriad testun H/PeniARTH 278 yn y fan hon yn amrywio llawer oddi wrth eiriad y fersiynau cyffredin o'r trioedd. Mae §§398-400, sy'n trafod cyfraith tir, hefyd yn drioedd sydd i'w canfod yn y rhan fwyaf o llawysgrifau Bleg ac yn llawysgrif Y a Lladin D. Serch hynny, nid ydynt yn dilyn y trioedd ar gyfreitha yn y llawysgrifau hynny. Dichon fod y trioedd hyn wedi eu lleoli ar ôl §§393-97 gan eu bod yn drioedd sy'n trafod meddiant a hawl, a fyddai'n cyd-fynd â thema'r rhan honno o'r testun. Adran sy'n canolbwyntio ar warant a gwŷs a geir yn §§401-08. Mae §§401-

²⁵⁷ Gw. y nodiadau testunol ar §§1-12 a'r conspectws. O edrych ar BeniARTH 164 gellir gweld mai dyma'r drefn yn y testun gwreiddiol hefyd.

05 yn dyfynnu trafodaeth Bleg ar warant (cf. *LIB*, 44/8-45/30) ac yn §§406-08 dyfynnir tri thriawd ar warant a gwys sydd hefyd i'w cael yn Bleg ond sydd wedi eu lleoli mewn man arall yn y testun hwnnw. Unwaith eto gwelir awdur H yn dyfynnu rhannau o'r casgliad trioedd yn y manau perthnasol gan sicrhau undod thematig i'w destun.

Rhestrir trioedd amrywiol yn y testun, un ai mewn cyfresi, neu yn unigol, sydd â chyfatebiaeth iddynt mewn nifer o llawysgrifau Bleg, yn enwedig llawysgrifau teulu L.²⁵⁸ Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gweld patrwm o ran ffynonellau H. Serch hynny, y mae yn y testun rai trioedd llai cyffredin ac mewn nifer bychan o llawysgrifau yn unig y ceir cyfatebiaeth i'r trioedd hynny. Digwydd triawd §75 yn llawysgrifau H/PeniARTH 278 a Q yn unig.²⁵⁹ Yn Tim a *DwCol* yn unig y digwydd §72. Ceir fersiwn o §73 yn *DwCol*, Tim a Q ond mae geiriad y triawd yn awgrymu bod triawd H/PeniARTH 278 yn perthyn i *DwCol* a Tim yn hytrach na Q: gw. y nodiadau testunol. Yn S a *DwCol* yn unig y digwydd §308. Mae §§54, 84, 498, 1014 yn enghreifftiau o drioedd sy'n digwydd yn llawysgrifau Q, ε, S a Tim yn unig, tra bo rhai trioedd yn digwydd yn Q, a'r copïau ohono, ac yn S (§82); neu yn Q a Tim yn unig (§66). Yn llawysgrifau S a K yn unig y ceir cyfatebiaeth i §91 a §120. Mae hyn yn awgrymu bod mwy nag un casgliad o drioedd ar gael i ysgrifwyr y testunau hynny gydag un casgliad yn cael ei ddyfynnu yn Q, S, a Tim (gyda'r rheini a H ar brydiau yn tynnu ar *DwCol*) a chasgliad arall yn K ac S.²⁶⁰ Ymddengys bod awdur H yn dyfynnu'r casgliadau hyn ar brydiau. Yn arwyddocaol mae'r llawysgrifau eraill sy'n cynnwys y trioedd ychwanegol yn deillio o'r bymthegfed ganrif (ac eithrio *DwCol*) sy'n codi cwestiynau ynghylch dyddiad H. A oedd y llawysgrifau diweddar²⁶¹ yn tynnu ar gasgliad trioedd oedd yn deillio o gyfnod cynharach neu a oedd H ei hun yn perthyn i'r bymthegfed ganrif?²⁶²

²⁵⁸ Sef llsgrau. sy'n cynnwys Cyfreithiau'r Llys: L, M, N, R, Bost, T, J, Tim: gw. M. Richards, *Coleg yr Iesu LVII*, t.xvi. Gw. y conspectws am y cyfatebiaethau.

²⁵⁹ Mae amrywiadau geiriol rhwng y ddau driawd sy'n awgrymu nad yw H yn gopi o Q, na'r ffordd arall: gw. y nodiadau testunol.

²⁶⁰ Gw. *WMLT*, tt. 38-45.

²⁶¹ Sef Q, S, Tim a K.

²⁶² Ymhelaethir ar hyn isod, t. 106.

b) Llawysgrif Z

Mae llawysgrif Z (Cyfn) yn cynnwys 118 o driodd.²⁶³ Mae rhan helaeth o'r trioedd hynny i'w cael mewn llawysgrifau eraill o ddull Cyfnerth neu Flegywryd.²⁶⁴ Serch hynny, mae rhai o'r trioedd hynny yn unigryw i lawysgrifau Z a H/PeniARTH 278.²⁶⁵ Mae nifer o'r trioedd hynny wedi eu lleoli yng nghanol y gynghawsedd yn Z; ac, yn ddifyr, os nad arwyddocaol, mae cynghawsedd Z hefyd yn perthyn yn agos i gynghawsedd H/PeniARTH 278.²⁶⁶

Mae llawysgrif Z, f. 86r yn agor gyda thriawd sy'n unigryw i H/PeniARTH 278 a Z:

Tri modd y bydd kamlwrw: vn yw am anaddawt a wneler yn erbyn y brenin, a hwnnw a ddamweinia o lawer modd. Ail yw gwneuthur peth kamgyleus anghyvreithiawl yn erbyn brenin yn i lys neu oddige i lys. Trydydd yw gwneuthur peth yn erbyn i wyr nev y denantiait i wlat yn anghyvreithlon ac y perthyn kamlwrw amdanunt (Z, f. 86r; *WMLT*: Z107).

§237 O dri modd y bydd camlwrw: un yw am anayddawt y'r brenhin, a hwnnw a ddamweinya o lawer modd. Eil yw gwneuthur peth camgyflus angcyfreithiawl yn erbyn y brenhin. Trydydd, gwneuthur cam, neu angcyfreith, y perthyno camlwrw amdanaw yn erbyn y wlat neu y wyr.

O edrych ar y ddau driawd daw'n amlwg fod H a Z yn rhannu'r un gysail yn y fan hon. Gan fod ychydig o amrywiadau geiriol rhwng y ddau driawd mae'n annhebyg fod Z yn defnyddio H fel ffynhonnell, na'r ffordd arall. Er hynny, digwydd y ffurf amwys *anaddawt* neu *anayddawt* yn y ddau fersiwn o'r triawd (sydd efallai'n llygriad o'r ffurf *amufydd-dawt*?).²⁶⁷ Efallai fod hwn yn llygriad yn y gysail hefyd. Yn dilyn y triawd yn Z a H/PeniARTH 278 ceir darn o destun sy'n rhestru'r gwahanol ffyrdd y gall dyn bechu yn erbyn ei arglwydd, sydd efallai'n cysylltu â'r cymal cyntaf yn y triawd uchod:

²⁶³ *WMLT*, t. 25.

²⁶⁴ Gw. *WMLT*, cyf. II, tt. 5-7 (conspectws 3).

²⁶⁵ Gw. §§30, 53, 141, 185, 237, 247-48, 251-53, 303, 315, 472, 482, 1015.

²⁶⁶ Gw. y drafodaeth ar gynghawsedd uchod, tt. 51-53.

²⁶⁷ Nid oes enghraifft o'r gair hwn cyn c.1400 yn *GPC*.

A llawer modd y damweinia i ddynn wneithwr kwl yn erbyn i arglwydd prysenawl, nit amgen: dwyn i nythot i adar. Torri i goet ne i dai. Lladd i ledveginot nev i aniveiliait. Kelv i bydavav o'r tayogav. Bwrw koed derw ar i fforth lle delai, torri ffyrdd nev dervynav *kyffreithiawl* mesvrawl, a'i llwybyrav *kyffreithiawl*, a'i hwylvedd *kyffreithiawl*. Gollwng aniveiliait yw rwydau *kyffreithiawl*. Torri gwarchav nev i luddias gwarchav. Kelv i vesobyr. Tyngu anvdon kyhoeddoc ac am anghywirdeb iddaw yngkwesti. Bwyta nev yffet nev hwahani wrth i gymdeithion kyn dedyrvd y varn, nev arwain arvav lle nis dyleit oddiaith y tair gorssaff aryff, nev y tair gorssaff gwaywff *kyffreithiawl*. Lladd adar ni ddyleir i lladd ar dir dyn arall hep i genat, ac am grwyn y tri ffryff a ddyly y brenin i krwyn pa le bynac i lladder, ac am yr adar a ddyly i gwerth, ac am vynet ar ynaid yng kyngor hep i erchi gwarchev o'r dre i'r llall (Z f. 86r-v).

§238 Llawer modd y damweinia y ddyn wneuthur cwl yn erbyn y arglwydd: nyt amgen, dwyn nythod y adar; torri y goet neu y dei; lladd y lletfegin, neu y anyfeilieit; celu y fyddafeu o'r taeogeu; bwrw coet derw ar y ffordd lle del; torri y priffyrdd, a'e derfyneu cyfreithiawl messurawl, a'e lwybreu cyfreithiawl, a'e hwylfeydd cyfreithiawl; gellwng anifeilieit y'w rwydeu cyfreithiawl; torri gwarchau, neu luddias; celu y fessobyr; tyngu anudon cyhoeddoc mewn angwestau; arwein arfeu y lle nys dilyit, o ddieythyr eu tair gorsaf aryf, neu y teir gorsaf gwayw cyfreithiawl mewn dadleu; lladd yr adar ny ddylir eu lladd ar dir dyn heb y ganyat; hefyd am crwyn y tri pryf a ddyly brenhin eu crwyn lle bynnac y lladder; a'r adar a ddyly y gwerth; mynet ar yneit yng cyngor; neu erchi gwarchae o'r dref y'r llall; neu warchae anffawd yn anghyfreithiawl mal nas dilyit nodi amff . . . dily . . . esgyn mewn peth ni ddylir; celu da diberchenoc . . . [t. 33] celu hynny a ddylef arglwydd o'e swyddogyon, a thyngu anudon am hynny; . . . cyrcheu cyhoeddoc y deu ereill pan e deholwyr, a bwyd wahardd, a'e welet wedy hynny, neu y derbyn y'w dy; neu o'r teir ffordd y cyll ynat camlwrw, fal y ceffy obry lle dywedir am frawdwr.

Unwaith eto daw'n amlwg fod Z a H yn defnyddio'r un ffynhonnell. Yn dilyn hyn yn H/Peniarth 278 ceir cyfres o drïoedd sydd eto ar y pwnc o anufudd-dod a'r cosbau a ddaw yn ei sgil (§§239-42). Hwyrach y codwyd y rhain o'r gynsail i H tra y'u hepgorwyd o Z, ar y llaw arall efallai mai dyfeisgarwch awdur H sydd i'w weld yma.²⁶⁸ Yn dilyn yr adran ar anufudd-dod dychwelir at y pwnc o gamlwrw yn §§243-56 (sef dirwy gan y brenin o dair buwch neu 180 ceiniog).²⁶⁹ Mae testun llawysgrif Z hefyd yn mynd yn ei flaen i drafod camlwrw ac ar ff. 86v-87r ceir cyfres o drïoedd sydd unwaith eto yn unigryw i lawysgrifau H/Peniarth 278 a Z: 'Tri ryw gamlwrw y

²⁶⁸ Cf. isod, t. 70 ymlaen.

²⁶⁹ Gw. *LTMW*, t. 322.

sydd' sy'n cyfateb i §247; 'Tri modd y kollir kamlwrw vn dyblic' sy'n cyfateb i §248; 'Tri modd y bydd kamlwrw dav ddyblic' sy'n cyfateb i §251; 'Tri modd y bydd kamlwrw tri dybylic' sy'n cyfateb i §252; a 'Tri dyn ni dyly kamlwrw arnvt' sy'n cyfateb i §253. Yn nhestun H/PeniARTH 278 ychwanegwyd pâr o drïoedd rhwng y trïoedd am gamlwrw 'un dyblyg' a 'dau ddyblyg' gan dorri ar draws rhediad y gyfres o drïoedd fel ag y maent yn Z. Gan fod dilyniant y testun yn ymddangos yn fwy naturiol yn Z mae'n debyg mai ychwanegiadau gan awdur H yw §§249-50. Rhestrir rhagor o drïoedd ar Z, f. 87r sydd hefyd yn digwydd yn H/PeniARTH 278 ac nid yn unman arall yn y llyfrau cyfraith sef: 'Tri dyn a dal abediw hep dir' sy'n cyfateb i §§30/472 a 'Tri ffeth nit rait praw arnvt' sy'n cyfateb i §482. Mae llawysgrif Z yn cloi gyda'r triawd 'Tri lle y dyly dyn vesur i hawl gan amddiffynwr hep hawl hep atep o honno' (f. 98r-v) sy'n cyfateb i §185. Unwaith eto nid yw'r triawd hwn yn digwydd yn unman arall yn y llyfrau cyfraith. Mae diwedd y triawd yn wallus yn Z ond yn gyflawn yn H/PeniARTH 278.

Fe ymddengys bod perthynas agos rhwng trïoedd H/PeniARTH 278 a'r trïoedd yng nghynffon Z: a'r ddau destun yn defnyddio yr un ffynhonnell ar brydiau. Ni ddyfynnwyd y ffynhonnell honno mewn unrhyw lawysgrif arall. Mae hyn yn awgrymu'n gryf fod H a Z yn tynnu ar gasgliad o drïoedd oedd yn annibynnol ar y prif gasgliad a gynrychiolir yn llawysgrifau Bleg. O gofio cysylltiad Z â'r gogledd-ddwyrain efallai mai olion casgliad o drïoedd oedd yn perthyn i'r ardal honno a geir yn H/PeniARTH 278 a Z. Mae Z ei hun yn llawysgrif broblematic gan ei bod yn gopi o lawysgrif hÿn.²⁷⁰

Rhodddid pwyslais ar awdurdod cyfraith ysgrifenedig yn llawysgrifau Bleg ac efallai mai dyma pam y cyfunwyd cymaint o drïoedd cyfraith â'r testunau hynny.²⁷¹ Dichon y bodolai casgliad o drïoedd cyfraith oedd yn perthyn i Ior hefyd ond na chafodd ei gyfuno â llawysgrifau Ior yn yr un modd. Ni ellir mentro cyn belled ag awgrymu bod rhan o'r casgliad Iorwerthaid o drïoedd wedi ei gorffori yn H/PeniARTH 278; er hynny, gellir dweud bod awdur H ar adegau yn gwneud defnydd o gasgliadau trïoedd oedd yn annibynnol ar y prif gasgliad, sef casgliad Bleg. Roedd y casgliadau hynny, neu rannau ohonynt, hefyd ar gael i ysgrifwyr llawysgrifau diweddar megis Q, Tim, K, S a Z.

²⁷⁰ Gw. uchod, ff. 51-53 a n. 219.

²⁷¹ *WMLT*, t. 11.

c) Trioedd Annibynnol

Fel y cyfryw nid oedd unrhyw gymysgu rhwng gwahanol fathau o drioedd, e.e. nid oes trioedd cyfreithiol na thrioedd cerdd yn y testunau o Drioedd Ynys Prydein (sef y prif casgliad o drioedd chwedlonol) na'r ffordd arall.²⁷² Mae §71 yn eithriad i'r tueddiad hwn gan fod y triawd wedi ei seilio ar driawd a geir mewn casgliad o drioedd gwirebol yn Llyfr Gwyn Rhydderch, cf:

Tri charelyn dyn: tan, a dwr, ac arglwydd.²⁷³

§71 Tri charelyn dyn: tan, a dwfyr, ac arglwydd: sef achaws yw, arglwydd a ddiennyda y naill frawd, ac a ddial y llall; ail yw tan a lysc y naill brawd, ac a ddiffer y llall rhac rhyn ac anwyd; trydydd yw dwfyr a fawdd y naill frawd, ac a ddiffer y llall o syched, neu o beth arall.

Mae'r triawd wedi ei seilio ar wrtheiriad, sef syniadau gwrthgyferbyniol wedi eu corffori mewn un gair. Rhoddir glos i'r triawd sy'n esbonio'r tri chymal. Cafodd y triawd ei gynnwys yn H/Peniarth 278 mwy na thebyg gan fod y trydydd cymal yn cyfeirio at yr arglwydd sy'n gallu dienyddio, sef rhoi i farwolaeth drwy gyfraith, am droseddau fel lladrad ond sydd hefyd yn gallu dial ar ran rhywun neu dalu'r pwyth yn ôl, fel mewn achos o alanas.²⁷⁴ Mae'r triawd hwn yn dangos gwybodaeth lenyddol yr awdur a'i fod yn gyfarwydd â mathau gwahanol o drioedd. Mae'r triawd hefyd yn dangos gallu ac awydd yr awdur i esbonio ac i ehangu ar destunau amwys.

d) Addasu trioedd hysbys

Er bod awdur H yn dyfynnu trioedd sy'n hysbys o ffynonellau eraill, yn aml mae'r awdur wedi newid geiriad y trioedd neu ychwanegu atynt, fel y dengys §71 uchod.

²⁷² Gw. R. Bromwich (gol.), *Trioedd Ynys Prydein: the Welsh Triads* (2il arg., Cardiff, 1978). Mae'r prif gasgliad Gwyddeleg yn wahanol yn hyn o beth gan fod y trioedd yno yn trafod nifer o wahanol bynciau, e.e. cyfraith, natur, gwirebau a.y.y.b.: gw. K. Meyer, 'The triads of Ireland', *Royal Irish Academy Todd Lecture Series*, 13 (Dublin, 1906).

²⁷³ Golygwyd trioedd gwirebol y Llyfr Gwyn gan M. E. Owen yn 'Trioed hefut y6 yrei hynn', *YB*, 14 (1988), 87-114; gw. t. 104 am y triawd a ddyfynnir uchod.

²⁷⁴ Y mae un enghraifft arall o driawd gwirebol yn y testunau cyfraith sef 'Tri chadarn byt ynt: arglwydd, a drut, a didym': gw. *WMLT* Q155/U60.

Roedd ganddo y gallu i weddnewid ei ffynonellau gan addasu ac ychwanegu at drioedd oedd eisoes yn bodoli, gan adael ei stamp personol amynt. Mae §59 yn fersiwn diwygiedig o driawd sydd i'w gael mewn nifer o destunau eraill: cf.

Tri phryf a dyly y brenhin eu gwerth py tu bynhac y llather: llostlydan, a beleu, a charlwnc; kanys oc eu dillat y gwneir amaerweu y dillat y brenhin (*LIB*, 114/13-16).²⁷⁵

§59 Tri wrllys a ddyly y frenines: croen beleu, a llostlydan, a charlwng.

Ym mhob fersiwn arall o'r triawd dywedir bod crwyn y tri anifail hyn yn cael eu defnyddio i wneud dillad i'r brenin yn hytrach na'r frenhines: efallai mai adlewyrchiad o ddylanwad a phwysigrwydd Siwan yn llys Llywelyn sydd yma, neu ddatblygiad yn statws merched yn gyffredinol.²⁷⁶ Ceir fersiwn arall o §59 yn §166 sydd unwaith eto yn cyfeirio at y frenhines yn hytrach na'r brenin. Mae cynffon i'r triawd yn §166 sy'n cyfeirio at y llostlydan (afanc). Dywedir bod yr anifail yn cynhyrchu meddyginiaeth yn ei geilliau a châi ei hela yn sgîl hynny, ac felly yn ystod yr helfa fod yr anifail yn cnoi ei geilliau i ffwrdd mewn ymgais i ddianc oddi wrth yr helwyr. Defnyddir y gair *befyr* yn y testun yng nghynffon y triawd sy'n amlwg yn fenthyciad o'r gair Saesneg *beaver*.²⁷⁷ Adroddir stori debyg i hyn yng ngwaith Gerallt Gymro sy'n rhoi esboniad etymolegol am sut y cafodd y llostlydan yr enw Lladin *castor* (< *castrare*, sef ysbaddu). Câi ei hela yn y gorllewin am ei groen tra câi ei hela yn y dwyrain am ei rinweddau meddyginiaethol. Cyfeiria Gerallt at Cicero, Iuvenalis a Bernard sydd hefyd yn cyfeirio at y llostlydan yn aberthu rhan o'i gorff yn eu gwaith.²⁷⁸ Efallai fod yr ysgrifydd yn gyfarwydd â gwaith Gerallt Gymro neu ei fod wedi darllen am rinweddau'r llostlydan mewn gweithiau clasurol. Mae hyn yn ategu'r awgrym fod awdur H yn gyfarwydd â'r traddodiad Lladin.²⁷⁹

Ar adegau rhoddir penawdau gwahanol i drioedd poblogaidd, e.e. cynigir 'Tri peth ni ddyly y brenin fod hebddun (.i. anhebcor)' yn §58 fel amrywiad i'r pennawd:

²⁷⁵ Ceir fersiynau o'r triawd hefyd yn: *WML*, 131; Lladin D, 372; Dim.II.viii.38; J, 37; Tim 1; S, 68; Lladin A, 126; Lladin B, 250; Lladin E, 500/503; *WMLT*: Q83/Mk56.

²⁷⁶ Am ddylanwad posibl Siwan ar Gyfreithiau'r Llys gw. R. Ch. Stacey, 'King, queen, and *edling* in the laws of court', *WKC*, 53-62.

²⁷⁷ Yn *GPC* ni cheir enghraifft o derm tebyg sy'n dyddio cyn 1740 (*GPC*, d.g. *befet*, *befar*).

²⁷⁸ Jones *Gerallt Gymro*, 119-20.

²⁷⁹ Gw. isod, t. 88 ymlaen.

'Tri anhebcor brenhin ynt' fel sy'n digwydd yn llawysgrifau Bleg. Yma mae'r awdur yn esbonio ystyr y gair 'anhebcor'. Teitl §2 yw 'Tri gwallawc air y sydd' er mai 'Tri geir kylus yssyd' yw teitl y triawd yn llawysgrifau Bleg. Yr un pennawd a roddir i'r triawd hwn yn llawysgrif Z. Dichon fod pennawd H/PeniARTH 278 a Z yn ymgais i adleisio geiriad corff y triawd sydd hefyd yn cyfeirio at 'wallawcair,' neu bod 'cylus' yn hen air oedd wedi colli ei ystyr.²⁸⁰ Hwyrach mai fersiwn gogleddol o'r triawd a geir yn H/PeniARTH 278 a Z. Teitl §56 yw 'Tri modd y sarhaer y rhiein freinyat; .i. y frenhines' o'i gymharu â 'O tri modd y sarheir y vrenhines' llawysgrifau Bleg. Yma mae'r awdur yn defnyddio term hynafol am y frenhines sydd efallai'n dangos ei hoffter o chwarae ar eiriau.²⁸¹ Mae'n cynnig gwrthgyferbyniad i deitl §58 sy'n ymgais i symleiddio teitl triawd adnabyddus. Yn §56 a §58 gwelir yr awdur yn defnyddio'r byrfodd .i. am *id est*, sef hynny yw, ac mae hyn yn dangos ei fod yn gyfarwydd â defnyddio'r system byrfoddol Ladin.

Mae'r awdur hefyd yn addasu corff trioedd hysbys, e.e.:

§864 Tri ofer ymadrawd a ddywedir mewn gorsedd: llys cyn amser, .i. llyssu cyn tyngu; a gwat cyn detfryt, sef yw hynny, gwadu o'r mach peth cyn detfryt o'r mach, o bydd cyfaddef; a chynghesuseth wedy brawt, cany ellir yna eithyr ymwystlaw am y farn.

Dyma amrywiad ar driawd yn llawysgrifau Cyfn, Bleg, Lladin D, B, ac E:

Tri ouer ymadrawd a dywedir yn llys ac ny ffynnyant: gwat kynn deturyt, a llys kynn amser, cof a chyghaws gwedy brawt (*LIB*, 110/23-25).

Cynigir esboniad i gymalau'r triawd gan adlewyrchu gwybodaeth gyfreithiol yr awdur a'i allu i ddadansoddi ei ffynonellau. Mae nifer o enghreifftiau yn y testun lle bo'r awdur wedi mynd ati i ychwanegu glosau at destunau hysbys a thrafodir y nodwedd honno yn fanylach wrth drafod yr awdur, ei arddull, a'i gefndir addysgol.²⁸²

²⁸⁰ Mae hyn eto'n adlewyrchu perthynas y ddwy llawysgrif hyn.

²⁸¹ Gw. y nodiadau testunol am nodyn ar y 'rhiein freinyat'.

²⁸² Gw. isod, t. 86 ymlaen.

ii. Dyfeisgarwch yr awdur (cyfansoddi trioedd newydd)

Ar wahân i'r trioedd poblogaidd mae H yn cynnwys cyfresi o drioedd unigryw. Yn amlach na pheidio dosbarthwyd y trioedd yn ôl thema. Un gyfres o'r fath yw'r trioedd sy'n ymwneud â'r brenin a'i lys, sef §§83-141.²⁸³ Gan nad oes cyfatebiaeth i'r rhan fwyaf o'r trioedd hyn yn y testunau cyfraith sydd wedi goroesi dichon y gellid awgrymu eu bod yn ffrwyth dyfeisgarwch yr awdur a'u bod yn dystiolaeth i ddiddordeb hynafiaethol yr awdur. Wrth ganolbwyntio ar y gyfres hon yn unig gellir cael cipolwg ar dechnegau'r awdur a sut y mae'n mynd ati i weddnewid ei ffynonellau gan greu testun llenyddol newydd.

a) Maelgwn Gwynedd

Mae'r trioedd sy'n ymwneud â'r llys yn agor â phedwar triawd sy'n seiliedig ar draethawd cyfraith byr sydd i'w gael yn llawysgrifau F, Ll, D a Col (sef Llyfr y Damweiniau II).²⁸⁴ Mae'r traethawd yn adrodd chwedl Maelgwn Gwynedd a sut y bu iddo ennill goruchafiaeth i linach Aberffraw dros weddill Cymru:

Guedy duyn coron Llundeyn a'r tyrn guyalen y gan genedyl Gemre ac eu dyhol o Lloygyr e gossodassant datleu e edrych puy a uey brenyn penhaf onadunt. A sef e lle e gossodassant eu datleu ar Traeth Maelgwn en aber Deuy, ac ena e doethant guyr Guynet a Powys a Deheuparth a Ywas a Morganguc a Sseyssylluc. Ac ena e dodes Maeldaf Henaf uab Vnhwch Vnarchen pendeuyc Penarth en Aruon cadeyr wen o adanet cuyredyc adan Uaelgun, a pan doeth e llanu ny allasant dyodef e datleu namyn Maelgun o achau y cadeyr. Ac urth hynny e cauas ef y uot en urenhyn penhaf, ac Aberfrau en pen llysoet, a yarll Mathraual a yarll Dyneuer a yarll Caerlleon adanau enteu, ac en eyr y eyr ef ar pob un onadunt huy, ac en *keureyth* er eydau; ac nyt reyt ydau ef cadu eu *keureyth* wynt. A thruy ben Mayldaf Henaf e cauas Penarth e breynt a bot en hynaf kyghellauredref.²⁸⁵

Wrth gymharu §§83-86 gyda'r testun hwn fe ddaw'n amlwg fod awdur H wedi defnyddio fersiwn o'r testun wrth lunio ei drioedd:

²⁸³ Mae'r trioedd hyn yn digwydd yn nes at ddiwedd y llawysgrif ym Mheniarth 164 ond maent yn dal i ddilyn yn yr un drefn.

²⁸⁴ Gw. *AL*, V.ii.1; *DwCol*, §§ 218-22; Owen, 'Royal Propaganda', *WKC*, t. 251 a t. 234, n. 68 lle tynnwyd sylw at y gyfatebiaeth.

²⁸⁵ Dyfynwyd o Owen, 'Royal Propaganda', *WKC*, t. 251.

- §83 Tri mechdeyrn dyledoc a ddyly gwladychu Cymru oll dan y therfynau: brenin Aberffraw, arglwyd Dinefwr, a hwnn Mathrafal.
- §84 Teir prif lys arbennic sydd i'r tri theyrn hynn, yn essaydynneu breynyawl iddunt: un yw Aberffraw yn Gwynedd, Dinefwr yn y Deheu, Mathrafal Wynfa ym Powys: a llyna mal y dosparthwyt eu tehyrnas wynt yn deir rhan. Un bieu uchafiaeth ar y ddwy, nyt amgen noc Aberffraw pieu y pendifigaeth.
- §85 Tri yeirll y sydd danai hi: yarll Caerllion, a iarll Dinefwr, ac iarll Mathrafal.
- §86 Teir rhan ydoedd y Deheu: Rhiennwc, .i. gwlad Rhein; a Rhiellwc; a Morgannwc. Maeldaf hynaf ab Unwch Unarchen a beris Uaelgwn Gwynedd y wyr cael y breint cyntaf: cyn boed mwyaf o gantrefoedd yn y Deheu, uchaf yw breint Gwynedd. Pennaf cynghellawrdref yn Ghymry yw Penardd yn Arfon. Maeldaf bioedd honno.

Cyfeirir yn aml at lysoedd Aberffraw neu Ddinefwr yn y testunau cyfraith ond mewn dau le yn unig y rhoddir yr enw Mathrafal ar brif lys Powys,²⁸⁶ sef yn chwedl Maelgwn Gwynedd ac mewn triawd a geir mewn llawysgrifau diweddarach: 'Teir vchel llys yssyd Yghymry nyt amgen llys Aberffra6; allys Dinef6r; allys y Mathrafel.'²⁸⁷ Gellir mentro dweud bod §83, ac efallai Tim, S a Q, wedi eu dylanwadu gan chwedl Maelgwn. Mae §83 yn enwi un frenhiniaeth a dwy arglwyddiaeth gan ddangos uchafiaeth Aberffraw a Gwynedd dros y ddwy uned arall.²⁸⁸

Nodir yn §84 bod tri phrif lys yng Nghymru, er hynny, pwysleisir unwaith eto uchafiaeth Aberffraw dros lysoedd Dinefwr a Mathrafal. Mae'r gair 'pendifigaeth' yn adleisio rhan o stori Maelgwn lle gelwir ef yn frenin pennaf a lle cyfeirir at Aberffraw fel y llys pennaf, gan bwysleisio mai Aberffraw oedd y llys pennaf oll yng Nghymru.

Mae pennawd §85 yn clymu gyda'r syniad mai Aberffraw sydd uchaf ei statws tra bo gweddill Cymru yn ddarostyngedig i Wynedd, ac unwaith eto adleisir geiriad stori Maelgwn. Mae'r defnydd o'r term iarll, sy'n air benthyc o'r Hen Norse, yn awgrymu bod gan arglwyddi Cymru statws tebyg i'r ieirll Eingl-Normanaid yn

²⁸⁶ Gw. isod, §83n am Mathrafal. Am lys Aberffraw gw. G. R. J. Jones, 'Llys and Maerdref', *WKC*, 309-15.

²⁸⁷ Triawd sydd i'w gael yn *AL*, X.xvii.8: allan o Tim, S a Q.

²⁸⁸ Am drafodaeth ar *nomenclature* gw. R. K. Turvey, 'King, prince or lord? Rhys ap Gruffydd and the nomenclature of authority in twelfth-century Wales', *The Carmarthenshire Antiquary*, 30 (1994), 5-18; Jenkins, 'Kings, lords and princes'; Jones Pierce, *Medieval Welsh Society*, 26-31. Gw. hefyd *AWR*, tt. 75-76; R. R. Davies, *Conquest Coexistence and Change: Wales 1063-1415* (Oxford, 1987), t. 246.

Lloegr; hwy oedd prif lywodraethwyr Lloegr o dan y brenin.²⁸⁹ Mwy na thebyg mai cyfeiriad at Gaerlleon yng Ngwent sydd yma.²⁹⁰

Ceir cyfeiriad penodol at Faelgwn yn §86. Mae Rhieinwg, Rhiellwg (sydd mwy na thebyg yn cyfateb i Seisyllwg) a Morgannwg yn cael eu lleoli yn y Deheu. Mae'n debyg mai enw ar Frycheiniog a'r cyffiniau oedd Rhieinwg tra bo Rhiellwg/Seisyllwg yn enwau ar Geredigion ac Ystrad Tywi.²⁹¹ Mae'r frawddeg, 'Maeldaf hynaf ab Unwch Unarchen a beris Uaelgwn Gwynedd y wyr cael y breint cyntaf' yn ôl pob tebyg yn aralleiriad llwgr o 'A thruy ben Mayldaf Henaf e cauas Penarth e breynt a bot en hynaf kyghellaurdref.' Ni ddylid cymryd fod Maeldaf Hynaf yn daid i Faelgwn fel y noda cyfieithiad Aneurin Owen o'r frawddeg hon gan nad oes unrhyw ffynhonnell arall, cyfreithiol na hanesyddol, yn cefnogi'r gosodiad hwn.²⁹²

Mae'r trioedd hyn yn dangos sut y mae'r awdur wedi mynd ati i addasu testun oedd eisoes yn bodoli a'i ailgyflwyno ar ffurf trioedd. Maent hefyd yn awgrymu bod gan yr awdur gopi, neu fersiwn, o un ai llawysgrif F, Ll, D neu Col o'i flaen wrth eu cyfansoddi. O'r amrywiadau geiriol sydd rhwng y pedwar testun gellir awgrymu ar un olwg fod H yn nes at lawysgrifau Col ac F: sonnir am Moel Esgidion yn lle Pennardd yn Ll a D, ac enwir Caerloyw yn lle Caerllion yn D. Ond ar y llaw arall defnyddir yr enw Ewias yn hytrach na Rhieinwg yn Col ac F tra bo geiriad Ll a D yn nes at H. Enwir 'ryeynnwc ac essayllvc a Morgannuc' yn Ll a 'rieinwc a morgannuc a seissyll6c' yn D. Efallai mai llygriad o ffurf ar Eysyllwg yw 'Rhiellwc' H/Peniarth 278: dichon i awdur H wneud camgymeriad a chopio *rh* ar ddechrau'r gair megis y gwnaeth gyda'r ddau air blaenorol, neu hyd yn oed ei newid er mwyn cyflythrenedd gan nad oedd arno ofn diwygio ei ffynonellau. Mae'n debyg mai enw ffug neu gamgopiad yw 'Eysyllwg' hefyd.²⁹³ Ceir coloffon yn Ll sy'n dadlau dros gysylltu Maeldaf Hynaf â Moel Esgidion ym Meirionnydd yn hytrach na Phennardd yn Arfon. Ysgrifennwyd Ll ar gyfer Iorwerth fab Llywelyn ap Tudur o Feirionnydd oedd yn un o ddisgynyddion Maeldaf.²⁹⁴ Efallai mai cynsail Ll, cyn i'r testun gael ei addasu ar gyfer Iorwerth a'i deulu, oedd ffynhonnell stori Maelgwn H/Peniarth 278.

²⁸⁹ Owen, 'Royal Propaganda', *WKC*, tt. 231, 234.

²⁹⁰ Gw. y nodiadau testunol, §85n.

²⁹¹ Owen, 'Royal Propaganda', *WKC*, t. 233; gw. hefyd y nodiadau testunol, §86n.

²⁹² *AL*, II, t. 585.

²⁹³ *GPC* d.g. essayllwr; Owen, 'Royal Propaganda', *WKC*, t. 237.

²⁹⁴ Owen, 'Royal Propaganda', *WKC*, tt. 236-37.

Mae §§87-88 yn annibynnol ar y chwedl ond maent yn yr un cywair â'r trioedd blaenorol. Mae §87 yn cysylltu â thriawd §83: cyfeirir at y 'Tri mechdeyrn dyledoc' yn §83 (sef y tri llywodraethwr y dylid talu teyrnged iddynt) tra bo §87 yn rhestru'r 'Teir mechdeyrn ddylyet a ddylyir o Gymry oll.'²⁹⁵ Dywedir y dylai llysoedd Dinefwr a Mathrafal dalu teyrnged i Aberffraw ar ffurf mêl a blawd. Byddai hyn yn arwydd o oruchafiaeth Aberffraw dros y llysoedd hyn a'u rhwymedigaeth hwythau i Aberffraw. Yn ei dro rhaid oedd i frenin Aberffraw dalu £63 i frenin Llundain fel tâl 'gobr estyn'. Pwysleisir, felly, awdurdod brenin Lloegr dros frenin Aberffraw ac unwaith eto mynegir bod perthynas arglwyddi Dinefwr a Mathrafal â brenin Aberffraw yn cynnig cyfochredd i'w berthynas yntau gyda brenin Lloegr. Atseinir y gyfundrefn wrogaethol hon yn y testunau cyfraith Lladin:

Si quis de aliena terra fecerit regi iniuriam, id est, *sarhaet*, reddat ei lxiii libras, et hac de causa: quia tantum est *mechteyrd delet* quod debet rex Aberfrau reddere regi Londonie cum acceperit terram suam ab eo. Postea vero omnes reges Wallie debent ab illo terras illorum accipere, id est, a rege Aberfrau, et illi reddere *mechteyrd delet* et *abediw* illorum post mortem; et verbum illius verbum est ad omnes reges, et nullius verbum est ad ipsum.²⁹⁶

Dywedir bod yn rhaid i alltud a fyddai'n sarhau brenin Aberffraw dalu £63 iddo, gan mai dyna werth y 'mechteyrn ddyled' a dalai brenin Aberffraw i frenin Lloegr fel tâl am dderbyn ei diroedd gan y goron. Brenin Aberffraw yn ei dro a estynnai eu tiroedd i weddill brenhinoedd Cymru a rhaid oedd iddynt hwythau dalu 'mechteyrn dyled' iddo yntau.

Mae'r gyfres hon o drioedd yn llawn tueddiadau gogleddol, a dyrchefir statws brenin Aberffraw i fod yn ail i frenin Lloegr oddi mewn i Gymru. Mae hyn yn adlewyrchu cyfnod Llywelyn ap Iorwerth a Llywelyn ap Gruffudd. Ym 1216 galwodd Llywelyn ap Iorwerth dywysogion Cymru ynghyd ar lan afon Dyfi (nid nepell o Draeth Maelgwn) gyda'r bwriad o ddatrys yr anghydfod am ddaliadaeth tir oedd yn bodoli rhwng disgynyddion yr Arglwydd Rhys, gan ymsefydlu ei hun fel penarglwydd ar dywysogion Deheubarth.²⁹⁷ Mae tystiolaeth yn awgrymu i un tywysog, sef

²⁹⁵ Gw. y nodiadau testunol am 'mechdeyrn'.

²⁹⁶ *LTWL*, t. 207/19-26 (Lladin B). Gw. hefyd Stacey, 'King, queen, and *edling* in the laws of court', *WKC*, t. 42; cf. *LTWL*, tt. 277, 437-38; *LII*, §110/14-17.

²⁹⁷ *Hist Wales*, t. 649; Owen, 'Royal propaganda', *WKC*, tt. 234-36; gw. hefyd J. Beverley Smith, *Llywelyn ap Gruffudd: Prince of Wales* (Cardiff, 1998), tt. 17-22, 285-86.

Gwenwynwyn ab Owain Cyfeiliog, arglwydd Powys Wenwynwyn, dalu gwrogaeth a thyngu llw o ffyddlondeb i Lywelyn.²⁹⁸ O gadw hyn mewn golwg efallai y gellid dyddio cysail stori Maelgwn i oddeutu 1216.²⁹⁹ Ond erbyn 1258 llwyddodd Llywelyn ap Gruffydd i gael undod mewnol yng Nghymru a derbyniodd lw o ffyddlondeb gan arglwyddi Cymru a fyddai efallai'n gweddu'n well i'r darlun o oruchafiaeth a geir yn y gyfres hon o drïoedd ac yn stori Maelgwn.³⁰⁰ Mae §§87-88 yn awgrymu bod arglwyddi Cymru yn talu gwrogaeth i Aberffraw sy'n adleisio taliadau gwestfa, sef taliad gan wŷr rhyddion i'w brenin, ac sy'n awgrymu eu bod yn denantiaid i dywysog Aberffraw. Mae'r cysyniad hwn o 'fechdeyrn ddyled' hefyd i'w weld yn y dyfyniad Lladin uchod. Serch hynny, nid yw'r gyfundrefn sy'n cael ei phortreadu yn nhrioedd H nac yn y testunau Lladin yn gyfundrefn hanesyddol. Er i Lywelyn ap Iorwerth geisio sefydlu ei hun fel canolwr rhwng brenin Lloegr ac arglwyddi Cymru ni fu'n llwyddiannus: cafodd ei gydnabod gan y brenin fel arweinydd ar dywysogion Cymru ond nid fel eu harglwydd.³⁰¹ Yr hyn a geir yn y rhan hon o'r testun, felly, yw fersiwn arall o fytholeg wleidyddol cyfreithwyr Gwynedd.

Mae dylanwad amgylchiadau gwleidyddol Gwynedd hefyd ar drïoedd §§55-56. Sonnir am sarhaed brenin Aberffraw a'r frenhines ('rhiein freinyat'). Yn dilyn hyn ceir triawd sy'n trafod etifeddiaeth ac sy'n dweud mai mab hynaf y brenin fyddai'n etifeddu ac nid yr ieuaf.³⁰²

§57 Tri meib ni cheiff y tyddyn breinyawl er y bod yeuaf: mab y frenin Aberffraw, canys yr hynaf a'e ceiff; a mab gwreic a gaffo tir o famwys; a mab a rodder ar faeth ar fab eillt o ganyat arglwydd, cyd caffo ef dir ni cheiff ef y tyddyn.

Defnyddir tyddyn yn y testun i gyfeirio at etifeddiaeth diriogaethol brenin Aberffraw. Gallai mab hynaf y brenin fod yn edling iddo. Ceir awgrym yn *LII* fod yr edling yn derbyn tir: 'Er edlyg a'r rey rydywedassam ny uchoth a uydant ar y breynt hvnnv yny

²⁹⁸ Smith, *Llywelyn ap Gruffudd*, tt. 18-19.

²⁹⁹ Owen, 'Royal propaganda', *WKC*, t. 236.

³⁰⁰ Smith, *Llywelyn ap Gruffudd*, t. 117.

³⁰¹ *Ibid.*, t. 22

³⁰² Mae hyn yn groes i'r hyn a ddywed Bleg, cf. *LII*, 74/21-28. Yn Ior cysylltir hyn â chyfraith yr eglwys: 'Keureyth eglues a dyweyt na dele un mab tref tat namen e mab hynaf e'r tat o'r wreyc pryaut. Keureyth Hewel a'e barn e'r mab yeuhaf megys e'r hynaf, ac a uarn na dotter pechaut e tat na'e agkeureyth en erbyn e mab am tref e tat' (*LII*, §87/12-15). Gw. hefyd *NLC*, tt. 98-100.

gaffont tyr, a guedy hynny wrth ureynt y tyr a gaffont yd a eu breynt hvynteu . . .',³⁰³ ond ar ôl derbyn tir nid oedd iddo ffrainc brenhinol ac ni châi ei gyfrif yn edling mwyach (cf. §221).³⁰⁴ Efallai fod y rheol yn adlewyrchu'r ffaith fod Llywelyn wedi rhoi tiroedd i Ruffudd, ei fab hynaf yn Llŷn a Phowys fel rhyw fath o iawndal iddo am y penderfyniad i ddyrchafu Dafydd, mab ieuaf Llywelyn yn olynedd i'r tywysog.³⁰⁵ Ond mwy na thebyg fod y cymal yn y triawd yn adlewyrchu sicrhau'r etifeddiaeth i Ddafydd gan mai ef oedd y mab hynaf cyfreithlon. Cafodd dymuniad Llywelyn o gael Dafydd fel etifedd sêl bendith y goron ym 1220 ac yna gan y Pab. Galwodd Llywelyn gynulliad ym 1226 ac wedyn ym 1238 er mwyn hawlio ffyddlondeb arglwyddi Cymru i'w fab a'i olynedd a oedd yn cael ei gyflwyno iddynt fel ei fab hynaf.³⁰⁶ Dywedir hefyd yn §764 mai mab hynaf y brenin sydd i etifeddu 'yr essaydyn pennaf.' Mae'n debyg, felly, fod y triawd hwn a §764 yn adlewyrchu cyfnod Llywelyn ap Iorwerth ac yn fwy penodol 20au a 30au'r drydedd ganrif ar ddeg (fel §§83-88 efallai). Mae dylanwad amgylchiadau gwleidyddol y drydedd ganrif ar ddeg yn drwm ar y rhan hon o'r testun. Roedd cof am dywysogaeth Cymru, dan dywysogion Gwynedd, yn dal yn fyw yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ac fe'i hatgyfodwyd ym 1400 gan Owain Glyn Dŵr.³⁰⁷

b) Arfau

Mae §§89-94 yn adran fer ar arfau sydd wedi ei lleoli yng nghanol trioedd ar y llys a'r brenin. Wrth edrych ar drefn y testun gwreiddiol gwelir mai dyma drefn naturiol y testun ac nid adran wedi ei chamleoli sydd yma. Roedd arfau a grym milwrol yn chwarae rhan ganolog wrth sefydlu ac amddiffyn unrhyw frenhiniaeth:

§89 Tri pheth sydd reit y gynnal y dehyrnas: arglwydd, arfeu, a chyfreith: arglwydd y gynnal cyfreith, cyfreith y gynnal heddwch, arfeu y gynnal rhyfel ar neb a wrthotto heddwch.

³⁰³ *LII*, §4/24-26.

³⁰⁴ Gw. hefyd J. B. Smith, 'Dynastic succession in medieval Wales', *BBCS*, 33 (1986), 205-06; D. Stephenson, *The Governance of Gwynedd* (Cardiff, 1984), t. 140.

³⁰⁵ Stacey, 'King, queen, and *edling* in the laws of court', *WKC*, t. 52.

³⁰⁶ Smith, 'Dynastic succession', 219.

Mae naws rethregol i'r triawd hwn ac nid yw'n cynnwys cyfraith fel y cyfryw; yn hytrach athronyddir ynghylch swyddogaeth y gyfraith mewn heddwch a threfn gan bwysleisio rhan yr arglwyddiaeth yng ngweinyddiad y gyfraith.³⁰⁸

Mae §§91-92 yn adleisio triawd sydd i'w gael mewn dau destun diweddarach (sef S a K):

Tri araf kyfreithia6l: cledyf a g6ay6, a b6a a deudec saeth. G6erth cledyf g6ynsaid, pedeir ar hygeint; or byd breulif, vn ar bymthec; or byd grymseid, deudec keinha6c. G6erth pob vn o'r deu ereill, pedeir keinha6c (S §850).

Mae §91 yn adleisio rhan gyntaf y triawd. O edrych ar gopi gwreiddiol y testun ym Mheniarth 164 gwelir bod awdur H wedi ychwanegu'r geiriau 'cyllell, a tharyan, a saetheu' gyda marc *caret* uwchben y testun gwreiddiol. Mae hyn yn awgrymu iddo ychwanegu'r geiriau at y triawd o'i ddyfais ei hun er mwyn creu tri phâr o arfau. Dywedir yn H/Peniarth 278 fod gwerth cyfreithiol ar yr arfau hyn ond ni nodir y gwerthoedd hynny. Mae §92 yn adleisio hanner olaf y triawd a ddyfynnir uchod gan greu triawd newydd sy'n rhestru'r gwahanol gleddyfau cyfreithiol: cf. hefyd *LII*, §141/10-12.³⁰⁹ Ymddengys bod awdur H wedi creu dau driawd newydd allan o driawd oedd eisoes yn bodoli. Mae S a K yn destunau sy'n deillio o'r bymthegfed ganrif, sef ar ôl cyfnod cyfansoddi H yn ôl dyddiad Daniel Huws.³¹⁰ Hwyrach, yn yr achos hwn, fod S a K yn tynnu ar gasgliad annibynnol o driawd oedd yn deillio o'r un cyfnod â H neu'n gynharach, ar y llaw arall gall H fod yn perthyn i'r un cyfnod â llawysgrifau S a K.³¹¹ Mae §93 yn amrywiad ar driawd sydd i'w gael yn llawysgrifau Bleg.³¹²

³⁰⁷ Gw. A. D. Carr, *Owen of Wales: The End of the House of Gwynedd* (Cardiff, 1991) a R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1995). Dyma efallai sydd yn cyfrif am y copi o chwedl Maelgwn yn llsgr. D c. 1400.

³⁰⁸ Am drafodaeth fod heddwch yn gytras â chyfraith gw. y drafodaeth ar 'The "Peace" Theory' yn J. Goebel, *Felony and Misdemeanour: a Study in the History of English Criminal Procedure* (New York, 1937), tt. 7-25.

³⁰⁹ Roedd 'gwrymseit' a 'gwynseit' yn hen enwau disgrifiadol am liw llafn cleddyf: am nodyn ar y ffurfiau hyn gw. y nodiadau testunol a D. Jenkins, *BBCS*, 35 (1988), 55-61. Gofynnodd Cai i Wnach Gawr yn chwedl Culhwch ac Olwen: 'Kymryt agalen gleis a oruc Kei y dan y gesseil. Pwy well genhyt amaw, ac guynseit ae grwmseit?' (Beth sydd well gennyt: llafn gwyn neu lafn glas/tywyll): Rachel Bromwich a D. Simon Evans (goln.), *Culhwch ac Olwen: An Edition and Study of the Oldest Arthurian Tale* (Cardiff, 1992), t. 29.

³¹⁰ *MWM*, tt. 46, 60.

³¹¹ Gw. isod, t. 106 am sylwadau ar ddyddiad H.

c) Y Brenin a'i lys

Yn dilyn yr adran ar arfau ceir nifer o drïoedd unigryw sy'n trafod y brenin a'i lys (§§95-141). Daw'n amlwg wrth edrych ar y trïoedd eu bod wedi eu seilio ar gynnwys Cyfreithiau'r Llys. Mae §§100-02 yn gyfres o drïoedd sydd wedi eu seilio ar leoliad swyddogion y brenin oddi mewn i'r neuadd. Roedd y neuadd yn rhan o lys y cwmwd a leolwyd mewn maerdref.³¹³ Cyflwynir darlun o ble yn union y byddai swyddogion y brenin yn eistedd wrth wledda yn y neuadd. Ceir cyfochredd i hyn mewn llyfrau cyfraith eraill. Wrth edrych ar leoliad y swyddogion yn y gwahanol ddulliau cyfraith gwelir bod Bleg a Cyfn yn dilyn yr un patrwm tra bo Ior yn wahanol.³¹⁴ Yn Cyfn y brenin, edling, brawdwr, offeiriad teulu a'r pencerdd yn unig sydd â hawl 'ddilys' i le yn y neuadd, sef hawl na ellid mo'i gwrthod; tra bo Bleg yn rhoi lle i fonheddwr wrth ochr y brenin. Mae Ior ar y llaw arall yn enwi'r pedwar swyddog ar ddeg sy'n cael y fraint o eistedd ar gadeiriau yn y neuadd; mwy na thebyg bod y gweddill yn eistedd ar feinciau, neu'n sefyll yn barod i weini ar y brenin. Roedd yr hen neuaddau Cymreig yn dai ffrâm nenfforch (*cruck framed house*) gyda cholofnau ym mhob pen ac un yn y canol i gynnal y to pren. Ymddengys bod rhyw fath o sgrîn ('celfi') yn tarddu o'r golofn yng nghanol y neuadd er mwyn rhannu'r neuadd yn ddwy ran.³¹⁵ Sonir am rannu'r hen dai yn ddwy ran yn chwedl Culhwch ac Olwen: 'Henpych gwell, Pen Teyrned yr Ynys honn. Ny bo gwaeth y'r gwaelawt ty noc y'r gwarthaf dy. Poet yn gystal y'th deon a'th niuer a'th catbritogyon y bo y gwell hwnn.'³¹⁶

Yn amlwg roedd awdur H yn ymwybodol o'r ddau gynllun a bortreadir yn y llyfrau cyfraith, sef Bleg a Cyfn ar un llaw, a Ior ar y llaw arall. Mae'r awdur yn rhannu neuadd y brenin yn dair rhan: 'uch coryf,' 'is coryf' a'r 'tal issaf.' Mae §100 yn cychwyn trwy ddweud mai'r brenin sy'n eistedd gyntaf fel testun *LII*.³¹⁷ Ceir cymal esboniadol yn dilyn lle mae'r ysgrifydd yn egluro ystyr 'uch coryf.' Yn y darn hwn o H/PeniARTH 278 ceir trïoedd fel isadrannau o fewn y triawd gwreiddiol ond sydd

³¹² Gw. y nodiadau testunol ar §93 a hefyd y conspectws.

³¹³ Gw. N. Johnston, 'An investigation into the locations of the royal courts of thirteenth-century Gwynedd', yn N. Edwards (gol.) *Landscape and Settlement in Medieval Wales* (Oxford, 1997), tt. 55-70.

³¹⁴ *LIB*, 4/21-5, 5/20-28; *WML*, 4/6-11, *LII*, §5.

³¹⁵ *LTMW*, tt. 223-24; *WKC*, t. 570.

³¹⁶ Rachel Bromwich a D. Simon Evans (goln.), *Culhwch ac Olwen*, t. 6 (142-45); D. B. Walters, 'Comparative aspects of the tractates on the laws of court', *WKC*, t. 382.

³¹⁷ Mae testun *LII* wedi ei ddyfynnu yn y nodiadau testunol ar §100.

bellach yn wallus. Gellir llenwi'r bwch yn y triawd 'Tri dyn a eistedd gyd ac ef' drwy ychwanegu enwau'r cynghellor, a'r hebogydd o destun *LIB*; tra gellir llenwi'r bwch yn y triawd 'Tri dyn gar y fron' gydag enw'r troediog. Ceir cyfeiriad at safle'r canhwyllydd mewn man arall yn lor a Bleg ac yn amlwg mae awdur H yn ymwybodol o hyn.³¹⁸ Sonnir am y meddyg fel y gwneir yn llawysgrifau Iorwerthaid A ac E (yn hytrach na 'meddydd' llsgr. B).

Yn §101 ystyr 'is coryf' yw rhan isaf y sgrîn a chyferbyn â'r brenin. Mae hyn yn wahanol i ystyr 'is coryf' yn lor lle y golygai ran isaf y neuadd.³¹⁹ Gwelir bod testun H/Peniarth 278 yn ymdebygu i un Cyfn a Bleg yma drwy leoli'r edling gyferbyn â'r brenin. Ceir triawd gwrthgyferbyniol i'r 'Tri dyn sydd a deddyf le iddun a'y cefyn a[r] y pared' yn §141 ac yn llawysgrif Z: 'Tri dyn a ddyly le yn y llys vddvn heb vod ev kefyn ar y pared: y pengwasdrawd, a'r penkynynd, a'r troydiawc' (*WMLT: Z85*). Yn dilyn hyn sonnir am y gof sydd eto'n wahanol i'r fersiynau eraill uchod ac sydd fwy na thebyg yn deillio o gyfeiriad mewn man arall yn lor: 'E le yn e llys yv en tal y ueync, en nessaf e'r effeyryat teylu.'³²⁰ Sonnir am y gostegwr yn taro'r golofn fel yn lor.

Mae §102 yn adleisio testun lor lle bo'r penteulu, y bardd teulu, a'r pencynydd a'r pengwastrawd yn cael eu lleoli yn y rhan isaf o'r neuadd. Roedd llaw'r penteulu ar y drws yn barod i fynd i ryfela pe bai angen. Mae'n debyg i awdur H rannu'r neuadd yn dair rhan, gan wahaniaethu rhwng is coryf a'r tal isaf, er mwyn gallu cyfansoddi triawd allan o destun fyddai fel arall yn rhannu'n ddeuawd yn unig (sef uwch coryf ac is coryf); neu nad oedd awdur H yn ymwybodol o ystyr is coryf. Mae'r rhan hon o'r testun eto'n dangos bod H/Peniarth 278 yn gyfuniad o wahanol ffynonellau. Dengys hyn fod gwahanol ffynonellau cyfreithiol ar gael i'r ysgrifydd ac nad oedd arno ofn diwygio'r testunau hynny.

Mae §103 yn cysylltu â'r trioedd blaenorol drwy sôn mai swydd y distain mewn gwledd oedd gweini bwyd i'r brenin a'r rhai nesaf ato. Am y rheswm hwn nid oes sedd i'r distain yn y neuadd. Yn sylfaenol swydd y distain oedd rheoli gweinyddiaeth ddomestig y llys.³²¹ Mae §104, sef 'Tri dyn a ddyly cowyll,' yn cyfeirio at yr anrhegu a allai ddigwydd mewn gwleddoedd. Ystyr wreiddiol cowyll oedd gorchudd. Dyma'r ystyr a geir mewn triawd yn *LIB*: 'Tri chowyllawc llys yssyd:

³¹⁸ *LIB*, 5/25-28; *LII*, §21/3-5.

³¹⁹ Gw. y diagram o eisteddiad y llys yn *WKC*, t. 571.

³²⁰ *LII*, § 39/9-10.

kerwyn ved, a brawt, a chathyl, kynn eu dangos y'r brenhin.³²² Yn ôl pob tebyg defnyddid cowyll hefyd yn enw am y benwisg neu'r gorchudd a wisgai morwyn ar ei phriodas.³²³ Datblygodd ystyr ffigurol fel term technegol am yr hyn a roddai gŵr i'w wraig yn dâl am ei morwyndod drannoeth yr uniad rhywiol. Mae ystyr cowyll yn y triawd yn H/PeniARTH 278 yn ehangach na hynny ac yn golygu taliad neu rodd a roddid i'r ynad, y bardd, a'r trullyad am eu gwaith. Efallai fod yr anrhegu hwn yn ffordd o rwymo'r swyddogion at y teulu brenhinol, fel y byddai'r forwyn yn rhwymo ei hun i'w gŵr fore ei phriodas, neu fod cowyll wedi colli ei ystyr wreiddiol.

Mae §106 yn rhestru'r tri swyddog a wasanaethai'r brenin o'u heistedd. Enwir yr ynad, y troediog, a'r pencerdd. Yn y traethawd am y brawdwr yn *LIB* ceir cyfeiriad ato yn ymryson o'i gadair.³²⁴ O'i eistedd, felly, y byddai'r ynad neu frawdwr yn rhoi ei farn ac yn gwasanaethu'r brenin: gweler y llun ohono yn eistedd yn ei gadair ac yn dal llyfr cyfraith ym Mheniarth 28.³²⁵ Fel mae enw'r troediog yn ei awgrymu ei swydd oedd eistedd o dan draed y brenin.³²⁶ Diffinir y pencerdd fel bardd cadeiriog gan adleisio'r hyn a ddywed Bleg: 'Sef vyd pennkerd: bard gwedy ennillo cadeir.'³²⁷ Ceir adleisiau o hyn ym marddoniaeth y Gogynfeirdd. Yn ôl Cynddelw Brydydd Mawr caniatodd Hywel ab Owain Gwynedd iddo ei 'gadair ymryson' ac mae'n ymateb drwy ddweud 'ei gadair a gadwaf' sy'n awgrymu bod Cynddelw yn bencerdd yn llys Hywel.³²⁸ Mae teitl cyfres o englynion yn llawysgrif Hendregadredd yn awgrymu bod yn rhaid i feirdd ymryson am eu cadair a'u swydd fel pencerdd: 'Amryson Cynddelw a Seisyll Bryffwrch am benceirddaeth Fadawg fab Maredudd.'³²⁹ Mae gwaith Cynddelw yn awgrymu y gallai bardd fod yn bencerdd mewn mwy nag un llys. Dywedir yn §106 y dylai'r pencerdd fod yn gyfarwydd â gwaith Taliesin. Ni cheir cyfeiriad penodol at hyn yng ngweddill y llyfrau cyfraith. Ceir nifer o hen gerddi sydd wedi eu priodoli i

³²¹ Gw. y nodiadau testunol ar §103 am nodyn llawn ar y distain.

³²² *LIB*, 118/20-22. Mae'r triawd hefyd i'w gael yn: Lladin D, 376; Dim II.viii.69; J, 40; Lladin A, 128; *WMLT*: Q 114

³²³ *WLW*, t. 196.

³²⁴ *LIB*, 15/11.

³²⁵ Huws, *Darluniau o Lyfr Cyfraith Hywel Dda*, t. 2.

³²⁶ *LIB*, 5/27.

³²⁷ *LIB*, 26/5. Am y pencerdd gw. D. Jenkins, 'Bardd teulu and pencerdd', *WKC*, 142-66.

³²⁸ Ann Parry Owen, 'A mi, feirdd, i mewn a chwi allan': Cynddelw Brydydd Mawr a'i grefft', yn M. E. Owen a B. F. Roberts (goln.), *Beirdd a Thywysogion* (Caerdydd, 1996), t. 146.

³²⁹ *CBT* IV 12; Owen, 'A mi, feirdd, i mewn a chwi allan', tt. 146-47: ymhellach gw. Jenkins, 'Bardd teulu and pencerdd', *WKC*, 156-57; *DrOC*, tt. 195-96, 203-05; N. A. Jones, 'Cerdd ymryson Cynddelw Brydydd Mawr a Seisyllt Bryffwrch', *YB*, 14, (1988), 47-55 (sy'n codi cwestiynau am ddilysrwydd yr englynion).

Daliesin, sef bardd o'r chweched ganrif y tybir iddo gyfansoddi cerddi mawl i Urien Rheged a'i fab Owain, Gwallog, a Chynan Garwyn.³³⁰ Datblygwyd chwedl am y bardd a'i cysylltai â Maelgwn Gwynedd ac Elffin o Geredigion. Datblygodd dadl Taliesin dros ryddhau Elffin, ei feistr, ac ymateb beirdd Maelgwn fel rhyw fath o brototeip i'r ymryson barddol yn y Gymraeg.³³¹ Canodd Phylip Brydydd ddwy gerdd ymryson (am benceirddiaeth Rhys Ieuanc) sy'n atseinio â chyfeiriadau at yr ymrysonau barddol rhwng Taliesin a beirdd Maelgwn Gwynedd.³³² Mae'r cyfeiriad hwn yn awgrymu bod y rhan hon o'r testun yn waith rhywun a oedd yn gyfarwydd â'r traddodiad barddol.

Mae §106 yn cysylltu gyda §115 ('Tri dyn sydd well eu breint o'e heiste noc o'e sefyll') ac unwaith eto enwir yr ynad, y pencerdd, a'r troediog. Gellir awgrymu bod braint y dynion hyn yn mynd law yn llaw â'u swyddogaeth yn y llys. Gan eu bod yn cyflawni eu swyddogaeth orau o'u heistedd, yn y safle hwnnw y byddai eu braint (statws) uchaf.³³³ Yma cyfeirir at ddarogangerdd Taliesin yn hytrach nag at gerdd Taliesin fel §106, sef y math o ganu a gysylltir â'r Taliesin chwedlonol y priodolir nifer o gerddi iddo o wahanol fathau. Priodolwyd nifer o gerddi darogan neu broffwydol i Daliesin ar gam, e.e. Cywrysedd Gwynedd a Deheubarth sy'n darogan o blaid Gwynedd, a'r enwocaf o bosibl yw *Armes Prydain*. Mae *Armes Prydain* yn gerdd fawr galonogol sy'n rhagweld y Cymry, y Gwyddyl a'r Llydwiaid yn uno i yrru'r Saeson o ynys Prydain.³³⁴ Dywedir yng Nghyfreithiau'r Llys am y bardd teulu yn canu 'Vnbeinyaeth Prydein' wrth rannu'r anrhaith a chyn mynd i ryfela.³³⁵ Efallai fod Armes Prydein, cerdd ddarogan fawr y Taliesin chwedlonol, yn gyfystyr ag 'Vnbeinyaeth Prydein' ym meddwl awdur H.³³⁶ Byddai hyn yn ategu awgrym Rachel

³³⁰ Gw. I. Williams, *Canu Taliesin* (adargraffiad, Caerdydd, 2000). Mae Llyfr Taliesin ei hun yn dyddio i hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg: gw. Marged Haycock, 'Llyfr Taliesin: astudiaethau ar rai agweddau (traethawd Ph.D., Prifysgol Cymru, 1983), 10-11; idem, 'Llyfr Taliesin', *CLIGC*, 25 (1987-88), 357-86.

³³¹ M. E. Owen, 'Chwedl a hanes: y Cynfeirdd yng ngwaith y Gogynfeirdd', *YB*, 19 (1993), 22.

³³² *Ibid.*, 20-24; *CBT*, VI, 14, 15.

³³³ Am nodyn ar braint gw. *WKC*, t. 562; *WLW*, t. 192; *LTMW*, t. 319.

³³⁴ Ifor Williams gol., *Armes Prydein* (adargraffiad, Caerdydd, 1964). Cyfeirir at 'fechteyrn' yn yr Armes ac mae Ifor Williams yn awgrymu mai Athelstan oedd y 'mechteyrn' hwnnw. Mae Ifor Williams hefyd yn awgrymu mai mynach o Ddeheubarth a gyfansoddodd yr Armes tua 930 a'i fod yn ddeiliad i Hywel Dda: lluniodd yr Armes fel adwaith i'w siom yn ei frenin a oedd yn fodlon cydnabod uchafiaeth Athelstan, brenin Lloegr (sy'n cynnig cyfochredd i berthynas y ddau Lywelyn â brenin Lloegr).

³³⁵ *LIB*, 22/24-25.

³³⁶ Priodolwyd cyfres o gerddi o'r bymthegfed ganrif sy'n canmol swyddogion y llys i Daliesin gw. P. Russell, 'Canu i swyddogion llys y brenin', *WKC*, tt. 552-60.

Bromwich mai *Armes Prydein* oedd ‘Vnbeinyaeth Prydein’.³³⁷ Mae’n awgrymu hefyd nad oedd y ffin rhwng swyddogaeth y pencerdd a’r bardd teulu mor bendant â hynny.³³⁸

Mae §116 yn cynnig gwrthgyferbyniad i §115. Mae parau gwrthgyferbyniol yn nodweddiadol o’r testunau triawdol.³³⁹ Unwaith eto adlewyrchir natur swyddogaeth y gwŷr a enwir yn y triawd. Mae §117 sy’n rhestru’r tri dyn sydd well eu braint yn effro nag yn cysgu hefyd yn yr un cywair â’r ddau driawd blaenorol. Yn §§118-19 gwelir awdur H yn amrywio ei arddull drwy gynnig dau unawd sydd unwaith eto wedi eu seilio ar Gyfreithiau’r Llys. Gellir cymharu §118 â’r traethodau am y penhebygdydd neu’r hebogydd yn y dulliau cyfraith ond ceir amrywiaeth yn enwau’r adar.³⁴⁰ Ymddengys bod §120 yn addasiad o gynffon triawd sydd i’w gael yn llawysgrifau K ac S:

Tri anhepgor brenhin ynt: y deuly 6rth 6neuthur y negesau; a’e ynad 6rth dosbarth dadleu, a dadleu a da6 y’r llys [ac 6rth] gyghori; ac yffeiriad 6r[th] gyssyllia6 ac 6rth gymryd iechyd y eneid ganta6; ac na dyly ef her6yd ja6nder eneid a chorff vod hep y tri hynny: ac 6rth hynny y gel6yr h6nteu ynn dri anhepgor brenhin. A deu ny dyly bod ynn [ved6] byth, a’r trydydd y6 medic o’r tri hynny, kanny dylyant vod yn ved6, ac ny dylir g6alla6 arnadynt h6y namyn gan y bod (S §2015).

Mae hyn yn awgrymu bod awdur H wedi gweld fersiwn o’r triawd hwn a ddyfynnir yn K ac S ac wedi ei ddefnyddio i greu triawd newydd. Mae hyn yn ategu’r syniad fod H, K ac S yn tynnu ar gasgliad o driodd oedd yn annibynnol ar y prif gasgliad sy’n cael ei gynrychioli yng ngweddill llawysgrifau Bleg.³⁴¹ Ceir fersiwn arall o’r triawd ‘tri anhepgor brenin’ yn llawysgrif K ac fel pennawd i’r triawd hwnnw rhoddir: ‘Am y trioed y brenin bieu’ (K, f. 126).³⁴² Efallai fod hyn yn awgrymu ar un adeg fod yna

³³⁷ R. Bromwich, ‘*A Guide to Welsh Literature, Volume F, Llên Cymru*, 13 (1974-81), t. 300; *DrOC*, t. 207.

³³⁸ Gw. Jenkins, ‘Bardd teulu and pencerdd’, *WKC*, tt. 164-65. Lladdwyd y pencerdd Dafydd Benfras yn un o ymgyrchoedd Llywelyn ap Gruffudd sy’n awgrymu y gallai’r pencerdd ymddwyn fel bardd teulu o dan rai amgylchiadau, *Ibid.*, t. 165.

³³⁹ Gw. *TYP*, t. lxx; F. Kelly, ‘Thinking in threes: the triad in early Irish literature’, *Proceedings of the British Academy*, 125 (2003 lectures), 12; R. M. Jones, ‘Tri mewn llenyddiaeth’, *Llên Cymru* 14; (1981-2), 98; Owen, ‘Trioed hefut y6 yrei hynn’, 90.

³⁴⁰ Gw. y nodiadau testunol ar §§118-19. Gw. hefyd *LII*, §9/19-20; *LIB*, 13/24-4/2; *WML*, 17/14-19

³⁴¹ Gw. uchod t. 63.

³⁴² Gw. *WMLT*, t. 434.

gyfres o drïoedd oedd yn canolbwyntio ar y brenin. Hwyrach mai olïon hynny sydd yn H/PeniARTH 278.

Mae §121 yn rhestru'r tri dyn y dylai'r frenhines eu hanrhegu â diod yn y llys, sef y penteulu, pengwastrawd a'r pencynydd. Dywedir hyn yn Cyfn, Bleg a Ior ond yn y traethodau penodol am y penteulu,³⁴³ pengwastrawd³⁴⁴ a'r pencynydd.³⁴⁵ Dyma enghraifft o sut mae awdur H wedi asio at ei gilydd wybodaeth o wahanol rannau yn y llyfrau cyfraith i greu testun newydd. Mae §123 hefyd yn addasiad ar gynnwys y traethawd ar y pengwastrawd yn Cyfn, Bleg a Ior.³⁴⁶ Unwaith eto mae'r awdur yn amrywio ei arddull drwy gyflwyno cyfres o unawdau sy'n seiliedig ar Gyfreithiau'r Llys yn §§125-29. Mae §125 yn gweithio ar sawl lefel: ar un olwg mae'n unawd ond mae iddo dair rhan: 'Un dyn a ddyly teir gwirawt anrhec gan dri dyn: y pencynydd: un gan y brenin, un gan y frenhines, un gan y distein.' Mae §§131-141 yn drïoedd unigryw i H/PeniARTH 278 sydd eto'n amlwg yn tynnu ar gynnwys Cyfreithiau'r Llys ond yn anffodus mae rhannau o'r testun yn wallus.³⁴⁷

Mae rhan helaeth o'r drïoedd ar y llys yn unigryw i H/PeniARTH 278 ond mae rhai eithriadau. Soniwyd uchod fod §§91-92 a §120 yn addasiad o drïoedd sydd i'w cael yn llawysgrifau K ac S. Mae §124 ('Tri dyn y trayana y brenin ac wynt') hefyd i'w gael yn Tim ac S. Mae §130 ('Tri thafawt uut llys') yn digwydd yn llawysgrif D tra bo §141 ('Tri dyn nyt oes dedyf le iddun a'y cefyn ar y paret') yn digwydd yn llawysgrif Z. Mae'r llawysgrifau hyn, ac eithrio D (c.1400), yn perthyn i gyfnod diweddarach nag H. Serch hynny, o'r amrywiadau geiriol sydd rhyngddynt, nid yw'n ymddangos bod y llawysgrifau diweddarach yn defnyddio H fel ffynhonnell am eu drïoedd. Mae hyn yn awgrymu y gallai rhai o'r drïoedd hyn fod wedi deillio o gasgliad annibynnol o drïoedd oedd yn cynnwys detholiad o drïoedd yn ymwneud â'r brenin a'i lys.

Gan na cheir cyfatebiaeth i'r rhan fwyaf o'r drïoedd am y brenin a'i lys yn y llyfrau cyfraith eraill mae'n deg awgrymu fod y rhan fwyaf o'r drïoedd hynny yn cynnig esiamplau o ddyfeisgarwch yr awdur. Maent yn cynnig cipolwg ar ei feddylfryd fel awdur a golygydd gan ddangos ei hoffter o gyfansoddi drïoedd newydd.

³⁴³ *LII*, §6/37-38; *LIB*, 10/21-23; *WML*, 11/5-6.

³⁴⁴ *LII*, §11/23-25; *LIB*, 19/30-31; *WML*, 21/17-18.

³⁴⁵ *LII*, §15/5-6; *LIB*, 21/7-8; *WML*, 19/20-21.

³⁴⁶ Gw. y nodiadau testunol.

Defnyddiodd y testunau cyfraith cydnabyddedig fel deunydd crai ar gyfer cyfansoddi ei drïoedd. Mae trïoedd y llys yn cynnig esiampl dda o sut yr aeth ati i gyfuno a chasglu ynghyd wybodaeth berthnasol o wahanol draethodau cyfreithiol, e.e. mae triawd §121 yn gyfuniad o wybodaeth sydd wedi ei chasglu o'r traethodau unigol am y penteulu, pengwastrawd a'r pencynydd. Mae'n debyg fod §132: 'Tri chanu a ddyly bardd teulu y ganu y uchelwr os eirch iddo' yn addasiad o destun Bleg: 'Or daw bard teulu y erchi at y brenhin, canet idaw vn canu. Os at vchelwr y daw, canet tri. Os at vilaein y daw, canet hynny diffyccio' (*LIB*, 22/18-20). Ceir fersiwn o'r un testun yn *WML*, 22/19-22 ond defnyddir y gair breyr yn hytrach nac uchelwr. Mae gweddill testun H/PeniARTH 278 yn frith o enghreifftiau eraill tebyg; e.e. mae §170: 'Tri anifeil ny cheffyr nac aryant nac yt am y llwgyr: oen, a mynn, a [geifyr] . . .' yn ddehongliad o adran ar Lygru ŷd yn Bleg: 'O pob oen y telir wy iar hyt y kadw kyfreith, ac yna y telir oen. O'r geiuyr a'r mynneu, y dadyl gyffelyb' (*LIB*, 86/1-3). Fel y dengys y nodiadau testunol, gellid tynnu sylw at fyrdd o enghreifftiau eraill lle mae'r awdur yn creu trïoedd newydd o reolau hysbys.

O gofio defnydd awdur H o gasgliad trïoedd Bleg, a'i fod yn dyfynnu testun Bleg yn helaeth ar brydiau, mae'n debyg mai copi o Bleg oedd ganddo o'i flaen wrth gyfansoddi llawer o'i drïoedd, gydag ychwanegiadau o Ior ar brydiau. Ond oherwydd hoffter yr awdur o addasu arddull a geiriad ei ffynonellau mae'n amhosibl gwybod yn union pa lawysgrif(au) oedd ganddo o'i flaen.

Casgliad

Codwyd rhai o drïoedd H/PeniARTH 278 o destunau cyfraith eraill: copiwyd ambell un yn ffyddlon ond yn amlach na pheidio arbrofodd awdur H â'u geiriad a'u cynnwys er mwyn creu fersiynau newydd o hen drïoedd. Mae rhan helaeth o'r trïoedd hynny yn gyffredin mewn nifer o lawysgrifau (Bleg) tra bo llond dwrn ohonynt yn digwydd mewn nifer bychan o lawysgrifau yn unig. Awgryma hyn bod casgliadau eraill o drïoedd, a oedd yn annibynnol ar gasgliad Bleg, wrth law. Tanlinella'r trïoedd y berthynas sy'n bodoli rhwng H/PeniARTH 278 a Z.

³⁴⁷ Mae'n debyg i'r trïoedd hyn gael eu hepgor o *AL*, II gan fod rhan y rhan fwyaf ohonynt yn ddiffygiol.

Mae rhai o'r trioedd yn adlewyrchu cyfnod y ddau Lywelyn (§§55-6, 83-88) ond fel mae §§83-86 yn ei awgrymu ni ddylid cymryd bod y trioedd hynny yn deillio o'r drydedd ganrif ar ddeg: nodweddion a thueddiadau ffynonellau'r awdur sydd i'w gweld ynddynt. Roedd diddordeb byw yn oes y tywysogion ar ddiwedd yr Oesoedd Canol. Ychwanegwyd cofnodion hyd at 1332 yn y fersiwn o Brut y Tywysogion a gedwir yn llawysgrif Peniarth 20³⁴⁸ tra bo Brenhinedd y Saeson (y trydydd fersiwn ar Brut y Tywysogion) yn parhau hyd at 1461.³⁴⁹ Mae llawysgrif Hendregadredd a chasgliadau eraill o ganu'r Gogynfeirdd i'r tywysogion hefyd yn adlewyrchu diddordeb yn y oes y tywysogion.

Yn bennaf hoffai'r awdur gyfansoddi trioedd newydd o gynnwys y llyfrau cyfraith sy'n tystio i'w allu llenyddol a chyfreithiol. Roedd yn adwyr hunanymwybodol yn gweithio o fewn traddodiad ysgrifenedig. Cynigia'r dull triawdol ffordd hwylus o greu catalogau o wybodaeth arbenigol oedd yn hawdd i'w cofio: deilliodd hyn yn wreiddiol, mwy na thebyg, o natur lafar y traddodiad brodorol. Ond roedd dosbarthiadau rhifyddol hefyd yn gyffredin yn y traddodiad Lladin ac ni ellir bod yn sicr nad y traddodiad hwnnw a ddylanwadodd ar arddull y testun,³⁵⁰ roedd yn rhan o ddisgyblaeth rhethreg a gydnabyddid o gyfnod Aristotles ymlaen. O ba gyfeiriad bynnag y daeth yr hoffter hwn o ddsbarthu'r gyfraith yn drioedd ei brif swyddogaeth oedd gwneud pethau'n haws i'w cofio. Er hynny, mae rhai o drioedd H/Peniarth 278 yn faith ac yn cynnwys cyfraith ddatblygedig fel damweiniau neu gynghawsedd sydd wedi symud ymhell o bwrpas mnemonig gwreiddiol y trioedd: cf.,

§1. Tri defnydd hawl y sydd: gair, golwc, a gweithred.

§574. Tri lle y rhydd amddiffynwr y arddelw ympenn yr hawlwr, ac o phalla iddaw y arddelw, profet arnaw drwy wybyddieit deddfawl: un yw holi o hawlwr peth o anghyfarch neu beth tebic, a dywedut o'r amddiffynwr fot y fodd a'y ewyllys gyt ac ef y gychwyn hyn y mae yn y holi; os absen fydd y da a holer, profet, os

³⁴⁸ Gw. Thomas Jones (gol.), *Brut y Tywysogyon, Peniarth MS 20* (Caerdydd, 1941) a'r cyfieithiad yn idem. *Brut y Tywysogyon or the Chronicle of the Princes, Peniarth Ms. 20 Version* (Cardiff, 1952); G. a T. M. Charles-Edwards, 'The continuation of 'Brut y Tywysogion' in *Peniarth Ms. 20*', yn Tegwyn Jones a E. B. Fryde (gol.) *Ysgrifau a Cherddi Cyflwynedig i Daniel Huws* (Aberystwyth, 1994), 293-305.

³⁴⁹ Thomas Jones (gol.), *Brenhinedd y Saesson; or, The King of the Saxons: BM Cotton MS. Cleopatra Bv; and, the Black Book of Basingwerk, NLW MS. 7006* (Cardiff, 1971).

³⁵⁰ Gw. E. Curtius (cyf. W. F. Trask), *European Literature and the Latin Middle Ages* (London, 1953), tt. 197, 367, 375 *et passim*.

gwatta amaw. Eil, o derfydd y'r amddiffynwr dywedut ar yr hawlwr dwyn y da y mae yn y holi y gantaw, ynteu o angcyfarch; ac na ddyly ateb, yny ddel y da attaw drachefyn; neu am nat ydiw ganthaw y da; cyt bo hynny mal addef dwyn y da gynt o angcyfarch, llyna yr amddiffynwr rhoi arddelw ympen yr hawlwr, cychwyn ohonaw y da y ganthaw; a profet, os gwatta. Trydydd yw holi o ddyn da y arall: 'Dioer,' [t. 83] heb yr amddiffynwr, 'ti a roddeist ym y da ydd wyt yn y holi; ac mae ym ddigawn a'e gwyr os gwedy.' Llyna ef yn rhoi y arddelw yn y ben. Os yr hawlwr a ddyweit, pan yrawdd yr amddiffynwr fry yn yr eil arddelw, cychwyn y da y ganthaw ymeith drachefyn: 'Dioer,' heb yr hawlwr, 'ny wadaf i gychwyn ohonof hynn a hynn y gennynt yn cyfreithiawl, am y dalu ohonot ym am beth arall a ddylywn yt; ac os gwedy, mae ym ddigawn a'e gwyr.' Llyna yr hawlwr yn rhoi arddelw yna ympenn yr amddiffynwr cyfreithiawl.

Yn fwy na dim mae trioedd H/PeniARTH 278 yn brawf i sut y bu i'r gyfraith, a ffurf y triawd, barhau i ddatblygu yn yr Oesoedd Canol diweddar yn nwylo un unigolyn arbennig.

AWDUR H

Mae deugain o lawysgrifau cyfraith sy'n perthyn i'r cyfnod c.1250-c.1550 wedi goroesi. Serch hynny, prin iawn yw'r hyn a wyddom am eu cyfansoddi; sef gan bwy ac ym mhle. Y farn gyffredinol oedd mai cynnyrch mynachdai oedd y rhan fwyaf o lawysgrifau canoloesol yng Nghymru. Mae'n debyg fod y ddamcaniaeth hon yn wir am y llawysgrifau cyfraith hynaf hefyd ond mae tystiolaeth yn awgrymu'n wahanol am rai o'r llawysgrifau diweddarach. Cynhyrchwyd y rhan fwyaf o lawysgrifau sy'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg a dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg mewn mynachdai ond wedi hynny daw gwaith ysgrifwyr lleyg yn fwy amlwg, yn arbennig yn y bymthegfed ganrif.³⁵¹ O'r holl ysgrifwyr fu wrthi'n copïo'r llyfrau cyfraith pump yn unig y gellir eu hadnabod; sef Gwilym Wasta (Tr, O, N), Hywel Fychan (J), 'Davyd Escryvennyd' (LI), 'Lewys Yscolheig' (Lew), a Lewys Glyn Cothi (K). Ysgrifwyr lleyg oedd Hywel Fychan a Lewys Glyn Cothi, os nad y tri arall hefyd.³⁵² Er na wyddom enw'r gŵr a gyfansoddodd H, na beth oedd ei gefndir, gall ei waith awgrymu cryn dipyn amdano. Nid cynnyrch copïydd yw H ond cynnyrch golygydd ac awdur a aeth ati i greu testun cyfraith unigryw. Efallai y byddai'n fwy teilwng ei gymharu â Chyfnert, lorwerth,³⁵³ Cynyr,³⁵⁴ a fu, ymhlith eraill, yn gyfrifol am gyfansoddi golygiadau newydd o'r gyfraith.

I. Ysgrifen

Gellir dod i gasgliadau am yr awdur drwy edrych ar ei ysgrifen. Nodwyd eisoes fod ysgrifen neu sgrïpt y llawysgrif yn unigryw o fewn y llawysgrifau cyfraith: dyma'r unig lawysgrif yn y llaw redol a elwir yn *Anglicana*.³⁵⁵ Datblygodd *Anglicana* yn sgîl yr angen am ysgrifennu cyflym i ddiwallu'r 'record-making and record-keeping

³⁵¹ Gw. Daniel Huws, 'Llyfrau Cymraeg 1250-1400', *CLIGC*, 28 (1993-94), 12-14; *NLC*, tt. 17-22; James, 'Ysgrifydd anhysbys', 48.

³⁵² *NLC*, t. 20; James, 'Ysgrifydd anhysbys', 48. Am Gwilym Wasta gw. M. E. Owen a D. Jenkins, 'Gwilym Was Da', *CLIGC*, 21 (1979-80), 429-30. Am Hywel Fychan gw. Gifford Charles-Edwards, 'The scribes of the Red Book of Hergest', *CLIGC*, 21 (1979-80), 250-51.

³⁵³ D. Jenkins, 'A family of medieval Welsh lawyers', *CLP*, tt. 121-33; gw. hefyd *DrOC*, 66-68.

³⁵⁴ Gw. G. A. Elias, *Llyfr Cynyr ap Cadwgan: Pamffledi Cyfraith Hywel* (Aberystwyth, 2006).

³⁵⁵ Gw. uchod, t. 9 ymlaen.

mentality'³⁵⁶ a ddatblygodd yn Lloegr (ac yng Nghymru ar ôl y goncwest). Ar sail ei law yn unig gellid dweud â pheth sicrwydd fod awdur H wedi arfer ysgrifennu dogfennau, boed hynny at ddibenion gweinyddiad y llysoedd, yr awdurdodau eglwysig, neu hyd yn oed weinyddiad ystadau'r uchelwyr;³⁵⁷ ond mae cynnwys y llawysgrif yn tueddu i awgrymu cysylltiad â'r llysoedd. Rhoddwyd darn bychan o femrwn rhwng f. 78 a f. 79 sy'n debyg i'r arfer o ychwanegu dalennau i femrynau unigol mewn rholiau er mwyn cynnwys deunydd pellach.³⁵⁸ Cywirwyd y testun droeon gan roi llinellau neu groes drwy'r camgymeriadau. Mae llawer o rynglinellu yn y testun; sef ychwanegu deunydd uwchben llinellau â marc *caret*: ^. Byddai hyn yn dderbyniol mewn rholiau llys, neu roliau'r Sesiwn Fawr, ond nid mewn llawysgrifau fel rheol.³⁵⁹ Mae hyn yn awgrymu mai rhywun oedd yn gyfarwydd â rholiau llys oedd awdur H.

Gan fod y llawysgrif mor flêr ei hymddangosiad gellir bod yn weddol sicr nad cynnyrch sriptoriwm yw H. Mae'n debyg y byddai llawysgrif cyn flered â H wedi codi gwrychyn mynach oedd wedi ei hyfforddi mewn sriptoriwm.³⁶⁰ Roedd gan yr awdur afael gadarn ar y gyfraith ac mae ei ysgrif yn gyson â rhywun a weithiai yn y llysoedd. Dichon mai testun a gafodd ei gyfansoddi gan gyfreithiwr neu o leiaf gan rywun a oedd yn glerc mewn llys oedd H.³⁶¹ Mae'n debyg y byddai cyfreithwyr, neu unrhyw un a oedd yn gyfarwydd â rholiau, wedi ei chael hi'n haws darllen llawysgrif

³⁵⁶ Llinos Beverley Smith, 'Inkhorn and spectacles: the impact of literacy in late medieval Wales', yn H. Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Cambridge, 1998), t. 210.

³⁵⁷ Gw. R. Ian Jack, *Medieval Wales* (London, 1972) am y mathau o ddogfennau sydd wedi goroesi o'r Oesoedd Canol. Roedd llsgr. Caerdydd 51 yn gyfrol oedd yn eiddo i Rhys ab Einion Fychan yn nhreflannau arglwyddiaeth Dinbych rhwng 1490 a 1495. Mae'r testun yn cynnwys rhestr fanwl o denantiaid, dyledion a gweithredoedd tir yn y Gymraeg. Nid oes unrhyw engh. arall o weithredoedd tir yn y Gymraeg o'r 14g na'r 15g. Er mai Cymraeg yw iaith y testun mae'n cyd-fynd â chonfensiynau dipolmyddol dogfennau Lladin. Mae hyn yn brawf o ddefnyddio'r iaith Gymraeg, yn hytrach na Lladin, fel iaith dogfennau ffurfiol-swyddogol yn yr Oesoedd Canol diweddar: gw. Llinos Beverley Smith, 'Yr iaith Gymraeg cyn 1536', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol* (Caerdydd, 1997), t. 25.

³⁵⁸ Yng ngeiriau J. H. Baker: 'Where an entry ran over onto more than one membrane, the additional skins were not numbered; sometimes extra pieces of parchment were sewn in with additions. Until the bundling of the membrane after the term, entries could be and were amended, either by filling in spaces ('windows') which had been left for the purpose or by interlineations or even erasure': Baker, *Reports of Sir John Spelman Vol. II* (Selden Society, London, 1978), t. 95.

³⁵⁹ Cf. ysgrif H gydag ysgrif Plât XVII yn M. T. Clanchy, *From Memory to Written Record England 1066-1307* (2ail arg., Oxford, 1993).

³⁶⁰ Cf. Ibid. Gw. hefyd M. B. Parkes, 'The literacy of the laity', yn D. Daiches ac Anthony Thorlby, *Literature and Western Civilisation: The Medieval World* (London, 1973), t. 561.

³⁶¹ Awgrymodd C. James mai clerc mewn llys oedd ysgrifydd S a Tim: James, 'Ysgrifydd anhysbys', 50-51. Cf. Huws, 'Llyfrau Cymraeg', 12; H. Pryce, 'Lawbooks and literacy in Medieval Wales', *Speculum*, 75 (2000), 42, n. 63.

mewn *Anglicana* yn hytrach na llawysgrif mewn llaw llyfr (*textura*). Ar sail ysgrifennu yr awdur mae Daniel Huws yn dyddio'r llawysgrif i ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg: trafodir dilysrwydd hynny yn fanylach isod.³⁶²

II. Cefndir Lladin

Fel rheol Lladin oedd iaith dogfennau yn yr Oesoedd Canol; ac os oedd awdur H yn gweithio mewn llys nid oes amheuaeth na fyddai'n gallu ysgrifennu Lladin. Y dystiolaeth amlycaf sy'n awgrymu fod yr awdur yn gallu ysgrifennu Lladin yw ei ddefnydd o fyrfodau, e.e. crogiant; cywasgiad; llythrennau uwchysgrifol; arwyddion arbennig fel *p* i gynrychioli *per*, e.e. *pchennog*, ac *.i.* am *id est*, sef hynny yw.³⁶³ Ceir cyfeiriad uniongyrchol at y defnydd o Ladin yn testun. Pwysleisir bod medru Lladin yn ffordd o wahaniaethu rhwng gwŷr proffesiynol a lleygwyr:³⁶⁴

§594 Tri echos y bu da gwneuthyr o Ladin: cyntaf yw, datcanu y'r pab, rhac y bot yn erbyn cyfreith eglwys, mal y dyallei hi. Eil, un ymoglyt rhac ddyall o bawb hi; canys llawer peth a fydd mewn llythyr ny pherthyn eu clybot y fo rheit wrthynt. Trydydd yw y beri y'r a'e gwyppo o Ladin ragor anrhydedd rhac lleyc; canys am hynny y dywetpwynt yn y llyfyr, y neb a wyppo o ynat teir colofyn cyfreith, a'r petheu ereill a elwir egwyddawr ygnyddyaeth, nat eisteddet lleyc yn y erbyn fyth.

Awgryma'r cymal cyntaf fod awdur H wedi gweld testun sy'n adrodd hanes Hywel Dda yn mynd â'r cyfreithiau i Rufain at y Pab; cyfeirir at hyn yn llawysgrifau LI, D, K, Lew, Lladin E, S, a Z. Mae'r triawd hwn yn dangos tipyn o snobyddiaeth yn erbyn pobl nad oeddent yn deall Lladin. Cyfyd hyn y cwestiwn pam mai yn y Gymraeg y penderfynodd yr awdur gyfansoddi'r testun yn hytrach nag yn Lladin? Mae pum fersiwn Lladin o'r cyfreithiau. Cyfansoddwyd dau o'r rhain, sef Lladin D ac E, ar ôl 1282. Mewn cofnodion llys o Gydweli ym 1510 dyfynnwyd testun Lladin tebyg i Ladin D.³⁶⁵ Ond er i'r gyfraith gael ei datblygu mewn Lladin, yn arbennig yn y de-orllewin, Cymraeg oedd prif iaith y testunau cyfraith.³⁶⁶ Efallai fod H wedi ei

³⁶² Gw. isod, t. 106.

³⁶³ Gw. uchod, t. 14. Mae'r byrfodd *.i.* yn cael ei ddyddio i'r 12g yn A. Cappelli, *Dizionario di Abbreviature Latine et Italiane* (Italy, 1979), t. 168.

³⁶⁴ Gw. Pryce, 'Lawbooks and literacy', 41.

³⁶⁵ Gw. *NLC*, t. 32; James, 'Golygiad', tt. xxx-xxxii.

gyfansoddi ar gyfer lleygwr fyddai wedi ei chael hi'n haws darllen testun Cymraeg, ond mae'n debycach mai Cymraeg oedd iaith y testun gan mai Cymraeg oedd iaith ffynonellau'r awdur. Hefyd mae'n debyg nad testun cyfreithiol ymarferol oedd H.

Defnyddir ychydig o eiriau neu dermau Lladin yn y testun, e.e. *processus* sy'n ffurf ar y Lladin *processus* (gw. §582n); *symonia* sydd o bosibl yn dod o'r Lladin *simonia* (gw. §882n); a chyfeirir at weddi'r Arglwydd fel *verbum Dei* yn §1012. Mae hyn yn awgrymu bod yr awdur yn gyfarwydd â rhai termau Lladin. Ceir rhai cyfeiriadau llai amlwg yn y testun sy'n awgrymu bod awdur H yn gyfarwydd â gweithiau clasurol. Yn nhriawd §166 sonnir am y llostlydan yn ei ysbaddu'i hun, traddodiad sydd wedi ei gofnodi gan Gerallt Gymro, Cicero, Iuvenalis a Bernard³⁶⁷ ac yn §553 dyfynnir Aristotles a Selyf sy'n tystio i ddysg ryngwladol yr awdur. Mae'n bur debyg, felly, fod awdur H yn gallu darllen ac ysgrifennu Lladin sydd yn ei dro yn awgrymu iddo gael rhyw gyswllt â'r eglwys.³⁶⁸ Nid oes unrhyw dueddiadau eglwysig amlwg yn y testun sy'n awgrymu nad oedd yr awdur yn glerigwr ond dichon iddo gael rhywfaint o addysg eglwysig. Nid oedd yn anghyffredin i leygwyr fod mewn cysylltiad agos â'r eglwysi neu fynachdai, e.e. cysylltwyd Gutun Owain ag abaty Glyn-y-Groes, a chyflogid lleygwyr fel clercod mewn mynachdai o'r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen.³⁶⁹ Dichon, felly, ei bod hi'n deg awgrymu mai lleygwr diwylliedig oedd yn gweithio yn y llysoedd oedd awdur H ac iddo gael rhywfaint o addysg eglwysig yn ystod ei oes.³⁷⁰

³⁶⁶ Er i Lladin E gael ei gyfansoddi yn y gogledd-ddwyrain dichon mai yn y de-orllewin y datblygodd y traddodiad Lladin fwyaf, fel yr awgryma Lladin D; hwyrach fod y defnydd o Gymraeg yn H yn dystiolaeth arall o blaid tarddiad gogleddol H.

³⁶⁷ Gw. uchod, t. 68; Jones cyf., *Gerallt Gymro*, tt. 119-20.

³⁶⁸ *NLC*, t. 23; James, 'Ysgrifydd anhysbys', 50.

³⁶⁹ Am gysylltiad Gutun Owain â Glyn-y-Groes gw. Bachellery, *L' Oeuvre Poétique de Gutun Owain*, 129. Gw. hefyd Gifford Charles-Edwards, 'The scribes of the Red Book of Hergest', 252; J. E. C. Williams, 'Gutun Owain', yn A. O. H. Jarman a G. Rh. Hughes (goln.), *A Guide to Welsh Literature II* (arg. newydd Cardiff, 1997), 263-77; M. E. Owen, 'Prolegomena i astudiaeth lawn o Isgr. NLW 3026, Mostyn 88 a'i harwyddocâd'; D. J. Bowen, 'I William ap Sion Edwart, cwnstabl y Waun', *YB*, 18, (1992) 137-59; idem, 'Guto'r Glyn a Glyn-y-Groes', *YB*, 20 (1995), 149-81. Am y clercod gw. J. R. H. Moorman, *Church Life in England in the Thirteenth Century* (Cambridge, 1945), t. 360.

III. Ei ffynonellau

i) Blegywryd/Lladin D

Gellir dweud yn weddol bendant fod gan yr awdur fersiwn o Lyfr Blegywryd wrth law pan aeth ati i lunio ei destun; dyfynnodd drioedd sy'n rhan o gasgliad trioedd Blegywryd a dyfynnodd draethodau cyfan allan o Bleg.³⁷¹ O'r modd yr aeth yr awdur ati i gyfansoddi ei drioedd ar y llys, gan fanteisio ar Bleg a Ior, mae'n debyg iddo ddefnyddio un o llawysgrifau Bleg Teulu II, sef llawysgrifau sy'n cynnwys cyfreithiau'r llys.³⁷² Mae llawysgrifau L, M, N, R, Bost, T, J, Tim, Llan, Crd, Q, C, a P oll yn perthyn i Deulu II.³⁷³ Mae rhai trioedd yn y testun sydd â chyfatebiaeth iddynt mewn nifer bychan o llawysgrifau diweddar (Bleg) yn unig megis Q, Tim, ac S sy'n awgrymu fod H yn tynnu ar yr un ffynonellau â'r testunau hynny ar brydiau.

Mae geiriad H yn gallu amrywio cryn dipyn oddi wrth eiriad Bleg gan godi'r cwestiwn ai awdur H oedd yn addasu ei ffynhonnell ynteu a oedd ganddo ryw fersiwn llygredig o Bleg? Mae darnau tebyg, sy'n amlwg yn perthyn i Bleg ond sy'n amrywio ychydig o ran geiriad a chynnwys, hefyd i'w cael yn y gynffon i llawysgrif Z:

Pob brawdwr swydawc a geiff pedeir keinhawc kyfreith dros pob brawt a talho kymeint a hynny y gan y neb y barnho idaw. Brawdwr o vrent tir hagen, ny cheiff gwerth dros y vrawt, canys gwassanaeth y tir yw. Yspeit pob brawdwr y rodi barn rwg y dadleuwyr onys gwybyd, pympthec niwarnawt; cany dylyir gossot oet dadleu yn llei yspeit no hynny. Ac os brawdwr swydawc vyd, yna barnet y dadyl a oed ar oet, neu talet y swyd y'r brenin heb amgen gollet; cany dyly neb kynhal swyd yn hwy noc y gallo y gwassanaethu yn amserawl (*LIB*, 99/7-118).

§370-1 Pob brawdwr swydd a gaiff .iiii.^c cyfreith dros bob hawl a dalo y gymeint y gan y neb y barner iddaw fessur y hawl (neu gan y neb y barner arnaw). Brawdwr o freint tir, ny chaiff werth dros y frawt, canys ardreth y tir a'e wassanaeth yw hynny. Ac felly y bu cyn gwneuthu[r] cyfreith Hywel Dda, sef oedd yna, cyfreith Dyfynwal. Yspeit pob brawdwr y roddi brawt rhwng dadleuwyr onys gwybydd yn hyawdyl, pymtheng diwynawt; canys hwnnw yw oet dadleu o ddefawt cyfreith Hywel, ac felly o'r blaen y bu. Ac os brawdwr swydd fydd

³⁷⁰ Am addysg eglwysig gw. Elias, *Llyfr Cynyr*, tt. 8-9.

³⁷¹ E. e. §§46-50.

³⁷² E. e. § 100: gw. uchod, t. 77 ymlaen.

³⁷³ Gw. *Coleg yr Iesu LVII*, t. xvi.

hwnnw ny wypo yn yr oet, collet y swydd heb amgen gosp arnaw; cany dily swydd hwy nac y gallo wneuthur gwassanaeth yn y amser.

Pob browdwr swydd a gaiff ⁱⁱⁱⁱ^d *kyffyraith* dros bob brawt ar a roddo a dalo ⁱⁱⁱⁱ^d i gan y neb y barner iddaw i hawl nev gan y neb y barner arnaw. Browdwr o vyraint tir, ni chaif werth dros i vrawt, kanys ardyreth i dir yw y gwassanaeth hwnnw; herwydd velly y bv kyn gwnethvr kyvyraith Hywel Dda irr yn amsser Dyffynwal Meolmud, ac y gysoded yng *kyffyraith* Howel Dda bot dedyryt gwlat lle y roddo y ddwy blait o gydhvndeb, a lle nis rroddont kyffyraith ai tervyna pop peth ar a holer drwy gyffyraith, kanys ynddi y may kyffiwnder . . . Ysbait pop browdwr i roddi brawt rwng dadylevwyr, xv niwyrnot, onis gwybydd yn hvawdyl; kanys hynny yw oed dadylav o gyffyraith Hywel dda. Ac os browdwr o vyraint swydd a eirch oet dydd hwy no hynny ar ni wypo i vyrawt, kollet i swydd hep amgen boen arnaw; kanis ni ddyly swydd hwy noc y metyr o wneithvr gwassaneth yn i amser (llsgr., Z f. 85r-v).

Roedd hanes Dyfnwal Moelmud yn draddodiad a gysylltid yn wreiddiol â thestunau'r gogledd.³⁷⁴ Mae'n debyg fod llawysgrifau Bleg yn deillio o dde a chanolbarth Cymru ond efallai fod fersiwn gwyrddoedig o Bleg yn cylchredeg o amgylch y gogledd (-ddwyrain).

Ar adegau mae geiriad H yn nes at drioedd Cymraeg Lladin D na Blegywryd:

Tri amheu braut yssyd. Vn yw bot amrysonn rwg haulwr ac amdiffynnwr am y varnn a rodet vdunt; ac yna y mae y dosparth ar y brawdwr a'e rodassei. Eil yw bot amrysson rwg haulwr a brawdwr, ac ymwystlaw am y varn. Trydyd yw bot ymwystlaw rwg amdiffynnwr a brawdwr am y vrawt. Ac am y deu ymwystlaw hynny yt vyd y dosparth ar awdurdawt llythraul, canys diledyf gyffredin vyd yr awdurdawt, sef yw hynny, brawtlyuyr (LIB,18/12-20)

§1079 Teir brawt ameu y sydd: un yw bot cyngheussaeth rhwng haulwr ac amddiffynnw[r] am frawt a farnwyt yna; ameu yw y frawt yny dospartho yr ynat a'e barnws hi, cany eill neb dosparth y frawt a farnws namyn e hun. Eil yw pan fo ymwystlaw rhwng haulwr a brawdwr am y frawt a farnws y brawdwr; ameu yw frawt yny dosparther. Trydydd ameu brawt pan fy ymwystlaw rhwng amddiffynnwr a brawdwr am y farn. Ac am y ddeu ymwystlaw hynny y bydd dosparth ar awdurdawt llythrawl tryw dafodeu doethyn, canys diledyf gyffredin fydd awdurdawt llyfreu cyfreith, ac yna y perthyn credu y llyfyr goreu, a llyfyr yr ynat goreu.

³⁷⁴ Serch hynny, ynghanol y drafodaeth ar swyddogion y wlad yn S ymddengys y cymal hwn: 'megis yd oedynt kyn Hy6el Da, her6yd kyfreith Dyfyn6al' (f. 60), sy'n adleisio H a Z. Dichon fod hyn yn ategu'r berthynas oedd rhwng Z ac S; neu fod Z yn adleisio S.

Tri ammeu brawd yssyt: un yw bod kyghaws y rwg hawlur ac amdiffynnwr am y urawd a uarnwyd utunt, ac yna y mae y dosparth ar y brawdwr ae barnwys; eil yw bod ymwystlaw y rug hawlwr a brawdwr am y urawd; trydyt yw daruod ymwystlaw y rwg amdiffynnwr a brawdwr am y uarn; ac am y deu ymwystlaw y rwg amdiffynnwr a brawdwr am y uarn; ac am y deu ymwystlaw hynny yd uyt yr dosparth ar audurdawd llythyrwl trwy tauodeu doethon. Canys diletyu gyffredin uyt awdur. Brawdlyfyr yw hwnnw (*LTWL*, 326: Lladin D).

Hwyrach fod y gyfatebiaeth yn dangos bod awdur H wedi gweld copi o Ladin D yn ogystal â Bleg.

Digwydd triawd §251 yn H, Z, Lladin D a Q yn unig ond nid yn Bleg (dylid cofio nad ydy Bleg yn gopi uniongyrchol o Ladin D):³⁷⁵

§251 Tri lle y telir camlwrw deu ddyblyc: un yw pan daler gweli tafawt y arglwydd. Eil yw pan ddynessao dyn ar yneit yn barnu, o bydd y brenin yn y lle. Trydydd, pan wyssyer dyn yn erbyn arall yn goddeu y holi, a'y ddyfot ef a'r cwynwr rhac bron y brenhin y'r llys, ac yna ciliaw o'r cwynwr rhac brenhin.

Tri modd y bydd kamlwrw dav ddyblyc: vn yw pan daler gweli tavot y arglwydd, ail yw pan ddinesao dyn ar yr yngynat yn barnu a bydd y brenin yn y lle, trydydd yw pan wyssier dyn yn erbyn arall yn gaddav i holi a'i ddyvot ef a'r cwynwr rac bron y brenin y'r llys ac yna kiliaw o'r kwynwr rac bron (llsgr. Z f.86v; *WMLT*: Z110).

Tri lle y telir camlwrw deudyblyc: pan dalher gweli tauawd y brenhin; a phan dynessao dyn hep gannyad at ygneid yn barnu brawd, or byt yr arglwyd en y lle; a phan wysser dyn yn erbyn arall y odeu y holi, ae dyuod ef ar cwynawdyr rac bron yr arglwyd yr llys, a chilyaw or cwynawdyr or hawl, ar nep a wysswyd yn kynnic kyureith itaw. Ony byt yr arglwyd en y llys, un camlwrw a tal; ac yn oes yr arglwyd hwnnw, ny caffayl y wrandaw am y gofyn hwnnw (*LTWL*, 355).

Tri lle y telir camlwrw deudyblyc: vn y6 pan taler g6eli taua6t y'r brenhin; eil y6 pan dynessao dyn ar yr eneit pan vont yn barnu, heb genat, or byd yr argl6yd yn y lle; trydyd y6 pan 6ssyer dyn yn erbyn arall y odef y holi, a'y dyfot ef a'r k6yn6r rac bron yr argl6yd y'r llys, a chilio o'r k6yn6r o'y g6yn, a'r neb y k6yn6yt racda6 yn kynic kymryt kyfreith ida6. Ony byd yr argl6yd yn y llys, vn camlwr a dal. Ac yn oes yr argl6yd h6nn6 ny dylyir y 6randa6 (*WMLT*: Q 258).

³⁷⁵ Gw. Emanuel, 'Llyfr Blegywryd a Llawysgrif Rawlinson 82', 23-28.

Mae geiriad H a Z yn debycach i'w gilydd nag i Ladin D a Q.³⁷⁶ Yn H a Z mae'r triawd hwn yn rhan o gyfres o driodd sy'n trafod camlwrw. Efallai fod y triawd wedi ei godi yn uniongyrchol o Ladin D i Q ond mae'n debyg i'r triawd gael ei addasu cyn cyrraedd H a Z. Atega hyn yr awgrym fod H a Z yn rhannu'r un gynsail mewn manau.

Digwydd triawd §318 hefyd yn H, Z, a Lladin D (ond nid yn Bleg):

§318 Tri dyn a ddyly bot yn anrheith oddef o cyfreith, ac [t. 45] ny ddylyir ei difetha: dyn a wrthotto cyfreith llys; a fflemawr rhwng dwy wlat; a llofrudd a laddo celain y gwlat y brenhin: a gaffer o'e dda o'r pryt bwygilydd o'e dda cychwynawl, y brenhin pieu.

Tri dyn a ddylant vod yn anrraith odde o kyfraith ac ni ddylant ev divetha e6 h6nain. Dyn a wrthott kyfraith lys, a dyn a vo fflemawr rrwng dwy wlad, a llawrud a laddo kelain yngwlad y brenin; a gaffer o dda iddaw o'r pryd bigilið y brenin biav oll (*WMLT*: Z55).

Tri dyn anreith otef yssyt: a hwnnw yw un o natunt; eil yw flemawr; trydyt yw dyn a latho kelein kywlad ac ef (*LTWL*, 389).

Cyfyd hyn gwestiynau am ffynhonnell y trioedd Cymraeg hyn yn Lladin D a sut y'u trosglwyddwyd i lawysgrifau H a Z. Yn ôl H. D. Emanuel wrth sôn am driodd Cymraeg Lladin D: 'they might have been drawn from oral legal lore or perhaps from one or more manuscripts written in Welsh.'³⁷⁷ Gan fod geiriad y trioedd yn H a Z yn nes at ei gilydd nag at eiriad y trioedd yn Lladin D mae'n debyg fod H a Z yn tynnu ar gynsail gyffredin. Dichon fod y ddau driawd hyn wedi eu codi yn uniongyrchol o Ladin D i gynsail H a Z; neu fod cynsail H a Z yn ddyledus i'r ffynhonnell Gymraeg oedd y tu cefn i Ladin D.³⁷⁸

³⁷⁶ Ceir copi hefyd yn Lew, f. 5v-6r, ond mae'n perthyn i Q a Lladin D yn hytrach nag i H a Z.

³⁷⁷ *LTWL*, t. 60.

ii) Llawysgrif Z

Soniwyd uchod am berthynas H, Z â Bleg/Lladin D ac mae'r trafodaethau ar gynghawsedd a thrioedd wedi amlygu perthynas H a Z yn y ddau faes hynny.³⁷⁹ Gellir dweud yn weddol sicr fod awdur H a Z yn defnyddio yr un gynsail ar adegau: cynsail oedd yn cynnwys cyfres o drioedd ar gamlwrw (un dyblyg, dau ddyblyg, tri dyblyg a.y.y.b); triawd ar y 'dynion a dâl abediw hep dir'; triawd ar y 'tri pheth nad oedd raid cael prawf arnynt'; a thriawd ar y 'tri lle y dyly dyn fesur i hawl gan amddiffynnwr hep hawl hep ateb'; yn ogystal â darn am bechu yn erbyn arglwydd; a'r darnau a drafodwyd uchod. Mae'n bosibl fod y gynsail hefyd yn cynnwys copi o gynghawsedd *AL*, IX a fersiwn llygredig o Bleg. O gofio perthynas S a Z dichon y defnyddiodd ysgrifydd llawysgrif S y gynsail hon hefyd.³⁸⁰ Mae'r Athro Dafydd Jenkins o'r farn nad yw cynsail Z yn deillio o'r cyfnod cyn 1400,³⁸¹ byddai hynny'n awgrymu dyddiad diweddarach na 1400 i H hefyd.³⁸² Awgrymodd Christine James i William Salesbury ddyfynnu cynsail Z yn *Ban wedy i dynny* a argraffwyd ym 1550; sy'n awgrymu bod cynsail Z yn Nyffryn Clwyd erbyn y cyfnod hynny os nad yn gynharach.³⁸³

iii) Llyfr Iorwerth

Mae rhai darnau o'r testun yn amlwg yn perthyn i Ior, ond unwaith eto mae geiriad a mynegiant y deunydd Iorwerthaidd yn H yn gallu amrywio dipyn o'r hyn a geir yn Ior, e.e. cymharer yr adran ar ladrad yn *LII*, §§114-15 â §§654-660.³⁸⁴ Defnyddir adran Ior ar ddamdwng yn §1016 a §1020. Dyfynnir deunydd Ior ar sut i wadu lladrad (*LII*, §111) mewn gwahanol rannau o'r testun.³⁸⁵ Awgryma hyn, ar y cyfan, mai barn Ior ar ladrad a damdwng oedd bwysicaf i awdur H.³⁸⁶ Roedd lladrad yn drosedd enbyd yn yr

³⁷⁸ O ran y darn sy'n sôn am Dyfnwal, sy'n digwydd yn H a Z ond nid yn Bleg, nid oes unrhyw bosibiliad fod y darnau hynny wedi eu codi yn uniongyrchol, neu yn gyfieithiad, o Ladin D gan nad oes unrhyw gyfeiriad at Dyfnwal Moelmud yn Lladin D.

³⁷⁹ Am llsgr. Z gw. uchod, tt. 51-53.

³⁸⁰ Gw. uchod, t. 53.

³⁸¹ Sgwrs bersonol: gw. hefyd Owen, 'The laws of court from Cyfnerth', *WKC*, t. 427, n. 16.

³⁸² Serch hynny, mae'n anodd dweud dim i sicrydd gan nad oes modd gwybod beth oedd dyddiad cynsail cynsail Z.

³⁸³ Gw. James, 'Ban wedy i dynny', 78-81.

³⁸⁴ Gw. y nodiadau testunol am y cyfatebiaethau.

³⁸⁵ Gw. y conspectws am y cyfatebiaethau.

³⁸⁶ Rhoddir pwyslais ar ladrad yn J hefyd, y gynghawsedd ar ladrad yn unig a gopiwyd i'r llawysgrif honno.

Oesoedd Canol ac roedd damdwng yn fodd i rywun ailfeddiannu eiddo oedd wedi ei ddwyn.³⁸⁷ Dichon fod hyn o ddiddordeb i'r awdur gan nad oes cymaint o drafod ar y ddau bwnc hyn yn Bleg. Mae §698 yn driawd ar ddamdwng sy'n gyfuniad o Ior a Bleg lle dywedir: 'Bleddyn ap Cynfyn a Rhys ap Gryffyd a wnaethant cyfreith damdwng . . .,' priodolir cyfraith damdwng i Bleddyn yn Ior ac i Rhys yn Bleg/Lladin D. Cyfunodd yr awdur ddeunydd o Ior a Bleg/Lladin D i greu testun newydd.

Rhoddir sylw yn y testun at strwythur y llys fel y mae yn *LII*, §§72-76 ond mae awdur H hefyd yn ymwybodol o'r drefn a gyflwynir yn Llyfr Cyngawsedd ac yn cyfuno'r ddau destun.³⁸⁸ Mae diffyg deunydd cyfatebol yn Bleg i'r adran honno hefyd yn awgrymu mai'r rhannau datblygedig a newydd o Ior oedd o bwys i'r awdur. Nid oedd gan yr awdur ofn diwygio cynnwys Ior, neu hyd yn oed ei gyfuno â thestun arall, pan fyddai barn amgenach ar gael.

Mae geiriad H yn amrywio cryn dipyn oddi wrth y darnau cyfatebol yn Ior sy'n ei gwneud hi'n anodd nodi cynsail uniongyrchol i H. Serch hynny, mae trioedd Maelgwn Gwynedd yn awgrymu i awdur H weld testun oedd yn cynnwys copi o Ddamweiniau II: sef un ai F, LI, D neu Col. Adroddir stori Hywel yn mynd i Rufain yn LI, D, K a Lew yn unig (mae rhan o Ddamweiniau II yn K a Lew hefyd). Mae'n debygol fod llawysgrifau Iorwerth sy'n adrodd stori Maelgwn a/neu stori Rhufain yn nodweddu is-grŵp o lawysgrifau a hanai o is-gynsail debyg. Awgrymir cysylltiad pellach rhwng H a D gan driawd sy'n unigryw i'r ddwy lawysgrif:

§130 Tri thafawt uut llys: o cheiff dyn nawdd gan un o'r swyddogion yn un o'r teir gwyl arbennic, wedi gwneuthur cam ohonaw, ny ddyly y neb a gafas y cam y holi ef; ny ddyly ynteu ateb tra barhao y nawdd; ni ddyly brenin y gymell y atep.

Tri thaua6t uud llys: o deruyd y dyn g6neuthur cam yn llys yn vn or teir g6yl arbennic, g6edy gossotter na6d gyffredin ar ba6p yny llys; achaffel or dyn ry wnaeth y cam na6d gan un o s6ydogyon y llys; ar dyd h6nn6 keissa6 ia6n or neb a gauas y cam; kyfreith adyweit nasdyly, ac nadyly y s6yda6c ry gaffat y na6d y gymhell ida6; a hynny o vrent y dyd: ac 6rth hynny y gel6ir 6y yndri taua6tuud llys (*AL*, V.ii.150, o Isgr. D).

³⁸⁷ Gw. *Cyfraith Hywel*, tt. 62-69.

³⁸⁸ Gw. uchod, t. 28 ymlaen.

Efallai fod yr amrywiadau geiriol yn awgrymu nad D oedd ffynhonnell H na'r ffordd arall ond mae'n debyg eu bod yn tynnu ar gysail gyffredin (oedd efallai yn cynnwys copi o stori Maelgwn a Rhufain). Ysgrifennwyd D c. 1400 gan un o ysgrifwyr Llyfr Coch Hergest.³⁸⁹ Yn D digwydd y triawd ar ff. 223v-224r, sef y ddwy ffolio olaf o'r llawysgrif sy'n cynnwys copi o'r cyfreithiau. Dichon fod hyn yn awgrymu i'r triawd gael ei ychwanegu at y prif destun o ffynhonnell wahanol i'r gweddill.³⁹⁰ Mae'r defnydd o'r geiryn rhagferfol *ry* yn y triawd yn awgrymu mai ffynhonnell gynnar oedd y ffynhonnell honno. Roedd y defnydd o *ry* yn gyffredin yn y Cyfnod Canol cynnar ond yn llai poblogaidd erbyn diwedd cyfnod Cymraeg Canol.³⁹¹ Awgryma hyn fod awdur H (a D yn yr achos hwn) yn defnyddio ffynonellau coll ar gyfer rhai o'r trioedd.

Mae rhan arall o'r testun yn awgrymu bod cysylltiad rhwng H a llawysgrif C neu Col. Cf:

§945 Nyt oes affeith eithyr y led[r]at llose: sef mal y gwedir wynt, or bydd gyrr cyfreithyawl gan berchennoc y da, llw xii wyr, a'r neill hanner yn wyr not, a'r llall yn ddiot; canys mwy yw breint y lledrat no'r llose . . .

Pvybynnac a uenno guadu vrun o'r rey henne rodet llw deg wyr a deugeynt o'y wadu; os en lledrat e dewedyr arnau y losky, e neyll hanner en wyr not a'r llall en wyr dynot, neu enteu talu kubyll. *Ereyll a deweyt nat mwy reyth lledrat en e byt no devdeg wyr, ac e mae devdeg wyr a watta lledrat, a'r neyll hanner en wyr not a'r llall en wyr dynot: ac evelly e gwedyr lledrat llose, kanys mwy breynt e lledrat no breynt e llose* (LII, §116/7-13).

Mae'r ychwanegiad 'ereyll a deweyt' yn LII yn unigryw i llawysgrif C a Col. Mae'n bosibl, felly, fod awdur H wedi gweld un o'r ddwy lawysgrif hynny. Dadleuodd Daniel Huws mai C yw'r fersiwn cynharaf o Ior (c. 1250).³⁹² Cynhyrchwyd y llawysgrif mwy na thebyg mewn mynachdy yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Cofnodwyd enw Roger Eutun (mab Edward ap Roger, perchennog llawysgrif F) ar f. 160v ac felly gellir lleoli'r llawysgrif ym mhlwyf Rhiwabon (ym Maelor Gymraeg) erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg, bu hefyd drwy ddwylo Richard Longford.³⁹³

³⁸⁹ Charles-Edwards, *Welsh Laws*, t. 100.

³⁹⁰ Mae'r testun cyfreithiol yn cloi gyda: 'P6y bynnac a vynno bot yn ygnat: dysget yn graff . . .' sy'n deillio o Bleg.

³⁹¹ *GMW*, t. 166.

³⁹² Gw. D. Huws, 'The manuscripts', *LAL*, 119-36: cf. LII, tt. xxxiii-xxxvii.

³⁹³ Huws, 'The manuscripts', t. 129-30; Huws, 'Yr hen Risiart Langfford', 312.

Yn anffodus mae hi'n amhosibl gwybod i sicrwydd pa llawysgrifau Ior oedd gan awdur H o'i flaen. Serch hynny, ar sail cynnwys Damweiniau II a stori Rhufain yn H mae'n debyg i awdur H ddefnyddio fersiwn o Ior oedd yn perthyn i is-gynsail δ yn ôl dosbarthiad Aled Rhys Wiliam, efallai llawysgrif Col, neu ryw berthynas i'r llawysgrif honno.³⁹⁴

iv) Llyfr Cynghawseidd a *AL*, IX

Soniwyd eisoes fod Llyfr Cynghawseidd, neu ddarnau ohono, wedi goroesi mewn pedair llawysgrif: B, G, J ac F.³⁹⁵ Mae geiriad H (a'r darnau yn F a J) yn tueddu i fod yn nes at G nag at B. Ar un cyfnod bu G yn arglwyddiaeth Brycheiniog. Gwyddom i F fod ym meddiant Edward ap Roger Eutun o Riwabon. Roedd gan deulu Eutun gysylltiad â theulu Edwards o'r Waun³⁹⁶ (ac mae'n debyg y bu H yn eu dwylo hwythau ar un adeg). Mae hyn yn awgrymu bod gan bwysigion arglwyddiaethau'r Mers ddiddordeb mewn testunau cyfraith o'r fath.

Trafodwyd y berthynas rhwng H ac *AL*, IX mewn man arall.³⁹⁷ Mewn tair llawysgrif o'r bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg yn unig y ceir copïau o destun *AL*, IX: *Ā*, 'M', Z. Mae'n debygol, felly, fod gan awdur H fersiwn o un o'r testunau hynny wrth law. Dichon y gellid cysylltu 'M' ag ardal Isaled yn arglwyddiaeth Dinbych.³⁹⁸ Unwaith eto mae hyn yn awgrymu bod testunau cynghawseidd yn boblogaidd yn yr arglwyddiaethau. Llawysgrifau bychain yw *Ā* ac 'M' ac nid ydynt yn dilyn trefn y rhan fwyaf o'r llyfrau cyfraith eraill lle ceir cyfraith y llys a chopi o un ai Ior, Bleg, neu Cyfn. Roeddent yn llyfrau bychain oedd yn cylchredeg yn annibynnol ar y prif lyfrau cyfraith, fel Llyfr Cynghawseidd a Llyfr y Damweiniau.³⁹⁹ Ar un adeg dichon fod nifer o bamffledi neu lyfrau cyfraith bychain, neu hyd yn oed roliau (defnyddiwyd deunydd cyfreithiol o rôl Dafydd Llwyd yng nghynffon S), yn cylchredeg o amgylch Cymru. Ceir cyfeiriadau yn H at gynghawseidd sydd heb ei gynnwys yn y testun (nac yn Llyfr Cynghawseidd): 'cynghawsaeth

³⁹⁴ Gw. *LII*, t. xxix.

³⁹⁵ Gw. uchod, tt. 48-53.

³⁹⁶ Morfydd E. Owen, 'Prolegomena i Astudiaeth Law o Lsgr. NLW 3026, Mostyn 88 a'i Harwyddocâd', t. 352, n. 31.

³⁹⁷ Gw. uchod, tt. 41-53.

³⁹⁸ Gw. uchod, tt. 49-50.

³⁹⁹ Gw. Stacey, *Road to Judgement*, 183-84; Pryce, 'Lawbooks and literacy', 40.

amdanaw sydd o cyfreith' (§723); 'cygheussaeth dda yw honno' (§1041). Unwaith eto mae hyn yn awgrymu i gyfoeth o destunau cyfraith gael eu colli.

Fel y mae gwneuthuriad H yn ei ategu, llawysgrifau cyfansawdd oedd y llawysgrifau cyfraith, ac mae'n annhebygol i un llawysgrif darddu yn uniongyrchol o lawysgrif arall.⁴⁰⁰ Awgrymodd Dafydd Jenkins fod gwahanol rannau neu draethigau wedi dod at ei gilydd yn annibynnol mewn gwahanol lawysgrifau, sy'n ei gwneud hi bron yn amhosibl i bennu un gysail bendant i'r llawysgrifau.⁴⁰¹ Er na ellid olrhain testun H i lawysgrif(au) penodol ac eithrio cysail Z o bosibl, mae'n amlwg fod awdur H wedi defnyddio fersiwn o Bleg (Lladin D), Ior, Llyfr Cynghawsedd, a'r llyfr a ddyfynnir yn *AL*, IX wrth gyfansoddi ei destun; gyda'r pwyslais mwyaf ar Bleg a Llyfr Cynghawsedd. Hwyrach ei fod hefyd yn defnyddio ffynonellau cyfreithiol coll yn ogystal ag yn gyfansoddi ei ddeunydd ei hun.

Mae'r nifer o wahanol ffynonellau a oedd ar gael i'r awdur yn codi cwestiynau am sut, ac o ble, y cafodd ef afael ar gynifer o lawysgrifau. Gwyddom fod uchelwyr diwylliedig fel Hopcyn ap Tomos o Ynysforgan, Dyffryn Tawe a Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Geredigion yn gasglwyr llyfrau o fri. Yn un o'i gerddi nododd y bardd Dafydd y Coed rai o'r llawysgrifau oedd ym meddiant Hopcyn:

Mwnei law mae yn y lys
Eurdar y Luciadrius
A'r Greal ar Ynyales
A grym pob kyfreith ae gras.⁴⁰²

Cyfeiria'r llinell olaf at un o lawysgrifau cyfraith Hywel (J efallai). Awgrymodd G. J. Williams mai un o lyfrau Hopcyn ap Tomos oedd Llyfr Coch Hergest.⁴⁰³ Roedd Rhydderch ab Ieuan Llwyd yn berchen ar y Llyfr Gwyn ac awgrymodd Daniel Huws i

⁴⁰⁰ Ymddengys mai Caerdydd 2.7 yw'r unig lawysgrif sy'n gopi ffyddlon o lawysgrif arall, sef o Cotton Titus DIX (L).

⁴⁰¹ D. Jenkins, 'Llawysgrif goll Llanforda o gyfreithiau Hywel Dda', *BBCS*, 14 (Mai 1951), 98. Gw. hefyd Pryce, 'Lawbooks and Literacy', 38.

⁴⁰² C. James, "'Llwyr wybodau, llên a llyfrau': Hopcyn ap Tomas a'r traddodiad llenyddol Cymraeg', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cwm Tawe* (Llandysul, 1993), t. 17; gw. hefyd idem, 'Parhad, pragmatiaeth, propaganda: llawysgrifau cyfraith Hywel yn yr Oesoedd Canol Diweddar', *Cof Cenedl*, 22 (2007), 33-67.

⁴⁰³ James, 'Llwyr wybodau, llên a llyfrau', t. 28. Gw. hefyd G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948), 147.

Lawysgrif Hendregadredd fod yn ei feddiant.⁴⁰⁴ Cyflogwyd Rhydderch fel dosbarthwr rhwng 1380-92⁴⁰⁵ a cheir y cyfeiriad hwn ato yn ei farwnad: 'cyfraith trwy bob iaith o'i ben';⁴⁰⁶ mae'n bur debyg ei fod yntau yn berchen ar lyfr cyfraith (efallai L, sydd yn yr un llaw â'r Llyfr Gwyn).⁴⁰⁷ Hwyrach mai dyn diwylliedig a weithiai yn y llysoedd oedd awdur H, a oedd o bosibl yn troi yn yr un cylchoedd ag uchelwyr fel Hopecyn a Rhydderch ac yn benthycu llawysgrifau ganddynt.⁴⁰⁸

IV. Natur y Testun

i) Trioedd

Mae'r testun fel y mae ym Mheniarth 278 (a Pheniarth 164, hyd y gellid barnu) fel pe bai'n rhannu'n ddwy ran gyda'r rhan gyntaf yn canolbwyntio ar drioedd a'r rhan olaf yn canolbwyntio ar gynghawsedd. Mae rhan gyntaf y testun yn tystio i hoffter yr awdur o gyfansoddi a chasglu trioedd. Yn gyffredinol roedd ffurf y triawd yn dod yn fwyfwy poblogaidd yn yr Oesoedd Canol diweddar. Ailgylchwyd ac ymhelaethwyd ar *Trioedd Ynys Prydein* a gwnaed defnydd helaeth o'r ffurf mewn meysydd proffesiynol.⁴⁰⁹ Copiwyd trioedd meddygol,⁴¹⁰ trioedd gwirebol,⁴¹¹ trioedd cerdd,⁴¹² trioedd arbennig,⁴¹³ ceir llond dwrn o drioedd serch yn Llyfr Ancr Llanddewibrefi,⁴¹⁴ a thyfodd y casgliad o drioedd cyfreithiol.⁴¹⁵ Roedd ffurf y triawd, felly, yn parhau i fod yn dechneg lenyddol bwysig yn y traddodiad dysgedig brodorol. Gwelwyd

⁴⁰⁴ Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', 22.

⁴⁰⁵ Gw. Griffiths, *The Principality of Wales*, t. 117.

⁴⁰⁶ Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', 21.

⁴⁰⁷ Harris, *A Bibliography*, t. 17.

⁴⁰⁸ Gw. isod, tt. 107 ymlaen.

⁴⁰⁹ Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), t. 434. Am TYP gw. R. Bromwich gol., *Trioedd Ynys Prydein: the Welsh Triads* (2 arg., Cardiff, 1978).

⁴¹⁰ Gw. *DrOC*, tt. 76-80.

⁴¹¹ Owen, 'Trioed hefut y6 yrei hynn', 87-114; *DrOC*, tt. 211-14.

⁴¹² Gw. G. J. Williams ac E. Jones, *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1934), tt. 16-18, 35-37, 56-58; *DrOC*, tt. 215-16.

⁴¹³ Sef casgliad o drioedd rhifyddol oedd yn deillio o'r traddodiad Lladin a oedd yn chwarae ar y rhinweddau arbennig a briodolwyd i rai rhifau gw. M. E. Owen, 'Y trioedd arbennig', *BBCS*, 24 (1972), 434-50.

⁴¹⁴ Gw. R. Geraint Gruffydd, 'Cywyddau triawdaidd Dafydd ap Gwilym: rhai sylwadau', *YB*, 13 (1985), 167-77; Huw. M. Edwards, 'Y trioedd serch', *Dwned*, 1 (1995), 25-39.

⁴¹⁵ Gw. *WMLT*; ac am ddatblygiad un triawd arbennig gw. S. E. Roberts, 'Tri dygyngoll cenedl: the development of a triad', *SC*, 37 (2003), 163-82.

cynnydd ym mhoblogrwydd y trioedd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen. Dichon fod arddull H yn rhannol ddyledus i'r ffasiwn neu'r tueddiad hwn.

Gan amlaf trefnwyd trioedd H yn ôl thema ac mae'r testun yn gymysgedd o drioedd cyfarwydd a thrioedd newydd. Mae'r trioedd newydd yn dilyn confensiynau ac addurniadau tebyg i'r cyfresi trioedd eraill sy'n awgrymu fod yr awdur yn gyfarwydd â thechnegau llenyddol traddodiadol. Pwysigrwydd trioedd newydd H yw eu bod yn ein galluogi i weld lluniwr trioedd wrth ei waith yn defnyddio'r testunau cyfraith i greu trioedd cwbl unigryw. Ond y mae rhywfaint o ailadrodd yn y trioedd hefyd fel sy'n digwydd mewn nifer o gyfresi trioedd.⁴¹⁶ Roedd yr awdur yn tynnu ar fwy nag un ffynhonnell oedd o bosibl yn cynnwys fersiynau gwahanol ar yr un triawd. Cynigiai'r awdur aralleiriad i nifer o'r trioedd cyfarwydd sy'n tystio i'w wybodaeth ieithyddol, fel y defnydd o'r gair 'wrllys' yn §59 a 'rhiein' yn §§208-09. Roedd ganddo afael gadarn a llenyddol ar y Gymraeg. Gadawodd stamp personol ar nifer o'r trioedd cyfarwydd drwy eu hesbonio a chynnig sylwadau arnynt. Dichon fod yr awdur yn ceisio creu fersiwn o'r cyfreithiau a oedd yn haws i'w ddeall ac yn fwy cofiadwy; boed hynny at ddiben rhywun arall oedd â diddordeb yn y gyfraith neu at ddefnydd personol yr awdur.

Gŵr arall, mewn cyfnod arall, fu'n defnyddio'r testunau cyfraith er mwyn cyfansoddi trioedd oedd Iolo Morganwg.⁴¹⁷ Fel Iolo bu awdur H yn brysur yn ystumio ac yn aralleirio hen drioedd yn ogystal â chyfansoddi cyfresi trioedd cwbl newydd.⁴¹⁸ Ffugiodd Iolo ei drioedd cyfraith er mwyn eu defnyddio fel arf i greu gorffennol derwyddol i'r traddodiad barddol. Ond mae'n bur annhebyg fod unrhyw gymhelliad neu fwriad cyfrwys y tu cefn i gyfansoddi trioedd H. Mae trioedd H wedi eu seilio ar gynnwys y testunau cyfraith ac felly'n ailwampiad o ffurf a chyflwyniad y testunau hynny. Mae'n debyg mai awydd yr awdur i gyflwyno fersiwn gwahanol o'r cyfreithiau oedd y tu cefn i arddull triawdol H.

⁴¹⁶ Owen, 'Trioed hefut y6 yrei hynn', 90-91. Am enghreifftiau gw. y drafodaeth ar drioedd, t. 60 ymlaen.

⁴¹⁷ Mae'r gymhariaeth yn ddyledus i bapur gan Morfydd E. Owen a glywais yn y Ganolfan Uwchefrydiau (2006): 'Triodd ar gyhoedd â gaid, yr addysg Gan wiwdoeth hynaviaid': 'Triodd' y Myvyrian Archaeology?'.

ii) Cyngawsedd

Rhoddir cryn bwyslais ar gynghawsedd yn y testun. Tueddai testunau cynghawsedd i ganolbwyntio ar ladrad a chyfraith tir, dau bwnc o dragwyddol bwys yng Nghymru ar ôl y goncwest. Nodwyd eisoes fod dwyn yn drosedd ddifrifol ac roedd cyfraith tir ac etifeddiaeth yn rhai o'r meysydd cyfraith a barhâi yn weithredol ar ôl dyddiau Ystatud Rhuddlan. Mae cynghawsedd unigryw yn y testun hefyd. Dichon fod hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd cynghawsedd a gweinyddiad y gyfraith yn yr Oesoedd Canol diweddar. Roedd cynghawsedd yn un agwedd ar y gyfraith Gymreig oedd yn ei gwahaniaethu oddi wrth gyfraith Lloegr. Roedd y defnydd o reithgor yn llysoedd Lloegr wedi dylanwadu ar ddatblygiad y pledio Seisnig. Dyma eiriau H. J. Stephen ar bledio yn llysoedd Lloegr:

The object of all pleading or judicial allegation is to ascertain the subject for decision, so the main object of that system of pleading established in the common law of England is to ascertain it by the production of an issue. And this appears to be peculiar to that system . . . In all courts indeed the particular subject for decision must of course be in some manner developed before the decision can take place; but the methods generally adopted for this purpose differ widely from that which belongs to the English law. By the general course of all other judicatures the parties are allowed to make their statements at large . . . and with no view to the extrication of the precise question in controversy; and it consequently becomes necessary before the court can proceed to decision to review, collect, and consider the opposed effect of the different statements, when completed on either side – to distinguish and extract the points mutually admitted, and those which, though undisputed, are immaterial to the cause – and thus, by throwing off all unnecessary matter, to arrive at length at the required selection of the point to be decided. This retrospective development is, by the practice of most courts, privately made by each of the parties for himself, as a necessary means to the preparation and adjustment of his *proofs*; and is also afterwards virtually effected by the judge in the discharge of his general duty of *decision*; while in some other styles of proceeding the course is different – the point for decision being selected from the pleadings by an act of the court or its officer; and judicially promulgated prior to the proof of trial. The common law of England differs from both methods by obliging the parties to come to issue; that is, to plead or to develop some question (or issue) *by the effect of their own allegations* and to *agree upon this question as the fact for decision* in the cause; thus rendering

⁴¹⁸ Gw. Ceri W. Lewis, *Iolo Morganwg* (Caernarfon, 1995), t. 68. Am fwy ar Iolo Morganwg gw. G. J. Williams, *Iolo Morganwg* (Caerdydd, 1956); Prys Morgan, *Iolo Morganwg* (Caerdydd, 1975).

unnecessary any retrospective operation on the pleadings for the purpose of ascertaining the matter in controversy.⁴¹⁹

Ac yng ngeiriau W. Holdsworth:

The newer ideas of pleading, drawn from the first instance from Roman law, and necessitated by the growing complexity of the common law, were reduced to order, and given a shape which was peculiarly English, because it was determined by the peculiarly English use of the jury as a mode of proof.⁴²⁰

Gellir dychmygu y byddai'r gwahaniaethau rhwng y system gyfreithiol Gymreig a'r un Seisnig yn hynod o amlwg mewn ardaloedd lle bo'r ddwy gyfraith yn weithredol. Oddi mewn i nifer o arglwyddiaethau'r Mers roedd llysoedd Cymreig a llysoedd Seisnig, gyda chyfraith Hywel yn weithredol yn un a chyfraith Lloegr yn y llall. Mae poblogrwydd y testunau cynghawsedd yn tueddu i awgrymu mai yn yr iaith Gymraeg y cynhelid achosion yn y llysoedd Cymreig.⁴²¹ Tynnwyd sylw eisoes at y tebygrwydd rhwng Llyfr Cynghawsedd a *La Court de Baron* a *Brevia Placitata* ond yn anffodus ni oroesodd unrhyw draethodau neu destunau cynghawsedd Saesneg o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif.⁴²² Enwir pedair llawysgrif o dan y pennawd 'Miscellaneous' yn *A Bibliography of Welsh Law Manuscripts*:⁴²³ sef H, Ā, 'M' a Pheniarth 166.⁴²⁴ Dangoswyd eisoes fod perthynas destunol rhwng tair o'r llawysgrifau hynny (H, Ā, ac 'M'). Mae'r testunau hynny, a diddordeb awdur H mewn cynghawsedd, yn tystio i bwysigrwydd a defnyddioldeb cynghawsedd Gymraeg, tra bo prinder testunau Saesneg tebyg o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif yn awgrymu mai traddodiad llafar oedd y pledio Saesneg erbyn y cyfnod hwnnw.⁴²⁵

⁴¹⁹ H. J. Stephen, *A Treatise on the Principles of Pleading* (5th ed.), 137-38. Dyfynnwyd allan o W. Holdsworth, *History of English Law*, III (London, 1977), tt. 627-28.

⁴²⁰ Holdsworth, *History of English Law*, III, t. 632.

⁴²¹ Gw. J. Goronwy Edwards, 'The language of the law courts in Wales: some historical queries', *Cambrian Law Review*, 6 (1975), 7.

⁴²² Baker, *Reports of Sir John Spelman Vol. II*, 143. Serch hynny, parhaodd *Novae Narrationes* (testun ar sut i gyflwyno cwyn ar ffurf writiau o ddiwedd y 13g, sy'n debyg i'r cwynion Cymraeg) i gael ei gopïo hyd at yr unfed ganrif ar bymtheg: gw. E. Shanks a S. F. C Milsom (goln.), *Novae narrationes* (Selden Society, London, 1963).

⁴²³ Harris, *A Bibliography*, tt. 29-30.

⁴²⁴ Llawysgrif yn llaw John Dee o c. 1500 yw Peniarth 166 sy'n cynnwys darnau amrywiol o Bleg/Ior; trioedd; damweiniau; darnau amrywiol ar Rodri Mawr, Hywel Dda a Roger Mortimer; a rhestr o gantrefi a chymydau Cymru: gw. *RMWL*, t. 959.

⁴²⁵ Cf. Baker, *Reports of Sir John Spelman Vol. II*, 143: 'Unfortunately for us, oral tradition supplied the place of elementary text-books, and we are left now with no treatise on pleading between the 14th and 15th centuries.'

Mae gweddill y testun yn gyfuniad o ddamweiniau, holiadon, a deunydd cwbl newydd. Yr un math o ddeunydd a gafodd ei ychwanegu at y 'deddfgronau' yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif.⁴²⁶ Gan amlaf roedd y deunydd ychwanegol hwn yn ffurfio cynffon i'r prif destun (Bleg). Mae strwythur testun H yn gwbl wahanol i strwythur cyffredinol y llyfrau cyfraith gan nad yw'n cynnwys copi o un o'r prif ddulliau (Cyfn, Bleg a Ior) ac mae'r deunydd ychwanegol yn ganolog i'r testun. Mae'r arfer o ychwanegu cynffonnau at ddiwedd y prif ddulliau (fel yn S, Tim a Q) yn tystio i'r diddordeb cynyddol yn y deunydd ychwanegol hwn. Gellir gweld penllanw'r diddordeb hwn mewn testunau fel H ac \bar{A} , 'M' (a chynffon Z) sy'n canolbwyntio ar y deunydd ychwanegol yn hytrach nag ar y testunau traddodiadol.⁴²⁷ Roedd gwerth ymarferol ac addysgol i destunau o'r fath ac maent yn cynnig tystiolaeth i'r math o ddeunydd cyfreithiol oedd yn boblogaidd yn y bymthegfed ganrif.

iii) Yr awdur fel golygydd

Ym Mheniarth 164 mae llawer o groesi allan neu ddileu geiriau. Ail-leolwyd rhannau o'r testun ar brydiau, a rhynglinellir yn aml, sy'n awgrymu bod yr awdur wedi ailddarllen y testun gan gywiro ac ychwanegu ato. Mae strwythur penodol i beth o'r deunydd newydd yn y testun, yn arbennig y modd y defnyddir un triawd fel triawd agoriadol a'r trioedd sy'n dilyn yn esbonio gwahanol gymalau'r triawd hwnnw, e.e.

§615 Tri rhyw rwym a wna dyn a'y gilydd: ymrwym, a llyna rwym [cw]byl; a rhwym futnawc; ac ofer rwym.

Dilynir hyn gan 'Tri ymrwym cyfreithiawl y sydd' (§616); 'Tri rhwym futnawl y sydd' (§617); 'Tri ofer rwym yw y teir ofer fechni sydd' (§618). Mae patrwm tebyg i §§37-40. Yn §569-71 rhestrir tri thriawd gwrthgyferbyniol: 'Tri arddelw y cyngein gwat ynddunt'; 'Tri arddelw [y] cyngein addef ynddunt'; 'Tri arddelw ny chyngein na gwat nac addef ynddunt'. Mae'r awdur yn ymwybodol o strwythur y testun ac ar

⁴²⁶ Ychwanegwyd cynffon fer at L a Bos. Mae cynffon hwy yn J; tra bo cynffon sylweddol i S a Tim. Q sydd â'r gynffon hiraf a chynhwyswyd peth o'r deunydd ychwanegol yng nghorff y prif destun. Mae pob cynffon yn unigryw. Gw. C. James, 'Tradition and innovation in some later medieval Welsh lawbooks', *BBCS*, 40, (1993), 151. Gw. hefyd Wiliam, 'Y Deddfgronau Cymraeg', 97-103.

⁴²⁷ Hefyd Peniarth 166.

brydiau yn cyfarch y 'darllenydd', e.e. 'mal y cefaist fry o'r blaen' (§207); 'Ti a glywaist fry yn y dechreu' (§609). Nid yw hyn o anghenraid yn golygu fod yr awdur wedi cyfansoddi'r testun ar gyfer rhywun arall; gallai'r awdur fod yn cyfeirio ato'i hunan neu'n dilyn confensiynau llenyddol. Ar ddiwedd adran arbennig a chyn dechrau adran arall ychwanegodd yr awdur gymalau fel hyn: 'Hyt hynn y dywetpwynt am ledrat absen a'e gospeu; bellach o ledrat cynhyrchawl, a'r dial a berthyn amdanaw' (§297); 'Hyt hynn y dywetpwynt am ledrat absen y bydd gwat heb reith amdanaw. Bellach a[m] ledrat y bydd gwat a rheith amdanaw' (§746). Mae'r rhain yn adleisio ffurf rhai o'r cymalau yng Ngramadegau'r Penceirddiaid: cf. 'Hyt hynn y dywespwyt am yr egllynion. Dywetter bellach am yr eil geing o brydydaeth,'⁴²⁸ 'Hyd hyn dywetterpwynt am teir keing pryd[yd]yaeth ac a berthyn arnunt . . . Dywetter bellach am trioedd kerdd.'⁴²⁹ Mae hyn yn dystiolaeth i ymwybyddiaeth lythrennog yr awdur a'r ffaith ei fod yn gweithio o fewn confensiynau llenyddol traddodiadol. Nid casgliad o ddarnau cyfreithiol amherthnasol a di-drefn sydd yma ond creadigaeth lenyddol fwriadol.

Nid y deunydd cyfreithiol newydd yn unig sy'n arwyddocaol; mae'r ffordd y bu'r awdur yn trin ei ffynonellau yr un mor ddadlennol. Nid yw'r awdur yn dyfynnu Llyfr Cynghawsedd nac *AL*, IX yn eu crynswth ac nid yw'n dilyn yr un drefn â'r llyfrau hynny; yn union fel na welodd yr angen i ddilyn trefn y casgliadau trioedd. Gwelwyd sut y bu i'r awdur addasu'r modd y dylid agor cynghawsedd gan awgrymu rhyw fath o fformiwla sy'n adleisio geiriad y cwynion. Yn §1126 fe'i gwelir yn cyfuno Llyfr Cynghawsedd ag *AL*, IX drwy ychwanegu'r elfen o briodolder gwaglaw at y gynghawsedd draddodiadol.⁴³⁰ Ychwanegodd elfennau o Lyfr Cynghawsedd at destun Ior; a chyfunodd elfennau o Ior a Bleg.⁴³¹ Awgryma hyn nad oedd unrhyw ffiniau pendant ym meddwl yr awdur rhwng y gwahanol destunau. Dyfynnodd yr awdur Lyfr Cynghawsedd, *AL*, IX a'r casgliadau trioedd yn y manau perthnasol yn ei destun sy'n dangos ei allu golygyddol.⁴³² Bu iddo drin ei ffynonellau mewn modd hyblyg ac ni welodd yr angen i'w copïo'n llafuraidd. Er bod olion yr un math o aildrefnu mewn

⁴²⁸ Williams a Jones (goln.), *Gramadegau'r Penceirddiaid*, t. 9.

⁴²⁹ *Ibid.*, t. 35.

⁴³⁰ Gw. uchod t. 32.

⁴³¹ E.e. gw. uchod, tt. 28-29, 95.

⁴³² Gw., e.e., y defnydd o'r triawd yn §864.

testunau cyfraith eraill (yn enwedig Ior) mae awdur H yn mynd â hynny gam ymhellach gan greu testun unigryw o ran strwythur a chynnwys.⁴³³

Ar adegau pwysleisiwyd arwahanrwydd testunau fel Llyfr Cynghawsedd a Llyfr y Damweiniau i'r corpws cyfreithiol traddodiadol, sef Cyfn, Bleg a Ior.⁴³⁴ Ar ddiwedd y copi o destun Cyfn yn llawysgrif U a chyn dechrau'r copi o Lyfr y Damweiniau a atodwyd ato sonnir am y newid o 'gyfraith' i 'ddefodau'.⁴³⁵ Ond mewn gwirionedd nid oedd y ffin rhwng cyfraith a defod mor bendant â hynny; mae'r tri dull traddodiadol yn cynnwys cynghawsedd a damweiniau. Serch hynny, ni welwyd yr un testun arall yn cyfuno'r deunydd hwnnw â'r deunydd traddodiadol i'r fath raddau ag H; sydd efallai'n arwydd o ddiweddarwch y testun. Mae triawd §338 yn awgrymu tipyn am feddylfryd yr awdur sy'n cydnabod bod gwahaniaeth rhwng cyfraith a defod ond bod yr un mor ddilys â'r llall ac na ddylai gwrthdaro fod rhyngddynt:

Llyma paham mae bonheddic cyfreith: Hywel Dda, frenhin Cymbru, a[']y] ddylyedogyon a'y ffuryfhawdd o ddoethineb y calonneu a'e corffeu e hunein, ac am hynny, etifedd y brenin hwnnw ynt cyfreith a defawt; am hynny, na ddyly yr un fot yn gwrthwyneb y'w gilydd mwy no brodyr, ac o bydd defawt yn erbyn cyfreith, nyt catwadwy: llyna paham y dylu frodyr fot yn duhun, pob un a ddyly cynnal gyt a'e gilydd y ddlyet o lw a da; felly cyfraith a defawt.

Awgryma testun cyfansawdd fel H gyfnod lle nad oedd cysylltiadau daearyddol a gwleidyddol y gwahanol ddulliau yn berthnasol mwyach; lle bo'r cyfreithiau amrywiol (neu 'Anomalous Laws' Aneurin Owen) yn cael eu cyfrif yr un mor bwysig â'r prif ddulliau cyfraith.⁴³⁶

⁴³³ Mae cyfochredd i gyfansoddi o'r fath mewn testun Eingl Normanaidd ac mae'r testun hwnnw yn llawn dadansoddi rhethregol, trioedd a nawoedd: gw. D. J. Seipp, 'The mirror of justices', yn J. A. Bush a A. Wijffels (goln.), *Learning the Law. Teaching and the Transmission of English Law, 1150-1900* (London, 1999), tt. 85-112.

⁴³⁴ Gw. Stacey, *Road to Judgement*, tt. 183-85; Charles-Edwards, *Welsh Laws*, t. 26.

⁴³⁵ 'Hyt hyn y traethassam kyfreitheu llys a chyfreitheu yr gŵlat, o hyn allan o'r damweineu:' Peniarth 37, tt. 120-21.

⁴³⁶ Er bod y rhaglith i'r Llyfr Prawf yn llsg. C yn awgrymu bod gan lyfrau cyfraith amrywiol awdurdod eisoes; yr hyn sy'n gwneud H yn anarferol yw nad ydyw'n cynnwys un o'r Dulliau yn wahanol i lsgrau. fel S a Tim.

V. *Locus, tempus, persona, causa scribendi*

Yn awr gellir mentro ystyried ble, pryd, gan bwy, a pham y cyfansoddwyd H. Drwy ddilyn canllawiau Peter Wynn Thomas mae'r aml ddefnydd o (-j-) o flaen llafariaid a'r defnydd o (-th-) yn ffurfiau trydydd person *gan* a *rwng* yn awgrymu mai testun gogleddol yw H.⁴³⁷ Soniwyd eisoes fod Daniel Huws, ar sail balaeograffyddol, yn dyddio H i ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.⁴³⁸ Serch hynny, mae natur y testun yn tueddu i awgrymu'n wahanol. Ceir cyfatebiaeth i rai o'r trioedd mewn llawysgrifau diweddar megis Q, Tim, K, ac S; mae'r llawysgrifau hyn yn deillio o ganol y bymthegfed ganrif. Mae rhannau o H yn perthyn yn agos i gynffon Z ac mae'n debyg na ddylid dyddio cysail y llawysgrif honno i gyfnod cyn 1400.⁴³⁹ Perthyn y llawysgrifau sy'n cynnwys copïau o *AL*, IX i'r bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg. Dichon fod y testunau hyn yn ddyledus i ffynonellau o gyfnod cynharach neu efallai mai i'r bymthegfed ganrif y perthyn H. Mae'r dystiolaeth yn amwys. Ar un llaw mae'n bosibl bod H yn cynnwys y copi cynharaf o'r deunydd hyn, ond ar y llaw arall, efallai mai gwaith gŵr a ddysgodd ysgrifennu yn y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd yn ysgrifennu â llaw hen ffasiwn a cheidwadol ar ddechrau'r bymthegfed ganrif yw H.⁴⁴⁰

Mae sgrïpt H yn awgrymu'n gryf fod yr awdur yn gyfarwydd â llunio dogfennau, ar gyfer y llysoedd o bosibl. Mae'n debyg ei fod yn Lladinydd. Awgryma golwg flêr y llawysgrif mai ei chynnwys ac nid ei hedrychiad oedd yn bwysig. Defnyddiodd femrwn gwael a phwythwyd rhai tameidiau ynghyd i greu dalennau newydd. Ychwanegodd awdur H *marginalia* ar ymyl llawysgrif U (Peniarth 37) yn ogystal â llenwi'r tudalennau gwag ar ddiwedd y llawysgrif sy'n awgrymu bod memrwn da yn brin iddo.⁴⁴¹ Nid oes perthynas amlwg rhwng testun llawysgrif U a H sydd yn awgrymu mai ar ôl iddo gyfansoddi H y daeth U i'w feddiant.

Lluniodd yr awdur fersiwn personol ac unigryw o'r cyfreithiau sy'n tystio i'w allu llenyddol a chyfreithiol. Roedd casglwyr a chyfansoddwyr llyfrau'r cyfnod yn

⁴³⁷ Gw. y drafodaeth ar iaith uchod, t. 8 a Thomas, 'Middle Welsh dialects'.

⁴³⁸ Gw. uchod, t. 2.

⁴³⁹ Gw. uchod, t. 94.

⁴⁴⁰ Mae nodweddion orgraffyddol Peniarth 164, fel y defnydd o *dd* i gynrychioli /ð/, ac *o* i gynrychioli [au], hefyd yn awgrymu fod y testun yn perthyn i'r bymthegfed ganrif yn hytrach nac i'r bedwaredd ganrif ar ddeg: gw. uchod, tt. 4-7.

tueddu i fod yn weinyddwyr. Copïwyd fersiwn o Frut Sieffre o Fynwy yn y bymthegfed ganrif gan Dafydd Glais, un o swyddogion brenhinol tref Aberystwyth a chafwyd achos cyfreithiol ym 1331 ynghylch llyfr hanes Ithel ab Einion, oedd yn rhaglaw arglwyddiaeth Dyffryn Clwyd.⁴⁴² Mae'n bosibl i'r bardd Gruffydd Gryg, oedd hefyd yn rhingyll ym Môn, gopïo rhai o'r cerddi diweddarach yn llawysgrif Hendregadredd.⁴⁴³ Roedd Rhydderch ab Ieuan Llwyd yn ddosbarthwr a chasglwr llawysgrifau. Roedd Siôn Edwart (sef hen daid John Edwards o'r Waun) yn Dderbynnnydd Swydd y Waun ac yn noddwr llawysgrifau (fel Mostyn 88)⁴⁴⁴ a hefyd yn gopïydd (llsgr. LIGC 423 a BL Add 46846).⁴⁴⁵ Disgynnai teulu Siôn Edwart o Tudur Trefor a lleolwyd cangen arall o'r teulu ym Mryncunallt, Swydd y Waun.⁴⁴⁶ Un o ddisgynyddion Tudur Trefor ym Mryncunallt oedd Edward ap Dafydd (m. 1448) a chanodd Guto'r Glyn farwnad iddo. Ynndi meddai:

Mawr yw'n cwyn ym Mryncunallt,
 mai rhai yn wylo môr hallt:
 mae gennym yma ganwaith
 lef ar nef am lyfr ein iaith.
 Wedi Gildas, i'r nasiwn,
 ap Caw, ni bu debyg hwn:
 gwreiddiodd bob ymadrodd mad,
 gwreiddyn pob gair a wyddiad.
 Tadwys perchen-tai ydoedd,
 a thad y ddwy gyfraith oedd . . .

i Siôn⁴⁴⁷ y rhoed ei synnwyr,
 a'r chwedlau o'r llyfrau'n llwyr . . .

Duw o'r byd i dorri barn
 aeth ag Edwart ddoeth gadarn.
 Oes hawl o gyfraith y sir? . . .

⁴⁴¹ Gw. uchod, t. 10. Cofnodwyd yr enw Gronwy ap Llywelyn ap H[?oll'] ar f. 67v (llawysgrif U). Ai dyma enw awdur H?

⁴⁴² Smith, 'Inkhorn and spectacles', t. 210.

⁴⁴³ Gw. uchod, t. 13; D. Huws 'Llawysgrif Hendregadred,' 18.

⁴⁴⁴ Gw. Morfydd E. Owen, 'Prolegomena i astudiaeth lawn o lsg. NLW 3026, Mostyn 88 a'i harwyddocâd', 349-84.

⁴⁴⁵ Llinos Beverley Smith, 'The grammar and commonplace books of John Edwards of Chirk', *BBCS*, 34 (1987), 174-84.

⁴⁴⁶ Gw. S. R. Meyrick (gol.) *Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches . . . by Lewys Dwnn II* (Llandoverly, 1846), tt. 328-29, 317. Digwydd yr achau hefyd yn llsgr. Peniarth 127, f. 195.

Mae ar far, Mair Forwyn
gydag ef i gadw ei gŵyn;
a brawdwr rhag bwrw Edwart
fo Duw nef. Aed yn ei wart.⁴⁴⁸

Awgryma'r gerdd fod Edward yn berchen ar lyfrau, ei fod yn ymddiddori yn y gyfraith (defnyddir termau cyfreithiol fel 'cwyn' a 'brawdwr'), a'i fod yn ddyn pwysig o fewn y sir. Canodd Guto farwnad i ŵyr Edward hefyd, sef Robert Trefor. Meddai amdano: 'Gŵr yw gyda Sain Greal . . . Ar modd yr âi, meddynt/ I'r Dug o Iorc â'r da gynt'; roedd yntau yn swyddog ac yn berchen llyfrau, ac awgrymai Ifor Williams mai cyfreithiwr ydoedd.⁴⁴⁹ Roedd awdur H hefyd yn hen law â thrin llyfrau ac mae ei waith yn dyst i'w ddiddordeb yntau yn y gyfraith gynhenid. Serch hynny, nid testun cyfreithiol ymarferol oedd H. Hwyrach mai ymwybyddiaeth hanesyddol yr awdur a'i ysgogodd i gyfansoddi'r testun;⁴⁵⁰ neu ei fod yn ymgais i gofnodi'r traddodiad cyfreithiol yr oedd yn perthyn iddo cyn iddo ddiflannu. Cofnodwyd dihareb ar f. 68r yn H na chafodd ei throsglwyddo i'r copïau diweddarach: 'Deuparth gweith yw y dechre6'; cynigia hyn gipolwg prin ar y person y tu ôl i'r llyfr cyfraith.

Mae'r awdur yn defnyddio nifer o fenthyceriau Saesneg Canol, e.e. *hort* §893 sy'n fenthyciad o'r Saesneg Canol *hurt*; *prosses* §999 sy'n fenthyciad Hen Ffrangeg o bosibl drwy'r Saesneg; *driblyn* §576 o'r Saesneg *dribble*; *mwnei* §503 benthyciad o'r Hen Ffrangeg *muneie* o bosibl drwy'r Saesneg; *gra* §166 sy'n dod o'r gair Saesneg Canol am llwyd; a *befyr* §166. Hwyrach fod hyn yn awgrymu fod yr awdur yn gyfarwydd iawn â'r Saesneg neu Ffrangeg fyddai'n cyd-fynd â sefyllfa ieithyddol y Mers. Ni chafodd cyfraith Hywel ei diddymu ar ôl 1282 a pharhâi'r gyfraith gynhenid i gael ei gweithredu mewn rhai meysydd yn y dywysogaeth hyd yn oed ar ôl Ystatud Rhuddlan; tra byddai modd i'r gyfraith ffynnu ochr yn ochr â chyfraith Lloegr yn yr arglwyddiaethau. Roedd arglwyddiaeth Dinbych yn cyflogi ynaid oedd yn arbenigwyr ar gyfraith Hywel tan ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg.⁴⁵¹ Yn y de cyflogwyd

⁴⁴⁷ Nodwyd bodolaeth llyfrau Siôn Trefor, Bryn Cunallt gan Robert Vaughan yn ei restr o berchnogion llsgrau. yn llsgr. LIGC 5262A: gw. *MWM*, t. 301.

⁴⁴⁸ Eurys I. Rowlands, *Poems of the Cywyddwyr: A Selection of Cywyddau c. 1375-1525* (Dublin, 1976), tt. 28-29. Gw. hefyd John Llywelyn Williams ac Ifor Williams (goln.), *Gwaith Guto'r Glyn* (2 arg., Caerdydd, 1961), tt. 46-48. Gw. hefyd Bowen, 'Guto'r Glyn a Glyn-y-Groes', 175.

⁴⁴⁹ Gw. *Gwaith Guto'r Glyn*, tt. 50-51, 325.

⁴⁵⁰ Gw., e. e., §176n a §301n.

⁴⁵¹ J. B. Smith, 'Crowns and community in the principality of north Wales in the reign of Henry Tudor', *CHC*, 3 (1966), 170.

dosbarthwyr i adolygu dyfarniadau'r brawdwy o fraint tir. Yng ngeiriau R. R. Davies: 'the attitude of most Marcher lords was one of profiteering tolerance.'⁴⁵² Roedd parhad cyfraith Hywel yn ffordd o euro pocedi'r arglwyddi; byddent yn derbyn cyllid am gamfarn, amobr, ebediw, a gwall gair. Mae dogfennau llysoedd y Mers yn frith o gyfeiriadau at gyfraith Hywel. Ceir y dystiolaeth lawnaf iddi yn rholiau llys Dyffryn Clwyd; ond cofnodwyd rhai achosion o arglwyddiaeth Clun yn y bymthegfed ganrif (sef sir Amwythig heddiw); a chafwyd achosion yng Nghydweli, Caeo a Dinmael yn nechrau'r unfed ganrif ar bymthegfed.⁴⁵³ Mae hyn yn awgrymu bod gwerth ymarferol i'r testunau cyfraith yn y Mers. Yng ngeiriau J. Beverley Smith:

Unlike those of Deheubarth in the same period, however, the law texts of the northern lordships were regarded not as written authority on which non-professional judges could rely, but as a compendia of the tenets of an indigenous law still dispensed by men whose precursors, if not they themselves, were fully professional practitioners.⁴⁵⁴

Diweddodd nifer o'r llawysgrifau cyfraith eu hoes yn y Mers, e.e. C, G, F, 'M', a chynsail Z; ac mae'n debyg i Lladin E gael ei chyfansoddi yn arglwyddiaeth Dinbych,⁴⁵⁵ sy'n tystio i'r diddordeb yn y gyfraith gynhenid yn yr ardaloedd hynny. Mae hi'n anodd peidio ag awgrymu mai yn y Mers y cyfansoddwyd H hefyd. Mae'n bur debyg i H fod ym meddiant teulu Edwards o'r Waun⁴⁵⁶ a hwyrach mai yn yr ardal honno y cyfansoddwyd H. Yn anffodus, hyd yma, nid oes modd profi hynny a gall y defnydd o *-w(y)s* yn y testun wthio H cyn belled i'r de ag arglwyddiaeth Maesyfed.⁴⁵⁷

⁴⁵² Davies, *Lordship and Society*, t. 162.

⁴⁵³ Gw. uchod, t. 55.

⁴⁵⁴ Smith, 'Judgement under the law of Wales', 98.

⁴⁵⁵ Am Lladin E gw. *LTWL*, tt. 81, 409-10.

⁴⁵⁶ Gw. uchod, t. 15 ymlaen.

⁴⁵⁷ Gw. uchod, t. 9.

CYNNWYS LLAWYSGRIF LIGC PENIARTH 278

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsg.
1	Tri defnydd hawl y sydd	1
2	Tri gwallawcair y sydd	
3	Tri tafawd weli y sydd	
4	Tri gwallawcair y sydd	
5	Tri golwc [a d]ygir ynghyfraith	
6	Tri rhyw fanac cyfreithiawl y sydd	
7	Tair gweithred bellach a bair hawl	2
8	Tair gweithred syd ar braw	
9	Pob geir a fydd ar braw, eithyr tafawdruddaeth	
10	Tri ofer braw y sydd	
11	Tri pheth ni chyngein ynghyfreith	3
12	Tri rhyw waessaf cyfreithiawl y sydd	
13	Tri rhyw arddelw y sydd	
14	Deu ryw arddelw am dda sydd o berchonogaeth	
15	Arddelw a gymero peth o law dyn	
16	Arddelw arall	
17	[Arddelw arall] a ddyly bot am bob da cyfodedic	4
18	[Arddelw arall] na ddyly bot am hawl fach a chynogyn	
19	. . . cyfreithiawl mwy neu peth yw lle gyrru	5
20	Pob arddelw hagen ar y gyrrer arnaw peth megys rhoddi	6
21	Ail yw arwaessaf; sef yw hwnnw	
22	Trydyd yw gwarant am dda angyfodedyn	
23	Tri lle y lludd cyfreith y ddyn y arddelw	
24	Tri pheth a ddyly gwarant ddiball y wneuthyr yn llys	7
25	Nyt oes wat y arddelw	
26	Ny eyll arwaessaf wat eythyr ay gadw geni a meithrin	
27	Nyt oes oet y arwaessaf cynyrchawl onyt . . .	
28	Nid oes oed y arwaessaf anghynyrchol	
29	Tri cymeinioc cyllid	
30	Tri dyn a dal abediw heb dir	
31	Tri dyn a ardretha y arglwydd heb dir ar y helw	
32	Tri lle y diffydd gwybyddyeit rheith	
33	Tair cyflafan ni ddywygir	
34	Tri pheth y dadanuddir aelwyd ohonunt	
35	Tri ergid gwalltan a delir	
36	[T]ri dyn ni farn cyfraith ddunt fynet y'w llw	
37	Tri amryw lw sydd yn[ghyfraith]	8
38	Tri lle y bydd twng unweith	
39	Tri lle y bydd twng tridyblyc olynol	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
40	Tri lle y bydd twng gwers tra gwers	
41	Tri ryw dwng y sydd	
42	Ni bydd c[ynhen ar] leidydr gwerth yny fo llw yn y tri lle	
43	Ny bydd reith ar leidydr cyswyn	
44	Tri amrafel ddyall a gwahan y sydd rhwng gwybyddyeyt	
45	Teir ffordd hefyd y mae cadarnach gwybyddyeyt	9
46	Ni ddylir rwymaw un dadyl trwy dystyolaeth	
47	Gwybyddyeyt ympob lle, grym tystyon a gynhalyant	
48	Y neb a fynno difwynaw tystyolaeth farwawl	
49	Galwedigaeth gwybyddyeyt fydd yn amserawl	
50	Gwrthueb tystyon yw	
51	Teir tystyolaeth ddilys y sydd	10
52	Tri lle y tywys cof llys am derfynu dadyl neu gyngaws	
53	Tri peth ni ddyly cytiryogyon eu rhannu	
54	Tri adeilad ni rennir	
55	Tri modd y sarheir brenin Aberffraw heb roi llaw arnaw	
56	Tri modd y sarhaer y rhiein freinyat; .i. y frenhines	
57	Tri meib ni cheiff y tyddyn breinyawl er y bod yeuaf	
58	Tri peth ni ddyly y brenin fod hebddun (.i. anhebcor)	11
59	Tri wrllys a ddyly y frenines	
60	Tri pheth y sydd reit y wadu pan watter sarhaet	
61	Teir sarhaed nyd ardderchefir	
62	Tri angcyfarch gwr pan ysgaro a'i wraig	
63	Tri anghyfarch gwreic pan ysgaro a'e gwr (y tri phrifrei)	
64	Tri gweli tafawt ny thelir namyn y arglwydd	
65	Tri dyn y telir gweli tafawt uddynt	
66	Tri dyn y degymir uddunt	
67	[T]ri thwryf cyfreithiawl y sydd	12
68	O dri achos [n]y cyll gwreic y hagwedy	
69	Teir gweith y ceiff gwreic wynebwerth	
70	Teir gorsaf gwreic	
71	Tri charelyn dyn	
72	Tri cyfoethu llys	
73	Teir palfawd fechni	
74	Tri lle y telir tystiolaeth ar anifail	12b
75	Teir gwragedd ny ddyly eu gwyr yawn y ganthunt	12c
76	Tri gweli arberigyl	
77	Tri argae llys	13
78	Tri pheth a ddyly y mab ieuaf yn ragor rhag y frodyr	
79	Tri anghyfarch addefedic ni ddylir eu difwyn	
80	Teir buch a ddyly brenin	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
81	Tri gweith o bydd y gof yn y wneuthu[r]	
82	Tri lle y rhan cyfreith yn ddau hanner	
83	Tri mechdeyrn dyledoc a ddyly gwladychu Cymru	
84	Teir prif lys arbennic sydd i'r tri theyrn hynn	
85	Tri yeirll y sydd danai hi	13b
86	Teir rhan ydoedd y Deheu	
87	Teir mechdeyrn ddylyet a ddylyir o Gymry oll	
88	Teir punt a thrugein punt a dalei frenin Aberffraw	
89	Tri pheth sydd reit y gynnal y dehyrnas	
90	Tri arfeu heddwch brenin y sydd	
91	Teir amryw arfeu ryfel cyfreithiawl	
92	Tri chleddyf cyfreithiawl y sydd	
93	Teir gorsaf gwayw mewn da[d]leu	
94	Tri gorsaf cleddyf, neu fwa	14
95	Teir rhan y cyfansodded cyfreith Hywel	
96	Ti a geffy [fry] y tri arfer cyfreithiawl sydd y gyfreith	
97	Tri amryw ddynyon a ddyly canhymddas y brenin	
98	Tri amryw ddynyon a'y canhymda ar draet	
99	Teir gweith y pedwar swyddawc ar ugeint a ddyly	
100	Teir rhan y ddyly neuadd y brenin y chyfansoddi	
101	Eil, is coryf: yna yr eiste yr edling beunydd	
102	Trydedd rhan yr neuadd yw y tal issaf	
103	Teir seic a ddyly y distein y gossod yn y llys	14b
104	Tri dyn a ddyly cowyll yn llys	
105	Tri dyn a ymyt bwyd y brenin	
106	Tri swyddawc a wasnaetha y brenin o'i heiste	
107	Tri dyn yn y llys sydd un werth y corn a'r brenin	
108	Tri swyddawc nid oes uddunt frethynwisc	
109	Tri swyddawc . . .	
110	Tri swyddawc llys ny . . .	
111	Tri dyn y telir eur ac aryant a gwarthec yn y galanas	
112	Tri dyn ny thelir eur nac aryant yn sarhaet na[’e] alanas	
113	Teir sarhaet a ddyly y brenin rann ohonunt	15
114	Tri dyn a ddyly eurdlysseu yn llys	
115	Tri dyn sydd well eu breint o’e heiste noc o’e sefyll	
116	Tri dyn y mae gwell eu breint o’e sefyll noc o’e heiste	
117	Tri dyn sydd well y breint yn effro noc yn cysgu	
118	Un swyddawc llys a ddyly y anrhegu deirgweith	
119	Un dyn a geiff ddillat gwely o’r swyddogion y llys	
120	Tri dyn yn y llys ny ddylyr gwallaw arnunt	
121	Tri dyn a ddyly y frenhines y anrhegu ar wirawt	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
122	[T]ri hut yw messur bwyt seic	
123	Tri dyn ny cheiff pengwastrawt arian gwastrodyon	
124	[T]ri dyn y trayana y brenin ac wynt	
125	Un dyn a ddyly teir gwirawt anrhec gan dri dyn	16
126	Un dyn sydd yn y llys ni ddyleir y ellwng y'r wicet	
127	Un dyn a ddyly cytyfet a'r brenin, ac ni ddyly cysseic	
128	Un dyn a gyll gamlwrw am gysgu	
129	Un dyn a ddyly bot yn fonheddic o'r swyddogyon	
130	Tri thafawt uut llys	
131	Tri chorneit a seic yw an . . .	
132	Tri chanu a ddyly bardd teulu y ganu y uchelwr	
133	Tri dyn nyt etep y nep yn y llys o hawl	
134	Tri chanu . . . yn llys	
135	Tri anifail a ddyly rhingill o'r anreith orwlat	
136	Tri eidion a ddyly y porthawr	
137	Tri golwyth a ddyly y porthawr	
138	Maer e bysweyl a ddyly	
139	Tri dyn a ddyly tyngu	
140	Tri dyn a ddyly cynghellor	17
141	Tri dyn nyt oes [d]edyf [le iddunt] a'y cefyn ar y paret	
142	Pwy bynac a gymero [tir y tat] cyn no'r brawt hynaf	
143	Tri rhyw freint y sydd	
144	Tri priodolder y sydd	
145	Teir etifeddiaeth cyfreithiawl y sydd	
146	Teir brawt ddi-oet y sydd	
147	[O] dri modd y gwahenir a dyn y dda	
148	[T]ri modd y cyngein bodd	
149	[T]eir ffordd y bydd rhoddi	
150	Teir rhodd ni ellir y had-ddwyn o cyfreith	18
151	Tair ffordd y gwahenir da y wrth dyn yn anghyfreithiawl	
152	Teir ffordd y gwahenir dyn a'e dda o'e fodd	
153	Teir ffordd y gwahenir dyn a'e dda o'e anfodd	
154	Teir ffordd y gwahenir a dyn y dda yn angecyfreithiawl	
155	Teir ffordd y gwahenir dyn a'e dda o'e anfodd	
156	Teir ffordd y gwahenir a dyn y dda yn anghyfreithiawl	19
157	Tri pheth y daw angeu iddaw	
158	Tri ryw anifeil y sydd	
159	. . . gwahan rhwng cenedyl ddyn	
160	Tri chi bonheddic y sydd	
161	. . . gelli a butheuat.	
162	Tri rhyw costoc tom y sydd	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
163	Tri ryw orad[ain] a wnair o wyllt yn ddof	20
164	Tri . . . o ddynyawl arfer	
165	Tri rhyw ederyn a fegir	
166	Tri rhyw bryf y sydd yn cyfreith	
167	[C]an darfu dywedyt am angeu	21
168	Teir hwch o gyfreith	
169	Tri lle y dylir . . . moch a gaffer mewn coed	
170	Tri anifeil ny cheffyr nac aryant nac yt am y llwgyr	
171	Tri ryw anifail cyntaf . . . cyfraith y mam ^m eu am lwgryr	
172	Tri modd rhyddheir anifeliait o warchau	
173	Tri modd y rhyddheir ysgrybyl ac aryant o warchau	
174	Tri rhyw anifail ny bydd mwy y cyfreith y bot y nos	22
175	Tri amryw gyfreith y sydd am foch a ddalyer ar ymogor	
176	Tri amryw cyfreith y sydd am ddafat a oddiwedder	
177	Teir amryw gyfreith y sydd am anifeilyeit a lycro yt	23
178	Sef yw anoddeu, peth a wneler yn rhith peth arall	
179	Goddeu heb weithred, ac anoddeu drwy weithred	
180	Pob da a ddycer o anoddeu a ddylir y holi	
181	[C]yn bo llawer o foddeu y wahanu dyn y dda	
182	Sef yw y da a ellir y holi drachefyn	
183	Rhodd, ac echwyn, a chyfnewit	24
184	Nyt cyfreithiawl holi peth ny bo eiddaw ac ny bo ceitwat	
185	Tri lle y caiff dyn fessur y hawl gan amddiffynwr	
186	Tri lle y dily dyn holi pob da a ddilyer y holi drachefn	25
187	Lle perthyno rheith am ledrat, o phalla y rheith	
188	Lle perthyno gwerth lleidyr, taler ef	
189	Tri da y bydd rheith amdanaddunt	
190	[C]oll o lesgedd, a chychwyn anghyfreithiawl	
191	Ny ddyly neb holi da o anoddeu	26
192	Ef a aill dyn holi anoddeu yn lledrat	
193	Os llwgyr a gyswynir ar ddyn y wneuthur y'r llall	
194	Os anifeil a ladd y llall ar warchadw bugeil	
195	Os dyn hagen a ladd anifeil y arall	
196	Peth os lleddir caeth y ddyn a ddylir profi	27
197	Nyt oes alanas y gaeth	
198	Os yn . . . wer dyn dwyn y gaeth	
199	Tri dyn a ddyly llamysten	
200	Tri cywyllyawc llys	
201	Tri argae llys	
202	Tri rhydd y'r argae llys	
203	Tri peth a ddyly brenin y gyt a'y ran o'r anrhaith	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
204	Tri dyn a dyngant dros y brenin pan fo reit	
205	Tri lle y telir eurdlyseu	
206	Tri modd y gossymeithia brenin y deulu a'e nifer	
207	Teir dyllet a ddyly arglwydd [gan] yw wr	
208	Tri chylch cyfreithiawl a ddylyir y wlat	28
209	Deu ddyn a ddyly rhieingylch	
210	Penteulu a ddyly cylch mawr wedy Nodolic	
211	Tri swyddawc breiniawl a ddyly ef pan fo yn cylchyaw	
212	Teir rhann a ddyly ef rannu y deulu ar gylch	
213	Ny ddyweit gwyr . . . anunt y penteulu o'r swyddogyon	
214	Tri swyddawc llys brenhin a ddyly cylch	
215	Tri amryw ddamwein bellach heb anghyfraith ynddynt	
216	Tri gobyr cyfreithiawl a ddyly brenhin	29
217	Tri dyn a ddyly talu gobyr estyn	
218	Abediweu bellach a ddyly ef o cyfreith	
219	Tri rhyw abediw y sydd ynghyfreith	30
220	Tri dyn a dal punt o abediw	
221	[T]ri amryw ddyn a dal chweugein o abediw	
222	Tri dyn a dal abediw o tri <i>u</i> geint	
223	Y neb a fo marw ar dir y brenhin	
224	Tri rhyw dda diberchennoc, heb anghyfreith	
225	Tri marwdy cyfreithiawl a ddyly brenin	
226	Tri pheth a ddyly brenhin o'r a fwryo mor y'r tir	
227	O dri modd amryw y cospa arglwydd y wr	31
228	Tri modd y gwneir o cyfreith eissywet y ddyn am y dda	
229	Teir cosp cyfreithiawl y sydd	
230	Teir buwch a ddyly brenhin	
231	Tri amobyr a ddyly brenhin	
232	Tri cywelyogach cyhoeddoc y sydd	
233	Tri chadarn enllib y sydd	
234	Tri modd y dygir plant o'r gwely deddfawl	
235	Tri modd y dygir mab y dat yn cyfreithiawl	
236	Deu ryw lathlut a fydd	
237	O dri modd y bydd camlwrw	32
238	Llawer modd y damweinia y ddyn wneuthur cwl	
239	Cyntaf, hydd brenhin, a'y olwythyon cyfreithiawl	33
240	Tri modd y cospir anufydd-dawt	
241	Tri rhyw anufydd-dawt y sydd	
242	Tri modd y dielir anufyddawt	34
243	Tri lledrat y disgyn camlwrw amdanunt	
244	Tri pheth lleiaf y disgyn camlwrw amdanunt	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
245	Tri geir y sydd camlwrw amdanunt	
246	Tri golwg y bydd camlyrus dyn o'e welet	
247	Tri rhyw gamlwrw y sydd	
248	Tri modd y telir camlwrw un dyblyc	
249	[O] dri modd y disgyn hawlwr ynghamlwrw	
250	[T]ri modd y disgyn camlwrw ar amddiffynwr	
251	Tri lle y telir camlwrw deu ddyblyc	35
252	Tri modd y bydd camlwrw tri dyblyc	
253	Tri dyn ny ddyly camlwrw arnunt	
254	Tri dyn y trayana bren hin camlwrw ac wynt	
255	Ny disgyn camlwrw o ym[ladd]	
256	Hyt hynn y dywetpwynt o gospeu anghyfreithiawl	
257	[T]eir dirwy brenhin y sydd	
258	[T]ri difwyn dirwy ymladd y sydd	
259	Ymladd a fo yn y noddfa	36
260	Teir defnydd dirwy ymladd	
261	[T]eir gweithret y bydd dirwy amdanunt	
262	Rheithieu muryedic y sydd am yr affeithieu hynn	
263	Tri lle y bydd dirwy ymladd yn ol golw[c]	
264	Tri lle y disgyn dirwy ymladd	
265	Tri modd y byd gweithret neu gyfwrdd mewn ymladd	
266	Tri modd y cyngain gwth	37
267	Tri gwth ni ddywygir	
268	O dri modd y trewir dyn	
269	Tri modd y bydd ymladd a llaw	
270	Tri phalfawt ny ddiwygir	
271	Llaw yn lletegoret felly y cnithir dyn	
272	Tri modd y bydd dirwy ymladd a dwrn	
273	Tri modd y sarheir dyn	
274	Tri dyn a ddyly sarhaet heb gyfwrdd ac wynt	38
275	[N]awdd y brenhin, a honno a berthyn	
276	[T]ri modd y sarheir y brenhin heb gyfwrdd ac ef	
277	Tri pheth a geffir pan dorrer nawdd dyn	
278	... neu ballu amdanunt, un gosp ynt a'r colofeneu	39
279	Pa na bai ledrat yn llosgi ty, heb wybot y'w berchen	
280	Ny bydd affeith fyth am weithret o anfodd	
281	Colofneu cyfreith yw	
282	Tri rhyw gosp sydd am ledrat absen	
283	Teir rhyw ddirwy ledrat y sydd	
284	Teir dirwy gaeth	
285	Tri lleidyr dirwyus sydd	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
286	Tri lledrat y disgyn rheith amdanaw	
287	Ni bydd dirwy am ledrat	
288	Tri lle y disgyn dirwy deuddyblyc	
289	Tri modd y bydd dirwy lledrat	40
290	Tri lleidyr gwerth y sydd	
291	Tri lleidyr deholadwy sydd	
292	Tri dyn a dal gwerth lleidyr heb gysswyn lledrat arnynt	
293	Nyt cynnenn ar dogyn fanac yny fo llw yn y tri lle	41
294	Ny bydd reith ar leidyr cyswyn	
295	Tri lle y bydd eneit faddeu dyn heb frat arglwydd	
296	Un lle y cyll lledrat absen y freint	
297	Hyt hynn y dywetpwyd am ledrat absen a'e gospeu	
298	Tri dial a ddisgyn am ledrat yn llaw	
299	Tri dyn a berthyn y carcharu	
300	Tri dyn a ddylu y brenhin peri trychu y haelodeu	
301	Teir poen oedd o gyfreith Dyfynwal	
302	Tri lleidyr crogadwy sydd	42
303	Tri pheth un freint a lledrat yn llaw	
304	Tri modd y bydd cyfaddef lledrat cynhyrchol	
305	Teir cosp (o dda) lledrat cynhyrchawl, .i. lledrat yn llaw	
306	Tri dyn ny ddylir y gwerthu gan gyfreith	
307	Tri dyn ny wnant yawn y neb o'r a'e holo	43
308	Tri dyn ny ddylir y claddu yn gyssegyr	
309	Tri lle y cyll lledrat yn llaw y frein[t]	
310	Tri modd y bydd eneit faddeu dyn am ladrat yn llaw	
311	Tri lleidyr cyfaddef y sydd	
312	Tri pheth ny ddyleyr am ledrat	
313	Fry y dywetpwyd am eissywet a'r a ddyly bren hin	
314	Tri lle y telir gwerth aelodau cyfreithiawl	
315	O deir ffordd y dylu dyn fot yn eneit faddeu	44
316	Tri dihenydd cyfreithiawl y sydd	
317	[T]ri lle y caiff brenhin yr alanas	
318	Tri dyn a ddyly bot yn anrheith oddef o cyfreith	
319	Teir cosp ffyrnicrwydd	45
320	Tri dyn ny ddylir y ladd, cyt boen[t] llofruddieit	
321	Teir cosp lladd celein ac aryf	
322	Teir anrheith a ddyly y brenhin	
323	Teir anrheith oddef a ddyly brenhin	
324	Tri gwrtheb cyfreithiawl y sydd ynghyfreith	
325	Tri modd y bydd addef	
326	Tri pheth un freint ac addef	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsg.
327	Nyt cwbul un gyrr heb dwng	
328	Nyt cwbyl un amddiffyn	
329	Ny seif neb amddiffyn y amddiffynwr ac ny thycya	46
330	Tri rhyw amddiffyn cyfreithiawl yn erbyn hawl	
331	Tri rhyw wat cyfreithiawl y sydd	
332	Tri rhyw fach y sydd	47
333	Peth bynna[c] a dyngo mach a el yngwydd gorsedd	
334	O dri modd amryw y bydd unrhyw garant	
335	Tri achos sydd y wneuthur defawt	
336	Addfwyn yw cyfreith, a bonheddic, a chyfiawn	
337	Llyna paham y mae addfwyn cyfreith	
338	Llyma paham mae bonheddic cyfreith	48
339	Llyma paham y may cyfiawn cyfreith	
340	Huawdyl cyfreith paham?	
341	Mam y cyfreith yw anufyddawt	
342	Teir gossodedigaeth y sydd herwydd Hywel Dda	
343	Teir defawt y sydd	49
344	Tri pheth a gadarnha defawt	
345	Tri pheth a wanha defawt	
346	Beth bynnac nyt ysgrifenwyt mewn cyfreith	
347	Pwy bynnac a ddywetto ar y brenhin	
348	Eissioes amgen yw am cyfreith	
349	Tri dyn ny allant ymwystlaw yn erbyn brawt	
350	Tri pheth a ddyly brawdwr cyfyawn y wrandaw	50
351	Pwy bywnnac a gollo peth trwy farn tremic	
352	Tri rhyw farn tremic cyfreithiawl	
353	Tri dyn ny ddichawn yr un ohonunt bot yn frawdwr	51
354	Teir ffordd y gellir gwrthot brawdwr teilwng	
355	Ny ellir cymell dyn eglwyssic o faes y senedd	
356	Os hagen gwr eglwyssic a gyneil tir trwy ddylyet	
357	Cyt gallo gwr eglwysic bot y me[w]n barn o freint tir	
358	Amser y ymwystlaw a brawdwr yw	
359	Pwy bynnac a ebryfyco y dadleu yr amser hwnn w	52
360	Tri llyfyr cyfreith a beris Hywel Dda y wneuthur	
361	Tri pheth a ddylyl ynat	
362	Ny ddylir credu barn na[’y] chymryt	
363	Ny ellir ymwystlaw ac ynat eithyr lle bo cwyn o’r blaen	
364	Brawdwr herwydd breint tir, tra gynhalyo y tir	
365	O deir ffordd y dospertir brawd cyngaws	
366	Pwy bynnac o’r cynnenusson yn llys	
367	Tri pheth ny ddichawn neb dros y llall	53

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
368	Hywel Dda a ossodes bot yn Gwynedd pump swyddoc	
369	Tri rhyw frawdwr y sydd yng Cymry	
370	Pob brawdwr swydd a gaiff .iiii. ^c cyfreith dros bob hawl	
371	Yspeit pob brawdwr y roddi brawt	
372	Os brawtwyr o freint tir a archant yspeit	
373	Nyt oes amgen boen [n]a dyal eithyr ei cymell	54
374	Cynn bo lliaws o frawtwyr o fraint tir yn y brawt hwnnw	
375	Lle bo hagen gwystyl a gwrthwystl erbyn yn erbyn	
376	[T]ri pheth ny ddyly lliaws o frowdwyr ei wneuthur	55
377	Pan fo browdwr o fraint tir	
378	Tri chof wedy brawt y sydd	
379	Yspeit y <i>dd</i> osparth brawt amrysonedic	
380	O dyry neb wystyl yn erbyn brawt a roddo brawdwr	56
381	Ni bydd cylus brawtwr yr datcanu brawt o lyfyr prawf	
382	Or dyry brawdwr cam frawt <i>ym</i> mewn llys	
383	O dyry brawdwr cam frawt yn erbyn dyn	
384	Tri pheth a gadarnha dyn ar y ddylyet	
385	Tri chyngwarchadw cyfreithiawl sydd	57
386	Tri dyn ny ddylyr ei difeddianu yny fo dosparth	
387	Tri meddiant cyfreithiawl y sydd	
388	Tri datanudd ti a'i ceffy yn y . . . ddolen	
389	Tri thwryf cyfreithiawl	
390	Tri modd y gwahenir dyn a'e feddyant	
391	Tri modd y gwahenir dyn a meddiant yn anghyfreithiawl	
392	Teir amryw hawl y sydd	
393	Tri pheth ni ddyly nep ateb ohonunt	58
394	Tri rhyw diebryt y sydd	
395	Tri modd y cae cyfreith rhwn g hawlwr	
396	Tri therfyn hawl y sydd	
397	[T]eir dadyl a ddylyant y hiachau a'e barnu	
398	Tri modd yr holir tir	
399	Tri chamoressyn y sydd	59
400	O dri modd y dosperthir dadyl dadanudd	
401	Pedeir taryan y sydd a gerddant yn llys	
402	Ni ellir gw[a]ranty un da cyffroedic nac un digyffro	50
403	Y neb a gaffo gwarant y mewn dadyl	
404	Pwy bynnac a fo gwell ganthaw arall y ddadleu	
405	Llysu tystyon a fydd fal y dewisso y tafodyawc	
406	Tri dyn ni ddylyr y gwyssyaw	
407	Tri modd y cadarnheir gwys o'i profi	61
408	Teir gwys a ellir ei gwadu cyn amser tystyon	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsg.
409	Tri lle y difeichia mach cyfaddef am ddylyet angcyfaddef	
410	Tri pheth ni henyw o fechni	
411	Tri oet a ddyly mach cyfaddef	
412	Tri pheth a gymell	
413	Teir aelwyt a gymell honn	
414	Teir gwanas gwystyl	
415	Tri gwystyl a ellir y mwynhau cyn y digwyddaw	
416	Tri dyn ny ellir eu gwysyau	
417	Tri pheth un freint a gwys	62
418	Tystyon a ellir ei gwrthebu pan ddechreuont	
419	Tri pheth a geidw cof ac safant yn lle tystyon y ddyn	
420	Teir tystiolaeth ddilys y sydd	
421	Teir ty[sty]olaeth farwawl y sydd	
422	Pan dystyo tyst yn y dystyolaeth peth yn cyfreithiawl	
423	Teir tystyolaeth sydd ar eir	
424	Tri pheth a ddyly mab y cael yr cael mamwys	
425	Tri pheth a gyngain yn cyfreith cyt boet rhyfedd y fot	
426	Tri dyn ny bydd marwdy y dy	63
427	Tri dyn un freint a bonheddic canhwynawl	
428	Tri meib y sydd, neu deir merchet	
429	Tri chymeredic mab yng cenedyl	
430	Tri gwystyl ni ddigwydd hyt ympen undyd a blwyddyn	
431	Tri gwystyl ni ddigwydd byth	
432	Tri gwystyl a ddigwydd dydd y dycer	
433	Tri dyn y digwydd gwystyl a roddeont	
434	Tri da nyt rheit mach ar ddilesrwydd arnynt	
435	Tri pheth a ellir y wadu ony bydd praw	
436	Tri defnydd llyssiant cyfreithiawl y sydd	
437	[T]ri geir a ellir ei llyssu	
438	Teir gweithret a bair lyssu tyston	64
439	Deu dirdra sydd y gellir llysyant cyfreithiawl	
440	Deu wreictra y sydd	
441	Deu alanastra y sydd	
442	Tri diffic y sydd y lesteir dwyn tystyolaeth	
443	Tri diffic synwyr a lesteir tystyolaeth yngorsedd	
444	Tri diffic breint y sydd	
445	Tri pheth y gellir tystyolaeth arnunt	65
446	Tri lle y bydd tystyolaeth ar olwe	
447	Tri lle y bydd tystyolaeth ar eir	
448	Teir ffordd y may cadarnach arddelw no cheitwat	
449	Tri lle y bydd rheit arddelw o liaws	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
450	Tri thyst ny thyng y greir ac ny ellir eu llyssu	
451	Tri rhyw dystyon a dyngant ac ny ellir eu llyssu	66
452	Teir ffordd y mae cadarnach gwyby[ddy]eit no thystyon	
453	Teir ffordd y may cadarnach gwybyddyeit no cheitweit	
454	Tri gwahan sydd rhwng gwybyddyeit a cheitweit	
455	Tri pheth a eill ynat	
456	Teir ffordd y dyly ynat colli camlwrw	67
457	Tri gwahan sydd rhwng gwybyddyeit a thystyon	
458	Tri lle y cyngein ceitweit	
459	Tri pheth cadarnaf yng cyfreith	
460	Tri llyssyant rheith	
461	Tri gwahan y sydd rhwng ceitweit a rheith	
462	Tri gwahan sydd rhwng arddelw a rheith	68
463	Tri diofryt rheit wrthunt yng cyfreith	
464	Tri marchogaeth y dyrcheif breint dyn	
465	Tri rhyw gar y sydd	
466	Tri car o barth tat y rennir ac wynt tir	
467	Tri char o barth mam a ran tir ac eu car	
468	Tri charllywedroc sydd	
469	Tri mab a ddyly tir nys dyliei y dat cyn noc ef	
470	Tri dyn a ddyly tir nys dylie eu meibyon	
471	Tri dyn a gyfran tir ac arall heb gerennydd rh[y]ngthunt	
472	Tri dyn a dal abediw heb dir	
473	Tri amser ny ddyllir rhoddi croes mewn tir	
474	Teir gwialen cymell hawlwr	69
475	Teir croes ny chyngein dial amdanut, y teir ofergroes	
476	Tri pherchenno[c] croes	
477	Tri pheth a lwygwr ar [gyfreith]	
478	Tri gorsaf ha6l	
479	Teir gorsaf hawl, heb addef, heb wady	
480	Teir croes ny bydd na chamlwrw na dirwy yr [y] torri	
481	Tri lle y dyly arglwydd cymell	
482	Tri pheth nyt rheit praw arnunt	
483	Tri pheth ny ddygir gan wraic, cyt gadawer hi am y cham	
484	Teir ffordd y cyll morwyn y chowyll	
485	Tri oet a ddyly morwyn y atneuwaw y chowyll	70
486	Tri pheth ny eill gwreic agweddawl	
487	Tri dyn a ardretha dir heb dir yn lla[w]	
488	Teir buch (amryw) cyfreithyawl y sydd	
489	Tri ychen amryw y sydd o cyfreith	
490	Tri anifeil ni ddyrcheif eu gwerth	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
491	Tri anifeil cymeint gwerth y haelodeu a'y heneit	
492	Tri rhyw deithi y sydd y fuch	
493	Tri pheth ny bydd eneit faddeu neb yr y ladratta	71
494	Tri rhy6 anifeil ny bydd eneit faddeu neb amdanut	
495	Tri gwystyl rhydd eu mwynhau cyn y digwyddaw	
496	Tri dyn rhydd o wystyl	
497	Tri oet y digwydd gwystyl cyfreithiawl	
498	Tri gwystyl ny ddigwyddant byth cyt gwystler wynt	
499	. . . yn rhwy[m], a llenwi y rhwymyn hwnnw o'r yt	72
500	Paham y dywedir: 'Nyt oes o rodd onyt hyt fodd'?	
501	Tri modd y gellir echwyn	
502	Ny ellir holi drachefyn echwyn	
503	Pwy bynnac a gyfnewytyo da	
504	[A] berthyn y ddyn holi da o warchay	73
505	Tri rhyw wystyl cyfreithiawl y sydd	
506	Pob gwystyl ar lwgyr yt a ellir y holi tra fo cynhayaf	
507	Pob gwystyl a gymero dyn dros loe [a] ellir y attal	
508	Pob dafat a ddel o'r cadw y defeit	74
509	Pob wyn a ddel am lei no'r cadw	
510	Pob dyn y taler iddaw ysgub iach am y glaf	
511	Pob gwystyl a roddo mach neu gynogyn	
512	Paham y ceiff neb iawn nny caffo y brenhin yn gyntaf	
513	Pob da a farner y ddyn yn cyfreithiawl	
514	Cyfreith a farnawdd y gwystyl, ny ddifarna cyfreith	
515	Pa ddelw y gwarcheir hwch neu foch?	75
516	Pa ddelw y geifyr?	
517	Llyma am ledrat, a threis, ac angcyfarch	
518	Os cynyrchawl fydd y lledrat, neu y treis	
519	Nyt grym yna wat peth amgen cadw o'r amddiffynwr	
520	Os gwydd fydd y lledrat, mal hynn y dyly y ddamdwng	
521	Ac wedy tyngu felly, tyngu nas gwahanwyt ac ef	
522	Sef paham y ceiff ynteu y damdwng ympob llaw?	
523	Pe ef a ddywedai fal hynn yn y damdwng	76
524	Ny pherthyn y rhyw ddamdwn g	
525	Ny pherthyn y hawlwr a gaffo y dda yn llaw lleidyr	
526	Teithi march arall yw yfet dwfyr	
527	Tri dyn a fydd un werth a'r neb a ellyngoynt	77
528	Tri pheth sydd un werth y amws	
529	Tri aelawt sydd un werth ar amws	
530	Tri pheth un werth	
531	Tri pheth un werth y farch tom	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
532	Tri heint y dyly gw[e]rth[u] march a[m]danaw	
533	Tri pheth yw teithi march tom	
534	Tri pheth yw teithi ych	
535	Tri pheth un werth y fuwch cyfreithiawl	
536	Tri anifeil cyntaf a ddaw y werth y mam	
537	Tr[i] anifeil cymeint gwerth a'e teithi	
538	Tri heint y dylir gwerthu dafat	
539	Tri llwdyn ny ddyrcheif eu gwerth ac ny ostwng	
540	Teir cymeiniat sarhaet	78
541	Tri dyn lleiaf y sarhaet	
542	Tri anifeil nyt oes werth cyfreithyawl arnunt	
543	Tri dyn heb eu bot yn un sarhaet	
544	Tri dyn y dyrcheif ar y sarhaet	
545	Tri pheth ny ddyrcheif eu gwerth	
546	Tri pheth nyt arddyrcheif arnunt	
547	Tri modd yr arddyrchefir hyn y bo arddyrchafel arnaw	
548	Nyt arddyrcheif ar sarhaet, eithyr ar dor naw buw	79
549	Nyt arddyrcheif ar alanas, eithyr ar naw ugein muw	
550	Sarhaet teuluwr breyr, .iii. buchyn, heb arddyrchafel	
551	Ny ddyly neb dilyt cyfreith o'r llyfreu	
552	Eidion a dalo .xxx. yw buhyn tal benic	
553	Tri pheth a ddyly cyngaws neu dafodyawc y wneuthur	
554	Tri pheth a ddichawn gwreic gwr rhydd y wneuthur	80
555	Tri pheth a eill gwreic taeoc y wneuthur heb ganyat	
556	Tri dyn a ddyly doddi diaspat ach anwuyn	
557	Tri dieu ny ddyly twng fod ar dir na llw	
558	Tri pheth ny ddiwygir	
559	Tri pheth a ddyly eu carcharu	
560	Tri pheth a ddyly arglwydd y warandaw	
561	Tri pheth ny ddyly arglwydd y wrandaw, nac ynat	
562	Tri tal sydd y hawlwr	
563	Tri ymyllwng o rwym hawl y sydd	81
564	Tri lle y bydd cyfaddef hawl ar ddyn	
565	Tri lle y bydd unrhyw gwat ac addef	
566	Tri lle y mae gwell addef no gwat	
567	Tri defnydd y sydd reit y henwi yn enwedic	
568	Tri lle nyt rheit y neb henwi y arddelw	
569	Tri arddelw y cyngein gwat ynddunt	
570	Tri arddelw [y] cyngein addef ynddunt	
571	Tri arddelw ny chyngein na gwat nac addef ynddunt	82
572	Tri lle y dyry hawlwr ac amddiffynnwr eu hardelw yn un	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
573	Tri lle y dyry dyn y arddelw yn y benn e hun	
574	Tri lle y rhydd amddiffynwr y arddelw ympenn yr hawlwr	
575	Tri pheth sydd reit eu gwneuthu r yn cyfreithiawl	83
576	[T]ri argae damdwng	
577	Tri lle y bydd llwyr dal wedy llwyr dwng	
578	Tri pheth a ryddha amddiffynwr o hawl	84
579	Teir brawt y sydd	
580	[T]eir brawt ameu cais	
581	Tri arddelw y sydd	
582	Tri detfryt sydd	
583-4	Tri pheth a gyngain am hawl lle ny bo na rheith	
585	Llyssu gwybyddyeit, o'r teir ffordd y llyssir wynt	85
586	Anaddfwyno ceitweit o'r teir ffordd	
587	Tri lle y gyrr dyn ny bo perchennoc da hawl	
588	Tri lle ny ddyly arglwydd seithugyaw y orsedd yn rhat	
589	Tri lle y bydd cynghawssaeth wedy bra6t	
590	Tri pheth ny ddylir oddieithyr cyfylderw y wneuthur	
591	Tri lle ny thal cenedyl alanas gyt a char	86
592	Tri achos y gossodet cyfreith	
593	Tri pheth a orchymyn cyfreith y bawb	
594	Tri echos y bu da gwneuthyr o Ladin	
595	[T]ri pheth sydd gadarnach no gwys	
596	Tri ryw wassanaeth sydd reit y'r offeiryat teulu	
597	Tri gwerth cyfreithiawl	87
598	Tri gwaet ni ellir y diwat	
599	Tri gwaet nyt rheit eu diwat	
600	Tri gwaet nyt oes cyfreith arnunt	
601	. . . Trydydd, lle y dyly y dyn holi y da o gwahenir ac ef	
602	O dyweit dyn hagen na ddoeth atneu attaw	88
603	Ny ellir diwat na gwystyl, na benffyc, yn erbyn tystyon	
604	Rhodd a da a ddycer ar y dapplys a berthyn y holi fal	
605	O bydd ymrysson hagen rhwng deu ddyn	
606	Tapplys . . . o d . . . ny ellir holi da ohoney	89
607	Llwgryr fal hynn y mae amdanaw	
608	Ny ellir holi da o lw gweilydd	
609	Ti a glywaist fry yn y dechreu y ffyrdd y perthyn holi y da	
610	Tri rhwym y sydd	
611	Pob da a holer drwy gyfnewit, holer drwy fach	90
612	Pob da a holer drwy amot, holer drwy amotwyr	
613	Pob da a holer drwy . . . nny . . . anifeil .i. lloc	
614	Ef a ellir holi rhodd, ac echwyn	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
615	Tri rhyw rwym a wna dyn a'y gilydd	
616	Tri ymrwym cyfreithiawl y sydd	
617	Tri rhwym futnawl y sydd, sef ynt	
618	Tri ofer rwym yw y teir ofer fechni sydd	
619	[T]ri pheth ni henyw o fechni	91
620	Ny ddyly neb dwyn hawl arnaw e hun	
621	Tri pheth cyfreithiawl ryfeddaf a wnaeth dyn y'w gilydd	
622	Tri echos amryw y sydd mae rhyfedd y ddyn fot yn fach	
623	. . . Eil peth a wnaeth dyn yr y llall	92
624	Tri thal sydd y gwynwr am lw	
625	Tri ymollwng sydd y amddiffynnwr	
626	Tri rhy6 dwng cyfreithiawl y sydd	
627	Tri rhyw lw cwbyl y sydd yng cyfreith	
628	Tri dyn a ddyly roddi llw cwbyl	
629	Ny ellir cyfreith fyth rhwng neb a'e gilydd heb lw	
630	O tri modd y bydd llw cwbyl	93
631	Tri llw pedrus y sydd	
632	Llw cwbyl a ddamweinia o lawer modd hefyd	94
633	Ny pherthyn gwrthdwng yn ol llw gweilydd fyth	
634	Ni bydd gwrthdwng eithyr lle bo rheith	
635	Tri rhyw gwallawc lw cyfreithiawl y sydd	
636	Tri rhyw ofer lw y sydd	95
637	Tri peth ny ellir heb annudon	96
638	Tri modd y gellir profi geudwng	
639	Tri dyn a ddyly gwiriaw y hawl neu y amddiffyn	
640	Teir ffordd y cyll dyn y ddadyl yr dayet y ddefnydd	
641	Tair ffordd y ca[i]ff hawlwr fessur y hawl	
642	Tri modd y bydd cyfaddef hawl	97
643	Peth a ddyly ef y attal o bydd gwr o arall wla[t]	98
644	A ddylu cwynwr messur y hawl o bydd ffoadur	
645	Ny ddyly arglwydd yawn yny gaffo y cwynedic	
646	Sef paham y caiff ef hynny	
647	Fal llyma paham na . . .	99
648	A dyng y lleidyr fot arddelw iddaw?	100
649	Peth o dyweit y lleidyr fal hynn	
650	. . . Ny . . . ddyly y brenhin hagen y ellwng ef yn rhydd	101
651	. . . sefyll; neu na ddyly sefyll, ae y fot yn ysgolheic	
652	Nyt oes . . . arwayssaf cynyrchawl a fo yn y maes	
653	Nyt oes oet y arwayssaf angcynyrchawl . . .	
654	Ny wyssir arwayssaf o cyfreith, ony bydd rhacddaw	
655	Nyt oes y arddelw eithyr hyt y drydedd law	102

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
656	Pwy bynnac y pallo y arwayssaf iddaw	
657	O cyfreith Hywel hyt yn oet .iiii. ^{cen} y fot yn lleidyr gwerth	
658	Yng cyfreith Hywel y bydd tal ac eil tal am bob lledrat	
659	Da y lleidyr aet ffordd y cymynner	
660	Ny ddyly arglwydd abediw y dyn a ddienydder	
661	Os o gadw geni a meithrin y dewis ef y arddelw	
662	Os o alltudiaeth y myn yr hawlwr anaddfwynaw	103
663	Ny ellir cadw o eni a meithrin oddieithyr y llaw gyntaf	104
664	Os o gadw cyn coll y dewis y arddelw	
665-66	Teir ffordd y dyly dyn fot yn eneit faddeu am ledrat	
667	Nyt oes lys ar y deilya[i]t hynny	
668	Y lleidyr a groccer am y lledrat	
669	Ny bydd eneit faddeu lleidyr yr edyn na chi nac anifail	
670	Ny ellir damdwng peth gwyllt	105
671	Os y dyn bieu y ty hwnnw a ffy	
672	O bydd hagen atneu gyt ac ef yn y ty	
673	O bydd amot hagen cadw yr atneu	
674	O derfydd y ddyn adaw lledrat yng cadw	
675	Pwy bynnac a fynno caffael da yn llaw lleidyr	
676	Os y perchennoc y ty a geffir a'r lledrat yn y ty gyt ac ef	
677	Os perchennoc y ty a fydd ffoawdyr	
678	Pa ddelw y gellir daly dyn a deu ledrat ganthaw?	106
679	[L]yma pa ddelw, o bydd ffoawdyr lleidyr	
680	Or ceffir daly lleidyr ar y ffoadraeth	
681	Tri lleidyr cohoedd y sydd	
682	Ny bydd affeith eithyr y [lladd], llosc, a lledrat	107
683	Pob lle ny bo ysgar byw a marw rhwng gwr a'e wreic	
684	Llyma gospeu lledrat yn llaw	
685	Ny ddeholir neb yn y absen	108
686	Amodol yn ol daly a damdwng yn y llaw y bydd dyn	
687	Ny bydd eneit faddeu neb lle perthyno camlwrw	
688	Ny ddeholir neb eithyr am rann yr arglwydd	
689	Llawer amryw ddyn hagen yr cael lledrat yn y law	
690	A fydd halawcty ty y gwr yr gwneuthur lledrat o'r wreic?	109
691	Dyn hefyt a ladder un o'e ysgrbyl yn y llys	
692	Cayth hefyt a ddieinc o ledrat hyt y drydedd weith	
693	Ny bydd am bren heb lafur arnaw na dirwy na dihenydd	
694	Llyma argayeu damdwng	110
695	Tri da ny ellir y [damdwng] . . .	
696	O cheis dyn [damdwng] pet[h] ny ddel y oet cyfreithiawl	
697	Os daly dyn y dda yn llaw genn [arall]	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsg.
698	Bleddyn ap Cynfyn a Rhys ap Gryffyd a wnaethant	
699	. . . yn gymeint a thrugeint	111
700	Pwy bynnac y barner gwarthec arnaw o cyfreith	
701	Amws yn pori allan	
702	Nessaf yw bytheuat	
703	Anifeil ny bo gwerth cyfreithiawl arnaw	
704	Rhei a ddyweit y dichawn dyn damdwng y dda	112
705	Ny chyngein gwat yn ol damdwng	
706	Ny ellir damdwng echwyn	
707	Ny ellir damdwng benffyc	
708	Pwy a ddichawn damdwng y peth a roddo yn atneu	
709	Paham y mae cyfreithiawl y wreic agweddiawl	
710	Os o ledrat y collir da a rodder yn atneu	113
711	Nyt oes wir perchen ar y da hwnn	
712	Os cynyrchawl fydd y da, damdwng a berthyn	
713	Peth o chymer y ceitweit yna yn y law y da	114
714	Nyt rheit damdwng o cyfreith	
715	Sef yw damdwng	115
716	Pa ddelw y damdygir peth ny bo clust iddaw?	
717	O derfydd y ddyn ddamdwng peth yn llaw arall	
718	O derfydd y ddyn colli da gwahanedic	
719	O derfydd y ddeu ddyn colli peth diwahan	116
720	Rhei a ddyweit na ellir damdwng creiryeu eglwys	
721	Peth o bydd creiryeu yn gwarchadw lleygyon	
722	Peth o chyll alltut dda a'y holi	
723	Peth o dygir da cayth yn lledrat	
724	Os cayth [a dygir da]	
725	O derfydd i ddyn colli llewer o ysgrybyl	117
726	Hyt hynn y dywetpwynt am ledrat cynyrchawl	
727	Llyma mal y may hwnnw	
728	Llyma mal y perthyn gwadu am gi	118
729	Am edyn, llw un dyn y wadu pob peth	
730	Ac ny bo rheith amdanaw; llw un dyn y wadu beich cefyn	
731	Y wadu gellwng lleidyr, llw un dyn	
732	Llw pum nyn nessaf eu gwerth y'r gwadwr	
733	Llyna y rhyw lu a ddyry y rheith	
734	Sef yw y rhei nessaf eu gwerth	
735	Y wadu pwnn march a dal, neu eidyon	119
736	O .lx. ceinioc hyt x . . . llw saith dyn nessaf	
737	O chweugeint hyt bunt, llw deuddeng nyn nessaf	
738	Nyt a rheith yr . . . gyrr cyfreithyawl bellach no hynny	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
739	Ny ddyl[y] gwraic wryawc lw	
740	Y wadu llei no beich cefyn, llw tri dyn nessaf	
741	Pump ryw ledrat angcynyrchawl y sydd	
742	Tri rhyw ledrat y bydd gwat heb reith rhagddent	
743	Tri lle ny ddylir rhoddi llw gweilydd na'y ofyn	120
744	O gyrrir hagen ar wreic feichioc angcyfreith	
745	Peth y cosp am ballu o lw gweilydd	
746	Hyt hynn y dywetpwyd am ledrat absen	
747	A hwnn a ddamweinia o dri modd	
748	[T]ri modd y bydd pob affeith ledrat	121
749	[T]eir affeith golwc y sydd	
750	[T]eir affeith geir	
751	[T]eir affeith gweithret	
752	Hyt hyn y dywetpwyd am y lletrat y ceffir gwat hep reith	122
753	A dyly cwynwr y da gan leidydr a ddeholer da	
754	A grogir cytleidydr ony bydd cwynwr?	
755	Lleidydr a ddeholer o frawt cyfreith nac am ddirwy	
756	Lleidydr pan gaffer yn y wlat y drydedd weith, croger	
757	Ffoawdyr pan gaffer wedy y ceysseyr deirnos	
758	Llyma bellach dywedyt am ledrat absen	
759	Llyma bellach am ledrat absen ny cheffir arddelw	123
760	Ny ellir cadw gwesti	
761	' . . . a dwyn fy mreint am terfyn y gennyf	
762	Teir gweith y rhennir rhwng priodoryon o cyfreith	124
763	. . . dyn a threfyn hel . . . fyr . . .	
764	Mab brenin, hagen o bydd hynaf	
765	O dyly pob . . . tyddyn ac wyth erw	125
766	. . . a lliw a da ac o collant y tir o ddiffyc hynny	
767	O gyfylderw allan ny ddyly neb rannu a'e gilydd	
768	Ny ddyly nei ap cyfylderw, na nei ap brawt, atran	
769	Ny cheiff neb dir cyfylderw y dat	
770	Ny cheiff neb tir y gyt etifedd megys y frawt	
771	Gwedy ranno brodyr tref y tat rhyngthunt	
772	O gwerth arglwydd rhyw dir hwnn w y fab a'e dat yn fyw	126
773	Pwy bynnac a holo rhyw dir	
774	Pe marw hagen nei ap brawt y ddyn	
775	Cefynderw a ddyly cystadlu bawb a'e gilydd	
776	Cyntaf yr holir o ran	126-28
777	Ot addefir yr ymadrawd, a cheissyaw difa yr hawl	128
778	Gwedy barner tir y ddyn ny ellir lluddyas iddaw cyfran	
779	Atran neu gyfran tir fal hynn y may y holi	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
780	Ny ddyly neb gofyn atrann ar dir	129
781	Ny ddyly neb gofyn atrann ar dir	130
782	Ny eill neb eissyoës o radeu y tir ry cadw y tir	
783	Ny ddylir achub ar dir cyt	
784	Pob tir ynteu a ddylir y rann u eithyr y tir hynn	
785	O bydd negyf hagen y mab ieuaf o rann u y tyddynneu	
786	Fal hynn y dily cyfran	
787	Cefynderw a ddyly atran tir	
788	Wedy hynn y cyfynderw a ddyly orffen rann	
789	Pwy bynn ac a holi tir o ddiapat &c	131
790	O geilw dyn am dir mewn tref gyfrif	
791	Mal hynn y may am hawl gyhydd	
792	Ny bydd hawl gyhyt eithyr yn tref gyfrif	132
793	Cyfreith tir cyfrif yw	132-33
794	Ny ddleir talu twng o dir cyfrif	
795	Cylch cwn a meirch a dofreth a ddlyir ohonaw	
796	Yno y ddyly mab dir a'e dat yn fyw	
797	Ac yno ny thal y meibyön abediw eu tat y gyt	
798	Ny ddyly neb o dir cyfrif fynet o'e dyddyn	
799	Ny ddyly neb dalu ebediw, na brawt, nac ewythy'r	
800	Ny ellir holi tir cyfrif eithyr pan fo gwac	
801	Ny ddyly neb tir cyfrif o'r dref y'r llall	
802	Tri amser y bydd cayat cyfreith am dir	
803	Ny ddlyir ateb am dir yr amser hwnn w	
804	Ae cyfreithyol y twryf llosgy ty, neu ladd celein	
805	Nyt rheit amser y rannu tir rh6n g cytiryogyon	
806	Os tai a fydd ar dir a ranner, ac na fynner eu rhannu	
807	. . . nith . . . neb dragwyddoli tir eithyr o ganyat	134
808	. . . mynec[i] iddaw fot yn wir ar y gytleydyr	
809	Mach am y fechni a dyng	
810	Ynat a geiff oet .ix. dieu y ymgoffau	135
811	Nys ceiff na morwyn, na lleidy'r, nac abat, na bugeil [oet]	
812	Llyma fessur trefgordd cyfreithiawl	
813	May llawer hefyt o ddynyon y dlyir credu eu tystiolaeth	
814	Rhoddyat, am y rodd ot ymryssonir	
815	Deylyat ysgrybyl ar yt, ot amheuir pa le y cat wynt	
816	Edling, pan holer amoby'r y forwyn	
817	Gwreic, rhwng y deu fab a aner yn un torllwyth	
818	Morwyn hefyt a ddyco gwr l[l]athlut a chyn cysgu genti	136
819	Esgussodwr a dyngo y greir yn cyfreithyawl	
820	Rhaclaw a gaffo dogyn fanac ar ddyn am ledrat	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
821	Amodwr am yr amot ot addefir ef	
822	A dyn yn <i>dam</i> dwng y dda ar y lw	
823	A dyn yn addef drwc	
824	Beth yw galanas breyr diswydd?	
825	A thrugein muw yw galanas taecoc brenhin	
826-27	Pa ddelw y dyrchefir ar alanas y neb y bo dyrchafel	
828	Y wreic briawt o byd y'r neb a ladder	137
829	Mal y dyrchafwyt galanas breyr diswydd	
830	Pa ddelw y dyrchefir sarhaedeu breyr heb swydd	
831	A ellir talu galanas o aryant oll? Gellir	
832	Teithi ceitwat yw tyngu bot yn eiddaw y dyn	
833	Llyna yr amser y ceffir anaddfwynaw ceitwat	
834	Yna y dyly y ceitwat e hun, neu y dafawt drostaw	
835	Os o freint yr ymarddelw ef	138
836	Yna y dyly yr hawlwr doddi ar cyfreith	
837	Yna y dyly ef henwi y breint a gatwo	
838	O phalla yr arglwydd iddaw, pallws y amddiffyn yddaw	
839	O phalla y ceitweit hefyt iddaw, pallus y amddiffyn	
840	Os o wadu alltudaeth yr ymarddelw y ceitwat	
841	Ac felly y dylir cymryt gwybyddyaeth	139
842	Ac wedy darffo y'r ceitwat hwnnw tyngu	
843	A'r cyfreith honno yn dwyn gwybyddyeit	
844	Pwy bynnac a lyssa tyst, neu wybyddyat	
845	Os y ceitwat bellach a rydd ar cyfreith	
846	Os ynteu ny bydd yn y maes, ny ddylir oet wrthaw	140
847	Os yr hawlwr a fyn anadd[f]wynaw ceitwat	
848	O derfydd yna y gyngaws yr amddiffynnwr	141
849	Yna y dyly yr ynat fynet allan	
850	Llyma y ffyrdd y daw dyn yn cyfreithyawl y dda	
851	Cyntaf yw, os anifeil fydd, cadw geni a meithrin	142
852	Eil yw dywedut dyfot y da hwn iddaw gan arall	
853	Trydydd ffordd, cadw cyn coll mal y dyweit cyfreith	
854	Pedwaredd ffordd, dywedut y brynnu gann arall	
855	Pumet yw y roi o arall a allo . . . y da	
856	Chwechet yw y ddyfot y'r dyn y da o gymynn	
857	Seithfet yw dywedut dyfot y da hwnn o rannu	
858	Wythfet yw, os cig fydd, dywedut mae chwarthawr tir	
859	Nawfet, dywedut may un o'r tri buddlam treftadawc	142-43
860	Decfet, dywedut o'r dyn, may y da gantaw may o wystyl	
861	Fal llyma mal y llyssir gwybyddyat	
862	Yna cymeret y neb a'e llyssio y creir yn y law	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
863	Os ef a lyssa gwybyddiat cyn tyngu	
864	Tri ofer ymadrawd a ddywedir mewn gorsedd	
865	Pwybynnac addawo a fo digawn o cyfreith	143-44
866	Ot edyf dyn dystyon, neu wybyddyeit, neu geitweit	
867	Os ynteu a eddyf tystyon, heb y henwi, hyt yn oet deu	
868	Ot edyf hefyt mwy o wybyddyeit noc a ddyco	
869	Ot eddyf dyn o wybyddyeit, neu dystyon, neu geitweit	
870	Os cystal fydd y gwybyddyeit a addawer cyfreith	
871	Ot eddyf dyn dystyon neu wybyddyeit	
872	Ceitweit ar dir a fydd aminyogeu tir a daear	
873	Ceitwat a ddyly bot yn freinyawc ac yn addfwyn	
874	Ot eddyf dwy bleit geitweit, neu wybyddyeit, neu dystyon	145
875	Ot edyf dwy bleit geitweit, yr hwn a fo yn gwarchadw	
876	Ot ymrafaylya ceitweit ar y parableu	
877	Ot edyf dyn dystyon, neu wybyddyeit, neu geitweit	
878	Ot edyf dyn cymeint ac arall o wybyddyeit	
879	Ny[t] tystiolaeth, tystiolaeth un dyn	
880	Llw tyst a'e deithi yw ardystu iddaw hynn	
881	Anudonol cyfaddef a dalo wedy hawlwr	
882	Hynn o ddynyon ny ddylyir credu eu tystiolaeth	
883	Teithi gwybyddiat yw tyngu gwybot a gwelet	146
884	Llyssyanneu ar wybydyat	
885	Amser y dylir llyssu gwybyddiat a thyst	
886	Rheithiwr not a ddyly tyngu bot yn wir	
887	Nyt oes lys ar reithywr	
888	Rheithywr cyffredin a dyly tyngu llw cyffredin	
889	Llw llofrydd yw gwadu anghyfreith	
890	Pob dyn a ddyly talu y reith lle bo y fara offeren	
891	Bonheddic diatlam a dal y reith yn y plwyf	
892	Naw affeith galanas y sydd	
893	Paham y telir y da a'r gwat?	147
894	Paham y telir y gwat gyt a'r da hefyd?	
895	Pwy a ddyly gyrru affeith?	
896	Pa ddelw y gyrr ef affeith?	
897	Peth a gaiff y cwynwr yr cwynaw affeith	
898	Peth o phalla y rheith, a gaiff ef yawn o'r byt?	
899	A ddyly yr arglwydd y naw ugeinyeu, o phalla y rheithieu	
900	Paham?	
901	A ddyly neb holi affeith ymlaen y llawruddiaeth?	
902	Paham?	
903	A oes alanas heb affeith iddi?	147-48

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
904	Mwyaf y galanasseu, deuddyblyc cosp amdanu nt	
905	Pwy yw y rhei hynny?	
906	Pwy fwyaf o'r rhei hynny?	
907	Peth yw hynny?	
908	Paham y bydd mwy rheith y wadu y teir affeith diwethaf	
909	Ae rheit iddaw ef yrru affeith y greir?	
910	A ddichawn arglwydd holi affeith e hun?	
911	Pa ryw wyr a watta cyhyryn?	
912	Ny ddyly arglwydd affeith y neb	
913	Paham y gyrr ynteu affeith?	
914	Peth o lladd dyn arall mewn cyfoeth arall a'e oddiwes?	149
915	Peth a ddyly ef cosp am waetlydu tir	
916	Y wadu galanas llw dengwyr a deugeint o wyr	
917	Pwy a ddichawn cwynaw cwyn neu holi y gar?	
918	Pwy sydd gar?	
919	A eill tat cwynaw lladd y fab?	
920	Peth o gwedir y gerennydd, pwy a'y praw?	
921	Paham y mae mwy rheith y wadu affeith galanas	
922	Naw affeith lledrat y sydd	
923	Y wadu dwyn ci, neu edyn, llw un dyn	
924	O edyn hyt anifeil bychan mal hwch, neu afyr	
925	A ellir holi affeith o flaen llawruddyaeth?	150
926	Ot derfydd dwyn ci neu edyn [taled] y'r dyn y edyn	
927	O holir llei no gwerth ceynioc yn lledrat	
928	Y wadu dwyn pwnn march, neu eidion	
929	Y wadu gwerth cxx ^c , ac o cxx ^c hyt ym punt	
930	Y wadu o bunt allan, neu bwn march	
931	Y wadu dwyn amws yn lledrat	
932	Nyt a rheith yr gyrr pellach petwar gwr ar ugeint	
933	Ny ddichawn gwreic wryoc ymliw am ledrat	
934	Paham may mwy rheith y wadu affeith lladrat no lladrat?	
935	Paham nat cymeint rheith y wadu affeith lledrat	
936	Oes ledrat heb affeith?	151
937	A ellir holi affeith lledrat cynn y lledrat?	
938	Pwy ddyly gyru lledrat neu affeith?	
939	Pwy a gaiff yr affeit[h] gwedy y gyrru ef?	
940	Paha[m] y gyrr ynteu?	
941	A ddichawn arglwydd gymell y affeithieu?	
942	Peth o gyrr dyn, ny bo perchennoc da	
943	. . . yn llw yr amddiffynnwr e hun y wadu	
944	[N]aw affeith tan	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsg.
945	Nyt oes affeith eithyr y led[r]at llosc	
946	Gwerth y ty herwydd y gafayleu a delir	
947	Os treis ny bydd affeith iddaw	152
948	Pam y gyrr perchenco[c] y ty yr affeithyoedd hynny?	
949	Nyt oes affeith eithyr y ledrat llosc	
950	Nyt un werth pob ty a'e gilydd	
951	O llosgir ty am benn herwr nyt oes ladrat	
952	Fal hynn y bydd am groes	
953	Pawb a fo dylyet iddaw mewn peth a eill roi croes	
954	Fal hynn y mae am groes	
955	Llyma mal y dylyer am groes	
956	Ny ddyly neb gymryt croes heb y rhoddi rhac arall	153
957	Ny ddyly neb roddi croes y gymell da yn y dyddyeu	
958	Nyt croes a gymero gwreic gwryoc	
959	Pob peth a wnel gwraic wryawc, talet y gwr drosti	
960	Nyt croes eithyr a estynner a llaw	
961	Ny ddyly croes mewn messyryt	
962	Ny ellir am un groes, namyn un dial	
963	Ynghyfreith Hywel Dda ydd oedd y fach gymell y fechni	
964	Teir gwialen gymell	
965	Tri chleddyf arglwyddiaeth	
966	Un groes ny ellir y difwyn	153-54
967	Ny phery croes onyt o'r pryt y'r llall	
968	Nyt croes, croes absen	
969	Teir taryan sydd rhac croes	
970	Sef paham yw hynny	
971	Sef paham y cyrchir cyfreith?	
972	Paham y cwynir rhacddi?	
973	Rhei a ddyweit rhac croes difwyn neu ddiwat	
974	Ny ddyly cym ryt croes na'y rhoddi	
975	Ny ddyly neb roi croes rac arall	
976	Ny ddyly o cyfreith neb roddi croes rhac arall	
977	O rhoir rhyw groes honn lle ny ddlyo atdeb	155
978	Ni phery croes eithyr tra barhao yr arglwydd pieu hi	
979	Ef a ddyly pawb wneuthur yr croes	
980	Un groes nyt rheit y chymryt	
981	Tri arffedo[c] croes	
982	A chroes y cymellir: bruduw, a mechniaeth	
983	Ni ddichawn neb fod yn a[r]ddelw y dorri croes	
984	Teir ofer groes y sydd	
985	Ny ddyly croes mewn gwellt, can lleddir ef	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsg.
986	Ny ddily croes rhac anifeil fot	
987	Ny ddlyir rhoddi croes difwyn, neu ddiwat	
988	Fal llyma y may am lw gweilydd	
989	Sef yw llw gweilydd	156
990	A berthyn gyrr cyfreithyawl y gymell llw gweilydd?	
991	O gwatta dyn roddi llw gweilydd rhacddaw	
992	Ny ddlyir annot llw gweilydd am ledrat	
993	Hyn o ddynyon ni pherthyn iddun[t] roddi llw gw[e]ilydd	
994	Nyt gwys o gyfreith eithyr hwenn: ringyll	
995	Cyfreithya6l yw gwys a wneler ar ddyn y bore	
996	Gwys rhin gyll o'e sefyll	
997	Nyt oes ddyfyn o cyfreith, eithyr wrth gorff dyn e hun	157
998	Pwy bynnac a ddyfynner yn cyfreithyawl	
999	O dyfynnir dyn y'r dadleu, a bot esgussot drostaw	
1000	Ny ddilyir gwysyaw neb heb hawl pleit neu arglwydd	158
1001-02	Ny eill neb wysyaw oddieithyr y cymwt	
1003	Llyma mal y dily esgussodwr dyngu	
1004	Os o angeu yr esgussoda ef	
1005	Nyt gwys cyfreithiawl gwir yr esgussot	
1006	Fal llyma esgussodyon cyfreithyawl y omedd gwys	
1007	Ny ddilyir tremygu amddiffynnwr wr hyt hanner dydd	159
1008	O daw amddyffynwr wrth wys y orsedd	
1009	Llyna fal y dily ynat tremygu yr hawlwr	
1010	Naw nyn y credir eu tystiolaeth ar wahan	
1011	Tri onaddunt ny thyng y greir	160
1012	Effeiryat a dyng y verbum Dei	
1013	Mal llyma pa sawl ffordd y gwahenir a dyn y dda	161
1014	Deu ledrat y sydd	
1015	Pwy bynnac a ddycer y dda yn lledrat	
1016	O derfydd y ddyn wrthwynebu y dyn y bo y da ganthaw	
1017	Pan fo y dadleu . . . ef a'r da	162
1018	Ny bydd eneit faddeu hagen y dyn a laddo y ysgrybyl	
1019	Yn y dadleu cyntaf, pan ddycer y lleidyr y'r maes	
1020	Messuret yr hawlwr yna y hawl	
1021	Ac felly y dam dygir pob da	163
1022	Dywedet hefyt yr hawlwr yn y ddamdwng	
1023	Rhyw ledrat absen arall y sydd	
1024	Tri rhyw gyhyryn canastyr y sydd hagen o cyfreith	
1025	Fal hynn y may holi da cynrychawl o dreis	164
1026	Ny[t] cyfreithyawl cwyn am dreis eithyr drwy waedd	165
1027	Os yr ymddiffynwr a ddyweit	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
1028	Ny bydd eneit faddeu neb yr treis	166
1029	Llyma mal y perthyn cwynaw am dreis o dda cynyrchol	
1030	Treis anghynyrchawl yw hwnn a ddycer y ar ddy	
1031	Cyfreith Hywel a ddyweit nat oes dreis eithyr treis gwreir	167
1032	Am dreis morwyn fal hyn y may	
1033	Gwedy cwyno yn amserawl, a chyrchu y llys	168
1034	A ddichawn arglwydd y ddehol ynteu os myn?	
1035	O bydd lei hi no deudd ^d ec blwydd nyt rheit attep iddi	168-69
1036	[O]s treis gwreic a gwynir, cwynet o'r pryt bwygilydd	
1037	Ni ddichawn putteyn cwynaw cwyn treis	170
1038	Nyt a rheith yn ol daly a damdwng	
1039	Treis, a lledrat, ac angecyfarch, o byddant cynyrchawl	
1040	Am angecyfarch fal hynn y mae y holi	
1041	Llyma am angecyfarch cyn[yrchawl]	171
1042	Deu ryw angcyfarch y sydd	
1043	O dyweit yr hawlwr dwyn y dda o'e anfodd	
1044	O derfydd y ddynt ynteu welet y da yn gynyrchawl	173
1045	O derfydd y ddynt holi peth o angecyfarch y arall	175
1046	Os ef a ddyweit yr hawlwr: 'Y'r yneit a'e wyrda	176
1047	Sef mal y llyssir gwybyddeit o deir ffordd	177
1048	Nyt oes lys ar geitwat am y bo breinyawl ef	178
1049	O bydd dadleu am dir a daear rhwng deu ddynt	
1050	[G]wedy deler yna ar y tir gwnaet yr ynat yna ddwy bleit	179
1051	Ac yna y may yawn y'r ynat ofyn y'r hawlwr	
1052	Gwedy darffo uddunt y gynghawsseth drwy arch yr ynat	181
1053	O derfydd na bo rheit geir cyfarch	182
1054	Ny ellir cynghessaeth ar eir cyfarch yn y dydd hwnnw	183
1055	O derfydd y ynat, wedy darfo y hawlwr y holi	
1056	O derfydd ynat barnu camfrawt	
1057	Messur gobyr ynat am dir, xx ^c	184
1058	O derfydd y ynat barnu da y ddynt	
1059	Y neb a addawo wneuthu[r] cyfreith ac arall	
1060	Gorsedd cyfreithyawl yw lle bo ynat am fechniaeth	
1061	Ceissyaw gwneuthur yn dda a ddyly rhwng	
1062	Cyngaws a ymwystlo ac ynat, os difernir	
1063	[Y]nat a eill bot yn frawdwr, ac yn dyst, ar yr hynn	
1064	O derfydd y ynat bot yn angyffredin ymplith yneit ereill	
1065	O derfydd y un o'r dnyyon bieuffo y dadleu	
1066	Cyntaf dim y . . . y ffyrdd y gwahenir a dyn y dda	185
1067	Pwy bynnac a fynno lyssu ynat	
1068	Nyt oes lys ar ynat eithyr am a wnel	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsg.
1069	O derfydd y ynat oedi brawt	
1070	O derfydd y ddyn rhac bron ynat cyngheusaeth	186
1071	O derfydd y ddyn cyngheusaeth rhac bron ynat	
1072	O derfydd y ddyn cyngheussaeth rhac bron ynat	
1073	O derfydd y ddyn tystu peth rhac bron ynat	
1074	O derfydd ceissyaw llyssu ynat	187
1075	Pob amddiffynnwr a ddyly oet o cyfreith	
1076	Pob amddiffynnwr hagen a ddyly oet	
1077	Pwy bynnac a fynno ddywedut	
1078	Tri lle ydd a ynat yn dafodyawc	
1079	Teir brawt ameu y sydd	188
1080	Ny ellir ymwystlaw fyth ac ynat	188-89
1081	Os ynat a ymwystl ac ynat arall	
1082	Un dyn a enir yn frawdwr: arglwydd	
1083	Ny ellir ameu brawt eithyr drwy ymwystlaw	
1084	O derfydd y ddyn holi tir a daear y arall	
1085	O de[r]fydd y ynat roddi brawt	
1086	Nyt oes foddawc yngneiddyaeth	
1087	Llyma pa sawl ffordd y cyll ynat y eneit	
1088	Un o'r tri dyn ny ddylyir gwallaw arnaw	
1089	A ddyly pawb cymryt yn lle cyfreith	190
1090	A ddichawn pob arglwydd yn ol y gilydd wneuthur	
1091	Ynat a ddyly dysgu yn graff	
1092	Teir cyfreith y sydd	
1093	Ny ddyly ynat fot yn feddw	
1094	Ny ddyly ynat roddi brawt yn rhat	191
1095	O derfydd bot un o ddwy bleit rhac bron ynat	
1096	O derfydd bot geir cyfarch a gofyn yr hawlwr	
1097	O derfydd y gyngaws neu y ganllaw dystu mal hynn	
1098	O] bydd marw cyngaws neu ganllaw erbyn dydd	
1099	Ef a eill yr amddiffynnwr, gwedy ymrwymaw	
1100	Ef a eill y tafodeu cyfodi pan el yr yneit y'w cyngor	192
1101	Nac aet yr arglwydd o'e le tra fo yr ynat	
1102	Nyt rheit gwneuthur cyngaws a chanllaw	
1103	Ef a ellir gwneythur cyngaws am bob peth	
1104	Ny ddichawn clafwr fot yn gyngaws	
1105	Ny ddichawn crefyddwr a ymroddo y broffes	
1106	O rhydd cyngaws arfoll, neu gret, neu fach	
1107	Ny eill byddar fot yn gyngaws	
1108	Arglwydd a eill dros y alltut ymrwymaw yng [cyfraith]	
1109	Nyt godor ar gyngaws eiste yn agos ar yr ynat	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
1110	Ny ddyly cyngaws adaw y le, ac os gedy	
1111	Tystyet <i>cyn</i> gaws fal y clywo yr ynat a'r gwyrda	
1112	Ny ddyly na chyingaws, na chanllaw, na hawlwr	
1113	Ot eirch ynat deirgwaith y hawlwr ac amddiffynwr	
1114	O derfydd y dydd cyntaf y delit y'r maes a chyffroi	193
1115	O derfydd y'r hawlwr ceissyaw oet wrth borth	
1116	O derfydd y hawlwr holi tir a daear	
1117	O derfydd y ddyn holi tir a daear yn dadleu	
1118	O derfydd y <i>dd</i> yn holi tir a daear	194
1119	O derfydd y ddyn holi tir a daear, a chaffel yawn	
1120	O derfydd barnu oet ar dir a daear rhwng hawlwr	
1121	Pwy bynnac a holo tir a daear o ach ac etrif	
1122	Tri gwybyddyeit y sydd am dir	195
1123	Goreu ceitweit am dir yw gwyr breinyawl	
1124	Ny ellir ceitweit o alltudyon, nac o anaddfwyn	
1125	Pwy bynnac a fynno anaddfwyno ceitweit o'r ffyrdd	
1126	Messuraw hawl, a dywedut y fot yn briodawr	195-97
1127	Os ynteu a hawl tir o briodolder, a dywedut	197
1128	Ny eill neb ymwrthryn namyn deu ddyn a fo	197-99
1129	O derfydd ymwrthryn y rwng deu ddyn am dir a daear	
1130	Mal hynn y may am hawl vamwys	199-201
1131	Ny eill mab gwreic a gymero e hun yn llathlut holi tir	
1132	O derfydd y ddyn holi tir a daear o famwys	
1133	O derfydd y ddyn holi tir o famwys	
1134	O derfydd y ddyn holi tir o famwys	203
1135	Fal hynn y may am famwys	
1136	Datanudd, o derfydd y ddyn holi tir ohoney	
1137	Tri rhyw ddadanudd y sydd	
1138	Dywedet yr hawlwr, y fot y hun	203-04
1139	Ac fal y dywedassam ni uchof yr holir dadanudd	205
1140	O derfydd y ddyn holi datanudd âf ac eredic	
1141	Ny ddyly neb ddadanudd o dir, eiythyr o dir	206
1142	Pa diw bynnac y barner dadanudd	
1143	Pwy bynnac a ddel y ddadanudd y dref, .cxx. a dal	
1144	Ny ddyly neb holi dadanudd o ach ac edrif	
1145	O hawl brodyr dadanudd, yr hynaf a ddyly y dadanudd	
1146	Terfyn, fal hynn y may am hawl terfyn	
1147	O derfydd y ddyn mynnu ymderfynu a dy[n] arall	
1148	Dadyl derfyn hagen y cilyo gwlat y wrthaw	207
1149	O derfydd na ddylyo yr un o'r ddwy bleit y tir hwnn w	207-08
1150	O bydd datferwyr, a ddylyo dosparth dadyl derfyn	

Rhif yn y golygiad §	Cynnwys	Tudalen yn y llsgr.
1151	Ony bydd datferwyr, cyfreith a farn y gyngwarchadw	
1152	Messur rhandir, deuddec erw a thrychant	
1153	Pwy bynnac y cyfarffo terfyn llys y brenin a'y dir	
1154	O derfydd y ddyn mynnu terfynu ac arall	208-09

METHODOLEG (DULL Y GOLYGU)

Seilir y testun ar Beniarth 278 gyda darlleniadau amrywiol o Lanstephan 121 ac weithiau H.¹ Ar brydiau ychwanegwyd rhai geiriau neu gymalau coll o Lanstephan 121 neu H at y testun, dangosir hynny'n glir yn y troednodiadau.² Golygwyd y testun drwy baragraffu, rhannu'r geiriau, atalnodi, dyfynodi, a phriflythrennu yn ôl yr angen. Rhifwyd pob adran. Ar brydiau gwelwyd yr angen i lenwi geiriau coll ac ychwangeu penawdau at y testun, fe'u hychwanegwyd rhwng bachau petryal. Rhifau tudalennau'r llawysgrif yw'r rhifau yng nghorff y testun. Rhwng tt. 12-15 mae tudalennau'r llawysgrif wedi eu rhifo yn anghywir, a cheisiwyd unioni hynny yn y golygiad. Y geiriau mewn cromfachau yw'r geiriau sydd mewn cromfachau neu fachau petryal yn y testun: maent yn cynrychioli'r ychwanegiadau (diweddarach) a wnaethpwyd gan awdur H ac a nodwyd hefyd yn Llanstephan 121 a Pheniarth 278.³ Cofnodwyd popeth a newidwyd yn y testun yn y troednodiadau. Soniwyd uchod am arferiad Robert Vaughan o roi dotiau neu linellau o dan eiriau neu lythrennau amwys a chyfeirir at hyn hefyd yn y troednodiadau.⁴ Byrfoddau wedi eu hestyn yw'r llythrennau sydd wedi eu hitaleiddio. Mae [. . .] yn dynodi bwch yn y testun. Llenwyd rhai o'r bylchau pan fo darn cyfatebol mewn llawysgrifau eraill; pan nad oes cyfatebiaeth mewn llawysgrifau eraill peidiwyd â llenwi'r bylchau, os nad yw'r ystyr yn gwbl amlwg.

¹ Cyfeirir at y ddwy lsg. yn y troednodiadau fel Llan 121 a Pen 164.

² Newidwyd orgraff y dyfyniadau hynny i gyd-fynd ag orgraff Peniarth 278.

³ Gw. uchod t. 17.

⁴ Gw uchod, tt. 22-23.

Y TESTUN

LLAWYSGRIF LIGC, PENIARTH 278

[Trioedd Cyfreitha]

- §1. [t. 1] Tri defnydd hawl y sydd: gair, golwc, a gweithred.
- §2. Tri gwallawcair y sydd:⁵ gair y bo gweli tafawt amdano; gwallawcair yn y llys; a gwallawcair am ladd, neu losc, neu ledrat.
- §3. Tri tafawd weli y sydd: [y'r brenin] pan ddyweder yn hagr wrthaw; ail i frowdwr yn meddy[ly]aw y frawd yn y frawdle; trydydd, effeiriad yn y [egl]wy[s] [yn y tair gwyl] uchel. Pob sarhaed a gaffo effeiriad, holed drwy senedd, eythyr tafod weli . . . tafod weli sarhaed heb arddyrchafael: i. wynebwerth heb . . .
- §4. Tri gwallawcair y sydd: gair gwall yn holi rhwyf ac eissieu, a gwall y amddiffyn rhwyf neu eissieu, a gair gwadu. O'r cyntaf y cyll yr hawlwr fessur y hawl o'r⁶ a berthyno wrth y gair o tystir arnaw. O'r ail, ac o'r trydydd, y cyll yr amddiffynnwr camlw[r]w, a [difwyn] y hawl o'r a berthyno wrth y gair o thystir y wall.
- §5. Tri golwc [a d]ygir ynghyfraith: golwc tyst ar y dystiolaeth; golwc manac[wr ar y fanac]; a golwc llygatrudd cylus a[m] ladd, neu losc, neu ledrat.
- §6. Tri rhyw fanac cyfreithiawl y sydd; ac am bob un ohonynt y gossodir rheith [gwlat am ledrat] eythyr am dogyn fanac: cyntaf yw dogyn fanac lle [ca]ffer drwy . . . creddyfwr y gaffel yn y tri lle cyfreithiawl; ni bydd yn erbyn hynny

⁵ + gair y sydd llsgr.

⁶ ar llsgr.

namy[n] . . . leidyf, cany bydd eneit fadd[au] dyn yr gair arall a'e cyhoedda ef yn lleydyf ar feneyc;⁷ sef yw creddyfwr, effeiriad plwyf a . . . dyn plwyf. Eil yw tyngu o'r managwr gwybot a gwelet arnaw y [lledrat] lliw dydd goleu, mal y perthyn o gyfreith. Os gwrthdwng a wna, tair punt yw y gosb; os gwrthdwng a wna y dyn, rheith [f]yrriedic fydd, o palla teir punt . . . dyn ceissiau y dda yn y lle y typyo y fod neu⁸ weled llwdyn yn mynet y duy, ac na weled y ol yn dyfod allan . . . [t. 2] . . . y gosp o palla y rhaith. Ni byd reith am ladrad absen eythyr . . . un o'r rhei hynn, onit pallu a wnair o lw gweled y golledic . . . pell ir am reith rhait manac arnaw . . . [na]myn hynny y gynnill reith gwlat [y ganthaw]. O diwedir hawl a ddefnyddier o amrafael achwyssion [trwy un reith a perthyno wrth yr achaws mwy]af [oheni] y gwed[ir yr] hawl oll, canys pob un hawl byrry [un reith] . . . a ddyly, yny [gwatter].

- §7. Tair gweithred bellach a bair hawl: galanas a rhai o'i affeithiau, gweithred ladrad a rhai o'i affeithiau, gweithred losc a rhai o'i affeithiau. Galanas yw lladd dyn; llosc yw enynnu tan mewn peth a loscer; lledrad yw symudaw peth yn absen drwy y wadu. Peth bynnac a wnel gwr ynghylch y gweithred hyn affaith yw y wrthynt, ac wrth hynny . . . weithredoedd hynn anghyfreithiawl trwy gytsynnyaw . . . affeithiau, rai drwy olwc, eraill drwy eiriau, eraill drwy [weithred].
- §8. Tair gweithred syd ar braw, sef yw hynny, a ddl[y]ir y profi: un yw llafur cyfreithiawl megis torri [ffin], neu ffordd, neu hwylfa; ail yw gweithred llwdyn ar y llall ar geidwadaeth bugail trefgordd: y bugail a gredir yna, a thrwyddaw y profir hynny; trydydd, gweithred cydleidyf ar y llall od eddyf drwg arnaw dan y crogpren yn ddiobaith, a profi hynny, ac na cheiff na rheith na cheidweit yna.
- §9. Pob geir a fydd ar braw, eithyr tafawdruddaeth, lle bo affeithiau; canys reithiau gossodedic sydd yno, ac ni ddiffydd gwybyddieit raith o gyfraith.

⁷ aenyc llsg.

⁸ neu ei llsg.

§10. Tri ofer braw y sydd a gynnic dyn ac ni wrandewir o gyfreith: praw a gynco hawlwr i wiriaw y hawl wedy ateb o'r amdiffynwr iddi; eil yw praw a gynco amddiffynwr wedy ateb y hawl a chau yn y dadyl; trydydd, praw ar na wnaethbwyd peth y bo ymhawl amdanaw: canys anawdd yw profi y [t. 3] bu⁹ y peth ni bu; cany bu y peth ni wnaethbwyd etton, eissioes ef a ellir profi negyfiaeth lle bo.

[Arddelw]

§11. Tri pheth ni chyngein ynghyfreith: praw ar weithred, eithyr y teir hynn; a gwad dros wa[e]ssaf, sef yw hynny, gwadu hynn a elwit arddelw amdanaw gynt; a chof wedi brawt; ac obry y ceffi lle mae dewedyt am frawd¹⁰ beth yw cof wedy brawd.

§12. Tri rhyw waessaf cyfreithiawl y sydd: arddelw, ac arwayssaf, a gwarant am beth digyfodic, ac amddiffyn heb warant.

§13. Tri rhyw arddelw y sydd: arddelw o berchenogaeth da; ail yw a gymero da o law amddiffynwr, a'i ollwng yntau yn rhydd; trydydd, ardelu cyfreithiawl fal na ddylyer ateb y hawl.

§14. Deu ryw arddelw am dda sydd o berchonogaeth: un am da byw, hwnnw a berthyn y arddelw o'i eni a'i feithrin, ac nad aeth deirnos y ar y warchadw a'i berchenogaeth. Pam y dywedir hynny? O bydd deirnos yn ddi arddelw mewn [llaw arall,] yna y dylyir manegi i'r arglwydd y da; ni chyll y dyn y dda er henny, eythyr y ddamdwng yn y law ef, ac ni bydd arnaw ef am gynnal er hynny. Arddelw perchenogaeth o dda marw hwnnw a berthyn y gadw ganthaw cyn y golli oll . . . wna ef, a hwnnw hefyd a ddylyir arddelw nad aeth deirnos; ac ni ddylyir gwadu gyd ac arddelw, namyn dywedyd bod iddaw geidweid a

⁹ fi llsg.

¹⁰ frawd llsg.

gadwo y dda ganthaw; sef yw yr arddelw hwnn, diarffor i ymoglyd rhac yr hawl ac arfer o beth . . . gwell iddaw.

§15. Arddelw a gymero peth o law dyn a ddisgin o lawer [modd]; sef yw hwnnw, dywedyd y fenffygaw o hwnn a hwnn; neu y roddi yn adneu attaw; neu y gyfnewidiaw ac ef; neu y wystlaw iddaw; neu warchau anifail yn gyfreithiawl; a gwadu lledrad ac anghyfreith: ac nid cwawl addef ac nid cwawl wad, eythyr y haddef oll, neu y gwadu oll. Eissioes addef a berthyn yma dybod y da attaw, ac eissioes yn gyfreithiawl.

§16. Arddelw arall: dywedyd nad cyfreithiawl y cwyn neu [t. 4] yr hawl, ac na ddylir ateb iddi; sef yw hynny, gorsaf cyfreithiawl y beri y'r hawl sefyll; sef yw hynny, nad cyfreithiawl yr hawl na'r cwyn, ac na ddylir ateb y gwyn anghyfreithiawl; ac nyd gwad hynny, ac nyd addef yr hawl. Ai dyw[e]dyd na ddyleir ateb y ryw a'r hawlwr, a gyrry amraint arnaw; neu ddywedyd na dyly y rhyw ddyn a'r amdiffynnwr ateb yr hawl, nac i un hawl; a dywedyd y fod yn farn goll, ac na ddyleir ateb y hawl ddybryd o bydd fell[y]; ac nyd arddelw cyfrei[thi]awl yw . . . honno, namyn arddelw yn torri ac yn llesteir cyfreith cyn dylyir¹¹ y cymryd; canyt o cyfreith . . . urdeu, na nawdd sant, na chymyn, na chred, na phriodas, na diddymrwydd . . . o ddyn y dda pan arddelwo un o'r rhei hynny; canys ymwadu a chyfreith y mae . . . nad etyb un o'r tri ateb cyfreithiawl; sef yw¹² yr arddelw cyfreithiawl, a hwnnw ar alw¹³ a digawn bod o gyfraith yn a[r]ddelw drostaw na ddyleir . . . ay am cau o gyfreith rhwng y dyn a'y hawl; ac na ddyleir ateb lle cayo cyfreith.

§17. [Arddelw arall] a ddyleir bot am bob da cyfodedic . . . hydrym y holi a'i ddechreu a ffeidiaw a h[oli].

¹¹ dylyer yw'r ffurf gwreiddiol ond ysgrifennwyd 'i' dros yr 'e'.

¹² un . . . yw – llsg., + Llan 121.

¹³ alw llsg.

§18. [Arddelw arall] na ddyly bot am hawl fach a chynogyn, na bruduw . . . nad amserol, na chyfreithiawl, y cwyn y ateb . . . y amser ohonaw, megys cwyn am sarhaet, onyd o'r pryd hwn; . . . neu am alanas, onyt cyfreithiawl, ac yn oedeu cyfreithiawl y ddial celein . . . ay dywedyt na chynebryngwyt yr cwyn y'r llys yn gyfreithiawl; . . . [gw]euthur teithi¹⁴ treis lle bo; ay na yrwyd yr hawl yn gyfreithiawl, ay . . . er y da lle bo hynny; neu nad eddewis¹⁵ braw yn amserawl, cyn cau yn y dady[l]; neu addaw profi, lle perthyno gyrr, neu ddamdwng; neu ddamdwng, lle perthyno gyrr, ne[u] braw; neu gyrru lle perthyno pra[w]f, neu damdwnc a . . . [t. 5] y mae cywreinrwydd y ossod hawl ay cynhebrwnc . . . ; ay dywedud gwall air yn y llys, ac ymwrthod ac ymwellau deirgweith; cany ddylyir dalu a wellawceir hyd yny syrthyaw am dir deirgweith, neu cau cyfreith amd[anaw]. Os holir o'r ffyrdd y cay cyfreith rhwng dyn a'y ddylyet, ay anghyf[r]eithy[awl] y cwyn, or na bo perchennog y da y neb a cwyno amdanaw; neu . . . wyt ba ddylet i wrth arffedoc . . . cwyn; ay na bu wys cyfreithiawl y ateb yr hawl; neu na henwyd pa ryw da, neu pa ryw dir, neu pa dref, na pha feint, na wahaner. Pa ffordd y gwahaner a dyn y dda o'r sawl ffyrdd y sydd y . . . ; neu pa amser y bo yr hawl, ay dyddieu¹⁶ dyddon, ay Sul; neu edrych pa amser o'r dydd fo yr amser y cadeirier pleidieu ynghyfreith; neu na bo gan yr hawlwr y ddefnyddyeu oll ynnydd coll neu gaffael; neu a fo yr eilweith wedy bod gynt dosbarth amdanei, neu dygymot; neu na fo messur ar y hawl; canys dylly bod messur ar bob hawl; neu na henwer yr amddiffynnwr neu hawlwr erbyn y hen6 bedydd; neu edryc beth fo ai un hawlwr, ay dau, ay tri; canyt oes cyfreith rwng hawlwr ac amddiffynnwr, na rhwng amddiffynnwr a hawlwr, namyn rhwng hawlwr ac amddiffynnwr; neu edrych y . . . yr hawlwr¹⁷ ac ef yn cwynaw; neu a fo mach, neu fru duw . . . ; canys o bydd, cam yw y gwyn; neu a fo cwyn am dda cyn dyfot oet y dalu; neu ymrafelwyt y cwyn; neu a fo messur mwy noc a fu hawl yn y cwyn . . . hynny; wyntwy yw gwarant heb amddiffyn, sef yw hynny, ceidwad heb arddel[w], a llyna orsaf cyfreithiawl y beri iddi sefyll.

¹⁴ teithu llsg.

¹⁵ edewis llsg.

¹⁶ dyddieu - llsg., + Llan 121.

¹⁷ haulwr llsg.

Can darfu dywedyd o'r arddelwon cyfreithiawl, bellach llyma edrych . . .

- §19. . . . cyfreithiawl mwy neu peth yw lle gyrru [t. 6] dyn ar arall bot . . . ganyat y gychwyn y peth; neu haeru o'r amddiffynwr roddi o'r hawlwr iddaw y peth y mae yn y holi neu yn y delu; neu wystlaw . . . ; ae am henne bod iddaw digawn a wypo bod yn wir . . . panyt ardelw cyfreithiawl y rei hynn; cyfreith a ddyweit . . . y doter coll neu gaffael ymhen arall meg[ys] . . . neu amodwr, neu dyst, neu wybyddieit, neu orfodeit . . . neu arwaessaf, y gymryd drwc allan o law dyn; ceyt . . . rhei hynny oll na ellir eythyr gadu [iddynt] ballu eyt[h]yr y creyryau; neu sefyll os a . . . sefydloc y'r neb a'y galwe. Rhei o'r rhei hynn a allant ballu, hen . . . anaddunt; sef yw hwnnw, arddelw; a hwnnw nid rhaid y wyssyaw, na cheidwad¹⁸ hefyd, na gwybyddyat, ni wyssir hefyd.
- §20. Pob arddelw hagen ar y gyrrer arnaw peth megys rhoddi peth, neu¹⁹ dalu, neu fot bodd i gychwyn peth, neu y wystlaw peth a ellir i profi drwy wybyddieit os gwedir wynt; cany bydd arwaessaf neb eythyr y neb a henwir yn arwaessaf, neu lle y henwer arwaessaf.
- §21. Ail yw arwaessaf; sef yw hwnnw, lle rhoddo dyn y arwaessogaeth yna cadw y westi y'w gadw rhac drwg; sef lle y bydd hynny, am ledrad nos ac angcynyrchawl, am ffymigrwydd neu weithred ddybryd; cyt galler galw arwayssaf hefyd am ledrad yn llaw.
- §22. Trydyd yw gwarant am dda angyfodedyn; sef yw hynny, am dda angcychwynnawl, neu am lafur, neu beth ni weler ac a fo argy[weddus], neu am dorri tir neu âr; dywedud bod gwarant yddaw hynny, a henwi y warant.
- §23. Tri lle y lludd cyfreith y ddyn y arddelw: un, lle rhoddo dyn ympenn arddelw am dda yn llaw a hwnnw heb fod yn y maes, ny cheiff ef oed euthyr y aryw

¹⁸ Mae'r llythyren 'i' wedi ei hychwangeu uwchben y gair gyda marc *caret*.

¹⁹ + neu llsgr.

. . . ; eil, le rhoddo dyn y arddelw ympenn dyn ny ddylyo ateb y hawl; trydydd, lle rhoddo dyn [t. 7] y arddelw am beth y dylyo gwybyddyeit ympen . . . neu ympenn ceidweid lle dylyo gwybyddieit neu reith fod.

- §24. Tri pheth a ddyly gwarant ddiball y wneuthyr yn llys: gwrtheb yn ddiohir, ddiorsaf, drostaw e hun, a thros yr amddiffynnwr, a thros y da cynhennus; eil yw sefyll wrth cyfreith yn y dadyl am a berthyno arnaw drwy ddedfryd ynad; trydydd, gwneuthur cwbyl drostaw a thros yr amddiffynnwr a far[ner] uchof²⁰ [neu roddi] arddelw cyfreithiawl nad ateb.
- §25. Nyt oes wat y arddelw; canys dr . . . amddiffyn ynt.
- §26. Ny eyll arwaessaf wat eythyr ay gadw geni a meithrin, a cadw cyn coll, ae arddelw.
- §27. Nyt oes oet y arwaessaf cynyrchawl onyt . . .
- §28. Nid oes oed y arwaessaf anghynyrchol . . .

[Trioedd amrywiol]

- §29. Tri cymeinioc cyllid: amobyrr, ebediw, a gobyr estyn: fal y . . . y bydd pob un lle taler.
- §30. Tri dyn a dal abediwr heb dir: mab tan oed pedeir blwydd ar ddec, yna y dyly fyned ar y da e hun, ac ardrethu; a bonheddic canhwynawl; a gwr cyfarwyssawc.²¹

²⁰ uchof llsggr.

²¹ cyfaruwssawc llsggr.

- §31. Tri dyn a ardretha y arglwydd heb dir ar y helw: mab pedeir blwydd ar ddec pan el y luydd; gwr a talo tir yn waetir, cyllidiet drostaw; a rhoddyat merch, talet y hamobyr, cany bo tir iddaw.
- §32. Tri lle y diffydd gwybyddyeit rheith: lle caffer dogyn²² fanac am ledrad, ac am wys, ac atneu: canys yn erbyn praw ny ellir eu diwat drwy reith.
- §33. Tair cyflafan ni ddywygir: lladd pysc, a lladd dyfyrgi, a lladd costoc tom ac aryf o law yn ymddiffryd rhagddaw.
- §34. Tri pheth y dadanuddir aelwyd ohonunt: llech aelwyd, ac esgynfayn, ac a llawr llech odyn. Gwerth pob un or rhei hynny o cyfreit[h] . . .
- §35. Tri ergid gwalltan a delir: y ty cyntaf a enynno, a'r ail, a'r trydyd. O derfydd el gwynt y rhyngthunt, treissiwr yw yr tan, ac ni ddywygir o cyfreith o hynny allan.
- §36. [T]ri dyn ni farn cyfraith [t. 8] iddunt fynet y'w llw: cyngaws dros y neb a safo gyd ac ef; a rhyfab neu yeuanc; ac arddelw, eythyr lle yr arfero arddelw o geidweit, yna y tyng ef o'r blaen.

[Trioedd am Lwon]

- §37. Tri amryw lw sydd yn[ghyfraith]: llw unweith lle ni bo gyrr, llw tridyblic olynol lle bo gyrr cyfreithiawl; llw gwera tra gwera.
- §38. Tri lle y bydd twng unweith: lle arddawo dyn o wybyddyad, ny thyng ef eythyr unwaith o'i flaen; ac amddiffynwr o flaen ceidwat; amddiffynwr o flaen y reith; sef yw hyny, ar y amddiffynwr.

²² Mae'r gair wedi ei ychwanegu at y testun gyda marc *caret*.

- §39. Tri lle y bydd twng tridyblyc olynol: lle perthyno damdwng, teir gweith²³ y perthyn tyngu yna; eil, lle gyrru dyn drwy gwyn ar arall ladd celeyn, neu legrad, neu cyfryw beth; trydydd, lle caffer dogyn fanac, neu lle bo lliw.
- §40. Tri lle y bydd twng gwers tra gwers: ar fach, a bruduw, ac amodwr. Yr hawlwr²⁴ a dyng yn gyntaf y fod ef yn fach, yna y tyng ynteu nad ydiw, ynteu yna a dyng y fod, ac felly gwers tra gwers.
- §41. Tri ryw dwng y sydd: cadarnhau gwir gan dyngu drwyddaw berfedd; eil yw gwadu geu gan dyngu trwyddaw berfedd; trydydd yw tyngu peth pedrys herwydd cydwybod, yr hyn ny wyper yn ddiheu beth fo ae gwir ae geu: sef yw hynny, llw tebyc.
- §42. Ni bydd c[ynhen ar] leidyrr gwerth yny fo llw yn y tri lle: ar ddrws eglwys, ar gangell o cer . . . , ac allawr.
- §43. Ny bydd reith ar leidyrr cyswyn oni fo manac yn y llys arnaw a gyrr.

[Gwybyddiaid a thystion]

- §44. Tri amrafel ddyall a gwahan y sydd rhwng gwybyddyeyt a thystyon: gwybyddyeyt am a fu,²⁵ cyn ymhawl ac a ddygant tystiolaeth, ac nyt [ef y dwc] tystyon. Ail yw, gwybyddyeyt pieu detfryd²⁶ eu gwybod [ynghyfreith] a dystyer uddunt, ac nyt ef pieu tystyon. Trydydd yw gwybyddyeyt pieu dwyn tystiolaeth [t. 9] yn erbyn gwat ac amddiffyn; sef yw hynny, gwybyddyeyt pieu profi gwir gwedy geu, ac nys pieu tystyon.
- §45. Teir ffordd hefyd y mae cadarnach gwybyddyeyt na thystyon: un yw gallu dwyn lliaws o wybyddyeyt am un peth ynghyfreith neu un gwybyddyat, megys

²³ gweith – llsg., + Llan 121.

²⁴ Ychwanegwyd y llythyren ‘r’ uwchben y gair gyda marc caret.

²⁵ a fydd am fot llsg.

²⁶ deteryd llsg.

mach, ac ny ellir dwyn na mwy na llai no²⁷ dau dyst. Eil yw gallu dirwyaw [dyn neu y werthu] drwy wybyddyeit, ac nys gellir drwy dystyon. Trydydd yw gallu ohonunt profi yn erbyn gwad ac amddiffyn, ac nis dichawn tystyon.

§46. Ni ddylir rwymaw un dadyl trwy dystyolaeth ar wallawceir heb ganyat brenin, or perthyn arnaw neu fwy am y dadyl oni thystir; canys or llysir, ni cheiff [y brenin dim; ac ony llysir, ni cheiff] mwy no chamlwrw.²⁸

§47. Gwybyddyeit ympob lle, grym tystyon a gynhalyant, a chystal a allant ac a ddichawn tystyon; ac nyd felly y dichawn tystyon yn lle gwybyddyeit.

§48. Y neb a fynno difwynaw tystyolaeth²⁹ farwawl, aet yn erbyn neb a'e tysto. Y neb a fynno llysu tystyolaeth fywawl, aet yn erbyn y tystyon, yn gyntaf ar³⁰ eu geirieu; ac oddyna wedy eu llw; tynged nad tyst cyfreithiawl arnaw, ac enwet yr echaws, ae dywedut tyngu anudon o'r tyst, a thystyret yr ddeu hynef nat aeth y tyst yn y erbyn yr achaws y llyswyd ef; a'r ddeu wr hynny yw y gwrthdystyon, a dilys fyddant, ac ni ellir eu llysu.

§49. Galwedigaeth gwybyddyeit³¹ fydd yn amserawl ae cyn gwat ac amddiffyn, ae gwedy; sef yw hynny, neu adawo gwybyddyeit; canys yr hynn a fu cynn y dadyl a brofant rhwng y pleidiau.

§50. Gwrthueb tystyon yw pan ymddangossent gyntaf yn erbyn a[m]ddiffynnwr o'r achwyssyon hyn: ae o anudon cyhoeddoc, ae yspeil cyhoedd[oc], ae³² yn lledrat, neu dreis ar heddwch, neu os cymundawt ger y enw, neu o ddigassedd honneid yn erbyn yr amddiffynnwr, a chyfryw a hynny cyn mynet yn y cof. Ony ddichawn ef eu gwrthneu wynt yn gyfreithyawl, wedy hynny llyser hwynt mal

²⁷ Mae ôl dileu rhwng y geiriau 'llai' a 'no'.

²⁸ can llsg.

²⁹ tystystyolaeth llsg.

³⁰ ac llsg.

³¹ Mae'r gair hwn fel pe bai wedi ei ysgrifennu ar ben gair arall.

³² + a llsg.

[t. 10] tystyon neu wybyddyeyt, ae o elynaeth heb ymddifwyn, ae o tirdra, ae o wreigtra, mal y dywetpwyd yn y llyfr praw.

- §51. Teir tystiolaeth ddilys y sydd: tystiolaeth llys y ddwyn cof, tystiolaeth gwybyddyeyt dilyssiant, a thystiolaeth gwrthdystyon.
- §52. Tri lle y tywys cof llys am derfynu dadyl neu gyngaws: un yn haeru y therfynu, ac arall naddo; ail yw am anghyfraith a wnel arglwydd a'e wr yn y llys; trydydd am gythundeb [dwy bleit].³³

[Rhannu tir]

- §53. Tri peth ni ddyly cytiryogyon eu rhannu: derwgoet, a do6y[n] wern, a cherrig.
- §54. Tri adeilad ni rennir: melin, a pherllan, a chored.

[Sarhaed]

Deuparth gweith yw y dechreu. Trioed kyfreith:³⁴

- §55. Tri modd y sarheir brenin Aberffraw heb roi llaw arnaw: un yw torri y naw[dd] lle bo cyfryfel rhwng dwy wlad; ail yw lladd y gennat, neu ladd y wr lle rhoddo nawd iddaw yn y wydd; trydydd yw camarferu o'e wraig. Am bob un o'r tri hynn y dylu ef can muw am bob cantref o'e d[e]yrnas, a tharw gan bob can muw, a gwialen aryant a'r ffiol eur a'r cufert arnei. Os Cymro fydd a dorro y nawdd 2 *punt*. Os alltud a'i sarhaa felly, teir punt a thri ugein punt a dal; sef yw hwnnw, gwr ny bo Cymro fam dad.

³³ Ychwanegwyd nodyn mewn pensil ar ymyl y ddalen yn dweud 'dalen ygholl'. Mae nodyn tebyg yn Llan 121, cyfeirir felly at ddiffyg dalen yn Pen 164.

³⁴ Deuparth . . . kyfreith – llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

- §56. Tri modd y sarhaer y rhiein freinyat; .i. y frenhines: un yw torri y nawdd yn yr amser y mae nawdd iddi drwy sarhau y neb a'y cyrchawdd yn y gwydd; ail yw y tharaw hitheu yr amarch iddi; trydydd, y threissiw am beth o'e [I]law. Trayan sarhaed y brenin yw y sarhaed yna, heb y wialen aryant a'r ffiol. Yr edlyc a ddyly sarhaed cymeint a'r brenin, eythyr y wialen a'r ffiol.
- §57. Tri meib ni cheiff y tyddyn breinyawl er y bod yeuaf: mab y frenin Aberffraw, canys yr hynaf a'e ceiff; a mab gwreic a gaffo tir o famwys; a mab a rodder ar faeth ar fab eillt o ganyat arglwydd, cyd caffo ef dir ni cheiff ef y tyddyn.
- §58. [t. 11] Tri peth ni ddyly y brenin fod hebddun (.i. anhebcor): ynad llys, a bard teulu, ac effeiryad.
- §59. Tri wrlyys a ddyly y frenines: croen beleu, a llostlydan, a charlwng.
- §60. Tri pheth y sydd reit y wadu pan watter sarhaet: mefyl na sarhaet; na dyrchaf na gosod; [n]a gwaed na gweli: nac iddaw ef, nac y'w arglwydd, nac y'w genedyl.
- §61. Teir sarhaed nyd ardderchefir: sarhaed brenin am dorri i nawdd, neu ladd y gennad; a sarhaed a daler am ladd celain; a sarhaed alltud.
- §62. Tri angyfarch gwr pan ysgaro a'i wraig: y farch, y arfeu oll; a thwnc y dir (mal yr el i luydd, nys rhann a neb); trydydd yw y wynebwerth, a ddel iddaw am adel bod genthi y arall: ni cheiff hi ran pan ysgaroent ohonunt.
- §63. Tri anghyfarch gwreic pan ysgaro a'e gwr (y tri phrifrei): y chowyll; a'e hwynebwerth, am fod o'e gwr gan wreig arall, yr amarch iddi; a'e sarhaet, sef yw hynny, os maedd y gwr hi a hi yn wirion: a llyna gam gosp o gyfraith.

- §64. Tri gweli tafawt ny thelir namyn y arglwydd: dirwy anostec yn y dadleu (pe caffei y dyn yawn am³⁵ ymgeiniau ac ef); ail yw torri tylluedd rhwng deu ddadleuwr, lle gatter cyfreith ryngthunt; trydydd yw ymgeiniaw o ddyn a'r llall yn llys arglwydd wedy gossoder nawdd yn un o'r teir gwyl arbennic.
- §65. Tri dyn y telir gweli tafawt uddynt: ynad yn meddylyaw am y frawd yn y frawdle; ac effeiriad yn y wenwisc yn darllein llyfreu wylieu uchel; trydydd yw y arglwydd pressennawl: sef a delir uddunt, wynebwerth, .i. sarhaed heb ddyrchafael (y arglwydd anreith a'e gwnel).
- §66. Tri dyn y degymir³⁶ uddunt: personeu Crist y degwm; ac ynad a gaiff y ddecfed geinioc o'r a farno arno, eithyr le dieithrir (pan damdyngo dyn y dda); a managwr a gaiff obyr manac; sef yw, y ddegfed geinioc a dalo y peth a fanacco. Ny cheiff ynad y decfed am dir, [n]a lladrad, na gwerth celein, nac ymladd, eythyr pedeir ar ugeint.
- §67. [T]ri thwryf cyfreithiawl [t. 12] y sydd: lladd cel[e]in ar y tir ymrysonedic, o lladd yn lle arall onyt yno, nyt cyfreithiawl; a llosci ty ar y tir; a thorri aradyr ar y tir hwnnw: sef yw eniwet, cwyn am dda cychwynnawl darfot yn un wlad ac ef a llafassu hynny, a chynn un dydd a blwyddyn; ac onys gwneir erbyn hynny, ni wrandewir; eythyr am hawl fach neu fryduw.

[Gwragedd]

- §68. O dri achos [n]y cyll gwreic y hagwedy ced addawo y gwr: o'e fod yn gla[f]wr, ac o'e fod yn ddrewedic y anadyl, ac or na allo fod ganthi yn dda.
- §69. Teir gweith y ceiff gwreic wynebwerth, nyd amgen, pan gaffo y tri prifrei³⁷ (sef yw wynebwerth pawb, y sarhaed heb ddyrchafael): y hwynebwerth y weith

³⁵ Ychwanegwyd yr 'm' mewn llaw ddiweddarach ar ymyl y ddalen, yn llaw Moses Williams efallai.

³⁶ dygymir llsg.

³⁷ prifoi llsg.

gyntaf y caffo wreic gyd a'e gwr, cxx. gan y gwr a ddyly; y eil, punt; y drydedd [weith], hi a eill ysgar ac ef, os myn.

- §70. Teir gorsaf gwreic: pan gysger genthi gyntaf, ny ddyly fyned oddyno hyd ympen y nawfet nos wrth ymgynfeinaw a'e gwr; a phan ysgaro a'e gwr, ny ddyly gychwyn o'r ty hyd ympen y nawfed dydd, ac yna myned yn ol yr eiddi oll; a phan fo marw y gwr, ni ddyly fyned o'r ty hyd ympenn y naw[f]jed dydd, ac yna mynet, onyt ymarddelw o'e bod yn feichioc; hi a ddyly oed yna, wrth y harddelw, drwy rodi mach ar . . . ix. ugeint o palla y harddelw iddi; canys y harddelw bot yn was y beichiogi.

[Trioedd amrywiol]

- §71. Tri charelyn dyn: tan, a dwfyr, ac arglwydd: sef achaws yw, arglwydd a ddienyda y naill frawd, ac a ddial y llall; ail yw tan a lyse y naill brawd, ac a ddiffer y llall rhac rhyn ac anwyd; trydydd yw dwfyr a fawdd y naill frawd, ac a ddiffer y llall o syched, neu o beth arall.

- §72. Tri cyfoethu³⁸ llys: ynad, a meddic, a bardd: sef yw y cowyll . . .

- §73. Teir palfawd fechni: cyntaf yw o pryn dyn peth y gan arall, ac erchi mach ohonaw ar y da gan y neb a'e gwerthws: 'Mi a'i rhoddaf,' heb y dyn, a rhoddi y llaw ohonaw yn llaw y mach, ac na ddel y dyn a dlei cymryt y mach y'w cymryt gan y mach, ac y rodidi y law yn llaw y mach, namyn ystynnu y law parth a'r mach, a'r mach parth ac ynteu, a thebygu bod en ddigawn hynny. Cyfreith a ddyweit nad grym y fechniaeth honno [t. 12b] yn y dydd y bo ef reit wrthi, cany medrwyd y cymryt yn yawn. Cyd mach ef y gan y neb a'i rhoddes yn fach, am fynet y llaw yn y llall iddun[t] wy, nyt mach ef y'r a'e dlei y gymryt, am nat aeth y llaw yn y llall. Eil yw, o derfydd y ddyn prynu peth gan y llall ac erchi mach ar y peth hwnnw, a dywedyd o'r dyn a'e gwerthws: 'Mi a roddaf fach,' ac ystynnu y law parth a'r mach, ac o'r mach parth ac attaw ynteu, a rodidi o'r

mach y law yn llaw y neb a'e gwerthws y da, na mynet yn fach iddaw. Cyfreith a ddyweit yna y fod ef yn fach y'r gwr a'y cymyrth yn gyfreithiawl, ac nad mach ynteu y gan y gwr nys rhoddes yn ancyfreithiawl [iddaw]; onyt oes le iddaw y cymello y fechni, digwyddet ynteu e hun yn y gofid a ddel o'r fechniaeth honno. Trydydd yw, o derfydd y ddyn cymryt mach y arall ar beth yn y absen, a dybot roddiawdyr,³⁹ y mach a rhoddi y fechni yn llaw y mach, a henwi y dyn nid ydiw yn y lle, a roddi y law yn llaw y mach fal nad ydoedd cyfreithiawl, a dybod y mach a'r procurator yr hwnn y sydd yn lle y dyn yr henwyd y fechni iddaw, a rhoddi y fechni iddaw a'r llaw yn y gilydd, a'e henwi o'r mach yr hwnn nyt ydiw yn y lle hefyd y fod ef yn fach. Cyfreith a ddyweit na rymya y fechni honno; sef paham, cynn el y llaw yn y gilydd y bob un o'r tri y buant, am y fechni ny henwyd hi y'r procurator hwnn a'y cymyrth, wrth hynny ni ddyly ef na'r fechni na'r hawl. Pei henwai y mach y hwnnw y fechni, rheit fyddei iddaw e hun talu y tal y'r gwr yr henwyd iddaw y fechni, ac nad ydoedd yn y lle, nys dylu; cany chymyrth y fechni o law y mach fal y dylei, ac am hynny na rymia hitheu, ac am hynny y gelwir wynt y teir palfawt fechni. Sef ystyr⁴⁰ yw, anwyt y balyf yw rwymmaw y dwrn pan wrthnepper hi, a phan dynner hi drachefen ellwng y rhwym, ac am hynny nid diffleis y rhwym hitheu, ac am hynny na seif y mechniaetheu; canys y naill benn y'r balyf sydd egored a'r llall yn rhwym.

- §74. Tri lle y telir tystiolaeth ar anifail: [t. 12c] un yw, o derfydd y ddyn lladd ci dyn arall, a'r dyn bieuffo y ci yn dywedyt y fod yn fugeilgi, a'r llall yn y ammeu, rheit yw y'r neb bieuffo y ci bod iddaw gymydoc uwch law ac arall is law y gadw y fod yn fugeilgi, a'y weled y bore yn mynet ymlaen yr ysgrybyl a'r nos yn dyfot yn y hol adref. Eil yw, o derfydd i gi wneuthur cyflafan, neu ddwy, neu deir, a'i ddiheuraw o bob un o'r ddwy, ne[u] dalu drostaw, ac ar y drydedd holi o'r dyn y gwnaeth ef eisiwet iddo, a bod y perchennawc yn ceisiaw deheuraw y gi, a'r hawlwr yn dywedyt nas geill o'e fot yn gynefodic ar frathu,

³⁸ cyfoethu llsg.

³⁹ roddi roddiawdyr llsg.

⁴⁰ ystyr – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

ac yn ceissiw am hynny y rwymaw wrth y droet, 2 *punt* y'w ladd mal yr eirch; cyfreith yna y dyweit o geil[*l*] brofi hynny y dyly. Trydydd yw, o derfydd y ddyn ladd ci cynddeiriawc, a'e holi o berchennoc y ci ef, a dywedut nad oedd gynddeiriawc y ci, a'r llall yn profi y fod; cyfreith a ddyweit y geill y brofi. Sef mal y profir: y welet yn ymladd a chwn, neu a dynyon, neu wedi yssu y dafawt o ofit yr heint, ac os praw rhydd yw y ladd. Sef bydd cynddaredd y gi: yn y ddeint. Y ych, neu fuch, neu berchennoc corn: yn y gorn. Y farch: yn y garn. Y ddyn: yn y ddaint hefyd, a rhag y gofit o'r lle honno y cnoant eu tafodau.

- §75. Teir gwragedd ny ddyly eu gwyr yawn y ganthunt am eu godineb, os gwnant: un yw gwreic a ddycer llathlut; cet gwnel y'r gwr arall a fo da genthi, ni ddyly gwneuthu[*r*] yawn y'r gwr a'e duc lathlut, ony chafas y hagwedy pan aeth y wrthaw. Eil yw gwreic a gyscer genthi yn gyhoeddawc o garaddas; ced gwnel honno y'r gwr arall, ny ddyly y gwr cyntaf a gysgws genthi un yawn. Trydydd yw gwreic lwyn a pherth, ny ddyly y gordderch y genthi un yawn, cyt gwnel aniweirdeb, a chymryt un arall. O myn ynteu, y gwr cyntaf a ddywedassam uchod, beidiaw a rhyw wreig honno am [*y*] godineb, ny ddyly hi un yawn y gan y gwr pan el ymaith; ac nys dyly yr eil gwr.
- §76. Tri gweli arberigyl: dyrnawd penn hyd yr emennydd, a [*t. 13*] dyrnawd corff hyd yr emysger, a thorri un o'r ped[*war*] post a gwerth cyfreith arnunt.
- §77. Tri argae llys: drws y porth, drws y neuadd, drws yr ystafell: can[*y*]s y rhei hynny a lesteiryan ddynyon y'r llys, ac ny ddyly neb ddyfod drwyddynt heb ganyat.
- §78. Tri pheth a ddyly y mab ieuaf yn ragor rhag y frodyr, heb y tyddyn breynyawl a'r tei heb fynet gwynt rhyngthunt: un yw telyn; ail, tawlbwrdd; trydydd, cwlltyr.
- §79. Tri anghyfarch addefedic ni ddlyir eu difwyn: dwyn cassec y gorffaw daly e hebawl yn llygru yt; a dwyn march, neu gasec, y rybyddiaw gwlat rhac cyrch a

llu gorwlad; a dwyn march, neu gassec, y geysseyaw effeiryat y ddyw ymperygyl, neu feddic, rhac y golli heb gymyn, neu eissieu meddic.

- §80. Teir buch a ddyly brenin: buch a ddyco cyngellawr yn attafael gwestfa y breni[n]fa y brenin; a buch a gaffer gan ddyw dr . . . y ran o anreith gorwlad; a buch luyd, a buch wyl For.
- §81. Tri gweith o bydd y gof yn y wneuthu[r], od eir yn y bwyll; sef yw hynny, yn oleuat, ef a ddyly wynebwerth: cyll cwlltyr, a thedyf bwyall, a gwarthaf gant callawr. A'r tri gweith hynny ni ddyly y gof llys y wneuthur y neb yn rhat: penn gwayw, a chyll cwlltyr, a chant callawr.
- §82. Tri lle y rhan cyfreith yn ddau hanner: cyntaf, rhwng deu froder cyhyt eu gwarchad[w], a thyngu o bob un y d[e]r6yn⁴¹ yn yawn, yawn⁴² yw y gyfreith yna rannu yn ddeu hanner; a mach wedi y bo marw y cynnogyn, ef a dal hanner y da e hun y'r hawlwr yna, neu onid . . . y cynnogyn. Trydydd lle, pan derfyner o gyfreith, pryt nas gwypo gwlad.

[Chwedl Maelgwn]

- §83. Tri mechdeyrn dyledoc a ddyly gwladychu Cymru oll dan y therfynau: brenin Aberffraw, arglwyd Dinefwr, a hwnn Mathrafal.
- §84. Teir prif lys arbennic sydd i'r tri theyrn hynn, yn essaydynneu breynyawl iddunt: un yw Aberffraw yn Gwynedd, Dinefwr yn y Deheu, Mathrafal [t. 13b] Wynfa ym Powys: a llyna mal y dosparthwyd eu tehyrnas wynt yn deir rhan. Un bieu uchafiaeth ar y ddwy, nyt amgen noc Aberffraw pieu y pendifigaeth.
- §85. Tri yeirll y sydd danai hi: iarll Caerllion, a iarll Dinefwr, ac iarll Mathrafal.

⁴¹ *dr6yn* llsgr.

⁴² Rhoddwyd 'a' ychwanegol uwch ben y gair gyda marc *caret*: yaqan Llan 121, yawan Pen 164.

- §86. Teir rhan ydoedd y Deheu: Rhiennwc, .i. gwlad Rhein; a Rhiellwc; a Morgannwc. Maeldaf hynaf ab Unwch Unarchen a beris Uaelgwn Gwynedd y wyr cael y breint cyntaf: cyn boed mwyaf o gantrefoedd yn y Deheu, uchaf yw breint Gwynedd. Pennaf cynghellawrdref ynGhymry yw Penardd yn Arfon. Maeldaf bioedd honno.
- §87. Teir mechdeyrn ddylyet a ddylyir o Gymry oll: Aberffra[w] gan y ddwy lys, hynny a ddyly, un o Ddinewr; sef yw honno, melget pedeir tunell o fel a gaffei pedeir mu ympob tunell, dwy grenneit ympob mu, llwyth deu wr ar drossol ympob grenn. Peillget o Wynfa a[r] y modd hwnnw hefyt.
- §88. Teir punt a thrugein punt a dalei frenin Aberffraw y frenin Lloegyr; yna y gelwit ef frenin Llundein, canys amyl oedd brenhinedd gynt yn Lloegyr: sef y talei ef hynny, yn obyr estyn pan gymerei estyn ar y freint.

[Arfau]

- §89. Tri pheth sydd reit y gynnal y dehyrnas: arglwydd, arfeu, a chyfreith: arglwydd y gynnal cyfreith, cyfreith y gynnal heddwch, arfeu y gynnal rhyfel ar neb a wrthotto heddwch.
- §90. Tri arfeu heddwch brenin y sydd; sef yw y rhei hynny, teir gwialen cymell brenin: nyt amgen, croes; a⁴³ gwys; a cha[rchar].
- §91. Teir amryw arfeu ryfel cyfreithiawl: cleddyf a chyllell, gwayw a tharian, a bwa a saetheu: canys gwerth cyfreithiawl y sydd arnunt.
- §92. Tri chleddyf cyfreithiawl y sydd: cleddyf breulif, a gwrymseit, a gwynseit.
- §93. Teir gorsaf⁴⁴ gwayw mewn da[d]leu: un yw taraw y arlllost yn y ddayar ac un llaw, yny fo a⁴⁵ braidd y dynnu a dwylaw; eil, y rodidi ar berth uch no pen gwr,

ac oni bydd uch y berth no phen dyn, a bri[w]aw dyn gan y gwayw, talet y'r dyn y sarhaet; trydydd, gossot penn y gwayw mewn [t. 14] . . . dros y fron, ac yna ni thal y perchennoc ddim dros . . .

§94. Tri⁴⁶ gorsaf cleddyf, neu fwa: drws mynwent, a dadleu ac . . . : [lle] y gadawer yr aryf, ni ddylir y dwyn wynt o'r lle hynny⁴⁷ . . .

[Y brenin a'i lys]

§95. Teir rhan y cyfansoddedd cyfreith Hywel: un, cyfreith llys peunyddyawl; eil yw cyfreith y wlad; trydedd ran, arfer cyfreithiawl o bob un ohonunt.

§96. Ti a geffy [fry] y tri arfer cyfreithiawl sydd y gyfreith.

§97. Tri amryw ddynyon a ddyly canhymddas y brenin ar feirch: y pedwar swyddawc ar ugeint, a'e deulu, a'e wyrda.

§98. Tri amryw ddynyon a'y canhymda ar draet: . . . facwyfyeit, a'e gerddoryon.

§99. Teir gweith y pedwar swyddawc ar ugeint a ddyly brethynwisc a llieinwisc a ddylyant. Dwywaith y caiff y rhingyll a'r gwylywr ddillad gan y brenin.

§100. Teir rhan y ddyly neuadd y brenin y chyfansoddi: un uch coryf, yna y bydd y brenin yn eistedd yn gyntaf; sef yw uch coryf, uch celfi, a'e gefyn wrth y celfi ydd eiste y brenin. Tri dyn a eistedd gyd ac ef yn y llys yn y teir gwyl arbennic: cyntaf yr eiste gyt ac ef ar y g . . . y cangellawr . . . Tri dyn a fydd gar y fron: [troediog . . .], canhwyllydd yn cyweiriaw canwylleu, y meddic ymmon y colofen yn dysgu iddaw y bwyd a ddylyo y fwytta.

⁴³ a - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁴⁴ gorsafa llsg.

⁴⁵ a - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁴⁶ Teir Pen 164.

⁴⁷ hynny - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

- §101. Eil, is coryf: yna yr eiste yr edling beunydd; a'r ynad llys rhyngthaw a'r golofyn; o'r parth arall yr effeiryat teulu; wedy hynny y pencerdd: llyna y tri dyn sydd a deddyf le iddun[t] a'y cefyn a[r] y pared. Teir rhan y rhennir y swyddwyr: y trayan i'r brenhin⁴⁸ . . . Y gof llys a ddyly eiste mewn cadeir gar bron yr ynad. Y golofyn honno a ddyly y gostegwr y maeddu⁴⁹ y erchi gostec o'r tu y wrth y brenin.
- §102. Trydedd rhan yr neuadd yw y tal issaf: yno y ddyly y penteulu eiste, a'e law asseu ar y tal-ddrws, a'y deulu ganthaw mal y mynno y cyfeistyddyaw; a'r bardd teulu gar y fronn mewn cadeir. Lle y pencynydd [t. 14b] yn y neuadd is coryf, .i. is celfy, a'r cynyddion ganthaw. Lle y pengwastrawd, is coryf, a[m] y celfy a'r brenin, a'r gwastrodion ganthaw: llyna y pedwar cadeiryawc ar ddec a ddyly bod yn y llys.
- §103. Teir seic a ddyly y distein y gossod yn y llys: un garbron y brenin, ac un o bob tu iddaw y'r⁵⁰ rhei nessaf.
- §104. Tri dyn a ddyly cowyll yn llys: ynad pan estynner . . . a ddyly modrwy eur a thawlbwrdd; bardd pan estynner swydd a ddyly modrwy eur a thelyn; tryllyat a ddyly y bwyt a fo pen y . . .
- §105. Tri dyn a myyt bwyd y brenin: cog, a thrullyat, a swyddwr llys.
- §106. Tri swyddawc a wasnaetha y brenin o'i heiste: ynat, a throedyawc, a phencerdd: sef yw hynny, bardd cadeiriawc a wypo peth a ddel rhag llaw o gerdd Taliessyn.

⁴⁸ brenhines llsg.

⁴⁹ Rhoddwyd dotiau o dan yr 'a' yn y llsg. ond mae maeddu yn gwneud synnwyr yma yn hytrach na meddu.

⁵⁰ yr llsg.

- §107. Tri dyn yn y llys sydd un werth y corn a'r brenin: edling, a'r penteulu, a'r pencynydd: canys pan fo marw hwynt y brenin a'i dyly oll.
- §108. Tri swyddawc nid oes uddunt frethynwisc, ac . . . hynny swyddwyr donawc y llys: nyt amgen, y cymyner⁵¹ ar⁵² . . . golchwryes:⁵³ nyt oes hefyt dir rydd idunt⁵⁴ ar y⁵⁵ . . .
- §109. Tri swyddawc . . . y may or ryd iddunt ae b . . . dev . . . awd na brethynwisc. Ny . . . ohonunt . . . lys a maer bisweil . . .⁵⁶
- §110. Tri swyddawc llys ny . . .
- §111. Tri dyn y telir eur ac aryant a gwarthec yn y galanas: brenin Aberffraw, a Dinefwr, a Mathrafal, o bob un.
- §112. Tri dyn ny thelir eur nac aryant yn sarhaet na[’e] alanas: penteulu, a'r frenhines, a'r effeiriad teulu: canys trayan sarhaed y brenin neu y alanas yw hynn. Y penteulu, neu y frenhines, heb eur heb aryant; sarhaet yr [t. 15] effeiryat yw deuddeng muw.
- §113. Teir sarhaet a ddyly y brenin rann ohonunt: honn y frenhines, honn yr effeiriad teulu, sarhaet celein: y ddeuparth o'r ddwy cyntaf, a'r trayan o'r olaf: ac am hynny y dywedir y dyly y brenin trayan y sarhaedeu mal trayan y galanasseu.
- §114. Tri dyn a ddyly eurdlysseu yn llys: ynat, a phencerdd, a bardd teulu: a'r ynat a ddyly y ganth[ynt] wy y heurdlysseu.

⁵¹ cy llsgr., ky Llan 121, cymyner Pen 164.

⁵² ar - llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

⁵³ Mae'r llythyren 'y' wedi ei hychwanegu uwch ben y gair gyda marc *caret*.

⁵⁴ iden llsgr.

⁵⁵ ar y - llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

⁵⁶ y . . . bisweil - llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

- §115. Tri dyn sydd well eu breint o’ e heiste noc o’ e sefyll: ynat yn y frawdle, o sarheir o weli tafawt; pencerdd, sef yw hwnnw, bardd a ynillo cadeir, sef yw hwnnw, a wyppo darongangerdd Talyessin, a gwerth pob canu; troydyawc, y freint yw eiste dan droet y brenin, ac yna y mae nawdd iddaw.
- §116. Tri dyn y mae gwell eu breint o’ e sefyll noc o’ e heiste: rhingyll, can ddyly eiste yn y llys; a dryssawr neuadd; a gostecwr llys.
- §117. Tri dyn sydd well y breint yn effro noc yn cysgu: gwylywr llys, canys yddaw yr ymddirieit y brenin y gastell,⁵⁷ neu y lys, tra fo nos; cynydd, canys os ceir yn y wely dydd calan Mei y bore cyn gwisgan y gwaran, ef a ddyly ateb y’r [neb a’ e holo]; hebogydd, canys gwylyaw y adar a ddyly bob amser y gw . . . yr un swyddawc a ddyly bot yn fonheddic, rag maint⁵⁸ ymddirieit y brenin iddaw.
- §118. Un swyddawc llys a ddyly y anrhegu deirgweith . . . : yr hebogydd pan laddo y tri ederyn enwawc: y bwnn, ay cryhyr, ae gylfinhir.
- §119. Un dyn a geiff ddillat gwely o’ r swyddogion y llys: ynat llys.
- §120. Tri dyn yn y llys ny ddylyr gwallaw⁵⁹ arnunt, euthyr gan y bodd: arglwydd, ac [meddyg], ac effeiryat teulu: rac y meddwi.
- §121. Tri dyn a ddyly y frenhines y anrhegu ar wirawt yn y llys: y penteulu, a’ r pengwastrawt, a’ r pencynyt: corneit llyn y bob un.
- §122. [T]ri hut⁶⁰ yw messur bwyt seic: lloneit desgyl geu; a corneit o’ r tri llyn yngcymysc.

⁵⁷ Mae bwllch rhwng ‘y’ a ‘gastell’ er nad oes bwllch yn rhediad y testun.

⁵⁸ Mae’r llythyren ‘t’ wedi ei hychwanegu uwchben y gair gyda marc *caret*.

⁵⁹ gwallaw llsggr.

⁶⁰ chut llsggr.

- §123. Tri dyn ny cheiff pengwastrawt aryan gwastrodyon ganthunt: ynad, ac effeiriad, a chroessan, pan roddo y brenin feirch uddunt.
- §124. [T]ri dyn y trayana y brenin ac wynt: brenhines, a penteulu, a pencynydd, [t. 16] o'r crwyn.
- §125. Un dyn a ddyly teir gwirawt anrhec gan dri⁶¹ dyn: y pencynydd: un gan y brenin, un gan y frenhines, un gan y distein.
- §126. Un dyn sydd yn y llys ni ddyleir y ellwng y'r wicet y'r llys, namyn y'r porth mawr; sef yw: ynat llys.
- §127. Un dyn a ddyly cytyfet a'r brenin, ac ni ddyly cysseic ac ef: y pengwastrawt; a distein a ddyly gwallaw arnynt yna.
- §128. Un dyn a gyll gamlwrw am gysgu: y gwylywr: os meiddir ynteu, ni chyll ddim, ac ny chaiff ddim yawn eithyr hynny.
- §129. Un dyn⁶² a ddyly bot yn fonheddic o'r swyddogyon: gwylywr; canys yddaw ydd ymddiriet y brenin.
- §130. Tri thafawt uut⁶³ llys: o cheiff dyn nawdd gan un o'r swyddogion yn un o'r teir gwyl arbennic, wedi gwneuthur cam ohonaw, ny ddyly y neb a gafas y cam y holi ef; ny ddyly ynteu ateb tra barhao y nawdd; ni ddyly brenin y gymell y attep.
- §131. Tri chorneit a seic yw an . . .
- §132. Tri chanu a ddyly bardd teulu y ganu y uchelwr os eirch iddo.

⁶¹ Mae'r gair wedi ei ychawanegu uwchben y frawddeg gyda marc *caret*.

⁶² + a ddyn llsg.

⁶³ unt llsg.

§133. Tri dyn nyt etep y nep yn y llys o hawl eythyr y'r swyddogyon: hebogydd, pan fo hebogeu y mut; pencynydd, onys goddiweddir dydd calan Mei cyn gwisgaw y cwaran, neu yn y wely; ac ynat llys.

§134. Tri chanu . . . yn llys: y pencerdd a gan deu uch coryf, a'r bardd teulu a gan. . . is coryf.

§135. Tri anifail a ddyly rhingill o'r anreith orwlat: tarw, . . . , a chynfflith a fo dros benn.

§136. Tri eidion a ddyly y porthawr: hwch . . . , ac eidion⁶⁴ cwttta o'r anrheith, ac eid[ion] . . .

§137. Tri golwyth a ddyly y porthawr: y dagell, a'y tumon a renyr . . .

§138. Maer e bysweyl a ddyly . . . cadw anrheith . . . ; rhingyll a geidw anrhaith orwlat yny ranner; a'r distein bieu cadw . . .

§139. Tri dyn a ddyly tyngu . . . : . . . rhwng dwy wlad (ef a wat . . . ; cynghellawr pan . . . ; a maer bisweil am dir y faerdref.

§140. [t. 17] Tri dyn a ddyly cynghellor . . . yn y neuadd.

§141. Tri dyn nyt oes [d]edyf [le iddunt] a'y cefyn ar y paret: y troydyawc, a'r pengwastrawd, a'r pencynydd.

[Etifeddiaeth]

§142. Pwy bynac a gymero [tir y tat] cyn no'r brawt hynaf, y brawt hynaf pan ddel a'y gwrthladd ef o gwbyl; ac ynteu a gaiff y datanudd; ac o bydd marw yr hynaf yn

y ddadanudd diran, y fab eilchwyl a gaiff oll y dadanudd yn erbyn pawb a'e gofynno.

§143. Tri rhyw freint y sydd: brain[t] annyanawl, a breint swydd, a breint tir.

§144. Tri priodolder y sydd: rhyw, a breint, ac etifeddiaeth: etifeddiaeth hagen herwydd breint y cerdda; breint herwydd rhyw; rhyw herwydd gwahan a fydd rhwng dynion o cyfreith, mal y gwahan brenin wrth freyr, breyr a bila[e]n, gwr a gwreic, hynaf a ieuaf.

§145. Teir etifeddiaeth cyfreithiawl y sydd: un yw etifeddaeth [drwy ddylyet o bleit] rhieni;⁶⁵ eil yw etifeddiaeth a gaffer gan arglwydd o rodd, neu werth, am y tir a allo y werthu; trydydd, etifeddiaeth o amod; sef yw honno, cynwys. Ny chyfyd⁶⁶ cynydd h . . . ar dorr gwir etifeddiaeth o rieni,⁶⁷ os bydd a'e dylyo; ony bydd, hagen ef a cyuyd⁶⁸ cynnydd; canys cafos dechreu rhan, ef a ddylir orffen rhann.

§146. Teir brawt ddi-oet y sydd: un yw am hawl dadanudd; eil yw am gyfarch arglwydd; trydydd rhwng gwystyl a gwrthwystyl.

[Colli eiddo]

§147. [O] dri modd y gwahenir a dyn y dda: un yw o'i fodd yn gyfreithiawl; eil, o anfodd yn gyfreithiawl, sef yw hynny, drwy farn, ac yn ddrwg ganthaw y ddfarnu, fal y bydd gan bawb; trydydd, o'i anfodd yn anghyfreithiawl.

⁶⁴ Mae'r 'i' cyntaf wedi ei hychwanegu uwchben yn y gair gyda marc *caret*.

⁶⁵ rhiein llsg.

⁶⁶ Ychwanegwyd y gair ar ymyl y ddalen gan Robert Vaughan.

⁶⁷ rhiein llsg.

⁶⁸ Ychwanegwyd y gair ar ymyl y ddalen gan Robert Vaughan.

- §148. [T]ri modd y cyngain bodd: o wrthot o ddyn y dda⁶⁹ heb gymell arnaw; neu o roddi y dda o'e fodd y arall; trydydd, o adel y arall gychwyn y dda heb luddyas, heb fygwth, heb ofyn yn y erbyn.
- §149. [T]eir ffordd y bydd rhoddi: un yw rhoi peth y ddyn yn llaw dyn yngwydd tystyon, a[’e] gychwyn o’r dyn; eil yw rhoddi da henwedfedic y arall drwy dyllued, neu drwy feichieu, canys grym [t. 18] un tyst mewn tyllued, canys tyllued yw twng lliaws, canys cadarnaf yw o’e deblygu; trydydd, roddi peth y arall yn y law yngwydd tyst, ac yna mynet yn y erbyn, a’e gychwyn o’r dyn hynny dros fessur erw ai dwy.
- §150. Teir rhodd ni ellir y had-ddwyn o cyfreith, rac mor ddichlein y rhoed: un yw tir a ro arglwydd y dydd cyfreithiawl y ddyn, ny ellir y neb a ddel wedy ef y ddwyn y ganthaw o cyfreith; ail, gwreic a roddo cenedyl y wr o rodd ac estyn, ny ellir y dwyn o’r⁷⁰ dyn a’y estynnawdd (o’e anfodd);⁷¹ [trydydd, rhodd] a rodder y ddyn yngwydd tystyon, a’e gychwyn o’r dyn, ny ellir y ddwyn ony phalla y tystyon.
- §151. Tair ffordd y gwahenir da y wrth dyn yn anghyfreithiawl, ac ni wehenir a’i berchenogaeth: adynau, llog, a benffyc: y da hwnnw a ellir y lyssu . . . y meddyant y dda yr hynny.
- §152. Teir ffordd y gwahenir dyn a’e dda o’e fodd yn cyfreithiawl hefyd, ac a’e berchenogaeth: rhodd, a chyfnewid, ac echwyn. Ny ellir holi hwnnw drachefyn, na’r peth a rodder, na’r peth a werther; nac echwyner, cyt caffer peth un rhyw ac a echwyner.

⁶⁹ y dda – llsg., + Llan 121.

⁷⁰ oę llsg.

⁷¹ anfodd llsg.

- §153. Teir ffordd y gwehenir dyn a'e dda o'e anfodd yn cyfreithiawl, ac ny wahrenir o'e feddyant: gwarchae, a gwystleidiaeth, a barn cyfreith: onyt ollyngir yn oet cyfreithiawl.
- §154. Teir ffordd y gwahrenir a dyn y dda yn angcyfreithiawl o'e anfodd, ac o'e feddyant: treis, lledrad ac anghyfarch.
- §155. Teir ffordd y gwahrenir dyn a'e dda o'e anfodd yn anghyfreithyawl ar dalym, ac ny wahrenir a'e feddyant, eithyr o un o'r teir, sef yw y rhei hynny: coll o lesgedd; a chychwyn anghyfreithiawl; a thapplys: gwahrenir hagen o hwnnw a dyn y dda yn anghyfreithiawl ac o'e feddyant, canyt yawn y chware; eissoes o bydd tystyon ar y dapplys ny ellir y holi drachefyn, wrth ryw daplys fo, ay bwrw mwyaf, ay peth tebic. Tebygach yw tapplys y anghyfraith noc y gyfraith; eissoes ewyllys y chwaryddyon yw ay y chymryt hi yn cyfreithiawl ae yn anghyfreithiawl: canyt anghyfreith y ddyn nac amarch hynn a fynno e hun.
- §156. [t. 19] Teir ffordd y gwehenir a dyn y dda yn anghyfreithiawl o'e anfodd, ac ni wahrenir meddyant a dyn eythyr or ddeu hynn, sef yw y rhei hynny: o angeu, a llwgyr, ac anoddeu: hynn a fo marw, neu a laddo dyn, neu a llycrer, ny cheffir hwnnw byth yr hyt yr holer; am hynny y gwnaethbwyd gwerth cyfreithiawl⁷² ar y peth a fo marw o weithret dyn, ac am na chair y peth drachefyn y telir y werth. Am hwnnw y mae un o tri pheth cyfreithiawl: ae gwadu nas lleassawdd; ae talu etwyrth⁷³ y da mal y barn cyfreith; ae wrth y ddamdwng e hun⁷⁴ y perchennawc; ae etfryt y da i'r neb pieuffo o bydd amser hynny, megys am lwdyn glan, y eythyr yr amser y bo gwerth ar y eneit a gwerth ar y gic.

⁷² + cyfreithiawl llsg.

⁷³ Rhoddwyd tri dot mewn siap triongl o flaen ac ar ddiwedd y gair: ?etwaeth = eto.

⁷⁴ eñũ llsg.

[Anifeiliaid]

- §157. Tri pheth y daw angeu iddaw o'r a perthyn y ddynyawl arfer ymwassnaethu ohonaw: anifeil, a phryf, a goradain.
- §158. Tri⁷⁵ ryw anifeil y sydd: llwdyn, a chi, ac edyn: llyma arwydd mae anifeil yw edyn, canys cyfreith a ddyweit mae tri anifeil un troedawc y sydd: march, a hobel, a gellgi.
- §159. . . . gwahan rhwng cenedyl ddyn: felly y mae march, cassec; [buch ac] ych; gafyr; a dafat; hwch ddof, hwch goet; carw ac hydd⁷⁶ ac yr cheyll; a gwryw a banyw: o bob un dyn caeth . . . ac anifeil am holi y werth os lleddir; nyt . . . dyn bonheddic namyn cenedyl, onis gor[ch]mynnir . . . yeuanc; rhy hwyr hagen gorchymyn dyn a el dr[os pedeir] ar ddec, am nat eiddaw un dyn ryw ddyn a . . . , yr holi pan lladder, a chymryt y alanas ryngthu . . . dyn yn ganedigaeth . . . boneddigach rhei o'r cwn no'r lleill, a rhei o'r adar no'r lleill . . .
- §160. Tri chi bonheddic y sydd: olrheat, a mylgi, a cholwyn.
- §161. . . . gellgi a butheuat.
- §162. Tri rhyw costoc tom y sydd: . . . bugeulgi, a chostoc tal pen[t. 20]tan.
- §163. Tri ryw orad[ain] a wnair o wyllt yn ddof . . .
- §164. Tri . . . o ddynyawl arfer . . . nynt o arfer dyn . . . ny medd neb arnunt . . . werth cyfreithiawl arnynt . . . , hynny adar . . . a wnair o wyllt yn ddof: gw[alch], a heboc, a llamysten . . . ; y brenyn y gwerth pa d . . . bynnac . . . , cany ym . . . am walch breiniawl . . . heboc, mal y dywedir . . . breyr . . . gellgi breyr . . .

⁷⁵ Teir Pen 164.

⁷⁶ hydd – llsgr., + Llan 121.

swyddoc a ddyly lamystyn herwydd y swydd . . . ny ellir dywedut bot [gwyllt]
yn ddof os . . . llyna pwy a ddyly . . .

§165. Tri rhyw ederyn a fegir . . .

§166. Tri rhyw bryf y sydd yn cyfreith: beleu, a llostlydan, a charlwng: . . . y cymwyll
yng cyfreith am eu crwyn, y . . . y hyw a'r frenhines, pa du bynnac y . . .
llostlydan y befyr rhywogaeth gra llwyd; . . . a'e geillieu y gellir meddeginiaeth
rhag tostedd: . . . pan eler y'w hely y gwybydd may o achaws y geyllyeu . . . ,
sef a wna(ed) yna, y tynnu e hun y wrthaw a'e taflu . . . , ac yna pryfeda y lle
. . . , yna bydd distryw⁷⁷ arnaw, ac ny . . . af y un euthur yn . . .

[Llwgr yd]

§167. [t. 21] [C]an darfu dywedyt am angeu, peth a ddifwyner y'w berchennoc, ac a
llaw, neu droet, neu a daint, neu ac awch aryf lifuedic, llyna pa ffordd y
difwynir, a llaw, neu droet, canau⁷⁸ . . . neu anifeil, neu y wascaru, neu dorri
llestri, neu aryf, neu beth cyfreithiawl. Pwy bynnac a'e gwnel talet y werth
cyfreithiawl y'w berchennawc . . . clefryt, sef yw hwnnw a drib . . . difwynaw
. . . ae torri troet anifail ai peth arall . . . lle bo llwgyr ar yt . . . un o tri peth: ae
daly ar yr yt a gwarchau, ac yna y . . . yr ysgrybyl; gellwng yr ysgrybyl; ae holi
ae holu drwy [cyfreith]. A llyna un o'r lleoedd ydd a amddiffynwr yn hawlwr
a'r hawlwr yn amddiffynwr: llyna paham y . . . ; a llyna un o'r tri dyn a ddyly
cymell yw.

§168. Teir hwch o gyfreith y . . . gwerth ar yt . . . : cyfeir yr arglwydd, .i. hwch
dawnbwyd . . .

⁷⁷ yna bydd distrywyl llsggr.

⁷⁸ cauau llsggr.

- §169. Tri lle y dylyir . . . moch a gaffer mewn⁷⁹ coed y brenin pan ddylyir . . . ohonunt . . . gwyddeu yn . . . faes neu yn llyarth⁸⁰ . . . gwasgu gwyaill ar y gyddfau . . .
- §170. Tri anifeil ny cheffyr nac aryant nac yt am y llwgyr: oen, a mynn, a [geifyr]: cyfreithiawl namyn wy iar dros bob un, ac . . . neu, neu yn neu . . . hyt y . . .
- §171. Tri ryw anifail cyntaf . . . cyfraith y mammeu am lwgyr yt: porchell, ac ebol, ac oen: ebol a ddaw y pedwerydd dydd ar ddec wedy y ganer; porchell pan allo ymchwelu[d] y byswelyn; oen, neu fynn, yn⁸¹ cyfreith Awst y deuant.
- §172. Tri modd rhyddheir anifeliait o warchau: ac aryant, neu wyeu, neu talu anifail dros y llwgyr.
- §173. Tri modd y rhyddheir ysgrybyl ac aryant o warchau: un yw os e dydd y gwarcheir ysgrybyl [t. 22] talu aryant dros y llwgyr; os nos y gorddiwedir⁸² ysgrybyl ar yt, talu mwy o aryant, sef meint a delir, y deu cymeint a daler y dydd. Trydydd modd yw pa bryt bynnac y goddiwedder ysgrybyl, na nos, na dydd, ny bydd mwy y tal drostunt: sef rei y bydd mwy y tal drostynt: eidyon, a march, neu gasec hualoc neu laffetheiryawc, a oddiwedder y nos ar yt; sef ryw eydyo[n], eidyon a ddyly ar y fuarthu, sef fydd hwnnw, eydyon a ddyddyfner; tra fo ynteu y[n] sugnaw, cyfreith y fam a gymer ef, hyt calan gayaf y dily ef sugnaw, ony bydd damwein. Buch ny chymero tarw. Oen tra sugno cyfreith y fam, a mynn. Porchell pan allo ymchwelyt y biswelyn. Ebol o'e bedwardieu ar ddec o'r pan aner, cyfreith y fam a fydd arnaw. Iar pan allo esgynnu a chanu y dan asgell y fam. Gwydd pan allo dotwy, a hwyat.
- §174. Tri rhyw anifail ny bydd mwy y cyfreith y bot y nos nac dydd ar yt: hwch, a dafat, a gafyr.

⁷⁹ n . . . wn llsgyr.

⁸⁰ llyarc llsgyr. Lluarth = gardd lysiau.

⁸¹ un llsgyr.

⁸² gofddiwedir llsgyr.

- §175. Tri amryw gyfreith y sydd am foch a ddalyer ar ymogor neu lafur dyn: un yw o'r cadw o goddiweddir, hwch a geffir ohonunt. Eil yw os llei no'r cadw a geffir ar yt, ceynyoc o bob un a ddaw y'r perchennoc yr yt. Trydydd, os mewn gweirglodd y goddiwir hwch, pedeir ceynyawc a geir; canys⁸³ caeth gweirglawdd bob amser fydd hwch, canys difwynaw y tir a wna a'y ymchwelut. Os hagen mewn coet y goddiwir moch, mesobyr a gaiff perchen y coet herwydd breynt y perchennoc pieyffo, ay arglwydd, ay uchelwr.
- §176. Tri amryw cyfreith y sydd am ddafat a oddiwedder ar yt: un yw o'r cadw y ceffir llwdyn, o bydd defeit dros benn y cadw, hagen, cyt boent llawer ni cheffir eithyr un llwdyn, os yr un perchennoc pieufydd wynt oll; os llawer hagen o berchenogyon pieufydd wynt, llwdyn a geffir o bob cadw gan bob perchennoc. Eil yw oni bydd cadw cyfreithiawl, ffyrddling o bob llwdyn hyt bymp a geffir. Trydydd modd y telir cyfreith defeit; ony bydd onyt pum llwdyn defeit, ny cheffir eythyr ceinioc, am na ellir rannu ceinioc yn bum ran, a phan [t. 23] wnaethbwyd cyfreith Hywel nat oedd ffyrddling, canys wedy y gwahanwyd ceynyoc yn ddimeu a ffyrddling.
- §177. Teir amryw gyfreith y sydd am anifeilyeit a lycro yt: un yw y gwa[r]chau o gorddiweddir wynt yn cyfreithiawl, fal yr eirch cyfreit[h] gwarchau pob anifeil. Eil yw lladd anifeilyeit a gaffer yn llygru yt. Trydydd, oni oddiweddir hwynt, cymryt creir o berchen yr yt, gofyn y berchen yr ysgrybyl a lanhaa y ysgrybyl, sef yw hynny, llw dir na bodd; onys diheura ef y ysgrybyl, difwyn llwgyr a ddyly y llall, sef yw hynny, ysgub iach am ysgub glaf: ny cheiff eissyoes perchen yr ysgrybyl yr ysgyb glaf er hynny, eithyr am y llwgyr a ddigonet ar yr ysgyb y telir yr iach: sef mal y telir yr ysgyb iach, tynnu yr unrhyw yd o'r ddayar a rhoi unrhyw . . . arnaw.

Anoddeu

- §178. Sef yw anoddeu, peth a wneler yn rhith peth arall, sef yw hynny, yn ceissiw gwneuthur da gwneuthur drwc, .i. dwyn da yn rhith yr eiddaw e hun; ni bydd na dirwy, na chamlwrw am hwnnw, onys attelir ef; os attelir ef hagen, byt ar y brain[t]⁸⁴ yr holer ef. Sef paham na [a]llyd cosp onys attelir, yr attal yw'r anghyfreith, yr anghyfr[eith] a beir cosp, cany bydd cosp am beth cyfreithiawl.
- §179. Goddeu heb weithred, ac anoddeu drwy weithred, nyt oes na dirwy na chamlwrw amdanunt, onys attelir. Am hynny y dywedir: drwg yw gwneuthur y drwg, gwaeth yw trigaw yn y cam.
- §180. Pob da a ddycer o anoddeu a ddylir y holi, ac ny ddylir y attal, sef echos yw, nyt anoddau⁸⁵ cyfreithiawl dywedut mae yn rhith y da hwn a hwnn y duc, a'y attal yn rhith enw hwnnw, neu yn rhith arall y treweis i hwn a hwn.
- §181. [C]yn bo llawer o foddeu y wahanu dyn y dda, ay yn cyfreithiawl, ac yn anghyfreithiawl, ae o fodd, ae o anfodd; eissioes, rhei o'r rhei hynny a ellir holi y da hwnnw drachefn, a rhai ni ellir y holi y da hwnnw;⁸⁶ rhei y ceffir cystal a'r da; rhei y ceffir difwyn; rhei y ceffir diwat amdanaddunt.
- §182. Sef yw y da a ellir y holi drachefyn: llog, ac adneu, a benffyc: canys cymwynas ynt. Canys [t. 24] lloc a ddyly dyfot adref yn iach gyfan y aelodeu, os anifail fydd, os ych fal y gallo camu y trothwr. Os atneu fydd, y gadw hyt y oet, ac yna ateb y'r perchennoc [o]honaw, onys dygir y dan y ddayar ef: gwir yw hynn o gellir profi rhoddi atneu ar y ceitwat. Pob benffyc yg cyfreith dyfot mal yr el, am hynny, na ellir benffygyaw ond peth di dreul yr arfer ohonaw, ac ny bo gwaeth er hynny.

⁸³ canys - llsg., + Llan 121.

⁸⁴ brain llsg.

⁸⁵ anoddou llsg.

⁸⁶ drachefn . . . hwnnw – llsg., + Llan 121.

§183. Rhodd, ac echwyn, a chyfnewit, gwahanu perchennogaeth da a'e berchennoc y sydd yma, am hynny na ellir holi peth a rodder drachefyn, o bydd praw pan y gofynner gan y llall ar y roddi. Ti a glywaist fry, pa sawl modd y bydd rhodd, ac un ohonunt yw anrhec, anfon o ddyn peth y arall yn llaw gennat. Peth onys rhydd y gennat y'r dyn y peth? Pwy a ddyly y holi ef drachefyn, ac a ddyly nep? Llyma brofi nas dyly y neb a anfonas y'r llall yn llaw y gennat amwyt⁸⁷ neu ry dderyw iddaw ef ymadaw a meddiant y da⁸⁸ pan ddywawt: 'Dwc hwnn y'r dyn racw;' nyt ymchwel meddyant drachefyn na chyfreith am hynny, ni ddichawn hwnnw. Y llall nys dichawn, canys ny chafas ef meddyant ar y da etton, ac na bu eiddaw eirioet y da.

§184. Nyt cyfreithiawl holi peth ny bo eiddaw ac ny bo ceitwat.

[Am ddadlau]

§185. Tri lle y caiff dyn fessur y hawl gan amddiffynwr heb hawl heb ateb ohonaw: un yw o gomedd amddiffynwr tri gwys cyfreithiawl, cyfaddef fydd yr hawl: ony omedd y gwys, ny fernyr hagen fessur y hawl y neb ar absen hyt yn oet tri gwys, ac ny ddylyr tystyaw na ddel amddiffynwr y'r maes, na galw am frawt hyt y trydydd gwys; a'r tri gwys hynny a ddylyr y gwneuthur yn cyfreithiawl hagen, a'e galw felly. Eil yw l[l]e bo⁸⁹ dydd coll neu cael, na'r eildydd fo, na'r trydydd, na pha ddydd bynnac fo, nyt oes oet, nac esgussot cyfreithiawl yna, nac angeu na dim eythyr na wypo ynat farw, ac o dodir angeu yn lle esgussot cyfreithyawl ny rymya, a chystadyl fydd messur yr hawl arnaw o'e dda mal pe byw fei, os bydd eiddaw. Ony ddaw yr amddiffynwr [t. 25] yn nydd coll a chaffael gossodedic o benn ynat, wedi rwymo pleidieu, barner messur yr hawl arnaw: cany ddyly cyfreith nas gwneil. Trydydd lle y caiff hanner y hawl ar y talyawdyr marw neu fach.

⁸⁷ amwyt llsgr.

⁸⁸ dan llsgr.

⁸⁹ be llsgr.

- §186. Tri lle y dyly dyn holi pob da a ddylyer y holi drachefn: un yw lle gwelo y dda, pwy bynnac a wnel yr anghyfraith am y da, sef peth a ddyly y holi yno, lledrat, a threis, ac anghyfreith; a cheissyet yr amddiffynwr yna y daryaneu cyfreithiawl yn erbyn yr hawlwr. Eil yw, ony wyl ynteu y dda yn llaw arall, holer⁹⁰ y neb y cyswyner arnaw fot y da ganthaw, neu wneuthur peth anghyfreithiawl; ac yna amgen fydd modd y holi, nyt amgen, gyrr a fydd yna, a rheithieu yn ol gyrr cyfreithiawl, os lledrat, neu dreis, neu anghyfreith fyddant. Peth bynnac fo, nac yn llaw, nac yn absen, anfodd ynt lle perthyno⁹¹ damdwng am ledrat, dihenydd fydd; ony ceffir taryaneu yn erbyn y damdwng, o bydd cymeint gwerth ac y dylyo crog amdanaw, sef yw hynny, .iiii.^d *cyfreith*. Trydydd, lle rhoes y dda: os drwy fach, holet drwy fach; os drwy braw, holet [drwy braw].
- §187. Lle perthyno rheith am ledrat, o phalla y rheith, dirwy fydd, yr bychanet fo gwerth y peth; eithyr y pethau ny byd eithyr camlwrw amdanaddunt yr y lledratta: ci, ac edyn, a gwyddlwdyn &c, a lledrat ymborth gan reidus.
- §188. Lle perthyno gwerth lleidyr, taler ef; onys telir, diholer ef, o bydd ufudd y lleidyr y dalu y werth.
- §189. Tri da y bydd rheith amdanaddunt, ac o phalla, ni bydd dihenydd, o bydd cymeint o dda ac a farn cyfreith y ddwyn dyn y'w ddihenydd, sef ynt: blawd, a gwenyn, ac aryant: canys cyt boet parawt perchennoc y'w dandwng, ny ddyly hynny, am na ellir hynny eithyr wrth y llestyr y boent ynddaw; canys cyffelyb yw blawd y flawt, neu yt y yt, a gwenyn y wenyn, ac aryant y'r llall, ac adafedd gwlan.
- §190. [C]oll o lesgedd, a chychwyn anghyfreithiawl, a gwarchay, a holir lle gweler, canys erbynwys llaw y gan y gilydd o fodd wynt; anghyfreithiawl hagen yw cychwyn da o ledrat, neu dreis, [t. 26] neu anghyfreith, neu coll o lesgedd; ac

⁹⁰ holer Llan 121, holet Pen 164.

⁹¹ perthyn yno llsgr.

os hawlwr a'e hawl o gychwyn anghyfreithiawl, ef a'e dichawn, o gwahana pa anghyfraith fo, ae lledrat, ae trais &c. Diogelaf eissioes yw holi hynn o gychwyn anghyfreithiawl, a hynny lle gweler peth: holi al[l]tut,⁹² holi gwarchae yn anghyfreithiawl o'r dref y'r llall, neu holi gyrru dyn o'e ddadanudd a gaffo o'r blaen.

Anoddeu⁹³

- §191. Ny ddyly neb holi da o anoddeu, cyt collo ef dda felly; namyn pwy bynnac a holo dda a ddyccer yn rhith peth arall, os attelir rhacddaw, holet ef o anghyfarch; ac yna y bydd rheit y'r dyn, os absen fydd y da, o bydd rheit⁹⁴ gyrr caffel rheith; os⁹⁵ cynyrchol fydd, un o'r teir taryan: ae cadw geni a meithrin, ae cadw cyn coll, ae arwaessaf; ac nyt ateb, nac arddelw cyfreithiawl, y'r amddiffynnwr ddewedut may yn amryfus y duc ef y peth.
- §192. Ef a aill dyn holi anoddeu yn lledrat; ac⁹⁶ o angeu llwdyn a llwgyr a berth[yn] y holi⁹⁷ y neb⁹⁸ a gysswyner arnaw wneuthur angeu y peth a holer, neu yr eiddaw; o ladd anifeil y llall, holet y perchennoc y dda.
- §193. Os llwgyr a gyswynir ar ddyn y wneuthur y'r llall ar y d[a], neu y goet, neu yt, neu weir; os anifeil a wna y llwgr ar yd &, os yr anifail a⁹⁹ warcheir, talet y berchennoc drostaw (aryant); ac ny chaiff ef yna wadu y llwgyr, namyn yn llw y deiliat y bydd, pa le y cafas am y ddaly ar y weithret: a llyna lle caiff dyn iawn¹⁰⁰ drwyddaw e hun am yr eiddaw: a llyna lle bydd gwell breint amddiffynnwr no hawlwr, am gael yn y llw heb y gymell, eithyr am y ameu o'r hawlwr.

⁹² al[t]ut llsg.

⁹³ Anoddeu - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁹⁴ rheith llsg.

⁹⁵ oe llsg.

⁹⁶ ac - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁹⁷ y holi - llsg., + Llan 121.

⁹⁸ + yr neb llsg.

⁹⁹ wna . . . a - llsg., + Llan 121.

¹⁰⁰ iawn - llsg., + Llan 121.

§194. Os anifeil a ladd y llall ar warchadw bugeil, profet yr hawlwr, ony bydd arall a'y profo, drwy bugeil trefgordd ladd y anifeil o anifeil y llall a'y lladdo; nyt grym hagen tystiolaeth y bugeil, eythyr lle lladdo anifeil y llall ar y gadw.

§195. Os dyn hagen a ladd anifeil y arall, profet yr hawlwr hynny drwy wybyddyeit deddfawl, a llyssset y llall wynt os dichawn, neu geissiet lw gweilydd, ac o phalla profer . . . canyt grym tystiolaeth bugeil ar ddyn: ony bydd bugeil hagen, ef a [t. 27] ddichawn y brofi drwy eraill hynny.

§196. Peth os lleddir caeth¹⁰¹ y ddyn a ddyllir profi, neu a oes reith y wadu hynny? (Nac oes reith y wadu ac . . . anifeil, ac) nyt oes gyfraith eithyr y¹⁰² wadu galanas am lawryddiaeth.

§197. Nyt oes alanas y gaeth, eithyr gwerth cyfreithiawl, peth y bo gwerth cyfreithiawl iddaw nyt rheit rheith, eithyr llw y neb a yrrer arnaw y ladd, nas lladdawdd; ac o phalla o lw, gwall yw, talet werth y gaeth; os gweini¹⁰³ llw gweilydd a wna, profet negyfyath am¹⁰⁴ y neb a'y gwnel, ac felly y ceuffy fessur y hawl.

§198. Os yn . . . wer dyn dwyn y gaeth, gyrret drwy greir yn l[law y] llall, ac ac yna bydd reith ar hwnnw.

[Eiddo y brenin]

§199. Tri dyn a ddyly llamysten: brenhin, ac ynat wyl Fihangel, a phencynydd gan yr hebogydd.

¹⁰¹ caeth - llsg., + Llan 121.

¹⁰² y - llsg., + Llan 121.

¹⁰³ gwenn llsg.

¹⁰⁴ am llsg.

- §200. Tri cywyllyawc llys: tunnell fedd, a brawt, a cherddeu, cyn eu dangos y'r brenhin, cowyll a ddyllir.
- §201. Tri argae llys: drws y porth, a drws y neuadd, a drws yr ystafell: cany ddyly neb fynet y mewn yny archer, eithyr y tri dyn rhydd uddunt gyfrwch a'r brenin pan fynoynnt, sef y rhei hynny:
- §202. Tri rhydd y'r argae llys: ynat, a meddic, ac effiriat teulu.
- §203. Tri peth a ddyly brenin y gyt a'y ran o'r anrhaith, a hynny yn ragor: ebolyon gwyllt grewys, a geifyr, ac eur.
- §204. Tri dyn a dyngant dros y brenin pan fo reit: distain, a changhella[w]r, a maer e bisweyl.
- §205. Tri lle y telir eurdlyseu: y'r ynat llys, a bardd teulu pan profer, a hwnnw a'e rhydd drachefyn y fodrwy y'r ynat.
- §206. Tri modd y gossymeithia brenin y deulu a'e nifer: cyntaf, o dda y faerdre e hun a'e dir bwrdd. Eil yw o'e ddylyet cyfreithiawl ar y wlat a'y wyr e hun. Trydydd modd, o cospeu am anghyfreithieu a wneler yn y wlat, neu lle dylyo wy.
- §207. Teir ddylyet a ddyly arglwydd [gan] yw wr heb wneuthur anghyfreith yn y erbyn: un yw cyllid y gyfoeth iddaw a'e deulu, a hwnnw a ddamweinia o lawer modd: cyntaf yw y westfa o'e faenolydd breynyoc, a'i gwynos,¹⁰⁵ neu dal amdaney, [t. 28] .i. punt, onys ceffir rhwng gwyl galan gayaf a gwyl Marthin; a'e dawneybwyt gan y daegeu; a phorthiant y gwn a'e feirch; a dofreth y ganthunt; a phob ddylyet a farno cyfreith iddaw yn y gyfoeth; nyt amgen, lluydd, gwys, cyrch gorwlat, ufyddawt, cywirdeb, y uythot,¹⁰⁶ y toll, cyrch y deulu gweith, teith a'e swllt. Eil ddylyet a ddyly ef, y fechdeyrn ddylyet mal y cefaist

¹⁰⁵ ai gwynos llsg.

¹⁰⁶ uythot llsg.

fry o'r blaen. Trydydd ddylyet a ddyly y ddamweini[eu] cyfreithiawl a ddel iddaw heb anghyfreith yny pei iddaw namyn y ddawn e hun, a Duw yn y annoc.

§208. Tri chylch cyfreithiawl a ddylyir y wlat: un yw rhieingylch; eil yw cylch mawr wedy y¹⁰⁷ Nodolic; trydydd, cylch y swyddog y llys.

§209. Deu ddyn a ddyly rhieingylch: y frenhines; a'r rhiein freinyoc, .i. merch y brenhin, a'e llaw fornyon, a'e swyddogyon, ar daegeu y brenhin¹⁰⁸ pan fo ef yn lluydd gorwlad.

§210. Penteulu a ddyly cylch mawr wedy Nodolic, ef a'e deulu.

§211. Tri swyddawc breiniawl a ddyly ef pan fo yn cylchyaw,¹⁰⁹ sef ynt: dryssawr neuadd, a swyddwr bwyt, a chog: wynt a ddylyant crwyn yr anifeilieit a ladder y arlwy, a'r gwer, a dihynon a'r ymysgar, y bryny dillad: nyt oes eissoes uddunt nawdd, na thir rhydd; ac y mae bwyt seic tra fo ef.

§212. Teir rhann a ddyly ef rannu y deulu ar gylch: y rhan hên, a'r rhan beirfedd, a'r rhan yefangc: a phob eilwers y dily fot gyt ac wynt: ar y gwyr rhydd y bydd y gylch . . . weili.

§213. Ny ddyweit gwyr . . . anunt y penteulu o'r swyddogyon llys; canys un o aylodeu . . . fydd, ac wrth y freint y cerdda o alanas a sarhaet.

§214. Tri swyddawc llys brenhin a ddyly cylch: hebogydd . . . , a phencynnydd . . . swyddawc . . . a'e dily.

§215. Tri amryw ddamwein bellach heb anghyfraith ynddynt a ddyly brenhin: gobreu cyfreithiawl; ac abediweu cyfreithiawl; a phob da di berchennoc, [t. 29] ny

¹⁰⁷ y – llsg., + Llan 121.

¹⁰⁸ a'e . . . brenhin – llsg., + Llan 121.

¹⁰⁹ cylchyaw - llsg., + Llan 121.

chollir y berchennogaeth drwy anghyfreith: cyn dyluo hefyd da diberchennoc a goller¹¹⁰ o anghyfreith, mal y ceffy yn ol.

§216. Tri gobyr cyfreithiawl a ddyly brenhin; sef paham y gelwir yn cyfreithiawl, am nat oes anghyfreith yn y wneuthur: cyntaf yw rhoddi merch o rodd cenedyl ac estyn y wr, ef bieu y gobyr, nyt oes anghyfreith yr y rhoddi y wr felly, canys o fodd y phleit y rhoddet, nyt oes anghyfreith¹¹¹ lle bo bodd, canyt amarch y ddyn hynn a fynno e hun y fot: y brenhin bieu gobyr gan y rodgyat am hynny, canys diffeith brenhin yw morwyn, os felly bydd am wahanu y ddiffeith ynteu ac ef fal na chaffo mwy, y caiff ynteu y gobyr hi. Nyt oedd iddi hi o brioder onyt y gwaddawl, am hynny y dylu y char y rhoddi hi a'y gwaddawl genthi y briodawr, a'r gwaddawl hwnnw a wna y plant hitheu o feibydon y briodoryon rhac llaw; ac fal y mae y brawt hi yn briodawr o dref y dat, y may y phriodolder hitheu ar [y] gwaddawl ot ymery¹¹² wrth y chenedyl. Eil gobyr y sydd yn gyfreithiawl, gobyr estyn. Trydydd, gobyr am terfynu tir rhwng deu ymryson.

§217. Tri dyn a ddyly talu gobyr estyn: un yw mab a gymerer ynghenedyl, ac a gynhwysser yn cyfreithiawl ar dir a daear; ac ny ellir hynny eythyr ar gyhoedd. Eil yw gobyr a dalo car, brawt, neu gefynderw, neu gyfryderw, dros y car am estyn y tir iddunt a aeth y wrthynt cyn hanffo ef o'e ddylyet, pwy bynnac fo, na mab eillt, na gwr rhydd; os gwr rhydd chweiugeint yw y abediw ef, cany bydd mwy, sef telir hwnnw tros y tir, e chweiugeint arall yw y gobyr estyn am estynnu y tir, am nad etifedd ef y'r dyn a fu farw; cany henyw ef o'e gorff, henyw ef hagen o'r neb pioedd gynt y tir hwnnw; ac am hynny y dylu arglwyd estynu yddaw ynteu y ddylyet, a'e dref tad a fu y wrthaw dalym. Trydydd, dyn a dal y'r brenhin obyry estyn, maer, ne cynghellawr, a roddo brenhin¹¹³ y swydd, punt a haner a dalant y'r brenin: felly pencenedl; pedeir ar ugeint a ddyry car y'r pencenedyl louot,¹¹⁴ pan gymerer un o cenedl.

¹¹⁰ geller llsgr.

¹¹¹ yr . . . anghyfreith – llsgr., + Llan 121.

¹¹² Sic llsgr.

¹¹³ obyry . . . brenhin - llsgr., + Llan 121.

¹¹⁴ louot llsgr. Sic yn llsgr.

- §218. Abediweu bellach a ddyly ef o cyfreith; canys pawb o'e wyr ef a'r y bo abediw arnaw o cyfreith, cyfreithiawl yw yddaw ynteu caffel y abediw o bydd a'e talo; [t. 30] ony bydd, ef a gaiff y tir.
- §219. Tri rhyw abediw y sydd ynghyfreith: abediw punt, abediw chweugeint, abediw o tri ugein: fal y bo yr abediw y bydd yr amobyr.
- §220. Tri dyn a dal punt o abediw: pendefigyon swyddeu y llys; a phencenedyl; a¹¹⁵ swyddogyon y wlat, maer a changhellawr: ac felly o amobreu.
- §221. [T]ri amryw ddyn a dal chweugein o abediw: swyddogion y llys eithyr y pendefigyon; a breyr diswydd; a gwahalaeth, sef yw hwnnw, mab arglwydd ny bo nac edling, na phenteulu; o chymer dir gan arglwydd, yr caethet y tir a gaffo, ni bydd llei y abediw no cxx.: a llyna y gwr a freinia y tir.
- §222. Tri dyn a dal abediw o tri ugeint: taecoc brenhin, a gwr arddelw, ac alltut a darffo y'r brenhin y diryw.
- §223. Y neb a fo marw ar dir y brenhin; [o] wr, pedeir ar ugeint o farw dywarchen a delir drostaw; gwreic, xvi.
- §224. Tri rhyw dda diberchennoc, heb anghyfreith yn y wneuthur, a dyly arglwydd: un, marwdy; eil yw a fwryo mor y dir rhwng tri llanw a thri thrai yn gohir ar draeth; trydydd, pob da ny wypper pieuffo, neu a watter.
- §225. Tri marwdy cyfreithiawl a ddyly brenin: un, ty marw o angeu deisyfyt, rhan y marw o'i dda a ddylu ef. Ty ringyll brenhin, yr arglwydd pieu yr eiddaw yn y drugaredd heb wneuthur anghyfreith yn y erbyn, eythyr am y ddylyet fawr a gaiff, ef y dyly ynteu colli yr eiddaw o'e farw. Trydydd yw llys esgob, canys diffeith brenhin yw y dda, am na eill y gymynnu.

- §226. Tri pheth a ddyly brenhin o'r a fwryo mor y'r tir: llong ddiherchennoc, a'e llwyth o dda. Eil yw pysgod marw os cymer brenhin wynt cyn y trydydd llanw ar trydydd trai, ac. . . ac onys cymer, y neb a'i¹¹⁶ caffo pieufydd wynt; pysgod byw hagen, a fwryon¹¹⁷ mewn rhwydau, neu goredeu, neu facheu, y nep pieuffo wynt a'e ceiff, o byddant fyw: gwydd defnydd ruath¹¹⁸ lysseu, na pheth arall cyfriw, ef bieu.¹¹⁹
- §227. [t. 31] O dri modd amryw y cospa arglwydd y wr am y anghyfreith: un yw eissywet ar y dda; eil eissywet am y aelodeu; trydydd eissywet¹²⁰ am y eneit.
- §228. Tri modd y gwneir o cyfreith eissywet y ddyn am y dda yn ddial anghyfraith: un yw cosp cyfreithiawl, eil yw camlwrw, trydydd yw dirwy.
- §229. Teir cosp¹²¹ cyfreithiawl y sydd: buwch . . . , a hwch fessobyr, ac amobyr a gaffer¹²² am anghyfreith.
- §230. Teir buwch a ddyly brenhin: buwch luydd; a buwch wyl For; a buwch a fo dros ben o'r anrheith orwlat, wedy caffo pawb y rann.
- §231. Tri amobyr a ddyly brenhin echos gwneuthur ey ddefnydd anghyfreithiawl: un yw cywelyogach cyhoeddac. Eil, dwyn plant o'r gwely deddfawl. Trydydd, llathlutta: anghyfreithiawl yw pob un o hynn, am hynny caiff ynteu amobyr amdanunt.

¹¹⁵ ar llsg.

¹¹⁶ Mae'r llythyren 'i' wedi ei hychwanegu gyda marc *caret*.

¹¹⁷ fwryon, llsg

¹¹⁸ Sic llsg. Mae dotiau o dan y gair. Gellid fod yn rhywbeth fel lluarth a chyfeirio at goed a ddefnyddid i gylchu'r ardd, neu rhiaidd sef brenhinol, pendefigaidd?

¹¹⁹ + Trydydd modd y dyly arglwydd y'w wr y ossymeithaw y lys o gyfreith yn cospi anghyfreithieu llsg.

¹²⁰ am . . . eissywet – llsg., + Llan 121.

¹²¹ + chosp llsg.

[Gwragedd]

- §232. Tri cywelyogach cyhoeddoc y sydd: un yw bot gwr yn cywely[o]gach a gwraic yn un ty ac anlloedd, heb priodas, heb rodd ac estyn cenedyl. Eil, y chymryt o rodd ac estyn, oddyna ysgar a hi; am¹²³ y gywelyogach gynt pan . . . o dalu amobyr . . . , canys anolo yw y priodas a ddatoted ac wynteu yn gytuoc. Trydydd yw arfer o wreic yn enllibus amlw[c].
- §233. Tri chadarn enllib y sydd: cael gwr rhwng deu forddwyt gwreic, eil y gwelet yn dyfot o bob ty y'r llwyn, trydydd y cael dan un fantell mewn ty neu allan.
- §234. Tri modd y dygir plant o'r gwely deddfawl: tyngu o wreic uch benn creir . . . ; d[i]odef¹²⁴ o'r gwr un dydd a blwyddyn, ny eill y wady wedy. Eil yw dwyn mab y wr o wreic ar y llongwedd wrth y pheryglawr; o thry hi y'r byt, amobyr a dal y'r brenhin, cyt caffer yn llwyn a pherth. Trydydd modd, o dyweit hi ar y thafawt leferydd dwyn mab y'r tad, heb dyngu y'r dygyn, heb y wadu; yna y tal hi amobyr am¹²⁵ addef y pechot, ac nyt yr . . . yw.
- §235. Tri modd y dygir mab y dat yn cyfreithiawl hagen cyt caffer amobyr.
- §236. Deu ryw lathlut a fydd, un o fodd, ac un o anfodd: llathlut o fodd a fydd o ddeu fodd, o fewn ty, neu faes [t. 32] o dy; os y mewn llwyn neu berth y bydd, talet y wreig y hamobyr, o palla y rheith; os o fewn ty, gan fod annedd a gwarcheitwat ynddaw, ony chymer ef fach ar y hamobyr, talet gwr¹²⁶ y ty am y derbyn yn anghyfreithiawl yr amobyr, mal y dyleu fot am dderbyn petheu ereill yn anghyfreithiawl cyt boet mwy. Llathlut o anfodd yw treissiw gwreic, hwnnw o chwyn hi y trais, a methu y amddiffyn y'r gwr, amobyr a fydd ar y gwr.

¹²² a gaffer - llsg., + Llan 121.

¹²³ am - llsg., + Llan 121.

¹²⁴ dōdef llsg.

¹²⁵ + y Llan 121.

¹²⁶ fach . . . gwr: ymddengys fod hyn wedi ei ysgrifennu ar ben cywiriad.

[Anghyfraith]

- §237. O dri modd y bydd camlwrw: un yw am anayddawt y'r brenhin, a hwnnw a ddamweinya o lawer modd. Eil yw gwneuthur peth camgyflus¹²⁷ angcyfreithiawl yn erbyn y brenhin. Trydydd, gwneuthur cam, neu angcyfreith, y perthyno camlwrw amdanaw yn erbyn y wlat neu y wyr.
- §238. Llawer modd y damweinia y ddyn wneuthur cwl yn erbyn y arglwydd: nyt amgen, dwyn nythod y adar; torri y goet neu y dei; lladd y lletfegin, neu y anyfeilieit; celu y fyddafeu o'r taeogeu; bwrw coet derw ar y ffordd lle del; torri y priffyrdd, a'e derfyneu cyfreithiawl messurawl, a'e lwybreu cyfreithiawl, a'e hwylfeydd cyfreithiawl; gellwng anifeilieit y'w rwydeu cyfreithiawl; torri gwarchau, neu luddias; celu y fessobyr; tyngu anudon cyhoeddoc mewn angwestau; arwein arfeu y lle nys dylit, o ddietythyr eu tair gorsaf aryf, neu y teir gorsaf gwayw cyfreithiawl mewn dadleu; lladd yr adar ny ddylir eu lladd ar dir dyn heb y ganyat; hefyt am crwyn y tri pryf a ddylir eu crwyn lle bynnac y lladder; a'r adar a ddylir y gwerth; mynet ar yneit yngcyngor; neu erchi gwarchae o'r dref y'r llall; neu warchae anffawd¹²⁸ yn anghyfreithiawl mal nas dylit nodi¹²⁹ amff . . . dylir . . . esgyn mewn peth ni ddylir; celu da diberchenoc . . .¹³⁰ [t. 33] celu hynny a ddylef arglwydd o'e swyddogyon, a thyngu anudon am hynny; . . . cyrcheu cyhoeddoc y deu ereill pan e deholwyr, a bwyt wahardd, a'e welet wedy hynny, neu y derbyn y'w dy; neu o'r teir ffordd y cyll ynat camlwrw, fal y ceffy obry¹³¹ lle dywedir am frawdwr.
- §239. Cyntaf, hydd brenhin, a'y olwythyon cyfreithiawl; os ceffir yr un ohonun yn llaw dyn, addefedic yw yr . . . ; onys ceffer, deturyt¹³² gwlad a berthyn

¹²⁷ camgyflus llsg.

¹²⁸ amffawd llsg.

¹²⁹ nodi llsg.

¹³⁰ Ceir nodyn mewn pensil ar ymyl y ddalen yn esbonio bod diffyg dalen yn Pen 164 (sydd wedi ei godi o Llan 121).

¹³¹ obry - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

¹³² deteryt llsg.

amdanunt: lle galle eu profi, profet. Trydydd modd y wneuthur cam a'e wyr, lle bo cwyn gantaw, or y¹³³ perthyno camlwrw amdanaw.

§240. Tri modd y cospir anufydd-dawt: carchar, a bwyt wahardd, a dehol. Cyt boet un rhyw o beth dehol a bwyt wahardd, y mae amrafael ddyall rhythunt hagen: y ddehol dyn a berthyn [yn] y wydd am ddirwy, lle bo anallu y'w talu (a'r neb a'y . . . a ddyly y dwyn wrth gyfreith). Bwyt wahardd a berthyn yn absen am omedd gwys, heb esgussot, (neu am gamlwrw), neu yngwydd lle bo anallu: (ny bydd eneit faddeu hwn, yr y gael yn y wlat; ny ddyly neb y berchi ef). Carchar a berthyn am anufydd, o bydd gallus yny fo ufydd; hynny yw cefreith anufydd. Bwyt wahardd a berthyn ar ufydd analluus, lle gweddo camlwrw: anufydd analluus, carcarchar a ddyly fot arnaw, yn [y] fo ufydd. Ac felly am ddehol y perthyn lle perthyno dirwy am ufydd ac anufydd, ac anallus a gallus. Ny ddyleir dehol neb, na'e fwyt wahardd, yr hawl y bleit, namyn am hawl¹³⁴ yr arglwydd am anghyfreith: canys arglwydd pieu cosp pob anghyfreith.

§241. Tri rhyw anufydd-dawt y sydd: un yw gomedd gwys cyfreithiawl heb achwyssyon profadwy. Eil yw dyfot wrth y gwys, ac yr hymny, nat atteber y'r hawl pan y gofynner, heb henwi arddelw cyfreithiawl, fal na ddylyt ateb; neu adaw yr orsedd yn anghyfreithiawl a chiliaw; neu na wneler iawn or bernit. Trydydd yw ffoodraeth, neu beth un rhyw a ffoodraeth, sef yw hynny, mynet [t. 34] ar nawdd, neu arfer o vydeu.¹³⁵

§242. Tri modd y dielir anufyddawt: un yw lle dialer celain pryt na ddel ateb yn amserawl amdaney; cyfreith a ryddha y dial, .i. lladd y dyn, am na aill cymel[l] iawn am y gel[a]in. Eil yw deholwr a ddeholer o frawt cyfreith, os ceir yn y wlat y drydedd weith, yna cyfreith a eirch y grogi am na ein¹³⁶ ymmro, ny roddo gwir: yna y dywedir, cyhoedd a gryg. Trydydd lle y dielir, o gomedd dyn wys am dir, onyt mawr angen a'y lludd, y tir a roddir ymmeddiant yr hawlwr yn

¹³³ a llsg., a Llan 121, y Pen 164.

¹³⁴ ran Pen 164

¹³⁵ vydeu llsg: ?wydau, gwýd = *vices*.

¹³⁶ eni?

ddial y tremygeu; ac am bob un o'r a ddeholer mae ffoawdyr fydd, a'y dda y'r arglwydd, o bydd byw ef.

[Camlwrw]

§243. Tri lledrat y disgyn camlwrw amdanunt cyn holer yn lledrat wyn[t]: ci, ac ederyn, a gwyddlwdyn: or dygir wynt yn lledrat

§244. Tri pheth¹³⁷ lleiaf y disgyn camlwrw amdanunt: geir, a golwc, a'r hyn lleiaf y cwyrner amdanaw.¹³⁸

§245. Tri geir y sydd camlwrw amdanunt: geir anostec mewn dadleu, ac unaw o wreic mefyl ar faryf y gwr a w . . . sedd yn cael camlwrw, tyngu anudon cyhoeddoc ar creir.

§246. Tri golwg y bydd camlyrus dyn o'e welet: golwc bwyt wahardd heb¹³⁹ of[yn] y we[r]th cyfreith; gwelet deholwr hefyt; a gorddwy, gwelet lladd dyn heb y amddiffyn yn buw,¹⁴⁰ gorddwy yn¹⁴¹ yr brenhin o gallei y amddiffyn.

§247. Tri rhyw gamlwrw y sydd: camlwrw un dyblyc, camlwrw deu ddyblyc, a¹⁴² camlwrw tri dyblyc.

§248. Tri modd y telir camlwrw un dyblyc: o fethlu y hawlwr fessur y hawl; o fethlu o amddiffynwr y amddiffyn, o dremygu o un yr . . . ohonunt, heb essgussot cyfreithiawl¹⁴³ drostaw; [y trydydd drwy farn cyfraith].

¹³⁷ Mae'r llythyren 'h' wedi ei hychwanegu uwchben y gair gyda marc *caret*.

¹³⁸ amdanawoc llsg.

¹³⁹ heb llsg.

¹⁴⁰ buw llsg.

¹⁴¹ yn llsg.

¹⁴² camlwrw deu . . . a - llsg., + Llan 121.

¹⁴³ Mae'r 'i' olaf wedi ei hychwanegu uwchben y gair gyda marc *caret*.

- §249. [O] dri modd y disgyn hawlwr ynghamlwrw: o giliaw ohonaw o'e gwyn yn yr orsedd; o eissieu erlyn y hawl ohonaw yn gyfreithiawl ac yn amserawl; trydydd, o fethlu drwy farn cyfreithiawl.
- §250. [T]ri modd y disgyn camlwrw ar amddiffynwr: o omedd gwys yn anghyfreithiawl ohonaw, o'e ddifarnu drwy farn cyfreithiawl, o ballu y amddiffyn iddaw y arddelw.
- §251. [t. 35] Tri lle y telir camlwrw deu ddyblyc: un yw pan daler gweli tafawt y arglwydd. Eil yw pan ddynessao dyn ar yneit yn barnu, o bydd y brenin yn y lle. Trydydd, pan wyssyer dyn yn erbyn arall yn goddeu y holi, a'y ddyfot ef a'r cwynwr rhac bron y brenhin y'r llys, ac yna ciliaw o'r cwynwr rhac brenhin.
- §252. Tri modd y bydd camlwrw tri dyblyc: un yw am y teir affaith diweddaf o affeythieu galanas, yr gadel rheith yr affeythywr. Eil yw lle gomeddo amddiffynwr gwibyawdyr, a mach drostaw, ar ddywot y g . . . gwys teir gweith¹⁴⁴ o bleit y brenhin, heb esgussot cyfreithiawl drostaw, pan ddel. Trydydd lle, ar hawlwr gwibyawdyr, a mach drostaw ar erlyn y hawl a'e alw teir gweith yn tri dadleu, camlwrw am bob tremic y'r arglwydd, cyt el ef yn rhydd o blegit yr hawl, am na doeth y'r cyntaf.
- §253. Tri dyn¹⁴⁵ ny ddyly camlwrw arnunt: arglwydd; a'r neb a fo drostaw yn holi; nac ynat: canys gwell ygneiddyaeth na dim pressennawl.
- §254. Tri dyn y trayana brenhin camlwrw ac wynt: disteyn am camlwrw swyddwyr; pencynydd o'e gynyddyon; pengwastrawt o'e wastrodion, lle perthyno hynny.
- §255. Ny disgyn camlwrw o ym[ladd] ony bydd drwy dystolaeth, ny aller y llyssu yn y llys drwy ymhawl gynt amdanaw,¹⁴⁶ neu difarnu hawlwr, neu ddywedyt

¹⁴⁴ y . . . teirgweith – llsg., + Llan 121.

¹⁴⁵ + ny ddyll llsg.

¹⁴⁶ amdanaw llsg.

amddiffyn cyfreithiawl trostaw o'r amddiffynwr, ma! nad atepo iddi; ac yna y cyll yr hawlwr gamlwrw. Ny chyll hawlwr dirwy fyth, onyt¹⁴⁷ lle bo cwyn a gwrthgwy[n].

§256. Hyt hynn y dywetpwyd o gospeu anghyfreithiawl llei no chamlw[rw] . . . a chamlwrw: weithion y dywedir o ddirwyon brenhin.

[Dirwy]

§257. [T]eir dirwy brenhin y sydd: dirwy ymladd, dirwy dreis, dirwy lledrat.

§258. [T]ri difwyn dirwy ymladd y sydd: dirwy ymladd a wneler yn y wlad, teir punt. Eil, dirwy ymladd llys yn y teir gwyl arbennic, deu ddyblyc fydd, chwe phunt fydd. Dirwy ymladd llan, sef yw hynny, noddfa, deu ddyblyc fydd.

§259. Ymladd a fo yn y noddfa, gwaet, [t. 36] neu gleis, neu wallt bonwyn, a saif yn dystyolaeth y'r abad a'r offeirieit drwy freint eglwyssior yr abadaeth, a hwnnw a delir i'r sant am y gywilydd, ac nyt ar fraint offrwm. Or ymladd a wneler yn y llys lle bo eisteddfa arbennic yn y teir gwyl yr brenhin, distein a ddichawn bot yn hawlwr, ony chwyn yr ymladdwyr am dorri tangnef llys [O derf]yd ymladd yn y llys, yna ony eill yr ymladdwyr y wady yn erbyn y gilydd, neu yn erbyn y distein, chwe phunt. Os faes o'r llys, teir punt. O palla rheith neb yn gwadu ymladd, dirwy fydd, fal pe na watter.

§260. Teir defnydd dirwy ymladd: geir, a golwc, a gweithret.¹⁴⁸

§261. [T]eir gweithret¹⁴⁹ y bydd dirwy amdanunt: geir tafawtrudd yn manegi y dyn a l[eddir]; am hynny y dywedir: (y sef a ladd a gyhudd). Eil yw rhoddi cyngor y

¹⁴⁷ onyt – llsg., + Llan 121.

¹⁴⁸ Teir . . . gweithret – llsg., + Llan 121.

¹⁴⁹ Y chwanegwyd hyn mewn pensil gan Robert Vaughan.

ladd . . . am hynny y dywedir: a barod ef collet ef a wna y gollet. Trydydd yw cyt synnyaw a'y ladd ac erchi y ladd . . .

§262. . . . Rheithieu muryedic y sydd am yr affeithieu hynn, ac o phalla y rheithieu, a lle pallo rheith odit o cyfreith, llei no their punt o gosp y'r arglwydd. Defnydd yw yr affeithieu hynn y'r alanas ac echwyssyon, ac odit lle ynghyfreith y bo reith am beth y bo naw ugeint, o phalla reith am ddim a berthyno wrth lawruddyath: ny[t] amyl llawryddyath heb ymladdeu.

[Ymladd]

§263. Tri lle y bydd dirwy ymladd yn ol golw[c]; un rhyw yw affeith a dirwy ymladd: cyntaf lle edrych ar ladd dyn a chytsyneit a'e ladd; eil yw gwelet y ladd ac nas differro; trydydd . . .

§264. Tri lle y disgyn dirwy ymladd: am weithret, sef yw gweithret, dy[r]chaf a gossot a chyfwrdd a dyn, am hynny y bydd dirwy ar y neb a ddalyo dyn y'w ladd; am gy[f]wrdd ac ef, am hynny y bydd dirwy am borthorddwy, os addefir, neu o palla rheith: sef yw porthorddwy, y attal a'e lesteir yny ddel y llowrudd y'w ladd . . .

§265. Tri modd y byd gweithret neu gyfwrdd mewn ymladd: gwth, ne dynnu, ne daraw: cany ellir na bo sarhaet [t. 37] hynny eithyr lle dieithra cyfreith na bo.

§266. Tri modd y cyngein gwth: a llaw, ac ysgwydd, a throet.

§267. Tri gwth ni ddywygir: un yw gofyn o ddyn iawn y'w elyn yn tri dadleu, ac nas caffo, a chyfarfot gwedy ac ef a'e hyrddyaw ac aryf yny fo marw. Eil yw gwneuthur eiddigedd o wreig y wreic arall, a gwan¹⁵⁰ gwth o'r wreic wryawc

¹⁵⁰ an llsgr., a gwan Llan 121.

ynddi a'e dwylaw, nys diwygir. Trydydd yw roddi morwyn y wr a mach ar y morwyndawt, a'e gwan o'r gwr hi a chaly, a'e chael yn wreic.

§268. O dri modd y trewir dyn: a llaw fynychaf; ac aryf mewn llaw; neu ac aryf o law drwy y¹⁵¹ gellwng.

§269. Tri modd y bydd ymladd a llaw: a phalyf yn egoret; a llaw yn gayat, sef yw honno, dwrn; a lla[w] yn lletegoret.

§270. Tri phalfawt ny ddiwygir nac y arglwydd nac y'r dyn a'e ceffo: palfot tad ar y fab hyt y dyly fot dan y law; palfawt pencenedyl ar y gar yn gyngor rhac ffolineb; palfot arglwydd ar y wr yn rheoli yn y cat.

§271. Llaw yn lletegoret felly y cnithir dyn, neu y tynnir y lawr, neu y delir ef. Ac o bydd yn erbyn ewyllys y dyn y ddaly, sarhaet yw iddaw y ddaly . . . Ny bydd nac egoret na chayat llaw dyn yn hynny, neu yn cnithiaw dyn.

§272. Tri modd y bydd dirwy ymladd a dwrn: un yw taraw dyn a dwrn yn gayat. Eil yw y daraw ac aryf o'e ddwrn, mal a chleddeu neu ffonn. Trydydd yw bwrw a maen neu a saeth: y saeth a ladd y dyn neu y maen, yr hynny y dyn a beris y'r maen neu y'r saeth y ladd, ac ar hwnnw y bydd y gollet: a llyna yn wir mae y neb a baro defnydd y¹⁵² gollet sydd yn gwneuthur y gollet, ac felly am yr affeithyeu fry.

§273. Tri modd y sarheir dyn: un yw o gyfwrdd ac ef yn erbyn y ewyllys. Eil o gamarfer o'e wreic, nyt oes sarhaet y neb o hynny eythyr y'r brenhin, ac ni bydd yna dirwy ymladd yr y sarhaet honno y'r brenhin, cany chyfyrrwy ac ef nac a neb o'e wlat mal y dylyo dirwy: dyly y brenhin hagen y sarhaet mal y

¹⁵¹ y – llsg., + Llan 121.

¹⁵² y – llsg., + Llan 121.

dyweit cyfreith. Trydydd, o torri nawdd dyn or y bo nawdd iddaw yng cyfreith.¹⁵³

[Nawdd y brenin]

- §274. Tri dyn a ddyly sarhaet [t. 38] heb gyfwrdd ac wynt: y brenhin, a brenhines, a'e swyddogion y llys. Llyna pa le y sarheir wynt: am dorri¹⁵⁴ y nawdd. Cyfreith a ddyweit pa un bynnac a dorrer y nawdd o'r rhei hynn, nyt sarhaet iddaw. Pwy bynnac a dorrer y nawdd ohonunt, dirwy ymladd a ddaw y'r brenhin; canys o ymladd yn y llys y torrir nawdd, ac y'r neb a ddorrer y nawdd y sarhaet wedy caffo dyn y nawdd, ac y cyrcho y dystyon a ddyly cyhoedly nodyeu a'e roddi ar ostec yn y neuadd, a chyt a hynny yn gyfredin gyt ac wynt.
- §275. [N]awdd y brenhin, a honno a¹⁵⁵ berthyn yn y teir gwyl arbennic y rhoddi, a'r nep a'e torro nyt oes nawdd iddaw, nac yn llys arglwydd nac¹⁵⁶ y[n] noddfa; ony bai gan sant a chyssegyr neu eglwys. Nyt oes nawdd y'r swyddogyon onyt tra foent yn y llys yn gwasnaethu gyt a'e gytymdeithyon.
- §276. [T]ri modd y sarheir y brenhin heb gyfwrdd ac ef: un yw camarfer o'e wreic, honno a ardderchafir arnei. Eil yw torri nawdd lle rhoddo. Trydydd, lladd y wr neu y gennat lle bo yn cymodi ac¹⁵⁷ arglwydd, ac yna lladd o un y wr yn . . . yn y gymanfa honno, am hynny y dyly ef dirwy ymladd.
- §277. Tri pheth a geffir pan dorrer nawdd dyn y bo nawdd yddaw o'r swyddwyr, yawn yddaw ef am dorri y nawdd y sarhaet . . .¹⁵⁸

¹⁵³ Trydydd . . . yng cyfreith – llsg., + Llan 121.

¹⁵⁴ dorri – llsg., + Llan 121.

¹⁵⁵ a – llsg., + Llan 121.

¹⁵⁶ na llsg., nac Llan 121.

¹⁵⁷ cyniodi at llsg.

¹⁵⁸ Mae nodyn mewn pensil ar ymyl y ddalen yn dweud: 'diffyc dolenne'. Mae'r un nodyn i'w gael yn Llan 121.

[hiatus]¹⁵⁹

[Lledrad]

§278. [t. 39] . . . neu ballu amdanunt, un gosp ynt a'r colofeneu, nyt amgen . . . symudaw y da e hun yn lledrat o'e le o anfodd y berchennoc, neu losgi y ty heb wybot y'w berchenn. O phalla reith am hynny, cytsynedigaeth y sydd yn yr affeithi[eu] oll ar leidyrr neu ar losgwr, lledrat yw pob un a gyngain ynddunt.

§279. Pa na bai ledrat yn llosgi ty, heb wybot y'w berchen, ny byddei affeithiau iddaw, mwy noc y dan arall gwallus.

§280. Ny bydd affeith fyth am weithret o anfodd.

§281. Colofneu¹⁶⁰ cyfreith yw: lladd dyn; eil lledratta; trydydd llosgi ty, neu beth arall.

§282. Tri rhyw gosp sydd am ledrat absen: dirwy, a dehol, a gwerth.

§283. Teir rhyw ddirwy ledrat y sydd: un yw dirwy gaeth am ledrat absen (neu bunt am lei na gwerth 1^d). Eil, dirwy deir punt (cyt bo absen) am ledrat absen. Trydydd, dirwy deu ddyblyc (ledi ac o) am ffyrnigrwydd.

§284. Teir dirwy gaeth: am y gyssefin ledrat, chweigeint; eilweith, punt; trydedd weith, trychu aelawt a wnel y lledrat, fal y ceffy issot.

§285. Tri lleidyrr dirwyus sydd, sef yw hynny, tri lle y disgyn dirwy ledrat: un yw am ledrat absen le pallo rheith, neu¹⁶¹ lle yr addefo dyn o'y benn e hun, heb ddim

¹⁵⁹ Bron i hanner tudalen.

¹⁶⁰ colofyneu llsgwr.

yn y law, bo gyrr na bo gyrr. Eil yw am hydd brenhin, sef yw hwnnw, cylleic; ny bydd hwnnw eithyr pan fo golwythion cyfreithiawl ynddaw; a hynny un weith yn y flwyddyn, o wyl Giric hyt galan gaiaf: a lleidyr a laddo llwdyn y arall y mewn buarth, neu feudy yn lledrat; neu ddyn y pallo iddaw cadw y westi cyfreithiawl y nos; neu lle bo lliw ar ledrat arnaw.

§286. Tri lledrat y disgyn rheith amdanaw: cyswynaw ar ddyn ledrat, mynet dan reith, pallu y reith, ny chat dim yn y law, gwirion o'e ben e hun, teir punt y'r arglwydd a ddaw. Eil yw ceissiw ty dyn am ledrat, lluddias y geissiw o'r dyn, rhifaw rheith arnaw am y tyb, teir punt yw y gosp. Trydydd, lle bo lliw, a phallu rheith, teir punt yna.

§287. Ni bydd dirwy am ledrat, ony phalla dyn o lw gweilydd y golledic; o phalla, rheith fydd, a dirwy o phalla.

§288. Tri lle y disgyn dirwy deuddyblyc: un yw llosgi ty am ben da, [t. 40] a difwynaw da y'w berchen ac iddaw e hun, chwe phunt. Eil, lladd lwdyn mewn buarth a'e guddyaw a'e ddifwynaw y'w berchen, a'e gael wedy llapraw neu ddrewi ynghudd. Trydydd lle y bydd dirwy deuddyblyc, lladd march neu gassec mewn marchdy neu allan.¹⁶²

§289. Tri modd y bydd dirwy lledrat: o addef e hun, o'e benn e hun; o ballu rheith; o ballu ceidweit, sef pa le, am gadw gwesti cyfreithiawl am ledrat nos.

§290. Tri lleidyr gwerth y sydd: lleidyr y caffer dogyn fanac arnaw drwy greddyfwr eglwyssic, .i. drwy raddwr eglwys. Eil, cytleidyr y lleidyr¹⁶³ a ddienyder. Trydydd, lleidyr a gaffer werth llei no pedeir ceinioc cyfreith yn y law, ac ny allo cael y amddiffyn, ni bydd eneit faddeu ynteu am nat oes yn y law peth cyfreithiawl a gwerth arnaw: ny crogir neb ny lycro cyfreith. Y ddeu flaenaf fry

¹⁶¹ am . . . neu – llsg., + Llan 121.

¹⁶² lladd march mewn marchdy neu gassec neu allan llsg.

¹⁶³ y lleidyr – llsg., + Llan 121.

ny crogir wynt, am na ddyly neb colli nac eneit nac aylawt yr geir arall; geir arall hagen a'e cyhoedda yn lleidyr angclotforus. Ny chyll ynteu y eneit yr hynny, cyll ynteu hagen seith bunt am y geir, ony eyll ddyfot yr da: llyma y gosp, y ddehol.

§291. Tri lleidyr deholadwy¹⁶⁴ sydd: lleidyr a ballo y reith iddaw, ac ny allo talu y dirwy, y ddehol a berthyn. Eil, lleidyr gwerth ny allo talu y werth, onys dichawn, diholer ef. Lleidyr a wnel ffyrnigrwydd am dda, mal lladd llwdyn mewn buarth, neu farch y marchdy, ony ddichawn dalu tal y'r hawlwr ac y'r arglwydd yn ddeuddyblyc, y ddehol.

§292. Tri dyn a dal gwerth lleidyr heb gysswyn lledrat arnynt, heb ledrat yn y law, heb dogyn fanac arnaw: dyn a ollyngo leidyr (wedy y orchmynnu o arglwydd iddaw) o'e fodd, neu a'e gatto y ddianc o'e wall, ac yn gyfaddef y ledrat ef; talet gwerth lleidyr, os dichawn, neu deholer . . . onys dirwy [ledrad] gorchmyenner, talet y dirwy. Eil, gorfodawc dros leidyr a ddylyo fot yn lleidyr gwerth; talet fal y talei y lleidyr: ny ddylyir rhoddi neb ar orfodogaeth [t. 41] o'r a gollo eneit nac aelawt: os dros ddyn a ddylyir roi dirwy ledrat y bydd gorfodawc ef; talet ynteu y ddirwy drostaw. Trydydd, a laddo gwarthec neu anifeil lleidyr a ddalyer, neu garcharor a lladrat yn y law, yn y llys; sef lladrat fydd hwnnw, anifeil a ddalyer yn y law yn lledrat, fal na aller wneuthur [damdwng].

§293. Nyt cynnenn ar dogyn fanac yny fo llw yn y tri lle cyfreithiawl: ar ddrws eglwys; ar gangell, sef yw hynny, y cor; ar allawr. Ny rymya gwrthdwng yn ol hynny, cany bydd rheith yna, os graddwr eglwys a'e meneic.

§294. Ny bydd reith ar leidyr cyswyn yny fo ae hawl ae manac,¹⁶⁵ sef yw hynny, lliw cyfreithiawl yn y llys arnaw.

¹⁶⁴ doholadwy llsg.

¹⁶⁵ yny . . . manac – llsg., + Llan 121.

- §295. Tri lle y bydd eneit faddeu dyn heb frat arglwydd, heb ffyrnigrwydd, heb ledrat yn y law: un yw¹⁶⁶ lle caffer dyn deholedic y drydedd weith yn y wlat. Eil yw lle bo lleidyr gwerth, ac na mynno y brynnu, ac yn y allu. Trydydd, lle bo lleidyr ffoawdyr.
- §296. Un lle y cyll lledrat absen y freint, am allel y ddamdwng wrth [ran ac nyt] damdwng y cwbyl; absen yw ynteu, am nat ydyw yn gwbyl yn llaw:¹⁶⁷ ac na ellir cwbyl o anghwbyl: er hynny rheit fydd ceitweit neu [arddelw] yna.
- §297. Hyt hynn y dywetpwyd am ledrat¹⁶⁸ absen a'e gospeu; bellach o ledrat cynhyrchawl, a'r dial a berthyn amdanaw.

[Lladrad cynhyrchiol]

- §298. Tri dial a ddisgyn am ledrat yn llaw: cyntaf yw carchar; eil yw trychu aelawt; trydydd yw croc.
- §299. Tri dyn a berthyn y carcharu: lleidyr a lledrat yn y law; diaberwr ar y ffoodraeth; a llofrudd.
- §300. Tri dyn a ddylu y brenhin peri trychu y haelodeu: cyntaf, caeth am y trydydd lledrat yn llaw, o palla y defnyddyeu yr a dalo y law.¹⁶⁹ Eil, dyn a ddyco treis ar forwyn, ac yn gyfaddef arnaw, ac na allo difwyn¹⁷⁰ dirwy treis, tynnu y geillyeu y ganthaw. Trydydd, caeth a sarhao gwr rhydd, trychu y law ddeheu, neu y droet, os a'y droet y tery ef.

¹⁶⁶ yw – llsg., + yw Llan 121, + Pen 164.

¹⁶⁷ llaw llsg.

¹⁶⁸ Mae'r llythyren 'r' wedi ei hychwanegu uwchben y gair gyda marc caret.

¹⁶⁹ o . . . law – llsg., + Llan 121.

¹⁷⁰ dirwyn llsg.

§301. Teir poen oedd o gyfreith Dyfynwal, am lladrat, neu alanas, neu frat arglwydd: yr¹⁷¹ hayarn twymyn; eil, y dwfyr brwt, rhoi [t. 42] yr aelawt a wnelo¹⁷² yr anghyfreith ynthaw; trydydd oedd gornest ac a'e gyrrro¹⁷³ yn gyfreithiawl; ac ny fyddei yna yr y gr . . . y neb a orfyddei yn yr ornest, hwnnw oedd yn lle prawf; ac felly yn . . . Hywel dda a'e yneit a weles nat cyfyawn hynny; sef gwnaethont praw o ddynyon, (a . . .) ac nyt canmawl praw o weithret a fynnasant, yn lle perthynei hynny, a rheithieu am weithredoedd cyswyn, a gadu y bawb y wat yny ballei iddaw, a cheitweit ac arddelw am weithredoedd yn llaw; na phan ballynt, pallu y amddiffyn y'r dyn; a chyt a hynny, gwir gwlat yn lleu ereill; ac am holion arglwydd yn bennddiatnot; cany chyngein y arglwydd na thwng y greir, yn gyrru, na thwng y greir yn damdwng y da, na thwng yn profi o flaen gwybyddyeyt. Y tri pheth hynny ny ellir cyfreith¹⁷⁴ gwbyl hebddynt rhwng hawlwr ac amddiffynwr.

§302. Tri lleidyr crogadwy sydd: lleidyr da bywyawl a ddalyer ganthaw llwdyn ar y lliw ydd holer yn lledrat; a lleidyr a ddalyer croen llwdyn yn lledrat ar y lliw a holer, ac ny chaffo y ddiheur yn gwbyl am y cic; a lleidyr da marwawl a ddalyer ganthaw wert[h] iiii^c cyfreith yn lledrat.

§303. Tri pheth un freint a lledrat yn llaw, sef yw hynny, y ddamdwng a berthyn y'r hawlwr, ac yn rheit fyd y'r amddiffynwr un o'r tri: ai cadw cyn coll, ay arwaessaf, ai cadw geni a meithrin; ac onys ceiff un cyfreith a ff . . . sefffic¹⁷⁵ yn y law . . . Eil, y gael yn cytgerddet a lleidyr ddydd neu nos, ac yn cymorth gyrru y llw dan wybot y fot yn lledrat. Trydydd, y gael ar y¹⁷⁶ gefyn, neu y freich, neu y ysgwydd, neu yn y fwrw i'r llawr.

§304. Tri modd y bydd cyfaddef lledrat cynhyrchol: addef o'e benn e hun; pallu y geidweit; pallu y warant yddaw.

¹⁷¹ y llgr., yr Llan 121.

¹⁷² + a wnelo llgr.

¹⁷³ gyrrrei Llan 121.

¹⁷⁴ cyfreith – llgr., + Llan 121.

¹⁷⁵ sefffic llgr.

- §305. Teir cosp (o dda) lledrat cynhyrchawl, .i. lledrat yn llaw: cyntaf yw y affeithieu; eil, talu y da y'r cwynedic o'r lleidyr; trydydd, dihenydd o bydd cymeint y lledrat.
- §306. Tri dyn [t.43] ny ddyllir y gwerthu gan gyfreith: lleidyr barnedic y groc; a bratwr arglwydd; a dyn ffyrnic a laddo dyn yn¹⁷⁷ ffyrnic.
- §307. Tri dyn ny wnant yawn y neb o'r a'e holo (ac nys gwnair): lleidyr barnedic, a chlafwr,¹⁷⁸ a bradwr arglwydd cyfaddef.
- §308. Tri dyn ny ddyllir y claddu yn gyssegry: lleidyr crogedic, a bradwr arglwydd, a ffyrnigwr eneit faddeu.
- §309. Tri lle y cyll lledrat yn llaw y frein[t], sef pa le yw, am na ddyly damdwng namyn rheit: blawt, a gwenyn, ac aryant: yr y cael yn llaw hwnnw yn lle[drat].
- §310. Tri modd y bydd eneit faddeu dyn am ladrat yn llaw: o ballu y geitweit, o ballu y arddelw lle rhoddo, o addef e hun: sef yw hynny, lle bo hawlwr ac amddiffynnwr, sef pa le a hynny ny bydd eneit faddeu neb, eithyr o farn cyfreith. Ny farn cyfreith ar neb, eithyr lle gwnele cyfreith o gwbyl. Ny bydd cwbyl cyfreit[h] eithyr lle bo petwar defnydd: arglwydd yn gwranda, a hawlwr, ac amddiffynnwr, ac ynat y farnu.
- §311. Tri lleidyr cyfaddef y sydd: lleidyr a addefo o'e benn e hun y lledrat; lleidyr a ballo y arddelw iddaw; a lleidyr a ddalyer ar y ffoadurieth: sef pa fodd y delir ef felly, y geissiaw o wyr tyngedic yn y dy,¹⁷⁹ yn y anlloedd, teir gweith, ac nas

¹⁷⁶ ar y. Mae'r ddau air hyn wedi eu hychwanegu at ddiwedd y frawddeg gyda marc *caret*.

¹⁷⁷ yn - llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

¹⁷⁸ chwyr llsgr.

¹⁷⁹ dyf llsgr.

caffont; ac wedy hynny y gaffael, ac na ddel wrth cyfreith; ac wedy y gaffel¹⁸⁰ wedy rhedec cyfreith arnaw.

§312. Tri pheth ny ddyleyr am ledrat: y gymryt drachefyn gan y lleidyr, os yng . . . y bydd, heb gwyn; a chyt boet cwyn hefyt, nys dylir, eithyr diogelu lleidyr hyt y datleu. Ail yw dygymot am y lledrat. Trydydd yw¹⁸¹ gillwng y lleidyr yn¹⁸² rhydd.

§313. Fry y dywetpwynt am eissywet a'r a ddyly brenhin, [ac] aelodau a drychir y ddyn: bellach lle telir gwerth aelodau.

[Gwerth aelodau]

§314. Tri lle y telir gwerth aelodau cyfreithiawl, am hynny y gossodet gwerth arnunt o gyfreith: un yw ynat a farno cam frawt, pedeir punt a deugent. [t. 44] Eil yw lle dyrchafer groes brenhin, .i. diffeith yr arglwydd y . . . yna . . . oll a'r gwys¹⁸³ a'r heyrn, a gwerth y troet deheu y'r amaeth a fu yn gwasgu y'r gwys, a'r llaw ddeheu y'r geilwat: ac os perchennoc y tir a gwyn, iiiii *ceinioc* am egori y ddayar, a iiiii *ceinioc* am dynny yr heyrn o'r ddayar, a cheinoc am bob cwys o gwybyddir a ddyly ef; cany eill ef dynny yr heyrn o'r ddayar heb friwaw y ddayar a'e chynhyrfu. Trydydd, pan sarhao caeth wr rhydd, truchu y aylawt, nyt amgen y law, canys un werth yw llaw pob dyn a sarhaet rhydd: lle arall y trychir aylawt, am y trydydd lledrat y gaeth, a hynny y[n] lle dehol.

Llyma gospeu galanas

§315. O deir ffordd y dylu dyn fot yn eneit faddeu: o ladrat barnedic y groc; a brat arglwyd; a ffyrnic weithret llawruddyath. Rhei o'r yneit a ddyweit, mae am frat arglwydd y byddei gynt gornest; canny chyngein hawlwr amdanai eithyr yr

¹⁸⁰ + wedy gaffel llsg.

¹⁸¹ yw – llsg., + Llan 121.

¹⁸² y llsg., yn Llan 121.

¹⁸³ gwydd llsg.

arglwydd e hun; ac na eill gwr wneuthyr cyfreith a'y arglwydd: diogelaf eissyoes yw am honno, yw (y dyly) bot rheith, mal am ffyrnicrwydd arall.

- §316. Tri dihenydd cyfreithiawl y sydd: un yw croc am ledrat; dial a lleas am lawruddyaeth; llosc am ffyrnigrwydd. Llyna lle bydd rhaith¹⁸⁴ o cyfreith am alanas: o lladdei gwr (.i. cled en waessaw) . . . gwr brenhin, ony wnat iawn drostaw o fewn oedeu cyfreithiawl, ef a ddylir y roddi y genedyl y lladdedic; felly am gaeth a laddo bonheddic: a llyna¹⁸⁵ leoedd ny cheiff arglwydd ddim o'r da er cymell.
- §317. [T]ri lle y caiff brenhin yr alanas, neu dal drosti oll: lle gorchmynner ynfyt iddaw, a'y ladd; lle y del y¹⁸⁶ llofruddiaeth o anifail, neu beth arall, ni cheiff cenedyl ddim; ni cheiff ynteu y llofrudd, onyt ymwrthyt y perchennoc ac ef; onyt ymwrthyt hagen ac ef, talet dros weithret y anifeil. Ni ddisgin galanas fyth ar genedl, eithyr lle pallo rheith, neu a dori . . .
- §318. Tri dyn a ddyly bot yn anrheith oddef o cyfreith, ac [t. 45] ny ddylyir ei difetha: dyn a wrthotto cyfreith llys; a fflemawr rhwng dwy wlat; a llofrudd a laddo celain¹⁸⁷ y gwlat y brenhin: a gaffer o'e dda o'r pryt bwygilydd o'e dda cychwynnawl, y brenhin pieu.
- §319. Teir cosp ffyrnicrwydd: talu galanas dros y neb a ladder; dihenydd ar y neb a'e gwnel; ac anrheith gribddeil o dda y llofrudd.
- §320. Tri dyn ny ddylir y ladd, cyt boen[t] llofruddieit: brenhin, ac effeiriad, a cherddawr: ac am hynny, ny chaffant wynteu ran, eithyr brenhin e hun.

¹⁸⁴ llaith llsg.

¹⁸⁵ Mae ôl dileu o flaen y gair.

¹⁸⁶ del y – llsg., + Llan 121.

¹⁸⁷ celin llsg. Mae marc caret yn dynodi bod y llythyren 'a' ar goll ond anghofiwyd ysgrifennu'r llythyren uwchben y gair.

- §321. Teir cosp lladd celein ac aryf: dirwy ymladd, ac anrheith gribddeil, a chosp am waetlytu¹⁸⁸ daear y brenhin. Os am ffyrnicrwydd: cospeu deuddyblyc, a thal deuddyblyc; eithyr na bydd onyt un anreith gripddeil yr hynny.
- §322. Teir anrheith a ddyly y brenhin: anreith gribddeil, ac anrhaith oddef, ac anrheith gorwlat.
- §323. Teir anrheith oddef a ddyly brenhin: un am lawruddiaeth, y brenhin pieu y holl dda o'r a orddiwedder o'r pryt y'r llall (neu dda llofrudd). Eil, da dyn am hydd y cyll y raith¹⁸⁹ brenhin. Trydydd, fflemawr rhwg dwy wlat, a ffoawdyr: sef yw ffoawdyr, dyn a retto cyfreith arnaw a gomedd¹⁹⁰ gwys, heb anfon esgussodion cyfreithiawl deirgweith, a gwrthod cyfreith, wedy y geissiaw yn y anlloedd deirgwaith¹⁹¹ heb y gael; cyfaddef yw yr hawl arnaw; sef yw cyfaddef, mal addefedic yw yr hawl.

[Cyfreitha]

- §324. Tri gwrtheb¹⁹² cyfreithiawl y sydd ynghyfreith yn amryfaylyaw: addef, neu wat, neu amddiffyn cyfreithiawl mal nat atepper y'r hawl.
- §325. Tri modd y bydd addef: addef o'e ben e hun yr hawl yn gorsedd; addef o dafodyawc gwneythuredic yn gorsedd yr hawl; addef oddieithyr gorsedd y arglwydd, neu ynat yr hawl; ac yna y dily arglwydd trugaredd.
- §326. Tri pheth un freint ac addef: tremygu gorsedd heb esgussod; a thewi dros amser; a phallu arddelw.¹⁹³

¹⁸⁸ waetlycu llsg.

¹⁸⁹ am . . . raith] Mae dotiau o dan y geiriau hyn.

¹⁹⁰ gomedd – llsg., + Llan 121.

¹⁹¹ Mae'r 'i' cyntaf yn y gair wedi ei hychwanegu uwchben gyda marc caret.

¹⁹² gwrthell Pen 164.

¹⁹³ ar dwng llsg. Y chwanegwyd 'arddelw' mewn pensil ar ymyl y ddalen.

- §327. Nyt cwawl un gyrr heb dwng; nac un gwat heb dwng o'r blayn; ac wrth hynny y bydd rheithieu, ai un ai lliaws.
- §328. Nyt [t. 46] cwawl un amddiffyn ac nyt palledic hynny ei deffryt gwlad amdanaw rhwg yr hawlwr a'r amddiffynwr, gan dyngu yn ddyledus fot yn wir, neu yn eu. Ac yno hefyd y brenhin pieu cymell ar y gwyr tyngu y'r creir, sef yw hynny, am ddefawt gwlat. Lle perthyno deffryt gwlad, gwyr y llys pieu tyngu, eithyr y rhei a allo y pleidieu eu llyssu o cyfreith.
- §329. Ny seif neb amddiffyn y amddiffynwr ac ny thycya, ony bydd amserawl yn y dadyl, herwydd cof llys, a gwir herwydd deffryt gwlat, ac a perthyno yn briodawl herwydd cyfraith yn erbyn yr hawlwr a'r dadyl o'r honn y dywetter amdano.
- §330. Tri rhyw amddiffyn cyfreithiawl yn erbyn hawl: cyntaf yw, na ofynner hi yn amserawl, neu na wyper y gofyn yn cyfreithiawl, a doddi hynny o'r amddiffynwr yn erbyn yr hawlwr yn yr orsedd; ac iawn yw y amddiffyn, na ddylly ateb y'r hawl, yny fo cwyn neu hawl newydd rhacddaw. Eil yw amddiffyn yn erbyn yr hawlwr, mal nat atteper byth y'r hawl, o'e bot yn rhyw hawl a honno o gau gyfreith rhwng yr hawlwr a'e iawn (deolawyr ffordd).¹⁹⁴ Trydydd yw amddiffyn yn erbyn yr hawlwr ac ateb iddi; ac eissyoed na choller dim er yr hawl; megys dywedut darfot gwneuthur iawn drosti, neu beth cyfryw; neu ddarfot gynt y ddifarnu o'r hawl honno; a phrofi hynny drwy yneit, neu ynat, a [rodde y] frawt.
- §331. Tri rhyw wat cyfreithiawl y sydd: cwawl wadu y dadyl a ddotter¹⁹⁵ ar ddyn; a hwnnw a fydd drwy reith gwlat furyedic, heb na mwy na llei. Eil yw addef rhan o ddadyl drycweithret, a gwadu y cwawl; ac yna y gwedir drwy achwanegu rheith ossodedic, megys y mae yng colofneu cyfreith am lawruddyaeth; yn y lle y tyngel dengwyr a deugeint y wadu llawruddyaeth a'e affeithieu oll; yna y tyng

¹⁹⁴ deolawyr ffordd llsg.

¹⁹⁵ a ddotter. Mae hyn wedi ei gopio ddwywaith, rhoddwyd croes drwy'r camgymeriad.

cant y wadu llawruddiaeth e hun a gwadu tafawtweli;¹⁹⁶ ac addef yr affeithieu e hun; .i. tafawtruddiaeth, neu lygatruddiaeth, neu weithret; .i. daly. Trydydd, gwadu rhan ac addef peth arall o ddadyl heb weithret ynddi; ac yna y lleiheur rheith ossodedic, megis mewn mechni [t. 47] addefedic; y lle y tyngai y mach ar y seithfet, pan watei ol[l] y fechniaeth, yna y tyng e hun, gan wadu peth ac addef peth o'r fechnieth honno.

§332. Tri rhyw fach y sydd ac ni cheiff un ohonunt ddwyn y fechni a[c] y lw e hun cyt gwatto peth ac addef peth: dyn a el yn fach yngwydd gorsedd, a mach diebredic,¹⁹⁷ a mach cynn[o]gyn.

§333. Peth bynna[c] a dyngo mach a el yngwydd gorsedd, y llys a ddyly tyngu gyt ac ef, neu yn y erbyn; ac onyt wy[nt] a ddywedant bot yn wir cyt ac y dywetto ef, ofer¹⁹⁸ yw a ddyweit. Peth bynnac a dyngo y lleill, ar y seithfed o gereint y tyngant; canys talyawdyr cyfreithiawl fydd pob un ohonunt; ac atfydd yn rhyw fechni ac y perthyno hynny y'r teir ach nessaf; ac am hynny y bydd rheith o gereint gyt a dyn.

§334. O dri modd amryw y bydd unrhyw garant a chwbyl wat: un yw cadw perchennogaeth da gan ddyn. Eil yw profi y fot, y nos y cysswyner y weithret arnaw, yn y ty a'r ty, a chadw gwesty cyfreithiawl ganthaw.¹⁹⁹ Trydydydd, arddelw, .i. diarffordd y ochel hawl.

Am ddefawt²⁰⁰

§335. Tri achos sydd y wneuthur defawt: un yw y wellhau ar gyfreith rhac gorthrymet cyfreith am sarhadeu, sef yw hynny, cymrodedd a fo drwy wyr cymrodedd. Eil yw, lle ni aller cyfreith esgrifenedic, na'e dwyn ar gyffelybrwydd, cymer y

¹⁹⁶ a . . . weli. Mae dotiau o dan y geiriau hyn.

¹⁹⁷ diebriwit llsg.

¹⁹⁸ efer llsg.

¹⁹⁹ ganthaw cyfreithiawl llsg.

²⁰⁰ Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

defawt. Trydydd, am nat hawdd y wr wneuthur cyfreith a'y arglwydd, gatter y defawt: llyma paham nat hawdd arglwydd, arglwydd a gynnal cyfreith.

§336. Addfwyn yw cyfreith, a bonheddic, a chyfiawn, a huawdyl, herwydd anyan a rheswm naturiawl; nyt y un dyn, namyn y'r cyffredin gwlat y may da; nyt er dirgeledicrwydd y gwnaethbwyd, namyn y derfynu defawt gwlat (ar angenreidieu²⁰¹ cyhoeddawc) hagen a feddo ar y lle a'r amser: rheith yw crynodep a chyfarwyddyt cyhoeddawc rhac tywyllwch, twyll, a gorthrymder pleidieu.

§337. Llyna paham y mae addfwyn cyfreith, am nat grym yng cyfreith neb anaddfwyn yn tystiolaeth o'r byt, [t. 48] am nat geir y eir, [ac] am y bot yn neilltuaw ceith ac alltudyon y wrth cyfreith cyffredin.

§338. Llyma paham mae bonheddic cyfreith: Hywel Dda, frenhin Cymbru, a[^y] ddylyedogyon a'y ffuryfhawdd o ddoethineb y calonneu a'e corffeu e hunein, ac am hynny, etifedd y brenin hwnnw ynt cyfreith a defawt; am hynny, na ddyly yr un fot yn gwrthwyneb y'w gilydd mwy no brodyr, ac o bydd defawt yn erbyn cyfreith, nyt catwadwy: llyna paham y dylu frodyr fot yn duhun, pob un a ddyly cynnal gyt a'e gilydd y ddlyet o lw a da; felly cyfraith a defawt.

§339. Llyma paham y may cyfiawn cyfreith, gorchymyn y may y bawb na wnel cam a'y gilydd, a gedu y bawb yr eiddaw e hun; a chospi y neb a wnel amgen, os dyllynir.

§340. Huawdyl cyfreith paham? Nyt oes eissieu ynndi, canyt eissieu hynn aller y drossi ar ddyall a chyfflybrwydd, canys ydiw yn terfynu pob cynnen ac anosbarth.

²⁰¹ angenreidieu llsgr.

- §341. Mam y cyfreith yw anufyddawt, canys pa na bai anufyddawt ni buassei reit gwneuthu[r] cyfreith; canys yr anufyddawt yw yr angcyfreith, yr angcyfreith y sydd yn erbyn cyfreith, cyfreith a ddieil yr ancyfreith.
- §342. Teir gossodedigaeth y sydd herwydd Hywel Dda y gwplay cyfreithieu a'e harfer yn berffeith, hyt na aller eu cablu o eissieu, neu ormodd-der, neu o peth anheilwng: cyntaf yw o'r cyffe[ly]byon, y cyffelyb farn a roddir. Eil yw o'r ddwy gyfreith erbyn yn erbyn yn asgrifenedic y ddosparth un peth, yr un a fo teilyngach no'r llall a gynhelir. Trydydd yw pob cyfreith ysgrifenedic a ddyllir y chadw, hyt pan gytunaw y pendefic a'e wlat y ddileu honno, a gossot arall a fo gwell. Oddyna, pan ymwystloent yr amddiffynwr a'r brawdwr o barth yn erbyn brawt, os y brawdwr a ddichon ddangos y frawt ef yng cyfreith ysgrifenedic, neu y cyffelyp, mal na allo yr amddiffynwr ddangos arall wrthwyneb iddi a fo teilyngach ynghyfreith ysgrifenedic, y brawdwr a orfydd; onys dichawn, ef a orfyddir.²⁰²
- §343. [t. 49] Teir defawt y sydd: cynefawt a erlit cyfreith; cadwadw[y] yw. Cynefawt a ragflaeno cyfreith; o bydd awdurdawt brenhiniaeth iddi, cadwadwy yw. Cynefawt a llwgwr cyfreith, ny chynhelir honno.
- §344. Tri pheth a gadarnha defawt: addfwynder, a gallu, ac awdurdawt brenhin.
- §345. Tri pheth a wanha defawt: gorthrymder, ac angheugant²⁰³ fonedd, a dryc angreiff. A hi eissioes a wrthleddir rhac dryc angreiff.²⁰⁴
- §346. Beth bynnac nyt ysgrifenwyt mewn cyfreith o'r a aller trwy ddylyet y gaffel; o bu hynn a ysgrifenwyt yn ossodedic, cynaladwy fydd yn lle cyfraith yn y dadleuoedd, cany ellir ysgrifenu pob peth o'r a fo rheit y ddywedyt neu y farnu.

²⁰² + Am defawt Pen 164.

²⁰³ anghengant llsgr.

²⁰⁴ A . . . angreiff – llsgr., + Llan 121.

Cyfreith hefyt a ddyweit nat . . . eissieu mewn cyfreith pan a aller y dwyn ar gyffelybrwydd a rheswm²⁰⁵ . . . yw rheswm naturiawl.

§347. Pwy bynnac a ddywetto ar y brenhin, neu ar y neb a fo trostaw, wneuthur gorthrymder ac ef, pa le bynnac y bo y neb a . . . os y brenhin a . . . fwrw ae mewn breint arall, ef a ddyly y neb a'i . . . caffael detfryt gwlat am hynny. Ac os detfryt gwlat²⁰⁶ a farn yn wir hynny ar y brenhin, o'r lle y dylir y iawnhau a . . . yw . . . cyffredin . . . rhwng arglwydd a gwlat . . . erbyn cadernyt arglwydd.

§348. Eissioes amgen yw am cyfreith os brawdwr a farn cam frawt,²⁰⁷ ymwystlaw ac ef, ac felly y caffer yawnder.

Am frawdwr²⁰⁸

§349. Tri dyn ny allant ymwystlaw yn erbyn brawt trwy gyfreith: un yw brenin, am na ddichawn o gyfreith sefyll mewn dadyl gar bron y frawdwr y holi neu ateb am y freint anyanawl, neu trwy freint tir, mal be[r]yr neu arall cyfryw. Eil yw dyn eglwyssic rhw[y]medic mewn urdeu cyssegredic. Trydydd yw dyn eglwyssic rhwymedic mewn crefydd; cany ddichawn neb roddi gwystyl yn erbyn brawt o cyfreith onyt dan y perigyl a ddigwydd ar y brawdwr, sef yw gwerth y dafawt [xlii punt; ac nyt oes werth] ar aelawt na gwaet na sarhaet gwyr eglwyssic; ac am [t. 50] hynny ny eill [neb] ohonunt gynnig gwystyl yn erbyn brawt na chyt frawt. Holl argywedd segyrlyt a wneler y'r eglwyswyr a ddyllir y emendau iddunt yn y senedd herwydd cyfreith eglwyssic.²⁰⁹

§350. Tri pheth a ddyly brawdwr cyfyawn y wrandaw, a'y datcanu, y gan y cynhenwyr cyn barnu neb ohonunt yn ynnill nac yngcollet: nyt amgen, cwyn .i. hawl, a de[i]ssyf, ac ateb.

²⁰⁵ gyffelybrwydd . . . rheswm rhoddyd dotiau o dan hyn.

²⁰⁶ am . . . gwlat – llgr., + Llan 121.

²⁰⁷ os brawdwr a frawt llgr.

²⁰⁸ Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

²⁰⁹ eglwys llgr., kyfreit egluyssic Llan 121.

§351. Pwy bwynnac a gollo peth trwy farn tremic, ef a ddichawn roddi gwystyl pan y mynno o fewn un dydd a blwyddyn; yn y flwyddyn gyntaf y caffo iawn y gan y brenin, a'r brawdwr a roddes y farn yn sefyll wrth²¹⁰ gyfreith yn y feint amser hynny. Os o fewn yr amser hwnnw ydd ymwystla ef yn erbyn y farn, ef a ddyilir etfryt iddaw y holl gollet yn ddioghir; ac ef a ddyly cynnal hwnnw yn rhwymedic wrth cyfreith hyt pan rodder dosparth trwy lyfreu cyfreith y rhyngthaw a'r brawdwr am y farn dremic, megys y gwypper pwy a orffo neu pwy a offer. A'r brawdwr a ddyly etfrut y'r brenin hynn a farnassei y'r brenin o dda hwnnw. A'r hynn a fa[r]nassei y ereill, wynt a ddylyant y etfryt iddaw drachefyn heb amgen boen, ony orfydd arnaw cwynaw rhacddunt mal rhac y brawdwr. Os y brawdwr a orfydd, atferet y cwynwr y dda oll drachefyn. Ny henyw o wassanaeth brawdwr²¹¹ roddi barn na brawt tremic; am hynny y dyly (roi) ynteu brawt amodawl, sef yw hynny, na bydd angen cyfreithiawl y omedd y gwys: sef paham na henyw o'e wassanaeth, ny wnaethbwyt ynat²¹² eythyr ar hawl ac ateb peth ny bu, ac wrth hynny ny ddyly y brenin ateb dros y frawdwr am hynn a wnel maes o'e wassanaeth ddylyedus, mwy no phettei oddieith y llys yn gwneuthyr angcyfreith.

§352. Tri rhyw farn tremic cyfreithiawl:²¹³ un yw barn a rodder yn erbyn dyn nys clowo pan ddatcaner cyntaf mewn llys bi . . . nac ympell nac yn agos y bai. Os yn agos, y rhingyll a ddyly y alw, mal y clywe[i]: am hynny y gelwir²¹⁴ rhingyll, gwaedd gwlat. Os ympell [t. 51] y bai, y rhingyll a ddyly y aros, a'r brawdwr, yny ymddangossei y mewn llys, or deuei²¹⁵ yn amserawl: sef yw hynny, cyn hanner dydd, nac amddiffynwr na hawlwr fei y dyn. Eil yw brawt a rodder ar ddyn cytrychawl trwy orthrymder pleit yn rhoddi ar y²¹⁶ llys o bleit y

²¹⁰ Ysgrifennwyd y llythyren 'w' ddwywaith, rhoddwyd croes drwy'r camgymeriad.

²¹¹ Ny . . . brawdwr. Ysgrifennwyd hyn ar ben camgymeriad.

²¹² ynat – llsg., + Llan 121.

²¹³ cyfreithiawl llsg.

²¹⁴ y gelwir – llsg., + Llan 121.

²¹⁵ defei llsg.

²¹⁶ ar y llsg.

brenin, neu y brawdwr, neu wyr y llys (am anufuddawt). Trydydd yw barn brawdwr anheilwng.

§353. Tri dyn ny ddichawn yr un ohonunt bot yn frawdwr teilwng trwy gyfreith: un yw dyn anafus, megys byddar, neu ddall, neu glafwr, neu ddyn rhythrawc a orffo y rwymaw unweith am ynfytrwy, neu ddyn ny fettro dywedut yn annyanawl, mab cryc anyanawl, neu o bydd tra bloesc. Eil yw dyn eglwysic rhwymedic wrth urdeu cyssegredic, neu wrth grefydd.²¹⁷ Trydydd, lleyc heb allu trwy cyfreith iddaw barnu o tir, neu freint swydd.

§354. Teir ffordd y gellir gwrthot brawdwr teilwng: un yw o'e fot yn angyffredin cyn barn rhwng cynnennussyon yn llys. Eil yw y fot yn gyfrannoc ar yr hynn y bo y dadyl ohonaw, pe gellit y ynnill trwy farn. Trydydd yw cymryt gobyr am y dadyl ar ny bo yawn y frawdwr na gossodedic yng cyfreith y gymryt.

§355. Ny ellir cymell dyn eglwysic o faes y senedd y wrthep y nep o'r cameu a ddywetter arnaw.

§356. Os hagen gwr eglwysic a gyneil tir trwy ddylyet dan y brenin, y perthyno gwneuth[ur] gwasanaeth y'r brenin ohonaw, ef a ddyly gwrthep yn llys y brenin o'r tir a'r perthyneu, canys brenin pieu tir y teyrnas oll; ac ony wrthyb o'r tir yn ufydd, y brenin pieufydd y tir.

§357. Cyt gallo gwr eglwysic bot y me[w]n barn o freint tir gyt a lleogyon, hynny fo amser datcan rhwng cynnenuussyon, ny ddichawn ef hagen ddatcanu y farn o gyfreith, canyt oes werth gossodedic ar y dafawt ynghyfreith, canys ar y datceynyat yr ymwystlir, a thrwy hynny y profir pob brawdwr a roddo cam farn, os cadarnha trwy ymwystlaw yn amserawl.

§358. Amser y ymwystlaw a brawdwr yw pan rodder y frawt yn gyntaf yn y ddadyl, nyt amgen, cyn dechreu [t. 52] dadyl arall a'e hadaw hitheu ar hedwch.

- §359. Pwy bynnac a ebryfycy y dadleu yr amser hwnnw, ni ddichawn byth gwedi hynny ymwystlaw herwydd cyfreith, [n]a'r frawdwr gyd a'r frawt, na'r dadleuwr yn erbyn y frawt.
- §360. Tri llyfyr cyfreith a beris Hywel Dda y wneuthur yn y Ty Gwyn ar Daf: un wrth y llys peunyddyawl y'r ynat llys y arfer ohonaw; arall i Ddinefwr; trydydd y Aberffraw, mal y bei awdurdawt cyfreith ymylith tair rhan Cymry: Gwynedd, a Phowys, a Deheubarth.
- §361. Tri pheth a ddylyl ynat: un yw gellwng cyfarcheu wrth reit y brenin. Eil yw datcanu cynghenessedeu mewn llys a'i dosparth. Trydydd, hyn a ddospartho trwy farn, y gadarnhau drwy wystyl a brawtlyfyr, os ymwystlir ac ef yn amserawl yn llys, neu, o gofyn y brenin iddaw heb ymwystlaw.
- §362. Ny ddylir credu barn na[’y] chymryt rhwng deu wystyl am frawt, onyt un a ddangosser yn cyfreith ysgrifenedic . . . ; ac am hynny ny ddyly ef roddi brawt, eithyr a’e lyfyr yn y law.
- §363. Ny ellir ymwystlaw ac ynat eithyr lle bo cwyn o’r blaen am yr hawl y barnawdd ar[ni] mewn llys.
- §364. Brawdwr herwydd breint tir, tra gynhalyo y tir, breint brawdwr a gynneil. Sarhaed brawdwr o swydd, herwydd breint y swydd y telir. Sarhaet brawdwr [heb swydd] herwydd breint y tir telir iddaw; pan orffo e²¹⁸ ymwystlaw a[c] arall . . .
- §365. O deir ffordd y dosperthir brawd cyngaws: cyntaf drwy oddef, canys goddef a dyrr ar gyngessau. Os brawdwr a oddef gwystyl yn erbyn y farn yn dangnefeddus, heb roddi gwystyl, yna digwyddedic fydd y farn. Eil yw

²¹⁷ grennydd llsgr. Ychwanegwyd ‘grefydd’ mewn pensil ar ymyl y ddalen.

²¹⁸ o Pen 164.

brawtlyfyr rhwng deu wystyl; sef yw hynny, gwystyl a rodder yn erbyn barn, gwystyl arall a rodder gyt a hi. Trydydd, brawdwr bieu dosparth rhwng deu ddyd yn gyngaws am y farn a roddassei iddunt heb ymwystlaw ac ef.

§366. Pwy bynnac o'r cynnenussyon yn llys a el yn erbyn brawdwr, ef a ddyly caffel cof llys rhyngthaw [t. 53] ac ef cynn barnu.

§367. Tri pheth ny ddichawn neb dros y llall: barnu brawt dros y llall ac ef yn y w . . . a'e allu²¹⁹ yn y cymwt y bo ynat; a chwynaw dros arall ac ef e hun y[n] gallu²²⁰ dyfot; a damdwng da ony bydd cyfrannoc arnaw, o da²²¹ y ddiamdwnng hagen, ny bo rhei cyfrannoc arnaw os gwr priawt y wreic fydd a'e arglwydd, os arall y arglwydd, canyt oes wlat heb arglwydd.

§368. Hywel Dda a ossodes bot yn Gwynedd pump swyddoc yn gwneuthur dadleu, nyt amgen, maer, a²²² canghellawr, ac effeiriad y ysgrifennu negessau, ac ynat y farnu rhwng hawl ac ateb, a rhingyll y wyssyio a galw a chynnal da²²³ o'r dadleu y'r brenin: llyna y tri pheth a ddyly ef felly ym Powys. Yn Neheubarth y gossodes ef petwar swyddawc: maer, a chyngellawr, ac effeiriad, a ringyll, nyt rheit hagen frawtwyr llys . . . gu cyt boet rheit iddunt . . . rhwng hawl ac ateb.

§369. Tri rhyw frawdwr y sydd yng Cymry herwydd cyfreith Hywel: brawdwr llys pennadur herwydd swydd, gyt a brenin Aberffraw neu Ddinefwr; brawdwr cwmwt neu gantref herwydd swydd, ympob dadleu ym Powys a Gwynedd; a brawdwr o freint tir ympob llys cymwt neu gantref y Neheubarth, nyt amgen no phob perchen tir a daear o wr rhydd dianaf.

§370. Pob brawdwr swydd a gaiff .iiii.^o cyfreith dros bob hawl a dalo y gymeint y gan y neb y barner iddaw fessur y hawl (neu gan y neb y barner arnaw). Brawdwr o

²¹⁹ alw llsg.

²²⁰ galw llsg.

²²¹ oða llsg.

²²² a – llsg., + Llan 121.

²²³ ða llsg.

freint tir, ny chaiff werth dros y frawt, canys ardreth y tir, a'e wassanaeth yw hynny. Ac felly y bu cyn gwneuthu[r] cyfreith Hywel Dda, sef oedd yna, cyfreith Dyfynwal.

§371. Yspeit pob brawdwr y roddi brawt rhwng dadleuwyr onys gwybydd yn hyawdyl, pymtheng diwyrnawt; canys hwnnw yw oet dadleu o ddefawt cyfreith Hywel, ac²²⁴ felly o'r blaen y bu. Ac os brawdwr swydd fydd hwnnw ny wypo yn yr oet, collet y swydd heb amgen gosp arnaw; cany dyly²²⁵ swydd hwy nac y gallo wneuthur gwassanaeth yn y amser.

§372. Os brawtwyr o freint tir a archant yspeit am y brawt, ae o²²⁶ bedruster, ae o eisseu rhei o wyr y llys, y rhai cynyrchawl a gaffant [t. 54] oet heb dwng nas gwdant; a'r gyfyrraith a ddyly cymell y rhei absen drwy wys a mechniaeth drostunt, neu afel dros eu gosbeu ony deuant y'r eil gwys; a phwy bynnac ohonunt ny ddel i'r oet hwnnw, y neb a dremyco y rhyw wys hwnn heb achaws cyfreithiawl, camlwrw a fydd arnaw; a'r rhei a ddel i'r gwys, barnent wynteu hagen ar y dadyl, neu dyngent nas gwyddant, rhac colli camlyrau; ac yn y trydydd llys, barnent a'y dadyl yn ddi esgus, neu gynhalier y carchar y brenin y gafel pob un ohonunt ganthaw yny derfyner y ddadyl y cynhalier.²²⁷

§373. Nyt oes amgen boen [n]a dyal eithyr ei cymell drwy gyfraith, am wassanaeth diffic, neu ddylyet, neu gyllit brennin, ony wedir yn y erbyn, eithyr gwassanaeth a ddiffycio, ac a ddarffo o ryw ddamwain, ac ny aller y ynnill heb neb ryw arall²²⁸ yn y lle. Ny ddyllir ellwng gafel a gymerer dros un o'r tri diffic hynn, ony wneler cwbyl drostaw.

²²⁴ a llsg., ac Llan 121.

²²⁵ dyly – llsg., + Llan 121.

²²⁶ Mae'r llythyren wedi ei hychwanegu uwchben y llinell gyda marc caret.

²²⁷ canhelaer llsg.

²²⁸ arall llsg.

§374. Cynn bo lliaws o frawtwyr o fraint tir yn y brawt hwnnw,²²⁹ un eissioes a farn, sef yw hwnnw, y neb a'e ddatcno y frawt yn y llys ar ostec rhwng dau²³⁰ hawlwr drwy gyfundeb gwyr y llys; a rhei ereill a fyddant yn cynghorwyr iddaw yn y frawt, megys y dyly cynghorwr fot y'r ygnat pan farno frawt, megis yr eirch y llyfyr iddaw pan el i'r frawt, dwyn yneit gyt ac ef, ac effeiriad, a gwyrda: a phwy bynnac a ddel attaddunt tra fo yn y gyngor heb y ganyat, cosp camlwrw, heb neb²³¹ y'w warchadw tra fo yn gyngor hefyd. Ac o digwydd ef yna yn gwerth y dafo[t], echos y farn a ddatcanwys drostunt wynteu, bradwr²³² hwnnw hagen ac wynteu en gyt a dalant gwerth i dafawt [yn gyffredin], dym²³³ mwy o cymein[t] ar bob un a'e gilydd; canys cytcyngor cyffredin o gytuhundeb a roddasant cam frawt; ac am hynny cyffredin dal a fydd a[r]nunt. Ac felly, os brawdwr o fraint tir a gyll camlwrw o achos brawt a rodder lle dylyer camlwrw am frawt, pob un yn gyffredin a dal cymaint a'i gilydd.

§375. Lle bo hagen gwystyl a gwrthwystl erbyn yn erbyn, ni ddigwydd un yn gwerth y dafawt eithyr un: y brawdwr [t. 55] e hun, neu y neb a ymwystlo ac ef. Pan ddigwyddo brawdwr swyddoc llys, neu gymwt, neu gantref, yn gwerth y dafawt . . . [tri pheth a gyll ef yna. Cyntaf y cyll y swydd. Eil, breint brawdwr, o eissieu swydd. Trydyd, gwerth y dafawt.]

§376. [T]ri pheth ny ddyly lliaws o frowdwyr ei wneuthur heb ganyat arglwydd a'r pleitiau:²³⁴ bwytta, neu yfet, neu wahanu.

§377. Pan fo brawdwr o fraint tir, cyn digwyddo yn gwerth y dafawt am y gam frawt, ny chyll ef fraint brawdwr tra fo tir iddaw; canys o hynny y mae y freint iddaw y farnu, o bydd gwr rhydd ef; canys peth bynnac y bo breint iddaw, y ddyn ynddaw, y may idda6 priodolder diwahan yddaw ynddaw; canys gyt ac ef pan anet y ganet y breint hwnnw. Braint anyanawl yw priodolder y corff, felly

²²⁹ + yn yr un frawt llsg. Mae dotiau o dan o . . . hwnnw.

²³⁰ dau llsg.

²³¹ heb neb llsg.

²³² brawdwr llsg.

²³³ dym llsg.

brein[t] tir yw priodolder y tir; breint swydd yw priodolder y swydd; am hynny, pan wahaner priodolder swydd a brawdwr o swydd, y gwehenir a phrioder swydd.

§378. Tri chof wedy brawt y sydd: goddef o frawdwr roddi gwystyl yn erbyn y frawt pan ymwystler ac ef, heb roddi gwystyl yn y herbyn yna, ac wedi hynny cynnic gwystyl y'w cadarnhau, ny ddylir y gymryt o gyfreith, ony bydd am frawt tremic; a chynnic gwystyl yn erbyn brawt wedy y goddef; neu adaw ymadrawdd²³⁵ gwallys yn y llys ar gyfraith a barn, ac wed[y]²³⁶ gwall, ni ddylir y wrandaw wedy ef.

§379. Yspeit y ddosparth brawt amrysonedic rhwng dau wystyl erbyn yn erbyn a rodder yn llaw y brenin, pymthec diwyrnawt; canys hynny yw oet dadleu o cyfreith Hywel Dda. [Ll]yma fal y dosperthir hi: cyntaf y dyly y brenin wrandaw yr ymrysson yn y llys y neb a wrthnepo y'r frawt; ac oddyna ateb y brawdwr olynol. Oddyna y neb a ddywetto yn erbyn y brawdwr a ddyly dangos o lyfyr cyfreith brawt a fo gwell a theilyngach no'r llall, a henwi ygnat a'e barno os dichawn y gael; ac felly y gorfydd ef os caiff, ac am hynny na ddichawn lleyc ymwystlaw ac [t. 56] ygnat; ony ddichawn, y brawdwr a orfydd, cany ddichawn neb anheilyngu brawt yn erbyn brawtwr cyfreithiawl, ony eill dangos peth a fo yawnach yn ysgrifenedic. Os yr ymryson a fydd y dosparth yn ysgrifenedic mew[n] llyfyr cyfreith Hywel, yna y bydd y dosparth a'r canhonwyr a arferoent o wirionedd; a[r] hynn a weler yn nessaf y'r wirionedd, teilyngaf fydd y gynnal yna.

§380. O dyry neb wystyl yn erbyn brawt a roddo brawdwr ac a ddatcano heb lyfyr cyfreith yn y law, y brawdwr pieu dewis ae rhoddi gwystyl yn y erbyn ae peidiaw, ae goddef drwy y gwrthwyneb hwnnw dangos yna, neu yn oet dydd, brawt a fo teilyngach yn ysgrifenedic. O dyry wystyl, y neb a orffer arnaw,

²³⁴ pelwtau llsg.

²³⁵ + neu wg llsg.

²³⁶ + gwałair llsg.

collet werth y dafawt. O goddef hagen, cyn gorffo y llall, ny chyll y brawdwr eithyr camlwrw; ac ony orfydd y llall, camlwrw a gyll hefyt.

- §381. Ni bydd cylus brawdwr yr datcanu brawt o lyfyr prawf cyfreithiawl fyth o awdurdawt ysgrifenedic yn llawn llythyr, canny bo iawn hi, onys cadarnha trwy wystyl yn ol; namyn y llyfyr a ddylyr y gaplu.
- §382. Or dyry brawdwr cam frawt *ymmewn* llys, a goddef o'r datleuwyr y brawt, a gwedy hynny rhoddi brawt yawn ohonaw yn yr unrhyw ddadyl, talet camlwrw am y farn gyntaf a roddes; canys e hun sydd yn barnu arnaw mal tyst credadwy yn dangos rhoddi cam frawt gynt, o praw ef honno hagen yn iawn. A llyna un lle y bydd²³⁷ brawdwr ynat arnaw e hun, cany eill na bo cam un o'r brodyeu.
- §383. O dyry brawdwr cam frawt yn erbyn dyn ny allo ymwystlaw ac ef, o dichawn y dyn erbyn y pymthec dieu, a dangos brawt ysgrifenedic mewn llyfyr a fo gwell no hi, y deilyngaf a saif, a'r llall a ddileir ymeith a chamlwrw ar ynat.

[Meddiant]

- §384. Tri pheth a gadarnha²³⁸ dyn ar y²³⁹ ddylyet: meddyant; ac iawn goresgyn; a chyn[g]warchadw: meddyant ar dda byw; gorescyn ar dir; ac addurn.
- §385. [t. 57] Tri chyngwarchadw cyfreithiawl sydd: o dyn, a thy, ac esgubawr.
- §386. Tri dyn ny ddylyr ei difeddianu yny fo dosparth: cwynwr am da cychwynnawl o rym y gwyn doter yn y meddiant; amdiffynnwr [am da] gatter yn y meddiant, o daw wrth wys ony fo dosparth; gwreic briawt a ddywetto y bot yn feichioc o'e gwr pan fo marw, hi a ddyly oet y drigaw yn ty yny fo esgor iddi; dyly hi hagen roddi mach ar gamlwrw y'r brenin o dyweit eu ffallu²⁴⁰ y gwarant, y gwarant hi

²³⁷ bydd – llsg., + Llan 121.

²³⁸ Mae'r llythyren 'r' wedi ei hychwnaegu uwchben y llinell gyda marc caret.

²³⁹ + dyn ar y llsg.

²⁴⁰ ffallu llsg.

yw bot yn was²⁴¹ y beichiogi ar fab: a llyna ddyn yn rhoddi mach am gamlwrw cyn gwneuthur anghyfreith or byt: a llyna gyfreith a ellir ei dwyn yn lle bo bygwyth ar ddyn, ar gymryt mach ganthaw ar heddwch, ac na wnel anghyfreith, ac, os gwna, bit y gorfodawc drostaw yn y camlwrw.

§387. Tri meddiant cyfreithiawl y sydd: meddiant a farner ac a gaffer o ddadanudd, pa ddadanudd bynnac fo; meddiant teir oes gwyr: tad, a hendar, a gorhendat, heb dwryf cyfreithiawl yn y luddyas; trydydd, hir feddiant ar dir, neu freint yn erbyn arglwydd; sef yw hynny, cant mlynedd: ny chae cyfreith rhwng arglwydd a'e wr am dir lei o yspeit no hynny.

§388. Tri datanudd ti a'i ceffy yn y . . . ddolen.

§389. Tri thwryf cyfreithiawl: torri aradyr, a llosgi ty, a chwy[n] . . . ti a'e ceffy yn . . . y ddolen . . . am oresgyn iawn ac un cam.

§390. Tri modd y gwahenir dyn a'e feddyant: un yw [yn] anghyfreithiawl; eil yw yn cyfreithiawl o'i ddifarnu o'i feddiant; trydydd, o rodidi meddiant y ddyn o fodd.

§391. Tri modd y gwahenir dyn a meddiant yn anghyfreithiawl: un yw o gamoresgyn arnaw; eil, o ddwyn da o'e feddiant y dreis; trydydd . . .

§392. Teir amryw hawl y sydd: un yw hawl rhwng hawlwr ac amddiffynwr. Eil yw hawl heb perchen, sef yw honno, hawl heb gwyn, sef yw honno, hawl arglwydd ar y wr am y ddylyet, neu am anghyfreith, canys arglwydd [t. 58] pieu cosp am anghyfreith. Trydydd, hawl rhwng diawl a'e gilydd, mal hawl etifedd cynwys yn ceissiw cynydd ar dorr dyledogion o'r tir; nyt iawn y gwrndaw, canyt oes un hawl iddaw eithyr ar hynn y cynwysswyt ef, os cynhwyswyt felly; onys cynwysswyt, hefyd diawl yw: neu hawl dyn a gollo tref y dat o'r ffyrdd y dily y golli, neu y dily y fab y golli, ac yn ceissiw rhann gyt a'e garant eilchwyl.

²⁴¹ 'wos' yw'r ffurf yn y llsgr. gyda'r llythren 'a' wedi ei hychwanegu uwchben mewn llaw ddiweddarach (Moses Williams?).

- §393. Tri pheth ni ddyly nep atdeb ohonunt: un yw peth ny bo diebredic yn erbyn cyfreith. Eil yw gweithret a aller dangos argywedd ohonei os gwneit, ac nys gwnait; ac am nas gwnayt, y holi mal am ladd dyn. Trydydd, collet ny wypo gwlat nac arglwydd o neb ry[w] yspysrwyd y cholli o'r hawlwr eryoet.²⁴²
- §394. Tri rhyw diebryt y sydd: un yw dwyn peth y ar ddyn ac nat²⁴³ atferer trachefen. Eil yw adaw argywedd ar dyn neu ar yr eiddaw heb wneuthur na chyfreith nac iawn iddaw amdanaw. Trydydd, diebryt dyn o'e ddylyet dros amser y dalu.
- §395. Tri modd y cae cyfreith rhwng hawlwr ac amddiffynwr: un yw o gau y amser, a hwnnw a ddamwynia o lawer modd: mal cau²⁴⁴ cyfreith rhwng dyn a'e ddylet, neu beth tebic. Eil yw hawl heb lw perchen,²⁴⁵ o farw, y neb a'e dyliei. Trydydd, terfynu [cyn no hynny yr] hawl rhyngthunt.
- §396. Tri therfyn hawl y sydd: un yw terfynu o gythundeb pleidieu; eil yw terfynu hawl drwy gymrodeddwyr rhwng pleidieu; trydydd, trwy farn.
- §397. [T]eir dadyl a ddylyant y hiachau a'e barnu drwy ddetfryt gwlat yn erbyn haerllugedd: un yw dadyl am fenffic heb praw lle bo cwyn, neu wystyl, neu au[a]e[l] [y sydd] un cyfreith. Eil yw dadyl y bo amddiffyn ynddi, neu amgen, [gwat] am dir. Trydydd, dadyl o orthrymder brenin yn erbyn cyfreith.
- §398. Tri modd yr holir tir: o gamoresgyn; a datanudd trwy feddyant tat hyt angeu; ac o ach ac edryt; cany thycyo hagen ofyn [t. 59] tir o'r ffordd gyntaf neu o'r eil, ny bydd hwyrach y ceffir o'r trydydd ffordd: ac felly am holion eraill cyfreithiawl.

²⁴² Y chwanegwyd y gair 'diebryt' ar ymyl y ddalen gyferbyn â'r triawd hwn.

²⁴³ nac llsg.

²⁴⁴ cay llsg.

²⁴⁵ lu perthom llsg.

§399. Tri chamoresgyn y sydd: goresgyn yn erbyn perchennoc, o'e anfodd (ac)²⁴⁶ heb frawt;²⁴⁷ neu y goresgyn drwy y perchennoc yn erbyn yr etifedd, o'e hanfodd heb frawt; neu oresgyn drwy warcheidwad yn erbyn iawn ddyledoc, o'e anfodd heb frawt. Perchennawc yw y neb a fo yn meddianu y ddylyet (ac yn eiddaw yn) ddilys. Gwarcheitwat yw y neb a gynhalio neu a²⁴⁸ g[warchatwo] hwn arall gantaw.

§400. O dri modd y dosperthir dadyl dadanudd rhwng etifeddion, cyntaf drwy fraint anianawl . . . Cyntaf yw breint oet rhwng hynaf ac ieuaf. Eil yw breint o rodd ac estyn rhwng etifedd cyfreithiawl ac un anghyfreithiawl, canys y cyfreithiaw[l] a'e caiff oll. Trydydd, breint dilyet rhwng dyledawc ac anyledoc. Os tadeu y rhai hynn a gynhalyant y tir gwers tra gwers hyt eu hangeu, os y meibion a eirch ddadanudd, mab y dyledog a gaiff dadanudd²⁴⁹ o gwbyl, pa bryt bynnac y del. Oddyna y daw etifeddion un radd y g[yt] ac yn un amser y erchi dadanydd, megis brodyr o dir dyledoc, neu gefynderw, neu gyfynderw o dir eu tadeu, yr hwnn a gynhelis eu tadeu²⁵⁰ yn ddiran gwers tra gwers hyt angeu, ny ddichawn yr un wrthladd y gilydd nac oedi, namyn pob un a gaiff dadanudd.

[Gwarant a gwys]

§401. Pedeir taryan y sydd a gerddant yn llys rhwng cynnenuSSION a rheith gwlad: cadw gwesti a rheith am ledrat cyswyn, a chadw cyn coll, a geni a meithrin, am ledrat gwaessaf .i. l[l]edrat yn llaw, neu am dreis ac angcyfarch heb dreis heb ledrat ynddaw. Ac nyt cwbyl wrtheb, ac nyt²⁵¹ cwbyl diheuraw, ac nyt cwbyl amddiffyn, un o'r teir cyntaf y neb a'e caffo, namyn canhorth[wy] mal y bo haws y gredu [t. 60] trwy y daryan a gaffo no hebddi. Felly y mae am warant, nyt cwbyl wrtheb, ac nyt cwbyl diogelrwydd gwarant, namyn y ceysseyaw neb

²⁴⁶ ae llsg.

²⁴⁷ + neu heb fra6t llsg.

²⁴⁸ a llsg.

²⁴⁹ mab . . . dadanudd – llsg., + Llan 121.

²⁵⁰ yr . . . tadeu – llsg., + Llan 121.

yn a wrtheppo drostaw yn y dadyl ac a wnel cwbyl drostaw. Wrth hynny, pwy bynnac a gaffo gwarant, safent ell deu y gyt wrth cyfreith mal cynt yn y llys yny derfyner y dadyl y rhyngthunt a'r hawlwr o farn cyfreith; cany ellir gwybot cyn barn terfyndedic ae un ohonunt a fo camgylys, ae ell deu, ae ynteu na bo cylys yr un ohonunt, a[c] na wys a fynno y gwarant wneuthur cwbl drostaw ei hun,²⁵² neu ae dichawn dros y da ymrysonedic, a thros yr amddiffynwr.

§402. Ni ellir gw[a]ranty²⁵³ un da cyffroedic nac un digyffro a ddycer yn erbyn cyfreith, nac un weithret a wneler yn erbyn cyfreith, os detfryt gwlad a'e cyhoedda. Brawdwr hagen a ddyly edrych trwy wlat a gwybot a cheissyaw dyall, ae yn erbyn cyfreith y ducpwyd y da neu y gwnaethpwyd y weithret, cyn rodđi barn terfyndedic rhwng yr hawlwr a'r gwarant,²⁵⁴ a hynny²⁵⁵ wedi gwrthep o'r amddiffynnwr.

§403. Y neb a gaffo gwarant y mewn dadyl, ny chaiff tafodyawc amgen no'e warant yn y dadyl honno; canys ef a ddyly ateb trostunt eill deu, a chanyt oes dim o warantrwydd amgen noc amddiffyn y ryddhau dyn o ddadyl.

§404. Pwy bynnac a fo gwell ganthaw arall y ddadleu yn y llys drostaw noc ef e hun, canyat yw iddaw dewi heb ddadleu dim tra fynno (eithyr lleidyr cyhoeddawc) cynnal tafodyoc gyt ac ef. Y neb a fynno tystu gwall yn y²⁵⁶ dadyl yn erbyn perchen tafodyawc, tystyeit ar y tafodyawc, cany ellir profi gwall ar y perchen e hun, canys cafas canyat cyfreithiawl y dewi yn y dadyl.²⁵⁷

§405. Llysu tystyon a fydd fal y dewisso y tafodyawc, ae warant, ae trwy alanas o'e blegyt e hun, ae trwy alanas o blegyt perchen y gwarant, neu dirdra, neu wreictra; canys yn y erbyn ell dau y may yr hawl.

²⁵¹ nyt – llsg., + Llan 121.

²⁵² wneuthur . . . hun – llsg., + Llan 121.

²⁵³ Mae'r llythyren 'r' wedi ei hychwanegu uwchben y gair gyda marc *caret*.

²⁵⁴ gwarianti llsg.

²⁵⁵ + hynny llsg.

²⁵⁶ y – llsg., + Llan 121.

²⁵⁷ ddadl llsg. gyda chroes drwy'r 'd' cyntaf.

§406. Tri dyn ni ddyllir y gwyssyaw: gwarant; a gweithredawl dybryt trwy cyffes,²⁵⁸ [t. 61] sef paham, y anrheithiaw a berthyn o'r eiddaw neu gweithredawl cyfaddef, y garcharu a berthyn, or ceffir; a thyst, cwplaet pawb y addaw os myn neu ballet.

§407. Tri modd y cadarnheir gwys o'i profi: o dystion, a mechni, a gafel.

Teir gwys a ellir ei gwadu cyn²⁵⁹ amser tystyon: gwys gan dystyon ny wnair onyt am dir a holer drwy ach ac edryt, yn y nawfet dyddyeu Mei ne[u] galan gayaf. O gofynnir tir hagen yn amgen no hynny, neu beth arall, a gwadu y gwys drwy dwng amdanaw, trwy fechni y dylir cadarnhau gwys ar y neb a'e gwatto. Lle pallo unwaith mechni am wys, gafel ddyllir y ddwyn yno; ac os tir a holir yna, tir a ddyllir y afaeluw dros y wys. Pallu mechniaeth yw nas rodder mach yn lle dyllyer, neu y rodidi a'e tremygu y gwys. Tremic gwys yw na ddel y dyn yr galw y lys gossodedic y atdeb, neu y amddiffyn rhac atdeb.

Am fach²⁶⁰

§409. Tri lle y difeichia mach cyfaddef am ddylyet angcyfaddef: un, o ddiwat o'r talyawdyr y mach. Eil, o gaffael tystiolaeth o un o'r cynygyn ar y gilydd trwy ymhawl yn llys a therfynu yr hawl gynt. Trydydd, o lyssu o un tystyon y gilydd yn llys.

§410. Tri pheth ni henyw o fechni: angeu, a chlefyt, a charchar.

§411. Tri oet a ddyly mach cyfaddef heb angen²⁶¹ cyfreithiawl arnaw: dydd y gyfarch y talyawdyr am y fechni; pythefnos y baratoi tal os ef e hun a'e tal; . . .

²⁵⁸ cyffes llsg.

²⁵⁹ + cyn llsg.

²⁶⁰ Am fach - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

²⁶¹ amgen llsg.

§412. Tri pheth a gymell: arglwydd, y gymell pob peth ny bo mach arnaw o'r a ddylyer o cyfreith; mach a gymell y fechni, ac a ddawc yn ddi[o]gel, ac a gymer y ffonodyeu cyssefin.²⁶² Trydydd, deiliat ysgrubyl.

§413. Teir aelwyt a gymell honn: tad, brawt, a chwegrwn.

§414. Teir gwanas gwystyl: llaw y yrru, breich, ac ysgwydd y arwein.

§415. Tri gwystyl a ellir y mwynhau cyn y digwyddaw: blith, a thelyn, a thawlbrwdd.

§416. Tri dyn ny ellir eu gwyssyaw: arglwydd .i. brenin; a byddar; ac angfyayth.²⁶³ [t. 62] cany wyddant beth a ddywetter wrthynt.

§417. Tri pheth un freint a gwys: cwyn gwibiawdyr, a mach dros y cwynwr ar y erlyn, ac onys erlynir, camlwrw; arfeith, lle perthyno hynny ar amddiffynnwr, ony dda6, camlwrw a rydd hefyt, ac o daw, a dywedut na bu wys, ef a ddyly ateb o rym y mechni ar ddyfot y atep; carchar, ef a ddyly ateb mal pe bai wys, canys y diw yn y le un peth rac fo gwys²⁶⁴ hagen d . . . wc a roddo brawdwr y wrando c[wyn].

§418. Tystyon a ellir ei gwrthebu pan ddechreuont eu tystyolaeth, ac nyt reit ei llysu; ac nyt felly gwybyddieit o cyfreith.

Am dystyon²⁶⁵

§419. Tri pheth a geidw cof ac safant yn lle tystyon y ddyn ar y ddylyet o dir: lle hen odyn, neu pentanfaen, neu ysgynfaen.

²⁶² cyfftefin llsg. Ychwanegwyd 'cyssefin' mewn pensil ar ymyl y ddalen.

²⁶³ angfyayth llsg.

²⁶⁴ y diw . . . gwys – llsg., + Llan 121.

²⁶⁵ Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

- §420. Teir tystiolaeth ddilys y sydd: tystiolaeth llys y ddwyn cof; a thystiolaeth gwybyddyeit a gredir pob un ynghyfreith, megys tat y rhwng deu fab; neu wrth dystyon .i. yr ynat a'r gwyrda, neu yn lluosawc am dir.
- §421. Teir ty[sty]olaeth farwawl y sydd: tysty ar ddyn cyn y holi o'r hynn y tystyer; neu dystu ar ddyn na wadwys yr hynn a daroedd iddaw y wadu o'r blaen; neu dystu ar ddyn dywedut yr hynn nys dywawt. Llys a brawdwr a'e clywo a ddyly eu dwyn yn farwawl dystyolaeth (ac yn annolo) trwy arch yr amddiffynnwr, os coffa (yn amser). A llyna y tri lle y may trech gwybyddyeit na thystyon.
- §422. Pan dystyo tyst yn y dystyolaeth peth yn cyfreithiawl y ereill yn erbyn amddiffynnwr, neu amddiffynnwr pan tystyo peth yn erbyn tystyon, y rhei hynny a elwir gwrthdystyon yng cyfreith, ac ny ellir ei llyssu.
- §423. Teir tystyolaeth sydd ar eir, ac ny ddygir y greir: tystyolaeth lleidyr ar y gyleidyr dan y grog; tystyolaeth nyt eler yn y herbyn pan ddycer y greir²⁶⁶ hi; tystyolaeth gwrthdystyon.
- §424. Tri pheth a ddyly mab y cael yr cael mamwys: pencenedlaeth; a'r essaydyn arbennic; a swydd o bydd, oni bydd hagen a'e dylyo yn well, ef a'e caiff.
- §425. Tri pheth a gyngain yn cyfreith [t. 63] cyt boet rhyfedd y fot: ceitweit, yn ol gyrr; sef yw hynny, cadw gwesti rhac lledrat absen: a rheith yn ol damdwng, sef pa le, dywedyt o ddyn y fwrw arnaw o'e anfodd; neu y adaw ganthaw ynghadw y peth a ddamddynger²⁶⁷ yn y law: a chredu dynion ny weloent y peth, ac nys gwypoint yn fwy no'r dynyon a'e gwelo ac a'e gwypoint; sef pa le hynny, lle lliwyo dynion lledrat y arall y welet liw dydd goleu yn mynet drwy dref, pan fai gyf[u]wch heul ar fryn a phant, a'r eidyon lledrat gantaw; o cheiff y llall y rheith ny weles hynny er eyryoet, eu credu, ac na chredir y nep a'e gwyr ac a'e gweles.

²⁶⁶ y greir – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

²⁶⁷ ddamddynger llsg.

§426. Tri dyn ny bydd marwdy y dy: ygnat llys; a mab llei no xiiii; a brenin: canyt oes a'e dylyo.

[Meibion]

§427. Tri dyn un freint a bonheddic canhwynawl: un yw mab a watto tad²⁶⁸ yn gyfreithiawl. Eil yw mab Cymraes o alltud a roddo cenedl iddaw. Trydydd, mab gwreic y ddycer treis, ac na wypo pwy a'e duc.

§428. Tri meib y sydd, neu deir merchet: mab cymeridic, a mab deolef, a mab di[o]ddef.

§429. Tri chymeredic mab yng cenedyl: rhoi da yr y feithrin; a'e gymryt erbyn y law yng cenedyl; a'e gussanu, a phrofi hynny.

[Gwystl]

§430. Tri gwystyl ni ddigwydd hyt ympen undyd a blwyddyn: eur, a lluryc,²⁶⁹ a llestyr eureit.

§431. Tri gwystyl ni ddigwydd byth: cwlldwr, a challawr, a bwyall gynny.

§432. Tri gwystyl a ddigwydd dydd y dycer: un mach ny chymello y fechni, ac yn addef; ac un a ddyccer dros ledrat barnedic; ac un a ddecfer alanas cyfaddef.

§433. Tri dyn y digwydd gwystyl a roddeint: mach, arglwydd, a pherchen y da.

§434. Tri da nyt rheit mach ar ddilesrwydd arnynt: gw[ystyl] . . . , a rhodd arglwydd, a chymyn.

²⁶⁸ tad llsgr.

²⁶⁹ lluryc llsgr.

§435. Tri pheth a ellir y wadu ony bydd praw: g[wystyl] . . .

Am lyssyant²⁷⁰

§436. Tri defnydd llyssiant cyfreithiawl y sydd:²⁷¹ geir, a gweithret, a diffic.

§437. [T]ri geir a ellir²⁷² ei llyssu: [t. 64] geirieu y tri dyn nyt geir eu geir.

§438. Teir gweithret a bair lyssu tyston: dirdra, a gwreictra, a galonastra.

§439. Deu dirdra sydd y gellir llyssant cyfreithiawl²⁷³ o'y hachaws:²⁷⁴ bot datleu am dir rhwng hawlwr, neu yr amddiffynwr, a'r gwybyddyat; neu o fot yr hawlwr, neu amddiffynwr, yn atal tir neu ddaear a ddyliei y gwybyddyat, a'r gwybyddyat yn cyffroi hawl amdanaw.

§440. Deu wreictra y sydd: bot yr hawlwr, neu yr amddiffynwr, ymysc gwreic y tyst amser y bo y tystiolaeth, ac yn arfer ohonei gyt ac ef; sef mal y profir hynny, profy y gwe[le]t gyt ac ef y dydd a'r dydd yn y lle a'r lle, ac yn y dy, ac yn²⁷⁵ cyweilyogaeth a hi ar gyhoet gwlat a thref, cany aller praw ar y pechot.

§441. Deu alanastra y sydd: galanastra lladd o'r hawlwr[r] gâr yr tyst heb y ddifwyn nac y genedyl nac y arglwydd; neu ladd o'r tyst gâr yr hawlwr neu yr amddiffynwr heb y ddifwyn, ac yna arglwydd a ddwg dystiolaeth rhyn[g]thynt. O dyweit hagen un ohonunt ladd car y llall, ac na bo angecyfreithiawl hynny, mal yn ceissyaw y dwyn wrth gyfraith ac ef yn ddialierwr neu yn herwr o'r wlad, nyt llyssyant honno. O dyweit hefyd dwyn ohonaw y gar y'w ddihenydd,

²⁷⁰ Am lyssyant - llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

²⁷¹ y syd - llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

²⁷² eillir llsgr.

²⁷³ cyfreithiaws llsgr.

²⁷⁴ o'y hachaws - llsgr., + Llan 121.

neu y'w grogi, nyt llys dwyn dyn y'w ddihenydd yn cyfreithiawl, canys arglwydd a'y cymell. Os dyweit ef hefyt ladd y gâr yn gwlat arall, lle ny bo arglwyddiaeth yr arglwydd, ny eill yr arglwydd yna ddwyn tystiolaeth ar y peth yna profi y fot yn herwr odd yno, ac na wnaeth iawn amdanaw.

[Diffyg]

§442. Tri diffic y sydd y lesteir dwyn tystiolaeth: diffic synhwyreu, a diffic breint, a diffic oet.

§443. Tri diffic synwyr a lesteir tystiolaeth yngorsedd: bydderi, a delli, a mudanyaeth: pob anafus arall eithyr ynfyd a gymerir y dystiolaeth.

§444. Tri diffic breint y sydd: eissieu na bu estyn gan arglwydd iddaw ar freint na thir eiryoet; eissieu nat ydyw y breint yn y law o ddarfod iddaw a'e²⁷⁶ golli, o'e wall, neu y wrthot, neu y ddwyn o arglwydd y arnaw: a[c] yna y dywedir, 'ni [t. 65] cheidw waclaw'; eissieu²⁷⁷ na ddyly freint o'e fot yn gaeth, neu alltud i hwn a hwn:²⁷⁸ pob peth a lesteir diffic oet mewn cyfreith.

[Tystiolaeth]

§445. Tri pheth y gellir tystiolaeth arnunt: geir, a golwc, a gweithret: a llyna y tri pheth a enyn yr hawl o'r blaen.

§446. Tri lle y bydd tystiolaeth ar olwc: un yw y teir ffordd y ceffir tystiolaeth ar anifeil. Eil yw y lle y gwnel creddyfwr wrth raglaw dogyn fanac a[r] y lw. Trydydd yw lle yr addawo dyn geitweit y gadw geni a meithrin anifail gyt ac ef, rheit y'r rhei hynny tyngu gwelet y²⁷⁹ feithrin a gwybot y eni.

²⁷⁵ y llsg., yn Llan 121.

²⁷⁶ + y llsg.

²⁷⁷ eissie llsg., eissieu Llan 121.

²⁷⁸ i . . . hwn – llsg., + Llan 121.

²⁷⁹ y - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

- §447. Tri lle y bydd tystiolaeth ar eir: cyntaf yw tystyaw o gyngaws dyn ar arall dywedut geir gwellygus dros y neb y bo gyt ac ef. Eil yw tystyaw o'r neb a ddyly tafawt weli o cyfreith ymgeinyaw ac ef ar ostec mewn gorsedd neu lann. Trydydd yw geir anostec mewn gorsedd a aller tystyaw y ddywedut, a hwnnw a ddyly y maer y dystyaw. Pob gweithret ny pherthyno rheith amdany a ellir y thystyaw a dwyn praw arnei.
- §448. Teir ffordd y may cadarnach arddelw no cheitwat: arddelw a ryddha dyn o'e hawl, ac a'e cymer arnaw e hun, peth nys gwna ceitwat. Eil, ny ellir llyssu arddelw na'e anaddwynau. Trydydd, nyt rheit lliaws yn arddelw, a rheit yw lliaws yn geitweit.
- §449. Tri lle y bydd rheit arddelw o liaws: un yw am ddal yt; eil, lle cwyno dyn o genedyl alanas;²⁸⁰ trydydd, lle rhoddo warant o gytirrogion.
- §450. Tri thyst ny thyng y greir ac ny ellir eu llyssu: arglwydd rhwng y ddeu wr o bydd cyn nesses iddaw hagen pob un a'e gilydd o'e wyr, canyt oes neb a allo y greirhau; o bydd nes un eyssyoes iddaw no'r llall, nyt grym y dystiolaeth y gael messur hawl, ony thyng, ac o tyng, yna y dyly oet naw dieu y ymgoffau am y lw. Tat rhwng y ddeu fab, o byddant un fam, ny thyng ef yna eithyr hynn, gwallawc lw.²⁸¹ 'Myn y gwr am crews i o dat a chwitheu [t. 66] ohonof inneu, gwir yw hynn a ddywedaf rhyngoch:' ony byddant hagen un fam, nyt grym y dystiolaeth ef, ony thyngyr dygyn. Ny thyng ynat hefyd lw pa diw y barnawdd y frawt, eithyr eissioes ef a dyng, ony ddaw cof iddaw roddi brawt rhwng hawlwr ac amddiffynnwr na wyr y roddi, ac yna oet naw dieu a gaiff, a pheron iddaw ddywedyt fal hynn: 'Y ti y bernais i y frawt:' ny ellir y lyssu ef yn dyst ryngthunt.

²⁸⁰ eil . . . alanas – llsg., + Llan 121.

²⁸¹ Ailgopiwyd 'gwallawc lw' mewn pensil ar ymyl y ddalen.

- §451. Tri rhyw dystyon a dyngant ac ny ellir eu llyssu, sef paham nas llysir wynt, y gwadu a berthyn, sef ynt: meichyeu, ac amotwyr, a thylluedd: wynt a allant dwyn tystiolaeth.
- §452. Teir ffordd y mae cadarnach gwyby[ddy]eit no thystyon: un yw na ddyly tyst profi gwybot a gwelet y peth ar dystyon, ac ef a'e dyly gwybyddyat. Eil, na ddyly tyst yrru drwg ar neb, nac angcyfreith, ac nas dichawn, ac ef a ddichawn. Trydydd, na ddichawn tyst profi gwir gwedy geu, ac ef a'e dica6n.
- §453. Teir ffordd y may cadarnach gwybyddyeit no cheitweit: gwybyddyeit ny ellir ac ny ddylir eu hanaddfwynaw, ac ef a anaddfwynir ceitweit. Eil yw ceitweit a anaddfwynir drwy wybyddyeit, ac ardystyrir ei breint a'e deddfeu, or nat geir eu geir, ac nyt anaddfwynir gwybyddyeit drwy geitweit fyth. Trydydd echos yw nat grym un ceitwat y geissiw messur hawl, grym yw un tyst neu un gwybyddyat, megys mach.
- §454. Tri gwahan sydd rhwng gwybyddyeit a cheitweit: un, ceidwat a geidw gan bawb yr eiddaw, peth nys gwna gwybyddyat; ceitwat ny ddwc y neb ddim o hwnn arall, a gwybyddyat a ddichawn y ddwyn; ceitwat²⁸² a anaddfwynir cyn llw, gwybyddyat a lyssir wedy llw.
- §455. Tri pheth a eill ynat: bot yn dyst ar a dystyer iddaw yn yr orsedd; a barnu rhwng hawl ac amddiffyn cyfreithiawl; a dosparth rhwng deu ymrysson y [t. 67] pa diw y barnawdd y frawt gynt.
- §456. Teir ffordd y dyly ynat colli camlwrw: un yw or na ddel cof iddaw ddatcanu y ddwy gynghawsedd, cyn mynet y'w frawtle, neu wedy del o'y frawtle y'w ddatcanlle. Eil yw or na roddo y wystyl yn llaw yr arglwydd pan ymwystler ac ef, cyt el yn erbyn y neb a ymwystlo ac ef. Trydydd yw na fedr roddi brawt yn nydd colli caffel, or caiff oet o'r blaen amdany y ymgoffau, neu na farno yr un rhyw frawt a farnawdd gynt am y cyfryw.

- §457. Tri gwahan sydd rhwng gwybyddyeit a thystyon: tystiolaeth a ellir ar eir, megys tystyaw y ynat geir gwallus a fo mewn hawl neu amddiffyn, ac ny ellir gwybyddyat ar eir; llyma paham, teithi gwybyddyat [yw] gwybot a gwelet, ny ellir gwelet geir o ben neb, ony bydd yn ysgrifenedic; tystiau hagen a ellir y ynat neu wyrda ddywedut geir gwall. Eil yw odit lle yng cyfreith y caffo dyn fessur hawl drwy dystyon e hunein, heb wybyddyeit gyt a hynny, ac ef a'e ceiff yn llawer lle drwy wybyddyeit heb dystyon; canyt teithi tyst tyngu tystyaw iddaw hynn ydd ys²⁸³ y roi yn y benn. Trydydd lle yw tystyon a lyssir drwy wybyddeit, ac ny lyssir gwybyddeit drwy dystyon byt[h].
- §458. Tri lle y cyngain ceitweit: ar dda byw neu farw; ar freint neu amreint ar arall; ac ar westi cyfreithiawl.
- §459. Tri pheth cadarnaf yng cyfreith: barn gyfiawn; a gwybyddyat, o un dyn y credir y dystiolaeth, cany ellir y lyssu, o bydd mal y dyweit cyfreith; ac amot profedic.
- §460. Tri llyssyant rheith: diffic cerennydd, a diffic diofredawc, a diffic oedran.
- §461. Tri gwahan y sydd rhwng ceitweit a rheith: rheith a gwbyl ddiheura dyn o hawl, ac ny ddyweit drwc gyt²⁸⁴ . . . , ac nys gwna ceitweit; rheith ny ellir y hameu, ac ef a ellir ameu geiryau ceitweit, or na bo geir eu geir; rheith ni ddyly tyngu bot yn eiddaw dyn yr anifeil a ddamdyger yn llaw, namyn bot yn wirion dyn o'r lledrat a [t. 68] yrrer arnaw, ac, am hynny, am dda absen y bydd rheith, a cheitweit a dyng may ef bieu y da sydd yn y law.
- §462. Tri gwahan sydd rhwng arddelw a rheith: ny bydd arddelw eithyr y dda yn llaw, onyt yn lle y dalyer croen anifeil gan leidy, rheith yw, yna arddelw y'r llwdyn

²⁸² ceitweit llsg.

²⁸³ ydd-ys llsg.

²⁸⁴ gyt - llsg, - Llan 121, + Pen 164.

oll; rheith y bydd rheit ynddi cereint, lle bo ryw reith honno; rheith y bydd ynddi reit wyr diofredawc, ac nyt rheit y arddelw lle perthyno hynny.

§463. Tri diofryt rheit²⁸⁵ wrthunt yng cyfreith: diofryt marchogaeth, a gwreic, a chic.

§464. Tri marchogaeth y dyrcheif breint dyn pryt nas²⁸⁶ gallo wynt: marchogaeth y luy[dd], a dadleu, a llan: sef fydd ef yna, teispan tyle, ac mwy fydd y gosp²⁸⁷ am y ladd no phettei ar y wedd e hun, mal²⁸⁸ y bu oreu.

[Ceraint]

§465. Tri rhyw gar y sydd: car o barth tat, car o barth mam, a char llywedrog.²⁸⁹

§466. Tri²⁹⁰ car o barth tat y rennir ac wynt tir: brawt, a chefynderw, a chyfynderw.

§467. Tri char o barth mam a ran tir ac eu car: ewythyfrawt mam; a chefynderw mam; a chefynderw²⁹¹ iddaw e hun, lle caffo dir o famwys.

§468. Tri charllywedroc sydd: mab alltud o Gymraes; a thayoc cymeredic yng wassanaeth dyn; ac anlloddoc o dreftadawc ar dir dyn arall.

§469. Tri mab a ddyly tir nys dyliei y dat cyn noc ef: mab dyn mut; mab a gaffo mamwys; mab maeth rhydd y fab eillt, o fodd arglwydd.

§470. Tri dyn a ddyly tir nys dily eu meibyon: tadeu y tri broder un fam un dat a gant tir, ac nys ceiff y lleill.

²⁸⁵ rheith llsg.

²⁸⁶ nas llsg.

²⁸⁷ y gosp – llsg., + Llan 121.

²⁸⁸ mab llsg.

²⁸⁹ gar . . . llywedrog – llsg., + Llan 121.

²⁹⁰ tri – llsg., + Llan 121.

²⁹¹ chyfynderw Pen 164, mae twll yn y dudalen gyfatebol yn Llan 121.

§471. Tri dyn a gyfran tir ac arall heb gerennydd rh[y]ngthunt: mab breyr a rodder ar faeth ar daeoc gan fodd brenhin; mab gwr o dir cyfrif gyt a'e gytirygyon; a dyn a gaffo tir o ddiaspat ac anuwyn.²⁹²

§472. Tri dyn a dal abediw heb dir: bonheddic canhwynawl; a gwr cyfarwyssawc;²⁹³ a mab pedeir blwydd ar ddec .i. mab²⁹⁴ eillt a ddyly bod yn²⁹⁵ arddelw o hynny allan; a'e abediw yw dros y arddel[w].

[Croes]

§473. Tri amser ny [t. 69] ddylir rhoddi croes mewn tir: o nawfet dydd Chwefror hyt nawfet dydd Mei; o nawfet dydd Awst hyt nawfet dydd Rhagfyr; ac yn y dyddyeu dydyon am dim.

§474. Teir gwialen cymell hawlwr: croes, a chwyn, a gyrr cyfreithiawl.

§475. Teir croes ny chyngein dial amdanut, y teir ofergroes: croes ar ben llwybyr rhac y gerdded, canys ef a gerddir mal cynt yr hynny; a chroes ar eissinbren gorweiddioc yng coet; a chroes ddihebrwng allu, canys onys gyrrir yn cyfreithiawl ny bydd dial yr y thorri.

§476. Tri pherchenno[c] croes: brenhin, ac esgob, ac abad.

§477. Tri pheth a lwgyr ar [gyfreith]: goddef; ac amot; ac anallu.

§478. Tri gorsaf ha6l: y gwadu o gwbyl, a'e phrofi, a llyssu tystyon.

²⁹² anuwyn llgr.

²⁹³ cyfarnussawc llgr.

²⁹⁴ + mab llgr.

²⁹⁵ y llgr., yn Llan 121.

§479. Teir gorsaf hawl, heb addef, heb wady: gorsaf fal na ddylyer ateb iddi, ac angeu un o'r pleidieu, ac esgussot cyfreithiawl dros un yn y lle.

§480. Teir croes ny bydd na chamlwrw na dirwy yr [y] torri: un yw ofer groes; eil yw croes a rodder ny bo neb ar ddeutu eythyr y neb a ddylyo bot, a chael dyn wedy trugaredd brenhin am y holl dda byd fydd yna; trydydd, am dorri²⁹⁶ tir dros . . . brenhin, yr ychen a'r aradyr &c.

§481. Tri lle y dyly arglwydd cymell: un yw lle bo cwyn fot rhag y fron wedy dosparther; eil yw lle bo hawl heb gwyn rhag bron ynat, mal llwgyr, neu ddadyl fach a chynnogyn . . .

Praw a thystyaw²⁹⁷

§482. Tri pheth nyt rheit praw arnunt: nyt rheit praw ar addef eithyr tystyaw; nyt rheit praw ar ddiddym ar y fot yn ddiddym, profet y llall hagen nat diddym ef; trydydd lle, ar frawt, eithyr tystyolaeth ynat, pa ddiw y barnwyt hi.

[Gwragedd]

§483. Tri pheth ny ddygir gan wraic, cyt gadawer hi am y cham: y chowyll, a'e hargyfreu, a'e hwynebwerth.

§484. Teir ffordd y cyll morwyn y chowyll: o blodeua, ac na ddiheuir hi o'r neb a ddyly y diheuraw (y tat a'e mam o . . .); or na meynylo y rodd [t. 70] pan gyfotto y bore y wrth y gwr o'r gwely . . .

§485. Tri oet a ddyly morwyn y atneuaw y chowyll . . .

²⁹⁶ Ychwanegwyd y llythyren 'i' uwchben y llinell gyda marc caret.

²⁹⁷ Ychwanegwyd hyn mewn pensil.

§486. Tri pheth ny eill gwreic agweddawl: bot yn arddelw dieythyr ar hyn y bo y meddyant arnaw (y roi neu wystlaw); a damdwng; a chym . . .

§487. Tri dyn a ardretha dir heb dir yn lla[w] . . . cyllidyet drostaw; mab priodawr a . . . y ferch os rhydd y wr, cany bydd²⁹⁸ neb difwyn y . . . dalu ardreth yn well no chyfryw ac a dal dyn erioet y . . . : llyma paham, wrth freint un o'r rhei hynny y ceiff y sarhaet a'e alanas, am hynny ny ddyly ynteu dwyn beich y wrthynt wy, a mab a el y luydd. Trydydd, mab eillt pedeir blwydd ardec a ddyly ardrethu y frenhin.

[Gwartheg ac anifeiliaid]

§488. Teir buch (amryw) cyfreithyawl y sydd: cynfflith; a buch gwbyl, honno yw y fuch delediwy; trydydd, buch a ymadawo a dylediwrwydd.

§489. Tri ychen amryw²⁹⁹ y sydd o cyfreith: ych weith, ac allweith, ac ych a ymadawo a'y dylediwrwydd: buch o eilyeo . . . nawfet lo, ych o eil weith hyt chwechet weith a fydd taladwy.

§490. Tri anifeil ni ddyrcheif eu gwerth er daet breint eu perchennogyon: costoc tom, a gafyr, a dafat.

§491. Tri anifeil cymeint gwerth y haelodeu a'y heneit: march, a heboc, a gellgi. Sef paham? Y tri anifail un troydyoc ynt.

§492. Tri rhyw deithi y sydd y fuch: un yw teithi buch delediwy, a hon[n]o a delir o dri modd, ae dec ar ugeint aryant. Eil yw, o bydd haws y rhoddi yn lle bo porfa gyswin,³⁰⁰ a gadel y'w pherchennoc y godro ddwy weith yn y dydd heb [adel] dim i'r lloi, y messur y llestyr y godroer hi chwech yn y llet o fodfeddeu y'r

²⁹⁸ cany|bydd llsg.

²⁹⁹ anryw llsg.

³⁰⁰ *recte* cyswyn?

ynat cymwt, a their yn y gwaelawt [t. 71] y llestyr, a naw yn y hyt. Trydydd, ony bydd felly y diessywaw o flait³⁰¹ lloneit y llestyr: deu ry[w] deithi sydd y gynfflith, os nawet dydd Mei y bydd blith, ac ymdeith o'e lloe naw cam, a dyfot llaeth o'e thetheu.

§493. Tri pheth ny bydd eneit faddeu neb yr y ladratta: blawt, a gwenyn, ac aryant: cany ellir y damdwng oni byddant yn y llestri, ac wrth hynny y damdwng. Ny bydd eneit faddeu nep yr lladrat ynteu, eythyr am beth a³⁰² berthyno y ddamdwng.

§494. Tri rhy6 anifeil ny bydd eneit faddeu neb amdanut yr y dwyn yn lledrat: ci, ac edyn, a phob anifeil gwyll; canys o bydd gwyllt, ny cheffir y ddaly, ony cheir y dalu, ny ellir y damdwng, oni ellir y damdw[n]g, ny ellir y ddienyddu.

Gwystyl³⁰³

§495. Tri gwystyl rhydd eu mwynhau cyn y digwyddaw: blith; a thelyn; a thawlbwrdd; canys ny bydd wayth yr hynny.

§496. Tri dyn rhydd o wystyl: ynat, ac offeiryat, a meddic teulu.

§497. Tri oet y digwydd gwystyl cyfreithiawl: un yw gwystyl am lwyg yr yt, ny ddigwydd hyt galan gayaf, ac ny ellir y wrthot am yt, o deyth yn y ysgub. Eil yw³⁰⁴ y nawfet dydd ar fach a chynogyn, a da barnedic arall. Trydydd, lluric, a llestri eureit, ni ddigwyddant hyt penn y flwyddyn.

§498. Tri gwystyl ny ddigwyddant byth cyt gwystler wynt: cwll dyr, a challawr, a bwyall gynny.

³⁰¹ flait llgr. Sic yn llgr. ? flawt.

³⁰² beth a – llgr., + Llan 121.

³⁰³ gwysyl - llgr., - Llan 121, + Pen 164.

³⁰⁴ yw - llgr., - Llan 121, + Pen 164.

[hiatus]³⁰⁵

[Cyfnewid eiddo]

§499. . . . [t. 72] yn rhwy[m], a llenwi y rhwymyn hwnnw o'r yt yn dynn a'e bol . . . y sawl a lygrwyt, ac ny bo rhan iddaw ynndaw, am hynny nys dyly y neb yr anfonet iddaw. Llyna a berthyn yna: rhoddi o'r neb a'e hanfones llw gweilydd ar y cennat. Tyng, heb ef, 'Na roddeis i atat hynn a hynn o dda heb henwi y anfon y'r llall.' Os ef a balla o'r llw, holet ef mal holi atneu, a phroffet drwy wybyddeit deddfawl y rodidi attaw. Os ynteu a eddyf dyfot y da attaw, diwygyet ef y'w berchennoc, onyt ynteu a hawl y dda o bu gywir y gennat bit; ac ony bydd, ny ddylir y dilit, cymeret hynn a gredawdd y gywirdeb.

§500. Paham y dywedir: 'Nyt oes o rodd onyt hyt fodd'? A ellir adwyn y rhodd a'e holi drac[h]efyn? Na ellir. Llyna paham y dywedir rhoddyat a rodido da y ddy, ac amrysson o arall ac ef: 'Y mi,' heb ef, 'y rhoddet;' 'Y minneu,' heb y llall. Yna y bydd ympen y rhoddyat pa diw y rodides, a pha le y bu bodd gantaw y rodidi; yn y detfryt e hun y bydd, a llyna ef yn un o'r naw nyn a gredir y dystyolaeth e hun ar wahan, a dilea³⁰⁶ ymeith yr abat a'r effeiriad, cany ddyly cyfreith Hywel ymyrryt arnunt ymmysc y lleill, ac amodwr yw y llall ar y amot.

Llyma bellach am echwyn³⁰⁷

§501. Tri modd y gellir echwyn: o rif, a messur, a phwys.

³⁰⁵ Bron i hanner tudalen.

³⁰⁶ dilea llsgr.

³⁰⁷ Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

§502. Ny ellir holi drachefyn echwyn, ac ny ddyly cwyn am echwyn; canys pan echwyno dyn aryant, ny cheiff ef yr aryant hwnnw fyth, ne[u] yt, neu fettel toddedic o bwys: ny cheffir hwnnw fyth drachefyn cyt caffer cystal ac ef. Nyt dyn byw delw ar baret, cyn bo cynhebic y ddyn hi. Pwy bynnac a holo echwyn holet drwy brawf, os amheuir; yt, drwy fessur.

Llyma bellach am gyfnewit³⁰⁸

§503. Pwy bynnac a gyfnewytyo da ay yr mwnei rhifedic law yn llaw, ay da arall, mal ysgrybyl, neu feirch, neu beth cyfryw; cymeret y neb a ddel attaw y da cychwynawl mal march, neu ych, neu fuch, neu dda marw arall, feichyeu ar ddilysrwydd y da hwnnw, rhac gallu y holi a'i anlyssu;³⁰⁹ hagen nyt rheit y'r neb y del aryant fach ar ddilysrwydd; cany ellir anlyssu [t. 73] na peth cerddedic, na pheth treigledic, mal arfeu, neu ayssw,³¹⁰ na pheth treigledic, mal yt odieithr llesdr,³¹¹ neu fla6t.

Am warchay cyfreithiol³¹²

§504. [A] berthyn y ddyn holi da o warchay drwy wneuthur iawn dros y anifeilyait,³¹³ o bydd cyfreithyawl y gwarchay, a gwarchay yn lle cyfreithiawl, neu o le cyfreithiawl, nyt oes yna hagen braw; namyn llw deilyat ar y caffel (a'e goddiwes); olyeit a blayneit ar yt neu weir. Praw a fydd (neu dystyolaeth) ar y gwarchay wynt yn lle angcyfreithiawl (neu wedi y dodeir o'y gwarchau) neu mal na dylit y gwarchau ay mewn ty neu beth cyfryw. Llyna tystyolaeth ar anifeil nat ef dycer tystyolaeth yw hynny ar wneuthur o'r deilyat³¹⁴ beth angcyfreithiawl, a hynny a ddichawn o gyfreith.

³⁰⁸ Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

³⁰⁹ Ychwanegwyd yr 'y' cyntaf uwchben y llinell gyda marc caret.

³¹⁰ ? recte aesau, ayssaur.

³¹¹ o . . . llesdr – llsg., + Llan 121.

³¹² Ysgrifennwyd hyn mewn pensil. Llyma bellach am warchay, a gwystyl, a barn *kyfreiyhyaul* Pen 164.

³¹³ anifellyait llsg.

³¹⁴ deyat llsg., deilyat Llan 121.

Llyma bellach am wystyl cyfreithiawl.

- §505. Tri rhyw wystyl cyfreithiawl y sydd: gwystyl heb arwystyl, a gwrthwystyl, a chyngwystyl: sef y[w] gwystyl, atafel a rodder dros lwgryr yt; neu un a roddo mach addefedic, neu gynogyn; neu a roddo perchennawc hawl yn erbyn brawdwr neu ddyn a . . . : sef yw gwrthwystyl, y gwystyl a roddo y brawdwr yn y erbyn ynteu; rheit³¹⁵ yw y'r cyntaf³¹⁶ canhebrwng³¹⁷ drwy feichieu y wystyl ef, ac nyt reit³¹⁸ y'r brawdwr hagen, canys rhwymedic yn yr orsedd yw brawdwr, pa ryw frawdwr bynnac fo, na brawdwr swydd, na brawdwr tir: sef yw cyngwystyl, ymryson a chynnen rhwng pleidieu, drwy feichieu hagen y dily hwnnw fot, ony bydd am briodoryon, a'r gosp o dda ar y neb a ddifarner.
- §506. Pob gwystyl ar lwgryr yt a ellir y holi tra fo cynhayaf, ac a ddylir y holi cyn calan gayaf, cany theli[r] yt y tymor yn y llall. Ni bydd oet digwydd am wystyl yt. Ny[t] barn gwystyl ar traean y danaw am lwgryr yt. Ny cheiff am lwgryr yt eithyr gwystyl neu aryant.
- §507. Pob gwystyl a gymero dyn dros loe [a] ellir y attal, ac ny phery yngwystyleidyaeth, eithyr [t. 74] hyt y dlyet gwarchau y lloy; nyt rheit y gymryt, onys myn dyn hagen.
- §508. Pob dafat a ddel o'r cadw y defeit, neu wyn, neu fynneu, neu o'r geifr, y deilyat pieu wynt.
- §509. Pob wyn a ddel am lei no'r cadw o'r wyn neu o'r mynneu yn lle tal y³¹⁹ telir wynt, mal aryant.

³¹⁵ rheith llsg.

³¹⁶ cantaf llsg.

³¹⁷ canheb. rwng llsg.

³¹⁸ reith llsg.

³¹⁹ tal y – llsg., + Llan 121.

- §510. Pob dyn y taler iddaw ysgub iach am y glaf, neu iawn am y glaf, neu iawn am y anifeil a laddo dyn neu y lwdyn ef, y perchen a'e ceiff, canyt a . . . drel³²⁰ yntaf.
- §511. Pob gwystyl a roddo mach neu gynogyn, o digwydd, ny ellir y holi drachefyn gwedy y wahanu a'e berchenogaeth; rheit hagen yw iddaw y gynnuc yn oet cyfreithiawl y'w berchennoc, ny bydd byw ynteu hyt hynny, onys diwellir. Pwy a ddyly hynny? Y neb pieufydd y gadw, canys ceitwat yw ar y peth hwnnw hyt yr oet cyfreithiawl, mal ceitwat atneu peth o leidyrr ynteu, rheit yddaw ef y beri yn yr oet y ddylho . . . : ny ddyllir am un ddylyet onyt un gwystyl.
- §512. Paham y ceiff neb iawn yny caffo y brenhin yn gyntaf mal am warchay yd? Ny cheiff brenhin yawn eithyr lle bo anghyfreith a chwyn. Yawn yw y bawb gymryt yawn gan ufydd, canys yr anufudd-dawt y defnydd y gosp o cyfreith.

Llyma fal y may am farn³²¹

- §513. Pob da a farner y ddyn yn cyfreithiawl, atafel a ddyllir y ddwyn ar y neb y barner y gantaw, ac ef a ddigwydd yn oet cyfreithiawl, mal y digwydd atafel mach; canys arglwydd a fydd mach ar bob da ny bo mach arnaw. Sef paham hynny? Cwyn a fydd wrth arglwydd neu hawl ar bob da ny bo na mach, nac amot, na bruduw; wedy dosparth y cwyn, arglwydd pieu cymell y bawb y yawn ar a farno cyfreith, mal mach y da hwnnw; wedy digwyddo, ny ellir y holi drachefyn, canyt atwna cyfreith a wnel.
- §514. Cyfreith a farnawdd y gwystyl, ny ddifarna cyfreith neb o'r gwystyl wedy cayu cyfreith rhwng dyn ac ef, mal pe caey cyfreith [t. 75] rhwng dyn a'y ddylyet. Sef paham? Am nas gollyngwyt ef yn y oet y gwystyl.

³²⁰ a drel yntaf llsgr.

³²¹ Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

§515. Pa ddelw y gwarcheir hwch neu foch? Ny thrygant mewn buarth, torri ty a wnant; rei a eirch y'r deilyat torri gwialen o dwf blwyddyn a'y rhwymaw allan am yewyn y choes.

§516. Pa ddelw y geifyr? Os mewn ty a'r ddor ar draws y drws a wnant.

Am ledrat, treis, ac angcyfrach³²²

§517. Llyma am ledrat, a threis, ac angcyfarch; canys angcyfreithiawl ynt, ac a ellir y holi drachefyn os gwelir; onys gwelir, ef a ellir y holi hefyt, ac yna rheit yw ae difwyn, ay diwat y da.

§518. Os cynyrchawl fydd y lledrat, neu y treis, neu yr angcyfarch, llyna y lle y perthyn y holi, y llaw y gedewir ynddi drwy damdwng, sef yw hynny, cadw perchenogaeth y da gan yr hawlwr.

§519. Nyt grym yna wat peth amgen cadw o'r amddiffynwr perchenogaeth y da canthaw ynteu, ac yna rhy fychan yw hynny cadw ohonaw ef e hun y perchenogaeth, ony cheiff a'y catwo gyt ac ef, ny wyr neb hynny yn well³²³ no'e gymdocyon nessaf.

§520. Os gwydd fydd y lledrat, mal hynn y dyly y ddamdwng: tyngu y Dduw o'r blaen ym pob llw a'r creir, nat oedd perchennoc ar y da eithy[r] ef a'y wreic, ot oedd iddaw, a'y arglwydd. Sef paham y dyc³²⁴ ef y wreic yn y damdwng? Am fot yn eiddi hanner y da, o bydd wreic agweddawl hi. Paham na eill hitheu roddi, na benffygaw, na gwerthu y da, heb ganyat eithyr hynn a farn cyfreith

³²² Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

³²³ well – llsg., + Llan 121.

³²⁴ dyt llsg.

iddi y roddi, a hitheu yn rhannoc ar bob damdwng? Pennaf yw y gwr tra foynt y gyt, ac yawnaf yw mynet yn ol y pennaf.

§521. Ac wedy tyngu felly, tyngu nas gwahanwyt ac ef o ffordd o'r byt, eithyr o lledrat, neu o dreis, neu o ancyfarch; ac felly y ceiff y llall y defnyddyeu, a'y ceitweit, a'y gwarant; ac os ef a'y ceiff, y damdwng yn y dydd colli cael, yn llaw yr arwaessaf neu y ceitweit ar y modd y dywetpwynt uchod: a henwi'r dydd, a'r wythnos, a'r tymor, a'r dref, a'r lle.

§522. Sef paham y ceiff ynteu y damdwng ym pob llaw? Yr gyrry honaw mae o ledrat y colles ef y da, neu o dreis &c, am na yrrawdd ef yn benddiatnot ar [t. 76] neb y ledrat mwy no'e gilydd.

§523. Pe ef a ddywedai fal hynn yn y damdwng, nas gwahanwyt ac ef o'r ffyrdd, eithyr o'e dwyn o hwn y mae y da yn y law yn lledrat, ny chaffei ef yrru y³²⁵ lledrat hwnnw eilweith ar nep onyt ar y cyntaf: a llyma lle ny ddyly ef henwi yr amddiffynnwr, ac os henwa ef a gyll fessur y hawl: a llyna un o'r tri argae damdwng; ail yw ceissiw o ddyn damdwng anifeil a ymadaw a'y dylediwrwydd, mal buch dros y nawfet llo, ych dros y chwechet weith o allweith, march heb d[eithi], heb gic, heb ddannedd, yn anafus yn fwy no'r gwerth cyfreithiawl a fu arnunt gynt; cam yw damdwng, ac ny ellir o cyfreith, canyt ostwng y gwerth fyth o byddant dianafus.

§524. Ny pherthyn y rhyw ddamdwng eithyr ar y peth y³²⁶ bo yn llaw, eithyr lle caffer croen ar y lliw yn lledrat gan ddyn, ny cheffir yna eithyr y werth cyfreithiawl y peth, am na ellir cayl y cic yn fwy y gyt a'r croen: llyna lle y damdygir peth yn llaw, ac nys ceffir ef namyn y werth.

§525. Ny pherthyn y hawlwr a gaffo y dda yn llaw lleidyr, neu yn lle bo un freint a lledrat yn llaw, neu ddyn a ddyco dda y dreis, neu yn anghyfarch a . . .

³²⁵ yr llsgr., yrru y Llan 121.

³²⁶ a Llan 121, a Pen 164.

damdwng . . . o[ho]naw wedy cyweiryaw y pleidieu yn cyfreithiawl, henwi y neb a ddug y da, na yr neb y mae yn y law; namyn dywedut y ddwyn y arnaw o ledrat, neu o dreis, neu o anghyfarch: ac yr hynny, rait fydd y'r dyn³²⁷ y bo y da yn law henw y arddelw, ac nyt rhait iddaw wadu y lledrat, canyt digawn o wat yw iddaw y arddelw.

[hiatus]³²⁸

§526. Teithi march arall yw yfet dwfyr, a phori gwellt, a rhat esgyn heb lwyg arnaw, o bydd felly cyfreithiawl.

§527. [t. 77] Tri dyn a fydd un werth a'r neb a ellyngoynt: y neb a ellyngo leidyrr un werth yw a'r lleidyrr pes ceffit, sef yw hynny, seith bunt. Y neb a fo gorfodawc dros arall y'w ellwng o garchar, un dal a fydd³²⁹ arnaw ac ar y neb ydd aeth drostaw pes ceffit. A ddyly ynteu fot yngroc o dyliei y llall? Na ddyly: canys pe dyliei y llall hynny, ny ddylyit y roddi ar fach, na chymryt gorfodawc, cany ellir rhoddi neb ar orfodogaeth a pherigl arnaw. Trydydd yw dyn a fo yngwystyl dros arall ar fodd brenin am eniwet iddaw; un boen yw a'r neb ydd aeth drostaw.

[Teithi a gwerth]

§528. Tri pheth sydd un werth y amws: y lygat, a'e glust, a'e rawn oddieithyr y coloren.

§529. Tri aelawt sydd un werth ar amws: y goloren, a'e freich, a'e droet: neb a dorro un o'r rhei hynny talet werth yr amws oll.

³²⁷ yr dai llsg.

³²⁸ Oddeutu 6 llinell.

³²⁹ + a fydd llsg.

- §530. Tri pheth un werth: y rawn, a'e³³⁰ lygat, a'e glust: a'e rawn oddieithyr y goloren, or torrer y goloren, un werth a'e droet a'e freich ac ef e hun.
- §531. Tri pheth un werth y³³¹ farch tom: y dant, a'e lygat, a'e glust: un werth yw mwng pob march a'e gilydd.
- §532. Tri heint y dylly gw[e]rth[u] march a[m]danaw: ysgyfeint, a llyn meirch, [a] llwyc.
- §533. Tri pheth yw teithi march tom: dwyn pwnn, a llusgaw car yn allt, a gwaeret yn ddirwystrus.
- §534. Tri pheth yw teithi ych: eredic yn rhych, ac allt, a gwaeret yn ddidonnrwyc.³³²
- §535. Tri pheth un werth y fuwch cyfreithiawl: corn, a llygat, a llosgwrn, a'e theth, pedeur ceinioc cyfreith: y gynfflith, pedeur ceinioc cotta.
- §536. Tri anifeil cyntaf a ddaw y werth y mam: oen, a mynn, a chostoc tom.
- §537. Tr[i] anifeil cymeint gwerth a'e teithi: dafat, a gafyr, a chath.
- §538. Tri heint y dylir gwerthu dafat: llederw, a'r ddwfyfyr rud, a'r clawri, yny gaffoent eu teir gwalu³³³ o'r tafawl. Corn dafat, a'e chlust, a'e llosgwrn, un werth ynt, ceinioc eu gwerth: felly yr afyr.
- §539. Tri llwdyn ny ddyrcheif eu gwerth [t. 78] ac ny ostwng: arbennic y moch, sef yw honno, rhyssywin; a³³⁴ baedd cenfeint; a hwch dawnbwyf a daler y'r arglwydd; ac yna deuparthawc fydd yr eneit ar y cic hyt Wyl Ieuan y moch;

³³⁰ y Llan 121.

³³¹ a y llsgr.

³³² ddidonnrwyf llsgr.

³³³ ?gwala.

³³⁴ na llsgr.

eilwaith, o Wyl Ieuan y moch allan, dec ar ugeint a dal; ac yna y bydd deu parthawc y cic ar yr eneit.

[Sarhaed a dyrchafel]

- §540. Teir cymeiniat sarhaet: gwaet, a chleis, a bonclust.
- §541. Tri dyn lleiaf y sarhaet: caeth, a'e fab, a'e ferch: ac un sydd lei, ringyll a sarhaer o'e eiste.
- §542. Tri anifeil nyt oes werth cyfreithyawl arnunt, eithyr damdwng: bytheuat; a charlwng; a chnyw hwch cynhayaf hyt ympen y flwyddyn, yna cymer cyfreith hwch arall.
- §543. Tri dyn heb eu bot yn un sarhaet, ny ddyrcheif ar y sarhaet ddim: alltud; a chaeth; a theulwr breyr, y sarhaet yw teir buchyn tal benic, sef yw hynny, gwarthec heb eu³³⁵ ddyrchafel gyt ac wynt o aryant medowyt.
- §544. Tri dyn y dyrcheif ar y sarhaet: breyr, a thaeoc, a bonheddic canhwynol.
- §545. Tri pheth ny ddyrcheif eu gwerth, na rhydd na chaeth a'e caffo: gweli, a chreith o gwarth, a³³⁶ chleis.
- §546. Tri pheth nyt arddyrcheif arnunt: sarhaet alltut neu gaeth; ac wynepwerth pawb; a gwarthrudd celein: sef yw wynepwarth, sarhaet dyn heb dyrchafel, heb aryantal; mwy gwaradwydd yw sarhaet noc wynebwarth; mwy yw sarhaet bonheddic no chaeth; nyt cymeint . . .
- §547. Tri modd yr arddyrchefir hyn y bo arddyrchafel arnaw: cyntaf yw ceinioc cyfreith a arddyrchefir arnei cymeint a'e hanner, .i. dimey. Eil yw galananas yr

³³⁵ eu - llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

³³⁶ Fe'i hychwanegwyd uwchben y llinell gyda marc *caret*.

arddyrcheif arnei deir gweith cymeint a hanner y traean, ac felly yr eil traean, ac felly y trydydd traean yr hyn cyntaf a henwer; sef bydd hynny wedy gymysgu y gyt cymeint a hanner chweigeint muw; neu lle bo naw ugeint; neu lle bo tri ugeint. Trydydd, ar sarhaet [t. 79] yr arddyrcheif cymeint a'r traean e hun; sef pa wedd hynny, ugeint aryant gyt a phob buwch, sef yw hynny, cymeint a thraean trugeint; sef mal y cyfodir, lle bo chwe buw, deugeint gyt a phob dwy fuw; ac felly an naw buw, a their buw, lle boent.

§548. Nyt arddyrcheif ar sarhaet, eithyr ar dor naw buw, a their byw, a chwe buw.³³⁷

§549. Nyt arddyrcheif ar alanas, eithyr ar naw ugein muw, a chwe ugein muw, a thrugein muw: eithyr sarhaet teuluwr brenhin pedeir byw a phedwar ugeint aryant; nyt a y alanas herwydd y deuluwryaeth, cyt ymarddelwo ohonei, peth amgen herwydd y tat, neu y bencenedyl, neu y frawt.

§550. Sarhaet teuluwr breyr, .iii. buchyn, heb arddyrchafel; ac ef arddyrcheif y alanas. Paham³³⁸ hynny? Dyma³³⁹ herwydd breint y bencenedyl, neu y dat, neu y frawt y telir hi, a honno a arddyrcheif arney; ac uwch yw hynny no theuluwryaeth, cany bydd teuluwr nep eithyr yn y fywyd; ac iawnaf yw yn ol yr uchaf y freint a'r pennaf. Ac felly y dywedir am feichiogi gwreic, iawnaf yw barnu a holi yn wr noc yn wreic; cany wypper peth fo, ae gwr, ae gwreic.

§551. Ny ddyly neb dilyt³⁴⁰ cyfreith o'r llyfreu yr na bo crybwyll amdaney, canys ef allei eu cael wrth reit pa[n] fo amseraf. Am hynny y dyly ygnat dysgu yn graff, a gofyn y athro yn ufydd, a gwrandaŵ a ddywetto yn llwyr, a chadw yn gofyawdyr, a datcanu yn war,³⁴¹ barnu yn drugaroc.

§552. Eidion a dalo .xxx. yw buhyn tal benic, medd gwyr Deheubarth.

³³⁷ ix buw a chwe buw iii buw Pen 164.

³³⁸ Pa llsgr., paham Llan 121.

³³⁹ Dymma llsgr.

³⁴⁰ dilyf llsgr.

³⁴¹ yn war – llsgr., + Llan 121.

§553. Tri pheth a ddyly cyngaws neu dafodyawc y wneuthur: dywedut yn gyfartal, fal na bo na³⁴² rhy uchel, na rhy issel, rhac digiaw wrthaw; canys Aristotles a ddyweit, may y cymherfedd a ddylyr y ethol: nyt iawn y neb yn ceissiw y neges digyaw y neb y bo y neges wrthaw, na'e frawdwr; ny bydd lawen y [t. 80] gwrandawr wrth hynn a ddywetter wrthaw o'e anfodd: ac am hynny y dyweit Selyf: 'Na ddyweit ymadrodd, onyth glywir.' Eil, peth a ddyly ef ef, na bo na llidioc ormodd, na ry foneddigeidd, eithyr na bo tra bygwl, na thra llafar, na thra thrist, na rhy lawen, na thra gygus, na thra chwerthinawc . . .

[Gwragedd]

§554. Tri pheth a ddichawn gwreic³⁴³ gwr rhydd y wneuthur heb ganyat y gwr: rhoddi y bwyt, a'e diawt, a'e blawt; a benffygyaw y chrys, a'e mantell, a'e penliein, a'e³⁴⁴ dodrefyn; a gellwng y hysgrybyl o warchay a gwystyl.

§555. Tri pheth a eill gwreic taeoc y wneuthur heb ganyat y gwr: benffygyaw y gogyr, a'e ridyll hyt y clower y llef a'e throet ar y trothwy, a gellwng y hysgrybyl o warchay.

[Amrywiol]

§556. Tri dyn a ddyly doddi diaspat ach anwuyn: y nawfet dyn rhac ddiffoddi y briodolder a dlyet; a dyn a omed[d]er yn llys yr arglwydd o cyfreith am dir; a dyn a omedder yn y dadleu ar orsedd ar ostec o cyfreith.

§557. Tri dieu ny ddyly³⁴⁵ twng fod ar dir na llw: yn un o'r dyddyeu dyddon, pa un bynnac fo; a dydd Sul, am y fot yn dydd y weddiaw; a dydd Llun, dydd³⁴⁶ y geissiw creir.

³⁴² na - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

³⁴³ gwreic llsg.

³⁴⁴ ar llsg., ae Llan 121, ae Pen 164.

³⁴⁵ Yn wreiddiol ysgrifennwyd ny ddyn, ond rhoddydd llinell drwyddo ac ysgrifennwyd ny ddyly yn lle hynny.

§558. Tri pheth ny ddiwygir: meddwl, a gwc, a goddeu heb weithret yn ol.

§559. Tri pheth a ddylir eu carcharu: dyn am weithret y perthyno hynny, a llwdyn am lwygwr yt neu weir, ac edyn yn y lle y dylo.

[Cyfreitha]

§560. Tri pheth a ddily³⁴⁷ arglwydd y warandaw: hawl gyfyawn, ac amddiffyn cyfyawn, ac³⁴⁸ erfyn cyfyawn.

§561. Tri pheth ny ddily arglwydd y wrandaw, nac ynat: hawl yn erbyn cyfreith; a hawl a darffo y gyfreith gynt y dosparth; a hawl a fo dygymot o'r blaen amdanei rhwng yr hawlwr a'r amddiffynnwr.

§562. Tri tal³⁴⁹ sydd y hawlwr: geudwng am y dda; a³⁵⁰ gwyrth y dda; ac etfryt y da.

§563. [t. 81] Tri ymyllwng o rwym hawl y sydd: gwrthdwnng; ac arwaessaf; ac ynfytrwydd, cany ddylir attep yna.

§564. Tri lle y bydd cyfaddef hawl ar ddyn, heb hawl, heb ateb o'r blaen: lle addefo cytleidyr diobeith dan y crogwydd drwc ar y gytleidyr; eil, lle caffer dogyn fanac: llyna y managwr y dylyir degymu ac ef, os yn llaw y lleidyr wedy y dogyn fanac y ceffir y da, onys ceffir, ny ddily ddim eithyr dirwy ar y lleidyr y'r arglwydd; a gwreic briawt y leidyr, o byddant ygyt.

³⁴⁶ dydd - llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

³⁴⁷ a dily - llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

³⁴⁸ ar llsgr.

³⁴⁹ stal llsgr.

³⁵⁰ a - llsgr., + Llan 121.

§565. Tri lle y bydd unrhyw gwat ac addef: lle pallo rheith am hawl a yrrer; lle pallo ceitweit am hawl ledrat; trydydd lle, praw.

§566. Tri lle y mae gwell addef no gwat: am frad arglwyd, ot addefir iddaw yn gyfrinach, canys rhybydd yw iddaw; ac am gynllwynaw dyn y'w ladd; ac addef iddaw e hun, fal y gallo ymoglyt a phechot y'w effeiryat.

[Am arddelw]

§567. Tri defnydd y sydd reit y henwi yn enwedig: arddelw, a cheitwat, a thyst.

§568. Tri lle nyt rheit y neb henwi y arddelw: pan fo gwraic feichiawc, wedy marw y gwr, ac yn ceissyaw y gyrry o'r ty, hi a geiff oet wrth y beichyogi; canys y hardelw yw³⁵¹ y bot yn feichyawc ar fab, ac ny ellir y henwi yny fedyddyer ef. Eil, lle caffo dyn oet wrth borth y wneuthur cyfreith, nyt rheit y henwi; rheit hagen, henwi pa bellet fo. Arddelw yw pob dyn a ddywetto dros arall yn y dadleu, a hynny a fydd rheit y dafodyawc, ac yw y weith, a roi colli a chael yn y ben.

§569. Tri arddelw y cyngein gwat ynddunt: arddelw o reith safedig; arddelw o gadw a gwesti³⁵² diballedig; arddelw o wiryonnyni, herwydd gwir a gwlat.

§570. Tri arddelw [y] cyngein addef ynddunt: arddelw o arwaessaf, a phallu iddaw ef; arddelw o [t. 82] wiryonnyni, a mynet dan reith, a'e³⁵³ phallu, un yw hynny a'e³⁵⁴ addef; arddelw o gadw gwesti, a'e ballu, addefus yr hawl.

³⁵¹ yw - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

³⁵² + gwesti llsg. gyda llinell drwy'r camgymeriad.

³⁵³ Ychwanegwyd y llythyren 'e' uwchben y llinell gyda marc caret.

³⁵⁴ + ae llsg.

- §571. Tri arddelw ny chyngain na gwat nac addef ynddunt: arddelu o gyfreith, neu wir, na ddylyer attep yr hawl a manegi yr echaws; arddelw o freint profedic, fal na ddylyo amddiffynwr atdeb; arddelw o amreint ar yr hawlwr, fal na ddylyer attep iddaw, neu o'e fot yn ddieithredic o cyfreith.
- §572. Tri lle y dyry hawlwr ac amddiffynwr eu hardelw yn un pen: un yw³⁵⁵ ympen mach addefedic. Eil yw ympenn ynat, pa diw y barnwyt y frawt. Trydydd, ympen arglwydd ar fot dosparth gynt am yr hawl y bydder yn ymddywedut amdanei.
- §573. Tri lle y dyry dyn y arddelw yn y benn e hun: un yw y ddamdwng y da, ac y gadw perchenogaeth³⁵⁶ ga[n]thaw am yr eiddaw. Eil yw y amddyffynwr y gadw geni a meithrin y anifeil ganhaw e hun. Trydydd y[w] cadw cynn coll y da ganhaw, ac nyt aeth y ar y³⁵⁷ arddelw.
- §574. Tri lle y rhydd amddiffynwr y arddelw ympenn yr hawlwr, ac o phalla iddaw y arddelw, profet arnaw drwy wybyddieit deddfawl: un yw holi o hawlwr peth o anghyfarch neu beth tebic, a dywedut o'r amddiffynwr fot y fodd a'y ewyllys gyt ac ef y gychwyn hyn y mae yn y holi; os absen fydd³⁵⁸ y da a holer, profet, os gwatta arnaw. Eil, o derfydd y'r amddiffynwr dywedut ar yr hawlwr dwyn y da y mae yn y holi y gantaw, ynteu o angecyfarch; ac na ddyly atdeb, yny ddel y da attaw drachefyn; neu am nat ydiw ganhaw y da; cyt bo hynny mal addef dwyn y da³⁵⁹ gynt o angecyfarch, llyna yr amddiffynwr rhoi arddelw ympen yr hawlwr, cychwyn ohonaw y da y gantaw; a profet, os gwatta. Trydydd yw holi o ddyn da y arall: 'Dioer,' [t. 83] heb yr amddiffynwr, 'ti a roddeist ym y da ydd wyt yn y holi; ac mae ym ddigawn a'e gwyr os gwedy.' Llyna ef yn rhoi y arddelw yn y ben. Os yr hawlwr a ddyweit, pan yrawdd yr amddiffynwr fry yn yr eil arddelw, cychwyn y da y ganhaw ymeith drachefyn: 'Dioer,' heb yr

³⁵⁵ yw – llsg., + Llan 121.

³⁵⁶ + ganthaeth llsg.

³⁵⁷ Ychwanegwyd y geiriau 'ar y' uwchben y testun gyda marc caret.

³⁵⁸ fyn llsg., vyð Llan 121.

³⁵⁹ Ychwanegwyd y gair at y testun gyda marc caret.

hawlwr, ‘ny wadaf i gychwyn ohonof hynn a hynn y gennyf yn cyfreithiawl, am y dalu ohonot ym am beth arall a ddylywn yt; ac os gwedy, mae ym ddigawn a’e gwyr.’ Llyna yr hawlwr yn rhoi arddelw yna³⁶⁰ ympenn yr amddiffynwr cyfreithiawl.

§575. Tri pheth sydd reit eu gwneuthur yn cyfreithiawl, cyn barnu neb yn gollet, nac ynnill, rhac bron brawdwr cyfiawn: cwyn; a gwys; a deissyf; sef yw hynny, datcan; cans pwy a wnel ormod³⁶¹ deisyf ar fessur y hawl, neu yn damdwng mwy noc y barno cyfreith, ef a gyll fessur y hawl;³⁶² canys muriedic yw cyfreith gwerth pob anifeil, a sarhaedeu . . . a galanasseu.

§576. [T]ri argae damdwng: un yw lle ceissyo dyn damdwng anifeil, ych, neu fuch, neu farch, a ymadawo a’e dylediwrwydd, yn gymeint a phan oedd yn delediw, ac yn dec ny bydd un werth yna a chyn no hynny; ony thyng y perchennoc y tal hynn a hynn, ac y caffei hynny yrddaw, ac felly y damdwng. Eil yw ceisiaw damdwng anifeil cyn y ddyfot y oedran ar y werth cyfreithiawl, mal cynw hwch, neu lo cyn tymp; ny at cyfreith y damdwng yn gyfuch a gwerth cyfreithiawl, canys budd . . . cyn tymp yw; ac ny chymer werth cyfreithiawl hyt yr tymp y dyliei eni: llyna ail argae. Trydydd argae damdwng,³⁶³ ceissaw o ddyn damdwng anifeil wedi torri aelawt iddaw ac aryf, neu [a] ddarffo y fleidd, neu gi, y yssu, yn un werth a phan oedd gwbyl; ny eill, cany thal a driblin werth cyfreithiawl.

§577. Tri lle y bydd llwyr dal wedy llwyr dwng: un yw am yt yn emyl [t. 84] trefgordd a lygrer; rhoddent lw dir na bodd, nas llygrassant wy ef; ac er hynny, talent yr yt. Eil, am eidion a ladder mewn buarth yngwarchae; os lleddir, rhoddet pop perchen eidyon a fo yno, y lw dros y eidyon,³⁶⁴ ac yr hynny, talent rifedi, llwdyn a llwdyn, a fo yno y ddyn. Trydydd, y nep [a] addefo dyfot da

³⁶⁰ yna - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

³⁶¹ ormodd llsg.

³⁶² neu . . . hawl - llsg., + Llan 121.

³⁶³ damdwng llsg.

³⁶⁴ + a fo yno y lw dros y eidyon llsg.

attaw y gadw; os collir, rhoet y lw y fot ef yn iach o'r da; a[c] yr hynny, talet y da a ddoeth attaw.

§578. Tri pheth a ryddha amddiffynwr o hawl: brawt; ac arddelw safedic cyfreithiawl; a detfryt.

§579. Teir brawt y sydd: brawt ddilys, rhwng hawlwr cynyrchol ac amddiffynwr cynyrchawl, a ryddhaa yr amddiffynwr o'r hawl honno fyth; canyt atwna cyfreith a wnel. Eil yw brawt absen; nyt dilys honno yny ddel amddiffynwr y atdeb, canys esgussodion cyfreithyawl a ddifwyna y frawt. Trydydd, brawt a roddo ynat rhwng hawlwr cynyrchol ac amddiffynwr cynyrchol, ac ymwystlaw ac ef o un ohonunt; ammeu fydd y frawt yny dosparther drwy yneit.

§580. [T]eir brawt ameu cais: un³⁶⁵ lle mae dysgu eistedd ynghyfreith tan y diwedd³⁶⁶
...

§581. Tri arddelw y sydd: arddelw a gymero peth o law amddiffynwr, a'e ellwng ynteu yn rhydd wrth yr hawlwr; arddelw o wiryonyni, ac yna y perthyn rheith ne gadw gwesti; ac arddelw o fach.

§582. Tri detfryt sydd: detfryt arglwydd rhwng y ddeu wr, neu un o'r naw nyn y credir eu geir ar wahan; detfryt processos ysgrifenedic rhwng deu ynat a ymwystlo; detfryd gwlad y ddosparth³⁶⁷ hawl ny bo y chyfryw ynghyfreith.

§583-4. Tri pheth a gyngain am hawl lle ny bo na rheith, nac arddelw, na gwir gwlat, na mach, na bruduw, &c: sef yw hynny, lle bo ceitweit; neu wybyddeit; neu dystyon [t. 85] gwrthneb rei, .i. tystyon a ddieithra cyfreith; sef yw rhei hynny, mut, a byddar, a rhy iefanc, a dall, a rhetőbic,³⁶⁸ ac ynfyt.

³⁶⁵ un - llgr., - Llan 121, + Pen 164.

³⁶⁶ tan . . . diwedd - llgr., - Llan 121, + Pen 164.

³⁶⁷ Ychwanegwyd y llythyren 'r' uwchben y llinell gyda marc caret.

³⁶⁸ rhetőbit llgr.

§585. Llyssu gwybyddyeit, o'r teir ffordd y llyssir wynt.³⁶⁹

§586. Anaddfwyno ceitweit o'r teir ffordd³⁷⁰ nyt geir eu geir y dynyon a ddywettoent, neu o'e fot yn anfreynoc: ceitwat cyn twng; gwybyddyat a thyst wedy twng y llyssir; gwybyddyat a llyssir y berson am y weithret; tyst felly hefyt; ceitwat a anaddfwynir y breint a'e eiryau; dall, a mut a byddar, a gwreic ar wr a ddieithrir o gyfreith am y hanafu,³⁷¹ ac ynfyf am na wyr bwyll; ieuanc o ddiffic oedran: am hynny y dywedir, ny chyngein ynghyfreith fot diffic.

§587. Tri lle y gyrr dyn ny bo perchennoc da hawl: mach yn gyrru y fot yn fach;³⁷² cynnwyr am affeithieu; a dyn a gaffo dogyn fanac ar arall.

§588. Tri lle ny ddyly arglwydd seithgyaw³⁷³ y orsedd yn rhat: un yw am yr affeithieu lle daw y naw ugeinyau iddaw, yr gadu gwat y'r amddiffynnwr. Eil yw lle hortier ar ddyn ladd celein, heb praw arnaw, heb yrr cyfreithiau[ll], eithyr arglwydd yn holi, yna y dylly [y] dyn roddi .x.^s y'r arglwydd, yr gadu y rheith iddaw. Trydydd, am derfynu rhwng cantrefoedd, neu gymydeu; neu ll[ll]e dywano³⁷⁴ dyn ar ladd celein, cany³⁷⁵ halocco y law yn y waet, rhoddet .ix. ugeint y'r arglwydd, yr gadu gwat a llw canwr.

§589. Tri lle y bydd cynghawssaeth wedy braot: pan ymwystler ac ynat am y frawt a farno; pan ddel dyn wrth cyfreith, wedy tremyc arnaw, a phrofi esgussot cyfreithyawl drostaw, a'r hawlwr yn y ceisyaw³⁷⁶ y luddyas; trydydd, pan fo amryson rhwng deu ddyn am frawt pa diw y barnwyt: 'Y mi,' heb un: 'Y mi/neu,' heb y llall.

³⁶⁹ y llyssir wynt – llsg., + Llan 121.

³⁷⁰ anaddfwyno . . . ffordd – llsg., + Llan 121.

³⁷¹ + gwreic llsg.

³⁷² fach – llsg., + Llan 121.

³⁷³ seithgyaw oedd y ffurf gwreiddiol ond fe ysgrifennwyd 'u' tros yr 'y' i'w gywiro.

³⁷⁴ dywano llsg.

³⁷⁵ cyny llsg.

³⁷⁶ ceis llsg., keissyau Llan 121.

- §590. Tri pheth ny ddyllir oddieithyr cyfyrdwr y wneuthur: talu sarhaet gyt a neb ac na bo ar y helw e hun ddim a dalo; a thalu gwarthec³⁷⁷ difach gyt a mab alltut o Gymraes eithyr hyt y drydedd ach; na chynnal, na chadw, rhan o neb a'e gilydd a da nac a llw o gyfyrdwr allan, cany [t. 86] dylir rhannu bellach.
- §591. Tri lle ny thal cenedyl alanas gyt a char: lle lladdo dyn y frawt am na ranno tref tat ac ef. Eil yw lle bo negyf llofrudd y genedyl o wneuthur cyfreith ac wynt. Trydydd, lle addefo e hun lawruddyaeth, heb wat o'r blaen, a mynet dan reith.
- §592. Tri achos y gossodet cyfreith: cyntaf y geissyaw disc rhac ffolineb ac anghyfreith. Eil, y waret angcyfreith ymeith o darffei y gwneuth[ur] gynt. Trydydd, y gopsi y neb a'e gwnelei.
- §593. Tri pheth a orchymyn cyfreith y bawb: dwyn y fowyt yn addfwyn; ac na wnelo coddiant y arall, na gostwng; a rodidi y bawb a ddylyo.
- §594. Tri echos y bu da gwneuthyr cyfreith³⁷⁸ o Ladin: cyntaf yw, datcanu y'r Pab, rhac y bot yn erbyn cyfreith eglwys, mal y dyallei³⁷⁹ hi. Eil, un ymoglyt rhac ddyall o bawb hi; canys llawer peth a fydd mewn llythyr ny pherthyn eu clybot y fo rheit wrthynt. Trydydd yw y beri y'r a'e gwyppo o Ladin ragor anrhydedd rhac lleyc; canys am hynny y dywetpwynt yn y llyfyr, y neb a wyppo o ynat teir colofyn cyfreith, a'r petheu ereill a elwir egwyddawr ygnyddyaeth,³⁸⁰ nat eisteddet³⁸¹ lleyc yn y erbyn fyth.
- §595. [T]ri pheth sydd gadarnach no gwys: un yw lle gosotto ynat y bleidieu oet dydd y ddyfot a'e defnyddyeu ger bron, neu oet dydd coll a chael, ac na ddel yr un, neu dyn . . . o'r neill; yna y dylu ef difarnu hwn ny del, o rhwymir y pleidieu o'r

³⁷⁷ Ychwanegwyd y llythyren 'r' uwchben y gair gyda marc caret.

³⁷⁸ cyfreith – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

³⁷⁹ 'dallei' yw'r ffurf yn y testun ond rhoddwyd seren wrth ymyl y gair a cheir y cywiriad 'dyallei' mewn pensil ar ymyl y ddalen.

³⁸⁰ Ail ysgrifennwyd y term 'egwyddawr ygnyddyaeth' mewn pensil ar ymyl y ddalen.

³⁸¹ eistedd llsg., eisteddet Llan 121, eisteddet Pen 164.

blaen, ac addaw ohonaw wneuthur cyfreith, ac nas gwnaeth rhac bron arglwydd. Eil, amot, canys gwnait yn . . . o'r . . . Trydydd, gorfodogaeth.

§596. Tri ryw wassanaeth sydd reit y'r offeiryat teulu y wneuthur yn y llys: un yw dileu pob dadyl a ddarffo y terfynu, mal y perthyno hynny. Eil yw cadw yn ysgrifennedic pob dadyl mal terfynwyt hi. [t. 87] Trydydd yw bot yn ddifedd, ac yn barawt y wneuthur llythyreu y'r brenhin pan ofynno, ac y'w darllein; ac am bob llythyr egoret³⁸² am dir a daear a wnel, lle rhoddo y brenhin dir cynnif,³⁸³ .iiii.^c a geiff.

[Gwaed]

§597. Tri gwerth cyfreithiawl: gwaet cyn delwat, o gorddineuir³⁸⁴ o greulonder ef, .lx. y werth; gwaet a ddineuer o weli o gorff dyn yn lle . . . raw, .xxiii.^c a dal; trydydd yw pan fratho ci y dyn yny ddel y gwaet, talet nep pieu y ci y waet y'r dyn; ac o lladd y dyn [y ci] cyn y fynet oddyno, ny chaiff am y waet eithyr un ar bymthec.

§598. Tri gwaet ni ellir y diwat: gwaet cyn delwat, a llyna waet mwy y werth no gwaet Crist; a gwaet arwydd treis morwyn yn erbyn y llw e hun; a gwaet dyn a ladder a'e talyf o law.

§599. Tri gwaet nyt rheit eu diwat . . . a³⁸⁵ . . .

§600. Tri gwaet nyt oes cyfreith arnunt . . . ac werth arnunt, rheit yw hagen wadu y sarhaet oll³⁸⁶ . . .

[hiatus]³⁸⁷

³⁸² egoret llsg.

³⁸³ cynnf llsg.

³⁸⁴ gorddineuir llsg.

³⁸⁵ a – llsg., + Llan 121.

³⁸⁶ Tanlinellwyd hagen . . . oll mewn pensil.

[Cyfnewid eiddo]

- §601. . . . Trydydd, lle y dyly y dyn holi y da o gwahenir ac ef lle rhoddo . . . a hwnnw a berthyn y holi o dri modd: ae drwy braw, a[e] drwy [lw] gwy[byddyeyt] . . . : sef yw hynny, drwy ddifwyn, neu ddiwat, [t. 88] ae drwy rym; llyma y al . . . a berthyn y holi drwy braw: echwyn, ac adneu, a benffyc, a g[wystyl]; o dyweit dyn na ddoeth y gwystyl attaw profer arnaw; ot addef, talet y dda y'r nep pieu: ny eill neb holi eithyr perthy[n] . . .
- §602. O dyweit dyn hagen na ddoeth atneu attaw, neu fenffyc, ac na allo yr hawlwr brofi y ddyfot, gyrret y ddyfot attaw y greir yn cyfreithiawl a . . . y bydd rheith. Y ceitweit yna pieu tyngu, a'r un dyn nessaf y werth iddaw, o . . . mnd³⁸⁸ . . . am beth o'r da na ddoeth attaw, neu na bo tystyon. O chy . . . gan y ceitwat pieu y holi ay perchennoc, ay ceitwat y perchennoc, o cyfreith. Rhei a ddyweit . . .
- §603. Ny ellir diwat na gwystyl, na benffyc, yn erbyn tystyon ga . . . llyssu y tystyon hagen a ellir³⁸⁹ gwystlaw a driblin; cany aller . . . hi o cyfreith .iii.³⁹⁰ wydir peth heb³⁹¹ werth arnaw: nyt oes werth ar angwbyl.
- §604. Rhodd a da a ddycer ar y dapplys a berthyn y holi fal hynn: pwy bynnac ac adawo da y arall cwplaet y addaw, onys gwat, a'y law ar y creir pan y gofynno nas eddewis. Ny ddyly ef fot yn negyf, ae gwadu nas eddewis, neu cwplau y addaw r . . . gen bot y creir yn neill law; ac os drwy groes y cymell y . . . yn y llall, cany cheffir oet yno wrth geisslaw creir . . . P[opeth] . . . a rodder ac a gaffer yn llaw, ny ddylyir y addfwyn o gellir profi . . . [n]a'y gychwyn na'e holi drachefyn.

³⁸⁷ Oddeutu 14 llinell.

³⁸⁸ Sic llsg.

³⁸⁹ + a ellir llsg.

³⁹⁰ ïï llsg.

³⁹¹ heb – llsg., + Llan 121.

§605. O bydd ymrysson hagen rhwng deu ddyn, un yn dywedut mae iddaw ef y rhoddet, a'r llall yn dywedyt mae iddaw ynteu y rhoddet, yna bydd ympenn y rhoddyat pa diw y roddes. A llyna paham y dywedir: 'Nyt rhodd eithyr gan fodd.' Sef yw hynny, lle bo gan [t. 89] roddyat dywedyt y rod-di, hwnnw a'y ceiff, canys un o'r naw tafodyawc yw rhoddyat ar y rhodd.

§606. Tapplys . . . o d . . . ny ellir holi da ohoney, canyt hawl cyfreithiawl hi: ef a ellir y holi drwy amot os gwnair hagen.

[Am llwgyr]

§607. Llwgry fal hynn y mae amdanaw: ony cheffir goddiwes³⁹² yr anifeilyeit a wnel y llwgyr ar yt, nyt oes hagen am weir difwyn . . . rhoddi llw dir³⁹³ roi bed³⁹⁴ . . . neb a gysswyner arnaw, neu ar y neb nessaf y'r llwgyr . . . anifeil y llall, ac na wyper dehurwydd pa anifeil fo hwnnw; yno y perthyn hefyt llw e gweilydd . . . a ellir cymryt llw gweilydd amdanaw hyt yn oet galanas, neu ledrat, neu losc; ac ny dylyir annoc llw gweilydd am ledrat yn benddiatnot pa le bynnac y gofynner ef, cyt boet ar bont un pren; ac yr pallu o lw gweilydd am ledrat, rhei a ddyweit y gellir hawl fal cynt, ac y bydd rheith herwydd meint y lledrat fal cynt.³⁹⁵ Eissioes nyt rheit iddaw ef, o phellir o lw y ngwydd tystyon, eithyr profi negy[fy]ayth, a chwynaw bot yn negyf iddaw: sef paham, ny ddylir pallu o lw gweilydd am ledrat, o phaller, gafel dyn³⁹⁶ a ellir y dwyn am y lledrat.

§608. Ny ellir holi da o lw gweilydd cyt perthynol y rod-di pan y gofynner yn cyfreithiawl; nac o anoddeu; na llwgyr; na thapplys; nac o rodd, eithyr fal y dywedaist i fry; nac o angeu; nac o wystyl: cyt gwahaner y da o'r ffyrdd hynn, ny ellir y holi o'r ffyrdd, canyt modd y holi wynt o gyfreith.

³⁹² godd llsg., godiwes Llan 121.

³⁹³ dir llsg.

³⁹⁴ bed llsg.

³⁹⁵ + ac y bydd rheith herwydd meint y lledrat fal cynt llsg.

³⁹⁶ dyn llsg.

§609. Ti a glywaist fry yn y dechreu y ffyrdd y perthyn holi y da; eissioes un o'r ffyrdd y ceiff dyn messur y hawl o phellir o lw gweilydd, o thystir hynny a chwyn; trydydd lle yw y ddyn y holi lle rhoddo y dda drwy rwym.

[Rhwymau cyfreithiol]

§610. Tri rhwym y sydd: mechni, ac amot, [t. 90] a bruduw: llog a chyfnewit a berthyn y holi drwy un o[r] ffyrdd hynn.

§611. Pob da a holer drwy gyfnewit, holer drwy fach.³⁹⁷

§612. Pob da a holer drwy amot, holer drwy amotwyr neu fruduw.

§613. Pob da a holer drwy . . . nny . . . anifeil, .i. lloc, holer drwy fach neu fryduw.

§614. Ef a ellir holi rhodd, ac echwyn, ac atneu, a benffyc, ~~chan~~ mwyaf y ffyrdd fry, drwy fach, ac³⁹⁸ amotwyr, neu fruduw; ac ot addefir y fruduw, ympen y neb y rhoddes y fruduw y . . . ar ba feint y bo; megys ympen mach addefedic am ddlyet a ba feint y mae mach.

Am fechni³⁹⁹

§615. Tri rhyw rwym a wna dyn a'y gilydd: ymrwym, a llyna rwym [cw]byl; a rhwym futnawc; ac ofer rwym.

§616. Tri ymrwym cyfreithiawl y sydd: mechni, ac amot, a bruduw.

³⁹⁷ + fach llsgr., gyda llinell drwy'r camgymeriad.

³⁹⁸ ac llsgr., neu Llan 121, neu Pen 164.

³⁹⁹ Am fechni - llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

- §617. Tri rhwym futnawl y sydd, sef ynt: teir palfawt⁴⁰⁰ fechni, cany rwym y rhei hynny eithyr un o'r pleidieu . . . ; cynogyn; ay y talyawdyr; ay y mach.
- §618. Tri ofer rwym yw y teir ofer fechni sydd; sef pahan y mae ofer wynt, am orfot ymchwelut wynt drachefyn. Pahan yr ymchwelir wynt? Am y bot yn anghyfreithiawl y neb cynnal da anilys ganthaw; neu fot yn anilys y rwym [herwydd] nat oes rwym o bob tu ar dda; neu am gymryt mach . . . b ny allo bot yn fach; nyt amgen o wreic, neu o gyfryw. Pahan y dywedir amot a dyr ar gyfreith? Llyma amot lle⁴⁰¹ galler dangos argywedd ac eissyeu⁴⁰² y neb, os gwnayt ohonaw, mal lladd dyn, neu beth dybryt arall, ny thyrr yr amot hwnnw ar cyfreith, namyn y cyfreith a beir torri y amot hwnnw. Amot hagen ny aller dangos⁴⁰³ argywedd ohonaw pes gwnait, [mal] pe rhodder wr wreic y wr arall, o cyfreith y rhoddyat a dal y [t. 91] hamobyr; os y gwr hagen a fo rhoddyat, amotto iddi e hun, neu y arall talu y hamobyr, llyna⁴⁰⁴ amot a dyr a cyfreith; canys trech yw yna⁴⁰⁵ no gwir, yr amot.
- §619. [T]ri pheth ni⁴⁰⁶ henyw⁴⁰⁷ o fechni: clefyt, a charchar, ac angeu: canys nyt . . . amot dyn fechni eithyr y petheu sydd yn . . .
- §620. Ny ddyly neb dwyn hawl arnaw e hun, megis dywedut: 'Mach y sydd y ti gennyf i ar hynny.'
- §621. Tri pheth cyfreithiawl ryfeddaf a wnaeth dyn y'w gilydd, heb ddiolch iddaw, heb gyfreith yn y gymell, ac eissyoes yn y oddef wedy ys gwnel,⁴⁰⁸ ac yn

⁴⁰⁰ Rhoddwyd dot o dan y llythyren olaf a'r llythyren 'c' uwchben.

⁴⁰¹ y Pen 164.

⁴⁰² eissyw llsg., eissyu, eissye6 Pen 164.

⁴⁰³ gangos llsg.

⁴⁰⁴ Mae ochr chwith y dudalen wedi rhwygo. Ychwanegwyd yr 'n' ar ymyl y ddalen gyda marc *caret* (yn llaw Moses Williams).

⁴⁰⁵ Ychwanegwyd yr 'n' ar ymyl y ddalen gyda marc *caret*.

⁴⁰⁶ Ychwanegwyd y gair mewn inc gwannach.

⁴⁰⁷ Ychwanegwyd y llythyren 'h' mewn inc gwannach yn llaw Moses Williams

⁴⁰⁸ gwne! llsg.

ddial⁴⁰⁹ am⁴¹⁰ y wneuthur: un yw bot yn fach dros arall; eil yw bot yn wybyddiat ac yn braw y arall; trydydd, mynet yn arwaessaf lledrat yn llaw.

§622. Tri echos amryw y sydd mae rhyfedd y ddynd fot yn fach dros arall: un yw meicheu a garcherir dros y neb yr el drostaw, cystal dros yr hawlwr, ac dros y talyawdyr; sef pa le hynny, lle bo gwystlon am ddadyl tir a dayar, yny dosparther yr hawl. Eil achaws yw mach a ddyly cymryt y teir ffonnawt gyntaf dros y neb ydd el yn fach iddaw, sef yw hynny, y ddiogelu y neb y bo⁴¹¹ mach iddaw, a'y ddwyn yn ddiogel; nyt eirch cyfreith hagen iddaw ymladd, na dial y gam, na'y sarhaet e hun; hi hagen a eirch iddaw ddiffryt y da a atafaeler ar y[r] hawlwr ynteu, o cheiff sarhaet, cwynet wrth arglwydd, ac ny bydd di ddial wneuthur cam ac ef yny wyt yn fach: ac ef a ddyweit cyfreith Hywel, na ddyly neb ballu y'r llall. Trydydd achos yw gorfodawc⁴¹² [a el yn] fach drosto,⁴¹³ mach yw hwnnw dros ddynd ar y ddyfot y ateb o hawl gysswyn; ac ony ddaw y dyn y'r oet, ony cheiff oet gorfodawc y'w geissyaw, neu gymryt mach y ganthaw, ar y ddyd . . . wrth yr hawl, talet e hun, mal y barno cyfreith: [t. 92] am⁴¹⁴ . . . hawl fo, ny elwir yn orfodawc, eithyr ef o'r mach.⁴¹⁵

§623. . . . Eil peth a wnaeth dyn yr y llall,⁴¹⁶ un a el dros nessaf ac mynet yn fe[chni]; sef⁴¹⁷ paham, un o lyssyant praw yw galanastra; ac ato⁴¹⁸ . . . mynet hono yn cyn bellet ac y gorffo⁴¹⁹ y ddifuyn y genedyl ac arglwydd, neu gymryt lle bo gweddus hynny; lle bo cenedyl yn dala car . . . dyn heb ddiolch hynny, heb gyfreith yn y gymell y [hynny]; canyt rheit cymell praw⁴²⁰ o gyfreith eithyr y neb a al[w] . . . praw cywired, cyt bo yawn cyme[ll] praw o c[yfreith]. Trydydd

⁴⁰⁹ ddel llsg., dial Llan 121, dial Pen 164.

⁴¹⁰ a llsg., am Llan 121, am Pen 164.

⁴¹¹ y bo – llsg., + Llan 121, + Pen 164.

⁴¹² gorfyddawc llsg., gorfodauc Llan 121, gorudawc Pen 164.

⁴¹³ fach drosto - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁴¹⁴ am, llsg.

⁴¹⁵ o'r mach - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁴¹⁶ Collwyd dyw lythyren olaf y gair o ddiwedd y llinell neu'r frawddeg (oherwydd rhwyg) ac fe'u hychwanegwyd ar ymyl y ddalen gan Moses Williams.

⁴¹⁷ Collwyd y lythyren olaf ac fe'i hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.

⁴¹⁸ Collwyd y lythyren olaf ac fe'i hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.

⁴¹⁹ Collwyd y lythyren olaf ac fe'i hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.

⁴²⁰ praw – llsg., + Llan 121.

ryfeddwch a wna dyn, mynet yn arddel[w] y arall am ledrat, [n]att oedd⁴²¹ ynteu heb allu cael arddelw y gymryt y peth o'e law ynteu, ac . . . bydd ef yn groc . . . lla . . . , heb ddiolch .

§624. Tri thal sydd y gwynwr am lw:⁴²² geudwng; ac ei wyrth; ac etfrut y dda iddaw, neu roi mach ar y da iddaw.⁴²³

§625. Tri ymollwng sydd y amddiffynnwr, heb addef, o rwym hawl cyfreithyawl:⁴²⁴ gwrthdwng, sef yw hynny, mynet dan reith yn ol gyrr cyfreithiawl; eil yw arwaessaf; trydydd, ac ynfyrwydd.

[Llwon]

§626. Tri rhy6 dwng cyfreithiawl y sydd: cwbyl dwng, a gwallaw[g] lw, ac ofer lw.

§627. Tri rhyw lw cwbyl y sydd yng cyfreith: tyngu gwir drwyddau berued; eil yw gwadu geu drwyddaw⁴²⁵ berued; trydydd, lw pedrus:⁴²⁶ sef yw llw cwbyl, llwyr dwng.

§628. Tri dyn a ddyly roddi llw cwbyl: perchennoc da yn holi, ac amddiffynnwr yn gwadu, a llw un o'e defnydyeu wynt.

§629. Ny eillir⁴²⁷ cyfreith⁴²⁸ fyth rhwng neb a'e gilydd heb lw cyfreithyawl o'r blaen gan un o'r ddwybleid; onyt lle bo mach addefedic yn y ben⁴²⁹ e hun, y bydd yr edryt pa ar y mae y mach; ony myn un o'r ddwy bleit y ameu; or myn hagen, ef a ddyly tyngu bot yn wir a ddywawt; a hynny wedy etfrut. Paham nat cyn etfryt

⁴²¹ attoedd llsg.

⁴²² am lw - llsg., - Llan 121, + Pen 164

⁴²³ iddaw - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁴²⁴ cyfreith llsg., kyfreitiaul Llan 121, cyfreithyawl Pen 164.

⁴²⁵ Ychwanegwyd y llythyren 'y' uchwben y gair gyda marc caret.

⁴²⁶ trydydrus llsg. , trydyd, lu pedrus Llan 121, trydyd [l]w pedrus Pen 164.

⁴²⁷ eillir llsg.

⁴²⁸ cyfreith - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁴²⁹ blaen llsg.

y llyssir tyst neu wybyddiat . . . , ac y [t. 93] gwedir mach cyn etfryt y llyssir tyst neu wybyddeit⁴³⁰ . . . , ac y gwedir mach cyn etfryt pa ar y may⁴³¹ a phob un ohonunt yn dyst ar a welo; canys⁴³² un o'r naw nyn a gredir y air e hun ar wahan yw mach? Llyna paham: llyssu cynn amser yw un o'r tri ofer ymadrawdd; sef yw hynn, nyt grym llys cyn llw; eissioes, ny ddyweit cyfreith fot gwadu yn un o'r tri ofer ymadrawdd, canyt un rhyw gwadu a llyssu, ac nyt ar yr un peth y perthynant; canys pan watto dyn fach y gwatta pan yrro y fot yn fach, a'e eneu wrth y creir pob eilwers, mal y gyrrer; ony ffyna y gwat, mal addefedic fydd, ac yna ny ellir y wadu; o metha⁴³³ y gwat, nyt mach ef. Ofer hagen a ddywetto gwybyddiat ar dafawt leferydd ony thyng y'r dygyn mwy no dyn arall o'r bobyl; pan dyngo ynteu, hyt y rhodder yn y ben, llyna ef yn wybyddiat, onys llyssir; a chyn gatto cyfreith y llyssu o'r echwysyon cyfreithiol, am nat crededin ef ar y dyn hwnnw; ac attoedd gwir a ddywawt ef hagen, cany allo bot yn dyst yn y lle hwnn.

§630. O tri modd y bydd llw cwbyl: un yw tyngu uch ben creir; eil yw tyngu ymplas y creireu ar⁴³⁴ ddadleu a fo mewn mynwent.

§631. Tri llw pedrus y sydd: llw ynat na ddaw cof iddaw pa diw y barnawdd ef y frawt ymryssonedic; yno y cyngein ny wnn ar dalym, yny ddel y gof attaw; am hynny y ceiff ef oet, o'e ddyry yw⁴³⁵ lw, na wyr y ba diw y barnawdd: ny thyngir hagen yn oet dydd coll a chael hynny; namyn manegi yn ddibedrus y frawt, ac y ba diw y barnwyt hi, neu colli camlwrw. Eil yw llw mach y alw am y gof, .iii. dieu, drwy lw na ddaw cof iddaw peth yw ay mach ay nyt mach;⁴³⁶ ny ddyly ef hagen oet, os mach wrth y alw y gof am etfryt; canyt oes oet etfryt

⁴³⁰ Collwyd y tair llythyren olaf o ddechrau'r llinell neu'r frawddeg (oherwydd rhwyg) ac fe'u hychwanegwyd ar ymyl y ddalen gan Moses Williams.

⁴³¹ Collwyd llythyren gyntaf y gair o ddechrau'r llinell neu'r frawddeg (oherwydd rhwyg) ac fe'i hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.

⁴³² Collwyd y llythyren 'n' o ganol y gair ac fe'i hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.

⁴³³ methla llsg.

⁴³⁴ aru llsg.

⁴³⁵ yw llsg.

⁴³⁶ y alw . . . mach – llsg., + Llan 121, + Pen 164.

namyn [t. 94] alw cof beth yw. Trydydd, oet y arglwydd, naw dieu,⁴³⁷ y alw cof peth yw ay tyst rhwng y ddeuwr,⁴³⁸ ay nat tyst, a thyngu o'r distein drosto na ddaw⁴³⁹ cof iddaw; neu effeiryat yny allo canu offeren⁴⁴⁰ gyntaf; a chyt boet pedrus gan y dnyon hynn am y cof, cwbyl yw y⁴⁴¹ llw, os rhoddant.

§632. Llw cwbyl a ddamweinia o lawer modd hefyt: un yn llw gweilydd; a gwrthdwng lle perthyno rheith.

§633. Ny pherthyn gwrthdwng yn ol llw gweilydd fyth; canys difwyn neu diwat yw llw gweilydd.

§634. Ni bydd gwrthdwng eithyr lle bo rheith; canys o dduhundeb y bydd llw gweilydd, . i . gadu yn y lw.

Llyma bellach am wallawc lw cyfreithiawl⁴⁴²

§635. Tri rhyw gwallawc lw cyfreithiawl y sydd, ac a safant yn grym llw: un yw llw tat rhwng deu fab un fam, lle ni bo iddaw ef ran o'r tyng; sef am ba beth yw hynny, lle bo cynnen rhyngthunt . . . , a rhoddi yn y ben ef: o thyng ef y Dduw a'e crewys ef, ac a'e crewys wynteu ohonaw ynteu, fot yn wir y dystyolaeth a dduc ef, crededin fydd. Eil yw llw cytleidyr⁴⁴³ dan y grocpren yn ddiobeith ar y cytleidyr,⁴⁴⁴ sef llw a ddyry, y'r angeu y mae yn mynet iddaw, fot yn wir y dystyolaeth. Peth os gwreic fydd? Bot yn yawn y thystyolaeth, pa wreic bynnac fo, na gweddw, na phriawt. Paham y dyweit cyfreith nat geir y geir ar wr? Da y dyweit, nyt geir y geir hi tra fo byw hi; eithyr rhwng y deu fab gefellyeit⁴⁴⁵ yn holi y tyddyn breinyawl, y wybot pwy hynaf, pwy yeieaf ohonunt: geir hefyt yw

⁴³⁷ Collwyd y llythyren 'i' o ganol y gair (oherwydd rhwyg) ac fe'i hychwanegwyd ar ymyl y ddalen gan Moses Williams.

⁴³⁸ Collwyd llythyren olaf y gair ac fe'i hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.

⁴³⁹ Collwyd y ddwy lythyren olaf fe'u hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.

⁴⁴⁰ Collwyd y ddwy lythyren olaf ac fe'u hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.

⁴⁴¹ y – llsg., + Llan 121, + Pen 164.

⁴⁴² Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

⁴⁴³ llw|cytleidyr llsg.

⁴⁴⁴ dan . . . cytleidyr – llsg., + Llan 121.

yma y geir am y bot yn un freint a lleidyr. Trydydd gwallawc lw yw llw gwreic ar y llongwedd, wrth i pheriglawr, yn adaw y mab y wr o'r plwyf:⁴⁴⁶ sef llw a ddyry, tyngu y esgor y neidyr, os crewys tat ef, namyn y gwr y mae yn i adaw iddaw yn y chlaf wely. Os [t. 95] y gwr a fydd marw, y dycer y mab iddaw, a'r wreic hefyd, a bot y mab e hun yn ymddwyn y'r tat, ac yn ymgymell ar genedyl y dat; nyt rheit y'r genedyl na'y wadu, na'y gymeryt, na thalu⁴⁴⁷ drostaw neb ryw angcyfreith, yny ddyco yr effeiryat dystyolaeth ar a ddywawt y wraic wrthaw. Os yntau a ddwc tystyolaeth ar hynny, ef a orfydd ar y genedyl ay y wadu yn gyfreithiawl, ay y gymryt yn gyfreithiawl: a llyna y cymyn a aill effeiryat plwyf dwyn tystyolaeth arnaw.

Llyma bellach am ofer lw⁴⁴⁸

§636. Tri rhyw ofer lw y sydd: llw cynydd y'w gorn a'y gynllyfaneu am hawl ny bo coll eneit nac aylawt, canyt ettyb ef onys goddiweddir yn dydd cyfreithyawl ar y wely y neb, eithyr y wyr y llys e hun am hawl fecha[n]; nyt rheit iddaw ynteu roddi llw, eithyr llw ofer, cany ddyly ateb na derbyn hawl; or gorddiweddir ef hagen yn yr amser cyfreithiawl, ef a dyng lw mal arall, y wadu, neu addef, neu arddelw cyfreithiawl; canys rheit y bawb un o'r tri pheth hyn yn erbyn hawl o gyfreith. Eil ofer llw yw, o dwg neb un wr forwyn lathlut y lwyn a pherth, a bot genthi, a'y gellwng ymeith hi wedy, a chwynaw ohonaw ohoney wrth y chenedyl, a[⁴⁴⁵e] holi ef am hynny, ac ynteu yn mynnu ymddiheuraw o hynny, rhoddet y lw y gloch heb dafawt, ac ny ddyly hi amgen yawn ganthaw am y diweirdeb; os addef a wna y gollwng ymeith, rhoddet iddi genyoc cyflet a'y thin; sef paham yw hynny, y gwatwar am na wnaeth gyngor y chenedyl; cany ddyly cyfreith, ny gwnel.

⁴⁴⁵ gofellyeit llsg.

⁴⁴⁶ plwyw llsg.

⁴⁴⁷ nalthalu llsg.

⁴⁴⁸ Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

§637. [t. 96] Tri peth ny ellir heb annudon: rheith, canys gyrr⁴⁴⁹ fydd o'r blayn, a gwat yn ol y gyrr; a dwyn⁴⁵⁰ da a rodder drachefn; a gwadu gwir ac yawnder.

§638. Tri modd y gellir profi geudwng,⁴⁵¹ sef yw hynny, annudon cyhoeddoc: un yw addef o'r neb yr enlleiber arnaw; canyt rheit praw ar addef, eithyr tystiolaeth gynnyrchawl; os cyhoedd y⁴⁵² tyngir, taler tri buhin camlwrw. Eil modd yw o ballu y ddyn y reith, neu y geitwat, neu y dyst, neu y damdwng: ethol yw lle pe[r]thyno un o'r petheu uchot y perthyn tyngu y greir; o tyngir anudon, cosp a fydd y arglwydd am y dryc lw; sef paham y bydd cosp y'r arglwydd ac yr hynny y'r eglwys yn y ol am y pechot: os mewn gorsedd yr ennywir un o'r petheu hynn, ny seithugya arglwydd⁴⁵³ y orsedd yn ofer heb gosp ae ar yr hawlwr, ae ar amddiffynnwr; canys un freint a chwyn yw gyrr cyfreithyawl, ac nyt a cwyn y'r llawr. Trydydd modd, o welet y nep a dyng y llw yn cymeryt y benyt ar gyhoet amdanaw yn y senedd, a cosp yn y dadleu, a cany chymero cosp yn y daleu . . . hawl neu . . .

[Am hawl]

§639. Tri dyn a⁴⁵⁴ ddyly gwiriaw y hawl neu y amddiffyn: un yw hawlwr; eil y6 amddiffynnwr; trydydd yw y neb a⁴⁵⁵ roddo yr amddiffynnwr⁴⁵⁶ yn y ben y wiryonyni, neu y rhoddo hawlwr fessur y hawl yn y benn: sef yw hynny, gwybyddyeit, neu geitweit, neu dystyon, neu reith. Paham? Pob un a ddyly tyngu ymlayn y defnyddyeu, pan ddangosser; cany ddyly neb ddwyn da y arall, ac ef e hun yn ymwrthot ac ef, neu heb ddywedut y dilyw.

⁴⁴⁹ Collwyd y dair lythyren olaf oherwydd y rhwyg ac fe'u hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.

⁴⁵⁰ Ychwanegwyd yr 'n' uwchben y gair gyda marc caret.

⁴⁵¹ Collwyd y ddwy lythyren olaf ac fe'u hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.

⁴⁵² yr, llsg.

⁴⁵³ arglwydd - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁴⁵⁴ a llsg., a Llan 121, na Pen 164.

⁴⁵⁵ a llsg., y Llan 121, y Pen 164.

⁴⁵⁶ trydydd . . . amddiffynnwr - llsg., + Llan 121.

§640. Teir ffordd y cyll dyn y ddadyl yr dayet y ddefnydd: o wrthot y le wedy warchadw gynt; a chael tystiolaeth fyw yn y erbyn; neu na mynno wneuthur cyfreith.

§641. Tair ffordd y ca[i]ff hawlwr fessur y hawl gan amddiffynnwr cynyrchol: un yw o gael tystiolaeth [t. 97] fyw yn y erbyn; eil yw [o] brofi drwy wybyddyeit o'r hawlwr fessur y hawl; trydydd, o ballu defnyddyeu yr amddiffynnwr.

§642. Tri modd y bydd cyfaddef hawl: un yw o addef o'r amddiffynnwr messur yr hawl, neu o'y dafodyawc gwneuthur[e]dic yn y llys drostaw. Eil, o daly o'r hawlŵr ar yr amddiffynnw[r] lle perthyno hynny, mal y am warchau, ny ellir gwrthneb⁴⁵⁷ y hynny, eithyr llw⁴⁵⁸ y deilyat os amheuir ef; canys y dalu yw y cyfaddef yr hawl, am hynny na ddylir y cychwyn wynt o'r gwarchay yny gaffo perchennoc yr yt, neu y gweir yawn am y llwgry; mwy noc y dily amddiffynnwr fynet o'r llys heb wneuthur yawn y'r hawlwr wedi addefo, a thystyaw o'r hawlwr hynny, neu farnu arnaw yr hawl: a llyna lle cymer dyn fessur y hawl e hun, heb y farnu iddaw, heb arglwydd yn y gymell, heb . . . attep yn y orsedd. Trydydd modd y bydd cyfaddef hawl, o gomedd dyn wys o bleit y brenhin am dir, onyt mawr angen a'y lludd, y tir a roddir y'r neb a'y holo; canys yr anufyddawt⁴⁵⁹ a wna argywedd y'r amddiffynnwr am omeddu gwys: o praw ef hagen echaws cyfreithyawl drostaw y omedd y gwys, yna ydd a y tremygeu yn ofer, ac yna y bydd hawlwr y neb a fu amddiffynnwr, ac y dily ef y dir drachefyn yn y feddyant; ac am hynny nat dilys⁴⁶⁰ brawt absen . . . ay cyfaddef hawl ar ddyn a ddel wrth wys, ac⁴⁶¹ ny mynno attep yn⁴⁶² y llys pan y galwer, ay o adaw yr orsedd yn dremygedic, ac na bo gwiw ganthaw attep yr hawl, na chyfaddef y'r hawlwr yr caffel messur y hawl: yna yr arglwy[dd] eissyoes a ddyly cosp am yr anufyddawt, ac a ddyly y attal ynteu yn rhwymedic iddaw, yny wnel cyfreith y'r hawlwr, ac iddaw ynteu.

⁴⁵⁷ gwrthneb llsg.

⁴⁵⁸ llw llsg.

⁴⁵⁹ anufyddawt|a llsg.

⁴⁶⁰ Ychwanegwyd y llythyren 's' gyda marc *caret*.

⁴⁶¹ oc llsg.

- §643. [t. 98] Peth a ddyly ef y attal o bydd gwr o arall wla[t] wrth y cyfreith? Ef a ddyly pawb a wnel na thwryf nac anufyddawt yn y wlat ef na'y orsedd; yn y orsedd y dylir y gospi, o goddiwedd yr ynddi yn gyfreithiawl: lle torro y fenn⁴⁶³ cyfanner hi, medd cyfreith.
- §644. A ddyly cwynwr messur y hawl o bydd ffoadur yr amddiffynnwr? Llyma ddangos y dyly:
- §645. Ny ddyly arglwydd yawn nny gaffo y cwynedic, o blegyt y gŵyn ynteu y caiff yr arglwydd dda y ffoadyr oll, or ceffir ef yn cyfreithiawl yn y anlloedd; gan hynny mi a roddaf ar y cyfreith y dyly y cwynwr yawn. Nyni a ddywedwn hynn: na ddyly hawlwr fessur y hawl nny wnel amddiffynnwr un o'r tri ateb: ay addef, ay gwadu yn gwbyl, ay arddelw cyfreithiawl, eithyr am dir; ac na wnaeth hwnn yr un o'r tri hynn namyn anufyddawt y'r arglwydd, ac na ddyly arglwydd rannu da anufydd a chwynwr, namyn a'r neb y barn cyfraith iddaw y rannu: a'y ringyll y da o⁴⁶⁴ ffoadur yr ysgyb a fo dros ben pan ranner yr yt, ne pan adawo cyllidus ffoawdyr y yt heb fedi, y rhingyll a ddyly y talareu oll; ac a'r mayr a'r cyngellawr o yt; tayoc a fo ffoadyr a gaiff trayan [h]eb yt;⁴⁶⁵ a chanys y'r arglwydd y mae y tremyc, ynteu bieu y cosp am yr anufuddawt: a pe caffeï cwynwr fessur y hawl o dda ffoadyr neu anufydd, ef a gaffeï ran o'r camlwrw tremyc yn gystal a hynny; hyn nys dyly ef, canny cheiff neb gamlwrw eithyr gorseddawl, eithyr gwr e hun a uno⁴⁶⁶ y wreic fefyl ar y faryf.
- §646. Sef paham y caiff ef hynny: mal y dichawn hi, o gwna y gwr iddi warthrudd, neu os ceiff gyt a gwreic arall yng cynadyl, neu o sarhaa hi, eithyr am roddi peth ny allo y roddi o cyfreith, neu o cheiff wr genthi, neu [t. 99] unaw mefyl ar y faryf. Y warthrudd y werth gyntaf yw .cxx.^c, yr eil waith punt, y drydedd

⁴⁶² Ysgrifennwyd hyn ddwywaith a rhoddwyd croes drwy'r camgymeriad.

⁴⁶³ ? phen.

⁴⁶⁴ dap llsg.

⁴⁶⁵ hyt llsg.

⁴⁶⁶ fo llsg., uno Llan 121.

weith y caffo warthrudd ysgar ac ef yn gyfreithiawl, a hi a'r da hwnn yn ddiogollet oll heb rannu ac ef ddim ohonaw. Felly y dichawn ynteu caffel o'r da cyt roddi iddaw ynteu arddelw,⁴⁶⁷ a phan fo ysgar rhyngthunt ny cheiff hitheu ddim o hwnnw y⁴⁶⁸ ganthaw. Os ynteu hagen a'y maydd yn cyfreithyawl a ffonn hyt cyhyt ac o'e hifys y elin, ny ddyly ef dim o'r da hwnnw, cany fydd difwyn a dial am yr un peth. Nyt ar fessur camlwrw y ceiff ef y naw ugeint hynn namyn mal wynebw[e]rth. Paham na cheiff ynteu gyneuthur idaw⁴⁶⁹ yawm o gwnair aniwet iddaw, mal y caiff hitheu hyt ympen teir gweith? Mwy a geiff ef y gynifer gweith y gwnel hi iddaw eniwet, ef a geiff naw ugeint. A ddichawn ef ysgar a hi o gwna yn fynych hynny? . . .

[hiatus]⁴⁷⁰

[Am ladrad]

§647. Fal llyma paham na⁴⁷¹ . . . y lleidyr . . . Os ef a ddyweit nas gwaha[nwyt] ohonaw ef yn lledrat, a'y henwi erbyn y henw . . . y lledrat o'e law, yna y dyly . . . y law ynteu, ac anudon a dynga . . . ; a chan hynny ny chaffei neb arddelw am ledrat . . . [t. 100] henwy ynteu erbyn y henw, a dywedut may ef a[’e] gwa[haner] . . . ef y da a chynneu y tyngawdd may y cyntaf a'y gwa[haner] . . . oll na bo anudon, un o'r ddeu ddamdwng, ac yna y dyly colli . . . hawl. Os ynteu ny henwa neb yn y damdwng, ef a gaiff y damdwng⁴⁷² . . . ympob lle⁴⁷³ y gwelo hyt y perthyno hynny. Os y lleidyr a . . . dafodyawc, a chyingaws, a cheissyaw ymrwymaw ynghyfreith mal arall [dywed yr] hawlwr yna: ‘Dyoer, ny ddyly lleidyr dafodyawc a lla . . . dwy ledrat y’th law noc⁴⁷⁴ yn un freint a’th law . . .’ fal y dyly; cyfreith a farn na dduc⁴⁷⁵ lleidyr a lledrat yn [llaw]; cany

⁴⁶⁷ ar|dedw llsg. Ysgrifennwyd ‘ardelw’ mewn pensil ar ymyl y ddalen.

⁴⁶⁸ Mae hyn wedi ei ychwanegu uwchben y frawddeg gyda marc *caret*.

⁴⁶⁹ gyn daw, llsg.

⁴⁷⁰ Oddeutu 9 llinell.

⁴⁷¹ na llsg.

⁴⁷² ef . . . damdwng – llsg., + Llan 121.

⁴⁷³ ella llsg.

⁴⁷⁴ noi llsg.

⁴⁷⁵ dduc llsg.

ddyly nep colli eneit neu aelawt o dau[a]w[d] arall . . . un o'r tri dyn a'e dyly o cyfreith: gwreic, a cryg anyanawl, ac o alltut angcyfyeyth ny wyppo yeith. Os ynteu a ddewis y arwayssaf, a galw am wreic yn arwayssaf, a chymryt ohonaw y da [yn y] law, ac yna damdwng o'r hawlwr y da yn y law, galwet hitheu dafodyawc, a hi a dyly o cyfreith⁴⁷⁶. . . : llyna gywreinrwydd cyfreith . . . redd.

§648. A dyng y lleidyr fot arddelw iddaw? Na thyng can . . . ef yn cadw perchennogaeth ar⁴⁷⁷ da eithyr y ddyfot y gan y . . . yn arwayssaf; o phalla hwnnw iddaw yn arddelw, pallwr . . . lleidyr cyfaddef yw, . . . y da a mwy y6 . . . a dygnach no llw.

§649. Peth o dyweit y lleidyr fal hynn wedy [cael] y da yn y law? 'Gwat yw gennyf na ddogum y da hwnn yn lledrat, nac un da; ac arddelw cyfreithiawl y sydd ym y'r da hwnn:' 'Dyoer . . . bit⁴⁷⁸ yna a . . . amddiffyn . . . y sydd gennit ti. Nyt a . . . gwat ac arddelw; ac ar y cyfreith y rhoddaf na cheffy di hynny . . . gwr yw.' Digawn yw iddaw o cyfreith ddywedut fal hynn: 'Arwaessaf cyfreithiawl y sydd ym am⁴⁷⁹ yr da hwnn.' A digawn o wat yw y arwaessaf, o seif iddaw . . . ; [t. 101] canys ef gellwng ef yn rhydd, ac a fydd e hun drostaw . . .

§650. . . . Ny . . . ddyly y brenhin hagen y ellwng ef yn rhydd yn ddel yr arwayssaf y gymryt y da o'e law ar gyhoedd, a'e⁴⁸⁰ roddi a'r fach, na treulyaw y da a dalyer yn eiddaw diofal, canys ef a allei pallu y arddelw . . .

§651. . . . sefyll; neu na ddyly sefyll, ae y fot yn ysgolheic, neu y fot yn . . . noc y barn cyfreith y sefyll. Ny ddichawn bot y arddelw eithyr a ddylyo bot yn ddihenydd dros y weithret, ysgolhaic . . . by . . . a ddichawn yr arwayssaf pan ddel wedy y lledrat, a arddelw hefyt . . . , ef a ddichawn arwayssaf pallu os myn. O phalla hagen arwayssaf, o gymryt peth y gan ddyn y bo eneit faddeu y dyn, neu y collo

⁴⁷⁶ gwreic . . . cyfreith – llsg., + Llan 121.

⁴⁷⁷ y llsg. gyda 'ar' wedi ei ysgrifennu uwchben.

⁴⁷⁸ bir llsg.

⁴⁷⁹ am llsg.

⁴⁸⁰ y ae llsg.

aylawt . . . y lledrat, ny ellir eithyr gadu iddaw pallu; ony myn cwynwr y holy⁴⁸¹
. . . am y fot yn affeithywr y'r lledrat. Peth arall ny bo coll nac eneit nac aylawt
ynddaw; o phalla, cwyrer rhacddaw, a phrofer drwy wybyddyeit ddyfot y peth y
ganhaw, ay o rodd, ay o atneu [ay o fenffyc], neu o ffordd arall.

§652. Nyt oes . . . arwayssaf cynyrchawl a fo yn y maes . . . honno a . . . ddyly yn y es
. . . nyd ny⁴⁸² . . .

§653. Nyt oes oet y arwayssaf angcynyrchawl . . .

§654. Ny wyssir arwayssaf o cyfreith, ony bydd rhacddaw . . . ny chymer [y]
arwayssaf. Os yr arwayssaf a gymer . . . uget yr hawlwr y da yn y law, fal y
dywet . . . [t. 102] arwa[e]ssaf arall, os myn; neu digwyddet e hun yn y cos . . .
y gall lledrat gerddet o law y law⁴⁸³ tra gaffo yn y maes a'y cymero y ganhaw.
Ony bydd yn y maes a'y cymero ac y [arddelw ohonaw] o arwayssaf yn lle arall,
rhodder oet iddaw wrth lle bo y arwayssaf: tri dieu yn un cymwt; os yn eil
cymwt [naw] dieu a nos; os yngwlat arall, pythefnos lle bo . . .

§655. Nyt oes y arddelw eithyr hyt y drydedd law . . . a'r drydedd law hefyt, o bydd
yn y maes, ny ddy[ly] . . . fo y welet yn y maes, y drydedd law hagen [o] bydd
yn y maes y arwayssaf a gymero y lledrat ganhaw, ef a ddyly gael y arwayssaf,
eithyr na chaiff oet mwy [na] c[yfreith] [dy]annot.⁴⁸⁴

§656. Pwy bynnac y pallo y arwayssaf iddaw, yn ol hawl perchennoc, bot lleidyr
cyfaddef herwydd meint y⁴⁸⁵ lledrat.

§657. O cyfreith Hywel hyt yn oet .iiii.^{cen} y fot yn lleidyr gwerth; sef yw gwerth
lleidyr, seith bynt, am werth pedeir ceinioc cyfreith; eneit faddeu⁴⁸⁶ fydd lleidyr

⁴⁸¹ holy llsg.

⁴⁸² nyd ny – llsg., + Llan 121.

⁴⁸³ y law – llsg., + Llan 121.

⁴⁸⁴ c annot llsg.

⁴⁸⁵ y – llsg., + Llan 121.

[o hynny allan]; [yr un a fo eneit] faddeu, ny ddylir dim o'e dda, cany bydd dyfwyn⁴⁸⁷ a dial [eithyr talu i'r colledig y dda].

§658. Yng cyfreith Hywel y bydd tal ac eil tal am bob lledrat am ych, a buch, a march, a chassec; ac ympob llaw y bo arddelw y perthyn damdwng, mal yn llaw y lleidyr.

§659. Da y lleidyr aet ffordd y cymynner; onys cymynna ynteu y neb, y brenin bieu y dda, a phob da digymynn.

§660. Ny ddylly arglwydd abediw y dyn a ddienydder yn y wlat e hun. Ny bydd galanas am y lleidyr hwnnw, na llyssyant rhwng neb a'y gilydd yr y ddwyn y'w ddihenydd.

§661. Os o gadw⁴⁸⁸ geni a meithrin y dewis ef y arddelw; yna y dyly yr ynat gofyn iddaw: 'Pwy dy geitweit ti, a pha le y maynt?' Ac yna y dyly [t. 103] ynteu eu henwi y geitweit, a pha le y maent; ac ynteu a ddylly oet wrth y lle y boent; a henwet rifedi onaddunt, ay deu, ay tri, ac am benn hynny a fo digawn yn y cyfreith y dwyn. Ac wedy y dywetto ef hynny, cynn metho y to cyntaf o'y geitweit, ef eill dwyn yr eil to, a'r trydydd; ac eissyoes ny ddylly ef oyt wrth [yr eil to]; ac os wynt a⁴⁸⁹ fyddant yn y maes, dangosset wynt, a dyget attaw wynt, a henwet wynt. Ac yn gyntaf hagen, tyngtet e hun yn y blayn, llw gwelet y feithrin, a gwybot y eni, ac nas gwahanws dim eiryoet [ac ef]; ac ony ddyry ef y lw felly, anolo yw dim. Odd yna, tyngtet yn gyntaf y cyntaf a henwys, canys dyllyet ar bawb a addawo; a thynget hwnnw hefyd gwelet y feithrin, a gwybot y eni, ymperchennogrwydd y dyn, a'y galwo yn geitwat, ac nas gwahanws dim eiryoet y wrthaw deirmos, na rhodd na benffyc &c. Ac felly tyngtet y lleill olynol, a'r ceitweit hynny a ddilyant bot yn un freint ac ef, a chyt boet ef alltut, rheit yw bot y ceitweit yn freinioc ac yn addfwyn, a digawn yw deu os ceir

⁴⁸⁶ eneit faddeu llsg.

⁴⁸⁷ dyowyn llsg.

⁴⁸⁸ + gadw llsg.

⁴⁸⁹ Fe'i hychwanegwyd at y testun gyda marc *caret*.

ceitweit, ac ny ellir llai, ac nyt oes lys ar geitwat onyt [o] bot yn addfwyn, .i. breinioc. Nyt oes anaddfwyndra, namyn alltut [a'r tri] [d]yn⁴⁹⁰ nyt geir y geir ar neb, beth bynnac a ddywettoent; sef ynt y rhei hynny: creddyfwr urddawl a dorro y broffes; a thyst a ddyco cam dystyolaeth; a llwfy[r] cynafedic cyrenedic;⁴⁹¹ a dyn heb oyt ateb [n]a hawl [ganh]aw; a gwreic ar wr: cany ellir ceitweit o'r rhei hynny; a dall, ar ny wyl y peth a gatwer.

§662. Os o alltudyaeth y myn yr hawlwr anaddfwynaw y ceitweit, neu o'r teir ffordd nyt geir y geir, ti a gaffy obry lle may yn dywedut am deithi tyst a gwybyddyeit a . . . y anaddfwynir, a hwnnw a berhyn y [t. 104] ddwyn yma a'y ysgrifennu.

§663. Ny ellir cadw o eni a meithrin oddieithyr y llaw gyntaf allan.

§664. Os o gadw cyn coll y dewis y arddelw, gader iddaw y ddamdwng megys y clywsoch y [uchot; a gwedy y damdyngo dywedet] ynteu fot y llwdyn ganthaw, neu y peth arall fo ay wythnos, ay mis, ay tymor, yn gynt noc y dywawt ef y fot; a bot iddaw ddigawn o geitweit a gatwo hynny ganthaw, a phob un o'r ceitweit hynny na aller y hanaddwynaw.

§665-6. Teir ffordd y dyly dyn fot yn eneit faddeu am ledrat: o'e addef o'e benn e hun, a chael hagen y lledrat yn y law . . . amdanaw, neu lle bo un freint a lledrat yn y law, a bot yn gymeint gwerth y lledrat ac y dilyo bot. Eil yw o ballu y arddelw iddaw am ledrat, ac yn gymaint y werth hefyt ac y talo vi.^c Trydydd, y ddalw ar ffoodraeth, a daly y lledrat ganthaw yn y fwrw y wrthaw y'r llawr, ac ynteu yn ffo; neu yn y dy dan un to ac un [a]elwyt ac ef, hynn y sydd un freint a lledrat yn llaw: yna y dyly yr arglwydd anfon deulyeit y geissaw y lledrat a'r lleidyr deir nos yn y dy; os ceffir, y ddwyn wrth cyfreith, ef a'r da; os ynteu ny cheffir yn y dy, ac wedy hynny cael y ddaly o'e anfodd ar y ffoodraeth, eneit faddeu fydd; os ynteu watta ffo, fal hynn y profir: llw y deilyeit y bot yn y geissaw deirgweith yn y gartref heb y gael.

⁴⁹⁰ + ddyw llsg.

⁴⁹¹ cynafedic cyrenedic llsg: ?cyfaddefedic cynefodic. Cf. AL.IX.i.19.

- §667. Nyt oes lys ar⁴⁹² y deilya[i]t hynny; ony bydd hagen onyt un deilyat yn y aflesu ef, nyt grym y llw, canyt geir arnaw un dyn yn un lle, eithyr y rhei a gredir eu geir.
- §668. Y lleidyr a groccer am y lledrat, ny ddyllir y gredu yng [croc], onyt o drugaredd esgob a b[renin].
- §669. Ny bydd eneit faddeu lleidyr yr edyn na chi nac anifail gwyllt; sef paham, os gwyllt ny cheir y ddaly yn llaw y'w [damdwng]; neu ny bydd eneit faddeu neb am ledrat ny cheffir daly . . . yn y law, neu y gayl y gwelet.
- §670. [t. 105] Ny ellir damdwng peth gwyllt ar . . . yn ffoawdyr am ledrat mal y dywedais ucho; sef pa[ham] . . . lleidyr a gaffer lledrat yn y dy . . . dan clo ac un to ac ef, canys pawb a ddyly . . . lledrat.
- §671. Os y dyn bieu y ty hwnnw a ffy, cymeret y arglwydd a fo yn y ty o dda y dyn e hun, a dyget y'w lys; canys hawlawc[dy] [y]w: llyna pa ddelw a fo yr lleidyr o dda e hun, a da ar y . . . w or allo y roddi a'y werthu.
- §672. O bydd hagen atneu gyt ac ef yn y ty, ny chyll perchennoc yr atneu y dda; cany ddyly ef cadw ty neb, cyt dylyo perchennoc y ty cadw y dda ef.
- §673. O bydd amot hagen cadw yr atneu, uch yw breint yr amot na'r atneu, canys rheit y berchennoc y ty cadw yr amot.
- §674. O derfydd y ddyn adaw lledrat yng cadw hagen o fod yn y ty arall, neu y fwrw o'e law ar y ffo, neu y fenffygyaw, atteppet perchen y ty o'r lledrat, ac os holir, canys pawb a ddyly cadw y dy mal ef e hun.

⁴⁹² lus er llsg.

- §675. Pwy bynnac a fynno caffael da yn llaw lleidyr, ceissiet daly y da yn gyfreithiawl gantaw, ac yn y dy dan un clo ac ef, ac mal yr eirch cyfreith iddaw.
- §676. Os y perchennoc y ty a geffir a'r lledrat yn y ty gyt ac ef, na dycer y da, canyt yawn croc; ac anrheith yng croc y bydd ef, ony cheiff y gadw, neu arddelw yr da; cany bydd hawlawcty y lleidyr a gaffer a lledrat ganthaw; canys dihenydd yw arnaw; ac ny bydd hawlawcty eithyr am da y lleidyr e hun, .i. eithyr am berchennoc y ty.
- §677. Os perchennoc y ty a fydd ffoawdyr a lladd un o'e esgrybyl yn y llys cyn cael y ffoawdyr a therfynu yr hawl, attebit y neb a'e lladdo y'r brenin o'e ladd, neu o'e werth. Ny bydd eneit faddeu ynteu, cany chat dim yn y law, canys mal⁴⁹³ . . . ny bydd crei[r] a . . . anrheith [t. 106] ar neb, eithyr ar ledrat, gellwng lleidyr a gaffo deu . . . ganthaw, mal y dylyo am leidyr . . . , neu ar leidyr ny chymero y da pan elyr . . .
- §678. Pa ddelw y gellir daly dyn a deu ledrat ganthaw? Rheit fydd holi un yn gyntaf; o bernir un arnaw ef, ny ddyly ynteu attep wedy barner y neb; canys marw yw; ny ddylyr anreithiaw marw, canys . . . awl.⁴⁹⁴
- §679. [Ll]yma pa ddelw, o bydd ffoawdyr lleidyr . . . ffer . . . yn y dy, cymryt a ddyly yr arglwydd a gaffo o dda yn y ty, canys halawcty; a chany bai halawcty ef, ffoawdyr yw perchennawc y ty, ac arglwydd a ddyly da ffoawdyr.
- §680. Or ceffir daly lleidyr ar y ffoadraeth, dihenydd a ddyly . . . ; neu o cheffir daly gan . . . n . . . gwerth cyfreith a gwerth pedeir ceinioc cyfreith neu a fo mwy . . . y llyna o'r blayn; ac ony eill, caffel arddelw . . . y'w gadw yn gyfreithiawl: talet seith punt, o dichawn; onys tal, ac ef yn alltut, crocer; cany ddyly cefreith ny w . . . ; os ynteu a'y tal, holer . . . wedy am y lledrat a ddylyo . . . y bydd yng croc, ny . . . caffer . . . ffo perchen y ty wedy . . .

⁴⁹³ mal llsg.

⁴⁹⁴ awl – llsg., + Llan 121.

§681. Tri lleidyr cohoedd y sydd: un yw caeth am y lledrat cyntaf a enllibyr arnaw, onys diheura y arglwydd ef, chweugeint a dal y arglwydd drostaw, ac y'r hawlwr gwerth y da. Yr eil weith y gwna ledrat, ac nas diheuro y arglwydd, punt a dal; cany ddyly arglwydd ateb dros weithret y weinidoc, eithyr am ledrat. Y drydedd weith y goddiwedder lledrat arnaw, trychu y law: a llyna y lleidyr cyhoedd. Eil lleidyr⁴⁹⁵ ar ffyrnicrwydd [t. 107] elor . . . gaffer yn y wlat dros ddwyweith wedy deol . . . amdanaw: sef ffyrnicrwydd, difwynaw y dda y arall, ac iddaw e hun; mal llosgi ty neu dda arall yn lladrat; a phwy bynnac a gytsynnyo a hynny a fydd affeith arnaw, a'r neb a'e losgo, ac a roddo y tan yn y peth a losger y arall, llofrudd a hwnnw a ddylyir y losgi o cyfreith, ac o llosgir ynteu yn y ty o weithret y tan, galanas a ddylyir y dalu . . . affeith . . . : ac am hynny dirwy ledrat a fydd.

§682. Ny bydd affeith eithyr y [lladd], llosgi, a lledrat; rheith am odynd a losger yn crassu arney, nac am dy a gynheuer tan a'e losgi o wall.

§683. Pob lle ny bo ysgar byw a marw rhwng gwr a'e wreic agweddiawl, .i. priawt, o gwna⁴⁹⁶ y gwr weithret y dylyo fot yn anrheith oddef amdanei, fal lladd celain lle bo anrheith [g]r[ibddei]l, neu cayl ldrat yn y dy mal halawcty, neu gayl deu ledrat ganthaw; lle bo hynny, neu lle bo anrheith oddef o cyfreith, ny cheiff y wreic ddim o'r da; lle bo hagen ysgar o farw, mal⁴⁹⁷ marw dissyfyt neu y gyfryw, y wreic a ddyly ran o'r da.

§684. Llyma gospau lledrat yn llaw: pob peth llai no cheinioc o ledrat yn llaw, tair punt; ony eill y lleidyr y talu, deholer ef. O cheffir yn y wlat wedy hynny,⁴⁹⁸ seith punt a fydd y werth; ony eill dalu seith punt, deholer. O cheffir yn y wlat wedy hynny . . . eneit faddeu ef; [o geinioc] hyt chwech, seith punt; ony eill

⁴⁹⁵ Ychwanegwyd y llythyren 'r' uwchben y gair gyda marc *caret*.

⁴⁹⁶ + y gwna llsg.

⁴⁹⁷ mal – llsg., + Llan 121.

⁴⁹⁸ hynny – llsg., + Llan 121.

[fach ar hynny] [deholer] ef fegys uchot⁴⁹⁹ y fyny; o cheffir ef yn y wlat wedy hynny, dihenydder ef . . . y lleidyr a ddeholer . . . wlat . . . rodd cyfreith oet iddaw y drigaw, sef yw h[yynny] [t. 108] wrth bob cantref a f[o] y'r arglwydd . . . wlat y'w gadw yn hynny o amser; sef mal y deholer . . . y brenin ra . . . neb a'e portho nac a'y lletuo . . . y bo heb y dwyn wrth gyfreith, ay o fodd, ay o anfodd . . . y'r brenin . . . rhac neb y celo y da . . . a brynnner ddwyweith, y drydedd weith, croger ef.

§685. Ny ddeholir neb yn y absen, eissyoës lle tremygo ddyn wys cyfreit[h]yawl ay wrth⁵⁰⁰ y brenin ef a ddylir rhoddi nawdd,⁵⁰¹ nac y derbynnyeu, nac y portho, nac ar neb a'e gwelo, gosp onys dwe wrth cyfreith; os dichawn, a chymyn y dda y'r arglwydd am y fot yn anufudd ef; ac wrth hynny, pan wnel yawn⁵⁰² a dyfot wrth y cyfreith, ny chyll eithyr camlwrw, o dichawn profi.

§686. Amodol yn ol daly a damdwng yn y llaw y bydd dyn yn eneitfaddeu; ac ny bydd am fwyt wahardd, cany bydd . . .

§687. Ny bydd eneit faddeu neb lle perthyno camlwrw; cany chyngein lledrat lle bo camlwrw.

§688. Ny ddeholir neb eithyr am rann yr arglwydd, ac nyt o hawl pleit. Cyntaf hagen y dyly yr amddiffynwr roddi yawnder y'r hawlwr, ac y dyly yr ynat erchi iddaw wneuthur hynny; os ynteu a'y gwna, archet iddaw roddi mach ar y gosp a farno cyfreith am yr anghyfreith a ddigones; os ynteu ny eill y wneuthur, deholer ef; os ynteu a'e dichawn, ac nys mynno y wneuthur, cyfreith anufudd a ddily arnaw; sef yw honno, y anrheithiaw a'y attal, yny mynno, yng carchar y brenin: ac felly dyn nyt atteppo.

⁴⁹⁹ uçar llsg.

⁵⁰⁰ wrth llsg.

⁵⁰¹ nawdd llsg.

⁵⁰² + yawn llsg.

§689. Llawer amryw ddyn hagen yr cael lledrat yn y law a ddieinc o [t. 109] croes.⁵⁰³
un yw mab llei no phedeir ar ddec blwydd: canys ynfyd yw.⁵⁰⁴ Eil yw ysgolhaic
corunyoc o fraint y urdheu, ac os hynny yr ymarddelw, cymeret yr arglwydd y
dda oll, canys ffoawdyr wrth cyfreith yw, achub y mae nawdd yr eglwys: ny
ddyly ynteu cyfreith am nas gwna. Trydydd, rheudus a gerddo teir tref, a naw ty
cyfannedd ympob tref, heb gael na bardd~~awt~~, na gwestfa, cyt dalyer a lledrat
ymborth ganthaw o fwyt, am na bo beich arnaw, rhydd fydd. Pedwerydd,
gwreic o gyt lledrat a'y gwr a'y cayl a lledrat yn y llaw, canys pennaf yw y gwr,
ac o chrogir y gwr, ny ddylir y chrogi hitheu; os y wreic hagen a ddelyr am y
lledrat a'y daly p . . . fot yn eiddaw y gwr priawt y da, galwet hi arwayssaf neu
arddelw o'r gwr, cany ddichawn hi gadw y da yn gyfreithyawl nac o eni na
meithrin, na chadw cyn coll, a'r gwr yn fyw, wrth ryw da fo y da ac wrth ryw
freint fo yr eiddi; ac ony bydd un o'r tri phrif rei gwreic.

§690. A fydd halawcty ty y gwr yr gwneuthur lledrat o'r wreic? Pwy bynnac a wnel y
lletrat, os ceffir ef dan un clo, ac un to a'r gwr, ony cheiff ef y gadw yn
gyfreithyawl, neu arddelw y gymryt o'e law, ef a fydd halawcty.

§691. Dyn hefyt a ladder un o'e ysgrybyl yn y llys, cyn terfynu yr hawl arnaw, ny
bydd eneit faddeu hwnnw o cyfreith.

§692. Cayth hefyt a ddieinc o ledrat hyt y drydedd weith, ac yna trychu.

§693. Ny bydd am bren heb lafur arnaw na dirwy na dihenydd, sef yw hwnnw, pren
heb ladd, na nadd, ar y fon, na'y flayn, nac ir na chrin [y bo]. Prenn o rwym
addeilat hagen, neu a weithier, ef a ddyly dyn fot yn eneit faddeu amdanaw, os
lladrattir ef; cany pherthyn cosp lledrat nac am adeilat ar dir dyn arall y[n]
ladrat iddaw, nac am ddiosc y goet yn lledrat, nac am aredic y dir⁵⁰⁵ yn lladrat.

⁵⁰³ croes llsg.

⁵⁰⁴ canys . . . yw – llsg., + Llan 121.

⁵⁰⁵ Copïwyd 'dir' ddwywaith a rhoddwyd croes drwy'r camgymeriad.

[t. 110] Peth a berthyn am hynny? Camlwrw, os delir. Peth os gwed[ir]? Profi drwy wybyddeit; ac os ffynna y praw, camlwrw.

[Argaeau damdwng]

§694. Llyma argayeu damdwng:⁵⁰⁶ bydderi; delli; ac eissyeyu tylediwrwydd ar lwdyn; ac aryant oddieithyr y llestyr; a blawt heb y llestyr; a gwenyn oddieithyr y gwenyn lestyr; ac eissieu oedran, canys perthyn . . . del y oedran; ac o bydd perchennoc y da gwreic wryawc . . . y meddo herwydd breint.

§695. Tri da ny ellir y [damdwng] . . .

§696. O cheis dyn [damdwng] pet[h] ny ddel y oet cyfreithiawl y fot gwerth cyfreith arnaw, mal cnyw hwch, hwnn ny ddaw y'w oet hyt ympenn y flwyddyn . . . cyn dyfot y oet, neu am fot arall a . . . cyn amser . . . , ny ddyly y damdwng wrth y lw o bydd absen yw hynny yn gymeint; [ny all cyfreith y damdwng yn gyfuch a'r] [g]werth⁵⁰⁷ a pes genyt yn y amser, canyt oes werth cyfreithyawl ar un . . . cyn tymp: a llyna un o'r argayeu [damdwng].

§697. Os daly dyn y dda yn llaw genn [arall] . . . gwlat rhac cyrch gorwlat dissyfyt am . . . pan geissyuo damdwng y dda . . . a ddyly ateb, ac ny ddyl[y] . . .

§698. Bleddyn ap Cynfyn a Rhys ap Gryffyd a wnaethant cyfreith damdwng yn y . . . y te . . . ytt o cyfreith, ac na bo ar y garu dylu ar y gwerth a w[nelei] arnau⁵⁰⁸ a'th fot yn y werthir, nes gwerthit heb hynny; a phes prynnyt y royt hynny yrdaw ac y talei hynny, llyna teithi d[amdwng], na allei neb y werthu &c . . .

[hiatus]⁵⁰⁹

⁵⁰⁶ Llyma . . . damdwng – llsg., + Llan 121.

⁵⁰⁷ Ychwanegwyd y llythyren 'r' at y gair gyda marc *caret*.

⁵⁰⁸ a wnaeth . . . arnau] Tanlinellwyd hyn.

⁵⁰⁹ Oddeutu 6 llinell.

§699. . . . [t. 111] yn gymeint a thrugeint,⁵¹⁰ canys hynny yw y werth yn y delediwrwydd; ac ny bydd cymeint pan ymadawo a'y dylediwrwydd, a hwnnw hefyt yw argay damdwng: rhei hagen a ddyweit na ostwng y werth cyfreithiawl byth wrth oet.⁵¹¹

§700. Pwy bynnac y barner gwarthec arnaw o cyfreith, yn y ddewis y bydd hwnn a fynno ay talu gwarthec, ay talu . . . ; canys tri rhyw dal cyfreithiawl sydd y hynny etwyrth y da, sef yw hynny, tal a geudwng am y da;⁵¹² ac etfryt y dda drachefyn, sef yw hynny, lle caffo dyn y dda yn llaw: canys yna y perthyn y damdwng.

§701. Amws yn pori allan, eithyr yr amser y barn cyfreith y el[l]wng y bori, o hanner mis Ebrill hyt hanner mis Mei, nyt un damdwng ac nyt un gwerth ac amser arall; ny bydd llei hagen y werth no phalffrei, o bydd angcynyrcha6l; o bydd cynyrchawl ynteu, atferer fal y bo yr amser, ay bychan, ay mawr. Ac felly am filgi heb dorch; eithyr rhei a ddyweit may damdwng a berthyn yna: a llyna yr echos un werth fydd a'r ci nessaf y werth iddaw o'e ol.

§702. Nessaf yw bytheuat; nyt oes a[r] fytheuat eithyr damdwng, canyt oedd yn amser Hywel yr arfer gwn . . . Ac fal y bydd am amws, felly y bydd am ystalwyn pan dycer ar y re, pan y damdyngir, talu y werth eithyr tym[p] . . . yeu o hynny.

§703. Anifeil ny bo gwerth cyfreithiawl arnaw hefyt damdwng a fydd arnaw⁵¹³ ar y modd y clowsoch ucho: pob damdwng a ddifwyner drwy getweit a chadw percheznogaeth y da, cyfreith anudon a fydd ar y [t. 112] damdyngwr.

§704. Rhei a ddyweit y dichawn dyn damdwng y dda lle gwelo am bob hawl; hagen, ny chyngein damdwng eithyr peth a ddycer yn lledrat, neu angcyfarch, neu dreis, a'y welet yn lla6 yr amddiffynnwr.

⁵¹⁰ Ychwanegwyd y llythyren 'r' at y gair gyda marc *caret*.

⁵¹¹ Ychwanegwyd wrth oet ar ymyl y ddalen mewn pensil.

⁵¹² sef . . . da - llsg., + Llan 121.

⁵¹³ hefyt . . . arnaw - llsg., + Llan 121.

- §705. Ny chyngein gwat yn ol damdwng, sef paham, lle damdynger peth, un o'r tri pheth a fydd reit, ay cadw geni a meithrin, ay cadw cyn coll, ay arddelw.
- §706. Ny ellir damdwng echwyn, canys y peth a roddet yn echwyn ni cheffir hwnnw drachefyn, namyn un cyfryw cystal ac ef.
- §707. Ny ellir damdwng benffyc am nas . . . yr y welet yn llaw yr amddiffynnwr; y damdwng a berthyn y am aryf; ac onys lluddir, ny bydd na dirwy na chosp amdanei; o chwynir hagen am y hattal, bit ar y breint yr holer.
- §708. Pwy a ddichawn damdwng y peth a roddo yn atneu ar arall, o cholli, neu gwynaw amdanaw os o dreis y collir ef? Ny ddichawn neb cwynaw y dreissiw eithyr y neb a dreissier; canys un o'r ffyrdd y cyll dadyl dreis rhac y breint yw cwynaw dwyn y peth y dreis gan arall, ac nyt ganthaw ef e hun; yna y bydd camlwrw, echaws yw na ddichawn neb cwyn am dreis, onyt y neb a dreisser: sarhaet yw treis; ny eill neb cwynaw cwyn sarhaet dros arall, ac ef e hun yn gallu dyfot y gwynaw, neu oedran cyfreithiawl.
- §709. Paham y mae cyfreithiawl⁵¹⁴ y wreic agweddiawl, hon y sydd dan gaethiwed arall, dyfot y gwynaw e hun y sarhaet, ac nyt rheit iddi ac nyt iawn yn un lle cwynaw namyn yma? . . . Ac am hynny, y neb yr oedd y da ar geidwadaeth a ddichawn tyngu, na allei neb na'y werthu, na'y roddi, na'y [t. 113] gyfnewidyaw, tra fai ganthaw ef, ac yny ddelei y oet, os hyt oet y rhoddet y gadw, canys ef a ddyly ateb ohonaw pan y holo y perchennoc: hefyt, sef yw treis, da a ddycer yngwydd ac⁵¹⁵ na watter; a hwnnw yna ny wahanwyf ac ef yn y wydd; ac am hynny, ny eill ef na damdwng hwn, na chwynaw amdanaw.
- §710. Os o ledrat y collir da a rodder yn atneu, rheit fydd y'r haflwr tyngu nas gwahanws dim a'y dda, eithyr lledrat, os gwyl; ac ny ddichawn na bo anudon

⁵¹⁴ + paham y may cyfreithiawl llsg.

⁵¹⁵ ar llsg.

iddaw tyngu hynny, canys y adaw yn atneu gan y neb y ducpwynt a wnayth ef; ac ny allei ynteu hefynt dwyn y da y gan y neb y rhoddassai attaw, eithyr o'y fodd, a'y ganyat, hyt yr amser terfynedic y dyllyei y ddwyn. Ac am hynny, ny eill y gwir perchennoc y da hwnn [holi y da], medd rhai o'r yneit; cyfreith, hagen a ddyweit, y dichawn gwir perchennoc da holi y dda, pa du bynnac y gwelo, a pha bryd bynnac y gwelo; ony chay cyfreith rhyngthaw a'y dda, a'y mynet yn arappawl, ay peth tebic; ac os hynny fydd ny ddichawn neb, na'y holi, na'y damdwng.

§711. Nyt oes wir perchen ar y da hwnn, cyt rhoddo o gymwynas ar ceitwat, neu roi y da attaw y gadw; canys mal cymwynas yw echwyn, ac atneu, a benffyc; ac am hynny na ellir y damdwng yn y llaw y rhodder wynt; ac am hynny y dichawn y gwir perchennoc damdwng y dda; cany ellir lluddias y neb holi yr hawl a fynno; a herwydd y breint yr holo y dylir attep iddaw.

§712. Os cynyrchawl fydd y da, damdwng a berthyn; ac yna ny ddyly yr amddiffynnwr eithyr un o'r teir taryan: ay cadw cyn coll, ay cadw geni a meithrin, ay arwayssaf. Os o arwayssaf y daly ef arddelw, cymeret yr arwaessaf yn y law [t. 114] y da.

§713. Peth o chymer y ceitweit yna yn y law y da a dywedyt pan y damdynger: 'Dyoer,' heb ef, 'ny ddylyaf dy attep ar yr hawl honn; canys angcyfreithyawl yw echos y da ydd wyt ti y'w holi, a'y damdwng y'm llaw, .i. yn atneu y rhoddeist attaf; ac ny ellir damdwng attneu; ac o gwedy hynny, mae ym ddigawn a'y gwyr, ac a weles y roddeist attaf; ac ar y cyfreith y dodaf, na ddylyaf attep o ledrat am atneu cynyrchawl addefedic. 'Dyoer,' heb yr hawlwr, 'mi a dystyaf y'r ynat a'r gwyrda attep ohonot; ac na roddeist wat cyfreithyawl yn dy attep; a phes rhoddyt, ny ellit rhoddi gwat am ledrat yn llaw, eithyr un o'r tair taryan cyfreithyawl: cymeryt y . . . arddelw cyfreithyawl, fal nat attepper am ledrat yn llaw; canys digawn o arddelw yw y lleidyr a lledrat yn y law, cymryt o arwayssaf y lledrat attaw, yngwydd gorsedd a'y [rydd]hau ynteu o'r hawl, fal na ddylyo attep; cany dyllyir ceryddu deu ddyn am un anghyfreith; canys hwnn a'y

cymyrth a fydd eneit faddeu, ony ddichawn bwrw yr angcyfreith y wrthaw, a galw am frawt.’ Heb yr hawlwr: ‘a . . . n wnaſ na wedaist.’ Ac yna y gwyl cyfreith, cany wnayth un o’r teir taryan cyfreithyawl, dylyu ohonaw etfryt y da ar y breint yr holet, a gwneuthur y dial a farn cyfreith am ledrat yn llaw addefedic, herwydd y gwerth cyfreithyawl sydd ar y da.

§714. Nyt rheit damdwng o cyfreith yn ac . . .

[hiatus]⁵¹⁶

§715. [t. 115] Sef yw damdwng, da a ddyly dyn am dyngu nat oedd perchennoc arall namyn ef, am hynny y gelwir damdwg.

§716. Pa ddelw y damdygir peth ny bo clust iddaw? Canys cyfreith a eirch, os anifeil fydd, cymeret y glust ddeheu yr anifeil yn y law assw yr ddyn, a’r llaw ddeheu ar y creir. Nyt oes glust y edyn; pam y gellir y ddamdwng ynteu? Gellir rhoi llaw ar y benn; ac os edyn dof, tyngu nat oedd wir berchennoc arnaw eithyr ef; os edyn gwyllt [megys] heboc, neu lamysten, y damdwng wrth y d[eithi] . . . wir perchennoc arnaw. Yna y dylu y dyn un o’r tri atdeb: ay geni &c.; ay cadw &c;⁵¹⁷ ay arwayssaf. Os o eni a meithrin; tyngu a ddyly, a cheitweit gyt ac ef, pan . . . ef a[‘y] gwnayth o wyllt yn ddof, ac a’y [feithrin]; y ceitweit a ddyly tyngu gwybot y eni, a gwelet y feithrin. Ny bydd cosp yr hyn y’r arglwydd, eithyr camlwrw. Ny ddyllir . . .

§717. O derfydd y ddyn ddamdwng peth yn llaw arall, a cheissio o’r lleidyr ddienc am na thal y peth .vi.^c, ac na ddyly ynteu fot yn eneit faddeu am lei noc y dyly y perchennoc y [da].

§718. O derfydd y ddyn colli da gwahanedic . . . yn y . . . yr y collet, neu d . . . neu anifeilieit, a cheissyaw damdwng hynn a welo . . . ac na welo cwbyl, cyfreith a

⁵¹⁶ Oddeutu 5 llinell.

⁵¹⁷ &c - llgr., + Llan 121.

ddyweit y dichawn; os ynteu a geis damdwng cwbyl wrth hyn a welo, [t. 116] ny ddichawn a dda gwahanedic, hagen am dda diwahan, mal ych neu fuch . . . gwahenir y groen ac ef yn lledrat; na thrais nac angecyfarch; ef a ellir y damdwng wrth y groen, ac yna ony cheiffir un o'r tair [taryan] cyfreithyawl . . . ar y breint yr holer ef.

§719. O derfydd y ddeu ddyn colli peth diwahan, neu peth gwahanedic, a dywanu o un arnaw a'y holy, a mynu y ddamdwng; ef a ddichawn drwy grybwyll y gydymd~~da~~ith yn y damdwng, a thyngu nat oedd wir perchennoc arnaw, namyn wynt a'y harglwydd.

§720. Rhei a ddyweit na ellir damdwng creiryau eglwys,⁵¹⁸ na'y llyfreu, na'y hoffer, canyt eiddaw neb namyn yr eglwys wynt; cyfreith hagen a ddyweit y dichawn y personeu a'r effeiryait y damdwng; canys wynt y sydd perchennogyon ar yr eglwys a'y da, mal gwr ar y wreic deddfol.

§721. Peth o bydd creiryau yn gwarchadw lleygyon a deolu,⁵¹⁹ pwy yna a ddyly y damdwng? Y gwir perchennogyon, mal y clywaist uchot am atneu a ddycer gan warcheitwat.

§722. Peth o chyll alltut dda a'y holi o'e arglwydd a cheissyaw y ddamdwng? Ef a ddichawn; canys da cyt yw iddaw a'y alltut.

§723. Peth o dygir da cayth yn lledrat, a'y welet o'r arglwydd, a'y holi, a ddyly y ddamdwng? Rhei a ddyweit y dylr y damdwng; canys [cyfreith] a ddyweit pa ffordd bynnac . . . arglwydd, a'y welet o'e arglwydd y da, o fynet e hun y wrthaw . . . o arall, may y holi a berthyn o ar[ddelw] [cyfreithyawl]; cynghawsaeth amdanaw sydd o cyfreith.

⁵¹⁸ Ychwanegwyd y llythyren 's' at y testun gyda marc caret.

⁵¹⁹ ?deolit.

§724. Os cayth [a dygir da], rheith furiedic [t. 117] fydd am y ddwyn yn lledrat y da; ny chyngein rheith pe damdwng fyddai, ac am hynny, ny ddylir y ddamdwng. A fydd rheith, ac ynteu yn cynrychawl yn lla6, ae na fydd, eithyr y holi o'r ffordd y perthyn hynny . . . march gwyllt, a hwch, a chi.

§725. O derfydd i ddyn colli llewer o ysgrybyl o'e gadw yn llaw arall, a ddyly e hun . . .⁵²⁰

[hiatus]⁵²¹

[Lladrad anghynrchiol]

§726. Hyt hynn y dywetpwynt am ledrat cynrychawl; llyma bellach am ledrat angynrychawl, sef yw hwnnw, lledrat cyswyn ar ddyn heb y gayl yn y law.

§727. Llyma mal y may hwnnw: cwynaw os atelir canys cwyn a berthyn lle bo angcyfreith; ac ymrwymaw yno cyfreith, a chadeiryaw pleidieu, o bydd cymeint yr hawl ac perthyno hynny; a bot creir gantaw e hun, a gyrru y greir [t. 118] deir gweith; ar unteu⁵²² dwyn o'r dyn a'e l[aw], [ac e]nw y da yn lledrat o'r lle a'r lle, y dydd a'r dydd, y nos a'r nos, a'r wythnos. Ac yna y ddyly yr amddiffynnwr bot ganthaw greir y wadu; ac ony bydd, collet yn y modd y gyrawdd yr hawlwr arnaw; a gwadet gwbyl o'r lledrat deirgweith; ac yna y ddyly yr ynat barnu rheith furyedic arnaw, herwydd meint y lledrat, ae beich cefyn fo, ay a fo llei no beich; ay pwn march; neu werth .lx. ceinioc, neu a fo llei no hynny, neu a fo mwy no hynny; wythnos o'r Sul nessaf lle bo y fara efferen a'y ddwfyfyr swyn; ac felly pop i s . . . Os y rheith a geffir, bit di gosp yr amddiffynnwr. Os y rheith a balla, gwiryon yw yr amddiffynnwr o'e benn e hun, heb gael dim yn y law. Pallus hagen y rheith, teir punt a ddyly dalu y'r brenin; a'y dda y'r dyn, herwydd y ddamdwng, neu herwydd y werth cyfreithyawl. Ony eill y dalu, y ddehol. Os

⁵²⁰ O . . . e hun – llsg., + Llan 121.

⁵²¹ Oddeutu 20 llinell.

⁵²² Ychwanegwyd y llythyren 'n' uwchben y llinell gyda marc *caret*: arno ynteu?

ceffir yn y wlat wedy, seith bunt. Os ceffir y drydedd weith yn y wlat, wedy y ddehol, herwydd cyfreith Hywel, trychu y aelawt, pa ddyn bynnac fo. Eissyoes symudawdd Bleddyn ap Cynfyn, nyt amgen, no'e ddienyddu.

§728. Llyma mal y perthyn gwadu am gi: llw un dyn.⁵²³

§729. Am edyn, llw un dyn y wadu pob peth.

§730. Ac ny bo rheith amdanaw; llw un dyn y wadu beich cefyn, a gafyr, a dafat a hwch yn lledrat.

§731. Y wadu gellwng lleidyr, llw un dyn.

§732. Llwy pum nyn nessaf eu gwerth y'r gwadwr, a'r hanner yn wyr not, a'r hanner arall yn wyr dinot, deu o blegyt y tat, a deu o barth y fam, ac ef e hun yn bymet o'r blayn y dyngu ac ef, a phob gwadwr: a llyna lle bydd deu gogymeint o barth y tat a'r fam.

§733. Llyna y rhyw lu a ddyry y rheith, cyfryw a'r gwadwr e hun, ac felly ar bob rheith.

§734. Sef yw y rhei nessaf eu gwerth, [t. 119] rhei cynnesset ac y dylyoent talu galanas a'y cymryt [lle perthyno hynn].

§735. Y wadu pwnn march a dal, neu eidyon, neu .lx. o aryant, neu werth .lx. ceinyoc, llw seith nyn nessaf eu gwerth, a'r hanner yn wyr not &c.

§736. O .lx. ceinioc hyt x . . . llw saith dyn nessaf; medd ereill .xxiiii., o cyfreith Hywel.

⁵²³ Llyma . . . dyn – llsgr., + Llan 121.

- §737. O chweugeint hyt bunt, llw deuddeng nyn nessaf; medd rhei, llw wyth a deugeint, o cyfreith Hywel, o wyr not a dinot yn ddeu parhawc. Felly am [eiddaw,] eithyr a .iii. am alltudyon e hun, ac yn drayanawc am werth punt; ac o byt allan, llw pedwar gwyr ar ugeint nessaf, &c.
- §738. Nyt a rheith yr . . . gyrr cyfreithyawl bellach no hynny, ony bydd lliw cyfreithiawl ar ledrat . . .
- §739. Ny ddyl[y] gwraic wryawc lw; a hi eill yrru dwyn y da a feddo, mal arall . . .
- §740. Y wadu llei no beich cefyn, llw tri dyn nessaf.
- §741. Pump ryw ledrat angcynrychawl y sydd: un y ceffir gwat heb reith; un y ceffir gwat a rheith; un ny cheffir na gwat na rheith; un y ceffir arddelw neu geitweit iddaw; un y ceffir ceitweit rhacddaw, ac ny cheffir arddelw iddaw.
- §742. Tri rhyw ledrat y bydd gwat heb reith rhagddent: un, o dyweit dyn ar arall ledratta a gofyn llw gw[e]ilydd iddaw yn cyfreithyawl; ny ddyly annot na phallu o lw; ac o phalla, a galw y brofi, y dyn a gaiff fessur y hawl ar neb a ballo o'r llw yn cosp; cany ddylir annot llw gweilydd am ledrat. Un arall, lle bo amperchennoc y da yn dywedut ledrat,⁵²⁴ ac yn y gysswynnaw, mal cyhudd ar arall, ac yn y gadarnha[u] y greir peth sydd fwy; nyt cyfreith namyn llw yr amddiffynnwr y wadu yr gyrr amperchennoc [t. 120] da; o phalla y wat, teir punt. Trydydd, os perchennoc y da a ddyweit ar y dafawt leferydd ledrat ar arall; onys gwatta y dyn hynny, teir punt; canys ny bydd namyn dirwy, yr y addef o'r dyn, am nat ydiw yn y law, heb dogyn fanac, heb addef o'r cyleidyr dan y groc.
- §743. Tri lle ny ddylir rhoddi llw gweilydd na'y ofyn: ar ddrws mynwent; neu ddrws eglwys, a drws y cor, sef paham, meddylyaw am Dduw a ddylir yno; a phont un prenn . . . etteppo pe gofynnit llw gweilydd am ledrat, ny ddylit y oedi rhac

dybrytted y gysswyn; am beth arall ef a ddylit y oedi yn y lleoedd hynn. Hynn o ddynyon ny ddylyant rhoddi lw gweilydd: arglwydd ac escob, am nat oes a alley cymell; mut a byddar, am na w[y]dant synhwyreu; ac angyfyeith hefyt, am na ddyall yr yeith; gwreic feichioc, am na ddyly mynet yn llw onys mynn e hun.

§744. O gyrrir hagen ar wreic feichioc angcyfreith y perthyno rheith iddi, hi a ddyly o goddef y rheith arnei gwplau⁵²⁵ y harddelw; y harddelw hitheu yw y rheith, neu bit palledic y rheith.

§745. Peth y cosp am ballu o lw gweilydd, .ix. ugeint. O phalla diueur⁵²⁶ hagen am ledrat, teir punt. Nyt godor pallu o lw gweilydd am beth ny bo lledrat yny farno cyfreith.

§746. Hyt hynn y dywetpwynt am ledrat absen y bydd gwat heb reith amdanaw. Bellach a[m] ledrat y bydd gwat a rheith amdanaw.

§747. A hwnn a ddamweinia o dri modd: un yw, o gyrr perchennoc da lledrat ar arall, yr meint fo y lledrat, nac yr bychanet, o geynyoc allan, heb y gael yn llaw, ac yn wiryon o[’y] benn e hun; cyt pallo y reith, ny chat dim yn y llaw, teir punt fydd y dirwy. Cyt mwyhao [t. 121] y reith, herwydd meint y lletrat, na beich cefyn, na phwn march fo, na gwerth .lx. ceinioc, ny bydd mwy y dirwy ledrat no their punt, lle perthyno rheith am ledrat. May hagen lle ny ddyly rheith am ledrat absen, mal y ceffy. Eil, lledrat y bydd gwat a rheith rhagddaw; lle bo amperchennoc da yn dwyn lliw ar ledrat fal hynn, cymryt penn rheith yn y law yngwydd y hawlwr ac amddyffynnwr, ar ostec yn y[r] orsedd, a thyngu y welet liw dydd goleu gyt a’r da, a’e henwi ych, ne fuch &c, pan oedd gyfuwch heul ar fryn a phant, ac yn mynet drwy y dref, a henwi y dref, a’r cymwt; ac nas yr cas na digassedd, na gobyr, na gwerth, y may yn lliwaw y lledrat, namyn yr dywedyt gwirionedd. Ac ny bydd lliw, ony bydd lliw deuddyn; nyt amgen, yr

⁵²⁴ ledrat – llsgr., + Llan 121.

⁵²⁵ Ychwanegwyd y llythyren ‘u’ ar ddiwedd y gair gyda marc *caret*.

⁵²⁶ Ychwanegwyd ‘diveur’ mewn pensil ar ymyl y ddalen.

hawlwr a'r⁵²⁷ lliwr, a thyngu hynny o'r hawlwr hefyt, a gyrry y lledrat yn gyfreithiawl; ac yna y bydd rheith o .xxiiii., fal y bo cyfrifed o bop cymwt a'e gilidd, eithyr newydwch⁵²⁸ yr eil ae .xxiiii. fal . . . ; cosp fydd teir punt, am na chat⁵²⁹ dim yn y law. Trydydd lle y bydd gwat a rheith, lle gyrru perchennoc y da unelyaoth⁵³⁰ am ledrat, ac un o'r affeithieu lledrat; o ffynna y gwat, da yw; o metha gwat yr affeithwr, tair punt y'r arglwydd.

[Affaith lladrad]

- §748. [T]ri modd y bydd pob affeith ledrat, a'r affeithieu ereill hefyt . . .
- §749. [T]eir affeith golwe y sydd: sef yw hynny, gwelet y lledrat; a bot yn un amdanaw; a'e gelu nac yr gwerth nac yr serch.
- §750. [T]eir affeith geir: tafawtruddyaeth yn erchi⁵³¹ gwneuthur y lledrat . . .
- §751. [T]eir affeith gweithret yn gwneuthur rhyw weithret a llafur gyt a'r llofrudd . . .
- §752. [t. 122] Hyt hyn y dywetpwyd am y lletrat y cheffir gwat hep reith, a gwat a rheith. Bellach am ledrat ny cheffir na gwat, na rheith, nac arddelw rhacddaw. Nyt amgen, lle caffer dogn fanac am ledrat drwy lw creddyfwr; sef yw hwnnw, effeiryat plwyf, rhwng y ddeu ddyn plwyf. Ny bydd eneit faddeu y dyn hwnnw; cany dyly neb colli eneit nac aelawt, yr geir arall, heb dystyolaeth amgen arnaw; byd hagen arnaw werth lleidyr, seith punt. Eil lledrat absen ny cheffir na gwat, na rheith, nac arddelw rhacddaw, lle yr addefo cytleidyr a groccer ar gytymdeith ledrat a wyden⁵³² am y wddyf yn ddiobeith o'e eneit, am y bo gwerth .iiii. ceinyoc cyfreith; y lledrat seith punt a ddyly y brenin. Rheit hagen yw bot y

⁵²⁷ y ar llsg.

⁵²⁸ newydwch llsg.

⁵²⁹ Ychwanegwyd yr 'h' uwchben y gair gyda marc *caret*.

⁵³⁰ Sic llsg: unolyaeth?

⁵³¹ erchi – llsg., + erchi Llan 121.

ddeu ledrat hyn yn gyfuch eu gwerth ac y bo y lledrat y croger y llofrudd amdanaw; ny chrogir wyntwy am nat oes dim yn y law. Trydydd lle ny cheffir na gwat, na rheith, nac arddelw, lle bo lleidyr cyhoeddauc,⁵³³ neu leidyr deholedic, neu ffoawdyr, o leidyr cyfaddef: sef yw lleidyr cohoeddawc, caeth y weith gyntaf y lladratao chweugeint a dal; eilweith, punt; y drydedd, trychu aelawt; o hynny allan lleidyr cyhoeddawc fydd: ac am hynny y dyw[ed]ir, cyhoedd a gryc.

§753. A dyly cwynwr y da gan leidyr a ddeholer da a ddalyo ar ffoodraeth? Yr arglwydd bieu y da oll; canys ffoawdyr fu.

§754. A grogir cytleidyr ony bydd cwynwr? Na chrogir.

§755. Lleidyr a ddeholer o frawt cyfreith nac am ddirwy, nac am le . . .

§756. Lleidyr pan gaffer yn y wlat y drydedd weith, croger.

§757. Ffoawdyr pan gaffer wedy y ceysseyr deirnos yn y anlloedd, a chael y ddaly o'e anfodd, eneit faddeu fydd, a'e anrheithyaw hefyd.

§758. Llyma bellach dywedyt am ledrat absen y ceffir arddelw neu geitweit rhacddaw; nyt amgen, lledrat a aller y [t. 123] ddamdwng yn y absen, wrth beth ohonaw; sef yw hwnnw, lle caffer croen anifeil, ar y lliw ar arwydd y damdyngo y berchennoc; ac na allo y lleidyr cwbyl ddiheuraw, yna⁵³⁴ y bydd rheit iddaw cayl ceitweit, y gadw gyt ac ef, yr anifel bioedd y croen, ay o gadw cyn coll, ay o eni y llwdyn a'y feithrin, ay arwayssaf a gymero y lledrat groen o'e law; ac ony cheiff hynny, eneit faddeu fydd; a hynny am ledrat absen; canyt ydiw cwbyl o'r anifeil yn llaw, ac na ellir cwbyl o anghwbyl.

⁵³² 'wydny' yn wreiddiol ond ysgrifennwyd 'en' uwchben 'ny'.

⁵³³ cyhoeddeuc llsg.

⁵³⁴ yna – llsg., + Llan 121.

§759. Llyma bellach am ledrat absen ny cheffir arddelw iddaw ac a ddyly cayl ceitweit rhacddaw; sef yw hwnnw, lledrat absen a gysswyner ar ddyd. ‘Dyoer,’ heb yr ynteu, ‘y nos a’r nos, ydd ydwyt ti yn gyrru y lledrat arnaf, a may ym ddigawn o geitweit cyfreithyawl ym cadw rhac angecyfreith o’r ty hwn a’r ty, nyt amgen, no pherchennawc y ty neu rei o dylwyth y ty.⁵³⁵ Sef mal y dylit y gadw, tyngu o ddynyon y ty gyt ac ef roi llaw deirgweith yn y nos [drostaw] a’y gadw felly o pryt gwarchay ayrwy hyt y bore: sef yw gorchay ayrwy, o bryt rhwymaw ysgrybyl hyt y bore. Ny ellir cadw gwesti onyt am ledrat nos. Ef a ellir anadfwynaw y ceitweit hynn, mal rhei ereill y gellir; cany ddichawn anaddwyn gadw. O metha cadw gwesti; teir punt y’r arglwydd, a’e dda y’r cwynwr.

§760. Ny ellir cadw gwesti am d . . . yn llaw . . .

§761. ‘. . . a dwyn fy mreint am terfyn y gennyf, y dodaf inneu ar y cyfreith y dylaf fy mreint am terfyn fa[l] y bu orau gynt ym llaw, sef yw hynny, hyt yma y bu [t. 124] fyn terfyn i gynt.’ O gwatta y[r] amddiffynnwr hynny, mwynhaer gwybyddeit yr hawlwr. Os addef, yawn yw barnu y’r hawlwr y derfyn mal y dyweit.

[hiatus]⁵³⁶

Fal hynn y mae am holi tir o gyfran:⁵³⁷

§762. Teir gweith y rhennir rhwng priodoryon o cyfreith a chytiogyon: cyntaf rhwng brodyr a brawt ieuaf . . .

§763. . . . dyn a threfyn hel . . . fyr . . . g . . . nt y rhyngthut ar wyth erw . . . o bydd [uchelwr]; ac o hynaf y hynaf dewissent y lleill y tyddynneu, [ac] y bawb a fae dai ar y dyddyn. Ac wedy hynny, rhannet yr [mab ieuaf] drostaw, ac o hynaf y

⁵³⁵ neu . . . ty – llsg., + Llan 121.

⁵³⁶ Oddeutu 8 llinell.

⁵³⁷ + [Hawl] cyfran unrhyw yw a [hawl] . . . ac atran a gorffen rhan: mewn pensil.

hynaf dywissaw. Cefynderw a ddyly a[tran], eithyr na symyt neb o'e dyddyn yr y llall; canys cymeint fydd [y tyddyneu] ac nat rheit y rannu na [bot yn] adeilwr y'r llall; c[an]ys . . . a ddyly orffen rannu fegys . . . ; ac o hynny allan y dyly pawb cadw y r[an] drwy⁵³⁸ aminogeu tir. Ny ddyly nei hagen a[tran] . . . [Os mab aillt fydd,] pedeir erw yn y dyddyn; ac fal y llall y rhann, ac y dewys ac [atran].

§764. Mab brenin, hagen o bydd hynaf, a ddyly yr essayddyn pennaf, ony bydd . . . mut, byddar, ac ynfyf; o bydd felly, yr eil hynaf a'e ceiff, ony byd mab y frawt, neu y nei ap y frawt, neu wr cytdlet ac ef o'e waet. Mab hefyt a gaffo tir o famwys, [t. 125] ny ddyly ef yr essayddyn pennaf y'w deit, neu y'w hendeit . . . Trydydd, hefyt nys ceiff mab breyr a rodder ar faeth, o fodd arglwydd, ar daeoc; cyt caffo dir gyt a'e blant, ny cheiff ef y tyddyn pennaf, cyt boet ieu no'e frodyr ma[eth].

§765. O dyly pob . . . tyddyn ac wyth⁵³⁹ erw, a'r mab ieuaf a ran y tir, ac o hynaf y hynaf dewissaw. Ny ddyly neb . . .

[hiatus]⁵⁴⁰

§766. . . . a lliw a da ac o collant y tir o ddiffyc hynny, neb a ballo a ddyly ynill y'r neb a'e collo; ny ddyly yr un hagen dalu y da dros y gilydd.

§767. O gyfylderw allan ny ddyly neb rannu a'e gilydd, na chadw tir gan y gilydd.

§768. Ny ddyly nei ap cyfylderw, na nei ap brawt, atran o gyfreith Hywel.

⁵³⁸ dewy llsg. r.

⁵³⁹ + wyth llsg. r.

⁵⁴⁰ Oddeutu 7 llinell.

- §769. Ny cheiff neb dir cyfynderw y dat, yr y ofyn o blegyt y dyn a fuassei farw, sef yw hynny, yr y fot yn hanfot o'e waet ef. O mynn ef y tir, gofynnnet ef am ddafot y'w dat gynt abediwyaw y tir hwnnw, ac y dyly ynteu dref y dat, a felly y dyly.
- §770. Ny cheiff neb tir y gyt etifedd megys y frawt, neu gefynderw, neu gyfynderw, gan y ofyn trwy y fot yn frawt iddaw neu yn gefynderw neu fal hynny, a'e farw heb etifedd⁵⁴¹ o'e gorff iddaw, namyn trwy y ofyn o'e fot yn eiddaw y dat, neu y hendat, neu or hendat gynt ef, a'e fot yn dref tat iddaw, a'e fot yn nessaf dyn y'r marw, ac nat oes a'e dyly yn well.
- §771. Gwedy ranno brodyr tref y tat rhyngthunt, o bydd marw un ohonunt heb etifedd o'e gorff, neu gyt etifedd o'e frodyr, neu o'e gefynderw, neu gyfynderw, [t. 126] ac na bo dieithyr ceifyn o'r tir iddaw, yr arglwydd a fydd etifedd iddaw ar [y] tir hwnnw; cany ddyly neb dir o gyfynderw allan: hwnnw a elwir tir y llettaf y geinioc. O cyfreith, ny ddyly yr arglwydd⁵⁴² ddaly y tir yn y law, cany ellir priodawr h . . .
- §772. O gwerth arglwydd rhyw dir hwnnw y fab a'e dat yn fyw, o bydd marw y mab heb etifedd o'e gorff e hun, y frodyr, neu y gefynderw, neu y gyfynderw⁵⁴³ a'y ceiff, ac wynt a ddlyant daly y abediw a'e dat yn fyw: a llyna un lle y telir o cyfreith. Ony bydd iddaw frodyr, na chefynderw, na neb a'e dlyo o gyfreith, nys ceiff y tat y tir: canyt ymchwel⁵⁴⁴ dilyet drachefyn.
- §773. Pwy bynnac a holo rhyw dir, talet abediw y . . .
- §774. Pe marw hagen nei ap brawt y ddyn, ny byddei neb iddaw onyt y ewythy, ef a gaffeu hwnnw dref y dat.

⁵⁴¹ Ychwanegwyd y llythyren 'i' uwchben y testun gyda marc *caret*.

⁵⁴² Ysgrifennwyd y gair hwn mewn pensil.

⁵⁴³ Ychwanegwyd yr 'r' cyntaf gyda marc *caret*.

⁵⁴⁴ Ysgrifennwyd y pedair llythyren olaf mewn pensil.

§775. Cefynderw a ddyly cystadlu bawb a'e gilydd; sef y dlyant, etifedd y brawt hynaf a ddyly cystadlu, ac etifedd yr ieuaf a ddyly dewissaw, mal y dlyei yr ieuaf pei byw, ac felly o hynaf y hynaf fal petynt yn fyw y brodyr. Cyfynderw a ddyly cymeinyaw pawb a'e gilydd, ac o hynny allan ny ddyly neb cymeinyaw a'e gilydd, eithyr trigo pawb ar y sydd yn y law, y rhan honno a fydd ar dir gwelyawc; sef yw hynny, tir y dlyo pawb dref y dat e hun. Ar dir cyllidus hagen, mal tref cyfrif, maer a changellawr a rhingyll a ddyly rannu a rhoddi y bawb gylydd . . .

Llyma fal y[r] holir tir o gyfran⁵⁴⁵

§776. Cyntaf yr holir o ran. Dyfot a ddyly mab ar yr arglwydd ac erfyn iddaw⁵⁴⁶ y ddlyet yn y lle a'r lle, ae o wir ae o gyfreith, a dywedut fot y frodyr yn y attal rhacddaw; yna y ddyly yr arglwydd y dyfynnu oll ar y tir; a [t. 127] manegi wedy yr eistedder arnaw yn gyfreithyawl y fot yn briodawr deledawc ar y tir hwnnw, ac yn fab y'w dat teilwng, ac ar bop tir y'w dat ffordd y may dlyet y'w dat ympob tref, ac na chafas ef gyfran gan y frodyr, neu gan y frawt, o'r tir racwn; ac o sydd a amheuo y fot yn briodawr, fot digawn iddaw a gatwo y briodolder ganthaw, ac ot oes a ddywetto ry gael ohonaw ran o'r tir gynt, bot iddaw a'e gwyr na cafas dim o ran ay[ryoet] . . . Ot addefir y fot ef yn briodawr neu yn ddyledoc y gael cyfran, yawn yw cyfran ac ef. Os gwedir, yawn yw mwynhau gwybyddyeit a cheitweit yr hawlwr. Os yr amddiffynnwr a ddyweit: 'Dyoer,' heb ef, 'ny wadaf i dy fot yn briodawr ac yn frawt ym, eissyoes ty a thal a gefaist a ran a⁵⁴⁷ gefaist i am y lle yma, ac a gymeraist o fodd, a hwnnw y sydd gennynt yn y lle a'r lle; ac os gwedy, may ym ddigawn a'e gwyr; ac ar y cyfreith y dodaf inneu, canys cefeist dy gwbyl, na ddyly ditheu yma ran bellach.' Os addef yr hawlwr, bit ar a gafas. Os gwatta, mwynhaer gwybyddyeit yr amddiffynnwr. Os ef a ddyweit ynteu: 'Dyoer,' heb ef, 'dechreu holi a wnaethym

⁵⁴⁵ Ysgrifennwyd hyn mewn pensil.

⁵⁴⁶ iddaw – llsg., + Llan 121.

⁵⁴⁷ ran a – llsg., + Llan 121.

i, a dywedut fy mod yn ddyledoc yma, ac na chefeis ran yrmoet; ac osyt a amheuo fy mot yn ddyledoc, bot ym digawn a gatwo fy mpriodolder a'm dlyet gennyf; ac o bydd a amheuo ym, na chefeis rann o'r tir, fot yma wyr nas cefais; a hynny⁵⁴⁸ sydd ddigawn yn y cyfreith y wybot hynny; ac nyt fy mot yn briodawr a dodeis i ympen gwybyddyeit, namyn fy mot heb ran o'r tir hwnn, sef echaws yw fy mot heb ran, am na chefeis yrmoet, ac ny ry wedeist titheu fy mot i yn briodawr; ac ar y cyfreith y dodaf inneu, nat llesteir arnaf yr arddelw a wnaethost y fwynhau fyn [t. 128] tystyon a'm ceitweit.' Cyfreith a ddyweit, yn ydd holo dyn peth drwy dystyon a cheitweit, o chwbyl wedir yn y erbyn, dylu mwynhau y dystyon, o bydd hawl y dylyer doddi tystyon neu geitweit arnei.

§777. Ot addefir yr ymadrawdd, a cheissyaw difa yr hawl drwy arddelw cyfreithyawl arall, ofer y tystyon yna; canys ydyw y dyn e hun yn addef yr hynn a ddodet arnaf; ac wrth hynny, nyt praw arnaf namyn na wadws yr amddyffynwr yr hynn a ddodes yr hawlwr arnaf; sef yw hynny, y fot yn wir priodawr; nyt addefws ynteu namyn y fot yn briodawr gynt; ac am hynny, y dywedwn ni, nat cwbyl addef hynny, a dlyu o'r hawlwr mwynhau y dystyon; ac o ffynna eu tystiolaeth, dlyu rhannu ac ef yr ymrysson. A phe tystyei yr hawlwr na wadwyt yr hynn a ddywawt, ac erchi brawt am hynny, nyt oedd reit iddaw wrth dystyon ereill,⁵⁴⁹ namyn am na wadwyt a ddywawt rhac bronn yr ynat, rhannu ac ef a⁵⁵⁰ ddlyit.

§778. Gwedy barner tir y ddyn ny ellir lluddyas iddaw cyfran, nac egoret fo yr amser, na chayat. Ny ddyly brawt cymryt tir cynnif na thir anilys yn lle tref tat; ac os collir, ny ddlyir y ynnyl⁵⁵¹ iddaw, can cymryt anilys yn lle dilys.

⁵⁴⁸ + a hynny llsg.

⁵⁴⁹ eireill llsg.

⁵⁵⁰ ef a – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁵⁵¹ y . . . u llsg.

§779. Atran neu gyfran tir fal hynn y may y holi. Cefynderw a ddyly tir o atran. Dywedet yr hawlwr, wedy cyweiryaw pleidyau, y fot yn briodawr ar y tir o'r cyf[f] a dlyu [o]honaw rannu ac ef, o echaws y fot yn gefynderw y'r llall, neu yn frawt neu gyfyrderw, o'r tir fal y dily ran; ac o bydd a amheuo y fot yn briodawr, bot iddaw ddigawn a[e] g[wyr] . . . ; o gwatta na chafas ddechreu rhan . . . ; [t. 129] 'ac ar y cyfreith y dodaf, can cefeys ddechreu rhan y dilyaf cayl cwbyl o ran.' Yna y dily yr amddiffynnwr ay gwadu, ay addef, ae arddelw cyfreithyawl. Os addef a wna, rhanner ac ef. Os gwadu a wna, mwynhaer gwybyddyeit⁵⁵³ yr hawlwr. O ffynna y braw, rhanner ac ef. Os yr amddiffynnwr⁵⁵⁴ a ddyweit: 'Mi a renneis a thi gwbyl; ac o gwedy di hynny, mae ym ddigawn a'e gwyr; ac ar cyfreith y dodaf fi, na ddylyaf yr ail rh[a]nnu.' Os addef a wna, a bit ar a gafas. Os gwatta, ynteu mwynhaer gwybyddyeit yr amddiffynnwr; sef ryw wybyddyeit fyddant, gwyr o bob rhandir o'r orfotref. Os yr hawlwr a ddyweit: 'A renneist i a myfi nys gwadaf; sef yw hynny, hyn a hynn a hyn, erw neu deir yr xx, a hyn y sydd heb rannu; ac o gwedy di hynny, may digawn a'y gwyr; ac ar cyfreith y dodaf i y dilyaf mwynhau fy ngwybyddyeit.' Yna y dily yr amddyffynnwr ddywedyt: 'Myfi a ddywedeis gynneu ddarfot y mi rannu cwbyl a thydi; ac a ddodeis hynny ympen gwybyddyeit; ac ar y cyfreith y dodaf, y dilyaf mwynhau fy ngwyby[ddy]eit yn gyntaf. Cyfreith a ddyweit yna, pan yw gwybyddyeit yr amddyffynnwr a ddylyr y mwynhau yn gyntaf; canys trydydd gwybyddyeit cyfreithyawl am dir ynt: a llyset llall wynt, os dichawn. Os yr amddiffynnwr a ddyweit: 'Myfi a renneis a thydi ympob lle; a mi a roddaf ympenn y rhannwyr.' Os addef a wna yr hawlwr hynny, bit yn y penn. Os gwatta ynteu y rhannwyr, gwatted fal y gwedir mach; a rhann o'r tir a ddyly wedy hynny: o ffynna gwat. Os yr amddiffynnwr a ddyweit: 'Arappawl yw hynn,' traether mal y clowssoch.

⁵⁵² Y chwanegwyd hyn at y testun mewn pensil.

⁵⁵³ gwybyddyeit llsg.

⁵⁵⁴ Y chwanegwyd y llythyren 'w' uwchben y gair gyda marc *caret*.

§780. Ny ddyly neb gofyn atrann ar dir, onyt y nep [t. 130] ny chafas dewys gynt.

§781. Ny ddyly hagen⁵⁵⁵ nei atran o dir, canyt un o'r graddeu tir yw nei.

§782. Ny eill neb eissyoes o radeu y tir ry cadw y tir a'e gynnal rhac y gilydd; sef yw graddeu tir: brawt, cefynderw, cyfyrdew, a mwy hagen sydd o raddeu cyrennydd no hynny, yr atran a dd[i]weter⁵⁵⁶ drachefyn.

§783. Ny ddyllir⁵⁵⁷ achub ar dir cyt.

§784. Pob tir ynteu a ddyllir y rannu eithyr y tir hynn: migyn, a derw goet, a cherric. A'r tri adeilat a ddyly bot ynghyt rhwng brodyr: perllan, melin, a choret.

§785. O bydd negyf hagen y mab ieuaf o rannu y tyddynneu fal yr eirch cyfreith, ef a ellir achub ar y tri thir hynn; eithyr na ellir achub ar y dyddyn breinyaw[1] ef, cyt boet negyf o rannu tir.

§786. Fal hynn y dyly cyfran: cyntaf y dyly cyfran rhwng brodyr, a'r mab ieuaf dewissa6 y dyddyn; sef y dyly dewissaw, os mab uchelwr fydd, yr essaydyn y bu y dat yndaw, ac a fo o dei arnaw, ac wyth erw cyfreithiawl yn y gylch; ac oddyna y dyly y mab ieuaf rannu, ac o hynaf y hynaf pieu dewis y dyddyn a⁵⁵⁸ fo o dei arnaw, ac wyth erw; ac odd yna y rhan⁵⁵⁹ yr ieuaf y gwasgardir, ac o hynaf y hynaf⁵⁶⁰ dewissent, ac y bawb a fo o dai ar y dyddyn.

§787. Cefynderw a ddyly atran tir, eithyr na symyt neb y dyddyn, canys cymeint fydd y tyddyn ac nat rheit y rannu, na bot yr un yn adeilwr y'r llall.

⁵⁵⁵ hegen llsg.

⁵⁵⁶ ddweiter llsg. Efallai dylid ystyried hefyd adfer dyweter.

⁵⁵⁷ ddyllir llsg.

⁵⁵⁸ a o fo llsg.

⁵⁵⁹ + y rhan llsg.

⁵⁶⁰ + y hynaf llsg.

§788. Wedy hynny cyfyrdwr a ddyly orffen rann; ac wedy hynny, cadw o bawb y ran drwy ami[niogeu] . . . tir ganthaw . . . rann y gan y gar. Dewedet gael o'e dat neu ohonaw e hun dechreu rhan, ac y ddyly gael rhann gwbyl o'r tir; cany ddryllya cyfreith ddlyet a neb; a bot iddaw ynteu [t. 131] digawn a wyr cael dechreu rhan ohonaw, ac a gatwo priodolder ganthaw a'e ddlyet. 'Dyoer,' heb yr amddiffynwr, 'ny ddlyaf i ateb o'r hawl honno, sef echos yw, rhanu a wneuthum a thydi cynn no hynn, neu yn tadeu, neu yn rhieni, a'th ran ditheu, a'e rhan wynteu y'th law etton; os ti a wedy hynny, mi a'e rhoddaf ympenn y rhanwyr a fu rhyngom a m[i] a thi gynt; os addef gennynt hynny, bit ar a gefeist.' Os ynteu a watta y rhanwyr, rhanner ac ef o newydd; sef echos, cany ddodes yr amddyffynwr ympen y gwybyddyeit, cany eill rhanwyr fot yn wybyddyeit; cany eill neb fot yn wybyddyat ar a wnel e hun: a bot yr amddiffynwr yn dywedut wneuthur ohonynt ran y rhyngthaw a'r hawlwr; ac yn rhoddi yn y penn e hunein y wneuthur ohonynt ran y rhyngthaw a'r hawlwr; ac yn rhoddi yn y penn e hunein y wneuthur hynn, ny allant dwyn tystiolaeth arnaw. Pe ynteu a ddywedei wneuthur rhann rhyngthunt gynt, ac addaw gwybyddyeit o ereill ar hynn ar fot y rhann o rei a'e gwelsei ac a'e gwyddyat, da y dywedasei a chyfreithawl.

§789. Pwy bynnac a holi tir o ddiaspat &c, deu et ar yr arglwydd a dywedut y ddehol o echos ae galanas, ae peth arall, ac na allawdd ddyfot y holi y ddylyet; ony bydd neb ar y tir, ef a ddyly cwbyl a edewis gynt o dir, nac ereill⁵⁶² a fydd ar y tir, ef a ddyly⁵⁶³ cyhydedd ac wynt. Ny ddyffydd y brioder hyt y na[f]wet dyn fal na . . . cyfran. Os y na[f]wet dyn fydd ef, ef a ddyry y ddiaspat, ac yna⁵⁶⁴ y ceiff ef gynwys cymeint a'r mwyaf a fo ar y tir o cyfreith.

⁵⁶¹ Ychwanegwyd hyn at y testun mewn pensil.

⁵⁶² nas erell llsg.

⁵⁶³ cwbyl . . . ddyly – llsg., + Llan 121.

⁵⁶⁴ yna – llsg., + Llan 121.

§790. O geilw dyn am dir mewn tref gyfrif, ac na bo tir gwac ynnddi, ef a ddyly pob un o'r tref roddi peth y ganthaw, a thiryaw y dyn felly, fal y bo iddaw cymeint a holo ae gafel, ae hanner, ae dwy . . .

Am hawl gyhydd⁵⁶⁵

§791. Mal hynn y may am hawl gyhydd: [t. 132] Dyfot ar arglwydd a manegi y hanfot ef o'r dref honn a honn, ac erchi yr Duw, iddaw beri yawnder iddaw o'e dlyet; ac yna y dily ef y beri, a pheri a ddyfynnu y dref gyfrif⁵⁶⁶ y dyweyd y dyweto fot y ddlet ynnddi, a phan ddelir y'r maes, y dily yr hawlwr ymrwymaw yng cyfreith, a chadeiryaw pleidieu; ac yna y dily ddywedyt messur y hawl, a'e hanfot o'r dref honno, ac⁵⁶⁷ o'r cyff hwnn a hwnn, ac y mae ynteu yn erchi y diryaw yn y dref. Y dref a ddyly roddi y hatteb ympenn un a cholli a chaffel, a gwneuthur cyngaws, a chanllaw, ac amddiffynwr, ac ymddywedut.

§792. Ny bydd hawl gyhyt eithyr yn tref gyfrif, canys pob un a ddyly cyhydu a'e gilydd, mal pe brodyr faent.

§793. Cyfreith tir [t. 133] cyfrif yw, na bo mwy rhann un no'e gilydd; ac am hynny, na bydd erw diffoddedic ynnddi, canys pob a'e dily mal y gilydd.

§794. Ny ddleir talu twng o dir cyfrif; sef paham, am na ddlyir cwynos ohonaw.

§795. Cylch cwn a meirch a dofreth a ddlyir ohonaw; ac am hynny ny ddyly arglwydd borthyant o'r tir cyfrif, ac yno ny ddyly neb brynu erw y fab y gilydd.

§796. Yno y ddyly mab dir a'e dat yn fyw; a llyna paham nyt mwy y rhann y frawt dir ac ef no'r eithaf yn y dref.

⁵⁶⁵ Ysgrifennwyd hyn mewn pensil. Ailgopiwyd hyn mewn inc ar ymyl y ddalen, yn llaw Moses Williams?.

⁵⁶⁶ Ysgrifennwyd 'tref gyfrif' mewn pensil ar ymyl y ddalen.

⁵⁶⁷ ar llsgr.

§797. Ac yno ny thal y meibyon abediw eu tat y gyt, namyn yr ieuaf a'e tal, canys arnaw ef y gorfydd aros angeu y dat a'y diryaw, a'r llail nys haroant o bydd iddun o dda y galloent ardrethu tir, ac am hynny, ni ddylyant talu abediw eu tat mwy noc arall.

§798. Ny ddyly neb o dir cyfrif fynet o'e dyddyn, o cheiff o dir yn y dref a wasnaetho yr hawlwr yn dda o digawn.

§799. Ny ddyly neb dalu ebediw, na brawt, nac ewythy, o dir cyfrif eithyr am a . . . l . . . os myn ef t[a]l[u] abediw; ac nys tal neb, ony bydd mab y'r dyn e hun.

§800. Ny ellir holi tir cyfrif eithyr pan fo gwac.

§801. Ny ddyly neb tir cyfrif o'r dref y'r llall.

[Oedau cyfreithiol]

§802. Tri amser y bydd cayat cyfreith am dir⁵⁶⁸ a dayar y'w holi: y gwanwyn a'r cynhayaf, yr amseroedd y dyweit cyfreith, a'r dyddyeu dyddon.

§803. Ny ddlyir ateb am dir yr amser hwnnw, ony bydd un o'r tri thir nyt rheit aros yr amser rhydd: tir eglwys, a therfyn, a thir rhwng ampridawr a phridawr; o bydd yr ampridawr yn attal tir rhacddaw, a hefyt o'r can mlynedd arall allan, nyt rheit y neb ateb y'w gilydd am dir a dayar, can cayws cyfreith rhyngthunt, ony bydd gwneuthur un o dri thwryf cyfreithyawl: a[e] lladd cel[e]in, ae llosgi ty, ae torri aradyr.

§804. Ae cyfreithyol y twryf llosgi ty, neu ladd celein, a chyfreith yn cospi neb a'e gwnef os addef? Nac ef, cany bo cyfreithyawl lladd celein. O lladd dyn hagen gelein, ef a aill y dydd a ddaw pan ddywetter gayu cyfreith am dir, ac na ddlyer ateb iddaw o'e dir, dwyn ar gof ladd celein ohonaw, neu losgi ty, neu dorri

aradyr, yn lluddyas meddyant y'r llall ar y tir; a gwneuthur yawn ohonaw am hynny y arglwydd a chenedyl, a hynny a saif iddaw mal yn dystyolaeth rhac cayu cyfreith rhyngthaw a'y ddlyet; o cheiff braw drwy arglwydd, neu drwy neb a'e gweles, neu drwy gof llys neu wlat.

§805. Nyt rheit amser y rannu tir rh6ng cytiryogyon a ddlyoent y rannu, o byddant duhun wynt.

§806. Os tai a fydd ar dir a ranner, ac na fynner eu rhannu, y [t. 134] neb bieuffo y tei a eill fynet ymeith a'e dei heb gannyat perchennoc y tir; torrer y pyst a'r ceibreu yn ogyfuch a'r ddayar, ac aed ymeith a'e dy, onys lluddir a chroes. Os croes a roddir, cyrchet ynteu y gyfreith; a'r gyfreith a farn iddaw gychwyn a'e dy ymeith, am na thorro y ddayar nyt eiddaw; neu gwynet am gam groes yn llyn, canys cam yw croes ny bo gwaeth⁵⁶⁹ dim yrddi, cany bydd gwaeth y tir yr dwyn y ty drostaw, am na lycrer na'r yt, na'r gweir, na chlawdd.

§807. . . . nith . . . neb dragwyddoli tir eithyr o ganyat y neb a'e dlye . . . , na'e roi yn waettir, ac os rydd ardy . . .

[hiatus]⁵⁷⁰

§808. . . . mynec[i] iddaw fot yn wir ar y gytleidyr hynn a ddywetto o ledrat, ac ny cheiff oet bellach am y lw no hynny.

§809. Mach am y fechni a dyng,⁵⁷¹ [t. 135] os ameuir may yawn⁵⁷² y etfryt; mach hagen a geiff oet tri dieu y ymgoffau ay mach, ay nyt mach; ac ot addef y fot yn fach, oet pythefnos a gaiff y baratoi tal, os e hun a'e tal.

⁵⁶⁸ + a dir llsg.

⁵⁶⁹ gwaeth llsg. Ychwanegwyd 'i' uwchben yr 'e'. gwaeth Pen 164.

⁵⁷⁰ Oddeutu 18 llinell.

⁵⁷¹ + a dyng llsg.

⁵⁷² yawwn llsg.

§810. Ynat a geiff oet .ix. dieu y ymgoffau am y frawt, o bydd pedrus gantaw y bwy barnawdd hi.

§811. Nys ceiff na morwyn, na lleidyr, nac abat, na bugeil [oet]; nac effeiryat bellach no hyt yny allo trannoeth ganu offeren yn y wisc.

§812. Llyma fessur trefgordd cyfreithiawl: naw tei, ac un aradyr, ac un odyr, ac un gordd, ac un gath, ac un ceilyawc, ac un tarw, ac un bugeil.

[Tystiolaeth]

§813. May llawer hefyd o ddynon y dlyir credu eu tystiolaeth eu huneyn.

§814. Rhoddyat, am y rodd ot ymryssonir: ‘Y mi y roddet,’ heb yr un. ‘Nac ef,’ heb y llall, ‘y my y roddet.’ Ympenn y rhoddyat y bydd yna y bwy y rhoddes ef; am hynny y dywedir: ‘Nyt oes o rodd onyt gan fodd.’

§815. Deylyat ysgrybyl ar yt, ot amheuir pa le y cat wynt; ynteu a ddyly tyngu oddiw[es] olryeit a bleynyeit yr ysgrybyl ar yr yt, a’y lw ef a gredir yna.

§816. Edling, pan holer amobyr y forwyn a ddywetto ar wr dwyn treis arni, a chaffel y gwr yn wirion: ‘Dyoer,’ heb y wreic, ‘ony ddugost di dreis y arnaf inneu morwyn wyf i etton, ac ny ddlyir amobyr ym.’ Yna y dylly yr edling fynet y’w phrofi, a’e tharaw a chaly; ac os ef a’e ceiff yn forwyn, bit forwyn hitheu yr hynny etton, heb golli breint y morwyndawt. O bydd hitheu wreic o’r blaen, talet amobyr dros yr echos cyntaf; ac nys tal dros y cyt a’r edling: a llyna yr edling yn dafodyawc.

§817. Gwreic, rhwng y deu fab a aner yn un torllwyth o . . . yn . . . pwy hynaf, pwy ieuaf i geissyaw y tyddyn breinyawl os gwy[r] . . .

- §818. [t.136] Morwyn hefyt a ddyco gwr l[l]athlut a chyn cysgu genti, gofyn ohoni y'r gwr: 'Peth a roddi di y mi?', a henwy o'r gwr peth a meynyoli y rhodd, a chymryt cret ohoney hitheu ar hynny; o cheis ef anwadolu wedy hynny, nys dichon; canys geir yw y geir yn y lle honno am y gweryfdawt, a chael hynny ohoney yn forwyn gynt.
- §819. Esgussodwr a dyngo y greir yn cyfreithyawl a ddlyir credu y lw e hun, os arglwydd a ganhyatta.
- §820. Rhaclaw⁵⁷³ a gaffo dogyn fanac ar ddyn am ledrat, ny ellir gwat yn y erbyn, a geir fydd y eir yna, ac nyt rheit iddaw dyngu.
- §821. Amodwr am yr amot ot addefir ef; sef yw amodwr, edfrydwr ar yr amot mal ar dir a daear, neu ar beth marw angychwynnawl ar fwynyant llwdyn, neu ar loc tei, neu ar wastafot gwas, neu weinidoc.
- §822. A dyn yn damdwng y dda ar y lw, onys difarna ceitweit ef.
- §823. A dyn yn addef drwc.

[Am arddychafael]

- §824. Beth yw galanas breyr⁵⁷⁴ diswydd? Ae chwe byw a chweugein muw? Chweugein muw yw yr alanas, a'r chwe buw yw yr sarhaet celein.
- §825. A thrugein muw yw galanas taeoc brenhin: a their byw yw sarhaet⁵⁷⁵ celein taeoc.

⁵⁷³ Ailadroddir 'rhaglaw' mewn pensil ar ymyl y ddalen.

⁵⁷⁴ Ailadroddir y gair breyr mewn pensil ar ymyl y ddalen. Ymddengys y gair dyrchafel hefyd ar ymyl y ddalen.

⁵⁷⁵ Ychwanegwyd y dair llythyren olaf uwchben gair gyda marc *caret*.

§826-7. Pa ddelw y dyrchefir ar alanas y neb y bo dyrchafel ar y alanas neu sarhaet?

Llyma pa ddelw y dyrchefir: hanner chweugein muw, sef yw hynny, trygeinmuw, rhanu hynny yn ddeu hanner, sef yw hynny .xxx. muw ympob rhann. Rhannu y deng muw ar ugeint yn ddeu hanner, sef bydd pymtheng ar bob rhann. Llyna rannu deir gweith y chweugein muw. Cymer bellach hanner y chwe buw sarhaed, unweith a dyro ar warthaf y pymthec, sef fydd hynny deunaw muw. Cymer dryderan y deunaw muw, sef fydd hynny, [t. 137] chwe buw, gwasc hynny bellach gyt a'r chweugein muw, sef yw hynny, chweugein muw a chwe buw. Y chwe buw yw sarhaet celein, cany leddir neb heb y sarhau o'r blaen.

§828. Y wreic briawt o byd y'r neb a ladder, a geiff traean y chwe buw, a'r llall a geiff y genedyl, mal y caffat yr alanas.

§829. Mal y dyrchafwyt galanas breyr diswydd y dyrchefir galanas pencenedyl a'y alodeu, ar rai y bo .ix. ugein muw a naw muw y galanas; a galanas taeoc brenin; a phawb a gaffo dyrchafel ar alanas.

§830. Pa ddelw y dyrchefir sarhaedeu breyr heb swydd, a breyr a swydd, neu daeoc? Yr aryant a daler gyt a'r gwarthec yw y dyrchafel ar y sarhadeu.

§831. A ellir talu galanas o aryant oll? Gellir.

Teithi ceitwait⁵⁷⁶

§832. Teithi ceitwat yw tyngu bot yn eiddaw y dyn a'e galwo yn geitwat y da, ac na wahanws ac ef egyptoet o ffordd o'r byt or y gwahenir da a dyn, ac felly cadw gan y dyn y dda, ac ny yrr ef ddrwc ar neb, am hynny na lyssir ef mal gwybyddiat.

⁵⁷⁶ Teithi ceitwait - llsgr, - Llan 121, + Pen 164.

- §833. Llyna yr amser y ceffir anaddfwynaw ceitwat os o'e fot yn alltut yr anaddfwynir ef, gwedy darffo y ddangos yn y maes, cynn y greirhaw uch ben y dygyn a dywedyt y ewylllys: 'Dyoer,' heb yr hawlwr neu y dafawt drostaw, 'alltut wyt ti; ac o gwedy di hynny, may ym ddigawn a'e gwyr dy fot felly; ac ar cyfreith y rhoddaf⁵⁷⁷ nat geir, geir alltut ar Gymro o fewn Cymru na'y therfynau.'
- §834. Yna y dyly y ceitwat e hun, neu y dafawt drostaw, ddywedut un o'r tri arddelw cyfreithyawl: ae arddelw o freint; ae gwadu alltudyath yr hynny; ay doddi ar cyfreith, y dyly ef henwi y bwy y dyweit ef y fot yn alltut; ac yr hynny [t. 138] hefyt gwadu alltudyath.
- §835. Os o freint yr ymarddelw ef, dywedet y fot yn wr breynyoc, a digawn a gatwo o geitweit deddfawl y freint ganthaw; a'r ceitweyt hynny, hagen ony byddant yn y maes, ny ddylyr oet wrthunt o cyfreith, o gwyddant⁵⁷⁸ wynteu.
- §836. Yna y dyly yr hawlwr doddi ar cyfreith, a dyly ef a henwi y⁵⁷⁹ breint a gatwo, canys llawer amryw freint y sydd: ay breint tir mal breyr, priodawr; ae breint heb dir, megys breynt swydd; ae breint heb dir ann am wf,⁵⁸⁰ heb swydd, mal gwr cymeredic neu oddefedic o genedyl heb gynwys.
- §837. Yna y dyly ef henwi y breint a gatwo, ac ony bydd yn y law y breint a henwo, dodet yr hawlwr ympen yr arglwydd nat ydyw y breint hwnnw yn y law; ac na cheidw gwaclaw o cyfreith; ac nat breint ef pryt na bo yn y law.
- §838. O phalla yr arglwydd iddaw, pallws y amddiffyn yddaw; canyt oes freint heb estyn.

⁵⁷⁷ rhodd llsgr., rođaf Llan 121, rhoddyf Pen 164.

⁵⁷⁸ guddant llsgr.

⁵⁷⁹ ar . . . y - llsgr., + Llan 121.

⁵⁸⁰ ann am wf llsgr. Sic llsgr.

§839. O phalla y ceitweit hefyt iddaw, pallus y amddiffyn, ac ny ellir ceitwat ohonaw; canys alltut cyfaddef yw; ac felly yr anaddfwynir y ceitweit hynny a'r rhei cyntaf a henwyt.

§840. Os o wadu alltudaeth yr ymarddelw y ceitwat heb ddim amgen, yawn yw gwrandaw praw yr hawlwr yna, o byddant yn y maes; ony byddant, ny cheffir oet wrthunt. Ac o mynn y ceitwat lyssu y praw hwnnw, fal hyn y dyly y lyssu o cyfreith. Gwedy darffo y'r gwybyddiat cyntaf tyngu gwybot a gwelet yr all[tu]dyaeth arnaw, fal y dyly gwybyddiat y dyngu, yna y dyly yr alltut dywedyt: 'Llyssyant cyfreithiawl y sydd gennyf i arnat, fal nat geir dy eir di arnaf i; or gwedy hynny, may ym ddigawn a'e gwyr.' O gwatta tyst yr hawlwr hynny, neu o dafawt drostaw, mwynhaer gwybyddiat y ceitwat. Os tyst yr hawlwr, neu y dafawt drostaw, a [t. 139] rydd ar cyfreith y dyly ef henwi y llyssyant, ef a ddyly henwi y llyssyant; ac nyt rheit gwadu llyssyant⁵⁸¹ ny henwer, nac ancyfreith ny henwer, na hawl or byt heb henwi. Sef yw llyssyanneu cyfreithyawl: galanas heb ymddifwyn y genedyl; dirdra heb ddosparth amdanei; a henwi yr alanas a'r dirdra, a pha le y may; ac os yr arglwydd a saif ar fot dosparth am bob un ohonunt, nyt llyssyant hi; a gwreictra hefyt, a honno hefyt sydd reit y henwi, ac nyt llyssyant gwreictra, onyt o ddwyn y wreic y dreis arnaw, a bot yn arfer ohonei yr amser y bo y dystyolaeth ar cyfreith.

§841. Ac felly y dylir cymryt gwybyddyaeth pob un a'y golyd yny ballo y un, a'r hwn a ballo yddaw y wybyddyeit a ddifernir o'r ymrysson am y ceitweit.

§842. Ac wedy darffo y'r ceitwat hwnnw tyngu, cymryt un arall ar neilltu, a thraethu hwnnw fal y llall, ac felly o un i un hyt yr olaf; a hwn a ballo iddaw y geitwat a ddifernir. Ac yn lle caffer dau wybyddiat, dilyssyant digawn yw; onyt hynn a dderfydd addaw rhyfedi o wybyddyeit heb ddywedut a fo digawn o hynny; ot

⁵⁸¹ llyssyllyssyant llgr.

eddeu ynteu rifedi ony ddyweit a fo digawn, o phalla un, palledic⁵⁸² fydd cwbyl o'r dadyl.

§843. A'r cyfreith honno yn dwyn gwybyddyeit a aill parhau o'r pryt bwygilydd, ac ny aill parhau hwy no hynny y neb y ddwyn gwybyddyeit; ac o phery y cyfreith yn cyhyt a hynny heb difarnu yr un, yr hawlwr a ddifernir.

§844. Pwy bynnac a lyssa tyst, neu wybyddyat, cynn gwybot beth a ddywetto, a thynghu a ddywetto, ny ellir llyssyant arnaw y dydd hwnnw yn y dadyl y dycer ef.

§845. Os y ceitwat bellach a rydd ar cyfreith y ddyly yr hawlwr henwi y bwy y may ef yn gyrru y fot yn alltut, a gwadu alltudyath hefyt, yawn [t. 140] yw hynny; ac o bydd y dyn hwnnw yn y maes, ac ymwadu ac ef nat alltut iddaw ef yw, anolo yw gwybyddyeit yr hawlwr yna; cany ddyly neb ddwyn da y arall lle yr ymwrthotto ac ef e hun.

§846. Os ynteu ny bydd yn y maes, ny ddylir oet wrthaw; ac eissyoes cynn boet yn y mays, a dywedut ohonaw y fot ef yn alltut iddaw ef, ny ddygir y wat y gan y ceitwat, na'y braw y gan yr hawlwr, ony bydd doddi arddelw yn y benn nat alltut iddaw yw, a phallu ohonaw ynteu iddaw.

§847. Os yr hawlwr a fyn anadd[f]wynaw ceitwat, o'e fot yn un o'r tri dyn nyt geir y geir, fal hyn y dyly, wedy yr henwer ef, ac y dangos, cyn gwybot peth a ddywetto y dyly yr hawlwr dywedut: 'Nyt geir dy eir di arnaf i, nac ar neb, beth bynnac a ddywettych, na drwc na da,' ac yna y dylu ef henwi un o'r tri hynn, 'ac o gwedi dy hynn, y may digawn a'y gwyr.' Yna y dyly y ceitwat dywedut: 'Cwbyl wat yt erbyn di ac yn erbyn dy wybot nat wyf i felly.' Yna y dyly yr ynat ofyn y'r hawlwr: 'Pwy dy wybyddyeit, a pha le y maynt;' ac ny ddylir oet wrthynt, ony byddant yn y mays. O byddant, wynteu ef a ddylir y henwi a'y dangos; ac os llwfyf cynefodic y gyrr ef y fot, y gwybyddyat a ddyly tyngu

⁵⁸² palled llsgr., paledic Llan 121, palledic Pen 164.

arnaw gwybot a gwelet nacau ohonaw y arglwydd a'y gytymdeithyon o fynet gyt a'y arglwydd y'w wassanaeth teir gweith, ac ynteu aill lyssu y rhei hynny fal y dywetpwyd, a'y gospi am hynny. Ac os torri y broffes a yr[r] ef ar y cetweit, rheit yw dwyn gwybyddyeit a dyngo gwybot a gwelet arnaw rodidi y broffes ohonaw a'y thorri, ac ynteu a eill y llyssu wynt fal y lleill. Ac os o gam dystyolaeth y gyrr ef, tynget gwybot a gwelet arnaw dwyn cam dystyolaeth, a thyngu anudon y greir, a chymryt y benyt am [t. 141] hynny; ac ynteu a aill y llyssu wynt fal y clowsoch fry: eithyr na phery yr ymrysson hwn am ymlyssu hwy no'r pryt bwy gilydd.

§848. O derfydd yna y gyngaws yr amddiffynnwr pan anaddfwyner y ceitwat hwnnw o ddwyn ohonaw gam dystyolaeth a thyngu anudon cyhoedd[awc] a dywedut fal hynn: 'Dyoer,' heb [ef], 'y'r ynat a'r gwyrda yr tystyaf i, nat ydiw y gwr hwn a ddywedy di y fot yn wybyddyat,' a'y henwi, 'yn gwneuthur teithi'⁵⁸³ gwybyddyat cyfreithyawl, sef yw hynny, tyngu arnaw gwybot a gwelet dwyn cam dystyolaeth yn y lle a'r lle, a thyngu anudon, a'y welet yn cymryt y benyt am hynny ar gyhoedd; a channy wnaeth ynteu teithi gwybyddyat, nat gwybyddyat ynteu; ac am nat gwybyddyat ef ar yr anaddfwydra a roddeist yn y erbyn, y fot ynteu yn adfwyn ac yn eir y eir, ac y dylyir cymryt y dystyolaeth yn lle ceitwat a'y deithi. A chyt a hynny hefyd llyssyant cyfreithyawl y sydd rhwng y ceitwat hwn,' a'y henwi, 'a'r hwnn ydd wyt ti yn y ddwyn yn wybyddyat ar anadd[f]wyndra ar y ceitwat, hyt na ddylyer y gredu,' a henwi un o'r tri llyssyant cyfreithyawl yna, 'a galw ydwyf am fwynhaw fy ngwybyddyeit o cyfreith.'

§849. Yna y dyly yr ynat fynet allan, ac anfon rhei y gyfarch y ceitwat a'y dafawt, can cigleu deu amdiffyn ganthaw: un o dystyaw y'r ynat a'r gwyrda pallu ohonaw o deithi gwybyddyat gwybot a gwelet arnaw dwyn cam dystyolaeth, a'y welet yn cymryt y benyt; yr eil, o henwi llyssyant cyfreithyawl yn erbyn y gwybyddyat; a gofyn iddaw, y bwy y may arddelw, a pha un a fydd y fwynhau [o]honunt.

[Perchenogaeth]

- §850. Llyma y ffyrdd y daw dyn yn cyfreithyawl y dda, ac y cyngain [t. 142] yddaw y gadw ganthaw yn gyfreithiawl, a bot yn wir perchennoc arnaw.
- §851. Cyntaf yw, os anifeil fydd, cadw geni a meithrin yr anifeil; sef mal y ceidw, bot yn eiddaw y fam, a phrofi gwybot y eni a gwelet y feithrin ar helw, heb fynet y wrthaw o'e feddyant teirnos, drwy ddigawn o wyr addfwyn.
- §852. Eil yw dywedut dyfot y da hwn iddaw gan arall y ffordd cyfreithyawl, or y gallo y brofi, a bot iddaw arwayssaf; os hwnnw a'e cymer o'e law, hynny a'e differ ef rhac angcyfreith.
- §853. Trydydd ffordd, cadw cyn coll mal y dyweit cyfreith.
- §854. Pedwaredd ffordd, dywedut y brynnu gann arall, neu y gyfnewidyaw ac arall, a bot meicheu sefydloc ar hynny; digawn yw hynny, os gan y perchennoc y bydd y meicheu, ony wedir nat meicheu wynt: canyt cyfnewyt heb fach. Sef paham y mae da fot y meicheu, neu fruduw, neu amotwyr, gan y perchennoc, rhac ceysyaw y atwyn drachefyn am na roet mach ar ddilysrwydd y da. Ofer hagen yw⁵⁸⁴ y amperchennoc roi mach ar ddilysrwydd da mal na allo y berchennoc y holi lle gwelo, canys y perchennoc a'e dwc drachefyn y gyfnewit honno.
- §855. Pumet yw y roi o arall a allo . . . y da, y da hwn y'r neb y may yn y warchadw a'y feddyant yr ystalym o amser yn ddigyffro, a meicheu addwyn sefydloc arnaw; hynny a seif y'r gwarcheitwat rhac y dyn a'e⁵⁸⁵ rhoes, a rhac pawb o bydd dilys y rhodd, ony bydd lledrat y da.

⁵⁸³ Ychwanegwyd y gair uwchben y frawddeg gyda marc *caret*.

⁵⁸⁴ yw – llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁵⁸⁵ a llsg., ae Llan 121, ae Pen 164.

- §856. Chwechet yw y ddyfot y'r dyn y da o gymynn gan arall a allo cymynnu y da a'e brofi.
- §857. Seithfet yw dywedut dyfot y da hwnn o rannu ohonaw a'e alltut⁵⁸⁶ pan edewis y alltudyaeth, a phrofi hynny.
- §858. Wythfet yw, os cig fydd, dywedut mae chwarthawr tir . . . a gafas ar y dir yn cyfreithyawl.
- §859. Nawfet, [t. 143] dywedut may un o'r tri buddlam treftadawc yw, a'e dyfot yn cyfreithyawl iddaw.
- §860. Decfet, dywedut o'r dyn, may y da gantaw may o wystyl, neu atafel, a gymyrth ar oet digwydd y mae y da, a'e gynmuc yn cyfreithyawl y'w berchennoc a'e wrthot ohonaw, a phrofi hynn; neu o wystyl am lwgyr yt; neu o afel⁵⁸⁷ ny ddlyir y gollwng am ledrat neu alanas. A chyt boet tebic y rei yma o beth gwystyl ac atafel, mae amrafel ddyall ar bob un. Gwystylos⁵⁸⁸ fydd o ddyw byw a rodder yn gwystyl ae am dir, ae am fodd brenin . . . a gweles y feithrin ay gwyr y eni . . .⁵⁸⁹

A oes diffic &c⁵⁹⁰

- §861. Fal⁵⁹¹ llyma mal y llyssir gwybyddyat: y neb a honno gwybyddyat yn y dadleu y mwynheir hwynt, perchennoc yr hawl a ddyly tyngu o'r blayn bot yn wir fessur y hawl; a lle perthyno adaw praw, dywedet bot iddaw digawn a'y gwyr os amheuir, ac o bydd yn y lle yr tyst, y ddangos, ac yn[a] creirhaer ef; ac na lysser ef yn y ddarffo y'r tyst dyngu yr hynn a ddotter arnaw, a dwyn y dystyolaeth y'r dygyn.

⁵⁸⁶ o wn t llsg, sic Llan 121, alltut Pen 164.

⁵⁸⁷ Yn y testun ceir aḡel. Ysgrifennwyd afel ar ymyl y ddalen mewn pensil.

⁵⁸⁸ gwystyl llsg., gwystyl Llan 121, gwystyl Pen 164.

⁵⁸⁹ a gweles . . . eni - llsg., - Llan 121, + Pen 164.

⁵⁹⁰ a . . . &c - llsg., + Llan 121.

- §862. Yna cymeret y neb a'e llyssu y creir yn y law a dywedet yn grym y lw wedy dyngu lyssyant cyfreithyawl ar y gwybyddiat, neu ar y tyst: 'Ac ny elli di bot yn wybyddiat arnaf;' a henwet echos cyfreithiawl, sef yw y rhei hynny, llyssyanneu y llyssir tyst, neu wybyddiat.
- §863. Os ef a lyssa gwybyddiat cyn tyngu, ofer yw y llyssyant, ac ef a gyll y dadyl y bo llyssyant amdanaw, canys:
- §864. Tri ofer ymadrawdd a ddywedir mewn gorsedd: llys cyn amser, .i. llyssu cyn tyngu; a gwat cyn deffryt, sef yw hynny, gwadu o'r mach peth cyn deffryt o'r mach, o bydd cyfaddef; a chynghesuseth wedy brawt, cany ellir yna eithyr ymwystlaw am y farn.
- §865. Pwybynnac addawo [t. 144] a fo digawn o cyfreith o wybyddyeit neu dystyon, a llyssu rhei, a sefyll ereill; o seif deu, digaw[n] yw hynny, o byddant sefydloc, cyt boet goreu po mwyaf a safo; ac felly y dylir am reith, dwyn mwy nac⁵⁹² a farno cyfreith, rhac llyssu rhei.
- §866. Ot edyf dyn dystyon, neu wybyddyeit, neu geitweit, a'e henwi fal hynn: Ieuan a Dafydd; a phan ddel y'w dwyn doddi Dafydd ymlaen Ieuan, ofer yw y dystyolaeth; cany wnaeth a henwis gyntaf ac eddewis: canys dyllet ar bawb a addawo⁵⁹³ ar yawn.
- §867. Os ynteu a eddyf tystyon, heb y henwi, hyt yn oet deu, cyt boet goreu po mwyaf o rei da, pa rai bynnac o rei addfwyn a ddyco o'r blayn, nyt godor arnaw.
- §868. Ot edyf hefyt mwy o wybyddyeit noc a ddyco, palledic fydd o'e hawl.

⁵⁹¹ Copiwyd y briflythyren F ddwywaith mewn pensil.

⁵⁹² noc llsg.

⁵⁹³ addaw llsg., adawo Llan 121, addawo Pen 164.

- §869. Ot eddyf dyn o wybyddyeit, neu dystyon, neu geitweit, mwy o rifedi no'r llall a fo yn y erbyn; neu rei uch y breint, neu addfwynach; nyt digawn iddaw ddyfot a chystal⁵⁹⁴ a'r llall, can eddewis mwy no gwell: nyt godor addaw fwy no chyfreith.
- §870. Os cystal fydd y gwybyddyeit a addawer cyfreith, cyhydedd fydd yr ymrysson.
- §871. Ot eddyf dyn dystyon neu wybyddyeit ac na boent yn y maes ac na byddoent yn un cymwt, oet tridieu a gaffan[er] y'w dwyn. Os yn y cymwt arall, oet naw dieu a gaffant y'w dwyn. Os yn lle bo llanw a thrai rhyngthunt, oet pethefnos o drannoeth; cany ddylyir rhifaw hanner dydd yn lle cwbyl, am na bo y dydd hwnnw na dydd Sul na ddydd Llun, cany ddylyir eiste ynghyfreith y dyddyeu hynny: a llyna yr oet hwyaf o gyfreith.
- §872. Ceitweit ar dir a fydd aminyogeu tir a daear, sef yw y rhei hynny, gwyr a fo y tir yn cyfwrdd a'r dref y bo y tir ynddaw, neu a'r tir.
- §873. Ceitwat a ddyly bot yn freinyawc ac yn addfwyn;⁵⁹⁵ a chany [t. 145] bo nac add[f]wyn na breinyawl y dyn bieffo yr hawl, ef a ddyly y ceitweit fot yn addfwyn ac yn freinyawl.
- §874. Ot eddyf dwy bleit geitweit, neu wybyddyeit, neu dystyon, y lluosocaf a breinyolaf a goreu y geitweit a saif.
- §875. Ot eddyf dwy bleit geitweit, yr hwn a fo yn gwarchadw y hawl a fwynheir yn gyntaf, canys tegach yw y'r gwarcheitwat gadw y ha6l noc y waclaw; echos yw, ny yr[r] ceitwat ddrwc ar neb, namyn cadw gan bawb yr eiddaw.
- §876. Ot ymrafaylya ceitweit ar y parableu, nyt grym yw tystiolaeth.

⁵⁹⁴ + a chystal llgr.

⁵⁹⁵ Ychwanegwyd y llythyren 'f' uwchben y gair gyda marc *caret*.

- §877. Ot edyf dyn⁵⁹⁶ dystyon, neu wybyddeit, neu geitweit, erbyn eu henweu, nyt esgussot drostynt yn dydd colli caffael, na heint, na dim a allo fot; na tros neb yn y dydd hwnnw.
- §878. Ot edyf dyn cymeint⁵⁹⁷ ac arall o wybyddeit, nyt rheit yddaw eithyr hynny, os myn.
- §879. Ny[t] tystiolaeth, tystiolaeth un dyn y geissyaw messur hawl o gyfreith: eithyr un o'r naw nyn.
- §880. Llŵ tyst a'e deithi yw ardystu iddaw hynn a rodder yn y ben, ac nyt yr cas y may'n dwyn tystiolaeth.
- §881. Anudonol cyfaddef a dalo wedy hawlwr,⁵⁹⁸ ny ddiffer neb a'e lw o cyfreith . . . ; canys llyssyant yw arnaw o gyrrawdd drwg arnaw yn gyhoedd o'r blaen.
- §882. Hynn o ddynyon ny ddylyir credu eu tystiolaeth, ac ny chant bot yn dystyon: mut, cany ellir tystiolaeth eithyr ar eir a gweithret; caeth; byddar; ynfyt canhwynawl a aner felly; a rhuthrawc ar bob lloer, o thric yn hir felly; ieu no phedeir blwydd ar ddec; haelbyrrllofyawc, canys chwant da a fydd arnaw; dyn a⁵⁹⁹ dyngo anudon cyhoeddawc a'e brofi arnaw; a dyn a dorro y briodas a'e gospi am hynny; a bradwr arglwydd; a dyn a laddo y dat neu fam, [t. 146] canys ysgymu[n] yw hwnnw; dyn a lycro yawn fwnei, neu a wnel cam fwnei; dyn a ddyco da eglwyssic yn lledrat, canys symonia yw; neu leidyf cyhoeddawc; a'r dynnyon nyt geir eu geir; ac alltud ar Gymro; dyn a farno cam frawt yn erbyn y gytwybot; dyn a gytyo a gwr, neu ac anifeil, canys pechot yn erbyn natur yw; dyn a ddyco cam dystiolaeth, gan y wybot y fot yn gam.

⁵⁹⁶ Ychwanegwyd y gair uwchben y frawddeg gyda marc *caret*.

⁵⁹⁷ cym cymeint llsg.

⁵⁹⁸ halawlw llsg.

⁵⁹⁹ dyn a – llsg., + Llan 121.

[Am wybyddiad]

§883. Teithi gwybyddiat yw tyngu gwybot a gwelet cymeint a rodder yn y benn a grym yr hawl.

§884. Llyssyanneu ar wybydyat: gwreictra, a dirdra, a galanastra heb ymddifwyn, a'e fot yn ddall, neu yn fyddar, neu yn lei no phedeir ar dec oet.

§885. Amser y dylir llyssu gwybyddiat a thyst, gwedy darffo iddaw dyngu a dywedut y ewyllys; yna gwrthdynget ynteu arnaw, a rhoddet llyssyanneu yn y erbyn; a phrofet wynt drwy wybyddyeit, lle perthyno hynny; a difwynet y llall wynt os dichawn, onys dichawn, safent idda6.

§886. Rheithiwr not a ddyly tyngu bot yn wir ac yn lan llw y neb y tyngo drostaw; ac o phalla un, palledic fydd cwbyl o'r rheith o reith not a henwer.

§887. Nyt oes lys ar reithywr ny bo . . . oet . . .

§888. Rheithywr cyffredin a ddyly tyngu llw cyffredin;⁶⁰⁰ yn ol y deuparth y credir.

§889. Llw llofrydd yw gwadu anghyfreith cyt a'y gyrrer arnaw.

§890. Pob dyn a ddyly talu y reith lle bo y fara offeren a dwfyr swyn, eithr un . . . genit . . . yn . . . y b[en] . . .

§891. Bonheddic diatlam a dal y reith yn y plwyf y goddiwedder arnaw anghyfreith.

Am yr affeithyoedd a chospeu galanas, a lladrat, a llosc⁶⁰¹

⁶⁰⁰ a . . . cyffredin – llsgr., + Llan 121.

⁶⁰¹ Am . . . llosc – llsgr., - Llan 121, + Pen 164.

- §892. Naw affeith⁶⁰² galanas y sydd: [t. 147] am y teir cyntaf ot addefir, neu ballu rheith, teir punt y'r arglwydd. Sef paham hynny? Am fot yn echos yr affeithyeu y ladd dyn, ac am y lleill felly, ot addefir wynt. Os gwedir yr un o'r teir cyntaf, llw canwr a'e gwata; ac felly am bob un o'r affeithieu o freint yr alanas, gwaet, a gweli, a choet, a maes, ac yr hynny naw ugeint a ddaw y'r arglwydd. Am y teir perfedd, llw deu canwr a'e gwatta, a deu .ix. ugeint y'r arglwydd. Am y teir olaf, llw try chan wr a'y gwatta, a thri naw ugein y'r arglwydd.
- §893. Paham y telir y da a'r gwat? Ny thelir yn un lle, eithyr am yr alanas affeithyoedd, rhac trymet yr alanas a'r hort am ladd dyn; ac am welet lladd⁶⁰³ dyn heb i ddiffryt.
- §894. Paham y telir y gwat gyt a'r da hefyd? Y wadu gwaet a gweli, a choet a maes, ac unolyaeth: y llweu⁶⁰⁴ a delir y'r genedyl, a'r da y'r arglwydd oll am adu gwat, ac hort⁶⁰⁵ a chrit.
- §895. Pwy a ddyly gyrru affeith? Dyn a allo gwyno rhac y llofrudd, a'e fot cyn nesses ac y dlyei gymryt yawn dros y gar a'e wneuthur.
- §896. Pa ddelw y gyrr ef affeith? Fal y gyrru alanas y greir deir gweith drwy holi yn cyfreithiawl.
- §897. Peth a gaiff y cwynwr yr cwynaw affeith a gwrddw?⁶⁰⁶ Llw y affeithywr nat ymgymysgws yngwaet y gar, ac na wnaeth na mefyl, nac amarch, nac iddaw, nac y'w genedyl.
- §898. Peth o phalla y rheith, a gaiff ef yawn o'r byt? Ny cheiff ef yawn sarhaet, eithyr y neb a sarhaer, eithyr lle caffer sarhaet⁶⁰⁷ celein.

⁶⁰² affaeith llsg.

⁶⁰³ llall llsg.

⁶⁰⁴ llyeu llsg.

⁶⁰⁵ horu llsg.

⁶⁰⁶ Sic llsg: ?gweithred.

- §899. A ddyly yr arglwydd y naw ugeinyeu, o phalla y rheithieu, a'r teir punt? Dylly.
- §900. Paham? Y naw ugeinieu a ga[i]ff am adaw y reith, a'r teir punt am y pallu.
- §901. A ddyly neb holi affeith ymlaen y llawruddiaeth? Na ddyly.⁶⁰⁸
- §902. Paham? Pennaf yw y llawruddyaeth⁶⁰⁹ ar alanas, ac ny ddylir holi yr aelodeu yny gaffer y penn ar⁶¹⁰ yn gyfaddef.
- §903. A oes [t. 148] alanas heb affeith iddi? Oes: gwenwynaw dyn a'e ladd, canyt oes dimeu⁶¹¹ gwaet⁶¹² ynnddi; ac na bydd affeith lle ny bo gwaet; canys gwaet a gweli, ac am [ladd] . . . och hynny a wedir.
- §904. Mwyaf y galanasseu, deuddyblyc cosp amdanunt, a deu ddyblyc yw affeithieu.
- §905. Pwy yw y rhei hynny? Murn, . . . r . . . tagu . . . , a chynllwyn y rywle, a gwenwyn: sef yw hynny, ffyrnigrwydd, a brat arglwydd, a lladd tat a theispan [tyle].
- §906. Pwy fwyaf o'r rhei hynny? Mwyaf y wadu lladd dyn yn ffyrnic ac yn lledrat.
- §907. Peth yw hynny? Cannwr y wadu y ffyrnigrwydd, canys deu ddyblyc ynt, a canwyr y wadu lladd y dyn: eil mwyaf yw lladd.
- §908. Paham y bydd mwy rheith y wadu y teir affeith diwethaf⁶¹³ a'r rhei perfedd⁶¹⁴ no'r rei cyntaf? Llyna paham: ac bo nessaf yr affeith y'r alanas trymaf yw;

⁶⁰⁷ caraoc llsg.

⁶⁰⁸ na ddyly – llsg., + Llan 121.

⁶⁰⁹ Paham . . . llawruddyaeth – llsg., + Llan 121.

⁶¹⁰ ar llsg.

⁶¹¹ dineu llsg.

⁶¹² gwaeth llsg.

⁶¹³ diwedaf llsg.

canys mwy yw gwelet lladd dyn ac nas differ, no rho[i] cyngor y'w ladd, canys ef a allei nas lladdei dyn ef yr y gyngori, canys pawb a ddyly bot pwyll ganthaw ac atnabot cyngor da dros un drwc.

§909. Ae rheit iddaw ef yrru affeith y greir? Rheit.

§910. A ddichawn arglwydd holi affeith e hun? Na ddichawn holi dim eithyr y dda e hun⁶¹⁵ a'e arglwyddiaeth, neu le cwyrer wrthaw, neu holi ynfyt a orchmynner iddaw yn fab o lledir. Ny eill neb holi na'e alanas na'e affeith onyt arglwydd, canys arglwydd bieu a wrthoter: a chyhyryn cannastyr am y hydd e hun, canys ef a fydd, neu arall drostaw, cwynwr amdanaw.

§911. Pa ryw wyr a watta cyhyryn? Gwyr dinot ac nyt oes lys arnunt; ac ef a eill holi affeith hyt y ganfet law o chwyn e hun.

§912. Ny ddyly arglwydd affeith y neb eithyr a hanfo o'e arglwyddiaeth e hun.

§913. Paham y gyrr ynteu affeith? Yn y ewyllys y may; a ddyly [t. 149] arglwydd addf . . . d . . . b . . .

§914. Peth o lladd dyn arall mewn cyfoeth arall a'e oddiwes? Lle torro y carr cyfanner.

§915. Peth a ddyly ef cosp am waetlydu tir eithyr am beth a wneler yn y gyfoeth e hun? Na ddyly.

§916. Y wadu galanas llw dengwyr a deugeint o wyr; a thri di[o]fredoc [o] gwreic, a chig, a marchogaeth, ys saith mlynedd.

§917. Pwy a ddichawn cwynaw cwyn neu holi y gar? Car arall.

⁶¹⁴ a'r . . . perfedd – llsg., + Llan 121.

⁶¹⁵ na . . . hun – llsg., + Llan 121.

§918. Pwy sydd gar? Dyn o fewn graddeu carennydd neu yn y graddeu, sef yw hynny, o frawt hyt nei ap gorchaw.

§919. A eill tat cwynaw lladd y fab? Nac eill; nyt ydiw o fewn graddeu carennydd.

§920. Peth o gwedir y gerennydd, pwy a'y praw? Y lw e hun a'e gytcarant gyt ac ef.

§921. Paham y mae mwy rheith y wadu affeith galanas no galanas? Mwyaf y wadu galanas, canys rheit y wadu galanas wyr diofredoc, . . . a deu parth o'r cenedyl tat, a'r trayan o hwnn y fam, o priodorion gwlat; ac nyt rheit y wadu affeith eithyr gwyr mal y caffer wynt, nac o . . . barth tat na pharth mam yn . . . gyfnesseifeit hyt nei ap gorchaw, heb y traeanu.

[Naw affaith lladrad]

§922. Naw affeith lledrat y sydd. Am bob un o'r rhei hynny teir punt a ddaw y'r arglwydd os addefir; neu .xii. byw, os gwedir. Llwy [l.] wyr sydd reit y gwadu, o wyr mal y ceffer ac y wadu lledrat. Sef mal y gwedir lledrat:

§923. Y wadu dwyn ci, neu edyn, llw un dyn, ac felly lle ny bo rheith; ac felly am ellwng lleidyr, llw un dyn, os gwedir; os addefir, seith bunt.

§924. O edyn hyt anifeil bychan mal hwch, neu afyr, neu ddafat, neu lo, neu feich cefyn; y⁶¹⁶ wadu eu dwyn yn lledrat, llw pum dyn nessaf eu gwerth; sef yw hynny, cynn nasset ac y dlyoent cymeryt galanas a'e talu gyt ac ef; deu o blegyt y dat, a deu o blegyt y fam, ac e hun yn bumet. A llyna [t. 150] reith deu hanner; a'r hanner yn wyr not a'r llall yn ddinot.

§925. A ellir holi affeith o flaen llawruddyath? Na ellir; canys mwy yw y werth [na'r] affeith.

- §926. Ot derfydd dwyn ci neu edyn [taled] y'r dyn y edyn a naw ix ugein y'r arglwydd: nyt oes ledrat amdanaw.
- §927. O holir llei no gwerth ceynioc yn lledrat, os addefir, teir punt i'r arglwydd ydaw; os gwedir, rheith herwydd y bo y ledrat; o phalla rheith, teir punt.
- §928. Y wadu dwyn pwnn march, neu eidion, neu werth trugeint aryant yn lledrat, neu bum swllt⁶¹⁷ aryant,⁶¹⁸ neu bob da o drugeint hyt yn .cxx.^c, llw seith dyn nessaf, a'r hanner yn wyr not, a'r hamer yn wyr dinot.
- §929. Y wadu gwerth cxx^c, ac o cxx^c hyt ym punt; l[l]w .xii. gwyr nessaf.
- §930. Y wadu o bunt allan, neu bwn march a dalo well no phunt allan; llw pedwar gwyr ar ugeint.
- §931. Y wadu dwyn amws yn lledrat; llw pedwar gwyr ar ugeint.
- §932. Nyt a rheith yr gyrr pellach petwar gwr ar ugeint, ony bydd lliw am y lledrat; o bydd lliw hagen, llw pedwar gwyr ar ugeint o reithwyr, a llw y dyn y gyrrer amaw ac wyth wyr gyt ac ef, yn[y] fo .xxxiii. wyr, rhac cadarnet y lliw: sef mal y bydd lliw am ladrat, haeru gwelet dyn yn mynet drwy dref liw dydd a'r lledrat ganthaw, a thyngu a phrofi hynny.
- §933. Ny ddichawn gwreic wryoc ymliw am ledrat; hi a eill hagen yrru l[l]ledrat, ac yn ol hynny rheith a fydd herwydd y bo lledrat, o bydd gweddw hi.

⁶¹⁶ yw llsgr.

⁶¹⁷ Roddwyd llinell o dan bum swllt a cheir *lx^c* ar ymyl y ddalen (yn llaw Robert Vaughan).

⁶¹⁸ aryant - llsgr., + Llan 121.

- §934. Paham may mwy rheith y wadu affeith lledrat no lledrat? Am gyngh . . . lledrat am bob un o'r rhei hynny a gwyr not a wat lledrat, ac nyt rheit y wadu affeith eithyr mal y caffer.
- §935. Paham nat cymeint rheith y wadu affeith lledrat ac y wadu affeith galanas?⁶¹⁹ [t. 151] Am fot yn trymach galanas no lledrat, felly trymach gwadu affeith galanas nac affeith lledrat; [ca]nyt oes y wadu un affeith eithyr fal y caffer o'r gwyr yn freinyoc.
- §936. Oes ledrat heb affeith? Oes: dwyn ci, neu edyn; cyn dycer yn lledrat, nyt oes affeith, na chosp lledrat amdanaw.
- §937. A ellir holi affeith lledrat cynn y lledrat? Na ellir: nac un⁶²⁰ affeith cynn gwneuthur llofrudd.
- §938. Pwy ddyly gyru lledrat neu affeith? Perchennoc y da.
- §939. Pwy a gaiff yr affeit[h] gwedy y gyrrro ef? Arglwydd.
- §940. Paha[m] y gyrr ynteu? Yn y ewyllys y may hynny.
- §941. A ddichawn arglwydd gymell y affeithieu? Na ddichawn.
- §942. Peth o gyrr dyn, ny bo perchennoc da, lledrat neu affeith ar ddyn y greir deirgweith? Nyt cyfreithyawl.
- §943. . . . yn llw yr amddiffynnwr e hun y wadu; canyt gyrr cyfreithyawl namyn gyrr perchennoc da. Ynteu yr amddiffynnwr a eill y fwrw yn y gwyn os myn; canyt⁶²¹ cwyn cyfreithyawl, eithyr cwyn perchennoc y da.

⁶¹⁹ + no lledrat ac y wadu affeith lledrat ac y wadu affeith galanas llsgr.

⁶²⁰ u llsgr., un Llan 121.

⁶²¹ + canyt llsgr.